TEYRNAS Y DYN ANFEIDROL

D. W. Davies,
Llanhurst
Llechryd.

TEYRNAS Y DYN ANFEIDROL.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/bwb_KV-422-852

Yr Eiddoch,
WILLIAM a NELLIE REES.

TEYRNAS Y DYN ANFEIDROL

AGORIAD I EGLWYS PHILADELPHIA

W. REES

LLECHRYD

YSTALYFERA:

E. Rees a'i Feibion, Argraphwyr a Chyhoeddwyr

1903

RHAGYMADRODD.

Trwy dirion drugaredd y Duwdod, lleferais, yn y Tabernacl, Llechryd, bob nos Saboth yn y flwyddyn 1901, ar Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol, Eglwys Philadelphia, sef yr Eglwys sydd yn caru dyn yn y Ddynoliaeth Ddwyfol. Y llyfr hwn a gynwys tua haner yr hyn lefarwyd.

Blwyddyn yr amseroedd mwyaf enbyd oedd y flwyddyn hono—dechreu yr ugeinfed ganrif—pan oedd y deyrnas a'r eglwysi o bob enwad wedi eu llwyr feddianu gan ysbrydiaeth Babilon fawr—cariad at awdurdod er mwyn elw—fel yr unol ymwrient i oresgyn a meddianu eiddo eraill. Athrist fod Ymneillduwyr Prydain wedi cytuno, a chydweithio yn y gelanedd, pan y dylent, ac y gallent, o ran rhif a phroffes, droi y Toriaid o'u swyddi, ac felly atal pedair drygfarn drymaf daear,—rhyfel, newyn, haint, a bwystfilod y ddaear. Ni welai y deillion barnol eu bod, wrth ddystrywio dwy weriniaeth fechan, yn tynu eu ty eu hunain i lawr a'u dwylaw eu hunain. Arweinwyr y "Passive Resistance" a dystiant, y gwna mesurau addysg y llywodraeth droi plant yr enwadau i'r Eglwys a'r Babaeth, ac y daw tranc Ymneillduaeth yn mhen pum' mlynedd ar hugain. Pwy all atal deddf yr ad-daliad? "Fel y gwneuthum, felly y talodd yr Arglwydd i minau." Yr Ymneillduwyr a soddasant yn y ffos a wnaethant; "Yn y rhwyd a guddiasant, y daliwyd eu troed eu hun; adweinir yr Arglwydd wrth y farn a wna; yr anuwiol a faglwyd yn ngweithredoedd ei ddwylaw ei hun" (Salm ix, 15-16).

Y llyfr hwn sydd esiampl o ddysgedigaeth y Tabernacl, o'r dechreuad, a theyrnged o ddiolchgarwch i'r Hwn y mae ganddo agoriadau uffern a marwolaeth; ernes hefyd yw o'r ddysgeidiaeth nefol sydd i ledu trwy y byd, a thyst o ddyfodiad y Dyn Anfeidrol. "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu" (Dat. xxii, 21).

W. REES.

LLECHRYD,
AWST 20, 1903.

CYNWYSIAD.

	TUD.
Rhagymadrodd	
Agoriad i Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol	1
Agoriad i Fab y Dyn yn Nghanol yr Eglwys Newydd	10
Agoriad i Allweddau Diafol ac i Allweddau Duw ...	20
Agoriad i Bwerau y Ddau Gloi	28
Agoriad i Weinidogaeth y Gair	37
Agoriad i Lyfr y Datguddiad	48
Agoriad i'r Ail-Ddyfodiad	56
Agoriad i Lyfr Gweddi Eglwys Philadelphia	67
Agoriad i Dy Gweddi Eglwys Philadelphia	77
Agoriad i Gryfder Gweddiwyr Eglwys Philadelphia...	90
Agoriad i Ddirwest Eglwys Philadelphia	100
Agoriad i Arglwyddiaeth Mammon	113
Agoriad i Ddirgelion y Ddraig...	123
Agoriad i Ddirgelwch y Buttain Fawr	133
Agoriad i Fyd y Farn	142
Agoriad i'r Uffernoedd	154
Agoriad i'r Nefoedd	164
Agoriad i Nef y Plant	178
Agoriad i'r Adgyfodiad	190
Agoriad i'r Dyn Mawreddog	202
Agoriad i Enw Newydd yr Arglwydd fel y Jehovah...	213
Agoriad i Awr y Brofedigaeth	225
Agoriad i'r Gorthrymder Mawr Digymar a'r Waredigaeth	236
Agoriad i Gadernid Dyn y Nef a'r Ddaear Newydd ...	246
Agoriad i'r Cariad Priodasol	258
Agoriad i Gyfrinion Cymru Gynt	269
Agoriad i Greadigaeth a Llywodraeth y Dyn Anfeidrol	284
Agoriad i Jubili Fawr y Bydoedd	301
Agoriad i Adgofion a Rhagolygon	313
Agoriad i'r Agoriadau	331

AGORIAD I EGLWYS NEWYDD Y DYN ANFEIDROL.

Trwy dirion drugaredd y Dyn Anfeidrol, llefaraf bob nos Sabboth y flwyddyn hon, 1901, ar Eglwys Philadelphia a'i hagoriadau, sef yr Eglwys sydd yn caru y Dyn Anfeidrol, a phob dyn arall ynddo ac o hono. Ar y chweched dydd ar hugain o fis Chwefror, yn y flwyddyn mil wyth cant a phedwar ugain, clowyd fi o hen gapel Llechryd am bregethu y gwirionedd mewn cariad yn erbyn meddwdod a phechodau eraill y blaenoriaid a'r bobl, wedi bod yn eu plith dros bymtheg mlynedd. Ymnerthais, ac ymwrolais fwy-fwy yn yr Arglwydd i gyhoeddi Dirwest yr Ail-ddyfodiad, a datguddio annuwioldeb yr Eglwys a'r Areithfa. Trwy y Cloi, gwelais oreu a gwaethaf dynion. Y gwynt a'r tonau brofant y bad. Dyn heb fod mewn gorthrymder mawr gyda'r Gair, a dramwya trwy y byd heb adwaen dyfnder a dirgelion da na drwg y natur ddynol. Wrth ganfod y clowyr a'r cysegrysbeilwyr yn cael cefnogaeth y pwlpudau, y colegau, yr enwadau, a'r wasg, cefnais ar grefydd yr oes gyda dirmyg a dagrau, gan ysgwyd y llwch oddiwrth fy nhraed yn dystiolaeth i'w herbyn yn ol Gair yr Arglwydd: "A phwy bynag ni'ch derbynio chwi, ac ni wrandawo eich geiriau, pan ymadawoch o'r ty hwnw, neu o'r ddinas hono, ysgydwch y llwch oddiwrth eich traed. Yn wir, meddaf i chwi, esmwythach fydd i dir y Sodomiaid a'r Gomoriaid yn nydd y farn, nag i'r ddinas hono" (Math. x, 14, 15). Yr erlidiau a'm gyrasant yn fwy trylwyr o'r Fagddu fawr i'r Goleuni newydd. Ymaelodais yn yr ysbryd yn Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol, Eglwys Philadelphia, tu hwnt cyrhaedd y clowyr, yn ol Gair yr Arglwydd; "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau; canys y mae genyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy ngair, ac ni wedaist fy enw" (Dat. iii, 8). Ymgysegrais i gael fy urddo yn weinidog yn yr Eglwys hon, trwy arddodiad dwylaw y Dyn Anfeidrol, yn ngwydd angylion y drydedd nef. Bellach yr ydwyf yn etifedd, dros un-ar-hugain oed fel aelod a gweinidog newydd. Mewn gorfoledd a llawenydd y cofnodaf ychydig o'm profiad am yr etifeddiaeth nefol, trwy ddyfalu ar yr ysgrifen ganlynol:—

"Ac at angel yr Eglwys sydd yn Philadelphia, ysgrifena: Y pethau hyn y mae y Sanctaidd, y Cywir, yn eu ddywedyd, yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd, yr hwn sydd yn agoryd ac nid yw neb yn cau; ac yn cau ac nid yw neb yn agoryd. Mi a adwaen dy weithredoedd; wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau; canys y mae genyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy ngair, ac ni wedaist fy enw. Wele, mi a wnaf iddynt hwy o synagog Satan, y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt, ond dywedyd celwydd y maent; wele, gwnaf iddynt ddyfod ac addoli o flaen dy draed, a gwybod fy mod i yn dy garu di. O achos cadw o honot air fy amynedd i, minau a'th gadwaf di oddiwrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear. Wele, yr wyf yn dyfod ar frys; dal yr hyn sydd genyt, fel na ddygo neb dy goron di. Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid a efe mwyach; ac mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, Jerusalem Newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddiwrth fy Nuw i, a'm henw newydd i. Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth y mae yr Ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr Eglwysi." (Dat. iii. 7-13.) Ystyriwn:—

I. Y DYN ANFEIDROL. II. EGLWYS NEWYDD Y DYN ANFEIDROL. III. Y DYN ANFEIDROL TRWY EI EGLWYS NEWYDD A GREA FYD NEWYDD.

1. Y DYN ANFEIDROL. Yr Alpha a'r Omega, y cyntaf a'r diweddaf, y dechreu a'r diwedd yn Eglwys Philadelphia, sef yr Eglwys Newydd, yw y Dyn Anfeidrol. Prif wynfyd yr angylion yw syn-syllu yn dragwyddol arno. "Ar yr hyn bethau mae yr angylion yn chwenychu edrych." (1 Petr, i, 12). Gwybodaeth am y Dyn Anfeidrol sydd fwy ardderchog na phob gwybodaeth arall, am mai efe ei hun yw y mwyaf ardderchog. Synwn at ryfeddodau natur, at y gwyrthiau, ac at Ragluniaeth Duw, oblegyd ein dallineb i berffeithrwydd Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd. Pe yr adwaenem ef, peidiem a rhyfeddu at natur, at y gwyrthiau, ac at Ragluniaeth, ac addolem ef yn unig fel "Y Rhyfeddol." "Molant enw yr Arglwydd; ei ardderchawgrwydd ef sydd uwchlaw daear a nefoedd." (Salm cxlviii. 13.) Efe yw y mwyaf cudd a'r mwyaf cyhoedd; yr anchwiliadwy a'r dirgelwch datguddiedig. "Ni welodd neb Dduw erioed; yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef." (Ioan i. 18.) Wrth yr unig-anedig Fab y golygir yr Arglwydd o ran ei Ddynoliaeth Ddwyfol, y Dyn Anfeidrol yn y cnawd.

Wrth ddywedyd mai Dyn Anfeidrol yw Duw, y deallwn fod ganddo ewyllys a deall anfeidrol, cariad a gwirionedd anfeidrol, rhyddid a rheswm anfeidrol; ac felly, gallu, presenoldeb, gwybodaeth, a threfn anfeidrol. Perthyn iddo ef hefyd ffurf ddynol anfeidrol, a synhwyrau anfeidrol, megys llygaid a chlustiau heb fesur i'w pwerau. "Oni chlyw yr hwn a blanodd y glust? Oni wel yr hwn a luniodd y llygad?" (Salm xciv. 9.) Dyn yw Duw, oblegid ar lun a delw Duw y crewyd dyn. Ymddangosodd Duw yn ddyn trwy yr angylion i bobl foreuaf y byd, i'r patriarchiaid, i Moses, Miceah, i Esaiah, i Ezeciel, i Daniel, ac eraill. Nid dyfod yn ddyn wnaeth Duw wrth ddyfod yn y cnawd, ond dyfod i natur a chyflyrau dyn syrthiedig, er ei godi i gyflwr ysbrydol, nefol, a dyogel. "Y dyn cyntaf Adda wnaed yn enaid byw, a'r Adda diweddaf yn ysbryd yn bywhau. . . Y dyn cyntaf o'r ddaear, yn ddaearol; yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef." (1 Cor. xv. 45-47.) Trwy ddyn yn unig y disgyn y nefoedd i'r byd, ac yr esgyn y byd i'r nefoedd; a thrwy yr ail ddyn, sef y dyn cyntaf a'r diweddaf, a'r unig ddyn perffaith, yr Arglwydd o'r nef wedi ymgnawdoli a gogoneddu ei ddynoliaeth o'i hanfod i'w heithafedd, y disgyn yr holl nefoedd i'r holl fydoedd, ac yr esgyn yr holl fydoedd i'r holl nefoedd. "Eithr efe a ddyrchafodd, beth yw ond ddarfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear. Yr hwn a ddisgynodd yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth." (Eph. iv. 9-10.) Parthau isaf y ddaear yw egwyddorion isaf y ddynoliaeth a gymerodd y Dyn Anfeidrol yn yr ymgnawdoliad, yr hon hefyd yn ei hegwyddorion isaf a ogoneddodd efe. "Canys ni chymerodd efe naturiaeth angylion; eithr had Abraham a gymerodd efe." (Heb. ii. 16.) Nid natur dyn angylaidd a gymerodd efe, ond natur dyn syrthiedig. Yn y natur syrthiedig, o had Abraham, trwy Mair ei fam yr oedd y llestri a'r organau llygredig yn cynwys holl ddrwg etifeddol y cenhedlaethau, yn ei osod yn agored i bob temtasiwn trwy ddylanwad yr uffernoedd. Nid mab Mair yn unig oedd efe, ond mab Adda a'i holl hiliogaeth. (Math. pen. i.; Luc, pen. iii.) Y Dyn Anfeidrol o'i dragwyddol drugaredd, a'i angerddol awyddfryd am ymgnawdoli, a ymweithiai yn eneidiau, ymenyddiau, ymysgaroedd, a gwaed pob pechadur oddiar doriad gwawr y byd; ac yn nghyflawnder yr amser, efe a gyfranogodd o'n natur andwyol oll, a thrwy demtasiynau, brwydrau, a buddugoliaethau parhaus ynddo ei hun, efe a'i purodd ac a'i gogoneddodd trwy ddwyfoli ei ddynoliaeth i'r graddau eithaf. "Wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau, eto heb bechod." (Heb. iv. 15.)

Jehovah yw Iesu Grist, y Creawdwr wedi dyfod yn y cnawd. Efe yw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, yn un Person, yn un Dyn Anfeidrol. Nid yw y termau, "Person y Tad, Person y Mab, a Pherson yr Ysbryd Glan," ond cynyrch cyfnodau cwerylgar a chul, dan reolaeth ffug a thrais yr offeiriaid. Nid oes drindod o bersonau dwyfol, ond Trindod o hanfodion yn yr un Dyn Anfeidrol, yn amlygu y Drindod sydd ynddo yn ei holl waith. Ceir trindod yn y nefoedd—Y drydedd nef, yr ail nef, a'r nef gyntaf; trindod yn y Tabernacl a'r Deml—Y cysegr sancteiddiolaf, y cysegr, a'r cyntedd; trindod yn y dyn—Yr ewyllys, y deall, a'r gwaith; trindod yn y corph—Y pen, y cyff, a'r aelodau; trindod yn mhob rhan o'r corph—Y fraich yn dair rhan, y bys yn dri chymal, y croen yn dair haen; ac felly am y gewynau, y giau, yr ysgyfaint, a'r galon. Ceir trindod yn yr haul—y gwres, y goleu, a'i rym; trindod yn y wybren—yr aura, yr ether, a'r awyr; trindod yn y coedydd—y gwreiddiau, y cyffion, a'r cangau, hefyd eu ffun, eu ffurf, a'u ffrwyth; trindod yn y blodau—eu hanfod, eu llun, a'u harogl; trindod yn yr wy—y melyn, y gwyn, a'r plisgyn. Gan y Dyn Anfeidrol a'r drindod ynddo y mae pob awdurdod yn y nef a'r ddaear; gydag ef y mae agoriadau uffern a marwolaeth. Ei gais mewn gogoniant newydd yn Eglwys Philadelphia yw: "Ewch, gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy y enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan; gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi. Ac wele yr ydwyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd, Amen" (Math. xxviii, 19, 20).

2. EGLWYS NEWYDD Y DYN ANFEIDROL. Ceir arwyddluniau tair eglwys yn Llyfr y Datguddiad:—*Y Ddraig goch fawr*, sef yr Eglwys Brotestanaidd yn ei choelion gwallgof am dri Duw, a chyfiawnhad trwy ffydd yn unig, heb gariad at y ddeddf foesol, nac ufudd-dod iddi. *Y Buttain Fawr yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad*, sef y Babaeth, yn ei thrais a'i thrachwant am awdurdod; *a'r Wraig wedi ei gwisgo a'r Haul*, sef yr Eglwys Newydd, y Jerusalem nefol yn disgyn o'r nef, yn addoli yr Arglwydd Iesu Grist fel yr unig Berson dwyfol, a chadw ei orchymynion fel unig ammod a rheol bywyd. Llyfr arbenig yr Eglwys hon yw y Datguddiad, prophwydoliaeth arwyddluniol o honi, ei hegwyddorion, ei hathrawiaethau, ei gelynion, ei brwydrau, ei buddugoliaethau, a'i gwynfyd bythol yn y byd ac yn y nef ar ol y Farn ddiweddaf, sydd wedi cymeryd lle yn myd yr ysbrydoedd. Mai yr Arglwydd Iesu yn ei ddynoliaeth ddwyfol yw unig Dduw yr Eglwys hon, sydd eglur fel yr haul yn y Datguddiad. Efe yw yr unig berson dwyfol yn nghanol y saith ganhwyllbren aur; efe sydd yn

arwain a bugeilio y dyrfa fawr nas gall neb ei rhifo; efe yw blaenor y pedair mil a'r saith ugain mil ar fynydd Sion; efe ganlynir gan y lluoedd yn y nef ar feirch gwynion; ar ei wisg, ac ar ei forddwyd ef yn unig mae yr enw wedi ei ysgrifenu, Brenin Brenhinoedd, ac Arglwydd Arglwyddi; efe sydd yn eistedd ar yr orseddfainc wen fawr; efe yw gwreiddyn a hiliogaeth Dafydd; efe yw yr Alpha a'r Omega, y dechreu a'r diwedd, y cyntaf a'r diweddaf, yr hollalluog, a'r unig Dduw sydd yn dyfod ar frys, ac yn llefaru wrth yr eglwysi; ac efe yw yr unig un sydd yn addaw pleserau bywyd tragwyddol i'r rhai a ddeuant ato i'r Jerusalem Newydd, trwy gilio oddi wrth bob drwg fel pechod yn ei erbyn ef, a gwneud pob da o gariad ato yn ei ddynoliaeth ddwyfol fel unig Arglwydd nef a daear. "Yr hwn sydd ganddo glust i wrando, gwrandawed beth y mae yr ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi." "Eithr yr Arglwydd yw yr ysbryd; a lle y mae ysbryd yr Arglwydd, yno y mae rhyddid" (II Cor. iii, 17).

Yn Eglwys Philadelphia y mwynheir rhyddid cyflawn ysbryd yr Arglwydd. Buddiol yw ei chydmaru a'r eglwysi eraill wahoddir i'r Eglwys Newydd. Nid oes un o honynt yn ogyfuwch a Philadelphia mewn diniweidrwydd, daioni, doethineb, ac undeb pob rhinweddau. Y mae eglwys Ephesus yn pwyso mwy ar gredo nag ar gariad. "Y mae genyf beth yn dy erbyn, am i ti ymadael a'th gariad cyntaf" (ii, 4). Wrth y cariad cyntaf y golygir, mai cariad yw y peth blaenaf yn yr eglwys. Cariad hefyd a egyr ffliynau llestri ysbrydol yr enaid i dderbyn y gwirionedd, tra y gwna anghariad eu cau, a'u crebachu. Y mae eglwys Smyrna, er yn dda o ran ei bywyd, mewn cyfeiliornadau o ran ei chredo. Ei chystudd a'i thlodi a gyfyd o synagog Satan, sef cyfeiliornadau, ac oddi wrth y cythraul yn cyffroi ei hunan-gariad; felly, agored yw i ddichellion a rhuthr yr uffernolion aneirif. Eglwys Pergamus a esyd y pwys oll ar weithredoedd da, a dim ar athrawiaethau. Y mae dau fath luosog o ddynion, un math yn gwneud daioni, ond yn amddifad a difater o wirioneddau mawrion y Gair; math arall mewn proffes a ffurf o addoli yn unig, heb ddaioni na gwirionedd. Y blaenaf yw eglwys Pergamus; gweithreda yn dda heb ddeall, ac felly heb fywyd meddyliol cyflawn. Ei gweithredoedd da gan hyny, ydynt fel delwau pren heb fywyd, ac fel defaid heb wlan. Eglwys Thyatira sydd gymysgedig; rhai ynddi mewn ffydd yn tarddu oddi ar gariad, a rhai mewn ffydd heb gariad. "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th gariad, a'th wasanaeth, a'th ffydd, a'th amynedd di, a'th weithredoedd, a bod y rhai diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf" (ii, 19). Gesyd hyn allan y rhai y tardda eu ffydd a'u gweithredoedd o gariad; ond darlunir y rhai feddant ffydd heb

gariad na gweithredoedd da, yn y geiriau canlynol: "Oblegyd dy fod yn gadael i'r wraig hono Jezebel, yr hon sydd yn galw ei hun yn brophwydes, ddysgu a thwyllo fy ngwasanaethwyr i odinebu, ac i fwyta pethau wedi eu haberthu i eilunod" (ii, 20). Y Jezebel Brotestanaidd yw cyfiawnhad trwy ffydd yn unig, heb gariad at yr Arglwydd, nac ufudd-dod iddo. Crefydd celanedd yw hon, yn lladrata gwinllan Naboth, yn lladd y perchenog, a'r prophwydi; crefydd yn cael ei hysglyfio gan gwn gwancus llygredigaethau, a'i sathru dan garnau meirch porthianus cyfeiliornadau. Eglwys Sardis sydd mewn addoliad marw. "Y mae genyt enw dy fod yn fyw, a marw ydwyt" (iii, 1). Addoliad marw ydyw addoliad heb ffydd na chariad; dim ond y ffurf o addoli; myned i'r cwrdd, gwrando pregethau, derbyn y Swper Sanctaidd, darllen y Gair a llyfrau crefyddol, siarad am Dduw, am farw, am nef ac uffern, am grefydd a chrefyddwyr, a dweud geiriau gweddi foreu a hwyr; eto heb awydd am wybodaeth na chref am ddeall y Gair, na phwys ar wneud daioni. Ond y mae addoliad heb ddeall y Gair, ac heb weithredoedd da yn farw; ac fel y corph marw, yn ffiaidd, yn madru, yn trwmsawru, yn heintio yr awyr, ac yn ddychrynllyd yr olwg i'r addolwr byw. Hyn yw rhan o eglwys Sardis, a'r rhan arall a bywyd yn ei haddoliad, trwy wirionedd a phurdeb. "Eithr y mae genyt ychydig enwau, ie, yn Sardis, y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy a rodiant gyda mi mewn dillad gwynion, oblegyd teilwng ydynt" (iii, 4). Y mae eglwys Laodicea yn credu, ac eto heb gredu. Hyny olygir wrth y dywediad, "Nad ydwyt nac oer na brwd . . . am dy fod yn glaiar, ac nid yn oer nac yn frwd, mi a'th chwydaf di allan o'm genau" (iii, 15, 16). Ceir rhai yn credu fod Duw, fod y Beibl yn Air Duw, fod nef ac uffern, a thragwyddoldeb; ac eto nid ydynt yn credu. Credant pan yn ddifeddwl, a gwadant pan yn meddwl. Mewn cyrddau crefyddol, wrth wrando neu lefaru y gwirionedd, tybiant eu bod yn credu; ond wrthynt eu hunain, pan yn ystyried, ymddengys yr athrawiaethau iddynt yn ddireswm, a bodolaeth Duw yn wrthun. Dyma ystad grefyddol llu o bregethwyr ac offeiriaid. Ymddangosant wrth bregethu a gweddio yn llawn zel a difrifoldeb, ond ffugio wnant, er mwyn clod ac elw. Credant ac nis credant, oblegyd dywedant ac nis gwnant. Hongian y maent yn "*Limbo*," rhwng paradwys ac uffern; cellwair a chwareu rhwng gwynfyd a gwae. Ond y mae Eglwys Philadelphia yn meddu y gwirionedd yn tarddu o ddaioni dwyfol, ac nid oes ynddi ddim gondemnir gan yr Arglwydd. Difai yw aelodau Eglwys Philadelphia ger bron "Y Sanctaidd a'r Cywir," ac y mae ganddynt agoriadau i holl ddirgelion gwynfyd a gogoniant. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau" (ii, 8). Y Dyn

Anfeidrol yw y drws, ac ni ddichon dynion y fall, na diafol ei gau. Teimla anwyliaid Eglwys Philadelphia fod yr Arglwydd yn eu caru. "A gwybod fy mod i yn dy garu di" (iii, 9) Cedwir hwynt "oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (ii, 10). Dyogelir hwynt yn mheryglon yr ail ddyfodiad a'r frawdle. Ysgaredig ydynt oddi wrth ddynion ac ysbrydion drwg. Rhan o'r nefoedd ydynt a chyfnerth iddi. "Mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid a efe mwyach" (ii, 12). Y mae y gwirionedd dwyfol, athrawiaeth y nefoedd newydd, a phethau newydd na fu o'r blaen, yn ysgrifenedig yn eu calonau. "Ac mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, Jerusalem Newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i; a'm henw newydd i" (iii, 12). Eglwys y dyfodol mawr diderfyn yw hon, y Wraig wedi ei gwisgo a'r Haul, i sirioli y bydoedd, dros byth; priodasferch gwraig yr Oen, i fyw gyda'r hil ddynol trwy yr holl fydysawd; coron aniflanedig y goruchwyliaethau. "Amen, yn wir, tyred, Arglwydd Iesu" (Dat. xxii, 20).

3. Y DYN ANFEIDROL TRWY EI EGLWYS NEWYDD A GREA FYD NEWYDD. Daeth diwedd yr hen eglwys, sef yr Eglwys Gristionogol gyntaf. Cariad at hunan ac at y byd a'i difrododd. Rhagddywedwyd, a darluniwyd ei diwedd a'i dinystr yn y Gair, ac yn neillduol yn Math. xxiv, a'r Datguddiad. Yr arweinwyr a'r aelodau deillion ni ddeallant. Ail ddyfodiad yr Arglwydd yw yr Eglwys Newydd. Y nef a'r ddaear newydd ydyw; cyrch-nod y cynghor dwyfol, cyflawniad y prophwydoliaethau, a sylweddiad yr addewidion, oblegyd yr Eglwys hon a addola un Duw gweledig yn y Dyn Anfeidrol Iesu Grist, a'r hanfodol Dduwdod anweledig ynddo. Addola ac ufuddha hefyd yn ngwres a goleu meddyliau mewnol, ysbrydol, a nefol y Gair, yr Arglwydd a'r angylion o hyd yn bresenol ynddynt, yn un a dyn, ac yn ei gymdeithas. Daw yr Eglwys hon i deyrnasu ar y byd, a'i holl deyrnasoedd, sydd yn awr dan deyrnasiad diafol; oblegyd hi yw Cysegr y Dyn Anfeidrol sydd fel "Llys uchel, fel y ddaear, yr hon a seiliodd efe yn dragywydd" (Salm lxxviii, 69). Yr Eglwys hon, trwy adnabod ac anwylo dynoliaeth ddwyfol, a grea fyd newydd o begwn i begwn, cartrefle Duwdod, diniweidrwydd, a thangnefedd, yn ol y Gair a ddywed, "Dy lygaid a welant y brenin yn ei degwch; gwelant y tir pell . . . . Ni chei weled pobl greulawn, pobl o iaith ddyfnach nag a ddeallech di, neu floesg dafod, fel na ddeallech. Gwel, Sion, dinas ein cyfarfod; dy lygaid a welant Jerusalem, y breswylfa lonydd, y babell ni thynir i lawr ac ni syfiir un o'i hoelion byth, ac ni thorir un o'i rhaffau" (Esaiah xxxiii, 17, 19. 20). "Canys wele fi yn creu

nefoedd newydd, a daear newydd; a'r rhai cyntaf ni chofir ac ni feddylir am danynt. Eithr llawenychwch a gorfoleddwch yn dragywydd yn y pethau a grewyf fi, canys wele fi yn creu Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd. Gorfoleddaf hefyd yn Jerusalem, a llawenychaf yn fy mhobl; ac ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd. Ni bydd o hyny allan blentyn o oed, na henafgwr, yr hwn ni chyflawnodd fesur ei ddyddiau" (Esaiah lxi, 17-20). "Ac mi a welais nef newydd a daear newydd; canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio . . . Ac mi a glywais lef uchel allan o'r nef yn dywedyd, Wele, y mae pabell Duw gyda dynion, ac efe a drig gyda hwynt, a hwy a fyddant bobl iddo ef, a Duw ei hun a fydd gyda hwynt, yn Dduw iddynt, ac fe sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach; oblegyd y pethau cyntaf a aeth heibio. A dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc, Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd . . . Yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bobpeth; ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i minau yn fab. Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r swyngyfareddwyr, a'r eilunaddolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi a than a brwmstan, yr hwn yw yr ail farwolaeth" (Dat. xxi, 1, 3, 4, 5, 7).

Goleuni gwyneb y Dyn Anfeidrol a gloa allan greulonderau a chreuloniaid o Eglwys Philadelphia, a thrwyddi o'r ddaear. Ni oddef hon i ddyn nac anifail gael cam. Ei haelodau oll a welant gariad a doethineb Duw yn mhob creadur. Anwylant yr anifeiliaid a'r ehediaid hefyd, fel arwyddluniau o deimladau a meddyliau. Addolant yr un ofala mor fanwl ac mor fwyn am danynt. O mor greulon hyd yma yw dynion i greaduriaid diniwed a defnyddiol. Perant i'r holl greadigaeth gydofidio, a chydocheneidio hyd y pryd hwn. Bwystfil creulonaf creadigaeth yw y dyn daearol. Draig a diafol ydyw tu faes i Eglwys Philadelphia. Ysglyfia y llynoedd, yr afonydd, a'r moroedd am bob math o bysg; y tiroedd, y coedydd, a'r coedwigoedd am bob math o helwriaeth. Dibris ganddo fod gan y creaduriaid gnawd a gwaed, ymenyddiau a gewynau i deimlo poen, a braw, a dirdyniadau. O, fel yr arteithir y mulod, a'r meirch mewn wageni a cherbydau, mewn gyru ynfyd ar ol cadnoaid, mewn rhedegfeydd, ac mewn rhyfeloedd. Ond aelodau angylaidd Eglwys Philadelphia a greant fyd newydd o garedigrwydd i bob creadur. Gwyliant eu cysur a'u cartref. Gadawant yr adar bach oll i fyw a bwyta yn yr awyr agored; cant lonydd i ganu yn y cangau, a lledu eu hedyn yn rhydd, a gwneud eu nythod lle carant yn ol greddfau y nefoedd, a

magu eu rhai bychain heb berygl na braw. Cyduna yr angylion, yr Eglwys Newydd, yr adar bach, a phob creadur yn un gyngherdd i glodfori Creawdwr mawr y bydoedd, lluniwr udgorn aur yr archangel, a lluniwr pig felen yr aderyn du. Yr anifeiliaid a'r adar oll, a anwylant holl aelodau Eglwys Philadelphia, ac a wylant wrth eu colli, fel meirch Achilles ar ol eu meistr. Fel y mynachod yn yr anialwch, triniant yr anifeiliaid fel brodyr; ac fel St. Francis, galwant y wenoliaid mwyn yn chwiorydd. Gwelant ynddynt bictiwrau byw o fywyd a meddyliau yr enaid.

Ie,—pethau yw meddyliau dyn,
Yn meddu edyn ffurf a ffun;
A hedeg maent o hyd, o hyd,
A da neu ddrwg i lanw'r byd.

Yr hyn, meddwn ni, yw'n meddwl cudd,
I bellder byd eheda'n rhydd;
Ac olion dyfnion gadael wna,
Bendith neu felldith ffordd yr a.

Deddf Duw yw hon, adgofia hi
Yn dy ystafell pan wyt ti
Yn nghwmni dy feddyliau cudd,—
Na feiddi eu datguddio'n rhydd.

Mae ganddynt fywyd—hedant draw,
Eu heffaith welir maes o law;
Fel rhyw wenwynol, heintiol chwa,
Chwyth i gartrefi farwol bla.

Ac wedi i ti anghofio'n llwyr,
Dychwelant adref gyda'r hwyr,
Pan tydd dy einioes frau ar ben—
Yn gigfran neu golomen wen.

Boed dy feddyliau oll yn bur,
Mae ganddynt fywiol ran, yn wir,
I lunio bydoedd, ffurfio ffawd,—
Goruwch-reola Ior eu rhawd.

N. R.

II.—AGORIAD I FAB Y DYN YN NGHANOL YR EGLWYS NEWYDD.

Gweledigaeth Mab y Dyn yn nghanol y saith ganhwyllbren aur, sef yr Arglwydd o ran y Gair yn nghanol yr Eglwys Newydd yn y nef a'r ddaear, ydyw bywyd a gwynfyd anfarwol Eglwys Philadelphia. "Mi a welais saith ganhwyllbren aur; ac yn nghanol y saith ganhwyllbren, un tebyg i Fab y Dyn, wedi ymwisgo a gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu yn nghylch ei fronau a gwregys aur. Ei ben ef a'i wallt oedd wynion fel gwlan, cyn wyned a'r eira; a'i lygaid fel fflam dan; a'i draed yn debyg i bres coeth, megys yn llosgi mewn ffwrn; a'i lais fel swn llawer o ddyfroedd. Ac yr oedd ganddo yn ei law ddeheu saith seren, ac o'i enau yr oedd cleddau llym dau-finiog yn dyfod allan, a'i wynebpryd fel yr haul yn dysgleirio yn ei nerth. A phan welais ef, mi a syrthiais wrth ei draed ef fel marw. Ac efe a osododd ei law ddeheu arnaf fi, gan ddywedyd wrthyf, Nac ofna; myfi yw y cyntaf a'r diweddaf; a'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen; ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth" (Dat. i, 12-18). Sylwn:—

1. YR ENW MAB Y DYN. "Un tebyg i Fab y Dyn." Yr Arglwydd o ran ei Ddynoliaeth Ddwyfol a elwir yn Fab Duw; ac o ran y Gair yn Fab y Dyn. Nid ail berson gwahanol i berson y Tad yw Mab Duw; ac nid dyn meidrol yw Mab y Dyn. Nid mab o dragwyddoldeb yw Mab Duw, ond yr Arglwydd o dragwyddoldeb yw efe. Rhaid gwybod beth yw yr Arglwydd, a beth yw y Mab, cyn y gellir meddwl yn ddeallus am y Duw sydd yn drindod. Dynoliaeth yr Arglwydd, cenedledig o Jehovah y Tad, a ganedig o'r Forwyn Fair, yw Mab Duw, fel y gwelir yn y rhanau canlynol: "Anfonwyd yr angel Gabriel oddi wrth Dduw i ddinas yn Galilea, a'i henw Nazareth, at forwyn wedi ei diweddio i wr a'i enw Joseph, o dy Dafydd; ac enw y forwyn oedd Mair. A'r angel a ddaeth i mewn ati, ac a ddywedodd, Henffych well, yr hon a gefaist ras; yr Arglwydd sydd gyda thi; bendigaid wyt yn mhlith gwragedd. A hithau pan ei gwelodd, a gythryblwyd wrth ei ymadrodd ef; a meddylio a wnaeth pa fath gyfarch oedd hwn. A dywedodd yr angel wrthi, Nac ofna, Mair, canys ti a gefaist ffafr gyda Duw. Ac wele, ti a feichiogi . . . ac a esgori

ar fab, ac a elwi ei enw ef Iesu. Hwn fydd mawr, ac a elwir yn FAB Y GORUCHAF. . . A Mair a ddywedodd wrth yr angel, Pa fodd y bydd hyn, gan nad adwaen i wr? A'r angel a atebodd ac a ddywedodd wrtni, Yr Ysbryd Glan a ddaw arnat ti, a nerth y Goruchaf a'th gysgoda di; am hyny y peth sanctaidd a aner o honot ti a elwir yn Fab Duw" (Luc i, 26, 35). Yr hyn a elwir yma yn Fab Duw, yw y ddynoliaeth genedlwyd o Dduw, ac a aned o'r Forwyn Fair. "Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Immanuel" (Esaiah vii, 14). Difynir y brophwydoliaeth yn Math. i, 22, 23, yn dangos mai y mab genedlwyd o Dduw, ac a aned o Mair y Forwyn yw Immanuel, yr hwn gan hyny, yw Mab Duw. Y ddynoliaeth ddwyfol hon olygid, pan alwyd Iesu yn ei fedydd, gan Jehovah mewn llais o'r nefoedd, ei Fab: "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd" (Math. iii, 17). A phan weddnewidiwyd ef: "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd; gwrandewch arno ef" (Math. xvii, 5). Gan mai yr Arglwydd o ran ei ddynoliaeth ddwyfol a gymerodd o'r Tad yn y byd, yw Mab Duw, hawdd deall yr hyn a ddywed mor aml, sef ei fod wedi dyfod allan oddi wrth y Tad, a'i fod wedi ei anfon gan y Tad i'r byd. Wrth ddyfod oddi wrth y Tad, a chael ei anfon gan y Tad, y golygir iddo gael ei genhedlu o'r Tad. Efe a ddaeth i wneuthur ewyllys a gwaith y Tad, sef concro yr uffernoedd, gogoneddu ei ddynoliaeth, dysgu y Gair, sicrhau trefn yn y nefoedd, a sefydlu Eglwys Newydd ar y ddaear; ac anichonadwy gwneud hyn ond gan ddynoliaeth wedi ei chenhedlu o'r Tad, a'i geni o'r Forwyn,—hyny yw, heb i Dduw ddyfod yn ddyn. Ni feddylir am yr Arglwydd gan lawer ond fel dyn meidrol, tebyg iddynt eu hunain, am eu bod yn meddwl am ei ddynoliaeth yn unig, ac nid ar yr un pryd am ei Dduwdod. Y Duwdod a'r dyndod nis gellir eu gwahanu. Duw a dyn yn yr Arglwydd nid ydynt ddau, ond un person, fel yr enaid a'r corph yn un dyn. Dywed Swedenborg, "Yr hwn a wyr beth yn yr Arglwydd a olygir wrth Fab Duw, a beth wrth Fab y Dyn, sydd alluog i weled llawer o ddirgeledigaethau yn y Gair; oblegyd yr Arglwydd a eilw ei hun weithiau y Mab, weithiau Mab Duw, ac weithiau Mab y Dyn: o hyd yn ol y pwnc a drinir. Pan sonir am ei Dduwdod, am ei undod a'r Tad, am ei allu dwyfol, ffydd ynddo, a bywyd o hono, y pryd hwnw geilw ei hun 'Y Mab,' a 'Mab Duw' (megys yn Ioan v, 17-26, a manau eraill). Pan sonir am ei ddyoddefaint, y farn, ei ddyfodiad, ac yn gyffredinol am brynedigaeth, y pryd hwnw geilw ei hun 'Mab y Dyn'; y rheswm yw, y sonir am dano y pryd hwnw o ran y Gair." Dynodir yr Arglwydd gan amrywiol enwau yn Ngair yr Hen Destament: gelwir ef yno Jehovah, Jah, yr Arglwydd, Duw, yr Arglwydd

Jehovah, Jehovah Zebaoth, Duw Israel, Sanct Israel, Cadarn Dduw Jacob, Duw Hollalluog, y Graig; hefyd y Creawdwr, y Lluniwr, y Prynwr, a'r Iachawdwr: yn mhob man yn ol y pwnc a drinir. Yr un modd yn Ngair y Testament Newydd, lle y gelwir ef Iesu, y Crist, yr Arglwydd, Duw, Mab Duw, Mab y Dyn, y Prophwyd, yr Oen, ac hefyd enwau eraill: ond o hyd yn ol y pwnc a drinir. A phan enwir yr Arglwydd yn Fab y Dyn, meddylir yr Arglwydd o ran y Gair, yn dyoddef, yn barnu, yn dyfod i'r byd, yn prynu, yn achub, yn diwygio, ac yn ail-eni. Gelwid y prophwydi yn feibion dyn am eu bod yn arddangos yr Arglwydd o ran y Gair, ac felly yn arwyddo athrawiaeth yr Eglwys o'r Gair. Dyna ddeallir wrth brophwydi yn y nefoedd, lle yr enwir hwynt yn y Gair. Ystyr ysbrydol yr enw prophwyd, megys yr enw Mab y Dyn, yw athrawiaeth yr Eglwys o'r Gair; a phan leferir am yr Arglwydd, y Gair ei hun. Yr Arglwydd, sef y Gair ei hun, gan hyny, yw agoriad Eglwys Philadelphia, ac efe yw perchen yr holl agoriadau, sef yr holl athrawiaethau, a'r holl alluoedd i agor a chau y farn, y nef, ac uffern, a'r byd. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau" (Dat. iii, 8).

2. SAFLE MAB Y DYN. "Yn nghanol y saith ganhwyllben aur." Dywedir yn yr adnod olaf o'r benod, "A'r saith ganhwyllbren a welaist y saith eglwys ydynt," sef pawb a fyddant yn y nef a'r Eglwys Newydd, am fod y nef a'r Eglwys Newydd yn un. Mae y nefoedd yn mhob un sydd yn yr Eglwys Newydd, am fod ganddo yr un cariad, a'r un goleuni ag sydd gan angylion y nefoedd. Darlunir yr Eglwys Newydd yn helaethach yn y geiriau at Eglwys Philadelphia; yn agoriad y sel gyntaf, pan welwyd un ar farch gwyn yn myned allan yn gorchfygu ac i orchfygu; yn hysbysiad nifer y rhai a seliwyd, sef cant a phedair a deugain o filoedd o holl lwythau meibion Israel; yn mhrophwydoliaeth ac adgyfodiad y ddau dyst, ac agoriad teml Dduw yn y nef; yn ngweledigaeth y Wraig wedi ei gwisgo a'r Haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren; yn ymddangosiad yr Oen ar fynydd Sion, a chydag ef bedair mil a saith ugein-mil, ac enw y Tad yn ysgrifenedig yn eu talcenau; yn llawenydd a gorfoledd y nefoedd oblegyd priodas yr Oen, a gwynfyd y rhai a elwir i'r neithior; ac yn benaf ac olaf, yn y desgrifiad o'r nef a'r ddaear newydd, y ddinas sanctaidd a'i chyflawn bortread, ei goleu, ei golud, ei hafon, a phren y bywyd, a phob harddwch ac hyfrydwch ynddi. Arwyddlun o'r nefoedd a'r Eglwys oedd y ganhwyllbren yn y Tabernacl, a'r ganhwyllbren aur welodd Zechariah (iv, 2). Y saith

ganhwyllbren aur a ffurfiai gylch claer a gogoneddus, a Mab y Dyn yn rhodio ynddo. "Yr hwn sydd yn rhodio yn nghanol y saith ganhwyllbren aur," yn golygu ei fod yn byw yno. Nid oedd lampau ynddynt, am mai derbyn, ac adlewyrchu goleuni yr Arglwydd yn unig wna yr Eglwys Newydd. "A'r ddinas nid rhaid iddi wrth yr haul, na'r lleuad, i oleuo ynddi; canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi ydyw yr Oen" (pen. xxi, 23). "Ac ni bydd nos yno; ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, na goleuni haul, oblegyd y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt" (pen. xxii, 5). Eglwys oleu ac anfarwol Mab y Dyn yw yr Eglwys Newydd, Eglwys y Gair o'r gwraidd i'r brig, o'i chanolbwynt i'r holl amgylchoedd, am fod yr Arglwydd trwy y Gair yn ei chanol, yn hanfod ynddi, ac yn gollwng ei hun drwyddi. Y Gair ynddi sydd fel y llifnodd yn y pren, yn ei faethu oll; fel y galon yn y corph, yn taflu myrddiynau ffrydiau bywyd trwy y gwythienau; ac fel yr haul yn entrych nef, yn cyfranu gwres a goleu trwy y deuddeg arwydd, ac i bob planed amgylch o gylch.

3. GWISG MAB Y DYN. "Wedi ymwisgo a gwisg laes hyd ei draed, ac wedi ymwregysu yn nghylch ei fronau a gwregys aur." Arwydda y wisg y gwirionedd yn dylifo o hono; "hyd ei draed," y gwirionedd hyd y pethau isaf. "O Arglwydd fy Nuw, tra mawr ydwyt; gwisgaist ogoniant a harddwch. Yr hwn wyt yn gwisgo goleuni fel dilledyn" (Salm civ, 1, 2). "A gweddnewidiwyd ef ger eu bron hwy; a'i wyneb a ddysgleiriodd fel yr haul, a'i ddillad oedd cyn wynned a'r goleuni" (Math. xvii, 2). Gwirionedd dwyfol yn dylifo allan yw y goleuni. Y mae gwisg gynhenid pob creadur yn tyfu neu yn dylifo o hono ef ei hun. Y rhisgl yw gwisg y pren, deillia o'r pren, ac adnabyddir y pren wrtho. Plu yw gwisg yr aderyn, o'r aderyn y daw allan, ac adwaenir yr aderyn wrth ei blu. Gwlan yw gwisg y ddafad, dadblyga o'r ddafad, a dengys mai dafad yw. Nid yw gwisgoedd gwynion angylion y nefoedd, ond eu hegwyddorion yn dysglaer ddylifo o honynt, ac yn cyfateb i'w teimlad a'u deall. Pawb yn y nefoedd a ymddangosant mewn gwisgoedd yn ol yr hyn ydynt. Gwisgoedd y rhai mwyaf deallus sydd wridog fel y fflam; gwisgoedd rhai llai deallus sydd glaer a gwyn; a gwisgoedd rhai eraill o amryw liwiau, yn ol amrywiaethau eu meddyliau. Gwelwyd yr angylion yn eu gwisgoedd gan y prophwydi, a chan y gwragedd yn y bedd sanctaidd. "Hwy a welsant fab ieuanc yn eistedd o'r tu deheu, wedi ei ddilladu a gwisg wenllacs" (Marc xvi, 15). Gwelodd Ioan hwynt yn eu gwisgoedd yn y nefoedd. "Ac ar y gorseddfeinciau y gwelais bedwar henuriad ar hugain yn eistedd, wedi eu gwisgo mewn

dillad gwynion" (Dat. iv, 4). "Pwy ydyw y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion?" (Dat. vii, 13). Gwisgoedd yn y Gair a arwyddant wirioneddau, a deall yn deilliaw o wirioneddau, megys yn y geiriau, "Y rhai ni halogasant eu dillad; a hwy a rodiant gyda mi mewn dillad gwynion, oblegyd teilwng ydynt. Yr hwn sydd yn gorchfygu, hwnw a wisgir mewn dillad gwynion" (Dat. iii, 4, 5). Arwyddluniau o'r gwirioneddau dwyfol oedd gwisgoedd yr offeiriaid, yn arbenig gwisg yr arch-offeiriad. Sion yn gwisgo gwisgoedd ei gogoniant yw yr Eglwys yn byw y gwirionedd, megys y dywedir, "Deffro, deffro, gwisg dy nerth, Sion: gwisg wisgoedd dy ogoniant, sanctaidd ddinas Jerusalem" (Esaiah lii, 1). Eglwys Philadelphia yn ngogoniant y gwirionedd yw y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, y lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren (Dat. xii, 1). Josua mewn dillad budron, sydd arwydd o'r Eglwys mewn twyll a llygredd; a chymeryd ymaith y dillad budron, a'i wisgo a newid dillad, a rhoddir meitr teg ar ei ben, sydd arwydd o'r Eglwys yn adnewyddu mewn gwirionedd a daioni (Zech. iii, 1-5). Bod heb y wisg briodas yw bod heb y gwirionedd, am y cyfryw y dywedir, "Cymerwch ef ymaith a theflwch i'r tywyllwch eithaf" (Math. xxii, 11-13). Pawb yn uffern, gan nad oes ganddynt wirionedd; nid oes ganddynt ond carpiau ffiaidd a drewedig. Wrth ystyried fod pawb yn y byd ysbrydol yn gwisgo yn ol y cariad a'r gwirionedd sydd ynddynt, gellir cael rhyw syniad am ardderchawgrwydd gwisg yr Arglwydd, a'r gwregys aur yn nghylch ei fronau, yn dangos unoliaeth anwyl yr holl wirioneddau ynddo Ef.

4. PEN MAB Y DYN. "Ei ben ef a'i wallt oedd wynion fel gwlan, cyn wynned a'r eira." Arwydda hyn ei gariad a'i ddoethineb o'r egwyddor i'r llythyren, yn ol y geiriau, "Yn nghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf: dy gyfiawnder di yn unig a gofiaf fi" (Salm lxxi, 16). Pen dyn a arwydda yr oll o'r dyn, a'r oll o'r dyn yw ei gariad a'i ddoethineb. "Swm y cwbl a glybuwyd yw, ofna Dduw, a chadw ei orchymynion; canys hyn yw holl ddyled dyn" (Preg. xii, 13), neu hyn yw yr holl ddyn. Pen y ddelw aur a welodd Nebuchodonosor, a arwydda synwyr nefol yr oes gyntaf, sef pobl yr eglwys henaf, neu Adda yn ngardd Eden. Y gwallt yn tyfu o'r pen yn wyn fel gwlan ac fel eira, a arwydda y cariad a'r doethineb yn dadblygu i'r llythyren mewn daioni a gwirionedd. Gwallt Mab y Dyn yw ei gariad a'i ddoethineb yn ystyr llythyren y Gair. Y Nazaread a'i wallt hir oedd yn arddangos yr Arglwydd yr yr ystyr hon. Yr arch-offeiriad, a'i feibion hefyd, a waherddid i dori eu gwallt, er arddangos ystyr llythyren y Gair. Dwy arth a larpiasant ddau a deugain o

blant, am alw moelyn ar Eliseus, am fod Eliseus, fel Elias, yn arddangos yr Arglwydd o ran y Gair, a'u gwallt yr ystyr lythyrenol o'r Gair. Penfoeledd arddengys y Gair heb yr ystyr hon. Penfoel yw pawb yn y byd ysbrydol, ddiystyrant ystyr lythyrenol y Gair. Yr Eglwys wedi encilio oddi wrth ufudd-dod i lythyren y Gair, a erchid i dori eu gwallt. "Cneifia dy wallt, O! Jerusalem" (Jer. vii, 29). Arwydd o'r Eglwys wedi gwyrdroi, a llwyr ddifrodi holl ystyr lythyrenol y Gair oedd Ezeciel yn eillio ei ben a'i farf, ei ranu yn dair rhan, llosgi traian o hono yn nghanol y ddinas, taro traian o hono ar gyllell o amgylch, a thaenu traian gyda'r gwynt (Ezec. v, 1-5).

5. LLYGAID MAB Y DYN. "A'i lygaid fel fflam dan." Wrth lygaid yn y Gair y golygir deall, ac wrth fflam dan, cariad. "Ein Duw ni sydd dan ysol," dywediad cyfystyr a "Duw, cariad yw." Llygaid Mab y Dyn fel y fflam dan, a ddengys ei gariad yn tanbeidio trwy ei ddeall. Fod y llygaid yn arwyddo y deall, sydd eglur yn y Gair. Sonir ynddo am agor llygaid y meddwl, a goleuo y llygaid. Am fod y llygaid yn arwyddo deall y Gair, nid oedd rhyddid i'r dall, neu i un ag anaf ar ei lygaid, offrymu, nac aberthu, na myned tu fewn i'r llen. Am yr un rheswm nid oedd rhyddid i offrymu nac aberthu anifail dall. Nid yw addoliad dall yn dderbyniol gan yr Hwn sydd a'i lygaid fel y fflam dan. Llawn llygaid yw y pedwar cerub, "Eu holl gnawd hefyd, a'u cefnau, a'u dwylaw, a'u hadenydd, a'r olwynion yn llawn llygaid oddi amgylch" (Ezec. x, 12). Yn nghanol yr orseddfainc, ac yn nghylch yr orseddfainc, y pedwar anifail, sef y Gair, sydd yn llawn llygaid o'r tu blaen ac o'r tu ol (Dat. iv, 6, 8).

6. TRAED MAB Y DYN. "A'i draed yn debyg i bres coeth, megys yn llosgi mewn ffwrn," yn arwyddo ei Ddaioni dwyfol naturiol. Yr un peth arddangosir yn y rhanau canlynol wrth y traed. "Yna y cyfodais fy llygaid ac yr edrychais, ac wele ryw wr wedi ei wisgo a llian, a'i lwynau wedi eu gwregysu ag aur coeth o Uphaz. A'i gorph oedd fel maen beryl, a'i wyneb fel gweledigaeth mellten, a'i lygaid fel lampau tan, a'i freichiau, a'i draed fel lliw pres gloew, a sain ei eiriau fel sain tyrfa" (Dan. x, 5, 6). "Ac mi a welais angel cryf arall yn disgyn o'r nef, wedi ei wisgo a chwmwl, ac enfys ar ei ben, a'i wyneb fel yr haul, a'i draed fel colofnau o dan" (Dat. x, 1). Y traed yn dan, ac yn llosgi, a ddengys ei gariad, a phres a ddengys ddaioni naturiol. Felly, wrth draed Mab y Dyn yn debyg i bres coeth megys yn llosgi mewn ffwrn, y golygir ei Ddaioni Dwyfol naturiol, sef ei Ddaioni yn y pethau isaf a mwyaf allanol. Y mae yn yr Arglwydd Ddwyfoldeb triphlyg, sef Dwyfoldeb nefol, Dwyfoldeb

ysbrydol, a Dwyfoldeb naturiol. Ei Ddwyfoldeb nefol arwyddoceir wrth ben Mab y Dyn; Ei Dwyfoldeb ysbrydol wrth ei lygaid a'i ddwyfron; a'i Ddwyfoldeb naturiol wrth ei draed. Arddangosir tri gradd Dwyfoldeb yr Arglwydd gan dri uchder yr Arch, a chan dair adran y Tabernacl, a'r Deml. Y mae y tri gradd hyn yn y nefoedd angylaidd, yr hon sydd lun a delw o'r Arglwydd. Y mae angylion nefol, angylion ysbrydol, ac angylion naturiol. Y mae y tri gradd eto yn yr Eglwys ar y ddaear; rhai yn cyfateb i'r pen yn nefol, rhai yn cyfateb i'r llygaid a'r ddwyfron yn ysbrydol, a rhai yn cyfateb i'r traed yn naturiol. Y mae y tri gradd hefyd yn mhob dyn wedi ei ail-eni; y nefol fel pen, yr ysbrydol fel llygaid a dwyfron, a'r naturiol fel traed. Daw y naturiol, neu yr allanol, yn bur fel pres coeth yn llosgi mewn ffwrn, pan fyddo y naturiol dan lywodraeth yr ysbrydol, a'r ysbrydol dan lywodraeth y nefol, a'r nefol dan lywodraeth Mab y Dyn.

7. LLAIS MAB Y DYN. "A'i lais fel swn llawer o ddyfroedd," yn arwyddo cyflawnder o wirionedd naturiol. Gwirionedd yw llais Mab y Dyn. Gwelir yn helaeth yn y Gair, fod dyfroedd yn arwyddo gwirioneddau naturiol, sef gwybodaeth o'r Gair a'i effaith lanhaol. Hyn olygid wrth y golchiadau, a'r bedyddiadau dan y gyfraith; ac hefyd wrth fedydd Ioan, a'r Bedydd Cristionogol. "Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r ysbryd, ni ddichon efe fyned i fewn i deyrnas Dduw" (Ioan iii, 5). Geni o ddwfr yw geni trwy wirioneddau; a geni o'r ysbryd yw bywyd unol a'r gwirioneddau. Gwirioneddau olygir wrth afon Eden, wrth ddyfroedd Ezeciel, ac wrth afon y bywyd. Yn Eglwys Philadelphia, y dyfroedd sydd ddyfroedd nofiadwy, ac yn toi y ddaear fel y toa y dyfroedd y mor. "Gwel, Sion, dinas ein cyfarfod; dy lygaid a welant Jerusalem, y breswylfa lonydd, y babell ni thynir i lawr, ac ni syflir un o'i hoelion byth, ac ni thorir un o'i rhaffau. Eithr yr Arglwydd ardderchog fydd yno i ni yn fangre afonydd a ffrydiau llydain; y rhwyf-long nid a trwyddo, a llong odidawg nid a drosto" (Esaiah xxxiii, 20, 21). Yr Eglwys Newydd yn ei chariad a'i gwirionedd yw Sion a Jerusalem, yn dangos ardderchawgrwydd yr Arglwydd trwy ei dderbyn yn ei holl gyflawnder. Mangre afonydd a ffrydiau llydain, a ddengys eu doethineb a'u deall mawr mewn pethau dwyfol. "Y rhwyf-long nid a trwyddo, a llong odidawg nid a drosto," yn dangos na bydd hunanoldeb yn eu doethineb a'u deall, ond dwyfol fydd yr oll. Y rhwyf-long a arwydda ddealldwriaeth oddi ar hunanoldeb, oblegyd fod y rhwyfau yn cael eu gweithio gan ddynion; a llong odidawg a arwydda ddoethineb oddi ar hunanoldeb, am fod dyn oddi ar y fath ddoethineb yn falch ac yn bostio. "Llef yr Arglwydd sydd

ar y dyfroedd: yr Arglwydd ar y dyfroedd mawrion" (Salm xxix, 3).

8. LLAW DDEHEU MAB Y DYN. "Ac yr oedd ganddo yn ei law ddeheu saith seren," yn arwyddo pob gwybodaeth o ddaioni a gwirionedd y Gair, gydag angylion a dynion. Saith a ddengys yr oll, ser gwybodaethau, yn llaw ddeheu Mab y Dyn, yr oll o wybodaethau y Gair. Sonir llawer yn y Gair am y ser yn syrthio, sef gwybodaeth ysbrydol yn diflanu. Y bwch gafr yn bwrw i lawr y ser, a chynffon y ddraig yn tynu traian y ser o'r nefoedd, a arwyddant gyfeiliornadau yn dinystrio gwybodaeth, gan wisgo y wybrenau ysbrydol a dudew dywyllwch, er cysur a chymorth ysglyfaid y fagddu. Ond yr Eglwys y mae Mab y Dyn, neu y Gair, yn ei chanol, y gwybodaethau dwyfol o'r Gair, fel ser anrhaethol nifer, a siriolant ac a addurnant ei ffurfafenau: gwybodaethau dysglaer fel Orion, hyfryd fel y Pleiades, mawr fel Mazaroth, neu y deuddeg arwydd, ac anherfynol fel Arcturus, sef yr uchelderau. "A'r doethion a ddysgleiriant fel dysgleirdeb y ffurfafen; a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y ser byth ac yn dragywydd" (Dan. xii, 3).

9. GENAU MAB Y DYN. "A chleddyf llym, dau-finiog, yn dyfod allan o'i enau," yn dangos y Gair yn brwydro a'r uffernoedd, ac yn llwyr wasgar drygau a thwyll. "Canys bywiol yw Gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mer; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon" (Heb. iv, 12). "Gorfoledded y saint mewn gogoniant, a chanant ar eu gwelyau. Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau, a chleddyf dau-finiog yn eu dwylaw" (Salm cxlix, 5, 6). Arf ymosodol y saint yw y cleddyf dau-finiog. "Cleddyf yr ysbryd, yr hwn yw Gair Duw" (Eph. vi, 17).

10. GWYNEB MAB Y DYN. "A'i wynebpryd fel yr haul yn dysgleiro yn ei nerth," yn golygu ei gariad a'i ddoethineb yn dylifo allan. Gwelir yr Arglwydd fel yr haul gan angylion y nefoedd, a phawb yno a droant eu hunain yn barhaus ato; felly hefyd y gwna holl aelodau Eglwys Philadelphia, gan ymhyfrydu yn ei wres a'i oleu. Ond pawb yn uffern a gefnant arno, ac a droant eu hunain i'r tywyllwch dudew, ac felly y gwna pawb yn y byd a garant ddrwg a thwyll.

11. BYWYD MAB Y DYN. "A'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen." Yr Arglwydd yn unig yw y bywyd, nid yn unig fel y Tad, ond fel y Mab hefyd, sef ei Ddynoliaeth Ddwyfol. "Canys megys y mae gan y Tad fywyd ynddo ei hunan, felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd, fod ganddo fywyd ynddo ei hunan" (Ioan v, 26). Wrth "a fum farw" y golygir, nid ei angau ar y groes, ond

fod ei Ddynoliaeth Ddwyfol yn wrthodedig yn yr Eglwys. Aceldama, maes y gwaed, yw y byd Cristionogol. "Gan eu bod yn ail-groeshoelio iddynt eu hunain Fab Duw, ac yn ei osod yn watwar" (Heb. vi, 6). Ond yn ei ddyfodiad, caiff ei dderbyn a'i anwylu fel yr Anfeidrol Ddyn, a'r Unig Dduw, a byw byth wrth ei fodd yn Eglwys Philadelphia. "Ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd."

12. AGORIADAU MAB Y DYN. "Ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth." Dengys hyn ei allu i achub i fywyd tragwyddol, gan y gall agor uffern a dwyn dyn allan, a chau uffern rhag ei ddychwelyd. Yn uffern y mae pob dyn yn ei bechod. Pan wel hyn, a dymuno dyfod allan, gall yr Arglwydd symud uffern a damnedigaeth, sef marwolaeth, oddi wrtho, a gollwng y nefoedd a bywyd tragwyddol iddo yn eu lle. Y mae yr Arglwydd o hyd yn bresenol gyda dyn, yn awyddu ac ymegnio ei waghau o uffern, a'i lanw o'r nefoedd. Ac fel y cilia dyn oddi wrth ddrwg ac oddi wrth ddynion drwg, cilia yr uffernolion a dynion uffernol oddi wrtho, a nesa y nefolion a dynion nefol ato. Dylifa y nefoedd hefyd iddo mewn teimladau a meddyliau nefol ac ysbrydol. Y teimlad da a'r meddwl iawn yw y nefoedd, a'r teimlad drwg a'r meddwl drwg yw uffern. Nis gall dyn deimlo a meddwl ond o'r nef neu o uffern. Trwy yr Arglwydd yn unig y gall ymryddhau o deimladau a meddyliau uffern a marwolaeth. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws, ac ni ddichon neb ei gau."

Os oes genym glustiau i wrando yn yr ysbryd, gwrandawn ar y "llef fawr fel llais udgorn yn dywedyd, Mi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf." Trown i weled y llef a lefara wrthym, a Mab y Dyn yn nghanol y saith ganhwyllbren aur. Edrychwn arno gydag arswyd, yn wylaidd, yn anwyl, yn fyfyriol, yn addolgar, yn folianus. Edrychwn arno nes syrthio wrth ei draed fel marw, a chodi yn ei nerth, i'w weled a'i anwylu o'r newydd. Uwchraddol yw efe i bawb eraill, a gwrthrych sylw eangach. Craffa nefolion, daearolion a thanddaearolion arno. Rhaid i'r bydoedd droi o'i gylch. Dirgelwch ei Berson, ei ymddangosiad, a'i waith enyna anfarwol fyfyrdodau. Nis gallwn ei adael yn llonydd, ac efe o'i diriondeb ni rydd lonydd i ninau. Teimlwn ei law gref a thyner yn ymaflyd ynom; ei lygaid fel fflam dan sydd arnom ddydd a nos; ei lais fel swn dyfroedd lawer, ac fel sain tyrfa sydd yn ein dilyn; a'i wyneb fel yr haul a oleua ynom, arnom, a thrwom. "Ac nid ymguad dim oddi wrth ei wres ef" (Salm xix, 6). Dena ein calon, a meddiana ein meddwl. Dywedwn wrtho, "Ti a wyddost bob peth, ti a wyddost fy mod yn dy garu di." Mewn cyfyngder, arno ef y gwaeddwn; mewn

euogrwydd, i'w fynwes ef y ffown; mewn erlidiau, ei groesau ef a ddygwn; yn angau, pan gilia'r byd, arno ef y gwaeddwn, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd."

Edrychwn arno, gan ymagor iddo, ac Efe a'n lleinw a'i dynerwch ac a'i nerth ei hun. Bywha yr enaid i fwynhau holl brydferthion datguddiad, natur, a chelfyddyd. Pleserau bywyd yn ei wyddfod a ddiffoddant fflamiau trachwant, gan ddiwreiddio blysiau, a gwareiddio galwadau corph ac ysbryd. Gwneir ni yn angylion ger ei fron, yn goeth fel y saith ganhwyllbren aur, yn adlewyrchu goleu ei wynebpryd. Byw yn yr olwg arno wna y creulon yn garedig, ac i adseinio cyd-ymdeimlad a griddfanau y claf, llef yr amddifad, ac ochenaid y weddw; a byw yn yr olwg arno wna y gweiniad yn gewri, yn feibion y daran, ac yn ddychryn y gormesdeyrn. Yn yr olwg arno y cawn rym i ufuddhau i gymhellion dirgelaf y meddwl, a gwroldeb i herio pob celwydd a chabledd; gwroldeb i groesi y lluaws ansantaidd, a chroesi y saint sydd hwyrdrwm ar eu gyrfa; gwroldeb i fod yn ddibris o ddibrisdod, a boddlawn ein gadael allan yn yr oerni a'r unigedd; gwroldeb a gorfoledd wrth dori ar heddwch y gelyn yn galw ei hun yn gyfaill; gwroldeb i gilio oddi wrth satan a'i weinidogion yn rhith angel goleuni; gwroldeb i godi i gwmni a goleuni angylion y nefoedd; gwroldeb i ollwng gafael yn mhob amcan ac arferiad egwan, yn frwd a pharod i bob anfantais mewn byd ac eglwys lle llywia *policy*, yn ddyogel genym o egnion i symud yn gryfion a llithrig ar ein gyrfa wreiddiol tuag adref, gan droedio yn esmwyth ar ein cyfer trwy aruthrol anhawsderau. Yr olwg arno, a chleddyf ei enau wna i gredoau a drygau aneirif yr Hen Eglwys gwympo yn falurion, fel Dagon o flaen yr Arch. Llosgir addoliad Mammon a rhagrith y pwlpud gan fflamiau tan ei lygaid. Gwasgerir y bobl sydd dda ganddynt ryfel. Y fasnach feddwol a'r myglys a drengant wrth ei dremyn. Edryched daear ar y Dyn Anfeidrol a Thragwyddol, ac wele y tafarnau yn cau, y gwydrau yn cael eu darnio, y barilau yn dadgylchu, yr hylif meddwol, gwenwyn dreigiau a chreulawn wenwyn aspiaid, yn llifo i'r ceubwll, fel ffrydiau y Naptha yn fflamiau gwyrddleision i'r Caspian, a'r *Maine Law* yn ymeangu trwy y byd. Dyfodiad y Dyn Anfeidrol a Thragwyddol ydyw gobaith yr oesoedd. Dywedir fod y ddaear, a'r cysawd heulaidd, yn trafaelu trwy y gwagle gant a phymtheg a deugain o filiwnau o filldiroedd bob blwyddyn, a'u bod yn tynu at ganolbwynt mwy tanbeidiol o oleuni, a mwy goludog o drydan, ac yr amgylchir ein planed ag awyrgylchau trofegol, a greant baradwys o begwn i begwn. Tebyg yw tynged ysbrydol y byd. Dynesu yr ydym trwy gysawdau

angylaidd at y canolbwynt sydd yn dan ysol, ac yn llosgfeydd tragwyddol. Cawn ein hunain yn y dyfodol yn nofio hylifau ac awyrgylchau o drydan mwy dwyfol nag erioed. Tawdd y rhew a'r eira oesol. Barug oer yr hwyr a'r boreu ni bydd mwy. "A bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul, a llewyrch yr haul fydd saith mwy, megys llewyrch saith niwrnod" (Esaiah xxx, 26). Sefydlir hinion haf gwynfydedig heb auaf mwy, "Canys ni bydd nos yno" (Dat. xxi, 25). "Yn wir, tyred Arglwydd Iesu" (Dat. xxii, 20). Amen.

III.—AGORIAD I ALLWEDDAU DIAFOL AC I ALLWEDDAU DUW.

Pan oedd yr Arglwydd unwaith yn eistedd ar Fynydd yr Olewydd, wedi ymadael a'r Deml oherwydd ei chloi gan allweddau y diafol, y dysgyblion a ddaethant atto, a gofynasant iddo, "Pa arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd?" (Math. xxiv. 23). Diwedd y byd yw diwedd goruchwyliaeth, a dechreu goruchwyliaeth newydd. Wedi i'r Arglwydd ateb trwy raeddangos ystadau olynol yr Eglwys Gristionogol gyntaf, mewn perthynas i gariad a gwirionedd, Efe a ddywedodd, "Ac yn y fan wedi gorthrymder y dyddiau hyny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ser a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir. Ac yna yr ymddengys arwydd Mab y Dyn yn y nef; ac yna y galara holl lwythau y ddaear; a hwy a welant Fab y Dyn yn dyfod ar gymylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr. Ac Efe a ddenfyn ei angylion a mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion Ef yn nghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt" (Math. xxiv, 29-31). Ni chymer y pethau hyn le yn faterol, ond yn ysbrydol. Wrth yr *haul* a dywyllir y meddylir cariad at yr Arglwydd; wrth y *lleuad*, gwirionedd; wrth y *ser*, gwybodaeth am gariad a gwirionedd; wrth *arwydd Mab y Dyn yn y nef*, y gwirionedd dwyfol yn ymddangos; wrth

holl lwythau y ddaear yn galaru, holl bethau cariad a gwirionedd; wrth *ddyfodiad yr Arglwydd yn nghymylau y nef gyaa nerth a gogoniant;* wrth *gymylau*, ystyr lythyrenol y Gair; wrth *ogoniant*, ystyr fewnol y Gair; ac wrth *angylion a mawr sain udgorn*, datguddiadau o'r nefoedd, o'r lle y daw gwirionedd dwyfol. Fel hyn yn niwedd y byd, ceir agoriad gan yr Arglwydd i ddirgelion allweddau y diafol, ac i ddirgelion allweddau Duw.

Daeth diwedd y byd mewn canlyniad i wahanu y Trindod Dwyfol i dri pherson—cyfeiliornad yn creu tywyllwch a thrueni, ac yn troi y blaned yn Bedlam. Y Beibl drwyddo a ddysg undod y Duwdod; dylifiad o'r Duwdod i'r enaid a ddysg yr un peth, fel y gwna goleu yn llifo o'r haul i'r llygad, ein hargyhoeddu o undod brenin y dydd. Gall rheswm hefyd ganfod trwy undod y cread, mai un yw y Crewr, a bod y greadigaeth yn ei chydlyniad yn dibynu ar undod y Duwdod, fel y corph yn ei gydlyniad ar undod yr enaid. Yr un Duw hwn yw yr Arglwydd Iesu Grist, Emanuel, Duw gyda ni; Tad, Mab, ac Ysbryd Glan yn un Person. "Duw y duwiau ac Arglwydd yr arglwyddi, Duw mawr, cadarn ac ofnadwy, yr hwn ni dderbyn wyneb, ac ni chymer wobr" (Deut. x, 17). "Ac y mae ganddo ar ei wisg, ac ar ei forddwyd, enw wedi ei ysgrifenu, BRENIN BRENHINOEDD, AC ARGLWYDD ARGLWYDDI" (Dat. xix, 16). Mor fawreddog ac addoladwy yr ymddengys, yn gallu cau ac agor ar waethaf allweddau y diafol. "Y mae genyf," meddai, "agoriadau uffern a marwolaeth" (Dat. i, 18). "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau" (Dat. iii, 8).

1. AGORIAD I ALLWEDDAU DIAFOL. Y mae gan y Diafol allweddau gwelw-las, allweddau duon, ac allweddau pygliw, sef drygioni, twyll, a damnedigaeth yn cloi allan o ddynion, ac o Eglwys Dduw y Daioni, y Gwirionedd, a'r Bywyd Dwyfol; nes fod teyrnas y tywyllwch wedi goresgyn y tir. Duodd yr haul, syrthiodd y ser, rhewodd y dyfroedd, y dyfnderoedd a drowyd yn diriogaeth angau Diflanodd tymhorau y flwyddyn, gwywodd y glaswellt, crinodd y coedydd a'r coedwigoedd, darfu y lliwiau o'r nen, o'r tir, a'r mor; yr adar a'r anifeiliaid a fuont feirw, a'r hil ddynol a drengodd yn yr ail-farwolaeth. "Mi a edrychais ar y ddaear, ac wele afluniaidd a gwag oedd; ac ar y nefoedd, a goleuni nid oedd ganddynt. Mi a edrychais ar y mynyddoedd, ac wele yr oeddynt yn crynu; a'r holl fryniau a ymysgydwent. Mi a edrychais, ac wele nid oedd dyn, a holl adar y nefoedd a giliasant. Mi a edrychais, ac wele y doldir yn anialwch, a'i holl ddinasoedd a ddistrywiasid o flaen yr Arglwydd, gan lidiowgrwydd ei ddigter ef. Canys fel hyn y dywedodd yr

Arglwydd, y tir oll fydd ddiffaethwch; ac eto ni wnaf ddiben. Am hyny y galara y ddaear, ac y tywylla y nefoedd oddi uchod; o herwydd dywedyd o honof fi, Mi a'i bwriedais, ac ni bydd edifar genyf, ac ni throaf oddi wrtho" (Jer. iv, 23-28). "Oni buasai i Arglwydd y lluoedd adael i ni ychydig iawn o weddill, fel Sodom y buasem, a chyffelyb fuasem i Gomorah" (Esaiah i, 9).

Aeth crefydd yn gellwair; clebar parrot yw pregethu; penseiri anrhefn yw pabau pob enwad; ofergoelion yw y credoau; clybiau yw y capelydd; ciwdod am y degwm yw cenadon yr Eglwys wladol; cancr yw Cristionogaeth yr oes; Golgotha yw y cyfundebau a'r cymanfaoedd, lle y croesholir Arglwydd y Bywyd. Ni welir apostolion yr Oen, na gwroniaid ffyddiog a feiddiant ffyrnigo ffugwyr Sion, a sirioli yr ychydig ffyddloniaid a anadlant gyda'r seraphiaid yn awyr anfarwoldeb. Dim yw y Duwdod, a gwegi yw y Goruchaf. Enw ac elw ac esmwythfyd yw pob peth y pwlpud. Pechodau rhyfygus yw prif rinweddau yr oes. "Wrth yr anuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymerech ar fy nghyfamod yn dy enau, gan dy fod yn casau addysg, ac yn taflu fy ngeiriau i'th ol. Pan welaist leidr, cytunaist ag ef; a'th gyfran oedd gyda'r godinebwyr" (Salm l, 16, 18). Ni oddefid y fath efengyl am awr, oni bai ei bod yn ateb bydol bwrpas y penogion bras, a pharchus.

Credoau goruwch-naturiol a hawliant fywyd goruwch-naturiol; heb fyw y naill, ffolineb ac afradedd yw proffesu y llall. Cristionogion y ganrif gyntaf, fel y dywed Polycarp, oeddynt Grist-gludwyr. Codent at y Ceidwad trwy golli hunan, yr unig ffordd i godi, fel sylweddau yn esgyn i'r awyr trwy golli eu gronynau cwrs. Yn ystod y ganrif gyntaf a'r ail, cysegr Duw, a llys uchel oedd yr Eglwys; ond yn y drydedd ganrif, cafodd ei darostwng gan Cystenyn i fod yn sefydliad gwladol. Yn y bedwaredd ganrif, Ariaid ac Athanasiaid a ymladdent yn nghylch geiriau amheus, gan esgymuno eu gilydd, ac heb nemawr, fel y dywed Hilary, yn glynu wrth Iesu Grist. Y canrifoedd dilynol a gawsant eu gwenwyno gan gredo Nicea, eu handwyo gan nwydau dynion, a'u deifio gan anadl y diafol. Yn y bumed ganrif, dechreuwyd addoli delwau, a llenwid y tir gan fynachod ffyrnig mewn dillad ffiaidd, yn llofruddio a lladrata trwy y trefydd a'r tiriogaethau. Yn y ganrif hon y cododd y Collyridianiaid, plaid yn dal y dylai y Forwyn Fair gael ei dyhuddo a diod-offrwm a theisenau, a'i haddoli fel Mam y Duwdod. Yn y chweched ganrif, aeth esgobion ac offeiriaid yn chwareuwyr afrad; etholid y pabau trwy wobrwyon a gloddest, a llwyr lygrwyd pobl y Dwyrain gan gristionogion anuwiol, pan y gwnaeth yr

Arglwydd yn ei drugaredd, ganiatau i Mahomet o Mecca, gychwyn crefydd newydd yn mhlith y llwythau diffrwyth. Yn y seithfed ganrif, amlhaodd y mynachod, cryfhaodd gallu penboethiaid, ac ymchwyddodd y Babaeth yn ei hawdurdod Fabilonaidd. Yr wythfed ganrif a nodid gan ymladdau y delw-dorwyr a'r delw-addolwyr, gan Lyfr yr Homiliau yn disodli y Beibl, gan y dadleuon am ddeiliad yr Ysbryd Glan, a chan y Saraceniaid, trwy Asia ac Affrica, yn diwreiddio yr Efengyl. Yn y nawfed ganrif, yr oedd poo lleiandy yn llawn llygredd, pob mynachdy yn gyrchfa oferwyr, pob Abad yn frawd i ddyhirod, a'r Babaeth yn cael ei pherffeithio gan Ddiafol trwy y *False Decretals*, a elwir "Ffug-ysgrifau Isodore" a "Maes y Celwyddau." Yn y ddegfed ganrif, aeth Rhufain gristionogol yn uffern ar y ddaear; etholid y pabau gan butteiniaid; dewisid weithiau fastardiaid y tadau sanctaidd; aeth palas y pab yn butteindy, a menywod anllad a reolent yr eglwys a'r wladwriaeth. Yn yr unfed ganrif ar ddeg, cyhoeddid athrawiaeth wyllt y Traws-Sylweddiad, fod y Duwdod oll yn oblygedig mewn afrlladen yn cael ei lyncu gan ddyn; lledodd heresi ddireswm Anselm—fod haeddiant Crist yn prynu ymaith gosb pechadur; cododd cynddaredd Hildebrand yn erbyn priodas, yn tori y rhwymau mwyaf tyn a thyner, gan droi deng myrdd o aelwydydd yn anghyfanedd; cychwynodd Rhyfeloedd y Groes trwy Pedr y Meudwy, gan ddirgrynu y byd cristionogol, a phery i filiwnau ddarfod am danynt. Yn y ddeuddegfed ganrif, parhaodd y bwriad brwnt o dywallt gwaed y digred; pabau ac esgobion a aethant i faes y frwydr; difwynid y teyrnasoedd, a daliai yr eglwys i fyny lywodraeth lladrad a llofruddiaeth. Yn y drydedd ganrif ar ddeg, dyfeisiwyd y chwil-lysoedd creulawn; gwnaeth Dominic Guzman a'i fyddin gelanedd o'r Albigensiaid; a throwyd cynddaredd Rhyfel y Groes i wneud cyflafan o'r Cristionogion, feiddient feddwl yn wahanol i'r demoniaid a dra-awdurdodent ar etifeddiaeth Duw. Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, symudwyd sedd y Babaeth o Rufain i Avignon; ymunodd y pabau a breninoedd ysglyfaethus Ffrainc i ysbeilio y bobloedd. "Cyd-ysbeilwyr," medd Celestin, "a godasant i awdurdod fel cadnoaid, a deyrnasent fel llewod, ac a drengasant fel cwn." Yn y bymthegfed ganrif, defnyddid y fflam a'r ffagod, er atal y ffyddloniaid i ddarllen y Gair a gyfieithwyd gan Wickliff angylaidd. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, dynoethwyd ffieidd-dra y Babaeth gan y Diwygiad Protestanaidd,—canrif galonog i gyhoeddi rhyddid a chyfrifoldeb dyn, ond canrif a andwywyd gan greulonderau y Protestaniaid, a chan y gredo erchyll, nai trwy ffydd yn unig y cyfiawnheir dyn. Yn y ddwyfed ganrif

ar bymtheg, Protestaniaeth a brofodd ei hun yn sarph a draig goch fawr. Yn y ddeunawfed ganrif, brad o'r bron oedd bryd y Babaeth, a brad oedd Protestaniaeth, a thryblith tan a brwmstan oedd gwrthdarawiad y ddwy a'u gilydd. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelid y ddwy hudoles yn eu llawn faint, yn cadw eglwysi cred yn gestyll y cryfarfog; ond eu barn a basiodd yn y byd ysbrydol. "Ac mi a welais orseddfainc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddi wrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nef; a lle ni chafwyd iddynt" (Dat. xx, 11). Daw arnynt mwy beunydd ar y blaned ddystryw ni wypant; cywilyddir a gwaradwyddir hwynt yn dragywydd. "Byddant fel us o flaen y gwynt; ac angel yr Arglwydd yn eu herlid. Bydd eu ffordd yn dywyllwch ac yn llithrigfa; ac angel yr Arglwydd yn eu hymlid" (Salm xxxv, 5, 6).

Gwel un yn eistedd ar yr Orsedd Wen,
Coronau lawer yn addurno ei ben;
Ei lygaid fflachiant fellt trwy'r chwil-lys cudd,
Ar gyfundraethau twyll arllwysant ddydd.
Eu nef a'u daear ffugiol ffoant 'nawr,
O flaen dysgleirdeb yr Orseddfainc fawr;
A phyramidiau ofergoel yr hirnos ddu,
Ymdoddant gan ei gwres a'i goleu hi.

N. R.

2. AGORIAD I ALLWEDDAU DUW. "Ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth" (Dat. i, 18). "Yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd; yr hwn sydd yn agoryd ac nid yw neb yn cau, ac yn cau ac nid yw neb yn agoryd" (Dat. iii, 7). Wickliff, Luther, Zuinglius, Behmen, y Puritaniaid, a'r Tadau Pererinol, oeddynt ragredegwyr yr oes newydd a gychwynwyd gan yr Arglwydd, trwy Emanuel Swedenborg, ac a ddygir yn mlaen yn awr, trwy y cydfyd gweledig ac anweledig, gan yr Arglwydd ei Hun a'i holl angylion. Rhaid i ni wrth burdeb, myfyrdod a pharchedig ofn i fwynhau bywyd a gwynfyd yr ail-ddyfodiad. Agorodd yr Arglwydd y nefoedd i Swedenborg. Gwelodd Ddydd Mawr ei ddigter Ef yn mhlith miliwnau byd y farn. Cyfnewidiadau aruthrol y frawdle yno, a greant gyfnewidiadau cyfatebol yma. Y nefoedd newydd a ddisgyna i'r ddaear yn mhob man, a chaiff ei rhwystro yn mhob man, yn benaf gan swyddogion crefyddol a gwladol. Alexander Fawr a safai o flaen twba Diogenes, gan ofyn i'r athronydd tlawd a safai yn yr haul: "Pa ffafr a fedraf wneud i ti, Diogenes?" Atebodd Diogenes: "Saf o'r goleu." O! y ffafr wneid a'r

byd, pe ciliai pregethwyr, a'r pleidiau gwladol, o'r goleu. Ond fel y dring y Dydd, erlidir y bwganod duon i'r Afagddu. Y dyfodiad a frysia eu rhawd, wrth rymusu y frwydr rhwng goleuni a thywyllwch. Cyflawnir prophwydoliaeth Zoroaster am Oromasdes yn concro Armianes. Cydia Gair yr Arglwydd o hyn allan yn gryfach nag erioed yn neall a chalon dyn. Dadblyga yr oes newydd o'r Ddynoliaeth Ddwyfol, trwy aneirif a thragwyddol fydoedd, yn goron oesol yr oesau oll. Y llen a godwyd oddi ar y byd ysbrydol; gallwn weled y tir pell a'r Brenin yn ei degwch. Wrth Eglwys Philadelphia y dywed, "Wele, yr wyf yn dyfod ar frys; dal yr hyn sydd genyt fel na ddygo neb dy goron di" (Dat. iii, 11).

Dyddan yw dyfalu ar ryfeddodau y ganrif ddiweddaf fel profion o genadaeth y Gweledydd. Ysgrifenodd ei athrawiaethau, a'i ddatguddiadau yn Lladin. Ychydig welsant y llyfrau ar y cyntaf, ac ychydig brisient am eu gweled; ond creodd Duw galonau i garu y genadwri. Caent y profion o'i gwirionedd ynddi ei hun, gan ei derbyn ar ei theilyngdod. Bellach, boddlonir y derbynwyr gan amledd o brofion allanol, yn aruthredd cyfnewidiadau a doniau y ganrif a aeth heibio. Nid oedd goleuadau canrif gyntaf Cristionogaeth i'w cydmaru a heulwen danbaid y ganrif ddiweddaf. Y byd a ymeanga a'r bobloedd a luosogir megys yn wyrthiol. Er fod rhyfelwyr creulon wedi llanw lleoedd a chelaneddau, ac archolli pen llawer gwlad, gan osod palasoedd yn fflamiau, a dinasoedd yn bentyrau o ludw; ond trwy diroedd newyddion, a lluosogiad yr hil, dyblodd y byd yn y ganrif ddiweddaf, gan gyfoethogi mewn meddianau a manteision tu hwnt dychymyg y canrifoedd blaenorol. "Nid cyntaf yr ysbrydol, ond yr anianol, ac wedi hyny yr ysbrydol" (I Cor. xv, 46). Y gwelliantau anianol ydynt ragbarotoadau i welliantau ysbrydol. Wedi adfer yr esgyrn sychion i ffurf ddynol y daeth yr anadl oddi wrth y pedwar gwynt a bywyd iddynt.

Cyfrifir y glo yn un o brif elfenau gwareiddiad. Bach oedd y bri arno cyn y ganrif ddiweddaf. Yn ystod yr haner olaf o'r ganrif, cynyddodd traul y glo o 60 i 400 can miliwn o dunelli yn flynyddol. Yn y ganrif ddiweddaf y ganwyd yr ager-longau, fel cerbydau cerubiaid yn gyru trwy y weilgi, gan uno cyfandiroedd yn un gymydogaeth. Datguddiadau y ganrif ddiweddaf yw goleu y nwy, a'r trydan—y nef yn disgyn i sirioli nos y byd. Rhyfeddod y ganrif ddiweddaf yw y gwefr-hysbysydd, yn ffrwyno a dofi y fellten fel ebol rhadlon, a'r meddwl yn ei marchog mewn amrant i'r pellderau. Cyn y ganrif hon, credid mai 6,000 o flynyddoedd yn ol y crewyd yr haul, y lloer, a'r ser. Ond dangosodd Swedenborg, a Kant, ac eraill mai tyfiant oesau afrifed yw y cread, a cheir profion

fod dynion wedi byw ar y ddaear dros ddeng myrdd o oesau, yn dangos twyll bron bob peth a elwir hyd yma yn hanes.

Gorfoledd yw canfod y byd hefyd yn cael ei greu o'r newydd yn gymdeithasol. Cynydd cerddoriaeth a'i heffaith fwyn a melus; eangiad addysg yn addurno dyn; golud y wasg yn gwasgar hufen dysg a dawn i'r tlotaf; rhyddid barn, rhyddid gwladol, rhyddhad y caethion, rhyddfreiniad yr Iuddew, y Pabydd, a'r Ymneillduwr; agoriad drysau y prif ysgolion, yr etholfraint i'r bobl, llywodraeth leol, a'r ymgais am gyflafareddiad, ydynt ragorfreintiau newydd y ganrif ddiweddaf. Ac y mae dyddiau anrhaith y Degwm wedi eu rhifo, y grefydd wladol ar drancedigaeth, twyll offeiriadaeth yr holl sectau i ymddatod, a landlordiaeth a'i lladradau erfawr, dan dynged i drengu. Yn y ganrif ddiweddaf y cychwynwyd y cymdeithasau Beiblaidd a chenadol, yr Ysgol Sul, a Dirwest. Y bywyd newydd, trwy wahanol foddau yn adgyweirio anfarwolion, a gylchdroa fel yr haul trwy y deuddeg arwydd, fel y nodd trwy gangau y pren, ac fel y gwaed trwy yr holl wythienau. Treiddia o'r Duwdod hanfodol yn y Ddynoliaeth Ddwyfol trwy y nefoedd, o'r nefoedd trwy Hades, ac o Hades trwy holl naturiaeth. Treiddia hefyd trwy y Ddynoliaeth Ddwyfol yn uniongyrchol trwy yr holl fydysawd. Dadebra angylion, ysbrydion, cythreuliaid, dynion, a phob creadur, a phob defnydd i'r gronyn lleiaf hyd gyrau eithaf y daearfydoedd dirifedi. Pa le bynag y mae dwylaw yn gweithio, tafodau yn siarad, eneidiau yn meddwl, a chalonau yn curo, yno yr ymweithia y bywyd newydd yn dra rhyfeddol. Y mae yn bwrlymu fel y ffynonau, yn llifo fel yr afonydd, yn gwibio fel y gwynt, ac yn goleuo a chynhesu fel yr haul. Goreura gylchoedd a gororau creadigaeth. Ei lewyrch a welir fel ymylon arian ar ochrau y cymylau duaf—goleuni fel Orion, ac fel y lloer yn yr hwyr, fel y seren foreu cyn y wawr, ac fel yr haul yn y dydd.

Y bywyd newydd hefyd a gyffroa yr uffernoedd, gan fod pob egni newydd o'r nefoedd i wneud da, yn dihuno egni newydd yn uffern i wneud drwg. Naws y nef a nwyon anwn a gydgwrddant ar y ddaear yn awr yn anghydmarol, gan chwyldroi a thryferwi fel anferth drobyllau. Yr amser a hynodir gan y gwrthdarawiadau mwyaf ofnadwy; gwelliantau naturiol, ysbrydol a nefolaidd, ac adfeilion, diffaethwch a diffrwythdra di-ail; ysgolion Sabothol, cymdeithasau cenadol a Beiblaidd, ac anffyddiaeth, cnawdolrwydd a rhyfyg anfesurol; caethwasiaeth, a'r gaethfasnach wedi ei difodi yn Mhrydain, America, a Rwsia, ac eto anwireddau y pleidiau gwladol ar gynydd, gormes ffasiwn, a thrachwant swyddogion; gorlawnder o addysg, areithio, a phregethu, ac eto diflaniad

doethineb, gwyleidd-dra, a chydwybod; llyfrau, cyfnodolion, a phapyrau ddylasent fod yn oleuadau claer y greadigaeth newydd, ac eto yr argraph-wasg yn bwrw mwg, a than, a brwmstan i'r awyr; cymdeithasau i ddofi yr anwar, i noddi yr unig, i sobri y meddw, i ymgeleddu y ferch syrthiedig, ac i sancteiddio yr ysmociwr ansyber, ac eto penrhyddid, putteindra, meddwi, ysmocio, llofruddio, a hunanladdiadau mewn erfawr fri. Os yw Macadam wedi lledu a llyfnu ein ffyrdd, y mae diafol a satan hefyd wedi lledu a llyfnu y ffordd lydan. Os yw Watt a Stevenson wedi cychwyn y cerbydau tan, y mae Apolyon ac Abadon hefyd, wedi cychwyn cerbydau newyddion rhwng y ddaear ac uffern, a'r tyrfaoedd yn gyru yn ynfyd, fel Jehu, i'r trueni. Os yw gwifrau y *telegraph* yn uno y talaethau a'r teyrnasoedd, y mae gwifrau drygioni a dichellion hefyd yn uno y byd a'r eglwys a theyrnas y tywyllwch. Os yw y trydan yn goleuo ein trefydd, y mae dylanwad y fallgyrch eirias yn trydanu trwy y trigfanau. Os yw ysbryd heddwch a chyflafareddiad yn ymweithio trwy y llywodraethau, y mae ysbryd rhyfel hefyd yn parhau i chwyddo rhif a medr miliwnau Ewrop ac America, gan ymeangu yn felldithion fyrdd trwy Affrica, Asia, ac ynysoedd pell y byd. Cyfnod cychwyniad yr Armagedon yw nwn. Yr Arglwydd sydd yn codi o'r fangre. "Llawenhaed y nefoedd, a gorfoledded y ddaear; rhued y mor a'i gyflawnder. Gorfoledded y maes a'r hyn oll y sydd ynddo; yna holl brenau y coed a ganant, o flaen yr Arglwydd; canys y mae yn dyfod i farnu y ddaear; Efe a farn y byd trwy gyfiawnder, a'r bobloedd a'i wirionedd" (Salm xcvi, 11-13).

Os ydym aelodau yn Eglwys Philadelphia, y mae genym rywbeth ardderchog i'w wneud er troi y ddaear yn baradwys Duw. Y mae y gwirioneddau mwyaf goruchel yn eglur i ni, a drysau y bydoedd a'u trysorau yn agored o'n blaen. Yr ydym dan rwymau i gydweithio a'r elfenau nefol sydd i greu hinsawdd newydd yn y byd—hinsawdd o'r haf na dderfydd. Y mae genym gyfle yn nhy ein pererindod i ganu anthemau newydd, cerddorion y nefoedd newydd, a'u dysgu i ryw bererinion newydd ar eu taith i dy eu Tad. Y mae genym y fraint, ac y mae arnom rwymau, i gadw Eglwys Philadelphia yn babell newydd i'r Arglwydd Dduw a'r Oen, a'r gagendor mawr rhyngom a synagogau Satan, lle nad yw crefydd ond *Punch* a *Judy* y pregethwyr i hudo colledigion er mwyn y boced. Ymwrolwn yn yr Anweledig, ac mewn Anfarwoldeb. Llawer sydd yn llywodraeth Duw yn henach na ni, ond byddwn byw cyhyd a neb. Cydganodd ser y boreu, a gorfoleddodd meibion Duw ar y boreu y daethom i'r byd, ond ni cha neb weled dydd angladd ein bodolaeth. Diweddar y

daethom i faes bywyd, ond byddwn arno mor hwyr a'r hwyraf. Hawdd gwybod y man y cychwynasom i'r yrfa fawr, ond ni cha neb gyfle i gofnodi y diwedd. Ein bywyd tymhorol sydd fel y tarth yn codi o Teifi, dros ychydig yn ymddangos wedi hyny yn diflanu; ond ein bywyd ysbrydol sydd fel Teifi ei hun, yn rhedeg yn mlaen i'r *Bar* ac i'r eigion mawr. Ein bywyd tymhorol sydd fel y niwl yn glogyn brau am awr ar war y Freni; ond ein bywyd ysbrydol sydd fel y Freni ei hun, i sefyll ar ei sodlau yn oes oesoedd, trwy bob tymhestloedd a thymhorau. Ein bywyd tymhorol sydd fel gyrfa fer un diwrnod; ond ein bywyd ysbrydol sydd fel gyrfa yr haul trwy y deuddeg arwydd, a thrwy yr holl ganrifoedd. Boed ein perthynas fywiol ag Eglwys Philadelphia fel Teifi ac nid fel y tarth; fel y Freni ac nid fel y niwl; fel yr haul, ac nid fel un diwrnod. Coelir fod Charlemagne, o herwydd ei gariad, yn ymgnawdoli bob gwanwyn a haf, yn y blodau a'r planhigion, gan loni y byd, a llanw yr awyr a pherarogl. Boed ein cariad at Eglwys Philadelphia y fath, fel y gallom ymgnawdoli yn barhaus, ac am byth yn y baradwys dragywyddol a ddaw trwyddi i'r ddaear a'r bydoedd. "Ac mi a welais nef newydd a daear newydd; canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio." (Dat. xxi. 1.)

IV.—AGORIAD I BWERAU Y DDAU GLOI.

Gwrthdarawiad oedd y cloi yn Llechryd, rhwng Teyrnas y Goleuni Newydd a Theyrnas y Tywyllwch. Gwres Dyfodiad yr Arglwydd a'r holl angylion sanctaidd, dynodd allan greulonder y clowyr, fel y tyn haul y drygsawr o'r tomenau, a'r seirff o'r perthi. Clowyd ni allan ar ddiwedd Chwefror oer, y gauaf er hyny tu cefn, ac ar encil dragwyddol; ac er gorfod gwynebu gerwinder Mawrth, a gwybrenau gwamal Ebrill, rhaid i nwydau y misoedd ynfyd ymwario ymaith. Dilynir hwy gan wenau Mai, a hinon mwyn Mehefin. Gwelir y blodau ar y ddaear; addurnir y bronydd a briallu, a'r meusydd a meillion. Coronir y bryniau a gwyrddlesni ac a

garlantau haf. "Canys wele y gauaf a aeth heibio, y gwlaw a basiodd, ac a aeth ymaith. Gwelwyd y blodau ar y ddaear; daeth amser i'r adar ganu. Clywid llais y durtur yn ein gwlad. Y ffigysbren a fwriodd allan ei ffigys îrion, a'r gwinwydd a'u hegin grawn a roddasant arogl teg. Cyfod di, fy anwylyd, a thyred di fy mhrydferth." (Can. ii. 11-13). "Dysgwch ddameg oddiwrth y ffigysbren; pan yw ei gangen eisoes yn dyner, a'i ddail yn tori allan, chwi a wyddoch fod yr haf yn agos." (Matth. xxiv. 32). Agos yw yr haf, ac wrth y drysau i gloi y gauaf o'r byd, fel na fedr gallu y tywyllwch wedi hyny gloi dirwest a"r Gair o dy yr Arglwydd. Craffwn ar bwerau y ddau gloi:

I. Y PWERAU I GLOI DIRWEST A'R GAIR O DY DDUW.
II. Y PWERAU I GLOI Y DAFARN A'R ANWIR O DY DDUW.
III. YR ADDYSGIADAU ODDI WRTH BWERAU Y DDAU GLOI.

I. Y PWERAU I GLOI DIRWEST A'R GAIR O DY DDUW.

1. Pwerau y Dafarn. Diafol trwy y dafarn a gloa ddirwest a Duw o ddynion, a dynion y dafarn a'r diafol a gloant ddirwest a Duw o'i dy. Mawr, a mwy na Diana yr Ephesiaid, yw y dafarn. "Trechaf yw gwin . . . mor nerthol yw gwin, yr hwn sydd yn twyllo pob dyn ar a'i hyfo. Y mae efe yn gwneuthur yr un meddwl gan y brenin a chan yr amddifad, gan y caeth a'r rhydd, gan y tlawd a'r cyfoethog. Y mae efe yn troi pob meddwl i ddigrifwch a llawenydd, fel na chofio dyn na thristwch na dyled. Ac y mae efe yn gwneuthur pob calon yn hael, ac ni feddwl am frenin na phenaeth, ac efe a bair adrodd y cwbl wrth dalentau. A phan fyddont wedi yfed, nid argofiant garu na chyfeillion na brodyr, ac wedi hyny, ar fyrder y tynant gleddyfau. Ac wedi iddynt ddadebru o'r gwin, ni ddaw yn eu cof, beth a wnaethant" (Esdras iii, 10, 18-24). Gall y gwin hefyd droi miliwnau yn gaethion blys, ac arwain ei gaethion i'r tlotdy, i'r Bedlam, i'r carchar, i'r crogbren, ac i golledigaeth, a gall gloi dirwest a'r Gair o dy Dduw.

2. Pwerau Mammon. Addolwyr Mammon a esgeulusant y Duwdod, heriant ei air a gorseddau y nefoedd. Tebyg ydynt i'r wadd, yn gweled dan y ddaear, ond yn ddall ar y tir, ac i'r ystlum a'r ddyllhuan, yn gweled yn y nos, ond yn ddall yn y dydd. Iddynt hwy y mae "Dydd yr Arglwydd yn dywyllwch, ac nid yn oleuni; yn dywyll iawn, ac heb lewyrch ynddo" (Amos v, 20). Addolwyr Mammon fuont yn cloi dirwest a datguddiadau y Gair o dy yr Arglwydd. Buont fel y tywysogion cyndyn yn amser Esaiah, yn dyfal chwilio y rhai oedd yn caru rhoddion, ac yn dilyn gwobrau.

Aeth llofruddion y ddau dyst i waelod eu llogellau, ac aeth cybyddion Sodom a'r Aipht yn wyrthiol o hael, a'u gwragedd didosturi yn dirion fel Dorcas. Buddugoliaeth y budr-elw, a Jiwbili dysgyblion y torthau oedd y "Cloi"; yn brawf y gall Mammon droi ty gweddi yn dy marchnad, a thy ein Tad yn ogof lladron.

3. Pwerau y Ddraig. "A rhyfeddod mawr a welwyd yn y nef: gwraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren. A hi yn feichiog, a lefodd, gan fod mewn gwewyr a gofid i esgor. A gwelwyd rhyfeddod arall yn y nef: ac wele ddraig goch fawr, a saith ben iddi, a deg corn, ac ar ei phenau saith coron" (Dat. xii, 1-3). Arwyddlun yw y ddraig o'r rhai wnant Dduw yn dri Pherson, yr Arglwydd Iesu yn ddau, a ysgarant ffydd a chariad, ac a wnant ffydd yn unig yn amod cadwedigaeth, ac a daflant y deg gorchymyn o'r neilldu. Dyna nodau arbenig y bwystfil, sef y grefydd Brotestanaidd. "Yr hen sarph, yr hon a elwir diafol a satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd" (Dat. xii, 9). Llidiog yw y ddraig wrth y wraig a'i had, "Hi a erlidiodd y wraig . . . a'r sarph a fwriodd allan o'i safn, ar ol y wraig, ddwfr megys afon, fel y gwnai ei dwyn hi ymaith gyda'r afon . . . a llidiodd y ddraig wrth y wraig, ac a aeth i wneuthur rhyfel a'r lleill o'i had hi, y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, ac sydd a thystiolaeth Iesu Grist ganddynt" (Dat. xii, 13, 15, 17). Mawr hefyd yw gallu y ddraig, fel y dangosir gan ei deg corn. Gall ryfela a Michael a'i angylion; gall dynu traian ser y nef a'u bwrw i'r ddaear, sef diffodd pob gwybodaeth ysbrydol; gall fwrw allan megys afon ar ol y wraig, sef cenllif o gableddau; gall greu a chodi bwystfilod o'r tir a'r mor; gall dwyllo yr holl fyd; a gall gloi dirwest a'r Gair, sef athrawiaeth Michael a'i angylion, o dy Dduw.

4. Pwerau y Buttain Fawr. "A daeth un o'r saith angel oedd a'r saith phiol ganddynt, ac a ymddiddanodd a mi, gan ddywedyd wrthyf, Tyred, mi a ddangosaf i ti farn-edigaeth y buttain fawr . . . Ac ar ei thalcen yr oedd enw wedi ei ysgrifenu, Dirgelwch, Babilon Fawr, Mam Putteiniaid a Ffieidd-dra y ddaear" (Dat. xvii, 1, 5). Arwyddlun yw hon o'r Babaeth, dan reolaeth hunan-gariad, a chref am awdurdod, clod, a golud. Meddw yw hi gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu. Bwystfil yw y Gair o dan ei llywodraeth, yn dyfod i fyny o'r pydew diwaelod, ac yn myned i ddystryw. Hi a ollwng ei hysbryd a'i hystrywiau i bawb o bob sect, nad ysgrifenwyd eu henwau yn Llyfr Bywyd yr Oen. Teyrnas y Babaeth hefyd sydd tu cefn i gloi dirwest a'r Gair o dy Dduw.

5. Pwerau Ysbrydion Drwg Hades. Byd y farn yw Hades, yn y canol rhwng nef ac uffern. Y Gair agored a'n dysg fod cymundeb uniongyrchol rhwng ysbrydion Hades a dyn ar y ddaear. Serch a meddwl pob dyn a dreiddiant at ysbrydion Hades, a thrwyddynt i'r nef neu i uffern. Serchiadau a meddyliau nef ac uffern, ddylifant trwy ysbrydion Hades, i galon a deall dyn ar y ddaear. Dibyna bywyd dyn ar y gyfathrach ryfedd anweledig hon. Caiff y dynion da ar y ddaear eu defnyddio gan ysbrydion da, oblegyd y maent yn un a'u gilydd; a chaiff y dynion drwg eu defnyddio gan yr ysbrydion drwg. Cysur i'r damniaid yn Hades yw, cydweithio a'r damniaid ar y ddaear, i gloi dirwest a'r Gair o dy Dduw.

6. Pwerau y Deyrnas Satanaidd. Uffern a renir i ddwy deyrnas, y deyrnas ddieflig a'r deyrnas satanaidd. Y deyrnas ddieflig a gynwys y rhai sydd yn trachwantu am awdurdod oddi ar hunan-gariad, ac oddi ar y trachwant yn ynfydu. Ond y deyrnas satanaidd, a gynwys y rhai sydd yn trachwantu am awdurdod oddi ar ymchwydd gwybodaeth, ac oddi ar y trachwant yn gwallgofi. Pob gweithred ddrwg ar y ddaear, a dardd yn uffern. A rhoddir croesaw a chrechwen i wallgofiaid uffern trwy y deyrnas satanaidd, wrth gloi dirwest a'r Gair o dy Dduw. "Hon yw eich awr chwi, a gallu y tywyllwch" (Luc xxii, 53).

7. Pwerau y Deyrnas Ddieflig. Y deyrnas satanaidd a'r ddieflig sydd un a'u gilydd, a'r anuwiol ar y ddaear sydd un a'r ddwy, yn byw, symud, a bod yn eu hawyrgylchau dylifol, yn gyfranog, nid yn unig o wallgofrwydd y deyrnas Satanaidd, ond hefyd o greulonder ac ynfydrwydd y deyrnas ddieflig, ac yn hwylusu eu dybenion dinystriol yn y byd; yn arbenig wrth gloi dirwest a'r Gair o dy Dduw. Gall y clowyr a'u cyngreiriau ymffrostio. "Gwnaethom amod ag angau, ac ag uffern y gwnaethom gyngrair . . . gosodasom ein gobaith ar gelwydd, a than ffalsder y llechasom" (Esaiah xxviii, 15).

2. Y PWERAU I GLOI Y DAFARN A'R ANWIR O DY DDUW.

1. Pwerau Llwyrymwrthodiad. Yr egwyddor o lwyrymwrthodiad a ddylifa o'r Duwdod drwy y nefoedd i galonau nefol ar y ddaear. Goleuni haul y greadigaeth newydd ydyw, i ymlid ymaith hirnos fawr y Dafarn, y Myglys a'r Opium. Fel pobl ger y pegynau yn gwisgo eu dillad goreu, ac esgyn i ben y mynyddoedd i roesawu yr olwg gyntaf ar frenin y dydd wedi misoedd maith o dywyllwch, felly yr ymdrwsia aelodau Eglwys Philadelphia, gan fyned gyda'r angel yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, i longyfarch gwawrddydd Dirwest yn tori ar drueni y byd. Y Ddirwest ddwyfol hon, sydd lwyrymwrthodiad oddi wrth bob drwg yn gyffredinol. ac oddi wrth bob diodydd meddwol yn neilldiol.

2. Pwerau Meddwl Ysbrydol. Bod o feddwl ysbrydol yw medru esgyn allan o oleuni a gwres y byd hwn, i oleuni a gwres y nefoedd; gallu i ymryddhau o garchar a chyffion amser a dynol farnau, gan ehedeg yn awyr a nerthoedd bywyd anherfynol, heb geisio ond y golud a'r gogoniant sydd o Dduw yn unig. Byr yw ein perthynas a'r byd materol, byr at oesau amser heb son am dragwyddoldeb. Buan y derfydd ein pryderon teuluaidd, ein dagrau a'n dedwyddwch tymhorol, ein trafodaeth chwerw a melus mewn masnach, byd, ac eglwys, a'n holl ddulliau presenol o fodoli. "A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, frodyr, am fod yr amser yn fyr. Y mae yn ol fod o'r rhai sydd a gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt; a'r rhai a wylant, megys heb wylo; a'r rhai a lawenhant, megys heb lawenhau; a'r rhai a brynant, megys heb feddu; a'r rhai a arferant y byd hwn, megys heb ei gamarfer; canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio" (I Cor. vii, 29-31). Ymegnia, Eglwys Philadelphia, yn nerthoedd y byd a ddaw, i ddiwreiddio pob eilun-addoliaeth yn gyffredinol, ac addoliad Mammon yn neillduol. "O herwydd paham nid ydym yn pallu: eithr er llygru ein dyn oddi allan, y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd. Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog rhagorol, yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni; tra na byddom yn edrych ar y pethau a welir; canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragwyddol" (II Cor. iv, 16-18).

3. Pwerau y Wraig wedi ei gwisgo a'r Haul. "A rhyfeddod mawr a welwyd yn y nef: gwraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen, goron o ddeuddeg seren . . . a hi a esgorodd ar fab gwryw, yr hwn oedd i fugeilio yr holl genhedloedd a gwialen haiarn; a'i phlentyn hi a gymerwyd i fyny at Dduw ac at ei orseddfainc ef" (Dat. xii, 1, 5). Y wraig wedi ei gwisgo a'r haul yw yr Eglwys Newydd yn y nef a'r ddaear, sef Eglwys Philadelphia, yn addoli yr Arglwydd Iesu Grist yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol, ac yn byw iddo yn ol holl orchymynion ac athrawiaethau y Gair. Yr haul, sef cariad at yr Arglwydd, yw ei gwisg; y ser, sef syniadau ysbrydol o'r Gair, yw ei choron; ei hathrawiaeth yw y mab gwryw; y gwirioneod llythyrenol a naturiol, a'r ysbryd ynddo, yw y wialen haiarn sydd i lywodraethu; a dwyfol ddyogelwch olygir wrth fod y plentyn wedi ei gymeryd i fyny at Dduw, ac at ei orseddfainc Ef. Y wraig hon a goncra yr holl fwystfilod yn gyffredinol, ac a goncra y ddraig yn neillduol.

4. Pwerau Priodasferch Gwraig yr Oen. "Llawenychwn a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo Ef; oblegid daeth priodas yr Oen, a'i wraig Ef a'i parotodd ei hun. A

chaniatawyd iddi gael ei gwisgo a llian main glan a dysglaer, canys y llian main ydyw cyfiawnder y saint. . Ac Efe a ddywedodd wrthyf, Ysgrifena, Bendigedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen" (Dat. xix, 7-9). Dyna eiriau glywodd Ioan o'r nefoedd, "Megys llef tyrfa fawr, ac megys llef dyfroedd lawer, ac megys llef taranau cryfion, yn dywedyd, Aleliwia, oblegyd teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog." Aleliwia yn canlyn Aleliwia y tair nefoedd, oblegyd barnu y buttain fawr Babaidd, yr hon a lygrodd y ddaear a phutteindra, gan atal dyfodiad Priodasferch Gwraig yr Oen. Yr Eglwys Newydd a elwir Priodasferch tra yn cael ei sefydlu, neu ei huno a'r Arglwydd, trwy y Gair. Pobi Priodasferch Gwraig yr Oen yw Eglwys Philadelphia, wedi ei bythol ryddhau oddi wrth odineb cnawd ac ysbryd, ac felly yn groes i bob anlladrwydd yn gyffredinol, ac i'r Buttain Fawr yn neillduol.

5. Pwerau Ysbrydion da Hades. Y mae dynion doeth a da ar y ddaear yn nghymdeithas, ac o dan ddylanwad ysbrydion doeth a da yn Hades. Derbynia Eglwys Philadelphia gymhorth trwy gymdeithas a dylanwad yr ysbrydion rhagorol hyn, gelynion i bob ysbrydion drwg yn gyffredinol, ac i ysbrydion drwg Hades yn neillduol.

6. Pwerau y Deyrnas Ysbrydol. Rhenir y nefoedd oll, yn wrthgyferbyniol i uffern, i ddwy deyrnas, y deyrnas ysbrydol a'r deyrnas nefol. Y deyrnas ysbrydol a gynwys y rhai sydd mewn cariad at eu cymydog, ac felly mewn goleuni. Y mae pwerau y deyrnas ysbrydol yn dirgel a dwfn dreiddio trwy Eglwys Philadelphia—teyrnas groes i gyfeiliornad yn gyffredinol, a chroes i'r deyrnas Satanaidd yn neillduol.

7. Pwerau y Deyrnas Nefol. Y deyrnas nefol a gynwys y rhai sydd mewn cariad at yr Arglwydd, ac felly mewn doethineb. Y mae pwerau y deyrnas nefol yn teyrnasu mewn tosturiaethau yn ymysgaroedd Eglwys Philadelphia, teyrnas groes i ddrygioni a chreulonder yn gyffredinol, a chroes i greulonder y deyrnas ddieflig yn neillduol.

Dirgelwch dafgudd'edig er mwyn Eglwys Philadelphia yw, nas gall dyn deimlo na meddwl dim ond trwy ddylifiad o'r Arglwydd, trwy angylion y nefoedd, trwy ysbrydion Hades, a thrwy golledigion uffern. Nid oes fywyd, nac ysgogiad mewn dyn, nac angel, na diafol o honynt eu hunain. Un bywyd sydd, sef yr Arglwydd, derbynwyr bywyd yw pawb craill, pob un yn ol ei natur a'i ffurf ei hun; fel gwrthrychau o ansawdd amrywiol yn amrywio goleuni dylifol yr Haul. Er mwyn i'r bywyd lifo i fewn yn drefnus i ddyn, y mae angylion o'r nef, ac ysbrydion o uffern yn barhaus gydag ef, dau angel a dau ysbryd. Y mae dau ysbryd o uffern gydag ef, am fod ei ddeall a'i ewyllys yn ddrwg; un ysbryd o'r deyrnas Satan-

aidd yn nglyn a'i ddeall tywyll, ac un o'r deyrnas ddieflig yn nglyn a'i ewyllys ddrwg. Trwy yr ysbrydion hyn y mae dyn yn nghymdeithas yr uffernolion. Ond y ddau angel, un o'r deyrnas ysbrydol, a'r llall o'r deyrnas nefol, a geisiant oleuo ei ddeall, a sancteiddio ei ewyllys, ac felly ei ddwyn i drefn a chymdeithas y nefoedd. Heb gymundeb a'r nef ac ag uffern, nis gallasai dyn fyw eiliad. Syrthiai yn farw fel careg, oblegid ysgerid ef felly oddiwrth y Creawdwr. Y mae dau fath o ddylifiad o'r Arglwydd trwy y byd ysbrydol i'r byd naturiol; *dylifiad cyffredinol*, megys i bob math o greaduriaid anifeilaidd, am eu bod hwy yn nhrefn creadigaeth; a *dylifiad neillduol* i ddynion, am nad ydynt hwy yn nhrefn creadigaeth, ond yn wrthol i drefn, yn caru eu hunain yn fwy na'r Arglwydd, a'r byd yn fwy na'r nef. Am hyny, rheolir dynion gan yr Arglwydd trwy ysbrydion ac angylion neillduol. Caiff yr ysbrydion a'r angylion hyn eu newyd fel y newidia y dyn. Tyn y dyn ato ei hun o'r nef ac o uffern, ysbrydion ac angylion tebyg iddo ei hun. Os bydd yn ddyn blysig, tyn ato ei hun ysbrydion blysig; os bydol, ysbrydion bydol; os twyllodrus, ysbrydion twyllodrus; os balch, ysbrydion balch; ac os dialgar, ysbrydion dialgar. Pan y mae y cythreuliaid gyda dyn, y maent yn ddedwydd yn ei anwiredd a'i ddrwg; a phan y mae yr angylion gyda dyn, y maent hwythau yn ddedwydd yn ei gywirdeb a'i gariad nefol. Deuant o'r nef ac o uffern at y dyn trwy ysbrydion Hades, sef Byd y Farn. Pe llaesai gofal yr angylion am amrant, rhuthrai y dyn yn uniongyrchol, gan daflu ei hun i uffern. Yr angylion a wnant eu goreu bob amser i bob dyn, oddi ar eu cariad at yr Arglwydd, a'u hawyddfryd i achub eneidiau. Nerthoedd ydynt yn erbyn uffern o'u cariad at yr Hollalluog, a thrwy ei gydnabod Ef yr unig allu. Os tybia unrhyw angel fod ganddo nerth o hono ei hun, gwanha ar unwaith, fel nas gall wrthsefyll cymaint ag un ysbryd drwg. Priodola yr angylion, gan hyny, bob clod a gogoniant i'r Arglwydd, a dim iddynt eu hunain. Felly hefyd y gwna Eglwys Philadelphia. Pwerau yr Arglwydd yn dylifo iddi yn ddigyfrwng, trwy gyfryngau aneirif, ac yn neillduol trwy y Gair, yw ei phwerau hi; ac nid oes bwerau all eu gwrthsefyll. Nid oes allu mewn tywyllwch yn erbyn goleuni, nac mewn celwydd a chas yn erbyn gwirionedd a chariad. Fel hyn y rhagddywed yr Anfeidrol am dani: "Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn; a thi a wnei yn euog bob tafod a gyfoda i'th erbyn mewn barn. Dyma etifeddiaeth gweision yr Arglwydd, a'u cyfiawnder hwy sydd oddi wrthyf fi, medd yr Arglwydd." (Esaiah, liv, 17.)

3. YR ADDYSGIADAU ODDI WRTH BWERAU Y DDAU GLOI.

1. Fod y ddau Gloi yn Frwydr rhwng Dirwest a Meddwdod yn Llythyrenol ac Ysbrydol. Y saith gallu a gloant ddirwest a'r Gair o dy Dduw, saith rhywogaeth gythreulig o feddwdod ydynt. Y mae teyrnasiad Bacchus yn cyfateb i'r bydolrwydd sydd mewn bri, ac i grefydd y ddraig goch, a'r buttain fawr. "Arefwch a rhyfeddwch; bloeddiwch a gwaeddwch; meddwasant ac nid trwy win; penfeddwasant, ac nid trwy ddiod gadarn" (Esaiah xxix, 9). "Ac mi a welais y wraig yn feddw gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu" (Dat. xvii, 6). "Gyda'r hon y putteiniodd brenhinoedd y ddaear, ac y meddwyd y rhai sydd yn trigo ar y ddaear gan win ei phutteindra hi" (Dat. xvii, 2). Y mae meddwdod ar win yn deilliaw o seleri daearoldeb, o gwpanau erchyll y ddraig, o gerwyni gwin godineb y Babaeth, o glybiau *bogus* y byd canolog, o *saloons* y deyrnas Satanaidd, ac o *distilleries* a *dramshops* y deyrnas ddieflig. Pen *brewer* y bydysawd syrthiedig yw penaeth y cythreuliaid; a Pandemonium, palas uffern, yw y *brewery* sydd yn cyflenwi y pwerau gloant ddirwest a'r Gair o dy Dduw. Ond y saith gallu gloant y dafarn, a'r anwir o Eglwys Philadelphia, sydd saith ffurf o ddirwest yn deilliaw o'r Ddynoliaeth Ddwyfol trwy y nefoedd a pharadwys Hades. Nazaread Anfeidrol yw Iesu Grist. Rechabiaid yw yr angylion. Nid oes fasnach feddwol yn nheyrnas Dduw. Nid oes dafarn yn y ddinas nefol; ac nid oes bragdy na *brewery* ar lan afon y bywyd. *Temperance Hall* dragwyddol yw ty ein Tad, a *Band of Hope* dros byth yw pawb o'r teulu.

2. Fod y ddau Gloi yn ffurfio a dangos y Gwrthgyferbyniadau mwyaf. Cloi dirwest a'r Gair o dy Dduw oedd waith yr holl uffernoedd; cloi y dafarn a'r anwir o Eglwys Philadelphia sydd waith yr holl nefoedd. Fel y mae y gwaed yn cynwys pob peth sydd yn y bydysawd—y dwfr, yr awyr, y tan, y trydan, yr halen, yr olew, a phob peth sydd yn y mwnau, y llysiau, a'r anifeiliaid,—tair teyrnas natur,—felly y mae cloi dirwest a'r Gair o dy Dduw, yn cynwys pob elfen sydd yn y byd uffernol,—y tan, y brwmstan, y mwg, y nwyon, y nwyfre, a'r nwyfiant sydd yn anwn. Ond y mae cloi y dafarn a'r anwir o Eglwys Philadelphia yn cynwys holl elfenau y nefoedd. Dangosodd y cloi, gan hyny, fod uffern yn nghalon yr hen Eglwys, fel y dengys pydewau, mwnau, twnelau, a llosg-fynyddoedd fod tanllwyth yn nghalon y ddaear. Dangosodd y cloi hefyd ddysglaerder a harddwch y nefoedd, fel y nos yn dangos y ser. Wrth y *pulse* yr adwaenir ansawdd y corph; cura yn ffyrnig yn y dwymyn; cura yn rheolaidd mewn iechyd. Y mae *pulse* Beelzebub, a *pulse* yr Anfarwol a'r Bendigedig Benaeth yn curo yn y ddau gloi.

3. Methiant yw yr Orchest o gloi Dirwest a'r Gair o Dy yr Arglwydd. Cloer dirwestwr yr ail-ddyfodiad o holl synagogau, a sectau Satan, wele, y Sanctaidd a'r Cywir, yr Hwn sydd ganddo agoriad Dafydd, yn ei gyfarch a'i roesawu—"Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau; canys y mae genyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy ngair, ac ni wedaist fy enw" (Dat. iii, 7, 8). Y dirwestwr hwn a dderbynia y Gair o enau y Person mawr, ddewisa galon bur o flaen y temlau oll, ac yn y Person mawr a'i Air, efe a fydd yn gartrefle y gallu gwreiddiol, ac felly yn eglwys, yn gyfundeb, yn gymanfa, yn fyd Cristionogol, yn oruchwyliaeth newydd, ac yn nefoedd a daear newydd ynddo ei hunan. Efe a ymwria o ganol gwyrthiau gwaelod creadigaeth yn erbyn holl anhrefn y byd, a holl allu y tywyllwch.

"One faith against a whole world's unbelief,
One soul against the flesh of all mankind."

Y nefolion oll, a'r Anfeidrol Ddyn, a wyliant drosto, fel y credid y gwyliai angylion balas Caercystenyn; tra difrod y clowyr a'u cyngreiriau, mor sicr a dinystr Jerusalem, neu sarnfa Castell Herculaneum gan Caligula, am y creulondeb i'w fam. Gwir y gwna clybiau y pwlpud berarogli cyrph y meirwon tra pery yr arian, gan garthu allan eu hymysgaroedd a'u hymenyddiau, fel y gwneid yn yr Aipht; ond malurio yn mhen amser wna y *mummies*, a llwyr lychwino wna arliw rhagrith y crefftwyr arnynt. Ond anfarwol yw yr ysbryd a'r gwaith gloa y dafarn a'r anwir o Eglwys Philadelphia; ysbryd ddyrchafa yr enaid uwchlaw gormes y gwaed, y cnawd, y byd, a'r diafol; ysbryd arweinia yr enaid at ddybenion cyffredinol y cydfydoedd, ac at Emanuel, y dyben penaf. Efe a rydd i bawb o'r ysbryd hwn, wres a grym y bywyd tragwyddol, yn bwerau tyner, treiddiol, yn cyneu milliwnau tanau fferyllfaoedd a llawweithfeydd cuddiedig fyd yr enaid. Nid oes atal ar y bywyd hwn. Y mae fel y trydan, ac fel sylwedd cyntaf creadigaeth, yn tramwy trwy y cwbl. Cychwyna o ganolbwynt yr achosion, ac ymweithia trwy gylchoedd diderfynau. Aiff trwy y callestr cythreulig, a thrwy yr adamant uffernol, fel trwy yr awyr denau. Presenoldeb Sanct Israel yn ei saint ydyw, am hyny y dywedir, "Chwychwi ydych o Dduw, blant bychain, ac a'u gorchfygasoch hwy; oblegyd mwy yw yr hwn sydd ynoch chwi na'r hwn sydd yn y byd" (1 Ioan. iv, 4). Nid yw y bydysawd ond un *panorama* o gyrph llai yn gorfod troi o amgylch cyrph mwy—y lloer o amgylch y ddaear, a'r planedau o amgylch yr haul. Felly, nid yw aelodau Eglwys Philadelphia yn cyfrif eu gelynion. Anibynol ac arbenig yw

eu ffordd o fyw. "Yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod" (Dat. i, 4), a arloesa yn barhaus y ffordd o'u blaen. Yr Hollalluog yn unig yw eu harweinydd. Hyn yw yr heulwen sydd yn eu hachos yn toddi y tywyllwch, yn gyru yr afagddu fawr i ffoi, yn cywilyddio a choncro y Forwyn Ddu o Anwn. Eglwys Philadelphia a gadwant ac a wnant holl gyfreithiau y nefoedd, "Gan ofni yr Enw gogoneddus ac ofnadwy hwn, YR ARGLWYDD DY DDUW" (Deut. xxviii, 58).

V.—AGORIAD I WEINIDOGAETH Y GAIR.

Dau o hanfodion Eglwys Philadelphia ydynt, yn gyntaf, adwaen ac anwylu yr Arglwydd fel yr Anfeidrol Ddyn, ac adwaen ac anwylu pob dyn arall ynddo ac o hono Ef: yn ail, gweithredu yr adnabyddiaeth a'r anwyldeb yn ngoleuni ac yn ol gorchymynion y Gair. Felly, pobpeth Eglwys Philadelphia yw y Ddynoliaeth Ddwyfol, a byw y Gair. Y ddau hefyd sydd un a'u gilydd. Nis gellir adnabod ac anwylu yr Arglwydd yn y Ddynoliaeth Ddwyfol, ond o'r Gair; ac nis gellir byw y Gair, ond o'r Ddynoliaeth Ddwyfol. Fylifa yr Arglwydd i bawb yn y nefoedd, ac ar y ddaear, o'r Ddynoliaeth Ddwyfol,—nid o'r Duwdod heb y Ddynoliaeth Ddwyfol, ac nid o'r Ddynoliaeth Ddwyfol heb y Duwdod. Y rhai a ysgarant y Dwyfol a'r Dynol yn yr Arglwydd, ac a edrychant at y Tad yn unig, ni dderbyniant unrhyw ddylifiad o'r Arglwydd, nac ychwaith o'r nefoedd, am fod pawb yn y nefoedd yn cydnabod Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd. Y Ddynoliaeth Ddwyfol sydd yn agor i'r Gair a'i holl wirioneddau, a'r Gair sydd yn agor i'r Ddynoliaeth Ddwyfol a'i holl ardderchawgrwydd. Nis gall yr Arglwydd blanu cariad a gwirioneddau y Gair yn eneidiau neb, ond y rhai a adwaenant ac a anwylant yr Arglwydd yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol, gan ei addoli fel unig Dduw y nefoedd a'r ddaear. Ceisiwn brofi ac egluro y pethau canlynol perthynol i Weinidogaeth y Gair yn dangos ei gwerth a'i phwys ofnadwy:—

I. YR ARGLWYDD DDUW YW Y GAIR. II. CYNWYS Y Y GAIR SYDD ANFEIDROL. III. YR EGLWYS, FEL Y NEFOEDD, SYDD O'R GAIR. IV. DAETH YR ARGLWYDD I'R BYD ER MWYN CYFLAWNI Y GAIR. V. TRWY Y GAIR Y RHODDIR GOLEUNI I RAI HEB Y GAIR. VI. Y GAIR YW UNIG GYFRWNG GWYBODAETH YSBRYDOL. VII. YR ALWEDIGATH UWCHAF YW BOD YN WEINIDOG Y GAIR YN EGLWYS PHILADELPHIA.

1. YR ARGLWYDD DDUW YW Y GAIR. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair" (Ioan i, 1, 4). "Y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt a bywyd ydynt" (Ioan vi, 63). Y Jehovah ei hun lefarodd y Gair trwy Moses, y prophwydi, yr efengylwyr, ac yn bersonol pan yn y byd. Y gwirionedd dwyfol a thragwyddol yw y Gair. "Nef a daear a ant heibio, ond fy ngeiriau i nid ant heibio ddim" (Marc xiii, 31). Arddull ddwyfol hefyd sydd i'r Gair, arddull eithriadol, oruchel, ardderchog, ac anghydmarol. Sancteiddrwydd a syniadau anherfynol, yn gorlanw tragwyddoldeb, sydd yn mhob sill a llythyren. Tywyllwch dudew at oleuni dydd, a'r fagddu at yr haul, yw llyfrau eraill at y Gair. Y Gair a leinw ddyn o'r Arglwydd, ac o'r angylion, ac a'i huna a hwynt, gan ei alluogi i oresgyn yr holl uffernoedd. Y Gair yw sylwedd gweinidogaeth yr Efengyl, y sylwedd sydd yn creu a chynal pob peth. "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth; ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd" (Ioan i, 3). Dyn llawn o'r Gair yw gweinidog yr Efengyl. "Canys nid ydym yn ein pregethu ein hunain, ond Crist Iesu yr Arglwydd; a ninau yn weision i chwi er mwyn Iesu. Canys Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonau, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist. Eithr y mae genym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni" (II Cor. iv, 5-7). Y Gair sydd i'w bregethu. "Pregetha y Gair" (II Tim. iv, 2, 3). Yr oedd Ezeciel fel prophwyd a gwyliedydd, i fwyta y Llyfr. "Ac efe a ddywedodd wrthyf, mab dyn, bwyta yr hyn a geffych, bwyta y llyfr hwn, a dos, a llefara wrth dy Israel" (Ezeciel iii, 1-3). Ioan, hefyd, yn arwyddluniol o weinidogion ac aelodau Eglwys Philadelphia, a fwytaodd y llyfr o law yr angel. "Ac mi a gymerais y llyfr bychan o law yr angel, ac a'i bwyteais ef" (Dat. x, 10). Y gwir genad wrth fwyta y llyfr a gyfranoga o'r Gair, ei fywyd, ei iechyd, ei gryfder, ei hanfod, a'i ddylanwad, fel y gall y sanctaidd a'r cywir ei gyfarch, "A thi a gedwaist fy ngair, ac ni wedaist fy enw . . . O achos cadw o honot air fy amynedd i, minau a'th gadwaf di oddi wrth

awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 8, 10).

2. CYNWYS Y GAIR SYDD ANFEIDROL. Gan mai Duw yw y Gair, bodola yn y nef a'r ddaear; ac ystyron dirgeledig sydd tu fewn i'r llythyren, fel yr enaid yn y corph, fel y meddwl yn y llygad, ac fel y serch yn y wyneb. Cynwys mewnol y Gair sydd i angylion a dynion angylaidd; a thrwy y cynwys mewnol, deil dyn trwy y Gair gymundeb a'r nefoedd. Oddi wrth yr Arglwydd y deillia y nefol, yr ysbrydol, a'r naturiol. Yr hyn ddeillia o'i gariad yw y nefol; yr hyn ddeillia o'i ddoethineb yw yr ysbrydol; a'r naturiol yw y ddau yn un yn y gradd mwyaf allanol. Yr angylion sydd yn benaf mewn doethineb ydynt yn y gradd nefol ac ysbrydol, ond yr angylion lleiaf eu cariad a'u doethineb, a duwiolion ar y ddaear, sydd yn y gradd naturiol. Deillia, a disgyna y Gair o'r Arglwydd trwy yr holl raddau, sef y nefol, yr ysbrydol, a'r naturiol; ac wedi disgyn i'r gradd naturiol, cynwysa y tri gradd ynddo ei hun. Felly hefyd y mae holl bethau yr Arglwydd; am hyny, pan y mae y Gair yn ei radd fwyaf allanol, y mae yn ei lawnder. Nis gellir gwybod y gwahaniaeth rhwng y graddau hyn heb wybodaeth o gyfatebiaeth; canys y tri gradd sydd hollol wahanol i'w gilydd, fel dyben, achos, ac effaith, neu fel cyntaf, ail, ac olaf; ond gwnant un trwy gyfatebiaeth, am fod y naturiol yn cyfateb i'r ysbrydol, a'r ysbrydol i'r nefol. Y mae cyfatebiaeth rhwng pobpeth perthynol i'r nefoedd, a phob peth perthynol i ddyn, ac hefyd i bob peth yn yr holl fyd gweledig. Ystyr llythyren y Gair yw sail, cynwysydd ac ategydd ei ystyron ysbrydol, a nefol. Buasai y Gair heb ystyr y llythyren fel palas heb sylfaen, fel teml heb do na muriau i ddyogelu ei thrysorau cysegredig, ac fel y corph dynol heb groen. Y gwirionedd dwyfol yn ystyr llythyren y Gair sydd yn ei lawnder, yn ei sancteiddrwydd, ac yn ei nerth, am fod yr ystyr ysbrydol, a'r ystyr nefol, yn ystyr y llythyren; yr ystyr ysbrydol yw yr ysbryd, a'r ystyr nefol yw y bywyd sydd tu fewn i'r llythyren, megys y dywed yr Arglwydd, "Y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt" (Ioan vi, 63). Y mae nerth dwyfol yn ystyr lythyrenol y Gair, o'i ysbryd a'i fywyd, nerth anorchfygol yn erbyn pob drygau ac anwireddau, ac yn erbyn yr anuwiolion a'r uffernolion oll. Dyma y wialen haiarn sydd gan y Mab gwryw, yn Eglwys Philadelphia, i ddryllio y gelynion, a bugeilio yr holl genhedloedd (Dat. xii, 5). Trwy y gwirioneddau sydd yn enaid dyn hefyd, y mae gan yr Arglwydd allu i'w achub, trwy ei ddiwygio, a'i ail-eni, ac felly ei ddwyn allan o uffern, ac i fewn i'r nefoedd. Cymerodd yr Arglwydd y gallu hwn iddo ei hun fel Dyn, wedi iddo

gyflawni yr holl Air i'w allanolion eithaf. Am hyny y dywedodd wrth yr archoffeiriad, "Ar ol hyn y gwelwch Fab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymylau y nef" (Math. xxvi, 64; Marc xiv, 62). Mab y Dyn yw yr Arglwydd o ran y Gair; cymylau y nef yw ystyr y llythyren; eistedd ar ddeheulaw Duw yw hollalluawgrwydd trwy y Gair. Dylai yr athrawiaeth gael ei chodi o ystyr llythyren y Gair, a'i chadarnhau trwy yr ystyr hono. Ond ni ddeallir y Gair heb wir athrawiaeth, am fod ystyr y llythyren yn gynwysedig o gyfatebion, fel y byddo pethau ysbrydol a nefol yn gydweithredol ynddo, ac y byddo pob dywediad yn gynwysydd, ac ategydd iddynt. Am hyn, y mae llawer o wirioneddau wedi eu gwisgo ag ymddangosiadau gwirionedd. Llawer o wirioneddau sydd addasedig i ailuoedd rhai syml na chodant eu meddyliau uwchlaw y pethau a welant. Y mae pethau hefyd a ymddangosant megys gwrthddywediadau, tra nad oes wrthddywediadau yn y Gair, ac edrych arno yn ei oleu ei hun. Drachefn, mewn rhanau o'r prophwydi, rhoddir crynhoad o enwau lleoedd, a pher-onau, nad oes ystyr iddynt heb y meddwl mewnol. Y Gair heb athrawiaeth sydd fel canhwyllbren heb oleuni. Yr athrawiaeth yw y goleuni. Dynion o galon bur ac athrawiaeth iawn, gweiant y Gair yn dysgleirio yn dryloew yn ngoleuni y nefoedd, a chan fyddant y Gair yn eu henaid eu hunain, am eu bod yn caru y gwirionedd er mwyn y gwirionedd ei hun, yn ddibris o farn y lluaws, ac o farn yr awdurdodau; yn ddibris o'u henw, a'u helw eu hunain. Trwy y Gair y cant eu huno a'r Arglwydd, am mai yr Arglwydd yw y Gair, a'u codi i gymdeithas angylion, am fod y Gair yn yr holl nefoedd, ac o hono y mae doethineb y nefolion oll. Hefyd, dynion yw yr angylion, wedi eu geni a'u magu ar y ddaear hon, a'r daearfydoedd dirifedi. Dynion ydynt fel dynion yn y byd hwn, a chanddynt dai, a chymdeithasau, a llywodraethau, ac addoliadau. Ond peth arall fedd dynion ar y ddaear, a mwy o lawer, ond eu bod yn ysbrydol. Rhaid iddynt fel dynion da yma, wrth y Gair o hyd. Darllenant a deallant y Gair i'w ddirgelion. Y Gair gyda'r angylion sydd mewn ardeall ysbrydol, mewn llythyrenau, a phwyntiau, a nodau, a phob un o honynt yn orlawn o ystyr, heb enw person na lle o'i fewn, ond y pethau a arwyddoceir gan y personau a'r lleoedd yn y Gair ar y ddaear. Copi o'r Gair, wedi ei ysgrifenu gan angylion ysbrydoledig, a gedwir gyda phob cymdeithas fwy o'r nefoedd, yn ei thrysorfa gysegredig, rhag ei newid yn rhywle o ran unrhyw nod neu bwynt. Y fath werth yw y Gair perffaith i'r angylion; ac i'r graddau y byddont yn ei ddeall, y maent yn y goleuni: y goleuni i'w llygaid yw gwirionedd y Gair. Yn y drysorfa

gysegredig, lle cedwir copi o'r Gair, y goleuni sydd fflamllyd, a dysglaerwyn, yn rhagori ar bob gradd arall o oleuni tu allan i'r drysorfa gysegredig yn y nefoedd. A phan fyddo dyn yn darllen y Gair yn syml a pharchus, yn ystyr y llythyren, y mae trwy y Gair yn un a'r angylion yn ngoleuni y nefoedd, ac ar ol marw, daw i ddoethineb anrhaethadwy y byd angylaidd. Yn Eglwys Philadelphia, yn fwy na'r Eglwys Apostolaidd, pregethir y Gair, "Ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist a'r etholedig angylion, heb ragfarn, heb wneuthur dim o gydbartiaeth" (I Tim. v, 21).

3. YR EGLWYS, FEL Y NEFOEDD, SYDD O'R GAIR. Gan mai y gwirionedd dwyfol yw y Gair, o'r Gair y mae y nefoedd, ac o'r Gair y mae yr Eglwys. Deall y Gair a'i weithredu o'r galon, sydd yn gwneud yr Eglwys, ac nid meddu y Gair, ei ddarllen, a'i wrandaw heb ei ddeall na'i weithredu. Nid y Gair yw y Gair i'r dynion nad ydynt yn ei ddeall. Iddynt hwy, y bwystfil Pabaidd yw y Gair, "Yr hwn a fu, ac nid yw, er ei fod" (Dat. xvii, 8). Y Gair heb ei ddeall, neu wedi ei gyfeiliornu a'i wyrdroi, nid yw Air, ac nid Eglwys yr Arglwydd yw yr hon a'i gwna felly. Y Gair sydd ysbryd a bywyd, yn ol y dealldwriaeth o hono, am fod y llythyren heb ei ddeall yn farw. Gan fod gwirionedd a bywyd gyda dyn yn ol ei ddealldwriaeth o'r Gair, yn ol hyny hefyd y mae ganddo ffydd a chariad. Trwy ffydd a chariad y caiff yr Eglwys ei bodolaeth, a thrwy ddeall y Gair y daw i ffydd a chariad. Eglwys urddasol yw yr hon sydd yn deall y Gair o galon; Eglwys wael, os gwael ei deall; ac Eglwys wedi ei dinystrio, os heb ddeall, ond mewn cyfeiliornadau. Trwy y Gair gloew a goleu yn y deall, y mae yr Arglwydd yn bresenol gyda dyn, ac hefyd yn un ag Ef; ac undeb yr Arglwydd a dyn yw yr eglwys a'r nefoedd yn y dyn. "Teyrnas nefoedd, o'ch mewn chwi y mae" (Luc xvii, 21). Er mwyn sefydlu Eglwys yr Ysbryd Glan, yr Arglwydd wedi ei adgyfodiad a ymddangosodd i'w ddisgyblion i oleuo eu deall yn y Gair. "Ac Efe a ddywedodd wrthynt, Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn eto gyda chwi, bod yn rhaid cyflawnu pob peth a ysgrifenwyd yn nghyfraith Moses, a'r prophwydi, a'r Salmau, am danaf fi. Yna yr agorodd Efe eu deall hwynt, fel y deallent yr Ysgrythyrau" (Luc xxiv, 44,45). "Beth gan hyny? Mi a weddiaf a'r ysbryd, ac a weddiaf a'r deall hefyd; canaf a'r ysbryd, a chanaf a'r deall hefyd" (I Cor. xiv, 15). "Nid ydym yn peidio a gweddio drosoch, a deisyf eich cyflawnu chwi a gwybodaeth ei ewyllys Ef, yn mhob doethineb a deall ysbrydol; fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth yn mhob gweithred dda, a chynyddu yn ngwybodaeth am Dduw, wedi eich nerthu a phob nerth yn

ol ei gadernid gogoneddus Ef, i bob dyoddefgarwch a hirymaros gyda llawenydd" (Col. i, 9-11). Yn holl fanylion y Gair, y mae priodas yr Arglwydd a'r Eglwys, ac felly priodas daioni a gwirionedd. Anhysbys oedd hyn cyn i'r Arglwydd, yn ei ail-ddyfodiad, trwy Emanuel Swedenborg, amlygu ystyr ysbrydol y Gair, gan mai trwy yr ystyr ysbrydol yn unig y gellir ei weled. Y mae priodas yn ystyr llythyren y Gair, ond anamlwg oddieithr i rai yn ystyr ysbrydol, a nefol y Gair. Yr ystyr ysbrydol a nefol ddengys arwyddocad y geiriau a'r enwau a ddywedir am ddaioni, y geiriau a'r enwau a ddywedir am wirionedd, a'r geiriau a'r enwau gynwysant y ddau. Am fod y fath briodas yn manylion y Gair, ceir ynddo ddau ddywediad yn aml, yn ymddangos fel ail-adroddiad o'r un peth, pan y perthyn un i ddaioni a'r llall i wirionedd. Yn hyn hefyd y mae dwyfoldeb a sancteiddrwydd y Gair. Unedig yw gwirionedd a daioni yn mhob gwaith dwyfol. Rhaid i'r deall a'r ewyllys fod yn un mewn dyn, cyn ei fod yn ddyn teyrnas nefoedd. Darlunir hyn yn y Gair gan gyplau parhaus o ddywediadau, a ymddangosant fel ail-adroddiad o'r un peth; megys brawd a chyfaill, tlawd ac anghenog, anialwch a diffaethwch, gwagedd ac oferedd, gelynion a chaseion, pechod a chamwedd, llid a digofaint, cenedl a phobl, gorfoledd a llawenydd, galar ac wylofain, cyfiawnder a barn. Llawer o bethau eraill a glyplysir, megys tan a fflam, aur ac arian, pres a haiarn, pren a maen, bara a dwfr, bara a gwin, porphor ac ysgarlad, calon ac enaid, Iesu a Christ, yr Arglwydd a Duw. Y mae y Gair fel paradwys nefol, yn orlawn o bob danteithion a phleserau; pob pren dymunol i'r olwg a'i ffrwyth yn fwyd; pren y bywyd yn y canol, ac afon y bywyd yn dylifo trwyddi; y blodau per yn swyno y llygad, ac adar paradwys wrth y miliwnau yn lleisio yn y cangau. Yn y baradwys hon y mae y dyn sydd a'i ddeall a'i ewyllys, fel Adda ac Efa, yn un yn yr Arglwydd. Ond y dyn heb fod ei ddeall a'i ewyllys mewn undeb, sydd tu allan i baradwys y Gair, yn nghoedwigoedd, anialdiroedd, a gwylltoedd daear, yn mhlith bwystfilod, seirph, ac ysgorpionau. Gardd yr Arglwydd yw yr Eglwys sydd o'r Gair, Eglwys Philadelphia. "Gardd gauedig yw fy chwaer a'm dyweddi. Deffro di, ogleddwynt, a thyred, ddeheuwynt, chwyth ar fy ngardd, fel y gwasgarer ei pheraroglau" (Can. iv, 12, 16).

4. DAETH YR ARGLWYDD I'R BYD ER MWYN CYFLAWNI Y GAIR. Dywedir yn aml i'r Arglwydd gyflawnu y gyfraith, gan olygu iddo gyflawnu y deg gorchymyn, a thrwy hyny ddyfod yn gyfiawnder, a'i fod yn cyfiawnhau trwy gredu hyn; ond nid hyn yw y gwirionedd. Y meddwl yw, iddo gyflawnu

yr holl bethau ysgrifenedig am dano ei hun yn y gyfraith, y prophwydi, a'r Salmau,—hyny yw, yn yr holl Ysgrythyrau sanctaidd; am eu bod oll yn son am dano Ef. Llawer a gredant yn wahanol, am nad ydynt wedi chwilio yr Ysgrythyrau, a gweled beth olygir wrth y gyfraith, sef ei bod yn golygu y deg gorchymyn, yr holl bethau ysgrifenedig yn llyfrau Moses, ac hefyd holl bethau y Gair. Wrth ymgnawdoli, daeth yr Arglwydd yn wirionedd dwyfol, neu y Gair yn ei allanolion eithaf. "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei ogoniant Ef, gogoniant megys yr uniganedig oddi wrth y Tad), yn llawn gras a gwirionedd" (Ioan i, 14). Pan weddnewidiwyd Ef, amlygodd ei hun i'w ddisgyblion, yr hyn oedd ei ansawdd fel y Gair yn ei allanolion eithaf (Math. xvii, 1, 8; Luc ix, 28). "Ac wele, Moses ac Elias a ymddangosodd iddynt yn ymddyddan ag Ef." Wrth Moses ac Elias y meddylir y Gair; yr Arglwydd y pryd hwnw a arddangosai y Gair. Wrth ei wyneb, yr hwn a ddysgleiriodd fel yr haul, yr arddangosid ei ddaioni; wrth ei ddillad cyn wyned a'r goleuni, ei wirionedd; wrth Moses, y Gair hanesyddol oll; ac wrth Elias, y Gair prophwydol; wrth y cwmwl goleu a gysgododd y disgyblion, y Gair yn ystyr y llythyren; am hyny, allan o'r cwmwl y clywid llais yn llefaru, "Hwn yw fy anwyl Fab . . . gwrandewch arno Ef"; oblegyd ni wneir datganiadau ac atebion byth o'r nefoedd, ond trwy yr allanolion eithaf, fel y sydd yn llythyren y Gair; oblegyd gwneir hwynt yn gyflawn o'r Arglwydd. Yr Arglwydd fel y Gair wedi ei gwbl gyflawnu, ddarlunir hefyd yn y Datgudliad, pen. i, 13-16. Wedi i'r Arglwydd lwyr gyflawnu y Gair, cyfnewidiwyd yn hollol ystad yr Eglwys. Yr holl eglwysi, cyn ei ddyfodiad Ef, arddangosiadol oeddynt; ni allent weled y gwirionedd ond yn bwl; ond wedi dyfodiad yr Arglwydd i'r byd, sefydlodd Eglwys yn gweled y gwirionedd yn y goleuni. Y gwahaniaeth sydd fel rhwng hwyr a boreu. Presenoldeb yr Arglwydd gyda dynion cyn ei ddyfodiad oedd anuniongyrchol trwy y nefoedd; ond wedi ei ddyfodiad i'r byd, y mae Efe yn bresenol gyda dynion y nefoedd a'r eglwys yn y gradd naturiol yn y byd. "Wele, yr ydwyf fi gyda chwi bob amser" (Math. xxviii, 20). Yr Arglwydd yw y Gair, oblegid mai ei feddwl a'i gariad yw; ei feddwl a'i gariad ei hun yw pob dyn; a'i feddwl a'i gariad ei hun yw yr Arglwydd.

5. TRWY Y GAIR Y RHODDIR GOLEUNI I RAI HEB Y GAIR. Rhaid fod Eglwys yn rhywle ar y ddaear yn meddu y Gair, a thrwy y Gair yn adwaen ac addoli yr Arglwydd, cyn y gall fod undeb rhwng nefoedd a daear. Trwy y Gair y mae yr Arglwydd bob amser yn mhob man trwy yr holl

fyd; canys trwy y Gair y mae y nefoedd yn un a'r hil ddynol. Y mae yr holl fyd o flaen yr Arglwydd fel un dyn; felly hefyd y mae yr Eglwys. Y wybodaeth hon, a'r petnau pendant perthynol iddi, yw prif bwnc yr angylion. Gan fod yr angylion yn gwybod fod yr holl nefoedd gyda'u gilydd fel un dyn, galwant y nefoedd y Dyn Mawreddog. Y mae yr Eglwys ar y ddaear yn y Dyn Mawreddog, sef yr Eglwys lle y darllenir y Gair yn y goleu, ac yr adwaenir yr Arglwydd fel yr unig Dduw, a'r Dyn Anfeidrol. Yr Eglwys hon sydd fel y galon a'r ysgyfaint i holl gyfangorph yr hil ddynol trwy yr holl diroedd; o'r galon a'r ysgyfaint y derbynir maeth yn y corph dynol yn yr holl aelodau a'r perfeddion. Trwy y Gair y mae cymundeb rhwng dyn a'r Arglwydd, rhwng dyn a'r nefoedd, a rhwng dyn a'r holl hil ddynol. Gweinidog y Gair, gan hyny, yn Eglwys Philadelphia, sydd weinidog i'r holl hil ddynol trwy y bydysawd. "I egluro i bawb beth yw cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig o ddechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth trwy Iesu Grist, fel y byddai yr awr hon yn hysbys i'r tywysogaethau, ac i'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, trwy yr Egwlys, fawr amryw ddoethineb Duw" (Eph. iii, 9, 10). "Rhoddwyd i mi," medd Swedenborg, "trwy lawer o brofiad, wybod fod cymundeb rhwng dyn a'r nefoedd trwy y Gair. Pan oeddwn yn darllen y Gair drwyddo, o'r benod gyntaf yn Esaiah i'r olaf yn Malachi, a Salmau Dafydd, rhoddwyd i mi ganfod yn eglur, fod pob adnod yn dal cymundeb a rhyw gymdeithas o'r nefoedd, a bod yr holl Air fel hyn yn dal cymundeb a'r holl nefoedd."

6. Y GAIR YW UNIG GYFRWNG GWYBODAETH YSBRYDOL. Heb y Gair, ni allem wybod dim am Dduw, am y nef, am y farn, am uffern, am anfarwoldeb, ac yn neillduol am ymgnawdoliad yr Arglwydd, ei ogoneddiad, ei fuddugoliaethau ar y fallgyrch fawr, ei ail-ddyfodiad gyda'r holl angylion sanctaidd, a'i orchestion coronog yn creu nef a daear newydd. Amlwg yw hyn wrth ystyried mai y Gwirionedd Dwyfol ei hun yw y Gair; mai y Gair yw cyfrwng undeb ag angylion y nefoedd; mai y Gair yn y nefoedd yw ffynonell doethineb y nefolion; ac mai trwy y Gair y caiff y rhai tu allan i'r Eglwys oleuni. "Ni ddichon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef" (Ioan iii, 27). Yr athronwyr a'r doethion gynt a gawsant eu doethineb oddi wrth draddodiau o'r Hen Air, cyn y Gair sydd genym ni. Llygrwyd yr Hen Air gan laweroedd, a'i arwyddluniau a drowyd yn chwedlau.

7. YR ALWEDIGAETH UCHAF YW BOD YN WEINIDOG Y GAIR YN EGLWYS PHILADELPHIA. Bod yn weinidog y

Gair yn Eglwys Philadelphia yw bod yn weinidog y Dyn Anfeidrol, gweinidog y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, gweinidog yr orseddfainc wen fawr, gweinidog yn y ddinas aur, yn cael ei goleuo gan ogoniant Duw a'r Oen, heb nos na bai ynddi. "Ac nid a i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra na chelwydd; ond y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen" (Dat. xxi, 27). Gweinidogion y Gair oedd Noah, Moses, Samuel, Elias, Solomon, y prophwydi, yr Apostolion, a'r Arglwydd Iesu. Yr Athraw mawr yw arweinydd gweinidog y Gair. Nid oes neb i fyned rhwng y Meistr a'r gwas. Nid yw gwas yr Arglwydd i ddisgwyl esmwythder, na pharch bydolion. "Digon i'r disgybl fod fel ei athraw, a'r gwas fel ei Arglwydd. Os galwasant berchen y ty yn Beelzebub, pa faint mwy ei dylwyth ef?" (Math. x, 25). Rhaid i weinidog y Gair "boeni yn y Gair a'r athrawiaeth" (I Tim. v, 17)—poeni i ddarllen, deall, teimlo a byw y Gair: poeni i'w gyhoeddi o blaid yr Arglwydd a'r nefoedd, ac yn erbyn y byd ac uffern; a phoeni i ddal yr [illegible] erlidiau, a'r gwaradwydd am ffyddlondeb i'r Gair. "Gwir yw y Gair, ac yn haeddu pob derbyniad; canys er mwyn hyn yr ydym yn poeni, ac yn cael ein gwaradwyddo o herwydd i ni obeithio yn y Duw byw" (I Tim. iv, 9, 10). Wrth weinidog y Gair y dywed yr Arglwydd, "Nac atal air" (Jer. xxvi, 2). "Llefara di fy ngeiriau wrthynt, pa un bynag a wnelont ai gwrandaw ai peidio . . . Pan ddywedaf wrth y drygionus, gan farw y byddi farw; oni rybuddi ef, ac oni leferi i rybuddio y drygionus oddi wrth ei ddrygffordd, fel y byddo byw; y drygionus hwn a fydd marw yn ei anwiredd, ond ei waed ef a ofynaf ar dy law di" (Ezeciel iii, 18). Gweinidog y Gair a fawrha ei swydd uwchlaw pob peth, ac a ddywed, "Nid wyf fi yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun, os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd, a'r weinidogaeth a dderbyniais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu efengyl gras Duw" (Act. xx, 24). Gweinidogion ordeiniedig yr Arglwydd a gant eu donio, yn neillduol a chariad at wybodaeth ysbrydol, a goleuni, ag addysg, a chanfyddiad, ac a thueddfryd a medr i ddysgu eraill, gydag amynedd, gwroldeb, a zel [illegible]. Nid yw y gweinidogion hyn yn arglwyddiaethu ar eneidiau dynion, nac mewn un modd yn diystyru eu rhyddid. Ni ryfygant chwaith trwy honi gallu i gau ac agor y nefoedd. Yr Arglwydd yn unig fedd y cyfryw allu. Eu gwaith hwy yw arwain y bobl:

"I'r lan i uchel fynydd Duw,
I weled mewn goleuni clir
Drigfanau teg eu cartref gwiw—
Y ddinas bur.

* * * * * *

Lle cyfyd bywyd, hedd, a hoen,
Eu hunol, ymerodrol fainc;
Ac engyl fyrdd foliana'r Oen,—
Anfarwol gainc."

N. R.

Dylid parchu gweinidogion da yr Arglwydd, o herwydd eu defnyddioldeb. "Ac yr ydym yn atolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu chwi yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio, a gwneuthur cyfrif mawr o honynt mewn cariad, er mwyn eu gwaith" (I Thes. v, 12, 13). Y parch roddir iddynt, roddant hwythau i'r Arglwydd. Dywed Swedenborg am holl bregethwyr y nefoedd, "Cant eu hapwyntio gan yr Arglwydd, ac o'u hapwyntiad cant y dawn o bregethu; ni chaniateir neb arall ddysgu yn eu temlau." Ond ar y ddaear, rhuthra lluoedd i bregethu heb eu danfon, rhai o'u mympwy eu hunain, rhai trwy gymhellion perthynasau er mwyn bywioliaeth, rhai a bentyrir gan grefyddwyr na oddefant athrawiaeth iachus, a rhai a godir yn uniongyrchol gan Satan i ymrithio, fel yntau, yn rhith angylion y goleuni. Pregethwyr heb eu danfon gan y Duwdod yw prif gyfryngau y diafol yn mhob oes, a'r prif rwystrau ar ffordd y Gair yn y byd. Y swynwyr a'r dewiniaid hyn oedd y prif rwystrau yn amser Moses. "Megys y safodd Jannes a Jambres yn erbyn Moses, felly y mae y rhai hyn yn sefyll yn erbyn y gwirionedd; dynion o feddwl llygredig, yn anghymeradwy o ran y ffydd" (II Tim. iii, 8). Pedwar cant a dengwr a deugain o honynt hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Elias, pan nad oedd ond efe o brophwydi yr Arglwydd. A bu i Elias eu gwatwar hwynt, a'u profi hwynt trwy dan o'r nefoedd. "Ac Elias a ddywedodd wrth y bobl, Deliwch brophwydi Baal; na ddianged gwr o honynt. A hwy a'u daliasant; ac Elias a'u dygodd hwynt i waered i afon Cison, ac a'u lladdodd hwynt yno" (I Bren. xviii, 40). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Miceah, yr hwn a ddywedodd fod "Ysbryd celwyddog yn ngenau yr holl brophwydi hyn" (I Bren. xxii, 21-23). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Esaiah, yr hwn a ddywed, "Deillion yw ei wyliedyddion; ni wyddant hwy oll ddim; cwn mudion ydynt hwy oll, heb fedru cyfarth; yn cysgu, yn gorwedd, ac yn caru hepian. Ie, cwn gwancus ydynt, ni

chydnabyddant a'u digon, a bugeiliaid ydynt na fedrant ddeall; wynebant oll at eu ffordd eu hun, pob un at ei elw ei hun o'i gwrr' (Esaiah lvi, 10, 11). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Jeremiah, yr hwn a ddywed, "Gwae y bugeiliaid sydd yn dyfetha ac yn gwasgaru defaid fy mhorfa! medd yr Arglwydd, . . . o herwydd y prophwydi y torodd fy nghalon, fy holl esgyrn a grynant . . . Y prophwydi a'r offeiriad hefyd a ragrithiasant; yn fy nhy y cefais eu drygioni hwynt, medd yr Arglwydd. Am hyny, y bydd eu ffordd yn llithrig iddynt yn y tywyllwch; gyrir hwynt rhagddynt, a syrthiant ynddi; canys myfi a ddygaf arnynt ddrygfyd, sef blwyddyn eu gofwy, medd yr Arglwydd. Ar brophwydi Samaria y gwelais beth diflas . . . ac ar brophwydi Jerusalem y gwelais beth erchyll . . . Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd, Na wrandewch ar eiriau y prophwydi sydd yn prophwydo i chwi . . . Ni hebryngais i y prophwydi hyn, eto, hwy a redasant; ni leferais i wrthynt, er hyny, hwy a brophwydasant. A phe safasent yn fy nghynghor, a phe traethasent fy ngeiriau i'm pobl, yna y gwnaethent iddynt ddychwelyd oddi wrth ddrygioni eu gweithredoedd" (Jer. xxiii, 1, 11, 12, 13, 14, 16, 21, 22). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Ezeciel, a dywed, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw: Gwae y prophwydi ynfyd, y rhai a rodiant yn ol eu hysbryd eu hun, ac heb weled dim. Dy brophwydi, Israel, ydynt fel llwynogod yn yr anialwch. Ni safasoch yn yr adwyau, ac ni chauasoch y cae i dy Israel, i sefyll yn y rhyfel ar ddydd yr Arglwydd . . . A bydd fy llaw yn erbyn y prophwydi sydd yn gweled gwagedd, ac yn dewinio celwydd" (Ezeciel xii, 3-10). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Hosea, yr hwn a ddywed, "Clywch hyn, chwi offeiriaid; gwrandewch, ty Israel; canys y mae barn tuag atoch, am eich bod yn fagl ar Mispah . . . Y rhai a wyrant i ladd . . . Bu tywysogion Judah fel symudwyr terfyn; am hyny y tywalltaf fy llid fel dwfr" (Hosea v, 1, 2, 10). Hwy oedd y prif rwystrau yn amser Micah, yr hwn a ddywed, "Os un yn rhodio yn yr ysbryd, a ddywed yn gelwyddog, Prophwydaf i ti am win a diod gadarn; efe a gaiff fod yn brophwyd i'r bobl hyn" (Micah ii, 11). "Fel hyn y dywed yr Arglwydd am y prophwydi sydd yn cyfeiliornu fy mhobl, y rhai a frathant a'u danedd, ac a lefant heddwch; a'r neb ni roddo yn eu penau hwynt, darparant ryfel yn ei erbyn . . . Y rhai sydd ffiaidd ganddynt farn, ac yn gwyro pob uniondeb. Adeiladu Sion maent a gwaed, a Jerusalem ag anwiredd. Ei phenaethiaid a roddant farn er gwobr, a'i hoffeiriaid a ddysgant er cyflog, a'r prophwydi a ddewiniant er arian" (Micah iii, 5, 9, 10, 11). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Zechariah. yr hwn a ddywed, "A'r dewiniaid

a welsant gelwydd, ac a ddywedasant freuddwydion ofer; rhoddasant ofer gysur . . . Wrth y bugeiliaid yr enynodd fy llid" (Zech. x, 2, 3). "Gwae yr eilun bugail" (Zech. xi, 17). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Malachi, a dywed am danynt, "Chwi a giliasoch allan o'r ffordd, ac a barasoch i laweroedd dramgwyddo wrth y gyfraith. Am hyny, minau hefyd a'ch gwnaethum chwi yn ddirmygus, ac yn ddiystyr gan yr holl bobl; megys na chadwasoch fy ffyrdd i, ond bod yn derbyn wynebau yn y gyfraith" (Malachi ii, 8, 9). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser Ioan ac Iesu Grist, a gelwir hwynt yn ffyliaid a deillion, yn seirph a hiliogaeth gwiberod. Cyhoedda y Dyn Anfeidrol wyth wae uwch eu penau, a dywed wedi eu dynoethu, a dadorchuddio eu dystryw, "Cyflawnwch chwithau hefyd fesur eich tadau, O seirph, hiliogaeth gwiberod, pa fodd y gellwch ddianc rhag barn uffern?" (Math. xxiii, 32, 33). Hwy oedd y rhwystrau mwyaf yn amser yr Apostolion, y merthyron, a'r diwygwyr oll; a hwy yw y rhwystrau mwyaf yn awr. "O fy mhobl, y rhai a'th dywysant sydd yn peri i ti gyfeiliorni" (Esaiah iii, 12).

VI.—AGORIAD I LYFR Y DATGUDDIAD.

"Y sanctaidd, y cywir, yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd, yr hwn sydd yn agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd" (Dat. iii, 7), a roddodd i Eglwys Philadelphia ddrws agored i drysorau, a dirgelion dwyfol Llyfr y Datguddiad. "Datguddiad Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo ef, i ddangos i'w wasanaethwyr y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fryder" (Dat. i, 1). Sylwn ar y pethau canlynod:—

I. TEILYNGDOD Y DATGUDDIAD O SYLW AC YSTYRIAETH. II. AWDWR Y DATGUDDIAD YW YR ARGLWYDD IESU GRIST. III. YR UNIG BERSON DWYFOL YN Y DATGUDDIAD YW YR ARGLWYDD IESU GRIST. IV. DEHONGLWR Y DATGUDDIAD YW YR ARGLWYDD IESU GRIST. V. DEHONGLI Y DATGUDDIAD SYDD ALLWEDD I DDEHONGLI YR OLL O'R GAIR.

VI. DEHONGLI Y DATGUDDIAD A'R DYLIFIADAU TRWYDDO YW AIL-DDYFODIAD YR ARGLWYDD. VII. DEALL, DERBYN, A DEFNYDDIO Y DATGUDDIAD YW ARBENIG NOD EGLWYS PHILADELPHIA.

1. TEILYNGDOD Y DATGUDDIAD O SYLW AC YSTYRIAETH. Syn fod neb yn esgeuluso darllen a myfyrio Llyfr y Datguddiad, gan fod yn amddifad o'r cynhyrfiadau a'r dadblygiadau dyfnion a goruchel geir wrth syllu ar ei olygfeydd, a gwrando ar ei leisiau, ei udgyrn, a'i daranau. Syn fod neb heb ddyheu am weled, a dirnad yr eangderau a ganfyddir o ben mynyddau mawrion, pinaclau uchel, tyrau dyrchafedig, ac orielau uwch eang orielau y Datguddiad. *Gellid meddwl fod yn ngeiriau cyntaf y Llyfr, swyn digonol i ddenu pob un dybia ei fod yn caru Iesu Grist, i hoffi yn ddirfawr ac arbenig y rhan hon o'r Gair*,—"Datguddiad Iesu Grist"—gwybodaeth newydd gan yr Arglwydd ei hun am dano ei hun, ac am angylion, diafliaid, a dynion; ac am ddiwedd y byd a dechreu byd newydd. Y rhai awyddus i wybod y Datguddiad ac ufuddhau i'w ddeddfau, a elwir gan yr Arglwydd, *yn ddedwydd*. "Dedwydd yw yr hwn sydd yn darllen, a'r rhai sydd yn gwrandaw geiriau y brophwydoliaeth hon, ac yn cadw y pethau sydd yn ysgrifenedig ynddi" (Dat. i, 3). Rhoddir o dro i dro *siars ddwyfol i wrando llais y Datguddiad*: "Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed pa beth y mae yr ysbryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi" (pen. ii, 7, 11, 17, 29; iii, 6, 13, 22; xiii, 9). Wrth agor y golygfa-au, clywir uchel ac unol lef angylion yn galw ar ddyn, "Tyred a gwel" (pen. vi, 5). *Holl blaäu y Llyfr a boenant* y neb *a'i hesgeulusa*, "Ac o thyn neb ymaith ddim oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon, Duw a dyn ei ran ef ymaith o lyfr y bywyd, ac allan o'r ddinas sanctaidd, ac oddi wrth y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn" (Dat. xxii, 19). *Hynodrwydd y Llyfr hefyd a hawlia sylw.* Arddangosfa rhyfeddodau Bod a bydoedd anweledig ydyw; amgueddfa cywreinion Creadwr a chreadigaethau newydd a hen; datguddiad o'r hyn oedd, yr hyn sydd, a'r hyn sydd i ddyfod. Y Beibl yw y Llyfr rhyfeddaf a rhagoraf; a'r Datguddiad yw coron ei ragorion a'i ryfeddodau. Dyma ddiweddglo yr Ysgrythyrau Sanctaidd; pen congl-faen yr adeilad dwyfol. *Cynwysa hefyd hanfodion yr holl Feibl.* Hel y mae sylwedd holl dymhorau y flwyddyn yn y cynhauaf, y mae sylwedd holl gyfnodion ysbrydoliaeth yn rawn addfed yn y Datguddiad. Y Gyfraith a'r Prophwydi, y Salmau, yr Efengylau, a'r Epistolau ydynt oblygedig yn y gweledigaethau arwyddluniol hyn. Y mae deuddeg angel wrth ddeuddeg porth y ddinas newydd, ac enwau wedi eu hysgrifenu arnynt,

y rhai yw enwau deuddeg llwyth plant Israel; ac enwau deuddeg Apostol yr Oen ar y deuddeg sylfaen. Myned i fewn trwy y pyrth i ddinas newydd y Datguddiad, yw myned tu draw i bob tywyllwch, "Canys gogoniant Duw a'i goleuodd hi, a'i goleuni hi ydyw yr Oen . . . Ni bydd nos yno" (Dat. xxi, 22, 25). Gallwn trwy Lyfr y Datguddiad esgyn uwchlaw pob ffoledd ac ynfydrwydd i gylchoedd uchaf synwyr a sirioldeb, ystyriaethau i'n hargymell i deimlo dyddordeb arbenig ynddo. Yn olaf, nodwn *fod y goleu newydd* rydd yr Arglwydd ar y Datguddiad yn galw yn ddifrifol arnom fyfyrio a byw yn y goleuni newydd hwn. Dygir dirgelion y Llyfr i'r golwg; dangosir ystyron ei arwyddluniau, fuont guddiedig dros oesoedd a chenhedlaethau. Gyda hyn, ceir esboniad ysbrydol, nefol, a dwyfol ar symboliaeth y Beibl a'r bydysawd. Gwelir y Dyn Anfeidrol yn y cwbl, a'r Gair yn drysorfa o wirioneddau na ddychmygwyd o'r blaen. Rhydd yr un goleu esboniad gwyddonol ar bynciau dyrus y byd materol. Dangosir y cysondeb rhwng gwaith Duw a Gair Duw; priodir rheswm a ffydd; gwelir ysbryd cariad a gwirionedd yn y *mythologies* a r *legends*, a chyfathrach rhwng y beirdd paganaidd a phrophwydi Israel. Adgyfodir athrawiaeth fawr bywyd, sef nad oes fywyd creuedig, ond fod bywyd yn lifiad o'r Duwdod i angylion, ysbrydion, dynion, anifeiliaid, a phlanhigion. Profir fod tarddiad ysbrydol i'r cread materol. Y byd ysbrydol yw talaeth yr achosion, cylch yr effeithiau yw y byd naturiol, yn cyfateb i sylweddau y byd ysbrydol. Datguddir ac eglurir deddf cyfatebiaeth yn agoriad y Datguddiad. Heb ddirnad hon nis gellir gwybod dim yn glir am y byd ysbrydol, a'i ddylifiad i'r byd naturiol; am yr ysbrydol mewn cydmariaeth i'r naturiol; am ysbryd neu enaid dyn; am weithrediad yr enaid ar y corph; ac am gyflwr dyn ar ol angau. Goleuni trwy gyfatebion sydd alluog i liniaru y synhwyrau mewnol, boddio y meddwl rhesymol, gan godi yr enaid i gymundeb a'r nefoedd; canys gwyddor angylaidd yw gwyddor cyfatebiaeth. Y bobl henaf, oeddynt bobl angylaidd, yn meddwl yn hollol fel yr angylion, ac yn ymddyddan a hwynt trwy gyfatebion, gan gael eu dysgu hefyd gan bresenoldeb amlwg yr Arglwydd. Adferir hyn trwy y Datguddiad, gan uno dynion a'r Arglwydd, a'u codi i gymdeithas yr angylion.

2. AWDWR Y DATGUDDIAD YW IESU GRIST. "Datguddiad Iesu Grist" (Dat. i, 1). "Myfi, Iesu, a ddanfonais fy angel i dystiolaethu i chwi y pethau hyn yn yr eglwysi" (Dat. xxii, 16). Nid oedd Ioan ond ysgrifenydd, Iesu Grist oedd y meddyliwr. Ffrwyth ei athrylith anfeidrol Ef yw yr ysgrifen. Yr hwn a fedd agoriadau uffern a marwolaeth a ddywedodd wrth Ioan, "Ysgrifena y pethau a welaist, a'r pethau sydd, a'r pethau a

fydd ar ol hyn" (Dat. i, 18, 19). Y llyfr a ddaeth o'r Arglwydd, trwy yr angylion, i Ioan; yr Arglwydd yn ei gyfansoddi, yr angylion yn ei ddangos a'i adrodd, ac Ioan yn ei ysgrifenu. Mawredd meddwl anghydmarol yr Arglwydd Iesu welir yma. Nid oes i awdwr y Datguddiad greadur anamlwg, na ffaith anhysbys. Cyfarwydd yw a holl ororau Paradwys, y trigfanau a'r trigolion oll; eu hurddau, eu graddau, eu rhif, a'u gwaith. Cyfarwydd yw a holl gyflyrau Hades—pob Hades berthynant i'r daear-fydoedd dirifedi. Cyfarwydd yw a'r holl uffernoedd; nid oes do iddo Ef ar ddystryw, na chauadlen ar golledigaeth; mesura y pydew diwaelod; treiddia i ddyfnderoedd naturiaethau syrthiedig, cyhoedda eu dedfryd oddi ar ddirnadaeth ddiwall, a ddarllena eu tynged dost ac anadferadwy. Cyfarwydd yw ag aneirif heuliau yr eangder, a'r bydoedd poblog a droant o'u cylch, yn cludo llwythau, ieithoedd, a phobloedd nas gall neb, ond Efe, eu rhifo. Efe a'u hadwaen oll, eu crefyddau, eu cymdeithasau, eu gwladwriaeth, eu masnach, eu holl helynt, a'u holl hanes. Adwaen hefyd eu holl adar, a'u holl anifeiliaid, eu planhigion, a'u meteloedd. Y mae Efe yn deall y greadigaeth, ei chreaduriaid, a'i chyfnodau, o'r cychwyn a hyd byth. Nis gallasai neb o feddwl llai nag Anfeidrol gyfansoddi y Datguddiad. Ei feddyliau yma sydd fel bwau dibendraw yn cwmpasu y bydysawd, ac yn cylchu amser a thragwyddoldeb. Ei feddyliau yma sydd fel gwifrau Dwyfol delegraph, yn gwefreiddio trwy bob gwybren, o fyd i fyd ac o fod i fod, heb eithrio neb; ac fel yr *Atlantic cable*, yn trydanu negeseuau yr Orsedd a'r tair nefoedd, dan y mor o wydr, dan afon y bywyd, dan draian y dyfroedd wedi eu troi yn waed, ac o dan y llyn o dan a brwmstan. Ei feddyliau yma sydd fel y *Rontgen rays*, yn datguddio yr anelwig ddefnydd tu fewn i'r wysg, y croen, a'r esgyrn. Ei feddyliau yma sydd fel mellt y nos, yn goleuo y ffurfafenau, yn llosgi lleni y fagddu, yn dangos drysau y nef, ac yn dynoethu dyfnderau satan. Ei feddyliau yma sydd fel tanllwyth aniffoddadwy, yn gollwng allan ddysglaerder Holl Bresenol, gan oleuo holl gwrs, a chylch, a chyfrinion bodolaeth. Gellwn yn awr weled mor bell ag y mynwn—yn ol, yn mlaen, i lawr, i fyny, i fewn, ac allan. Gwir am bawb yn ngoleuni y Datguddiad yw "Ac ni bydd nos yno; ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, na goleuni haul; oblegyd y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt" (Dat. xxii, 5).

3. YR UNIG BERSON DWYFOL YN Y DATGUDDIAD YW YR ARGLWYDD IESU GRIST. "Datguddiad Iesu Grist," neu Lyfr Iesu Grist, i'r Jerusalem nefol, sef yr Eglwys Newydd, yw y Datguddiad; prophwydoliaeth arwyddluniol o honi, ei hegwyddorion, ei hathrawiaethau, ei harferion, ei hadnoddau,

ei gelynion, ei brwydrau, ei buddugoliaeth, a'i gwynfyd bythol yn y byd, ac yn y nef, ar ol y farn ddiweddaf, a gymerodd le yn myd yr ysbrydoedd yn y flwyddyn 1757. Mai yr Arglwydd Iesu Grist, yr Anfeidrol Ddyn yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol, yw unig Dduw y Jerusalem nefol, a welir yn y Datguddiad mor amlwg a haul canolddydd trwy wybren glir. Efe yw yr unig Berson Dwyfol yma, yn dyfod i'r golwg mewn agweddau a nrywiol a mawreddog. Y Datguddiad a'i dengys Ef a'i waith yn ei ddyfodiad, ac yn ddiddiwedd. Y mae Efe a'i waith yn un a'u gilydd; ac y mae Efe gyda'i waith o hyd, ac yn dragywydd. Creawdwr nefoedd a daear newydd ydyw yn y Datguddiad, nad yw y cread materol ond cysgod o honynt. Ei oruchelder, a'i orchwylion, yn creu pob peth o'r newydd, a hoelia sylw y bydoedd arno Nid oes ail iddo yn bod. Efe yw yr Alpha a'r Omega, y dechreu a'r diwedd, y cyntaf a'r diweddaf, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod (pen. i, 8). Efe sydd yn nghanol y saith ganhwyllbren aur, a chanddo agoriadau uffern a marwolaeth (pen. i, 13-18). Efe sydd yn galw y saith eglwys, sef yr holl fyd Cristionogol, i'r Eglwys Newydd (penodau ii, iii). Efe sydd yn trefnu a darparu pob peth yn y tair nefoedd, ar gyfer y farn fawr, ac Efe yn unig a fawrheir fel y Sanct, yr Hollalluog, a Chrewr pob peth, gan y pedwar anifail, sef y Gair, a'r pedwar henuriad ar hugain, sef pawb yn y nefoedd (pen. iv). Efe yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol sydd yn nghanol yr Orseddfainc, yn datod y seliau ac agor y Llyfr, sef barnu pawb o'r Gair trwy y bydysawd, a phawb trwy y tair nefoedd a'u cydnabyddant fel yr unig Farnwr (penodau v, vi). Efe yw yr Angel Anfeidrol o god ad haul, a sel y Duw byw ganddo, yn selio gwasanaethwyr ein Duw ni yn eu talcenau (pen. vii, 2, 3). Efe sydd yn bugeilio, ac arwain y dyrfa fawr, nas gall neb ei rhifo, at ffynonau bywiol o ddyfroedd (pen vii, 17). Efe sydd yn rhoddi y saith udgorn i'r saith angel i'w hudganu, sef gollwng allan o hono ei hun y gwirionedd dwyfol, trwy yr holl nefoedd ysbrydol, i archwilio ac arddangos calon a meddwl yr Eglwys Brotestanaidd, yn ei ddyfodiad (penodau viii, ix). Efe yw yr angel cryf, wedi ei wisgo a chwmwl, ac enfys ar ei ben, a'i wyneb fel yr haul, a'i draed fel colofnau o dan, yn tyngu na bydd a ser mwyach, sef na bydd Eglwys heb ei gydnabod Ef yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol fel yr unig Dduw (pen. x). Efe yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol, fel yr unig Dduw, a'i ewyllys fel unig amod a rheol bywyd, yw cenadwri y ddau dyst laddwyd gan y bwystfil o'r pydew diwaelod, ac Efe, yn ol llefau uchel y nef, sydd i feddianu holl deyrnasoedd y byd, ac i deyrnasu yn oes oesoedd (pen. xi). Efe, fel yr unig Berson Dwyfol, yw Duw y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, sef yr Eglwys Newydd,

a'r Ddraig, sef crefyddwyr y tri pherson dwyfol, a'r cyfiawnhad trwy ffydd yn unig, yn ei herlid (pen. xii). Ei enw Ef yn ei hanfod Ddwyfol, a dynol, fel yr unig Dduw, a geblir gan y bwystfil o'r mor, a'r bwystfil o'r ddaear, sef pobl a phregethwyr y Ddraig, yn llwyr lygru ei Air (pen. xiii). Efe yw yr unig arweinydd ar fynydd Sion, a'r gwyryfon difai ger bron yr Orseddfainc, yn ei ganlyn (pen. xiv). Efe sydd yn anfon allan y saith angel, a'r saith pla diweddaf ganddynt, sef datguddiad o ddrygau yr Eglwys ar y ddaear; Efe yw Brenin y Saint, ac Efe sydd yn llywio tywalltiad y phiolau (penodau xv, xvi). Efe sydd yn dangos barnedigaeth y buttain fawr, sef y Babaeth, ac Efe yw yr angel oleuodd y ddaear a'i ogoniant, ac a lefodd yn groch a llef uchel, gan ddywedyd, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr" (penodau xvii, xviii). Efe glodforir gan y tair nefoedd, am farnedigaeth y buttain fawr; Efe ganlynir gan y lluoedd sydd yn y nef ar feirch gwynion, ac ar ei wisg a'i forddwyd Ef y mae enw wedi ei ysgrifenu, "Brenin brenhinoedd, ac Arglwydd arglwyddi" (pen. xix). Efe yw yr angel a chanddo agoriad y pydew diwaelod, a chadwyn fawr yn ei law; Efe ddeil y Ddraig—yr hen sarph, yr hon yw diafol, a satan; Efe sydd yn eistedd ar yr Orseddfainc wen fawr; Efe yw yr angel sydd yn yr haul (pen xx); ac Efe yw Creawdwr y nefoedd a'r ddaear newydd, eu goleuni, a'u gwynfyd tragwyddol (penodau xxi, xxii). "Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn sydd yn dywedyd, Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys, Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu" (pen. xxii, 20).

4. DEHONGLWR Y DATGUDDIAD YW YR ARGLWYDD IESU GRIST. Llyfr seliedig yw y Datguddiad, i'r Eglwys Brotestanaidd, arwyddluniau o gredo a chreulonder yr hon yw y ddraig goch fawr, a'r bwystfilod yn codi o'r mor a'r ddaear. Llyfr seliedig yw i'r Eglwys Babaidd, arwyddluniau o'r hon yn ei thrais a'i rhyfyg, yw y wraig wedi ei dilladu a phorphor, ac yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad, yn llawn o enwau cabledd, mam putteiniaid a ffieidd-dra y ddaear. Ond Llyfr agored yw y Datguddiad, i'r Eglwys Newydd, arwyddluniau o'r hon yn ei gwirionedd, a'i chariad, a'i phurdeb, yw y saith ganhwyllbren aur, y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, a phriodasferch gwraig yr Oen. Yr Eglwys hon yn unig, nad yw sect, ond saint y goleu newydd, a droant o unfryd i edrych ar weledigaethau, ac arwyddluniau y Datguddiad, gan eu deall, a'u teimlo, a'u byw i'w dwyfol darddiad. "Gall unrhyw un weled," medd Swedenborg, "nad posibl esbonio y Datguddiad ond gan yr Arglwydd ei hun, gan fod pob gair ynddo yn cynwys dirgelion, nad ellid byth eu gwybod heb oleuni neillduol, ac felly, datguddiad; am hyny, gwelodd yr Arglwydd

yn dda agor llygaid fy ysbryd a'm dysgu. Na feddylied neb, gan hyny, fod dim yma o honof fy hun, neu oddi wrth angel, ond oddi wrth yr Arglwydd yn unig. Hefyd, dywedodd yr Arglwydd wrth Ioan, 'Na selia eiriau Llyfr y brophwydoliaeth hon' (pen. xxii, 10). Wrth hyn y deallir eu bod i gael eu hegluro." Dywed eto, "Esboniodd llawer y Llyfr prophwydol hwn a elwir y Datguddiad; ond gan eu bod oll heb adwaen ystyr fewnol ac ysbrydol y Gair, cymhwysent neillduolion amrywiol ei gynwysiad at ystadau olynol yr Eglwys, hysbys iddynt oddi wrth hanesyddiaeth; cymhwysent lawer o honynt heb law hyny, at helyntion llywodraethau gwladol. Felly, nid yw yr esboniadau hyny, gan mwyaf, ond tybiau, nas gallant byth ymddangos yn y fath oleuni fel y gellir eu cadarnhau fel gwirioneddau; am hyny, mor fuan ag y cant eu darllen, rhoddir hwynt o'r neilldu, megys opiniwnau yn unig. Y rheswm fod yr esboniadau sydd, o'r fath ddesgrifiad, yw, fel y nodwyd, oblegyd fod y rhai a'u gwnaethant heb wybod dim o ystyr fewnol ac ysbrydol y Gair; pan, er hyny, fod pob peth ysgrifenedig yn Llyfr y Datguddiad, yn cael eu llefaru mewn arddull tebyg i'r rhanau prophwydol yn yr Hen Destament, ac yn gyffredinol, yr arddull yr ysgrifenwyd yr holl Air, a'r Gair yn ei lythyren sydd naturiol, ond yn ei gynwysiad mewnol, ysbrydol yw; a chan ei fod y fath, cynwysa ystyr fewnol nad ymddengys o gwbl yn y llythyren. Oddi wrth hyn, eglur yw, nas gellir deall y Datguddiad, yn gystal a rhanau prophwydol yr Hen Destament, na dim ynddynt, oddieithr fod yr ystyr ysbrydol yn hysbys, ac heb gael datguddiad o'r nefoedd hefyd, lle y deallir yr holl Air yn ol yr ystyr hono." Felly, yr Arglwyd yw Dehonglwr y Datguddiad.

5. DEHONGLI Y DATGUDDIAD SYDD ALLWEDD I DDEHONGLI Y GAIR. Yn y dehongliad ar y Datguddiad, gwelir gwerth a gogoniant deddf fawr cyfatebiaeth yn ei gwaith. Gan fod y Gair oll wedi ei ysgrifenu yn ol y ddeddf hon, sef fod pob gwrthrych naturiol, digwyddiad, sefydliad, lle, a phobl enwir yn y Gair, yn cyfateb i sylweddau ysbrydol; felly, y mae agoriad trwy ddeddf cyfatebiaeth i'r Datguddiad, yn agoriad i'r oll o'r Gair. Hawdd yw dirnad bellach mai alegori yn darlunio adenedigaeth a gogoneddiad yr hil ddynol, yw y benod gyntaf yn Genesis; gwahanol raddfeydd y frwydr rhwng drwg a da yw gwaith y chwech dydd; yr orphwysfa nefol yn yr enaid, yw y Saboth; y dyn mewnol yw y nefoedd, a'r dyn allanol yw y ddaear; paradwys o feddyliau da yw Eden, syniadau yw y prenau, ystad feddyliol o anwyldeb at y Duwdod yw pren y bywyd; gwybodaeth trwy y synhwyrau allanol oddi ar hunan, yw pren gwybodaeth da a drwg; y natur gnawdol yw y sarph, a gwrando arni yn fwy nag ar Dduw, yw y cwymp.

Yr un modd y ceir agoriad i'r alegori am Arch Noah, y Diluw, a Thwr Babel; yn nghyd ag i ystyron arwyddluniol yr hanesion oll, y Salmau, a'r Prophwydi. Gair yr Arglwydd yw y Beibl oll, yn cynwys cariad a doethineb anfeidrol, addasedig i holl angylion y nefoedd, ac wedi disgyn i iaith a geiriau cyfaddas i bob dyn ar y ddaear.

6. DEHONGLI Y DATGUDDIAD A'R DYLIFIADAU TRWYDDO YW AIL DDYFODIAD YR ARGLWYDD. Am fod y byd Cristionogol yn yr afagddu mewn perthynas i Berson y Duwdod yn y Ddynoliaeth Ddwyfol, natur y nefoedd, y farn ddiweddaf, uffern, a chynwys mewnol y Gair; ac am fod yr Eglwys a'r byd yn suddo yn ddyfnach o hyd i'r tywyllwch a'r trueni, a bod eu cyflwr fel pla a phydredd yn y corph, yn ymledu yn farwol trwy y bydysawd ysbrydol, gan beryglu bywyd y byd angylaidd; yn ei drugaredd y daeth yr Arglwydd i wasgar y tywyllwch. Trwy ddyn y daeth, fel bob amser, i ddatguddio ei hun, y byd ysbrydol, a'i Air. "Cefais orchymyn gan yr Arglwydd," medd Swedenborg, "i gyhoeddi rhai o'r amryw bethau a welais, ac a glywais am nef ac uffern, a'r farn ddiweddaf; ac hefyd i agor y Datguddiad, yr hwn sydd yn son am ddyfodiad yr Arglwydd, y nefoedd newydd, a'r Jerusalem Sanctaidd; yr hyn, wedi eu darllen a'u deall, a gynorthwyant bob un i weled beth feddylir yno, wrth ddyfodiad yr Arglwydd, y nefoedd newydd, a'r Jerusalem Newydd . . . Hyn, yr hyn yw ail-ddyfodiad yr Arglwydd, sydd er mwyn gwahanu y drwg oddi wrth y da, fel y byddo i'r rhai a gredasant ynddo Ef, ac sydd yn credu, gael eu cadw, ac y gellir ffurfio nefoedd angylaidd newydd o honynt, ac Eglwys Newydd ar y ddaear; heb y dyfodiad, ni buasai gadwedig un cnawd." Ac am y dyfodiad hefyd, y dywed yr Arglwydd, "Oni bai fyrhau y dyddiau hyny, ni fuasai gadwedig un cnawd oll" (Math. xxiv, 22).

7. DEALL, DERBYN, A DEFNYDDIO Y DATGUDDIAD YW ARBENIG NOD EGLWYS PHILADELPHIA. Trwy ddeall, derbyn, a defnyddio y Datguddiad, galluogir Eglwys Philadelphia i ddeall, derbyn, a defnyddio yr oll o'r Gair, ac felly trwy y Gair, un yw a'r Arglwydd, a hi a una yr Arglwydd a'r hil ddynol; hi a gysyllta y nefoedd a'r ddaear; hi a helpa breswylwyr Hades; hi a wrthsaif yr ysbrydion aflan; hi a leda sylweddau y Gair trwy yr hollfyd; a hi a gyfyd safon dynoliaeth newydd, trwy wasgar goleu newydd am yr Arglwydd, a'r ffordd i'w foddio; am y nefoedd a'r addasder iddi; am y farn a'i datguddiadau; am uffern a natur ei chosbau; ac am bwysigrwydd bywyd ar y ddaear, a'i oruchel, anfarwol amcanion; a hi, trwy sefyll yn y Gair, a sicrha wrogaeth synagog satan. "Wele, mi a wnaf iddynt hwy o

synagog satan, y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt, ond dywedyd celwydd y maent; wele, gwnaf iddynt ddyfod ac addoli o flaen dy draed, a gwybod fy mod i yn dy garu di" (Dat. iii, 19). Yr Eglwys hon sydd golofn ddisyfl yn nheml Dduw, ac enw Duw yn ysgrifenedig arni, ac enw dinas Duw, ac enw newydd yr Arglwydd. Yr Eglwys hon sydd mewn ffurf ddynol berffaith, yn tarddu o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd; a mewnolion y meddwl, trwy wirioneddau, yn agored i'r Arglwydd a'r nefoedd; oblegyd i fewnolion yr enaid y llifa yr Arglwydd, a'r nefoedd a lifa i fewn gyda'r Arglwydd. "Dylifiadau yr Arglwydd ei hun gyda dyn sydd i'w dalcen, ac oddi yno i'w wyneb; am fod talcen dyn yn cyfateb i'w gariad, a'i wyneb i'w holl fewnolion. Dylifiad yr angylion ysbrydol gyda dyn, sydd i'w ben yn mhob cyfeiriad, o'r talcen a'r arleisiau, i bob rhan sydd yn cuddio y *cerebrum*, am fod y dalaeth hono o'r pen yn cyfateb i ddealldwriaeth. Ond dylifiad yr angylion nefol sydd i'r rhan hono o'r pen a guddia y *cerebellum*, ac a elwir gwegil, yn ymestyn o'r clustiau yn mhob cyfeiriad, hyd y tu ol i'r gwddf, am fod y rhan hono yn cyfateb i ddoethineb." Derbynia Eglwys Philadelphia y dylifiadau yn gyflawn trwy y Datguddiad—"Datguddiad Iesu Grist." Amen.

VII.—AGORIAD I'R AIL-DDYFODIAD.

Ystyron lawer sydd i ddyfodiad yr Arglwydd. Daw yn barhaus, ac am byth, mewn moddau aneirif. Lleinw a gorlifeiria gylchoedd amser a thragwyddoldeb. Ei ddyfodiad yw bodolaeth y bydoedd. Ei ddyfodiad greodd Adda ac Efa, a gardd Eden, sef yr Eglwys Henaf, neu Oes Euraidd y byd. Ei ddyfodiad ddyogelodd Noah a'r Arch, sef yr Hen Eglwys, neu Oes Arianaidd y byd. Ei ddyfodiad sefydlodd oruchwyliaeth ysblenydd y cysgodau, i arddangos ei ddyfodiad mewn modd mwy sylweddol ac agos. Ei ddyfodiad oedd yr Ymgnawdoliad, Dydd y Pentecost, dinystr Jerusalem, y brwydrau oll rhwng drwg a da, y chwyldroadau yn ysgubo

ymaith wrthgloddiau gormes, a phob ymgais i ddiwygio mewn moesau, mewn masnach, a phob mesurau gwladol cyfiawn. Ei ddyfodiad atom fydd ingoedd angau, yr angladd, a'r adgyfodiad i'r byd a ddaw. "Ei fynediad allan sydd o'r dechreuad, er dyddiau tragwyddoldeb" (Micah v, 2). "Mi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Hollalluog" (Dat. i, 8). Arwyddion ei ddyfodiad lanwant y nef a'r ddaear. Ond y mae dau ddyfodiad o eiddo yr Arglwydd yn bynciau pendant y Datguddiad Dwyfol, sef ei Ddyfodiad yn y Cnawd, a'i Ddyfodiad yn yr Ysbryd. Y ddau ddyfodiad hyn a dynant sylw saint yr oesau. Saint yr Hen Destament yn neillduol a ddysgwylient am ddyfodiad yr Arglwydd yn y cnawd, a gorfoleddent wrth glywed ei swn Ef yn dyfod yn yr addewidion. Saint y Testament Newydd a godwyd i ddysgwyl am ei ail-ddyfodiad. Planodd yr Arglwydd y dysgwyliad hwn ynddynt, megys y gwelir yn yr Efengylau, yn neillduol yn nameg y deng morwyn, dameg y talentau, dameg y punoedd, a'r darluniadau o ddiwedd y byd. Pan oedd y dysgyblion yn edrych yn ddyfal tua'r nef, a'r Arglwydd yn esgyn, dau wr a safodd gerllaw iddynt, mewn gwisg wen, a dywedasant, "Yr Iesu hwn, yr hwn a gymerwyd i fyny oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch Ef yn myned i'r nef" (Act. i, 11). Edrych i fyny y buont mwy, a dysgu eraill i ddysgwyl, gwylio, gweddio, a griddfan am ei ddyfodiad Ef. "Canys awyddfryd y creadur sydd yn dysgwyl am ddatguddiad meibion Duw" (Rhuf. viii, 19). "Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd; o'r lle hefyd yr ydym yn dysgwyl yr Iachawdwr, yr Arglwydd Iesu Grist" (Phil. iii, 20). "A'r Arglwydd a gyfarwyddo eich calonau chwi at gariad Duw, ac i ymaros am Grist" (11 Thes. iii, 5). "Byddwch, gan hyny, yn ymarhous, frodyr, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Welc, y mae y llafurwr yn dysgwyl am werthfawr ffrwyth y ddaear, yn dda ei amynedd am dano, nes iddo dderbyn y gwlaw cynar a diweddar. Byddwch chwithau hefyd dda eich amynedd; cadarnhewch eich calonau; oblegyd dyfodiad yr Arglwydd a nesaodd" (Iago v, 7, 8). Y Datguddiad, fel y nodwyd, sydd orlawn o'r ail-ddyfodiad, a'i brif bwnc yw ei hysbysu. Yn nechreu y Llyfr olaf hwn o'r Gair, dywedir yn bendant, "Wele, y mae Efe yn dyfod gyda'r cymylau; a phob llygad a'i gwel Ef" (pen. i, 7). Diweddglo y Llyfr gynwys addewid olaf y Gair, "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys"; a gweddi olaf y Gair, "Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu" (pen. xxii, 20). Sylwn:—

I. NATUR YR AIL-DDYFODIAD. II. ADEG YR AIL-DDYFODIAD. III. ARWYDDION YR AIL-DDYFODIAD. IV. EANGDER YR AIL-DDYFODIAD.

1. NATUR YR AIL-DDYFODIAD. Nid dyfod yn weledig, fel person, a wna yr Arglwydd, yr ail waith, na dyfod i ddystrywio y byd materol, ond dyfod mewn cariad a gwirionedd newydd; dyfod fel yr haul, ac fel yr haf, a wna, gyda mwy o oleuni a gwres. Daw a goleuni newydd arno Ef ei hun fel Creawdwr; ar Undod ei Berson; ar ei Anfeidroldeb a'i Dragwyddoldeb; ar ei Hanfodion, sef ei gariad a'i wirionedd; ar ei Hollalluawgrwydd, ei Hollwybodaeth, a'i Hollbresenoldeb; ar yr Ymgnawdoliad, y Brynedigaeth, a'r Iachawdwriaeth; ar yr Ysbryd Glan; ar y Gair a'i ystyron mewnol; ar y ddeddf foesol, neu y Deg Gorchymyn yn eu cynwysiad naturiol, ysbrydol, a nefol; ar ffydd, a chariad, a rhyddid yr Ewyllys; ar edifeiriwch, adenedigaeth, cyfiawnhad, a chyfrifiad; ar Fedydd, a Swper yr Arglwydd; ar yr Ail-Ddyfodiad, a'r Farn ddiweddaf; ac ar y tri byd tu draw i angau, sef y nefoedd, Hades, ac uffern. Goleu newydd, hefyd, ar unoliaeth a natur y wir Eglwys, ar wladlywiaeth, a masnach; goleu newydd yn creu nefoedd a daear newydd, yn breswylfa bythol i'r Duw byw, heb le mwyach i'r delwau meirw. Am hyny, "Molwch yr Arglwydd. Molwch enw yr Arglwydd; gweision yr Arglwydd, molwch Ef. Y rhai ydych yn sefyll yn nhy yr Arglwydd, yn nghynteddoedd ty ein Duw . . . Bendithier yr Arglwydd, O Sion, yr hwn sydd yn trigo yn Jerusalem" (Salm cxxxv, 1, 2, 3).

2. ADEG YR AIL-DDYFODIAD. Dywed Swedenborg, "Caniatawyd i mi weled o'r dechreu i'r diwedd y modd y cyflawnwyd y farn ddiweddaf, hefyd y modd y dystrywyd Babilon, y modd y taflwyd i'r dyfnder y rhai a ddeallir wrth y Ddraig, a'r modd y ffurfiwyd nefoedd newydd, a'r Eglwys Newydd sefydlwyd gan yr Arglwydd yn y nefoedd, sef y Jerusalem Newydd. Caniatawyd i mi weled yr holl bethau hyn a'm llygaid fy hun, fel y gallwn dystiolaethu am danynt. Y Farn ddiweddaf a ddechreuodd yn nechreu y flwyddyn 1757, ac a gwblhawyd ar ddiwedd y flwyddyn. Ond dylid gwybod fod y farn ddiweddaf wedi cymeryd lle ar y rhai fuont byw oddi ar amser yr Arglwydd hyd y dydd hwn, ond nid ar y rhai fuont byw cyn hyny; canys cymerodd barn ddiweddaf le, ddwy waith o'r blaen, ar ran y ddaear hon. Am y ddwy farn hyn, desgrifir un yn y Gair gan y diluw; gwnawd y llall gan yr Arglwydd ei hun pan yn y byd, yn ol geiriau yr Arglwydd, 'Yn awr y mae barn y byd hwn; yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn' (Ioan xii, 31); hefyd, 'Y pethau hyn a ddywedais wrthych fel y caffech dangnefedd ynof. Yn y byd, gorthrym-

der a gewch; eithr cymerwch gysur, myfi a orchfygais y byd' (Ioan xvi, 33); ac eto y geiriau hyn yn Esaiah, 'Pwy yw hwn yn dyfod o Edom, yn goch ei ddillad o Bozrah, yn ymdaith yn amlder ei rym, cadarn i iachau? Sethrais y gwinwryf fy hunan, a mathraf hwynt yn fy llidiowgrwydd; a'u gwaed hwynt a daenellir ar fy nillad, canys dydd dial sydd yn fy nghalon, a blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth; felly, Efe a aeth yn Iachawdwr' (Esaiah lxiii, 1 hyd 8); ac mewn llawer lle arall. Cymerodd barn ddiweddaf le ddwywaith o'r blaen ar ran y ddaear hon, am fod pob barn yn cael ei chynal ar ddiwedd Eglwys, a bu dwy o eglwysi ar y ddaear, un o flaen y diluw, ac un ar ei ol. Yr Eglwys o flaen y diluw a ddesgrifir yn nechreu Genesis, gan greadigaeth newydd nef a daear, a pharadwys; a'i diwedd trwy fwyta pren gwybodaeth; a'i barn ddiweddaf trwy y diluw. Ond yr Eglwys arall, ar ol y diluw, a ddesgrifir hefyd mewn rhanau o'r Gair, megys yn Deut. xxxii, 7 hyd 14. Ymledai yr Eglwys hon dros lawer o Asia, a pharhaodd yn mhlith hiliogaeth Jacob. Ei diwedd oedd, pan ddaeth yr Arglwydd i'r byd. Gwnawd barn ddiweddaf ganddo Ef y pryd hwnw ar bawb berthynent i'r Eglwys hono o'i sefydliad cyntaf; ac ar yr un pryd, ar weddill yr Eglwys gyntaf. Daeth yr Arglwydd i'r byd i'r amcan hwnw, er dwyn pob peth i drefn yn y nefoedd, a phob peth yn ngwledydd y ddaear, trwy y nefoedd, a dwyfoli ei Ddynoliaeth ar yr un pryd; pe na wneid hyn, "Ni buasai gadwedig un cnawd." Trwy y farn ddiweddaf, gymerodd le yn y flwyddyn 1757, cliriwyd Hades, sef y byd canolog, o'r crefyddwyr gau a gronent yno er ys canrifoedd, yn gyfryngau trwchus, yn atal goleu a gwres y nefoedd i'r ddaear. Oddi ar hyny, ceir awyrgylch glir yn y byd canolog, i'r dylifiadau dwyfol dramwy i eneidiau dynion yn y byd hwn; ac agorir ystyr ysbrydol, a nefol, y Gair, am fod dyn wedi ei adferyd i ryddid ysbrydol; o'r blaen, nis gallasai amgyffred gwirioneddau mewnol, a phe gallasai, halogasai y Gair. Gall dynion mwy, os mynant, fyw yn rhydd yn ngoleuni a gwynfyd y nefoedd; er nad oes gan yr angylion ond gobaith gwan am bobl y byd Cristionogol, ond gobaith cryf am ryw genedl bell oddi wrth Gristionogion, ac felly yn ddyogel rhag cael eu blino a'u heintio ganddynt. Datguddia yr Arglwydd yn awr wirioneddau mewnol i'r genedl hono. Addola yr Arglwydd fel yr Anfeidrol Ddyn, a chyfyd i eistedd gydag Abraham, Isaac, a Jacob yn nheyrnas nefoedd, tra plant y deyrnas yn cael eu taflu i'r tywyllwch eithaf (Math. viii, 11, 12).

3. ARWYDDION YR AIL-DDYFODIAD.

1. *Rhydd yr Arglwydd Arwyddion i'w Bobl.* Yn Math., pen. xvi, 1-4, dywedir, "Ac wedi i'r Phariseaid a'r Saduceaid

ddyfod ato, a'i demtio, hwy a atolygasant iddo ddangos iddynt arwydd o'r nef. Ac Efe a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, Pan fyddo yr hwyr y dywedwch, tywydd teg; canys y mae yr wybr yn goch. A'r boreu, heddyw drycin; canys y mae yr wybr yn goch ac yn bruddaidd. O ragrithwyr, chwi a fedrwch ddeall wyneb yr wybren; ac oni fedrwch arwyddion yr amserau. Y mae cenhedlaeth ddrwg a godinebus yn ceisio arwydd; ac arwydd nis rhoddir iddi, ond arwydd y prophwyd Jonas." Phariseaid a Saduceaid, sef rhagrithwyr a bydolion, a gytunant yn erbyn yr Arglwydd, y Gair, a'r nefoedd; ac eto, haerllugant i ofyn arwydd o'r nef. Arwyddion o'r nefoedd a roddwyd i Moses a Josua, i Samuel ac Elias, ac eraill; arwyddion yn effeithio ar bwerau a deddfau natur. Ond arwyddion o'r nefoedd nid oeddynt ddim i ffugwyr ffurfiol, a'u calon a'u craffder yn gyfyngedig i deml a delwau Mammon. Medrent ddeall wyneb y wybren, ond ni fedrent ddeall arwyddion yr amserau. Pan y mae yr Eglwys wedi ei hanrheithio, gwelir ynddi siriol deb arwynebol, am fod yr aelodau yn ymfoddhau mewn rhagrith a bydolrwydd; dyma yr hwyr iddynt hwy, y wybr goch, a'r tywydd teg; ond pan ymddengys yr Arglwydd yn eu plith, y gwadant, yr erlidiant, ac y lladdant Ef; dyma y boreu iddynt, y wybr goch a phruddaidd, a'r drycin. Drwg a godinebus oeddynt yn sathru cyfamodau Sanctaidd, heb adwaen yr aneirif arwyddion dwyfol o'u hamgylch, ac wedi blino arnynt. O uffern, ac nid o'r nef, y bydd yr arwydd iddynt hwy,—arwydd y prophwyd Jonas, gwir ddatguddiad o'u cymeriad yn claddu y Ddynoliaeth Ddwyfol, sef y Gair oll o'r golwg. "Canys fel y bu Jonas dridiau a thair nos yn mol y morfil, felly y bydd Mab y Dyn dridiau a thair nos yn nghalon y ddaear (Math. xii, 40). Ond arwydd y prophwyd Jonas, i ddynion da, sydd arwydd o adgyfodiad a gogoneddiad cyflawn yr Arglwydd yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol; tridiau a thair nos yn arwyddo y cwbl. Ceir o hyd arwyddion yr amserau, addasedig i bob amgylchiad. Dysg yr Arglwydd, nid yn unig fod yr amserau i'w hadwaen trwy yr arwyddion, ond yr arwyddion hefyd trwy yr amserau, a bod yr amserau a'r arwyddion hefyd i'w gwahaniaethu yn ddosbarthiadau, a'u hadwaen yn gyffredinol, neillduol, ac arbenig. Rheola yr Arglwydd ddyn mewn myrdd o ffyrdd—yn uniongyrchol o hono ei hun, trwy y Gair, trwy angylion ac ysbrydion, trwy ddynion, trwy amserau a phrydiau, a thrwy arwyddion a rhyfeddodau. Daeth y disgyblion at yr Arglwydd, mewn ysbryd a phwrpas gwahanol i'r Phariseaid a'r Saduceaid, yn gofyn am arwyddion ei ddyfodiad, a chawsant hwynt yn helaeth. "Ac Efe yn eistedd ar fynydd yr Olew-wydd, y disgyblion a ddaethant ato o'r neilldu, gan ddywedyd, Mynega i ni, pa bryd y bydd y pethau

hyn? a pha arwydd fydd o'th ddyfodiad, ac o ddiwedd y byd?" (Math. xxiv, 3). Dyfala dynion yn barhaus ar amryw fathau o arwyddion, megys arwyddion y tywydd, arwyddion masnach, arwyddion gwladol, arwyddion iechyd, ac arwyddion bywyd ac angau; a dyfala disgyblion yr Arglwydd ar arwyddion ei ail-ddyfodiad. Y mae arwyddion cyffredinol ac arwyddion neillduol, arwyddion mewnol ac arwyddion allanol, arwyddion ysbrydol ac arwyddion naturiol. Noda yr Arglwydd i'w ddisgyblion yr arwyddion canlynol o'i ddyfodiad,—*Twyll.* "Edrychwch, rhag i neb eich twyllo chwi, canys daw llawer yn fy enw i, gan ddywedyd, Myfi yw Crist; ac a dwyllant lawer" (adn. 4, 5); "A gau-brophwydi lawer a godant, ac a dwyllant lawer" (adn. 11). *Rhyfeloedd.*—"A chwi a gewch glywed am ryfeloedd, a son am ryfeloedd; gwelwch na chyffroer chwi; canys rhaid yw bod hyn oll; eithr nid yw y diwedd eto. Canys cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas" (adn. 6, 7). Rhyfeloedd ysbrydol yw y rhai hyn, rhwng gwirionedd a thwyll, rhwng drwg a da, a rhwng nef ac uffern. *Newyn, nodau, a chynhyrfiadau.*—"Ac fe fydd newyn, a nodau, a daeargrynfaau mewn manau" (adn. 7). Nid newyn am fara, na newyn am ddwfr; ond newyn Gair yr Arglwydd; nid nodau y corph, ond nodau yr ysbryd, nodau hunan-gariad, bydolrwydd, blysiau, a'r holl blaau ysbrydol boenant y bobloedd a'r cenhedloedd, amddifad o gariad at yr Arglwydd a'r Gair; a daeargrynfaau, nid yn ngholuddion daear, ond dan sylfeini y traddodiadau ddirymant orchymynion Duw. *Gofidiau, erlidiau, a lladdiadau ysbrydol.*—"A dechreuad gofidiau yw hyn oll. Yna y'ch traddodant chwi i'ch gorthrymu, ac a'ch lladdant, a chwi a gaseir gan yr holl genhedloedd, er mwyn fy enw i. Ac yna y rhwystrir llawer, ac y bradychant eu gilydd" (adn. 8, 9, 10). *Oerni ac anffyddlondeb.*—"Ac o herwydd yr amlha anwiredd, fe a oera cariad llawer, eithr y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig" (adn. 12, 13). *Ffieidd-dra yn y lle sanctaidd.*—"Am hyny, pan welech y ffieidd-dra anghyfaneddol, a ddywedwyd trwy Daniel y prophwyd, yn sefyll yn y lle sanctaidd (y neb a ddarlleno, ystyried)" (adn. 15). Y ffieidd-dra anghyfaneddol hwn yw drygau a chyfeiliornadau yn rheoli y pwlpud a'r Eglwys. *Gorthrymder heb ei fath.*—"Canys y pryd hwnw y bydd gorthrymder mawr, y fath ni bu o ddechreu y byd, hyd yr awr non, ac ni bydd chwaith; ac oni bai fyrhau y dyddiau hyny, ni fuasai gadwedig un cnawd oll" (adn. 21, 22). Gorthrymder ysbryd yw, yn codi

o'r anhawsderau erfawr i fyw bywyd y nefoedd a'r ddaear newydd. *Llewyrchiadau y Dyfodiad yn dynoethu twyll a drygau.*—"Oblegyd, fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywyna hyd y gorllewin, felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y Dyn" (adn. 27). Ofer ymgyrch y gau-Gristion, a'r gau-brophwydi, eu harwyddion mawrion a'u rhyfeddodau, yn y diffaethwch a'r ystafelloedd, y mellt a'r taranau ysbrydol a dynant sylw i'r uchelder, o'r dwyrain i'r gorllewin, sef o darddiad y cariad dwyfol i'w derfyn eithaf. *Diwedd y byd*,—"Ac yn y fan, wedi gorthrymder y dyddiau hyny, y tywyllir yr haul, a'r lleuad ni rydd ei goleuni, a'r ser a syrth o'r nef, a nerthoedd y nefoedd a ysgydwir" (adn. 29). Gwrthun yw y dyb goleddir oddi wrth y geiriau hyn a'u cyffelyb, y daw diwedd i'r bydysawd materol, yn ol desgrifiad llythyrenol y geiriau. Meddylier am *faintioli* yr haul a'r ser, eu *rhif*, eu *pellder*, dylanwad yr *atdyniad*, a *dyben* eu bodolaeth fel canolbwyntiau daear-fydoedd dirifedi, a droant yn y pellder glas—pob un o honynt yn *nursery* i'r nefoedd. Diwedd yr Eglwys gau olygir. Yr haul yn tywyllu yw cariad at yr Arglwydd wedi diffodd; y lleuad heb roddi goleuni yw diffyg ffydd a gwirionedd; y ser yn syrthio yw gwybodaeth ysbrydol wedi diflanu; a nerthoedd y nefoedd yn ysgwyd yw, gwirionedd a chariad, sef nerth yr Eglwys yn y nef a'r ddaear, yn cilio. Yn yr un goleu y dehongla yr Ysbryd Glan broffwydoliaeth Joel ar Ddydd y Pentecost. "Eithr hyn yw y peth a ddywedwyd trwy y prophwyd Joel . . . Yr haul a droir yn dywyllwch, a'r lloer yn waed, cyn i Ddydd Mawr ac Eglur yr Arglwydd ddyfod." (Act. ii, 16, 20.) *Dechreu byd newydd i barhau byth.* "Ac yna yr ymddengys arwydd Mab y Dyn yn y Nef: ac yna y galara holl lwythau y ddaear: a hwy a welant Fab y Dyn yn dyfod ar gymylau y nef, gyda nerth a gogoniant mawr." (adn. 30.) Arwydd Mab y Dyn yn y nef yw y gwirionedd dwyfol yn ymddangos; yr Arglwydd yn dyfod yn nghymylau y nef gyda nerth a gogoniant mawr yw, ei bresenoldeb yn y Gair, a datguddiad o hono yno: cymylau yw ystyr lythyrenol y Gair, a gogoniant yr ystyr fewnol. Ceir yr arwyddion yn helaethach, fel y dangoswyd eisoes, yn y Datguddiad. Y nef newydd a'r ddaear newydd a grea Efe yn ei Ail-ddyfodiad; nid ant heibio byth, ond byddant yn breswylfa dragwyddol iddo Ef a'r Gair, a choron dragwyddol y goruchwyliaethau oll. Yr arwyddion hyn a'n hadgofia o gwestiynau aiddgar Sadi:—

Ai gwir yw, O Grist, fod Anghrist,
Heddyw'n deyrn ar ddynol ryw,
Gan ymrithio'n ffurfiau newydd,
Fyth o'i dranc yn codi'n fyw;
Yn rhyfela a Duw Goruchaf,
Gan ddystrywio ei ddynol had,
Myrdd paganiaid yn osgorddlu,
Doethion yn blaenori'r gad?

* * *

Ai gwir yw, O fwyn Waredwr,
Fod y llawnder sydd i ddod,
Yn fwy pur ac yn fwy perffaith,
Nas dychmygodd dyn erioed?
Pe a llygaid pwl marwolion,
Treiddiem trwy'r uchelion fry,
Cauent byth mewn un amrantiad,
Tremiad ar dy fawredd Di.
"Pethau lawer sydd i'w traethu,
Ond nis gellwch 'nawr eu dwyn."
(Cyf.) N. R.

2. *Rhaid wrth synhwyrau ysbrydol er adwaen yr arwyddion.* Nis gellir adwaen yr Arglwydd nac arwyddion ei Ddyfodiad a'r synhwyrau cnawdol a naturiol, ond a'r synhwyrau ysbrydol a goruwchnaturiol. A'r synhwyrau hyn y gwelodd Abraham y tri angel, Moses y berth yn llosgi heb ei difa, Josua y Tywysog a'i gleddyf noeth yn ei law, y proffwydi eu gweledigaethau, y doethion y seren, y gwragedd a'r brodyr yr Arglwydd wedi ei adgyfodiad, Paul y weledigaeth o'r Arglwydd a'r drydedd nef, ac Ioan ryfeddodau y Datguddiad, megis y dywed, "Ac yr oeddwn yn yr ysbryd ar ddydd yr Arglwydd." (Dat. i, 10.) Nid adnabyddwyd yr Arglwydd, nac arwyddion ei Ddyfodiad pan yn y cnawd, ond gan rai a'u synhwyrau ysbrydol a goruwchnaturiol yn agored. Ei ymostyngiad yn ymgnawdoli oedd mor fawr, bychan yw pa un ai mewn preseb neu balas ei ganed. Ond ystyrier ei ymddangosiad: morwyn dlawd oedd ei fam, mewn tlodi ei magwyd, a thlodion a'i cylchynent. Pan ddechreuodd bregethu, nid oedd ganddo le i roddi ei ben i lawr. Dirmygedig oedd a diystyraf o'r gwyr. Cytunodd y rhai goludog, a'r awdurdodau gwladol ac eglwysig i'w gablu, ei erlid, a'i ddienyddio fel y troseddwr penaf. "Ac efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwyr." (Esaiah liii, 12). Twyllwyd y bobl, megys heddyw. Ei frodyr a'i berthynasau ni chredent ynddo. Coelient mai gwallgof oedd y Proffwyd a'r Pregethwr mawr. (Marc iii, 21.) Nid adnabyddid Ef pe buasai yma heddyw fel cynt, heb y synhwyrau ysbrydol. Beth fuasai ynddo yn ddyn

ieuanc hyd ddeg ar hugain oed i enill cred a chariad y dyn anianol, fel yr Eneiniog? Buasai yn ddiniwed, didwyll, diwyd, a diau yn drwm ei ddyrnod ar feilchion byd, a thyner i drueiniaid. A welid Duw ynddo am hyn? Onid ynfyd ac eithafol y cyfrifir y fath o hyd? Beth fuasai yn ei wyrthiau a'i leferydd heb y synhwyrau ysbrydol a goruwchnaturiol? Beth fuont? Ychydig a'i hadnabuant Ef yn ei ymddangosiad yn y cnawd. "Yn y byd yr oedd Efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo Ef: a'r byd nid adnabu Ef. At ei eiddo ei Hun y daeth, a'r eiddo ei Hun nis derbyniasant Ef" (Ioan i, 10, 11). Dau yn unig adwaenodd ac a roesawodd ei fynediad cyntaf i'r deml yn Ngwyl y Cyflwyniad, wedi cyflawni dyddiau puredigaeth. Beth oedd yno i'r byd yn ei bomp i'w fawrhau? Baban wyth niwrnod oed, a'i rieni tlawd, hen wr ar ben ei daith, a hen wraig oedranus iawn, ac yn weddw yn nghylch pedair a phedwar ugain mlynedd (Luc. ii, 28-40). Ar Fynydd yr Olewydd yn eistedd o'r neilldu yr hysbysodd yr Arglwydd i'w ddisgyblion arwyddion ei ddyfodiad. (Math. xxiv, 3.) Mynydd yr Olewydd sydd arwyddlun o'r Cariad Dwyfol. O'r neilldu, yn y cariad hwn yn unig, uwchlaw pob balchder a bydolrwydd, y gallwn dderbyn a darllen arwyddion yr amserau. "Felly y daw dydd yr Arglwydd fel lleidr yn y nos. Canys pan ddywedant, Tangnefedd a diogelwch; yna y mae dinystr disymwth yn dyfod ar eu gwarthaf, megis gwewyr esgor ar un a fo beichiog; ac ni ddiangant hwy ddim. Ond chwychwi, frodyr, nid ydych mewn tywyllwch, fel y goddiweddo y dydd hwnw chwi megis lleidr." (I Thes. v, 3, 4.)

3. *Y pwys o adwaen a defnyddio yr Arwyddion.* Trwy yr arwyddion, canfyddwn y fath afaelion sydd gan allu y tywyllwch ar y byd, ei grefydd, ei lywodraethau, ei fasnach, a'i arferion. Trwy yr arwyddion y gwelwn ac y teimlwn gydag ofn a dychryn, beryglon ein cyflwr, a phwysigrwydd ffyddlondeb gyda'r Arglwydd a'i holl angylion sanctaidd, yn erbyn drwg ysbrydion ac anwiriaid anifeiriol yr oes. Yr anffyddloniaid oll, fel y Phariseaid a'r Saduceaid, a fforffetant amcan bywyd, ac a redant yr yrfa yn wallgof a gwaeth nag ofer, oblegid ni ddiangant rhag barn uffern. Trwy yr arwyddion y cawn galondid yn y gorthrymder mawr na bu ei fath, y cedwir ni yn effro trwy gydol nos yn disgwyl y Priodfab, yr achubwn flaen y cyfddydd cyffredinol, ac y byddwn barod i'w roesawu pa bryd bynag y daw. "Bydded eich lwynau wedi eu hymwregysu, a'ch canhwyllau wedi eu goleuo: a chwithau yn debyg i ddynion yn dysgwyl eu Harglwydd, pa bryd y dychwel o'r neithior: fel pan ddelo a churo, yr agorant iddo yn ebrwydd" (Luc xii, 35, 36). Pob Ioan, a'i lygaid a'i galon yn agored, a weddia yn daer a dibaid, "Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu" (Dat. xxii, 20).

3. EANGDER YR AIL-DDYFODIAD. Bodola dau fyd, y byd ysbrydol a'r byd materol. Y ddau sydd fawr. Nis gellir synied am faint y byd materol. Cyrhaedda hyd y ser, a milfil pellach na'r seren bellaf welir trwy y chwyddwydrau a'r *photography* perffeithiaf. Pe gallem deithio yn union-gyrchol am fyrdd o oesau yn gyflymach na'r goleuni, heb aros eiliad, ni chyrhaeddem bendraw y byd gweledig. Pwy all fesur ei hyd, ei led, ei ddyfnder, a'i uchder! Ond y byd ysbrydol sydd anghydmarol fwy. Yr oesau a'r daearfydoedd dirifedi a arllwysant eu preswylwyr yno. Nid yw y byd materol ond gorchudd teneu ar y byd ysbrydol, neu fel haen o eira yn cuddio y wlad. Dyfodiad yr Arglwydd dreiddia dragwyddoldeb, ac a gerdd trwy yr holl fydysawd, o'r nef i'r ddaear, gan effeithio ar bob gronyn. "Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd" (Dat. xxi, 5). Yn ei ddyfodiad cyntaf, wedi concro uffern, a chyflawn ogoneddu ei Ddynoliaeth, Efe a lanwodd Haul y byd angylaidd a goleuni ac ysblander newydd, a'i fynediad allan o eithaf y nefoedd, a'i amgylchiad hyd eu heithafoedd hwynt, "Ac nid ymgudd dim oddi wrth ei wres ef" Salm xix, 6). Felly y bydd ei Ail-ddyfodiad, yn oleuni, ysblander, a bywyd newydd o begwn i begwn, yn ffurfio golygfaon, ar y raddfa eangaf, o ardderchawgrwydd y byd ysbrydol, ac o drefn a thegwch yn y byd naturiol, na welwyd erioed o'r blaen. Sonir am gyfundebau Utopaidd, deuant i fod ac i arferiad anherfynol yn yr Ail-ddyfodiad. Codir safon newydd i fywyd a moesau. Y Ddynoliaeth Ddwyfol fydd gorseddfainc wen fawr y byd. "Uchel drem dyn a iselir, ac uchder dynion a ostyngir, a'r ARGLWYDD yn unig a ddyrchefir yn y dydd hwnw." (Esaiah ii, 11). Yr Arglwydd a ddaw i farn a henuriaid y bobl, ac a'u tywysogion, y rhai y mae anrhaith y tlawd yn eu tai, a chodir y tlodion a'r trueiniaid i'r bendefigaeth. Pan orchfygwyd ymerodraeth Rhufain gan yr Huns a'r Vandals, gostyngwyd y rhai uchel, a dyrchafwyd y rhai isel. Y rhai mewn bri yn Rhufain oedd offeiriaid defodol Mars, a Jupiter, a Juno, athronwyr anhylon y llwyni, seneddwyr balch a bostfawr, a meistri creulon y caethion truenus: anmherchid y crefftwr, y gweithiwr, a'r masnachwr tlawd. Ond math-rwyd safonau parch a moesgyfarchiadau Rhufain gan y goresgynwyr, ac aeth y gweithiwr yn uwch ei fri na'r offeiriad, y crefftwr o flaen yr athronydd, y masnachwr tlawd yn fwy cymeradwy na'r meistr. Patrwn yw yr hanes o chwyldroadau dymunol yr Ail-ddyfodiad. "Canys y peth sydd uchel gyda dynion, sydd ffiaidd ger bron Duw" (Luc xvi, 15.) Perlewygol i'r rhai ddysgwyliant am y Dyfodiad fydd gweled pethau uchel Duw mewn parch, a phethau uchel

anuwiolion mewn anmharch: gweled cyfoethogion segur, afrad, a gormesol yn gorfod adnabod eu lle a'u rhenc. Moethus a thrythyll ydynt ar y ddaear, yn byw mewn palasoedd, a chiniawiau hirion, a chostrelau gwirod, a chwareuon, a champau, a rhedegfeydd, a chwn hela. "Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y delyn, a'r nabl, y dympan, a'r bibell, a'r gwin: ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw Ef nid ystyriant." (Esaiah v, 12.) Derbyniant eu *politics* a'u crefydd gan yr offeiriad, llyncant hwynt fel bwystfilod ysglyfaeth heb gnoi eu cil, cnoant a thraflyncant y diniwed, a chorniant fel teirw Basan. Mor ddymunol dysgwyl yr adeg pan dorir cyrn a danedd yr udfilod hyn, gan seiri dwyfol lid, ac y caiff meibion llafur gyfle i godi. Buont yn ddigon hir ar lawr yn y ffosydd, yn dilyn y praidd a'r aradr, yn ymladd a'r graig, yn malu a morthwylio, yn byddaru yn swn peirianau, yn crymmu yn y mwnau, yn toddi o flaen ffwrneisiau, yn brwydro a'r tonau ac a'r tymhestloedd: bwyd, a dillad, a moethau y byd yn dyfod o fer eu hesgyrn, grym eu braich, a chwys eu hwyneb. Mor ddymuonl fydd gweled y rhai hyn yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo. Efe a ddaw i gaethiwo pob caethiwed, ac i roddi rhoddion i ddynion, gan lanw dysgwyliadau ei anwyliaid ar raddfeydd anherfynol, a chreu dysgwyliadau newyddion i'w llanw o'r newydd yn barhaus. Yr oesau gwynfydedig fel grisiau esgynol a godant yn uwch, uwch o hyd, gan gyrchu o goncwest i goncwest, ac o ryddid i ryddid eangach am dragwyddoldeb. "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu." Amen.

"Ai ef ei hun ddaw'n gyntaf, ai ei deyrnas ddaw?"
Ymholai dwys fyfyriwr uwch ei gyfrol fawr.
Ar hyn, aeth plentyn bychan heibio yn chwim,
Ac ar y geirwon gerig syrthiodd lawr.
Y dwfn ddysgedig glyw ddolurus lef,
Try yn anfoddus i geryddu yn llym,
Anffawd a faidd ei aflonyddu ef.
Ond cyn agorai ei enau, rhyw ymdeithydd ddaeth,
Na feddai broffes fawr, na'i weddi yn faith;
Cyfodai'r bychan, ymgeleddai'n gun,
A chusan tyner a chysurus iaith.
Tra troai'r dwfn feddyliwr at ei hoff ddamcaniaeth flin,
Y Crist cariadus ddaethai, ac a aethai i'w daith.

N. R.

VIII.—AGORIAD I LYFR GWEDDI EGLWYS PHILADELPHIA.

Anfeidrol dyner yw yr Anfeidrol Ddyn, yn hiraethu ei anwylu gan ddynion. Ei ddedwyddwch ynddo ei Hun sydd ddiball; ond ei ddedwyddwch mewn dynion ddibyna ar y croesaw roddant i'w fywyd a'i fwynder ynddynt eu hunain. Teimla y Dyn Anfeidrol ei ddedwyddwch ei Hun mewn dynion da, a theimla ddedwyddwch dynion da ynddo ei hunan. "Yr Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a'i hofnant ef" (Salm cxlivii, 2). "A gyffyrddo a chwi, sydd yn cyffwrdd a chanwyll ei lygad ef" (Zech. ii, 8). Gall dyn wneud rhywbeth i'r Anfeidrol Fod nas gall yr Anfeidrol wneyd iddo ei Hun, sef ei garu am ei gariad, "Yr ydym ni yn ei garu Ef, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni" (I Ioan iv, 19). Rhydd hyn iddo bleser neillduol, y pleser o dderbyn ein dyled iddo, tebyg i bleser athraw yn ei ddisgyblion teilwng, fel pleser meistr yn ei weision ufudd, fel pleser brenhin yn ei ddeiliaid breiniol, ac fel pleser tad a mam yn eu plant doeth a da. Y cydgariad rhwng Duw a dyn a grea undeb anwyl ac anatodol rhyngddynt, crea undeb hefyd rhwng dyn a'r angylion, ac undeb rhwng aneirif bwerau yr enaid a'u gilydd. Nid oes anogaeth gryfach i dduwioldeb na'r ystyriaeth fod ein bywyd da yn llawenhau calon y Goruchaf, a'n bywyd drwg yn ei dristau. Pan fyddo dyn yn y cydgariad dwyfol ac angylaidd, mor fuddiol a melus yw cymdeithasu a'r Dyn Anfeidrol, sef gweddio arno a'i folianu o'r Gair. "Yn Nuw y clodforaf ei Air, yn Nuw y gobeithiaf; nid ofnaf beth a wnel cnawd i mi. . . . Yn Nuw y molianaf ei Air: yn yr Arglwydd y molianaf ei Air" (Salm lvi, 4, 10). Nis gellir molianu yr Arglwydd na gweddio arno tuallan iddo Ef ei Hun. Yr Arglwydd a driga ynddo ei Hun, ac o hono ei Hun yn mhob peth, ond ni thrig yn hunan dyn, ond yn ei Hunan Ef ei Hun yn y dyn. Angylion ac aelodau Eglwys Philadelphia a wahaniaethant rhwng eu hunan eu hunain, a Hunan yr Arglwydd ynddynt eu hunain, a gweddiant ar yr Arglwydd o Hunan yr Arglwydd, ac nid o'u hunan eu hunain. Dyn o ran ei enaid, ei gorff, a'i feddwl sydd greuedig o sylweddau difywyd ynddynt eu hunain; hyny yw hunan

dyn, heb ddim ynddo ond serchiadau a chwantau cnawdol. Gweddio, gan hyny, o'i hunan ei hunan a'i deimladau, yw gweddio o'r cnawd ac nid o'r Gair, gweddio o'r bedd ac nid o'r bywyd, a gweddio o uffern ac nid o'r nefoedd. Rhaid i ddyn, cyn y gall weddio o'r Gair, dderbyn y Gair iddo ei hun yn sylwedd byw, anfeidrol, gwahanol i'r sylwedd marw a meidrol sydd yn ei gyfansoddiad, fel y gall godi yn ei ddymuniadau uwch greddfau a chwantau y cnawd. Derbynia dyn fywyd oddi wrth yr Arglwydd trwy gyfryngau ac yn ddigyfrwng, ac nid trwy gyfryngau yn unig, fel yr anifail. Dyn yw yr unig greadur fedr dderbyn gwybodaeth y gwirionedd oddiwrth y Creawdwr ei hun; felly, dyn yw yr unig fod fedr adfeddwl, sef meddwl ar feddwl, cydmaru pethau a'u gilydd, ac olrhain cysylltiad achos ac effaith. Gan y medr dyn wneyd hyn yn rhydd, efe yw yr unig fod cyfrifol, ac efe yn unig fedr ddamnio ei hun trwy gamarfer ei ryddid, a'i reswm. Dynion wedi derbyn y Gair, a gweddio a byw o hono, yw yr angylion; a dynion wedi gwrthod y Gair, heb weddio na byw o hono, ond o'r cnawd, yw y cythreuliaid.

Derbynia dyn wres y bywyd yn uniongyrchol o'r Duwdod trwy borth mwyaf mewnol yr enaid, ond derbynia oleuni y bywyd trwy byrth allanol y corff, y llygad a'r glust yn benaf, yn darllen a chlywed y Gair ysbrydoledig. Dyn dyfal yn darllen, gwrando, a deall y Gair, a'i drysori i'w galon a'i gyflawniadau, daw y Gair yn ddyn newydd yn ei hen ddyn, tufewn i'r cnawd, yn derbyn gwres y bywyd ar unwaith o'r Duwdod, trwy borth dwyreiniol yr enaid. Oddiyma y gweddia angylion, ysbrydion a dynion Eglwys Philadelphia, o'r Gair yn ddyn newydd ynddynt, ac o ewyllys Duw, ac nid o'u nwydau a'u chwantau eu hunain. Pan lifa gwres y bywyd i'r cnawd, hunan sydd yn y weddi, ond pan lifa gwres y bywyd i'r Gair ynom ni, Duw a daioni i bawb sydd yn y weddi, yr Arglwydd ei Hun yn erfyn ac ocheneidio ynom. Llyfr gweddi cyffredinol Eglwys Philadelphia yw y Gair oll, ac yn neillduol y Salmau, yn cynwys holl faterion ac amrywion gweddi, wedi eu trefnu a'u geirio gan y Dyn Anfeidrol, a'u harfer ganddo, pan yn y Cnawd, hyd ei gyflawn ogoneddiad. Gweddi yr Arglwydd hefyd, a arferir yn barhaus yn y nef a'r ddaear newydd. Y weddi hon a'r Salmau, o'u harfer beunydd yn ysbrydol, a godant yr enaid i gymdeithas a'r Arglwydd a'i angylion sanctaidd. "Os aroswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynag a ewyllysiwch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi." (Ioan xv, 7.)

Tynwyd sylw neillduol nef a daear at Lyfr y Salmau, gan y defnydd wneid gan y Boeriaid o'r Salmau yn eu haddoliadau, ac yn y rhyfel dros anibyniaeth yn erbyn Prydain;

prawf hynod ei fod yn llyfr y dylifiadau dwyfol, y llewyrchiadau, y pelydrau, yr amgylchiadau a'r arddangosiadau o ddoethineb a chariad Duw yn ei lywodraeth, ac yn nghorff dirgeledig yr Arglwydd. Y Boeriaid tlawd trwy y Gair oeddynt mewn cynghrair a'r nefolion, a Phrydain trwy falchder y bywyd oedd mewn cynghrair a'r cythreuliaid. Brwydr rhwng nef ac uffern yw hon, brwydr rhyddid ac anibyniaeth y byd. Y fath arfau a'r fath fyddinoedd ymrestra o'n tu trwy y Salmau! Gwneir defnydd mawr o'r Salmau yn y Testament Newydd gan Iesu Grist a'i Apostolion. Yr Arglwydd wedi ei adgyfodiad a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, "Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn eto gyda chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd yn nghyfraith Moses, a'r Proffwydi, a'r Salmau am danaf fi." (Luc xxiv, 44.) Yr Eglwys Apostolaidd a weddiai yr ail Salm, yn erbyn yr erlidwyr Iuddewig a Rhufeinaidd, "Hwythau . . . o unfryd a gyfodasant eu llef at Dduw, ac a ddywedasant, O Arglwydd, tydi yw y Duw a wnaethost y nef, a'r ddaear, a'r mor, a'r oll sydd ynddynt: Yr hwn trwy yr Ysbryd Glan yn ngenau dy was Dafydd, a ddywedaist, Paham y terfysgodd y cenhedloedd, ac y bwriadodd y bobloedd beth ofer? Brenhinoedd y ddaear a safasant i fyny, a'r llywodraethwyr a ymgasglasant yn nghyd yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist Ef. Canys mewn gwirionedd yn y ddinas hon yr ymgynullodd yn erbyn dy Sanct Fab Iesu, yr hwn a eneiniaist ti, Herod a Phontius Pilat, gyda'r cenhedloedd, a phobl Israel . . . Ac yn awr, Arglwydd, edrych ar eu bygythion hwy, a chaniata i'th weision draethu dy Air di gyda phob hyfder, Trwy estyn o honot dy law i iachau, ac fel y gwneler arwyddion a rhyfeddodau trwy enw dy Sanctaidd Fab Iesu. Ac wedi iddynt weddio, siglwyd y lle yr oeddynt wedi ymgynull ynddo: a hwy a lanwyd oll o'r Ysbryd Glan, a hwy a lefarasant Air Duw yn hyderus" (Actau iv, 24-31.) Angylion, ysbrydion, a dynion Eglwys Philadelphia, eto, o un galon ac un enaid, a weddiant y Salmau yn erbyn brenhinoedd a barnwyr y byd, a holl allu y tywyllwch, nes siglo y greadigaeth hyd ei sail, a rhwyddhau ffordd y Gair i greu a chael gogonedd. Wrth ystyried y Salmau yn Llyfr Gweddi Eglwys Philadelphia, sylwn:—

I. Y SALMWYR. II. Y SALMYDD. III. Y SALMAU. IV. Y SALMAU I'R SAINT.

1. Y SALMWYR. Yn y Datguddiad, dywedir, "Myfi, Iesu, a ddanfonais fy angel i dystiolaethu i chwi y pethau hyn yn yr Eglwysi," (Dat. xxii, 16), hysbysiad fod tri math o fodau yn rhoddi y Datguddiad i'r Eglwysi: yr Iesu, yr angel, ac Ioan.

Felly, hefyd, y rhoddwyd y Salmau, gan yr Arglwydd, yr angylion, a dynion.

1. Yr Arglwydd. Ei Air Ef yw y Salmau, proffwydoliaethau am ei ddyfodiad, ei brofiadau yn y cnawd yn brwydro a'r uffernoedd, darluniad o'i fuddugoliaethau a gogoneddiad ei Ddynoliaeth; a cheir hefyd gyfeiriadau llythyrenol aml ato, a ddifynir yn y Testament Newydd. Sylwer ar ychydig esiamplau. Dyfynir o Salm vii yn Heb. ii, 6-8, i brofi uchafiaeth Iesu Grist fel dyn. "Ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed Ef." O Salm xvi yn Actau ii, 25-27, i brofi adgyfodiad Iesu Grist, "Am na adewi fy enaid yn uffern, ac na oddefi i'th Sanct weled llygredigaeth," ac wele y cyhoeddiad yn argyhoeddu tair mil o eneidiau. O Salm xviii, 49, yn Rhuf. xv, 9, i brofi y gorfoleddai y cenhedloedd yn Iesu Grist, "Am hyny, y molianaf di, O Arglwydd, yn mhlith y cenhedloedd." O Salm xix, yn Rhuf. x, 18, i brofi cyhoeddiad efengyl Iesu Grist, "Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu swn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd." O Salm xl yn Heb. x, 5, i brofi dyfodiad yr Arglwydd i'r byd i gyflawni y Gair. "Wele fi yn dyfod, (y mae yn ysgrifenedig yn nechreu y Llyfr am danaf), i wneuthur dy ewyllys di, O Dduw." O Salm xli yn Ioan xiii, 18, i brofi cyflawniad y Gair yn mradwriaeth Judas. "Yr hwn sydd yn bwyta bara gyda mi, a gododd ei sawdl yn fy erbyn." O Salm xliv. yn Rhuf. viii. 36, i ddangos dyoddefiadau parhaus Cristionogion dros eu Harglwydd. "Megis y mae yn ysgrifenedig, Er dy fwyn di yr ydys yn ein lladd ni ar hyd y dydd: cyfrifwyd ni fel defaid i'r lladdfa." O Salm lxviii. yn Eph. iv, 7, 8, yn darlunio buddugoliaethau, esgyniad a rhoddion yr Arglwydd, "Oherwydd paham y mae Efe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, Efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion." O Salm lxviii. 2, yn Mathew xiii, 35, yn hysbysu fod yr Arglwydd yn llefaru wrth y tyrfaoedd trwy ddamhegion, "Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd, Agoraf fy ngenau mewn damhegion: mynegaf bethau cuddiedig er pan seiliwyd y byd." O Salm xcv. yn Hebreaid, pennodau iii. a iv. yn dangos y pwys o ufuddhau i Air yr Arglwydd er sicrhau yr orphwysfa dragwyddol. "Heddyw os gwrandewch ar ei leferydd Ef, na chaledwch eich calonau." Ac o Salm cxvii. 22 yn Math. xxi. 43; Luc xx. 17; Act. iv. 11, i ddangos buddugoliaeth Crist, neu y gwirionedd gwrthodedig, "Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, a aeth yn ben i'r gongl." Heb helaethu, nodaf fod ystyr anfeidrol i'r Salmau, yn cynwys graddau, ac ystadau aneirif y Meddwl Anfeidrol.

2. Yr Angylion. "Os bu gadarn y Gair a lefarwyd trwy angylion" (Heb. ii, 2). Y mae y Salmau yn ddatguddiad o'r

Arglwydd i'r angylion, ac yn gyfryngau cymundeb rhyngddynt a'r Arglwydd, a'u gilydd, ac a dynion ar y ddaear. "Gair Duw," medd Swedenborg, "gan mai datguddiad oddi wrth y Duwdod ydyw, y mae yn ddwyfol yn mhob rhan neillduol o hono; canys beth bynag sydd yn deilliaw oddi wrth y Duwdod, rhaid ei fod yn ddwyfol. Yr hyn sydd yn deilliaw oddi wrth y Duwdod, sydd yn disgyn trwy amrywiol deyrnasoedd y nef i ddyn; gan hyny, y mae wedi ei addasu yn amrywiol deyrnasoedd y nef at ddoethineb yr angylion gyfaneddant yno; ac y mae wedi ei gyfaddasu ar y ddaear at ddealldwriaeth a galluoedd dynion gyfaneddant yno. O ganlyniad, y mae yn Ngair Duw ystyr fewnol, yr hyn sydd ysbrydol, cynwysedig i alluoedd angylion, ac ystyr allanol, sydd naturiol i alluoedd dynion. Wrth hyn, trwy Air Duw, y mae undeb gwastadol, neu gydymddiddan yn cael ei gadw rhwng y nef a dyn."

3. Dynion. "Dynion sanctaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan" (II Pedr i, 21). Rhoddwyd y Salmau gan yr Arglwydd, trwy yr angylion, i ddynion sanctaidd, megys Moses, meibion Korah, Asaph, Heman, Ethan, Solomon, ac eraill, ond yn benaf, Dafydd; felly, sylwn yn bendant arno ef.

2. Y SALMYDD. Dafydd, fel Salmydd oesol Sion, a haedda ein hystyriaeth, yn neillduol o ran ei addasder, fel y gwelir yn y nodiadau a ganlyn:—

1. Yr oedd Dafydd yn fardd a cherddor. Profir hyn gan ei hanes. Yn llencyn gwridgoch, difyrai Saul a'r delyn, gan yru ymaith yr ysbrydion drwg. Gwrteithiodd ei ddoniau yn unigedd ei fywyd fel bugail. Dysgodd ddesgrifio wrth olrhain rhyfeddodau Duw mewn natur. Sylwai yn fanwl ar dymhorau olynol y flwyddyn, a gwelai law hael a chywrain y Crewr yn rhoddi i'r gwanwyn ei lesni, i'r haf ei dyfiant, i'r hydref ei gyfoeth, ac i'r gauaf ei amwisg o eira. Dysgodd ganu wrth wrando murmur yr afonydd, sibrwd yr awelon ar danau y dail, udgorn y dymhestl yn rhuo rhwng y coedydd, ac uchel-floedd taranau yn rhwygo y nen. Astud wrandawai hefyd ar yr adar yn lleisio ar y canghau, ac ar gantorion a chantoresau y cysegr. Dysgodd dynerwch a diniweidrwydd yn y corlanau gyda'r defaid a'r wyn; dysgodd wroldeb wrth eu gwylio rhag bwystfilod ac ysbeilwyr, ac wrth ymladd a'r llew a'r arth, ac wedi hyny, wrth goncro Goliath a regai, ac a heriai fyddinoedd y Duw Byw. Cyfaddas oedd ei dalent a'i dadblygiad i chwareu tanau telynau Sion, nes uno seiniau nef a daear, mewn salmau a hymnau ac odlau ysbrydol, i barhau yn oes oesoedd, ac am dragwyddoldeb.

2. Cysegrodd Dafydd ei ddoniau i Dduw. Nid oes y fath destynau i farddoni a molianu a'r gwirioneddau mawrion am y Duwdod, am y Gair, ac am y nef. Dihunant yr enaid, agorant ei raddfeydd mewnol, chwyddant y galon, taniant y dychymyg, a deuant a'r Duwdod a'r nef yn agos wrth ddyfalu arnynt; materion megys Person y Jehovah, Ei Anfeidroldeb a'i Dragwyddoldeb; Ei Unoliaeth; Ei alluoedd i greu; Ei Gariad a'i Ddoethineb; Ei Hollalluawgrwydd, ei Hollwybodaeth, a'i Holl-bresenoldeb; Ei Lywodraeth Raglunaethol; Ei Ymgnawdoliad; y Brynedigaeth a'r Iachawdwriaeth; y Duwdod mewn Undod; y Gair Sanctaidd; y Ddeddf Foesol; yr Ordinhadau; Ffydd; Cariad; Rhyddid; Edifeirwch; Ad-enedigaeth; yr Ail-ddyfodiad. Dyma faterion nad oes berygl teimlo yn rhy ddwys, nac esgyn yn rhy uchel wrth eu darlunio. Rhodder i fyfyriwr arnynt adenydd cerub, ac enynol dan seraphiaid. Cysegrodd Dafydd ei ddoniau i Dduw a'i ryfeddodau.

3. Cafodd Dafydd brofiad mawr ac amrywiol. Aeth trwy holl raddau einioes o fabandod i henaint. Profodd y cyfnewidiadau hynotaf a mwyaf eithafol, megys bugail defaid a brenin Judah, crwydryn mewn ogof a boneddwr yn ei balas, unigedd y maes a dwndwr y ddinas, melusder cyfeillgarwch a chwerwder bradwriaeth. Fel priod a thad, teimlodd yr hoffder anwylaf a'r gofidiau dwysaf. Fel dyn, bu dan warth pechodau ac o dan urddas dwyfol ddiwygiad; profodd loesion euogrwydd ac edifeiriwch, a gorfoledd llesmeiriol duwioldeb. Rhodiodd iselderau tlodi, cododd i uchelderau cyfoeth. Gwynebodd y corwyntoedd garwaf, a mwynhaodd y chwaon mwyaf hafaidd. Gwelodd lawer cilwg aeldrom, gwelodd fyrdd o wenau llon. Teimlodd hefyd y troadau mwyaf sydyn ac anisgwyliadwy.

4. Ymroddodd Dafydd i hwylusu gweddiau a mawl. Ceir yn y Salmau bob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd Glan; gweddiau byrion, gweddiau hirion, gweddiau hirach, a gweddi hirfaith y Salm Fawr, yn cwmpasu yr aneirif gymdeithas angylaidd a dynol. Y mawl yw rhagoraf ran addoliad y Jehofah, yr hwn sydd yn cyfaneddu yn moliant Israel. Canu y Salmau yn Sion sydd orswynol i'r Sanct a'r seintiau. Gwir fod canu da cyn amser Dafydd. Chwareuid aur delynau ar lan afonydd Eden; sonir am ganu celfydd cyn y diluw; datseiniau can Moses, a thympan Miriam ar lan y Mor Coch; melus a mawreddog oedd can Deborah wedi concro Jabin. Ond cododd Dafydd y canu i drefn, a defnydd, a hwyliau newydd a mwy nefolaidd. Y per-ganiedydd a luniodd offer cerdd heb eu bath, gan foli yr Arglwydd a llais udgorn, a nabl ac a thelyn, a thympan ac a dawns, a thannau ac ag organ, a

symbalau soniarus ac a symbalau llafar. Aeth y son am y canu yn mhell, hyd yn oed i Babilon. "Canys yno y gofynodd y rhai a'n caethiwasent i ni gan; a'r rhai a'n hanrheithiasent, lawenydd: cenwch i ni ganiadau Sion" (Salm cxxxvii, 3).

5. Yr oedd Dafydd dan Ddwyfol Ysbrydoliaeth. "Trwy yr Ysbryd Glan yn ngenau dy was Dafydd" (Act. iv, 25). Yr oedd Dafydd yn gyfrwng i lefaru y Gair, yn cynwys ystyron nefol, ysbrydol, a naturiol.

6. Dafydd a arddangosai yr Arglwydd, yr Hwn hefyd a elwir Dafydd. Wrth Dafydd, y meddylir yr Arglwydd, am hyny yr ysgrifenodd Dafydd yn y Salmau mor aml am yr Arglwydd, tra yn ymddangos yn llefaru am dano ei hun yn unig; megys yn Salm lxxxix: "Gwnaethum amod a'm hetholedig, tyngais i'm gwas Dafydd. Yn dragywydd y sicrhaf dy had di; ac o genhedlaeth i genhedlaeth yr adeiladaf dy orseddfainc di. A'r nefoedd, O Arglwydd, a folianant dy ryfeddod; a'th wirionedd yn nghynulleidfa y saint . . . Yna yr ymddiddenaist mewn gweledigaeth a'th sanct. Gosodais gymhorth ar un cadarn; dyrchefais un etholedig o'r bobl. Cefais Dafydd fy ngwasanaethwr; eneiniais ef a'm holew sanctaidd; yr hwn y sicrheir fy llaw gydag ef; a'm braich a'i nertha ef . . . fy ngwirionedd hefyd, a'm trugaredd, a fydd gydag ef. A gosodaf ei law yn y mor, a'i ddeheulaw yn yr afonydd. Efe a lefa arnaf, Ti yw fy Nhad, fy Nuw, a chraig fy iachawdwriaeth. Minau a'i gwnaf yntau yn gyn-fab, goruwch brenhinoedd y ddaear . . . Tyngais unwaith i'm sancteiddrwydd na ddywedwn gelwydd i Dafydd. Bydd ei had ef yn dragywydd, a'i orseddfainc fel yr haul ger fy mron i. Sicrheir ef yn dragywydd fel y lleuad, ac fel tyst ffyddlawn yn y nef." Ceir y cyffelyb mewn Salmau eraill. Gelwir yr Arglwydd hefyd yn Dafydd, yn llyfrau y Prophwydi, fel y gwelir oddi wrth a ganlyn: "A mi a wnaf gyfamod tragwyddol a chwi, sef sicr drugareddau Dafydd. Wele, rhoddais ef yn dyst i'r bobl, yn flaenor ac yn athraw i'r bobloedd" (Esaiah lv, 3, 4). "Y dydd hwnw, . . . hwy a wasanaethant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu brenin, yr hwn a gyfodaf fi iddynt" (Jer. xxx, 8, 9). "Wedi hyny y dychwel meibion Israel, ac y ceisiant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu brenin, ac a barchant yr Arglwydd a'i ddaioni yn y dyddiau diweddaf" (Hosea iii, 5). "Cyfodaf hefyd un bugail arnynt, ac efe a'u portha hwynt, ac a fydd yn fugail iddynt. A minau yr Arglwydd a fydd yn Dduw iddynt, a . . . Dafydd yn Dywysog yn eu mysg" (Ezeciel xxxiv, 23, 24). "Fel y byddont yn bobl i mi, a minau a fyddaf yn Dduw iddynt hwythau. A'm gwas, Dafydd, fydd brenin arnynt, ie, un bugail fydd iddynt oll. . . Trigant hefyd yn y tir, hwy a'u

meibion, a meibion eu meibion byth; a Dafydd . . . fydd yn dywysog iddynt yn dragywydd. Gwnaf hefyd a hwynt gyfamod hedd: amod tragwyddol a fydd a hwynt" (Ezeciel xxxvii, 23, 26). "Y dydd hwnw y codaf babell Dafydd, yr hon a syrthiodd, ac a gauaf ei bylchau, ac a godaf ei hadwyau, ac a'i hadeiladaf fel yn y dyddiau gynt" (Amos ix, 11). "A thy Dafydd a fydd fel Duw, fel angel yr Arglwydd o'u blaen hwynt" (Zech. xii, 8).

3. Y SALMAU.

1. Cyfansoddiad y Salmau. Awdlau, neu ganiadau yw y Salmau, wedi eu cyfansoddi gyda holl fedr y Creawdwr, yn codi oddi ar gydgordiad anfeidrol ei natur a'i briodoliaethau. Swn cerddoriaeth dragwyddol sydd yn eu cordeddiad. Baich pob sill yw, "Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel, o dragwyddoleb a hyd dragwyddoldeb, Amen ac Amen" (Salm xli, 13). Y Salm Fawr, sef cxix, yn cynwys profiadau yr Arglwydd yn ei ymgnawdoliad, wrth gyflawni y gyfraith, neu y Gair oll o'r dechreu i'r diwedd, neu o'r holl fewnolion i'r holl allanolion, nes cael ei gasau gan holl anuwiolion daear ac uffern, ei ddirfawr faeddu, ond i goncro yr oll, ac felly i uno y Dwyfol a'r Dynol ynddo ei Hun, yn un Ddynoliaeth Ddwyfol, ac yn un Anfeidrol Dragwyddol delyn, i ollwng allan trwy y cydfyd, alawon melusber ac anfarwol. Cyfansoddiad geiriol y Salm hon sydd dra rhyfeddol. Cynwys 22 o ddosbarthiadau, yn cyfateb i rif y llythyrenau Hebraeg, a phob dosbarth yn cynwys wyth adnod, a phob adnod yn dechreu ar yr un llythyren. Pob adnod yn y dosbarth cyntaf a ddechreua gyda'r llythyren Aleph. Yr ail, gyda Beth, etc. Y mae y llythyrenau a'r pwyntiau Hebraeg yn arwyddluniol, ac yn cyfateb i iaith y byd angylaidd. Geilw yr Arglwydd ei Hun, Alpha ac Omega, am mai Alpha yw y llythyren gyntaf, ac Omega yr olaf yn y llythyrenau Groeg, a'r oll gyda'u gilydd a arwyddant y cwbl; am fod pob llythyren yn arwyddo rhyw wirionedd mawr yn y byd ysbrydol, a phob llefariad, rhyw deimlad. Dyma darddiad iaith yr angylion, ac iaith y Gair, ac yn neillduol iaith y Salm Fawr. Deuwn i'r iaith hon ar ol angau, gan mai un iaith yw yr iaith angylaidd trwy yr holl nefoedd; pawb o bob cymdeithas a ddeallant eu gilydd yno. Nid yw iaith y nefoedd yn cael ei dysgu, ond planedig yw yn mhob un, canys llifa o deimlad a meddwl y nefolion.

2. Teitlau y Salmau. Maschil a arwydda, athrawiaeth; *Michtan*, auraidd; *Altercheth*, na ddyfetha; *Muthleben*, marwolaeth ei fab; *ail beth—Hasabor*, ewig y boreu; *Alamoth*, gwyryfon; *Jonathelem*, colomen fud yn mysg estroniaid; *Haleluia*, molwch yr Arglwydd; *Caniad y graddau*, canu wrth esgyn y grisiau i'r deml. Rhaid oedd

i'r prif gantorion feistroli y teitlau a'u cynwys, ac ymgysegru llawer i wasanaeth y gan. "Canys gorchymyn y brenhin am danynt hwy oedd, fod ordinhad safadwy i'r cantorion, dogn dydd yn ei ddydd" (Neh. xi, 23).

3. Achlysuron y Salmau. Yr achlysur mawr cyffredinol i'r Salmau, yw syrthiad yr hil ddynol. Gellir edrych ar y Salmau yn *drama* aruthrol, alaethus, a gorfoleddus. Y *plot* yw prynedigaeth ac iachawdwriaeth dyn, trwy fod yr Arglwydd yn ymgnawdoli, dwyfoli ei Ddynoliaeth, a choncro uffern. Yr Arglwydd a ymddengys weithiau fel prophwyd, weithiau fel offeiriad, weithiau fel brenhin, ac weithiau fel gorchfygwr—gorchfygwr tebyg i'r hwn yn y Datguddiad, sydd yn rhyfela ar ei farch gwyn, coron ar ei ben, a bwa ganddo. Y goncwest yn y Salmau, fel yn y Datguddiad, a ganlynir gan briodas y Gorchfygwr. *Personau eraill y Drama*, yw angylion y tair nefoedd, ysbrydion y byd canolog, cythreuliaid yr uffernoedd, a thrigolion y daearfydoedd. *Y Golygfeydd*,—y nefoedd, Hades, uffern, a'r cread gweledig. *Yr Adeg*,—oesoedd amser a thragwyddoldeb. Am achlysuron neillduol y Salmau, gelynion fuont y prif achlysur; syrthiadau personol hefyd i bechod, megys y dangosir yn Salm li. Bu addoliadau Duw yn y nef a'r ddaear hefyd, yn achosion ac achlysuron. Dychmygwn weled a chlywed y llwythau ar eu ffordd i wyliau Jerusalem yn canu Salmau y graddau. Yn yr olwg ar fynyddoedd Judah, dyma hwy yn canu, "Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymorth. Fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear" (Salm cxxi, 1, 2). Pan oedd Jerusalem yn dyfod i'r golwg, clywn hwynt yn canu, "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, awn i dy yr Arglwydd. Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem" (Salm cxxii, 1, 2). Pan yn cwrdd a mynydd Sion, canant, "Y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd, fyddant fel mynydd Sion, yr hwn ni syflir, ond a bery yn dragywydd. Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'u hamgylch, felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd" (Salm cxxv, 1, 2). Wedi cyrhaedd pen y daith a gweled yr offeiriaid, canent, "Wele, holl weision yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd, y rhai ydych yn sefyll yn nhy yr Arglwydd y nos. Dyrchefwch eich dwylaw yn y cysegr; a bendithiwch yr Arglwydd." Yr offeiriaid a atebant, "Yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, a'th fendithio di allan o Sion" (Salm cxxxiv).

4. Offerynau Cerdd y Salmau. Datgenid enw yr Arglwydd yn y deml ar gan, ac ag offerynau cerdd, a'u swn yn cyfateb i ddau fath o serchiadau, sef serchiadau at wirionedd Duw, a serchiadau at ddaioni yr Arglwydd. Y prif

offerynau oedd yr udgorn a'r organ, y dympan a'r delyn. Y dympan a'r delyn a ddatganent deimladau ysbrydol, sef serch at wirionedd, a'r udgorn a'r organ, deimladau nefol, sef serch at ddaioni; am fod yr udgorn a'r organ yn fwy peraidd a pharhaol. "Molwch Ef a llais udgorn; molwch Ef a nabl ac a thelyn; molwch Ef a thympan ac a dawns; molwch Ef a thannau ac ag organ" (Salm cl, 3, 4).

5. *Diwedd y Salmau.* Diwedda y Salmau, fel yr Efengylau a'r Datguddiad, mewn buddugoliaeth a moliant cyflawn. Felly y diwedda brwydrau y duwiol, fel brwydrau yr Arglwydd, nes bod yr holl ddyn yn nefol, ysbrydol, a naturiol yn gydgordiol, ac mewn cydgordiad a'r tair nefoedd, ac a'r Trindod yn y Dyn Anfeidrol, yn ei folianu oddi ar deimlad o bob gwirionedd a daioni. "Yr ardderchawgrwydd hwn sydd i'w holl saint Ef. Molwch yr Arglwydd" (Salm cxlix, 9). "Pob perchen anadl, molianed yr Arglwydd. Molwch yr Arglwydd" (Salm cl, 6). Haleluia, Amen.

4. Y SALMAU I'R SAINT. "Beth, gan hyny, frodyr? Pan ddeloch yn nghyd, y mae gan bob un o honoch Salm" (I Cor. xiv, 26). "Llanwer chwi a'r ysbryd, gan lefaru wrth eich gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol; gan ganu a phyncio yn eich calon i'r Arglwydd" (Eph. v, 18, 19). "Preswylied Gair Crist ynoch yn helaeth yn mhob doethineb a deall, gan ddysgu a rhybuddio bawb eich gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol, gan ganu trwy ras yn eich calonau i'r Arglwydd" (Col. iii, 16). "A oes neb yn eich plith mewn adfyd? gweddied" (Salmau). "A oes neb yn esmwyth arno? caned salmau" (Iago v, 13). Y dyfyniadau uchod a ddengys y defnydd nefolaidd wneid o'r Salmau gan y saint boreuol; ond ail-ddyfodiad yr Arglwydd a ddengys y defnydd uwch wneir o honynt, ac o'r Gair oll, gan angylion ac aelodau Eglwys Philadelphia. Dywed Swedenborg, "Yr oedd gyda mi ysbrydion Affricanaidd o Abyssinia. Ar ryw amgylchiad, agorwyd eu clustiau, fel y gallent glywed canu mewn rhyw deml yn y byd, o un o Salmau Dafydd, trwy yr hyn y derbyniasant y fath bleser, fel yr unasant yn y canu; ond yn fuan cauwyd eu clustiau, fel na allent glywed dim oddi yno. Ac yna, derbynient fwy o bleser byth, oblegyd ei fod yn ysbrydol; a llanwyd hwynt ar yr un pryd a dealldwriaeth, oblegyd fod y Salm hono yn son am yr Arglwydd, ac am Brynedigaeth. Y rheswm o'r pleser cynyddol oedd, fod cymundeb wedi ei roddi iddynt a'r gymdeithas hono yn y nefoedd, oedd mewn undeb a'r rhai a ganent y Salm yn y byd." Dywed hefyd, "Pan oeddwn yn darllen y Gair drwyddo, o'r benod gyntaf yn Esaiah i'r olaf yn Malachi, a Salmau Dafydd, rhoddwyd i mi ganfod yn eglur, fod pob adnod yn dal cymun-

deb a rhyw gymdeithas o'r nefoedd, a bod yr holl Air fel hyn, yn dal cymundeb a'r holl nefoedd." Ar amser y Cloi yn Llechryd, ymwrolais o'r newydd i addoli yr Arglwydd beunydd a byth, trwy y Salmau. Oddi ar hyny, Gweddi yr Arglwydd a'r Salmau yw fy ngweddiau dirgelaidd a theuluaidd yn benaf. Ar ddydd y Cloi, ymbiliwn trwy Salm lxxxiii, o herwydd lleiddiaid, lladron, a llunwyr celwyddau yr hen gapel; er syndod, Salm Kruger hefyd, o herwydd lleiddiaid, lladron, llunwyr celwyddau Prydain. Gweddio y Salmau yn ddibaid rwyma fy enaid a'r gwir dabernacl wrth orsedd y Dyn Anfeidrol, wrth y byd angylaidd, ac wrth y Boer, a phawb yn byw a marw yn y Gair a'r Salmau, dros anibyniaeth a dwyfol degwch, nes datguddio dirgelion teyrnasoedd anghrist. Gwyrthiau bob eiliad, ac am dragwyddoldeb, a dim ond gwyrthiau, welir yma. "Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon" (Barnwyr vii, 20). Pan yn traethu cynwys y Llyfr hwn yn y Tabernacl, y chwaer ieuanc, Margaretta Griffiths, a adroddodd o'm blaen, Lyfr y Salmau, oll; adroddai bump neu chwech o Salmau ar y tro, ac adroddodd y Salm fawr ar unwaith. Adroddai yn ddigyffelyb o'r cof, yn rhwydd, yn gyflym, yn glir, ac heb golli gair. Adroddodd Lyfr y Datguddiad oll cyn hyny, gyda'r un medr.

IX.—AGORIAD I DY GWEDDI EGLWYS PHILADELPHIA.

Wedi ein cloi o'r Hen Gapel yn Llechryd, am gynyg troi ogof lladron yn dy gweddi, agorodd yr Arglwydd dy Fanny Jenkins. "Wele, rhoddais ger dy fron, ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau; canys y mae genyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy Ngair, ac ni wedaist fy enw" (Dat. iii, 8). Yno yr addolem am agos flwyddyn, adeg hawddgar i'w chofio yn dragwyddol. Yr oedd ty Fanny Jenkins yn borthladd tawel ar ol y tonau a'r tymhestloedd, ac yn dy y caem lonydd i weddio ynddo ar Arglwydd y lluoedd, i lwyddo dirwest, cyfiawnder, a'r farn a fydd. Hiraethem gwrdd a'n gilydd, ac

ymwrolem i ddal erlidiau gyda'r Gair, mewn ffydd fod Un sydd uwch na'r uchaf yn gwylied, y gofalai am danom, ac am dabernacl i'w addoli. Disgwyl wrtho y buom am dri mis, cyn gweled arwydd y caem le i adeiladu; ac wrth ystyried yr anhawsderau, mwy llwyr y pwysem ar yr Hollalluog, i drefnu lle i'r tabernacl ac arch ei gadernid. O'r diwedd, daeth hen dafarn-wraig, ac aelod o'r Eglwys Wladol, atom, a dywedodd y caem le i adeiladu ganddi hi, ei bod yn methu cysgu wrth feddwl am danom. Yr Arglwydd wnaeth i'w chwsg gilio, fel y gwnaeth a chwsg Ahasuerus, er gwaredu ei rai eneiniog rhag brad Haman, a chwsg Darius, pan daflwyd Daniel i'r ffau. Wedi clywed o'r Clowyr a'u ceraint, fod Mrs. Finch, yr hen dafarn-wraig, yn rhoddi lle i adeiladu y Tabernacl, ceisient ei hatal trwy lwgr-wobrwyon, fel Haman yn cynyg talentau aur er dyfetha plant Duw. Wedi sicrhau y tir, molianwyd Duw y nefoedd am dano, a dechreuwyd adeiladu yn ddioed. "Pa fodd y gall y croen-llymiaid hyn godi ty?" medd y gelynion. Yr adeiladwyr a'r adeilad a wawdient. Yr adeg hono, actiwyd Llyfr Nehemiah yn Lechryd. Rhai, fel y Tirsatha, oeddynt brudd eu bron, a thrist eu gwedd, o herwydd adfail dinas Duw. Rhai, fel y penaethiaid, a ddywedent, "Cyfodwn, ac adeiladwn. Felly y cryfhasant eu dwylaw i ddaioni" (Neh. ii, 18). Rhai, fel Sanbalat yr Horoniad, a Thobia y gwas, a'r Arabiaid, a'r Asdodiaid, yn llidio yn ddirfawr, "A hwynt oll a frad-fwriadasant yn nghyd i ddyfod i ymladd yn erbyn Jerusalem, ac i'w rhwystro" (Neh. iv, 7-9). Rhai yn gweddio ar Dduw, a gosod gwyliadwriaeth i'w herbyn hwynt ddydd a nos, gan ddywedyd, "Duw y nefoedd, Efe a'n llwydda ni; ninau ei weision ef a gyfodwn ac a adeiladwn" (Neh. ii, 20). Rhai menywod, fel Noadiah, a'u geiriau yn dwyll, yn ceisio ein dychrynu (Neh. vi, 14). Rhai, cyflogedig i rwystro, fel y cyflogwyd Semaiah, o linach Mehetabeel, gan Tobiah. Rhai yn dywedyd, "Beth y mae yr Iuddewon gweiniaid hyn yn ei wneuthur? A adewir iddynt hwy? A godant hwy y cerig?" (Neh. iv, 2). Ceisient ein hofni ni, gan ddywedyd, "Eu dwylaw hwynt a laesant oddi wrth y gwaith, fel nas gwneir ef" (Neh. vi, 8). Yna y gweddiem, "Cryfha yn awr, O Dduw, ein dwylaw ni" (Neh. vi, 9). Llawer o rai lledryw a watwarent, fel y rhai a briodasant Asdodesau, Amonesau, a Moabesau, y dywedodd Nehemiah am danynt, "Ymrysonais a hwynt, a melldithiais hwynt; tarewais hefyd rai o honynt, ac a bliciais eu gwallt hwynt" (Neh. xiii, 25). Yn swn enllibau y fall, gweddiem yn ddibaid, "Gwrando, O! ein Duw; canys yr ydym yn ddirmygus; dychwel hefyd eu gwaradwydd ar eu penau hwynt, a dod hwynt yn anrhaith yn ngwlad y caethiwed; ac na orchuddia eu hanwiredd hwynt" (Neh. iv, 4, 5). Gwrandawodd

Duw y nefoedd yn ei drugaredd, a rhoddodd i'r bobl galon i weithio. Pan lwfrhai ambell un, dewrion a'i calonogent, gan ddywedyd, "Nac ofnwch rhagddynt; cofiwch yr Arglwydd mawr ac ofnadwy, ac ymleddwch dros eich brodyr, eich meibion a'ch merched, eich gwragedd, a'ch tai" (Neh. iv, 14). "Rhoddaf fi o bunoedd," medd un gelyn, "os gwelir y ty dan do." Ond nid yw y mil punoedd wedi eu talu, er fod y Tabernacl dan do er ys un flynedd ar hugain. "Gwnaf fy llw," medd un arall, "na thelir byth am y ty. Pa fodd y gallant, a'r ffermwyr oll gyda ni? Gwnaf fy llw na chaf byth weled ei agor." Agorwyd pyrth marwolaeth iddo ef, a gwelodd byrth cysgod angau cyn agoriad y Tabernacl. "O, nad allem gael gan y gweinidog i gilio!" meddent. Fy enaid a ofynai o'r Gair a'r nefoedd, "A ffy gwr o'm bath i, yn credu yn y gwaith, a bod yr Anfeidrol Ddyn a'r holl angylion sanctaidd o'i blaid, heb neb ond y diafol a'i blant yn ei erbyn?" Codwyd y ty fel y Tabernacl yn yr anialwch, "Gan bob gwr ewyllysgar ei galon." Cliriwyd y ty ar ddydd ei agoriad, heb hocran na hudo, heb docyn na darlith, heb *bazaar* nac *art union*, nac unrhyw driciau perthynol i grefydd diwedd y byd.

Ar foreu Saboth olaf Ionawr 1881, yr aethom o dy Fanny Jenkins i'r Tabernacl, pan leferais ynddo am Dy yr Arglwydd, oddi ar Ezeciel xliv, 5: "A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, gosod dy galon, fab dyn, a gwel a'th lygaid, clyw hefyd a'th glustiau, yr hyn oll yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthyt, am holl ddeddfau ty yr Arglwydd, ac am ei holl gyfreithiau; a gosod dy feddwl ar ddyfodfa y ty, ac ar bob mynedfa allan o'r cysegr." Y boreu hwnw y bu farw, wedi byr a phoenus gystudd, David Griffiths, Ffosyficer, y gwr, dros y cysegr-ysbeilwyr, a'n clodd allan o'r hen gapel. Rhoddaf fraslun o'r bregeth gyntaf yn y Tabernacl, am dy yr Arglwydd fel ty gweddi a mawl, addysg a dysgyblaeth Eglwys Philadelphia.

"Man arbenig yw Ty yr Arglwydd, iddo ef ddatguddio ei Hun a'r nefoedd trwy y Gair, i ddyn ar y ddaear, ac i ddyn ar y ddaear gysegru ei hun trwy y Gair, i'r Arglwydd a'r nefoedd. Dyna amcan goruchel y Tabernacl yn yr anialwch, ac yn Siloh, a'r deml yn Jerusalem. I'r pwrpas, yr oedd dau beth neillduol yn y Tabernacl a'r Deml: sef y Cysegr Sancteiddiolaf, lle yr oedd y Shecinah, y gogoniant dwyfol, a amlygid i ddyn, a'r allor, lle yr ymgysegrai dyn i Dduw. Gosododd Solomon wrth borth y Deml, ddwy golofn fawr, Boaz a Jachin, yn arwyddluniau cryfder a harddwch; ond cryfder a harddwch y Deml oedd, y Cysegr Sancteiddiolaf a'r allor. Arnynt y dibynau holl ddefodau goruchwyliaeth ysblenydd y cysgodau. Pwrpas pob peth oedd, dwyn yr Arglwydd a'r nefoedd at ddyn, a dwyn dyn at yr Arglwydd a'r nefoedd. Gwneid hyn trwy

fod calon a meddwl yr Arglwydd a'r nefolion yn gweithredu ar galon a meddwl dyn, a chalon a meddwl dyn yn gweithredu ar galon a meddwl yr Arglwydd a'r nefolion. Sylwn:—

I. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR Y TY. II. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR Y TY FEL TY GWEDDI. III. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR DDYFODIAD Y TY. IV. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR SAFLE Y TY. V. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR DREFN Y TY, A'I DDANGOS.

1. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR Y TY. "Gosod dy galon, fab dyn, a gwel a'th lygaid; clyw hefyd a'th glustiau, yr hyn oll yr ydwyf yn ei ddywedyd wrthyt, am holl ddeddfau ty yr Arglwydd, ac am ei holl gyfreithiau; a gosod dy feddwl ar ddyfodfa y ty, ac ar bob mynedfa allan o'r cysger" (Ezeciel xliv, 5). Gesyd yr Arglwydd ei galon a'i feddwl yn benaf ar ei dy. "Yr Arglwydd a gar byrth Sion yn fwy na holl breswylfeydd Jacob" (Salm lxxxvii, 2). Lle preswylfa ei ogoniant yw ei dy. Beia yr Arglwydd y bobl esgeulusant ei dy, a chant eu difuddio o bob bendith. "Yna y daeth Gair yr Arglwydd trwy law Haggai y prophwyd, gan ddywedyd, Ai amser yw i chwi eich hunain drigo yn eich tai byrddiedig, a'r ty hwn yn anghyfanedd?" (Haggai i, 6). Oddi wrth yr Arglwydd y daeth y portread o'r ty; portread y Tabernacl i Moses; portread Teml Moriah i Dafydd; portread y Deml arwyddluniol i Ezeciel; portread Teml yr ysbryd yn y saint; a phortread Teml y Ddynoliaeth Ddwyfol, yn ei Berson Bendigedig ei Hun. Ty yr Arglwydd, yn mhob ystyr, yw deffrowr mawr meddyliau a theimladau y bobloedd trwy y bydoedd. Deffry eneidiau y nefolion, y daearolion, a thanddaearolion fodau. Ysgydwa Duw y cydfyd oll yn nglyn a'i Dy. "Canys fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd: Unwaith eto, enyd fechan yw, a mi a ysgydwaf y nefoedd a'r ddaear, a'r mor a sychir. Ysgydwaf hefyd yr holl genhedloedd, a dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw; llanwaf hefyd y ty hwn a gogoniant, medd Arglwydd y lluoedd" (Haggai ii, 6, 7). Arglwydd y lluoedd hefyd a ysgydwa eneidiau lawer trwy y Tabernacl ar lan Teifi. "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, awn i dy yr Arglwydd. Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerusalem" (Salm cxxii, 1, 2). Ein traed a safant o fewn pyrth y Tabernacl heddyw, am y tro cyntaf, i gyddaddoli Arglwydd y lluoedd. Daethom yma trwy rym cariad a gwirionedd y Gair, trwy arfer ein rheswm a'n rhyddid, ac felly trwy anibyniaeth, sef llwyr ddibyniaeth ar Dduw ynddo ei hun, Duw yn y Gair, Duw yn y nef, Duw yn ein gilydd, a Duw ynom ein hunain. "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond

tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi" (Salm lxxiii, 25). Brwydro ein ffordd yma wnaethom, trwy rengoedd y gelynion, megys meddwon, bydolion, cysegr-ysbeilwyr, gweinidogion diafol a satan, a llengoedd uffern. Enw cleddyf Arthur oedd *Excalibur*, a roddwyd iddo yn y dyfroedd dysglaer, gan Arglwyddes y Llyn, trwy addaw rhoddi iddo rodd, bob tro y gofynai hi ganddo. Trwy y cleddyf, gwnaeth Arthur wrhydri mewn rhyfeloedd, nes synu ei farchogion a'i farwniaid. Ond ein cleddyf ni yw Gair yr Arglwydd yn ei Dy, o'i Dy, ac am ei Dy. Molianwn, clodforwn y Creawdwr am y Tabernacl, fel trigfan i ddadweinio "cleddyf yr ysbryd," "Cleddyf yr Arglwydd a Gedeon." "Gwregysa dy gleddyf ar dy glun, O Gadarn, a'th ogoniant a'th harddwch; ac yn dy harddwch, marchoga yn llwyddianus, o herwydd gwirionedd, a lledneisrwydd, a chyfiawnder; a'th ddeheulaw a ddysg i ti bethau ofnadwy. Pobl a syrthiant danat; o herwydd dy saethau llymion yn glynu yn nghalon gelynion y Brenin" (Salm xlv, 3-5). Wrth fod y llwythau yn teithio trwy Ddyffryn Baca i Jerusalem, ac yn dyfod i olwg y Deml, dywedent, "Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd!" (Salm lxxxiv, 1). Gwelent dai gorwych, ond ty Arglwydd y lluoedd oedd oruchaf yn eu meddwl, a'u calon. Tai mawrion a theg a harddant Ddyffryn Teifi, ond y Tabernacl, os y bydd yn gysegr preswylfeydd y Goruchaf yn ei Ddyfodiad, fydd yn tynu bryd a myfyrdod penaf pobl dduwiol y fro.

2. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR Y TY FEL TY GWEDDI. "Fy nhy i a elwir yn dy gweddi i'r holl bobloedd" (Esaiah lvi, 7). "Ty gweddi y gelwir fy nhy i" (Math. xxi, 13). Wrth gysegru y Deml fel ty gweddi, gweddiodd Solomon, gan ddywedyd, "Ai gwir yw, y preswylia Duw ar y ddaear? Wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy gynwys di; pa faint llai y ty hwn a adeiledais i! Eto, edrych ar weddi dy was, ac ar ei ddeisyfiad ef, O Arglwydd fy Nuw, i wrandaw ar y llef a'r weddi y mae dy was yn ei gweddio ger dy fron di. Fel y byddo dy lygaid yn agored tua'r ty yma, nos a dydd, tua'r lle y dywedaist am dano, Fy enw a fydd yno; i wrandaw ar y weddi a weddio dy was yn y lle hwn. Gwrando, gan hyny, ddeisyfiad dy was, a'th bobl Israel, pan weddiant yn y lle hwn; clyw hefyd o le dy breswylfa, o'r nefoedd; a phan glywech, maddeu" (I Bren. viii, 27-30). Yna y noda saith o achosion yn galw am drugaredd a chyfryngiad yr Arglwydd; a thaer ddeisyfa arno drugarhau a chyfryngu, ar yr amod fod y bobl yn gweddio yn y lle sanctaidd, sef Ty Gweddi yr Arglwydd. YR ACHOS CYNTAF YW, *Drwgdybiaeth ac Ansicrwydd*. Dyn wedi ei niweidio gan rywun, heb sicrwydd

pwy yw, ond drwgdybiaeth, caniateir i'r un ddrwgdybir lanhau ei hun trwy lw o flaen yr allor; a gweddia Solomon am i'r Arglwydd beidio goddef llw celwyddog, ond dynoethi y gwir, condemnio yr euog, a chyfiawnhau y cyfiawn. "Os pecha gwr yn erbyn ei gymydog, a gofyn ganddo raith, gan ei dyngu ef, a dyfod y llw o flaen dy allor Di yn y ty hwn; yna clyw Di yn y nefoedd, gwna hefyd, a barna dy weision, gan ddamnio y drygionus, i ddwyn ei ffordd ar ei ben; a chan gyfiawnhau y cyfiawn, trwy roddi iddo ef yn ol ei gyfiawnder" (ad. 31-32). YR AIL ACHOS, *Colli y Frwydr.* Y gelynion yn drech na phobl Israel am bechu o honynt yn erbyn yr Arglwydd, ond ar eu dychweliad ato, a gweddio yn ei dy, deisyfa Solomon i'r Arglwydd eu gwrando, a'u gwared o law eu gelynion. "Pan darawer dy bobl Israel o flaen y gelyn, am iddynt bechu yn dy erbyn di, os dychwelant atat ti, a chyfaddef dy enw, a gweddio, ac ymbil a thi yn y ty hwn; yna, gwrando di yn y nefoedd, a maddeu bechod dy bobl Israel, a dychwel hwynt i'r tir a roddaist i'w tadau hwynt" (ad. 33-34). Y TRYDYDD ACHOS, *Gwrthgiliad yn atal y Gwlaw.* Y nefoedd yn cau o herwydd eu pechodau, a'r cynhauaf yn colli. Ond os cyfaddefant yn eu cystudd, a gweddio yn y ty, deisyfa Solomon i'r Arglwydd eu gwrando. "Pan gauer y nefoedd, fel na byddo gwlaw, o herwydd pechu o honynt i'th erbyn; os gweddiant yn y lle hwn, a chyfaddef dy enw, a dychwelyd oddi wrth eu pechod, pan gystuddiech di hwynt; yna, gwrando di yn y nefoedd, a maddeu bechod dy weision, a'th bobl Israel, fel y dysgech iddynt y ffordd oreu y rhodiant ynddi, a dyro wlaw ar dy dir a roddaist i'th bobl yn etifeddiaeth" (ad. 35, 36). Y PEDWARYDD ACHOS, *Amryw adfydau barnol yn codi o ddwfn lygredigaeth dyn.* Os cyfaddefant bob adfyd barnol yn perthyn i bawb ac i bob un, a gweddio o galon yn nhy yr Arglwydd, cais ganddo wrando, a maddeu, a rhoddi i bob un yn ol eu holl ffyrdd. "Os bydd newyn yn y tir, os bydd haint, llosgfa, malldod, locustiaid, os bydd y lindys; pan warchaeo ei elyn arno yn ngwlad ei ddinasoedd; pa bla bynag, pa glefyd bynag a fyddo. Pob gweddi, pob deisyfiad, a fyddo gan un dyn, neu gan dy holl bobl Israel, y rhai a wyddant bawb bla ei galon ei hun, ac a estynant eu dwylaw tua'r ty hwn; yna, gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a maddeu; gwna hefyd, a dyro i bob un yn ol ei holl ffyrdd, yr hwn yr adwaenost ei galon (canys ti yn unig a adwaenost galonau holl feibion dynion); fel y'th ofnont di yr holl ddyddiau y byddont byw ar wyneb y tir a roddaist i'n tadau ni" (ad. 37-41). Y PUMED ACHOS, *Y Dyeithrddyn*: dymuniad iddo ef gael ei wrando yn y ty, ei fendithio, ei uno a rhai eneiniog y nef, a'i

ddefnyddio i ledu y son am enw mawr yr Arglwydd yn mhell. "Ac am y dyeithrddyn hefyd, ni byddo o'th bobl Israel, ond dyfod o wlad bell er mwyn dy enw (canys clywant am dy enw mawr di, a'th law gref, a'th fraich estynedig); pan ddel a gweddio tua'r ty hwn, gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, a gwna yn ol yr hyn oll ar a lefa y dyeithrddyn arnat am dano; fel yr adroddo holl bobl y ddaear dy enw di, fel dy bobl Israel, ac y gwypont mai ar dy enw di y gelwir y ty hwn a adeiledais i" (ad. 41-43). Y CHWECHED ACHOS, *Rhyfel cyfiawn.* Nis gellir dysgwyl amddiffyn yr Arglwydd mewn rhyfeloedd anghyfiawn; ac wedi dyfodiad yr Arglwydd yn y cnawd, i gadw ac nid i ddinystrio bywydau dynion, rhyfeloedd amddiffynol yn unig sydd gyfiawn; dieflig yw rhyfeloedd eraill. "Os a dy bobl di allan i ryfel yn erbyn eu gelyn, ar hyd y ffordd yr anfonych hwynt, os gweddiant ar yr Arglwydd tua ffordd y ddinas a ddewisaist ti, a'r ty yr hwn a adeiledais i'th enw di: yna gwrando yn y nefoedd ar eu gwêddi hwynt, ac ar eu deisyfiad, a gwna farn iddynt" (ad. 44, 45). Y SEITHFED ACHOS, *Anuwioldeb cyffredinol a Chaethgludiad.* "Os dychwelant at eu calon yn y wlad y caethgludwyd hwynt iddi, a dychwelyd, ac erfyn arnat yn ngwlad y rhai a'u caethgludasant, gan ddywedyd, pechasom, troseddasom hefyd, a gwnaethom yn anuwiol; a dychwelyd atat ti a'u holl galon, ac a'u holl enaid, yn ngwlad eu gelynion a'u caethgludasant hwynt, a gweddio arnat ti, tu a'u gwlad a roddaist i'w tadau, a'r ddinas a ddewisaist, a'r ty a adeiledais i'th enw di; yna gwrando di yn y nefoedd, mangre dy breswylfod, eu gweddi hwynt, a maddeu i'th bobl a bechasant i'th erbyn, eu holl gamweddau yn y rhai y troseddasant i'th erbyn, a phar iddynt gael trugaredd ger bron y rhai a'u caethgludasant, fel y trugarhaont wrthynt hwy" (ad. 47-50). Aaron a'i olynwyr, wrth fyned i'r cysegr sancteiddiolaf, o flaen y drugareddfa, rhwng y cerubiaid, oeddynt i gynrychioli yr holl lwythau, yr holl wirioneddau, a'r holl nefoedd. Dangosid hyny trwy eu gwisgoedd sanctaidd, ac yn neillduol trwy yr Urim a'r Thummim, sef y deuddeg maen ar y ddwyfroneg, ac enwau y deuddeg llwyth arnynt, fel y gorchymynwyd trwy Moses. "A dod ar ddwyfroneg y farnedigaeth, yr Urim a'r Thummim; a byddant ar galon Aaron pan elo i mewn ger bron yr Arglwydd; ac Aaron a ddwg farnedigaeth meibion Israel ar ei galon, ger bron yr Arglwydd yn wastadol" (Exodus xxvii, 30). Yr Ephod a arddangosai y gwirionedd dwyfol i'w eithafed; y meini gwerthfawr, gwirioneddau tryloew o ddaioni; y deuddeg maen, y gwirioneddau oll mewn trefn; y deuddeg llwyth, holl bethau yr Eglwys; y ddwyfroneg, gwirioneddau oddi ar gariad dwyfol; a'r Urim a'r Thummim,

dysglaerder gwirionedd dwyfol oddi ar gariad dwyfol yn yr allanolion eithaf—tan dysglaer yw Urim, a dysglaerder yw Thummim, a'r ddau, yr oll yn gyflawn. Rhoddid atebion trwy amrywiadau y goleuni, trwy ganfyddiad dystaw, a thrwy fywiol lais. Yr Urim a'r Thummim yn awr yw, dynion yn gweddio yn yr holl wirionedd, oddi ar gariad at y Dyn Anfeidrol, ac o hono at bob dyn arall, gyda phob gweddi a deisyfiad dros bawb. Trwy hyn y ceir atebion yn Nhy yr Arglwydd. Ond och! aeth ty gweddi yn ogof lladron yn Siloh ac yn Jerusalem. Anfonodd yr Arglwydd Jeremiah i sefyll yn mhorth y ty, a gofyn, "Ai yn lloches lladron yr aeth y ty yma, ar yr hwn y gelwir fy enw i, ger bron eich llygaid?" Cyhudda yr addolwyr eu bod yn ymddiried mewn celwydd, yn gorthrymu y dyeithr, yr amddifad, a'r weddw, yn tywallt gwaed gwirion, yn lladrata, yn godinebu, a thyngu anudon, ac na wrandawant ar Dduw. "Am hyny, na weddia dros y bobl hyn, ac na ddyrchafa waedd na gweddi drostynt, ac nac eiriol arnaf; canys ni'th wrandawaf" (Jer. vii, 1-16). Lloches lladron oedd Ty yr Arglwydd yn amser Iesu Grist. "A'r Iesu a aeth i mewn i deml Duw, ac a daflodd allan bawb ar oedd yn gwerthu ac yn prynu yn y deml, ac a ddymchwelodd i lawr fyrddau y newidwyr arian, a chadeiriau y rhai oedd yn gwerthu colomenod, ac Efe a ddywedodd wrthynt, Ysgrifenwyd, Ty gweddi y gelwir fy Nhy i: eithr chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron" (Math. xxi, 12, 13; Marc xi, 17; Luc xix, 46; Ioan ii, 4-14). Y fath olygfa sydd o'i flaen. Ymgynhyrfa i glirio y ty trwy orthrech, prawf nad person mwyn, goddefgar, tawel, didramgwydd, ac efengylaidd (?) oedd Efe, fel y ffol-dybir gan laweroedd heddyw. Terfysgwr trwyadl a di-ail ydoedd; felly ei ragflaenwyr a'i ganlynwyr oll, pan fyddo ty gweddi yn ogof lladron. O'r diwedd, gadawodd y ty yn anghyfanedd, wedi cyhoeddi yr wyth wae ar y rhagrithwyr. "Wele, yr ydys yn gadael eich ty i chwi yn anghyfanedd" (Math. xxiii, 38). Ac yn awr, yn amser ei ail-ddyfodiad, ogof lladron a lleiddiaid yw y ty, a rhaid i'w etholedigion Ef fyned allan o hono. "Am hyny, pan weloch y ffieidd-dra anghyfaneddol, a ddywedwyd trwy Daniel y prophwyd, yn sefyll yn y lle sanctaidd (y neb a ddarlleno, ystyried), yna y rhai a fyddant yn Judea, ffoant i'r mynyddoedd" (Math. xxiv, 15, 16).

3. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR DDYFODFA Y TY. "Gosod dy feddwl ar ddyfodfa y ty" (Ezeciel xliv, 5).

1. Dyfodfa yr Arglwydd i'r ty. "Ac efe a'm dug i'r porth, sef y porth sydd yn edrych tua'r dwyrain; ac wele, ogoniant Duw Israel yn dyfod o ffordd y dwyrain; a'i lais fel swn dyfroedd lawer, a'r ddaear yn dysgleirio o'i ogoniant Ef . . . A gogoniant yr Arglwydd a ddaeth i'r ty ar hyd ffordd

y porth sydd a'i wyneb tua'r dwyrain" (Ezeciel xliii, 1, 2, 4). Yn y nefoedd, fel yn y byd, y mae dwyrain, gorllewin, gogledd, a deheu. Y pedwar parth yn y byd arall, fel yn y byd hwn, a benderfynir gan safle yr haul. Y dwyrain yn y nef yw y parth lle yr ymddengys yr Arglwydd fel yr haul, am fod holl darddiad bywyd yn deilliaw o hono ef. Porth y dwyrain yw porth y bywyd a'r cariad dwyfol. Dyfod i'r ty yn fywyd a bendithion bywyd wna yr Arglwydd. "Canys fel hyn y dywed y Goruchel a'r Dyrchafedig, yr Hwn a breswylia dragwyddoldeb, ac y mae ei enw yn sanctaidd. Y goruchelder a'r cysegr a breswyliaf; a chyda'r cystuddiedig a'r isel o ysbryd, i fywhau y rhai isel o ysbryd, ac i fywhau calon y rhai cystuddiedig" (Esaiah lvii, 15). Wedi gorphen y Tabernacl, yn ol y portread, "Yna cwmwl a orchuddiodd babell y cyfarfod: a gogoniant yr Arglwydd a lanwodd y Tabernacl" (Exodus xl, 34). Ac wedi gorphen y deml, ei chysegru, gweddio ynddi, a molianu yr Arglwydd, nes fod yr udganwyr a'r cantorion megys un sain o glodtoredd, "Llanwyd y ty a chwmwl, sef ty yr Arglwydd: o herwydd gogoniant yr Arglwydd a lanwasai dy Dduw" (II Cron. v, 13, 14). Pan welwyd Teml y Ddynoliaeth Ddwyfol, sef dwyfol gorph yr Arglwydd ar Fynydd y Gweddnewidiad, "Ei wyneb a ddysgleiriodd fel yr haul, a'i ddillad oedd cyn wynned a'r goleuni" (Math. xvii, 2). A phan oedd ty i Dduw wedi ei gysegru, gan saint y Pentecost, trwy sancteiddrwydd personol ac undeb yr ysbryd, "Yn ddisymwth, y daeth swn o'r nef, megys gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dy lle yr oeddynt yn eistedd, a hwy oll a lanwyd o'r Ysbryd Glan" (Act. ii, 2, 4). Ac wedi gweled y nef a'r ddaear newydd, a'r ddinas sanctaidd yn disgyn, y dywed Ioan, "Ac mi a glywais lef uchel allan o'r nef, yn dywedyd, Wele, y mae pabell Duw gyda dynion, ac Efe a drig gyda hwynt, a hwy a fyddant bobl iddo Ef, a Duw ei hun a fydd gyda hwynt, ac a fydd yn Dduw iddynt" (Dat. xxi, 3).

2. Dyfodfa angylion y nefoedd i'r ty. Daw Arglwydd Dduw y lluoedd i'w dy, a'i angylion sanctaidd gydag ef. Daw i'w dy, fel y daeth ar Sinai, gyda myrddiwn o saint. "Cerbydau Duw ydynt ugain mil, sef miloedd o angylion; yr Arglwydd sydd yn eu plith megys yn Sinai yn y cysegr" (Salm lxviii, 17). Dyfod i dy yr Arglwydd yw dyfod "I fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion. I gymanfa a chynulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, Barnwr pawb" (Heb. xii, 22, 23). Dwy gynulleidfa a gwrddant a'u gilydd yn nhy yr Arglwydd, y gynulleidfa fach weledig yn y byd hwn, a'r gynulleidfa fawr, anweledig, yn y byd arall. Wrth addoli, yr ydym yn ddrych arbenig i'r

angylion, tystion ydynt o'n hysbryd a'n hymddygiadau. "Oblegyd hyny, ninau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen" (Heb. xii, 1). Gorchymynir i'r gwragedd guddio eu penau a bod yn wylaidd yn nhy yr Arglwydd, "O herwydd yr angylion" (I Cor. xi, 10). Y mae yr ysgol fawr yn nhy yr Arglwydd, "Yn sefyll ar y ddaear, a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd; ac wele, angylion Duw yn dringo ac yn disgyn ar hyd-ddi. Ac wele, yr Arglwydd yn sefyll arni" (Gen. xxviii, 12, 13). Y mae dylifiadau a thramwy didrai oddi wrth drigolion y tair nefoedd a'u holl drigfanau, i Dy yr Arglwydd.

3. Dyfodfa duwiolion ar y ddaear i'r ty. "Arglwydd, hoffais drigfan dy dy, a lle preswylfa dy ogoniant . . . Fy nhraed sydd yn sefyll ar yr uniawn; yn y cynulleidfaoedd y'th fendithiaf, O Arglwydd" (Salm xxvi, 8, 12). "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf, sef caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml" (Salm xxvii, 4). "Gwyn ei fyd yr hwn a ddewisech, ac a nesaech atat, fel y trigo yn dy gynteddoedd; nyni a ddigonir a daioni dy dy, sef dy deml sanctaidd" (Salm lxv, 4). "Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y lluoedd! Fy enaid a hiraetha, ie, ac a flysia am gynteddau yr Arglwydd; fy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw . . . Gwyn fyd preswylwyr dy dy; yn wastad y'th folianant, Selah . . . Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di, na mil; dewiswn gadw drws yn nhy fy Nuw, o flaen trigo yn mhebyll anuwioldeb" (Salm lxxxiv, 1, 2, 4, 10). "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, awn i dy yr Arglwydd, yno yr esgyn y llwythau, llwythau yr Arglwydd, yn dystiolaeth i Israel i folianu enw yr Arglwydd" (Salm cxxii, 1, 4). "A bydd yn y dyddiau diweddaf, fod mynydd ty yr Arglwydd wedi ei barotoi yn mhen y mynyddoedd, ac yn ddyrchafedig goruwch y bryniau; a'r holl genhedloedd a ddylifant ato. A phobloedd lawer a ant, ac a ddywedant, Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, i dy Duw Jacob" (Esaiah ii, 2, 3). Hawdd pentyru geiriau tebyg yn dangos awyddfryd, anwyldeb, a zel duwiolion ar y ddaear tuag at dy yr Arglwydd. Hyd yn oed pan yn bell oddi wrth dy yr Arglwydd, bydd eu calon ynddo, a'u gwyneb tuag ato, wrth weddio, fel Daniel yn Babilon, "A'i ffenestri yn agored yn ei ystafell tua Jerusalem; tair gwaith yn y dydd y gostyngai efe ar ei luniau, ac y gweddiai, ac y cyffesai o flaen ei Dduw" (Daniel vi, 10). Pob dymuniad yn ngweddi Solomon wrth gysegru y Deml, pob deisyfiad

sydd yn y Salmau, pob cais yn ngweddi yr Arglwydd, a phob ochenaid grea y Gair yn y galon grediniol, a gant eu gwrando a'u hateb yn nghynulleidfa y saint yn Nhy yr Arglwydd, pan gyfanedda Duw yn moliant Israel.

4. Dyfodfa yr edifeiriol i'r ty. Pyrth ty ein Tad sydd yn agored o hyd. "Dy byrth fyddant yn agored yn wastad, ni cheuir hwynt na dydd na nos" (Esaiah lx, 11). Croesawir yr afradloniaid edifeiriol a gwledd, cynghanedd a dawns. Cesglir y syrthiedig, y clwyfedigion, y lloerigion, ac anafusion truenus daear, a chodir y meirw, gan eu dwyn adref. Yn un o chwedlau Scandinavia, dywedir fod plentyn wrth chwareu mewn lle peryglus, wedi syrthio dros y geulan yn ddarnau ar y graig. Ond ei fam wylofus a llaw dyner a gasglodd y darnau cnawd a'r dafnau gwaed at eu gilydd; dygodd hwynt adref yn ei mynwes, a chynhesodd hwynt a gwres ei chalon a'i gwaed ei hun. Mewn dolefau anrhaethadwy, canodd yn doddedig i'r darnau a'r dafnau, nes eu haduno a'u hadferyd yn gorph byw, a phlentyn iach, dianaf. Yr hil ddynol yw y plentyn hwn; y Jerusalem hono uchod, yr hon yw ein mam ni oll, yw y fam, a thy ein Tad yw y cartref tragwyddol. Wrth droi i'r ty y cafodd llawer un syrthiedig adgofion tyner a gobaith da trwy ras.

"Adgofion tyner am ryw ddyddiau gwell,—
Dihalog ddyddiau diniweidrwydd gwyn,
A chartref mad, a mam a thad,
A'r Llyfr dd'wed am Fab Afradlon aeth yn mhell,
A'r croesaw cynes gafodd pan ddaeth 'nol:
Yn ddarlun byw fod cariad a thrugaredd Duw
Yn fwy na throsedd dyn. Y Galon fawr Anfeidrol
Tuag at yr edifeiriol, mor rhyfeddol yw!"

N. R.

5. Dyfodfa diafol a Satan i'r ty. Tyn ysbrydion drwg i'r ty. Pan welodd Micheah "Yr Arglwydd yn eistedd ar ei orseddfa, a holl lu y nefoedd yn sefyll yn ei ymyl, ar ei law ddeheu ac ar ei law aswy," daeth ysbryd, ac a safodd ger bron yr Arglwydd, ac a aeth yn ysbryd celwyddog yn ngenau y prophwydi (I Bren. xxii, 19, 22). Yn Llyfr Job, dywedir, "A dydd a ddaeth i feibion Duw ddyfod i sefyll ger bron yr Arglwydd; a satan hefyd a ddaeth yn eu plith hwynt" (Job i, 5). Zechariah a ddywed, "Efe a ddangosodd i mi Josua yr Archoffeiriad, yn sefyll ger bron angel yr Arglwydd, a satan yn sefyll ar ei ddeheulaw Ef i'w wrthwynebu Ef" (Zech. iii, 1). Y cythreuligion a aent i'r synagogau a'r deml; y diafol a'i blant a dynent i addoliadau ffugiol Israel. Nid yw

y Swper Sanctaidd yn ddigonol i'w cadw draw. "Ac wedi darfod swper, wedi i ddiafol eisoes roi yn nghalon Judas Iscariot, mab Simon, ei fradychu Ef" (Ioan xiii, 2), "Ac ar ol y tamaid, yna yr aeth satan i mewn iddo" (Ioan xiii, 27). Yr anwir hwnw a ymddyrchafa, "Goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir: hyd onid yw Efe, megys Duw, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydyw (II Thes. ii, 4). "Ac nid rhyfedd: canys y mae satan yntau yn ymrithio yn angel goleuni, gan hyny, nid mawr yw, er ymrithio ei weinidogion ef fel gweinidogion cyfiawnder" (II Cor. xi, 12-15). Y saint a drigant weithiau lle mae gorseddfainc satan. "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt yn trigo, sef lle y mae gorseddfainc satan" (Dat. ii, 13). Ond disgyniad y nefoedd newydd i'r enaid, ac i dy yr Arglwydd, a geidw y diafol a'i had allan yn dragwyddol. "Ac nid a i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieiddra, na chelwydd; ond y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn Llyfr Bywyd yr Oen" (Dat. xxi, 27). "Oddi allan y mae y cwn, a'r swyngyfareddwyr, a'r putteinwyr, a'r llofruddion, a'r eilunaddolwyr, a phob un ar sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd" (Dat. xxii, 15).

4. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR SAFLE Y TY. "Dyma gyfraith y ty, ar ben y mynydd y bydd ei holl derfyn Ef, yn gysegr sancteiddiolaf o amgylch ogylch. Wel, dyma gyfraith y ty" (Ezeciel xliii, 12). Ty yr Arglwydd a'i holl amgylchoedd sydd ar ben y mynydd, sef yn y Cariad Dwyfol, uwchlaw pob trigfa a phob gwrthrych arall, yn amlwg, yn lan, yn iach, a'r golygfeydd o hono yn agor yn anherfynol i bob cyfeiriad. Angylion y nefoedd isaf a drigant yn y dyffrynoedd; angylion yr ail nefoedd, ar y bryniau; ac angylion y drydedd nef, ar fynyddoedd tragwyddoldeb. Esgyn mewn ufudd-dod at angylion y drydedd nef, ac at y Tad yn y Drindod Ddwyfol, yw, gosod y galon a'r meddwl ar safle y ty. "Pwy a esgyn i fynydd yr Arglwydd? a phwy a saif yn ei le sanctaidd Ef? Y glan ei ddwylaw, a'r pur ei galon: Yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thyngodd ei dwyllo" (Salm xxiv. 3, 4). "Anfon dy oleuni a'th wirionedd: tywysant hwy fi: ac arweiniant fi i fynydd dy sancteiddrwydd, ac i'th bebyll" (Salm xliii. 3). "Deuwch ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, i dy Duw Jacob" (Esaiah ii. 3). "Ac efe a'm dwg i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr, Jerusalem sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef, oddiwrth Dduw" (Dat. xxi. 10).

5. GOSOD Y GALON A'R MEDDWL AR DREFN Y TY, AC AR EI DDANGOS. Gosoder y galon a'r meddwl ar y pen teulu,

ac ar ei ddangos yn ei ogoniant yn llanw y ty; y dodrefn drudfawr hefyd, y golud, yr addysg, y rheolau, y deddfau, y ddysgyblaeth, y mesurau, a'r rhaniadau oll, yr ystafelloedd, a'r addurniadau perthynol i'r ty yn y ddau fyd. "Ti, fab dyn, dangos y ty i dy Israel, fel y cywilyddiont am eu hanwireddau; a mesurant y portread. Ac os cywilyddiant am yr hyn oll a wnaethant, hysbysa iddynt ddull y ty, a'i osodiad a'i fynediadau allan, a'i ddyfodiadau i mewn, a'i holl ddull, a'i holl ddeddfau, a'i holl ddull, a'i holl gyfreithiau: ac ysgrifena o flaen eu llygaid hwynt, fel y cadwont ei holl ddull ef, a'i holl ddeddfau, ac y gwnelont hwynt" (Ezec. xliii, 10, 11). Nyni yma heddyw gawsom yr orchest, yr uchelfraint, a'r anrhydedd o sylfeinu, adeiladu, ac agor y Tabernacl hwn, Ty yr Arglwydd mewn amseroedd enbyd. Bydd yn help i ni, ac eraill, i gael y ty, nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd. Cysegrwn ein calon, ein meddwl, a'n bywyd i'r Arglwydd a'i dy, fel y byddom demlau y Duw byw a'r Ysbryd Glan. Glynwn yn y Tabernacl yn nerth bywyd anherfynol. Boed i ni breswylio, gweithio, a brwydro yn y Ty hwn, o'r Hanfod Dwyfol, ac o'n hanfarwoldeb, yn ddyogel rhag y clowyr a rhag colledigaeth. Tybier fod pren anfarwol ar lan Teifi, nas gall bwyill ei dori, ystormydd ei ddiwreiddio, tan ei losgi, pryf ei ddifa, na dim ei niweidio na'i syflyd. Rhaid i'r elfenau byth ei faethu, a'r bydoedd droi i dragwyddoldeb i'w gadw yn fyw. Deuai arlunwyr i dynu ei lun, beirdd i ganu ei glod, athronwyr i fyfyrio ar ei rin, a duwiolion i ddyfalu arno fel arwyddlun hynod o Bren y Bywyd yn nghanol paradwys Duw. "Y rhai a blanwyd yn nhy yr Arglwydd, a flodeuant yn nghynteddoedd ein Duw. Ffrwythant eto yn eu henaint, tirfion ac iraidd fyddant" (Salm xcii, 13, 14). Dyma brenau yr Arglwydd, y rhai a blanodd Efe: prenau cyfiawnder ac anfarwol ydynt, nas gall holl arfau y cryfarfog eu tori, na holl danau uffern eu difa, na holl ystormydd y fall eu diwreiddio, na dim arall eu drygu. "Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn." Arlunwyr y nefoedd a dynant eu llun, beirdd ysbrydoledig y bydoedd a ganant eu clod, a duwiolion y deyrnas dragwyddol a ddyfalant ar eu perthynas a Phren y Bywyd.

X.—AGORIAD I GRYFDER GWEDDIWYR EGLWYS PHILADELPHIA—YR EGLWYS SYDD YN CARU DYN.

Ar yr Arglwydd Iesu Grist, yr Unig Berson Dwyfol a'r Anfeidrol Ddyn, y gweddia yr angylion, a holl aelodau Eglwys Philadelphia. Y Gair agored yw eu gweddiau, y Salmau a Gweddi yr Arglwydd yn neillduol. Byddinoedd Armagedon, sef Cristionogion trais a phomp, a frwydrant yn erbyn y fath weddiau a'r fath weddiwyr: er nad oes agorfa i'r nefoedd ond trwy nesau yn uniongyrchol at yr Arglwydd Iesu Grist fel unig Dduw y nef a'r ddaear, a thrwy weddio arno, ynddo, ac o hono Ef ei Hun. Rhyfedd, yn mhlith rhyfeddodau Duw, yw dirgelion a dylanwadau gweddiau a gweddiwyr yr oesoedd. Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd yn meddianu yr enaid yw y ddawn, ei ddymuniadau Ef yw y deisyfiadau, yn ymestyn fel gwifrau dwyfol *detegraph* trwy dragwyddoldeb, a nerthoedd y byd a ddaw yn trydanu trwyddynt i bob cyfeiriad, o bob tu i'r llen. Y mae holl aelodau Eglwys Philadelphia yn yr Arglwydd, a'r Arglwydd ynddynt hwythau, am hyny, gwneir pob peth y gweddiant am dano. Nis gall gweddiau o galon ac enaid y Dyn Anfeidrol fethu. "Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi" (Math. vii, 7). Sylwn:—

I. DARLUNIAD O WEDDIAU EGLWYS PHILADELPHIA. II. SICRWYDD YR ATEBIR GWEDDIAU EGLWYS PHILADELPHIA. III. YR ATEBION I WEDDIAU EGLWYS PHILADELPHIA. IV. GWAGEDD AC OFEREDD GWEDDIAU GELYNION EGLWYS PHILADELPHIA.

1. DARLUNIAD O WEDDIAU EGLWYS PHILADELPHIA.

1. Awydd dyfod yn ddynion angylaidd yn ol y cynllun dwyfol. "Eithr nyni oll ag wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan ysbryd yr Arglwydd" (II Cor. iii, 18). Teimla pob gweddiwr yn Eglwys Philadelphia awyddfryd adgyfodi yn gyflawn ddyn angylaidd, yn y sicrwydd o ddymuniad a gallu yr Arglwydd a'r nefoedd i'w gynorthwyo.

2. Ymdrech barhaus i ymberffeithio. Ymdrech yw hon yn y Gair, gan ufuddhau i'w holl alwadau, fel y gellir gweddio oddi ar gydwybod oleu a thawel. "Ein gorfoledd ni yw hyn, sef tystiolaeth ein cydwybod" (II Cor. i, 12). "Oblegyd, os ein calon a'n condemnia, mwy yw Duw na'n calon, ac Efe a wyr bob peth" (I Ioan, iii, 20). Nis gall dyn digydwybod weddio, gan uno ei hun a nerth bywyd anherfynol. Er galw ar Dduw mewn cyfyngder, ni chaiff ond galar, griddfan, a gwae. "Pan weddioch lawer, ni wrandawaf; eich dwylaw sydd lawn o waed" (Esaiah i, 15). Yr oedd Saul wedi ymadael a Duw, ac a'r prophwyd Samuel er ys talm. Ond y noson cyn iddo farw, galwai am y prophwyd a Duw y prophwyd. Ymddangosodd y prophwyd iddo o fyd yr ysbrydoedd, a gofynodd iddo, "Paham yr aflonyddaist arnaf, gan beri i mi ddyfod i fyny? A dywedodd Saul, Y mae yn gyfyng iawn arnaf fi; canys y mae y Philistiaid yn rhyfela yn fy erbyn i, a Duw a giliodd oddiwrthyf fi, ac nid yw yn fy ateb mwyach, na thrwy law prophwydi, na thrwy freuddwydion" (I Sam. xxviii, 15). Ond ni wnaeth geiriau Samuel ond tynhau ei gyfyngder: cenadwri angau oeddynt, gan ei ddirfawr ddychrynu. Dyna ddrych o weddiwr euog, a'i gydwybod yn deffro yn angau, a gofyn, "Paham yr aflonyddaist arnaf? Ni buost yn ymofyn a mi trwy dy oes, wrth fwyta ac yfed, prynu a gwerthu, a phobpeth arall." "Naddo," medd yr euog; "ond y mae yn gyfyng iawn arnaf fi yn awr. Os na chaf di o'm plaid, ni chaf Dduw, na'r nef, na'r Gair." Pob trigfa yn y tragwyddoldeb mawr sydd yn erbyn y gweddiwr digydwybod.

3. Cymdeithas anwyl trwy y Gair ag angylion y nefoedd. Gweddiwyr Eglwys Philadelphia, trwy y Gair, a weddiant yn nghymdeithas angylion y tair nefoedd; ac felly, eu gweddiau am fod yn ddynion angylaidd a lenwir a sylweddau naturiol, ysbrydol, a nefol. Pan mae gweddiwyr Eglwys Philadelphia yn gweddio yn ystyr llythyren y Gair, yr angylion ysbrydol a weddiant yn ystyr ysbrydol y Gair, a'r angylion nefol yn yr ystyr nefol. "Caniatawyd i mi ganfod," medd Swedenborg, "pan yn darllen y Gair yn ystyr y llythyren, fod cymundeb yn cael ei effeithio a'r nefoedd, 'nawr a'r gymdeithas hon o honynt, 'nawr a'r llall; a bod yr hyn a ddeallwn yn ol yr ystyr naturiol, yn cael ei ddeall gan yr angylion ysbrydol yn ol yr ystyr ysbrydol, a chan yr angylion nefol yn ol yr ystyr nefol, a hyn ar darawiad amrant."

4. Undeb agos ac anatodadwy a'r Arglwydd trwy y Gair. Y Gair a grea undeb rhwng gweddiwyr Eglwys Philadelphia a'r Arglwydd, oblegyd mai Gair yr Arglwydd yw, am dano yn unig y sonia oll, ac felly yr Arglwydd yw yr oll yn holl bethau

y Gair. Dirgeledig a dwfn iawn yw yr undeb hwn; ond ceir prawf o hono yn yr anwyldeb at wirionedd, yn y żel dros gyfiawnder, yn y gwroldeb yn erbyn trais a cham. Trwy y pethau hyn y mae yr Arglwydd a'r enaid yn un, a thrwy y pethau hyn y mae gweddio ar yr Arglwydd. Y gwirionedd yn yr enaid oddi ar anwyldeb at yr Arglwydd, sydd yn gweddio. Gweddi, gan hyny, yw pob gwirionedd feddylia ac a lefara dyn o gariad dwyfol, a phob gweithred a wna.

Y weddi wir esgyna ar edyn gwaith,
Ger bron gorseddfainc Duw, gorphena ei thaith;
Yn nghlustiau Crist, derbyniol yw ei hiaith.

N. R.

5. Gofyn pethau anmhosibl ac anghredadwy tu allan i'r Gair a'r Crewr. Cymerwn un engraifft o weddiau Daniel: "Myfi, Daniel, a ddeallais wrth lyfrau rhifedi y blynyddoedd, am y rhai y daethai Gair yr Arglwydd at Jeremiah y prophwyd, y cyflawnai Efe ddeng mlynedd a thriugain yn anghyfaneddra Jerusalem. Yna y troais fy wyneb at yr Arglwydd Dduw, i geisio trwy weddi ac ymbil, yn nghyd ag ympryd a sachlian a lludw" (Dan. ix, 27). Gweddia am ryddhau yr Iuddewon o Babilon, a'u dychwelyd i'w gwlad i adferyd Jerusalem. Nid oes y tebygrwydd lleiaf yr atebir ei weddi. Gofyna yr hyn a ymddengys yn anmhosibl. Y bobl bellach oeddynt wedi eu geni a'u magu yn Babilon. Nid oes anogaeth naturiol, wladol, na chrefyddol dros i Cyrus i'w rhyddhau. Syna Herodotus at hynod orchest brenin Persia. Ond y mae y Gair a'r Dyn Anfeidrol dros y weddi, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth ei eneiniog, yr hwn yr ymaflais i yn ei ddeheulaw i ddarostwng cenhedloedd o'i flaen ef . . . gwregysais di er na'm hadwaenit" (Esaiah xlv, 1, 5). Daeth yr amser i gyflawnu y brophwydoliaeth. Gweithia yr Arglwydd a'r angylion, gan hyny, trwy weddi y gweddiwr. "Ie, a mi eto yn llefaru mewn gweddi, yna y gwr Gabriel, yr hwn a welswn mewn gweledigaeth yn y dechreuad, gan ehedeg yn fuan, a gyffyrddodd a mi yn nghylch pryd yr offrwm prydnawnol. Ac efe a barodd i mi ddeall, ac a ymddyddanodd a mi, ac a ddywedodd, Daniel, daethum yn awr allan i beri i ti ddeall. Yn nechreu dy weddiau yr aeth y gorchymyn allan" (ad. 21-23). Aelodau Eglwys Philadelphia, fel Daniel, a ddeallant trwy y Gair agored, fod yr Arglwydd yn awr yn dyfod, ac yn sefydlu Eglwys Newydd yn y nef a'r ddaear, eglwys rydd oddi wrth reolaeth Babilon, y byd, ac uffern. Yn y gorthrymder mawr, ac yn yr olwg ar y ffieidd-dra anghyfaneddol, a ddywedwyd trwy Daniel y prophwyd, gweddiant am fyrhau y dyddiau, a phrysuro y dyfodiad. Gwyddant fod eu gweddiau yn cyffroi y bydysawd angylaidd, a'i ddynesu

atynt, ac at y byd. Gwelant a theimlant Arglwydd y lluoedd, Gabriel, a Michael, yn gweithio gyda hwynt. "Er mwyn yr etholedigion, fe fyrheir y dyddiau" (Math. xxxiv, 22). "Ac Efe a ddenfyn ei angylion a mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion Ef yn nghyd o'r pedwar gwynt: o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt" (Math. xxiv, 31).

6. Gweddi gyffredinol a neillduol dros holl drigolion y bydysawd. Gweddi yn dechreu yn y dirgelwch anirnadwy, yn y Tad, Hanfod Ddwyfol y Dyn Anfeidrol; yna disgyna i'r nefoedd, gan fendigo y nefolion oll; daw oddi yno i Hades, gan wenu fel haul ar filiwnau y farn; tremia yn dosturiol ar drueiniaid yr uffernoedd, gan wylo dros ddinasoedd dystryw tragwyddoldeb; eheda y weddi i'r daearfydoedd dirifedi, gan ddymuno a dysgwyl dyfodiad teyrnas yr Arglwydd, trwy anherfynoldeb lleoliaeth; disgyna i barthau isaf y ddaear, sef i'r blaned hon, a dymuna les dyn, a'i oruchafiaeth yn yr holl deyrnasoedd, yn mhlith y bobloedd a'r cenhedloedd oll; a daw y weddi yn olaf i wlad y gweddiwr, i'w gartref, a throsto ei hun. Gweddi Eglwys Philadelphia sydd gyf-led a'r Creawdwr, ac yn gyfrodedd a'r greadigaeth.

7. Bywyd a brwdfrydedd yn parhau a chynyddu byth. "Rhaid gweddio yn wastad ac heb ddiffygio" (Luc xviii, 1). "Gwyliwch, gan hyny, a gweddiwch bob amser, ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddianc rhag y pethau hyn, ac i sefyll ger bron Mab y Dyn" (Luc xxi, 36). "Gweddiwch yn ddibaid" (I Thes. v, 17). Rhaid gweddio hefyd mewn bywyd a gwres. "Zel dy dy a'm hysodd i" (Ioan ii, 17). "Byddet genyt zel" (Dat. iii, 19). "Ein Duw ni sydd dan ysol" (Heb. xii, 15). Lle nad oes wres nefolaidd yn y weddi, cilia yr Arglwydd, a chilia angylion y nefoedd, fel wenoliaid yn cilio pan gilia yr haf. Ond Eglwys Philadelphia a weddia yn wresog yn yr ysbryd, heb flino byth, ac heb amheu, am ei bod yn gweddio yn ei gwaith, mewn brwydrau a buddugoliaethau, oddi ar fyfyrdodau yn ngoleuni a gwres y Dydd Tragwyddol.

2. SICRWYDD YR ATEBIR GWEDDIAU EGLWYS PHILADELPHIA. Wrthynt hwy y dywed yr Arglwydd, "Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi; canys pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir" (Math. vii, 7, 8). Gweddiant yn ol ewyllys a threfn yr Arglwydd. Gofynant o'r galon, ceisiant a'r deall, a churant a'r bywyd. O ganlyniad, y mae holl natur a phriodoliaethau yr Arglwydd o'u plaid, felly ei fwriadau, ei addewidion, yr oll o'r Gair, yr oll o'r nef, a'r oll o deyrnas yr Arglwydd yn y byd. Rhydd yr Arglwydd ei Air y cant

eu hateb. Ystyrier cadernid Gair yr Arglwydd. Y Gair sydd yn creu a chynal pob peth, a'r Gair a saif yn dragywydd. "Nef a daear a ant heibio, eithr fy ngeiriau i nid ant heibio ddim" (Math. xxiv, 35). Rhydd hefyd resymau boddhaol o'r bywyd naturiol, y gwna wrando ac ateb gweddiau. Amryw ftyrdd sydd o resymu. Noder dwy ffordd neillduol, sef o'r *mwyaf i'r lleiaf*, ac o'r *lleiaf i'r mwyaf*. Arferir y ddwy ffordd yn y Gair. O'r *mwyaf i'r lleiaf*, megys, er esiampl, rhesymau fod yr Arglwydd yn clywed, yn gweled, a gwybod pob peth. "Ystyriwch chwi, rai anoeth yn mysg y bobl; ac ynfydion, pa bryd y deallwch? Oni chlyw yr hwn a blanodd y glust? Oni wel yr hwn a luniodd y llygad? Oni cherydda yr hwn a gosba y cenhedloedd? Oni wyr yr hwn sydd yn dysgu gwybodaeth i ddyn?" (Salm xciv, 8-10). *Rhesymau* yn profi barnau ar wrthodwyr a chablwyr y Gair. "Canys, os gwnant hyn yn y pren ir, pa beth a wneir yn y crin?" (Luc xxiii, 31). *Rhesymau* i ddangos diwedd truenus yr anuwiol. "Ac os braidd y mae y cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr anuwiol a'r pechadur?" (I Petr iv, 18). *Rhesymau* yn dangos y rhydd yr Arglwydd bob peth i'r rhai a'i carant. "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd drosom ni oll, pa wedd, gydag ef hefyd, na ddyry Efe i ni bob peth" (Rhuf. viii, 32). O'r *lleiaf i'r mwyaf*. *Rhesymau* o'r barnwr anghyfiawn yn gwrando y weddw, i Farnydd yr holl ddaear, yn gwrando ei etholedigion. "Gwrandewch beth a ddywed y barnwr anghyfiawn, Ac oni ddial Duw ei etholedigion, sydd yn llefain arno ddydd a nos?" (Luc xviii, 1-8). *Rhesymau* hefyd o'r tad meidrol a drwg i'r Tad Anfeidrol a da, y gwrandewir plant y deyrnas. "Os chwychwi, gan hyny, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd, betnau da i'r rhai a ofynant iddo?" (Math. vii, 11). Y tad a deimla dros y plant, sylwa arnynt yn fwy nac ar ddim arall, glyna wrthynt, darpara ar eu cyfer, ac a ymhyfryda ynddynt. Beth yw yr olygfa harddaf i arlunydd neu fardd? Y mor, y maes, y mynydd, neu y nef serenog ar noson glir? Ond i'r tad, yr olygfa harddaf yw gwyneb ei blentyn. Beth yw yr olygfa harddaf i arlunwyr a beirdd y byd ysbrydol? Y mor o wydr, paradwys Duw, mynydd Sion, dinas Duw, neu yr orseddfainc wen fawr? Ond yr olygfa harddaf i'r Arglwydd yw ei blentyn yn galw arno yn grynedig ac anwyl. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd: Y nef yw fy ngorseddfainc, a'r ddaear yw lleithig fy nhraed . . . ond ar hwn yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, ac sydd yn crynu wrth fy Ngair" (Esaiah lxvi, 1, 2). Beth yw y sain bereiddiaf i gerddor? Murmur yr afon, twrf y

tonau, si yr awel, bloedd y daran, bref yr oen, can yr eos, neu lais dynol? Ond llais ei blentyn yn galw arno yw y pereiddiaf i'r tad. Pa gyweirnod yw y goreu gan gerddorion a thelynorion y tair nefoedd? Ond cri y galon bur yn galw Abba, Dad, yw y goreu gan Dduw. Y peirianydd a esyd y rhodau i droi, a'r peiriant i weithio, ond ei blentyn a dyn ato, cyfyd ef i'w fynwes, cofleidia a chusana ef yn anwyl. Y Duwdod a droa rodau y bydoedd, ceidw y cysawdau yn eu gwaith; ond ei blant a neillduo Efe iddo ei Hun, i'w coleddu a'u cofleidio. "Ti, yr Hwn a wrandewi weddi. Gwyn ei fyd yr hwn a ddewisech, ac a nesaech atat" (Salm lxv, 4). "Os chwychwi, gan hyny, a chwi yn ddrwg, a fedrwch roddi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef bethau da i'r rhai a ofynant ganddo?" (Math. vii, 11). Pa faint mwy? Gellir pwyso a mesur pethau meidrol, ond pwy all bwyso a mesur pethau anfeidrol? "Pa faint mwy?" Ni wna tragwyddoldeb ond adleisio y gofyniad, "Pa faint mwy?"

3. YR ATEBION I WEDDIAU EGLWYS PHILADELPHIA. Gweddi unol a dibaid dynion ac angylion Eglwys Philadelphia yw y gallu cryfaf a'r rhyfeddaf mewn bod, a diffael yw yr atebion. Ystyrier y profion canlynol yn mhrofiadau y gweddiwyr.

1. Cyfyd yr enaid i ganolbwynt y bydysawd. Y rhai a weddiant tu allan i Eglwys Philadelphia, eu canolbwynt sydd ynddynt eu hunain, ac yn y byd, ac felly yn uffern. Ond y rhai a weddiant yn Eglwys Philadelphia, sydd a'u canolbwynt yn y Creawdwr, tu fewn i'r bydoedd a'r oesoedd oll. "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi" (Salm lxxiii, 25). Gweddi yn nghalon yr Anfeidrol Ddyn sydd anmhosibl i ddyn drwg. Y goleu a'r gwres a'i gwallgofai. Cyffyrddiad yr Hollwybodol a agorai feddau aneirif mynwent fawr ei gof, ac adgyfodai pechodau, a drychiolaethau dirgelaidd ei enaid i'w ddychrynu. Ni fedr, ac ni feiddia weddio yn y Presenoldeb Dwyfol. Rhith-weddiau rhagrithwyr, nid ydynt ond ymgais i dwyllo dynion, ac i ymguddio rhag y Duwdod. Ond yr hwn a weddia yn yr Eglwys sydd yn caru dyn, a esgyna uwchlaw iddo ei hun, ei waelder a'i drueni, gan sicrhau croesaw a chartref yn yr Anfeidrol a'r Tragwyddol Fod. Gall ellyllon yr hen fywyd ei amgylchu, ond goleuni o'r canolbwynt a'i halltudia tu draw i derfynau y bywyd newydd. Gall y gweddiwr edrych yn wylaidd i wyneb yr Hollwybodol, a gweled ynddo gariad a thangnefedd anherfynol, heb wg na dig. Bywyd oddi wrth yr Arglwydd yw edrych ar yr Arglwydd o'r Arglwydd; yna gwel dyn ei ddiddymdra a'i ddinystr ei hun, ac mai yr Arglwydd

yw pobpeth. Gweddio yn yr Arglwydd yw colli pob teimlad o unigedd, am fod y gweddiwr yma gyda'i Dad, gartref ar ei aelwyd. "O herwydd hyn, yr wyf yn plygu fy ngluniau at Dad ein Harglwydd Iesu Grist, o'r Hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd, ac ar y ddaear" (Eph. iii, 14, 15).

2. Agora yr enaid i'r dylifiadau dwyfol ac angylaidd. Pan fyddo yr enaid mewn myfyrdod a gweddi yn esgyn i ganolbwynt y bydysawd, gan ymguddio gyda Christ yn Nuw, ymagora i'r dylifiadau dwyfol ac angylaidd, i'w dreiddio a'i drwytho a bywyd goruwch-naturiol. "O byrth, dyrchefwch eich penau; ac ymddyrchefwch, ddrysau tragwyddol; a Brenin y gogoniant a ddaw i mewn" (Salm xxiv, 7). Nid mewn pleserau cnawdol, nac elw, nac esmwythfyd, na chlod, y cawn napusrwydd, ond mewn cael ein llanw o'r Arglwydd. Efe yn unig hefyd all ein llanw, a diwallu ein deall a'n serchiadau. Hebddo, bydd bwlch bythol yn ein dedwyddwch, a gwagder yn ein hysbryd. Ond Efe, trwy weddio y Gair, a'n lleinw fel y *tide* yn llanw y traeth, a'r weilgi o'r tu cefn iddo, ton ar ol ton, yn araf a chwareus ar y cyntaf, ond yn enill tir, ac yn llithro i bob cilfach ac ogof ac agen, yn cuddio y cregin a godreuon y creigiau, a gwella pob crac a chraith yn y tywod. Efe a'n lleinw, fel yr haf yn llanw y wlad a goleu ac a gwres, yn llanw y coedydd a dail, yn gorchuddio y meusydd a glaswellt ac yd, ac yn gwisgo y moelydd a'r bryniau a bywyd a harddwch. Efe a'n lleinw, fel y gwna ymborth maethlon lanw y cyfansoddiad, digoni ei holl anghenion, ei foddio a'i faethu. "Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron, ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd" (Salm xvi, 11).

3. Dyogela yr enaid rhag rhuthr a rhaib yr uffernolion. Trwy weddi yr agorir yr enaid oddi uchod i'r nefoedd, cauir ef oddi isod rhag y byd a'r uffernoedd, ac amgylchir ef a chylchoedd ysbrydol a nefolaidd i'w ddyogelu rhag yr uffernolion. Sonia gwyddonwyr am greadur bychan, yn casglu o'i gylch wisg o awyr a thrydan, y disgyna ynddi i waelod y llynoedd, heb gael ei wlychu na'i niweidio. Tebyg yw gweddiwyr Eglwys Philadelphia; amgylchir hwynt a gwisg oruwch-naturiol, awyrgylchau, a thrydanau y tair nefoedd, yn eu dyogelu rhag llynoedd ac afonydd y fall. "Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch, felly y mae yr Arglwydd o amgylch ei bobl, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd" (Salm cxxv, 2). Mur y ddinas, hefyd, a'r deuddeg sylfaen, a'r ddinas ei hun o aur pur, a'i goleu, sydd y fath, "Nid a i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra, na chelwydd" (Dat. xxi, 27).

4. Galluoga yr enaid i reoli y corph. Trwy weddi o'r Gair ar y Dyn Anfeidrol, dylifa y nefoedd i'r enaid, a thrwy yr

enaid i'r corph, yn cyrhaeddyd trwy yr ymenydd, y gewynau, y gwaed, yr aelodau, a'r synhwyrau oll. Y gweddiwr a gosba ei gorph, ac a'i dug yn gaeth, ac a ddeisyf sancteiddiad cyflawn. "A gwir Dduw y tangnefedd a'ch sancteiddio yn gwbl oll; a chadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid, a'ch corph, yn ddiargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist" (I Thes. v, 23).

5. Bendithia yr enaid a dawn i adwaen yr ysbrydion. Y gweddiwr trwy weddi a adnebydd ei hun, ac a adnebydd farn y nef am dano. Pan oedd Daniel yn gweddio o'r Gair, dywedodd angel wrtho, "Daniel, wr anwyl, deall y geiriau a lefaraf wrthyt" (Dan. x, 11). Daeth Daniel i wybod trwy weddi ei fod yn wr anwyl yn y nefoedd, a bod ei bryderon a'i bleserau yn tarddu oddi yno. Y mae barn am dano gan y Babiloniaid, gan y byd, a chan uffern; ond barn y nef yn unig sydd o bwys ganddo ef—"Gwr anwyl." Anwyliaid angylion yw gweddiwyr Eglwys Philadelphia, a gwyddant hyny trwy eu gweddiau. Eu hysbryd gweddi hefyd, fel gwresfesurydd nefol, a ddengys ansawdd hin yr Eglwys, ac a brawf yr ysbrydion yn mhob man. Y mae peirianau gweddio gan olynwyr Budha yn yr India; gosodir rhesi o honynt ar y ffyrdd i'r temlau. Troir rhai o'r peirianau hyn fel melinau, trwy rodau dwfr, eraill trwy rodau gwynt. Gwyr gweddiwyr Eglwys Philadelphia nad yw pwlpudau, capelau, ac eglwysi yr oes, ond peirianau paganaidd gweddio, yn cael eu hysgogi gan elfenau y byd, a'r cnawd, a gwynt y fall. Pa fodd y gall fod yn amgen, gyda'r fath dywyllwch, anghyfiawnder, a chreulonderau yn cael noddfa yn eu cysgod!

6. Neilldua yr enaid oddi wrth gymdeithion a chymdeithasau drwg. "A Mab y Dyn, pan ddel yn ei ogoniant, a'r holl angylion sanctaidd gydag Ef, yna yr eistedd ar orseddfainc ei ogoniant. A chydgesglir ger ei fron Ef yr holl genhedloedd; ac Efe a'i didola hwynt, megys y didola y bugail y defaid oddi wrth y geifr" (Math. xxv, 31, 32). Yn nglyn a gweddiau Eglwys Philadelphia, ymweithia y dylifiadau dwyfol yn eneidiau dynion. Tarddiad y dylifiadau yw y Dyn Anfeidrol, haul y nef angylaidd, yn gollwng o hono ei Hun, wres, a goleuni, a thrydan, ac awyr dwyfol. Pan ddylifant yn fwyn a chymhedrol, didolir y da oddi wrth y drwg; pan ddylifant yn gryf ac angherddol, didolir y drwg oddi wrth y da. Hyn olygir wrth y geiriau, "Mi a welais bedwar angel yn sefyll ar bedair congl y ddaear, yn dal pedwar gwynt y ddaear, fel na chwythai y gwynt ar y ddaear, nac ar y mor, nac ar un pren. Ac mi a welais angel arall yn dyfod i fyny oddi wrth godiad haul, a sel y Duw byw ganddo" (Dat. vii, 1, 2). Gelwir ar y rhai sydd wedi eu selio yn eu talcenau, sef y rhai

dderbyniant y dylifiadau dwyfol i'w deall a'u hewyllys, i ymddidoli, er mwyn dyogelwch a defnyddioldeb. "Ac mi a glywais lef arall o'r nef yn dywedyd, Deuwch allan o honi hi, fy mhibl i, fel na fyddoch gydgyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phlaau hi" (Dat. xviii, 4).

7. Boddia yr enaid ag atebion mewn arwyddion a rhyfeddodau allanol. Gweddiodd gwas Abraham, ac wele, yr angel yn ei arwain at Rebecca. Gweddiodd Jacob, ac wele Bethel yn dy i Dduw, a phorth i'r nefoedd. Gweddiodd Moses, ac wele arwyddion a rhyfeddodau yn llanw yr Aipht, yn agor y mor, ac yn dirgrynu Sinai. Gweddiodd Josua, ac wele dywysog llu yr Arglwydd yn llwyddo y fyddin. Gweddiodd Hanah, ac wele Samuel yn cael ei eni. Gweddiodd Samuel, ac wele fellt a tharanau yn drysu y Philistiaid. Gweddiodd Dafydd, ac wele gynghor Ahitophel yn troi yn ffolineb, a'r cynghorwr ynfyd yn crogi ei hun. Gweddiodd Solomon, ac wele y Presenoldeb Dwyfol yn llanw y Deml. Gweddiodd Asa a Jehosaphat, ac wele fuddugoliaeth ar y gelynion. Gweddiodd Esaiah ac Hezeciah, ac wele angel yn lladd cant a phedwar ugain a phump o filoedd o'r Asyriaid yr un nos. Gweddiodd Elias, ac wele y nef yn cau rhag gwlaw, ac wedi hyny yn agor. Gweddiodd Eliseus, ac wele yr Iorddonen yn rhanu. Gweddiodd Ezra a Nehemiah, ac wele Dduw y nefoedd yn eu llwyddo. Gweddiodd yr Apostolion, ac wele y Pentecost yn ysgwyd y torfeydd. Gweddiodd yr Eglwys, ac wele Petr yn dyfod yn rhydd o'i gadwynau, a'r angel yn ei ddwyn allan o'r carchar, a'r porth haiarn yn agor o hono ei hun. Gweddiodd Eglwys Philadelphia ar lan Teifi, ac ar lan Tawe, ac wele y Dyn Anfeidrol yn ei didoli, yn dyogelu ei dirwest, ei hanibyniaeth, a'i ffydd, a gollwng y goleu i lawer cyfeiriad, yn cynwys arwyddion a rhyfeddodau Duw. Y mae i weddiau, effeithiau agos a phell; effeithiant ar yr oes hon, a'r oesau dilynol, ac ar dragwyddoldeb. "Ac Abraham a ddywedodd wrth Dduw, O na byddai fyw Ismael ger dy fron di! . . . Am Ismael hefyd y'th wrandewais (medd yr Arglwydd); wele, mi a'i bendithiais ef, a mi a'i ffrwythlonaf ef, ac a'i lluosogaf yn aml iawn: deuddeg tywysog a genhedla efe, a mi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth fawr" (Gen. xvii, 18, 20). Wele arwyddion a rhyfeddodau agos a phell yn canlyn gweddi Abraham. Deillion i'r Arglwydd a'i ddwyfol drefn, a edrychant ar luosogiad Ismael, a'r cyffelyb, fel effeithiau naturiol heb gysylltiad a gweddi. Ond y Gair a'n dysg yn amgen. Dyma anogaeth i ni weddio dros ein plant a'n pobl. Bendithion, trwy weddiau anwyl yn ewyllys y Dyn Anfeidrol, a dreiglant yn ddiderfyn yn ffrydlifoedd bywyd, i bob byd ac i bob bod.

Caiff y gweddiwr atebion tra rhagorol, y tu hwnt i bob peth y mae yn eu dymuno, neu yn eu meddwl, yn ol y nerth sydd yn gweithredu ynddo. Pan y mae plentyn yn yr ardd yn siglo y pren er mwyn cael afal, wele, afalau lawer yn cwympo o'i gwmpas. Siglo Pren y Bywyd am ffrwyth, yw gweddiau Eglwys Philadelphia, ac wele y ffrwythau yn disgyn yn drwchus a thra digonol, tu yma a thu draw i derfynau amser. Atebion gweddi a ddilynant eu gilydd, fel pan gyfyd seren unig yn y gorwel hwyrol, wele ser anrhaethol nifer yn canlyn yn y ceugant mawr, y Pleiades, y trwpser, Orion, Arcturus, a Chaergwydion, nes ymgolli o honom mewn syndod a mawl yn ngolygfaon y claergylchau dirifedi.

4. Gwagedd ac Oferedd Gweddiau Gelynion Eglwys Philadelphia. Gweddiau Phariseaid lluosog yr oes, gwagedd ac oferedd ydynt, a gelynol i weddiau Eglwys Philadelphia, oblegyd gweddiant o honynt eu hunain, o'r cnawd, a'r byd, ac nid o'r Dyn Anfeidrol, o'r Gair, a'r nefoedd. Eu gweddiau, gan hyny, a agorant eu heneidiau i'r ffrydlifoedd uffernol, i'w dallu, eu twyllo, eu creuloni, a'u harfogi i felldith. Trwy eu gweddiau a'u gwaith, gwnant amod ag angau, a chyngrair ag uffern (Esaiah xxviii, 15). Pan ymgyfathrachodd Jehosaphat ag Ahab, Jehu mab Hanani y gweledydd a ddywedodd wrtho, "Ai cynorthwyo yr anuwiol, a charu y rhai oedd yn casau yr Arglwydd, a wnait ti? Am hyn, digofaint oddi wrth yr Arglwydd sydd arnat ti" (II Cron. xix, 2). "Wrth yr anuwiol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymrech ar fy nghyfamod yn dy enau, gan dy fod yn casau addysg ac yn taflu fy ngeiriau o'th ol? Pan welaist leidr, cytunaist ag ef; a'th gyfran oedd gyda'r godinebwyr" (Salm l, 16, 17). Wrth dywysogion Sodom a phobl Gomorah, y dywed yr Arglwydd, "Gwrandewch Air yr Arglwydd, tywysogion Sodom; clywch gyfraith ein Duw ni, pobl Gomorah. Beth yw lluosowgrwydd eich aberthau i mi? medd yr Arglwydd. Llawn ydwyf o boeth aberthau hyrddod . . . Pan ddeloch i ymddangos ger fy mron, pwy a geisiodd hyn ar eich llaw, sef sengi fy nghynteddoedd" etc. (Esaiah i, 10-15). Cicaion i anuwioldeb yw gweddiau a chrefydd yr oes; ffug yw y frwydr a phechod: *skiomaka*, sef dynion yn ymladd a'u cysgod. Gorfoledda crefyddwyr mewn anfadwaith, fel y Jacobiaid yn yfed iechyd da i Sorrel y march, am anafu William o Orange, ac fel y dorf anwar yn rhoddi cymeradwyaeth hirfaith i'r Arglwydd Raglaw Clarendon yn dywedyd, "Os cyfarfyddwch a Kruger rywle tua Pretoria, gorfodwch ef i ganu Salmau y tu chwith i'w geg; ac am ei ragrith, gwthiwch y Salmau lawr i'w wddf a dogn o bylor, a thair modfedd o bidog i'w gadw yno."

Prif ddaliadau pregethwyr ac offeiriaid yw dal y gyflog fwyaf, a'r fywioliaeth frasaf. Eu hysglyfaeth, fel y cadnaw yn mynwes y lleidr o Sparta, a'i bwytant i'w coluddion, a'u gweddiau a ddychwelant ar eu penau yn gawodau o dan a brwmstan a phoethwynt ystormus. Gyrwch yn mlaen, rag-rithwyr, gweithiwch, addolwch a hir-weddiwch, gyda'r Ddraig a'r bwystfilod, yn erbyn y Briodasferch, Gwraig yr Oen. Crynhowch, o dan leni yr hirnos fawr, y magnelau, y mwsgedi, y pylor, a'r plwm, a'r lyddites, y gwnau Gatling, y Lancasters, yr Armstrongs, y Maxims, y Long Toms, y marchogion, y cad-lywyddion, y Kitcheners eglwysig, y Chamberlains capelaidd, y llongau rhyfel, y torpedoes, y gwaewffyn, y pig-ffyrch, y berau, y cleddyfau, y cadwyni, y ffrewyllau, a holl aneirif a diweddar eirf yr anwariaid, a holl fwaau aneledig tyrau duon anwn, yr holl gythreuliaid yn gwneuthur gwyrthiau, a'r holl fyd wedi ymgasglu i'r Armagedon, i ryfel dydd mawr Duw Hollalluog. Ymarfogwch, ymfyddinwch, gwaeth fydd eich tynged yn y man na'r Armada a hwyliodd o'r Tagus, ac a ddrylliwyd gan yr Ellmyn, gan y corwynt, gan y cefnfor, a chan y creigiau. "Beth a ddychmygwch yn erbyn yr Arglwydd? Efe a wna dranc; ni chyfyd blinder ddwywaith" (Nahum i, 9).

XI.—AGORIAD I DDIRWEST EGLWYS PHILADELPHIA.

Y rhyfel yn Hen Gapel Llechryd, rhwng Dirwest a'r Dafarn,—parhad ydoedd i'r byd o'r rhyfel yn y nef, rhwng Michael a'r Ddraig. "Michael a'i angylion a ryfelasant yn erbyn y Ddraig, a'r Ddraig a ryfelodd a'i hangylion hithau" (Dat. xii, 7). Y ple oedd, Pa un ai meddwdod neu sobrwydd sydd i reoli Ty yr Arglwydd? Pa un ai yr Arglwydd yn dywedyd wrth Aaron, "Gwin na diod gadarn, nac yf di, na'th feibion gyda thi, pan ddeloch i babell y cyfarfod: fel na byddoch feirw. Deddf dragwyddol trwy eich cenhedlaethau

fydd hyn" (Lev. x, 9); neu Nadab ac Abihu yn yfed, a rhuthro i dan y farn? Pa un ai henuriaid Israel, ordeiniedig i labyddio y meddwyn, fel y tyner y drwg ymaith, neu y glythion a'r meddwon hen nad ufuddhaent i lais y nefoedd? Pa un ai yr angel rhyfeddol ymddangosodd i wraig Manoah, yn gwahardd gwin a diod gadarn, neu Nabal ynfyd, feddw, a'i galon yn farw o'i fewn? Pa un ai Samuel, Nazaread, gweledydd, ac eneiniog yr Arglwydd, neu Hophni a Phinees, meibion Belial, nad adwaenent Dduw? Pa un ai y Rechabiaid, nad yfent win yn dragywydd, ac am hyny i sefyll byth ger bron yr Arglwydd, neu feddwon Ephraim, ac ardderchawgrwydd eu gogoniant yn flodeuyn diflanedig? Pa un ai Gabriel yn cyhoeddi genedigaeth rhagflaenor y Messiah, ac nad yfai win na diod gadarn, neu Herod a'i hiliogaeth yn tori pen prif brophwyd dirwestol y Duwdod? Dyma ddechreuad Armagedon yr Hen Gapel, a throdd y goncwest yno o blaid Nadab ac Abihu, a Nabal, a meddwon Ephraim, a Herod. Trodd dirwestwyr hefyd a chymdeithasau dirwestol gyda phwlpudau a chapelau Bachus, am y didolent ddirwest oddi wrth rinweddau eraill, ac am nad adwaenent yr Arglwydd yn ei Ail-Ddyfodiad. Rhaid cael haul, a lloer, a ser uwchben y byd, cyn cadw bywyd mewn un planhigyn; a rhaid cael yr Arglwydd a'i luoedd i lewyrchu yn yr enaid, cyn cadw bywyd mewn dirwest. Pan ddaw gwawr yr haf i ddechreu harddu ochrau y cloddiau a briallu, ac hosanau y gwcw, ni erys nes addurno y bronydd a blodau, hulio y meusydd a meillion, ac harddu y bryniau a garlantau Gorphenaf. A phan y mae Dirwest yr Ail Ddyfodiad yn dechreu harddu dyn, "Efe a flodeua fel y lili, ac a leda ei wraidd megys Libanus. Ei geingciau a gerddant, a bydd ei degwch fel yr olew-wydden, a'i arogl fel Libanus" (Hosea xiv, 5, 6). Sylwn:—

I. Tarddiad Meddwdod. II. Tri Meddwdod. III. Meddyginiaeth oddi wrth Feddwdod. IV. Pregethu yn erbyn Meddwdod. V. Gweddio am ddileu y Fasnach Feddwol. VI. Didoliad gau-Ddirwestwyr. VII. Dyogelwch Dirwestwyr Philadelphia.

1. Tarddiad Meddwdod. Pob peth a grea Duw sydd dda a defnyddiol: da a defnyddiol fel y perthynant i ddyn, a thrwy ddyn i'r Arglwydd. Amcan bodolaeth y bydysawd materol yw, bod yn faes i godi yr hil ddynol i'r nef angylaidd. Pob peth a grea Duw. gan hyny, sydd er lles dyn, sef er lles ei gorph, ei feddwl rhesymol, a'i natur ysbrydol. Nis gall dyn gael ei uno a Duw, heb iddo fod yn ysbrydol; nis gall fod yn ysbrydol heb fod yn rhesymol; ac nis gall fod yn rhesymol

heb gorph iach. Y pethau defnyddiol i gynal y corph a gynwysant ei fwyd, ei ddillad, ei dy, ei ddyogelwch, a'i fwynhad. Y pethau defnyddiol i'r meddwl rhesymol yw gwybodaeth am y bwyd, a'r dillad, a'r tai, a phobpeth perthynol i natur, a gwladwriaeth, a chymdeithas. Y pethau defnyddiol i natur ysbrydol dyn yw, pob peth perthynol i addoliad yr Arglwydd, nef ac uffern, a bywyd tragwyddol, datguddiedig yn y Gair, ac yn agoriadau Eglwys Philadelphia. Nid yr Arglwydd sydd yn creu pethau drwg a niweidiol, ond deilliant o uffern. Pob peth gwenwynol sydd yn y byd, yn y mwnau, y llysiau, a'r creaduriaid, nid o'r Arglwydd y maent, ond o uffern; megys yr holl hylifau a'r nwyon gwenwynol, yr holl lysiau a'r coedydd gwenwynol, yr holl greaduriaid gwenwynol a niweidiant ffrwythau, anifeiliaid, a dynion, megys ysgorpionau, seirph, locustiaid, copynod, lindys, cler, cacwniaid, a'r holl fwystfilod rheibus. Yr holl bethau hyn, nid ydynt o'r Arglwydd a'r nefoedd, ond o uffern, ac ymddangosant yno yn hollol fel ar y ddaear. Yn uffern y maent yn ddatguddiadau a chyfatebion trachwantau yr uffernolion. Dylifiadau o'r uffernoedd a ddyfal weithiant ynddynt. Gwenwyn fel meddyginiaeth, a effeithia fel sugnedydd sylweddau ffyrnig. Tebyg a dyn at ei debyg. Gellir felly ddefnyddio gwenwyn er lles. Yn ystod adenedigaeth dyn, llifa ysbrydion drwg i'w dueddiadau drwg, gan eu cyffroi, a thrwy hyny eu datguddio iddo, fel y gall eu concro; bu yr ysbrydion drwg hyn yn ddefnyddiol iddo. Felly sylweddau gwenwynol wedi eu cymeryd i'r corph, a gyffroant yr afiechyd, gan ei ddangos i'r gallu bywiol wylia dros fywyd ac iechyd y corph; a phan wrthweithia y gallu bywiol hwn, a choncro yr afiechyd trwy esgymuno y gwenwyn a'i creodd, gwnaeth y gwenwyn gymerwyd, les. Ond nid yw y lles yn newid natur yr ysbrydion aflan, na natur y gwenwyn. Gwenwyn llesol i iachau yr afiach, ni ddylid byth ei arfer gan yr iach; oblegyd, y gwenwyn gynorthwya i iachau yr afiach, a grea yr un afiechyd yn yr iach. Gwenwyn yw y gwirf, sef yr *alcohol*, yn niweidio yn ofnadwy y corph a'r meddwl, yn cyffroi a chreu doluriau, a gwallgofrwydd. Y gref am dano, o'i arfer, a gynydda, gan lofruddio anghenion natur; ac o'i fawr a'i hir arfer, nis gellir llwyr ymatal heb boenau dirdynol, ac weithiau y *delirium tremens*. Am yfwyr *alcohol* mewn unrhyw ffurf, gwir yw Gair yr Arglwydd, "Gwenwyn dreigiau yw eu gwin hwynt, a chreulawn wenwyn aspiaid" (Deut. xxxii, 33). Achosion a fodolant yn y byd ysbrydol, ac a ddylifant i'r byd naturiol trwy gyfatebiaeth. Y byd naturiol a ddaw allan o'r byd ysbrydol, yn ddelw o hono, ac a gynelir ganddo. Y mae pob peth yn y byd naturiol yn cyfateb i rywbeth yn y byd ysbrydol, ac ni all y naill fodoli heb y

llall, mwy na'r corph heb yr enaid. Pe peidiai y ser gyfateb i'r cymdeithasau angylaidd, diffoddent a diflanent yn y wybrenau; a phe peidiai pob peth gwenwynol a niweidiol yn y byd gyfateb i bethau gwenwynol a niweidiol y cynghreiriau cythreulig, peidiai pob gwenwyn a niwed ar y ddaear. Y pren Upas ysbrydol yw bywyd Bachus, a dybaco, ac opium, yn tyfu ar bydredd dynoliaeth: pren, fel prenau Arabia, a gwiberod yn ei ddringo. Dywedir i un o'r tylwyth teg nyddu edafedd mor fain, fel y gallodd rwymo y cewri, a'u cadw yn gaethion wrth ei thraed. Ac onid yw y cewri, trwy y gostrel, y cetyn hudol. a'r gwenwynoedd eraill, mewn cadwynau gan y diafol? Fel y mae brigau uchaf y pren, trwy y cangau, yn un a'r gwraidd, a'r gwraidd trwy y cangau yn dylifo i'r brigau, felly y mae pob blys, a phob pechod arall, yn dal cymundeb a'r pydew diwaelod. Trueni dyn sydd fawr arno, am nad yw yn ddedwydd ar ddigonedd o ddoniau maethlon natur, fel y brithyll yn yr afon, fel yr eidion yn y borfa, ac fel aderyn yn y coed. Dyn yn ei gref wallgofus a dry ei gorph yn gerwin gwirod, ei wythienau yn ffrydiau gwenwyn, ei ymenydd yn ffwrnais uffern, a'i enau yn ogof mwg a melldith. "Deffrowch, feddwyr, ac wylwch; ac udwch holl yfwyr gwin" (Joel i, 5). Cleopatra, brenhines yr Aipht, ar swper i Marcus Antonius, a doddodd berl, gwerth £5,000, mewn finegr, gan ei yfed yn ngwydd ynfydion mewn afrad ymffrost. Ond gwelir eneidiau aneirif, a phob un o honynt yn fwy o werth na'r byd, yn dadmer i drueni yn y ddiod feddwol. "Herwydd hyny yr ymeangodd uffern, ac yr agorodd ei safn yn anferth; ac yno y disgyn eu gogoniant, a'u lluaws, a'u rhwysg, a'r hwn a ymlawenycha ynddi" (Esaiah v, 14). Dylid alltudio o'r byd y fath gyfrwng difrodol, gwaeth na chyffeiriau erchyll Circe. Fel Clement o Alexandria, edmygwn y dyn sydd ddedwydd ar y dwfr, gan ochel gwin a diod gadarn fel fflamiau tan; am fod tan aniffoddadwy ynddynt ac yn achos o honynt.

"Tair ceiniog y peint!" a satan a chwarddai,
Tra yn ymyl y bar y bachgen ddrachtiai
Y gwlybwr cynhyrfiol (canys gwyddai ef
Pa erchyll waith wnai y ddiod gref).
A chyn y boreu, y truan gaed
Yn gorwedd yn farw yn ei waed.

Ac O! y pris a dalodd weithian,
Am y gwydraid cwrw a'r cwmni dyddan,—
Pris llymaid i yfed! Pwy wyr yn well
Na'r llofrudd sydd heno yn ei gell?
Yn teimlo ei fod eisoes wedi ei ddamnio,
A'r tan na ddiffydd o'i fewn yn fflamio?

Geirda, cydwybod, anrhydedd, a rhinwedd,
Cariad, gwirionedd, a diwair fuchedd,
Urddas, uchelfri, cyfoeth, clod,
Aiddgar ymdrech, ac uchel nod,—
Dyma'r trysorau gwerthfawr, drud,
Werir am wirod o bryd i bryd.

N. R.

2. TRI MEDDWDOD. "Na fydd yn mysg y rhai sydd yn meddwi ar win" (Diar. xxiii, 20). "Am hyny, gwrando fi yn awr, y druan a'r feddw, ac nid ar win" (Esaiah li, 21). "Efe a'm meddwodd i ar wermod" (Gal. iii, 15). "A'u tir hwynt a feddwa o'u gwaed hwynt" (Esaiah xxxiv, 7). "Mi a welais y wraig yn feddw gan waed y saint" (Dat. xvii, 6). Cawn yn y geiriau hyn, gyfeiriad at dri math o feddwdod. *Meddwi ar win*, yn cynwys meddwi ar wenwyn, megys alcohol, nicotine, opium, a phob sylwedd gwenwynol arall. *Meddwi ar wermod*, yn cynwys meddwi ar dwyll, a ffalsder, a chyfeiliornadau. *Meddwi ar waed*, yn cynwys meddwi ar drais, a dialedd, a chreulonder a chelanedd rhyfel. Yr eglwys a'r byd sydd heddyw yn rholio yn y tri meddwdod. Yr wstrws, yr ysbwng, a *squirts* y mor, sef y math isaf o greaduriaid, a wreiddiant yn y cefnfor, fel y coedydd ar y tir. Felly y gwreiddia yr eglwysi yn eigion moroedd o wirod, o wermod, a gwaed. Gwenwyn a chelanedd yw eu bwyd a'u diod; a thyfant heb ymenydd moesol, na chalon, na chydwybod. Cref am gwrw, am gelwydd, ac am waed, sydd gref am gyffeiriau uffernol, yn gwyrdroi natur, yn treisio bywyd, yn lladd rheswm, ac yn difa gweddillion delw Duw ar ddyn. Trwy y tri meddwdod, rhoddir rhyddid i uffern ar y ddaear. Purdeb, prydferthwch, a mwyniant bywyd y nefoedd a ddiflanant, fel y gwyrddlesni yn ardal drist Treforris a Glandwr, trwy dawch y ffwrneisiau yn duo a deifio pob peth. Ond cysegrir ac addolir y tawch, a'r tan uffernol, a'u dylanwad, gan dywysogion teyrnas nefoedd (?) Adeiledid temlau, a chodid delwau gynt i ymerawdwyr Rhufain; addolid dynion yn lle duwiau, a phenodid offeiriaid ac esgobion i gyflwyno iddynt warogaeth anuwiol. Ond yn awr, addolir yn benaf y rhai mwyaf medrus i feddwi ac andwyo y byd a gwirodydd, ag anwireddau, ac a gwaed a chelanedd. Dyma dy dduwiau di, O Brydain! a'u hoffeiriaid, a'u haddolwyr yn dinystrio dinas Duw, fel Nero yn tanio Rhufain, a gollwng holl gasgliad ei fwystfilod rheibus yn rhydd ar y bobl; ac fel Probus, yn gollwng yn rhydd yn y chwareule yr un pryd, fil o estrysiaid, mil o geirw, mil o foch gwylltion, mil o fleiddiaid, mil o lewod, a lluaws aneirif o fwystfilod rheibus eraill. Dewiswn fyw mewn coedwig, yn mhlith gwylltfilod, a chysgu dan y ser, nag aros yn esmwyth

yn y ffauau a elwir eglwysi. Mewn zel a chyda dagrau lawer, y buom yn ceisio troi rhai o honynt yn gorlanau defaid. Ond ffoi oedd raid, gan mor ffyrnig oedd y cnoi a'r traflyncu. Ond gwaed a dagrau y diniwed a'r didwyll, a ddisgynant yn dan a brwmstan ar ben y traflyncwyr. "Y neb sydd yn eich trallodi, a ddwg farnedigaeth, pwy bynag fyddo" (Gal. v, 10). Y deyrnas ddyfnaf yn y tri meddwdod yw Prydain. Babilon fawr y byd ydyw, yn feddw ar waed y saint, ac yn meddwi yr holl genhedloedd a gwin llid a godineb, ac i syrthio fel maen melin i'r eigion, er gorfoledd i'r nefolion leoedd.

Llindagodd ddwy weriniaeth,
O anferth frad lofruddiaeth,
Dry'n fythol warth ac alaeth.

N. R.

3. MEDDYGINIAETH ODDI WRTH FEDDWDOD. Y consurwyr a arferent eiriau chwerwon, er gyru allan, fel a ffrewyllau, reibiaeth ac ellyllon o gyrph dynol. Galwent hwynt yn fwystfilod clafrllyd, crychiog, a gorfwystfilaidd; yn ysbrydion pardduog o Tartarus; yn gystogiaid drewedig; yn aspiaid rhwd-liwiog; a gwiberod gwenwynol. Meddwdod yn mhob agwedd a haedda y ceryddon chwerwaf. Cordedder geiriau cryfaf y Gymraeg i'w gondemnio; a bloeddier hwynt gyda grym yr Euroclydon, gyda thwrf taranau a daeargrynfaau; eto, nis gellir ei yru ymaith heb allu goruwch-naturiol. "Y rhyw hwn ni all er dim ddyfod allan, ond trwy weddi ac ympryd" (Marc ix, 29). Gan mai ysbrydol yw achos meddwdod, ysbrydol yw y feddyginiaeth. Rhaid puro ffrydlif bywyd yn y ffynon. Y mae tair ffynonell gweithrediadau yn y corph, sef yr ymenydd, y galon, a'r ysgyfaint. Ac y mae tair ffynonell gweithrediadau yn yr enaid duwiol, sef ymenydd, calon, ac ysgyfaint y dyn newydd, yn cyfateb i ymenydd, a chalon, ac ysgyfaint y Dyn Mawreddog, sef y nefoedd; ac i ymenydd, calon, ac ysgyfaint y Dyn Anfeidrol, sef yr Arglwydd Iesu Grist. O'r Ddynoliaeth Ddwyfol, a dynoliaeth y nefoedd, y deillia galluoedd a phleserau purdeb i ddyn. Pwerau aneirif a gytunant i godi, glanhau, a chysuro y dyn sydd mewn cydsain a dynion y nefoedd, ac mewn cydsain a'r Dyn sydd a'r Duwdod yn trigo ynddo. Telyn dragwyddol yw ei gyfansoddiad, yn chwareu dan dywyniadau haul y byd angylaidd, fel telyn Memnon dan belydrau haul y byd hwn. Dyn o'r fath a deimla ac a wel fod y cwpan a'r bibell, y celwydd a'r cleddyf, yn tori tanau y delyn, yn tywyllu yr haul angylaidd, yn cablu yr Ysbryd Glan, ac ail groeshoelio Mab Duw a'i osod yn watwar. Y goleu a'i galon newydd a'i gorfoda i gadw yr Arglwydd yn fyw ynddo ei hun. Pan fethodd Pompey berswadio ei filwyr i aros yn y gwersyll, gorweddodd yn groes i'r porth cyfyng

arweiniai allan o hono, gan ddywedyd, "Ewch, os mynwch, ond rhaid i chwi yn gyntaf fathru eich cadfridog." Felly y dyn a groesa drothwy y dafarn am ddiod feddwol, neu drothwy y siop am bibell a myglys, neu drothwy capel a llan am draddodiadau a rhagrith, neu drothwy gwlad a theyrnas i dywallt gwaed gwirion: mathra waed y taenelliad, a Chapten mawr ein hiachawdwriaeth. Cedwir y goludog weithiau rhag drwg trwy or-ddigonedd, y tlawd trwy brinder, ond y duwiol trwy ofn Duw. "Ofn yr Arglwydd sydd lan, yn parhau yn dragywydd" (Salm xix, 9) Pan rydd yr yfwr a'r ysmociwr y dognau gwenwyn heibio, oera tymheredd y corph, aiff y gwaed yn wydn, gan gerdded yn araf fel mewn ymlusgiaid; y dymher a bruddha, a'r meddwl gwamal sudda i anobaith. Pan el yr ysbryd aflan allan o ddyn, hwy a'i rhwygant, gan ei boenydio yn fawr, ac ni chaiff esmwythder nes cau pyrth uffern yn ei gyfansoddiad, ac agor pyrth y nefoedd. Rhaid cloi y cythreuliaid allan, a'u newynu, trwy lwyrymwrthodiad, ympryd, a gweddi, cyn y daw yr Arglwydd a'r angylion i lanw eu lle. Tymor o dreial a dyoddef yw dirwest ar y cyntaf i ddyn blysig. Caiff ei demtio yn ddyfal i ail-gymodi a'i elynion, a rhoddi ei hun yn gartref iddynt i ail-gyneu tanau uffern o'i fewn. Dylai dyn yn y trueni hwn gael cydymdeimlad eneidiau glan a thyner. Enbyd yw dirwest heb Dduw na'r Gair. Creulon yw cipio bara dyn a rhoddi iddo gareg; a chreulon yw cymeryd ymaith ei gwpan a'i bibell, a'i adael yn yr anialwch heb y manna o'r nef, heb wialen Duw i daro y graig, heb y golofn i'w chanlyn, ac heb wlad yn llifeirio o laeth a mel o'i flaen. Tosturier wrth ddyn yn y dirdyniadau yn diwygio, a chluder iddo ddawn Duw ar edyn can a gweddi. Dysger ef hefyd yn daer i ddysgwyl am ddyfodiad yr Arglwydd, i'w oleuo, i'w lanhau, a'i lanw fel y gwna haul oleuo, glanhau, a llanw yr awyr. Dysger ef i beidio gorphwys nes esgyn i fynwes y nef angylaidd, ac i galon Iesu Grist, gan agor ei hun i holl ffrydlifoedd a phleserau bywyd tragwyddol. Yna y daw yn drigfa Tad y trugareddau, a chysegr i'r Goruchaf. "Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod ysbryd Duw yn trigo ynoch?" (I Cor. iii, 16). Dedwyddwch y nefoedd a etifedda efe yn awr, a drych yw i arddangos y Crewr a'r greadigaeth newydd, golygfa fwy na'r byd naturiol. Megys y dywedodd Toxaris wrth gyfaill, "Mi a ddangosaf i ti ar unwaith holl ryfeddodau Groeg: wrth weled Solon, ti a weli y cwbl." Felly hefyd, gweled dyn diwygiedig ac ail-anedig, yw gweled y nef a'r ddaear newydd.

4. PREGETHU YN ERBYN MEDDWDOD. Eglwys Philadelphia, sef yr Eglwys sydd yn caru dyn, a gyhoedda yr Efengyl wrth ddal diota, cyfeddach, a meddwdod, yn ngoleuni

gwyneb y Dyn Anfeidrol, a phob pelydr yn curo ar feddwdod gyda grym ergydion tragwyddol fyd. "Ac edrychwch arnoch eich hunain, rhag i'ch calonau un amser drymhau trwy lythineb a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn, a dyfod y dydd hwnw arnoch yn ddisymwth. Canys Efe a ddaw fel magl, ar warthaf pawb oll ar sydd yn trigo ar wyneb yr holl ddaear. Gwyliwch, gan hyny, a gweddiwch bob amser, ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddianc rhag y pethau hyn oll sydd ar ddyfod, ac i sefyll ger bron Mab y Dyn" (Luc xxi, 34-36). Yn y geiriau uchod, cawn reswm y Dyn Anfeidrol yn erbyn meddwdod, ei fod yn trymhau y galon, yn difa y teimlad ysbrydol, ac felly yn analluogi dyn i weled a mwynhau Duw, a'i anaddasu i'w roesawu yn ei ddyfodiad, ac i sefyll ger ei fron. Y goleu hwn a ddengys beth yw meddwdod, yr yfed yw a drymha y galon, o'r cywair byw a thyner y dylai fod ynddo yn chwareu yn ber dan ddylanwad y Presenoldeb Dwyfol, fel telyn Aeolus yn yr awel. Y goleu hwn yw efengyl ddirwestol yr Eglwys sydd yn caru dyn. Rhesymau israddol lawer sydd dros lwyrymwrthod, megys natur y ddiod feddwol, anghenion y corph, cysuron teuluaidd, masnach deg, ffyniant celfyddyd ac addysg, llwydd ac urddas y wladwriaeth, a dyogelwch meddianau, moesau, a bywyd. Ond prif reswm Eglwys Philadelphia yn erbyn y ddiod feddwol yw, yr anaf ysbrydol wna ar ddyn. Hon yw cenadwri y Gair; apelia at ddyn fel anfarwol fod—i uffern neu i'r nefoedd am dragwyddoldeb. "Hwy a gyfeiliornasant trwy win, ac a amryfusasant trwy ddiod gadarn." Beth yw y felldith? Ysbrydol, ac nid tymhorol, megys y dywedir, "Amryfusasant mewn gweledigaeth, tramgwyddasant mewn barn" (Esaiah xxviii, 7). Cododd niwloedd o'r gwydrau, rhyngddynt a Duw. Eto, "Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y delyn, a'r nabl, y dympan, a'r bibell, a'r gwin." Beth yw effeithiau y grechwen? "Ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw Ef nid ystyriant" (Esaiah v, 12). Eto, "Yn niwrnod ein brenin, y tywysogion a'u gwnaethant yn glaf a chostrelau gwin." Beth yw dylanwad y dwymyn feddwol? "Estynodd ei law gyda gwatwarwyr" (Hosea vii, 5). Eto, "Godineb a gwin." Beth yw ysbail y lladron? "A ddwg y galon ymaith" (Hosea iv, 11). Eto, "Heddwch fydd i mi, er i mi rodio yn nghyndynrwydd fy nghalon, i chwanegu meddwdod at syched." Beth yw yr anffawd? "Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo" (Deut. xxix, 19, 20). Eto, "Ond os dywed y gwas drwg hwnw yn ei galon, y mae fy Arglwydd yn oedi dyfod, a dechreu bwyta ac yfed gyda'r meddwon." Beth yw y gosb? "Arglwydd y gwas hwnw a ddaw yn y dydd nis gwybydd efe, ac Efe a'i gwahana ef, ac a esyd ei ran ef gyda'r rhagrithwyr,

yno y bydd wylofain a rhingcian danedd" (Math. xxiv, 48-51). Y mae dyn hefyd yn feddw i olwg Duw, cyn ei fod yn feddw i olwg dynion. Duw a wel y galon. Yno y dechreua meddwdod. Diod feddwol hefyd a effeithia drymaf ar y rhanau tyneraf: trymach ar y giau na'r esgyrn, trymach ar y gewynau na'r giau. Pa mor drwm ar y llinynau byw, a'r miliwnau edafedd meinion man a unant yr enaid a'r ymenydd? Dengys hyn fod yr yfwr yn chwibwrn feddw i Dduw, pan yn sobr i ddynion, a'r bendro yn ei enaid cyn ei bod yn ei gorph. Eto, cyfrifir yfwyr trwm a thrwyngoch yn dduwiolion parchus! Cewri y cwpan yn aml yw colofnau yr achos! Rhoddir y swyddau sanctaidd yn yr eglwys i'r Cretiaid ynfyd, drwg fwystfilod, boliau gorddiog! Nis gall fod yn yr eglwysi hyn ond cynghor yr anuwiolion, ffordd pechaduriaid, eisteddfa gwatwarwyr, a phwlpud rhagrithwyr. Sonir am gwpan yn Asia, y gwelid y bydysawd ynddo. Yn ngoleu Eglwys a Phwlpud Philadelphia, gwelir byd tragwyddol o wae yn y capelau hyn a'u cwpanau.

5. GWEDDIO AM DDILEU Y FASNACH FEDDWOL. Wedi cloi dirwest o dy Dduw yn Llechryd, cychwynodd Eglwys Philadelphia gwrdd gweddi dirwestol, misol, yn parhau o hyd. Gofynwn beth anhawdd—symud y fasnach feddwol o'r byd, yn cynwys symud blys miliwnau o yfwyr a smocwyr; symud gobaith yr elw o galonau bragwyr, darllawyr, tafarnwyr, a phob bywioliaeth arall trwy y difrod; symud deddfau anwir y teyrnasoedd yn trwyddedu y dinystr; symud dylanwad y pwlpud, y capelau, a'r llanoedd oll, yn cysegru y cyflafanau; symud meddwdod y gwaed sydd yn gorlifeirio y bobloedd a'r cenhedloedd; a symud uffern fawr i gyd yn nes i'w chartref. Ond, "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd: Os anhawdd yw hyn yn y dyddiau hyn yn ngolwg gweddill y bobl hyn, ai anhawdd fyddai hefyd yn fy ngolwg i? medd Arglwydd y lluoedd" (Zech. viii, 6). Hiraethem gael ein puro, fel y purodd Hercules y mor a'r tir oddi wrth gawrfilod. Yn ein gwendid, cydio ein hachos a wnaethom a gewynau gweddi, wrth gyhyrau Arglwydd y lluoedd, y Dirwestwr Anfeidrol, a chyfaill anfeidrol yr holl rinweddau. Profir fod y bydysawd materol yn un; fod y cysawd heulaidd yn bortread o'r aneirif fydoedd; fod yr heuliau oll yn cael eu hamgylchu gan blanedau; fod yr holl gysawdau yn dal cysylltiad a'u gilydd, yn cydymdeimlo, a chydgyfnewid goleu, gwres, tynwyrth, a thrydan—gwirioneddau goruchel am waith y Creawdwr. Ond cysgod ydynt o'r gwirioneddau uwch a rhyfeddach, sef fod y bydysawd ysbrydol yn un, fod y teyrnasoedd nefol, a'r aneirif gymdeithasau trwy eangderau y nefoedd, yn un a'u gilydd, ac a'r hil ddynol ar bob daearfyd. Pan fyddo dyn

duwiol ar y ddaear hon, yn darllen y Gair, yn meddwl, a gweddio o hono, y Gair, y meddwl, a'r weddi a dreiddiant ac a drydanant trwy yr holl nefoedd, gan uno y dyn, trwy gyfatebiaeth a chydymdeimlad, a phob angel yno, ac yn arbenig a'r gymdeithas angylaidd y perthyn efe iddi. Y mae dylanwad da un dyn duwiol yn trafaelu trwy dragwyddoldeb, a thrwy y daearfydoedd dirifedi. Yn y ffydd fawr hon yr ymorchestwn fyw mewn addoliad unol a'r gwaredigion oll, er hwylusu disgyniad Priodasferch Gwraig yr Oen, a'i dirwest dirion, i drigianu ar y ddaear. Ac yn y ffydd hon y gwnaethom gychwyn ein cwrdd gweddi dirwestol misol. Yn weledig, cwrdd bychan a dinod yw, ond yn anweledig, cwrdd mawr Creawdwr y greadigaeth newydd a'r cydfyd angylaidd yw, a'i oleu yn yr hirnos fawr auafol, fel y lloer a'r ser, ac fel yr *Aurora Borealis*, yn sirioli y wybren oer ogleddol; cwrdd i fod fel y seren foreu eglur, ac fel haul ar hirddydd haf. Bu y cwrdd hwn o'r dechreu i ni yn amddiffyn rhag y pwlpudau a'r cynulliadau bleidiant gysegr-ysbeiliad, trwy lwgr-wobrwyon, er amddiffyn addoliad meddwdod a Mammon. Ein cwmpawd hefyd yw yn y tonau a'r tymhestloedd. Y cwrdd hwn, yn mhellach, yw ein prif foddion ysbrydol, i ollwng allan ein hegwyddorion a'u lluosogi, fel y pren Banyan yn lledu ei gangau i wreiddio fel yntau. Cwrdd hefyd yw sydd yn gordial i'r galon, a cherddoriaeth i'r glust, am mai ynddo yr ydym fel y wenol ar ei hedyn, ac fel y fronfraith yn y llwyn, ac fel y gwcw yn ei hadeg hyfryd, yn lleisio yr hyn a rydd y nefoedd yn ein henaid.

Y cwrdd gweddi dirwestol hwn, hefyd, sydd gwrdd gweddi dros symud y gau-anibyniaeth, a phob anghyfiawnder eglwysig, gwladol, a chymdeithasol. "Canys yr Arglwydd cyfiawn a gar gyfiawnder; ei wyneb a edrych ar yr uniawn" (Salm xi, 7). "Ac mi a welais y nef yn agored, ac wele farch gwyn; a'r hwn oedd yn eistedd arno a elwid Ffyddlawn a Chywir, ac mewn cyfiawnder y mae Efe yn barnu ac yn rhyfela . . . Ac y mae ganddo ar ei wisg, ac ar ei forddwyd, enw wedi ei ysgrifenu, BRENIN BRENHINOEDD, AC ARGLWYDD ARGLWYDDI" (Dat. xix, 11, 16). Wrth ddeddf cyfiawnder y gweithia y cydfyd. Y ffynonau yn bwrlymu yn risialaidd, y cornentydd yn murmur dros y graian gloew, yr afonydd dyfnion, hirion, a llydain, yn llifeirio i'r cefnfor, a'r cefnfor yn dygyfor rhwng ei geulanau,—gweithiant wrth ddeddf cyfiawnder. Y lili yn tarddu trwy y cwrlid gwyrddlas, yr ydau addfed yn ymdono yn yr awelon, y perllanau yn plygu eu brig dan bwys y ffrwyth, a'r coedwigoedd yn diosg eu dail i frwydro a rhyferthwyon Hydref,—gweithiant wrth ddeddf cyfiawnder. Y mynyddoedd mewn pwysau, y bryniau mewn

clorianau, y gwynt wrth bwys, y bydoedd yn troi yn y pellder glas, a'r haul fel priodfab yn dyfod allan o'i ystafell,—gweithiant wrth ddeddf cyfiawnder. Pe amgen, aflonyddid y cydbwysedd oesol, syflid y ser sefydlog o'u gorsafion, tarawai y bydoedd yn erbyn eu gilydd, ac ymledai fferdod a galanastra angau trwy bob goror o'r cread. Deddf cyfiawnder hefyd a geidw y tair nefoedd angylaidd, a'u holl gymdeithasau mewn trefn, a reola fyd y farn, ac a rwyma yr uffernoedd mewn darostyngiad. Nis gall yr Arglwydd lwyddo dirwest y nefoedd newydd, lle goddefir anghyfiawnder a gau anibyniaeth. Rhaid gwrthod y pechod, neu wrthod y gwir. Ac ar y fath amseroedd enbyd, gweddiwyr Eglwys Philadelphia a gadwant Air amynedd yr Arglwydd, felly parhant i weddio a phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd Glan; deisyfant hefyd uwchlaw pob peth i'r Arglwydd fyrhau y dyddiau, a phrysuro ei ddyfodiad. Amyneddgar ydynt tra yr hadau dan y gwys yn cael eu sathru, mewn sicrwydd y daw yr haf a'i dyfiantau dwyfol. Dysgwyl wnant, tra eu gweddiau a'u gweithredoedd da yn aml, ond o'r golwg, fel y gwlith yn y nos ar y coed, y caeau, a'r gerddi. Ond wele, y wawr yn agor ar y miliwnau gwlith gloew, ac wele yr haul yn codi a dangos ei ddelw yn mhob gwlithyn.

6. DIDOLIAD GAU-DDIRWESTWYR. Y mae dau fath o ddirwestwyr—dirwestwyr gwynion a gogoneddus—gwynach na'r llaeth; a dirwestwyr duon a thruenus—duach na'r gloyn. "Purach oedd ei Nazareaid hi na'r eira, gwynach oeddynt na'r llaeth, gwridocach oeddynt o gorph na'r cwrel, a'u trwsiad oedd o saphir. Duach yw yr olwg arnynt, na'r gloyn" (Galarnad iv, 7, 8). Y Nazaread a arddengys y gwir ddirwestwr, yn ufuddhau i'r Gair o'r egwyddor i'r llythyren, a "gwynach yw na'r llaeth." Ei serch at ddaioni a dry y gwirionedd yn faeth, fel y fuwch yn troi y borfa a'r blodau yn llaeth. "Godidocach yw na'r cwrel." Fel y cwrel yn adlewyrchu lliw coch yr haul yn ei fan goreu, y gwir ddirwestwr a adlewyrcha gariad yr Arglwydd yn ei ogoniant. "Ei drwsiad sydd o saphir." Ceir pob lliw yn y saphir. Cynrychiola holl liwiau y gemau a'r meini gwerthfawr. Y prif faen yw yn y ddwyfroneg, ac yn seiliau mur y ddinas nefol, a darlun dwyfol yw o'r gwir ddirwestwr, sef dyn diwygiedig ac ail-anedig i'w dragwyddol ogoneddu. Yr Urim a'r Thummim sydd yn yr enaid, y ddinas nefol hefyd, ei mur a'i meini. Efe a ddatguddia y dirwestwyr duon, a phar eu didoliad, gan ddangos mai "Duach yw yr olwg arnynt na'r gloyn." Megys dirwestwyr yn cadw darllawdai a thafarndai; dirwestwyr yn gwneud, neu werthu, neu arfer y myglys; dirwestwyr yn gwneud masnach a budr-elw o ddirwest; dirwestwyr yn gwyro cyfiawnder a barn; a dirwest-

wyr yn gwrthwynebu neu yn anwybyddu goleuni mewnol y Gair, yn datguddio y Dyn Anfeidrol, nef ac uffern, a'r farn ddiweddaf. Gwelsom brif demlwyr dirwestol yn chwareu campau dau-wynebog, fel cwch a llyw bob pen, yn gallu myned yn ol neu yn mlaen, fel y mynent. Sonient am y "Cloi" yn Llechryd fel cynen leol, a cheisient glytio cymod gwarthus rhyngom a'r "cysegr-ysbeilwyr meddw." Llyfnhaent eu tafodau er mwyn budr-elw, gan blanu lledrith yn lle llwyrymwrthodiad. Gwnaent y gras o ddirwest yn fwy uffernol na'r pechod o feddwi. Fel yr aderyn Ibis yn yr Aipht, wrth ddifa budreddion, yn gadael ar ei ol fudreddion gwaeth; ac wrth ladd y seirph, yn dodwy wyau y daw y *basilisk* o honynt, y mwyaf marwol o'r gwiberod. "O wreiddyn y sarph y daw gwiber allan, a'i ffrwyth hi fydd sarph danllyd hedegog" (Esaiah xiv, 29). Y gwir ddirwestwr sydd orlawn o gariad, a gwirionedd, a chyfiawnder cyffredinol, ac fel y carlwm gwyn, cymer ei ladd yn hytrach nac halogi ei wisg.

7. Dyogelwch Dirwestwyr Philadelphia. Dirwestwyr Eglwys Philadelphia a esgynant i gysegr sancteiddiolaf eu heneidiau eu hunain; addolant yn ngwyddfod Shecinah y galon, gan agor eu llygaid rhwng y cerubiaid. Gwelant Arglwydd y lluoedd ar ei orseddfa uchel a dyrchafedig; clywant swn "Sanct, sanct, sanct!" y seraphiaid adeiniog o'u cylch, a theimlant y marwor tanllyd ar eu gwefusau. Maent yn un a Mab y Dyn yn nghanol y saith ganhwyllbren aur, yn rhan o'r Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, o dan faner yr Orseddfainc Wen fawr, ac yn ddeiliaid y ddinas nefol nad a dim aflan i fewn iddi. Oddi yma, gollyngant holl arfau y gwirionedd ar y fasnach feddwol a'i holl drasau, yn ymwybodol o allu arbenig ac anfarwol. Croesawant gyfyngderau, a chyngreiriau y gelyn, fel cynorthwyon. "Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn; a thi a wnei yn euog bob tafod a gyfodo i'th erbyn mewn barn. Dyma etifeddiaeth gweision yr Arglwydd, a'u cyfiawnder hwy sydd oddi wrthyf fi, medd yr Arglwyld" (Esaiah liv, 17). Dirwest Eglwys Philadelphia sydd fel Pren y Bywyd yn Eden, a'r cerubiaid a'u cleddyfau tanllyd ysgwydedig, yn ei hamddiffyn; fel Noah yn yr Arch, yn nofio uwchben celaneddau y cyn-ddiluwiaid; fel Joseph yn yr Aipht, a Duw gyda hi; fel Eliseus yn Dothan, a'r meirch a'r cerbydau tanllyd o'i hamgylch; ac fel Ioan yn Patmos, a'r tair nefoedd yn y golwg at ei gwasanaeth.

Coeliaf mai llais y Dyn Anfeidrol yw dirwest i ni, yn trafaelu trwy greigiau callestr, dan orthrymder mawr yr Ail-Ddyfodiad, yn gwasgu allan o honom elfenau tanllyd dirwest y nefoedd a'r ddaear newydd, fel y bwrlyma ffynonau y

petroleum o'r dyfnderau, trwy fod yr haenau o'u cylch yn cael eu poenydio a'u poethi gan drymder yr ysbwrial sydd yn pwyso arnynt. Bydd yn help i wresogi a goleuo y wlad. Fel yr ymleda dwfr brwd y *Gulf Stream* dros y dwfr oer am filoedd o filldiroedd ysgwar, gan orchuddio y weilgi a mantell gynes, a thyneru gerwinder y gauaf dros gyfandir Ewrop; felly yr ymleda dirwest a doniau eraill Eglwys Philadelphia, gan dymheru hinsawdd afrywiog y wlad; dirwest a doniau yn dylifo odditan adenydd haul y trofegau. Yr ydym wedi mentro yn hir ac unig, ar Air Angel anfeidrol Eglwys Philadelphia, gan lafurio trwy reddf brophwydol, ac ysbrydoliaeth barhaus, yn sicr fod y Barnwr wrth y drws. "Ond pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad Ef. A phwy a saif pan ymddangoso Efe?" (Malachi iii, 2). Fel y gosodwyd coedwigoedd Madeira ar dan, yn cyneu am saith mlynedd, gan enyn o draeth i draeth, a chlirio yr ynys o'r coedydd oll, ac yn y lludw planwyd gwinwydd; felly, "Y dydd hwnw y gwnaf dywysogion Judah fel aelwyd o dan yn y coed, ac fel ffagl dan mewn ysgub o wellt, ac ysant ar y llaw ddeheu, ac ar y llaw aswy" (Zech. xii, 6). Daeth y dydd, mawr fydd tanllwyth dinas y gwaed, a glyn gweledigaeth. Y cyneuad fydd dan a choed lawer. "Dyma y diwrnod am yr hwn y dywedais. A phreswylwyr dinasoedd Israel a ant allan, ac a gyneuant ac a losgant yr arfau, a'r tarian, a'r astalch; y bwa a'r saethau; a'r llawffon a'r waewffon; ie, llosgant hwynt yn y tan saith mlynedd" (Ezeciel xxxix, 8, 9). Gog a Magog yw y rhai a losgir, sef proffeswyr heb brofiad na phurdeb. Llosgi eu harfau am saith mlynedd yw, eu llwyr ddifa o ran eu syniadau a'u dylanwad. Teimlir yr oddaith ar lan Teifi. "Gwaith pob dyn a wneir yn amlwg; canys y dydd a'i dengys; oblegyd trwy dan y datguddir ef; a'r tan a brawf waith pawb, pa fath ydyw" (I Cor. iii, 13). Ymwrolwn fel cydweithwyr Duw, i fod yn deilwng i ddal dydd y goelcerth. Safwn yn ddisyfl, gyda'r safon sanctaidd, ac ymbleserwn yn ein dwyfol dynged a'i dirgelion, gan redeg ein gyrfa yn gyflawn i dragwyddoldeb. Na lwfrhawn pan gilia y llu, ond rhedwn fel yr afon trwy y cymoedd a'r anialwch, heb gwmni, heb dyst, ac heb swn llais, ond llais y Duwdod yn swn ei threigliad ei hun. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored; ac ni ddichon neb ei gau." Amen.

XII.—AGORIAD I ARGLWYDDIAETH MAMMON.

Cariad yw bywyd dyn. Ei brif gariad yw ei gymeriad, oblegyd ei brif gariad a reola ei deimladau, ei feddyliau, ei eiriau, a'i actau oll. Y prif gariad wahaniaetha y naill ddyn oddi wrth y llall, ac a wahaniaetha y nef oddi wrth uffern. Holl bleserau dyn a ddeilliant o'i brif gariad. Ffurf ei brif gariad yw pob dyn, ac a fydd byth. Cariad at y Dyn Anfeidrol, ac at angylion yw bywyd, undeb, hedd, a harddwch y nefoedd. Trwy y cariad hwn, troant o hyd at yr Arglwydd; ond y rhai a garant eu hunain a'r byd, a gefnant o hyd ar yr Arglwydd. Cariad yw derbynfa pobpeth yn y nef, megys gwybodaeth, deall, doethineb, cyfiawnder, nerth, dedwyddwch, a thangnefedd. Ond hunangariad a chariad at y byd, ni allant dderbyn dim o'r fath ddoniau, ond casant hwynt, a ffoant ymaith o'u hawyrgylch. Cariad at yr Arglwydd ac at gymydog, a gynwys y Gair a'r gwynfydau oll, fel y dysg yr Arglwydd, "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl. Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr. A'r ail sydd gyffelyb iddo: car dy gymydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll" (Math. xxii, 37-40). Y gyfraith a'r prophwydi yw y Gair oll. Dyn o gariad nefol, ni chanlyna ac nid ofna neb, ond yr Arglwydd Dduw. "Yn nghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf; dy gyfiawnder Di yn unig a gofiaf fi" (Salm lxxi, 16).

Os prif gariad dyn yw hunan-gariad, car bawb a phob peth er ei fwyn ei hun; ac ni pherygla ei glod er mwyn neb. Yn mhob mudiad, ei fantais ei hun yw ei safon, ac ymofyna, "Pa les fydd hyn i mi? Pa godiad?" Os anfri a cholled, ni phrisia ddyn na Duw; yn hytrach, dymunai fod uwchlaw pawb, a rheoli pawb yn y byd hwn, a'r byd a ddaw; a gorfoleddai ladd y goreuon a'i croesant, fel y dengys hanes erlidwyr a goresgynwyr creulon. Y fath uffern ddofn a ffyrnig sydd mewn hunan-gariad! Tan a brwmstan ani-ffoddadwy ydyw, sef yr ail farwolaeth. Cariad at y byd yn fwy nag at yr Arglwydd a'r nefoedd, a wna ddyn i geisio golud anheg ac anghyfiawn; arfera hoced a dyfeisiau dichell-gar i ysbeilio ei gyd-ddynion, gan feddwl mwy am feddianau

bydol, nag am y nefoedd, ac am wasanaethu Mammon yn fwy na gwasanaethu Duw a llesau dyn. Yn Eglwys Philadelphia, cawn ddrws agored i weled arglwyddiaeth Mammon yn y byd Cristionogol. Sylwn:—

I. MAMMON YN Y PWLPUD. II. MAMMON YN Y DDIACONIAETH. III. MAMMON YN Y BOBL. IV. MAMMON YN Y GENADAETH. V. MAMMON YN Y LLYWODRAETHAU. VI. MAMMON YN Y WASG. VII. MAMMON DAN REOLAETH EGLWYS PHILADELPHIA.

1. MAMMON YN Y PWLPUD. Dylai pregethwyr o bawb, geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder Ef, a myned i'r gwaith heb aur, nac arian, nac efydd i'w pyrsau, yn foddlon ar y Gair, "Teilwng i'r gweithiwr ei fwyd." Ond pregethwyr, fel y dywedodd Bonaparte, yw prif fydolion daear. Tybiant fod yr eglwysi yn bodoli er eu budd hwy, fel y tybiai yr henafiaid, fod y ser aneirif yn bodoli er mwyn ein daear ni, a hwy yn ganolbwyntiau myrdd o fydoedd. Bu deddf yn Rhufain baganaidd, nad oedd neb i werthu ei hyawdledd, nac areithio am arian. Ond pregethwyr Cristionogaeth a astudiant boblogrwydd er cyflog, ac a werthant eu doniau am y geiniog uchaf. Arian reola eu synwyr a'u symudiadau. Judas yw y pwlpud, a'r diafol ynddo yn gofyn am yr Iesu, "Beth a roddwch i mi, a mi a'i traddodaf Ef i chwi?" Rhwyd yw y weinidogaeth, i bysgota yn mor Mammon. Gwell gan y rhai daflant y rhwyd, gael y darn arian o safn y pysgodyn, na chael eneidiau o safn uffern. Pwy fesur y pellder rhyngddynt a'r rhai wnaeth yr Arglwydd yn bysgodwyr dynion! Yr oedd cwrdd ac undeb yr Apostolion yn Bentecost yr Ysbryd Glan; ond y mae cyfundeb, neu gymanfa o bregethwyr ein hoes, yn jiwbili Beelzebub. Arwyddeiriau nefol yr Apostolion oeddynt, "Arian ac aur nid oes genyf"; "Bydded dy arian gyda thi i ddystryw"; "Nid adwaenom neb yn ol y cnawd"; "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion." Yn ngeiriau yr Hybarch John Jones, Llangollen, gwr hynod ac erlidiedig, "Yr ydym yn symud ein golygon oddi ar y drych a welsom yn yr oes Apostolaidd, i edrych ar yr olygfa bresenol, ac y mae yr anhebygrwydd yn ein dychrynu. Yr ydym yn codi ein golygon oddi ar yr olygfa gyntaf, fel dyn yn deffroi o freuddwydion dedwyddwch, i ganfod cwpan trueni yn ei law, a'r olygfa hyfryd wedi ffoi. O! am ddwsin o'r cynddisgyblion! Doethineb Duw, a gallu Duw, yr ydych chwi yn barod yn ein meddiant! Ysbryd Duw, tydi wyt yn feunyddiol wrth law! Gwaed y Groes, dy rinweddau di, pe bosibl, ydynt yn cynyddu o hyd. Ond yn mha le mae y colliant? Pa le y mae yr ysbryd Cristionogol fu yn concro

y byd? Nid oedd un ffurf o hunanoldeb, na rhwystr yn sefyll o'i flaen. Yr oedd cariad Crist yn eu cymhell hwynt y pryd hwnw. Fel pe buasai ei orchymyn diweddaf yn parhaus swnio yn eu clustiau, yr oeddynt yn llosgi am gael pregethu yr Efengyl i bob creadur. Yr oedd colled, poen, gwarth, ac angau yn eu gwynebu ar risiau pob pregeth, ond eu gwynebu yn ofer. Yn mlaen yr aent hwy. O'r braidd y canfyddent beiriant merthyrdod, gan eu hawydd i fyned yn mlaen. Tarawsant y byd a syndod a syfrdandod. Erioed ni welsai y fath ddynion o'r blaen. Rhoddai pobpeth ffordd. Dinas ar ol dinas, a thalaeth ar ol talaeth, a blygent i'w crefydd; dirgelwch eu grym oedd cariad a hunanymwadiad. Nid wyf yn amheu, pe codai rhyw Gristion yn awr, yn agwedd, teimlad, ac athrawiaeth Paul, na chaffai ei erlid o'r wlad gan yr eglwys oreu yn Nghymru. Rhaid ail ddechreu o benbwy-gilydd, neu ynte foddloni i'r byd fyned yn mlaen fel y mae, y rhai yn troi at grefydd mor amddifad o'r ysbryd ddangosodd Iesu hyd ei Groes. O ein Duw, trugarha wrth dy eglwys" "Y cynhauaf, yn ddiau, sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml; am hyny, atolygwch i Arglwydd y cynhauaf, anfon gweithwyr i'w gynhauaf" (Math. ix, 37, 38). O! am weithwyr yn Eglwys Philadelphia, sef gweinidogion y Dyn Anfeidrol, gweinidogion y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, a gweinidogion yr Orseddfainc Wen fawr, i'r holl fydoedd, a'u tremyn yn dranc i arglwyddiaeth Mammon.

2. Mammon yn y Ddiaconiaeth. Y mae dwy swydd neillduol yn Eglwys yr Arglwydd, sef y weinidogaeth a'r ddiaconiaeth. Y flaenaf, i fyw a pharhau mewn gweddi a gweinidogaeth y Gair, sef lluniaeth a llywodraeth yr enaid; a'r olaf, i wylio a gweini yn y goruchwylion allanol yn un a'r Gair, ac a'r Arglwydd. "Am hyny, frodyr, edrychwch yn eich plith am seithwyr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glan, a doethineb, y rhai a osodom ar hyn o orchwyl" (Act. vi, 3). "Rhaid i'r diaconiaid yr un ffunud, fod yn onest; nid yn ddau-eiriog, nid yn ymroi i win lawer, nid yn budr-elwa; yn dal dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur. A phrofer y rhai hyny hefyd yn gyntaf; yna, gwasanaethant swydd diaconiaid, os byddant ddiargyhoedd . . . Canys y rhai a wasanaethant swydd diaconiaid yn dda, ydynt yn enill iddynt eu hunain radd dda, a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu" (I Tim. iii, 8-13). Y ddwy swydd uchaf, yn gofyn y cymhwysderau uchaf, a mwyaf anfydol, yw y weinidogaeth a'r ddiaconiaeth. Ond swyddau sanctaidd weithiau ydynt, wedi eu halogi, fel mai daearol ac anianol yw cymhwysderau diaconiaid. Esgeulus ac anwybodus ydynt o'r Gair, dyeithr i'w ysbryd, difater o'u cyfrifoldeb, a dall i'r byd a ddaw. Ni

welant Dduw yn y Gair, yn yr eglwys, nac mewn natur. Ni wyddant ddim am yr urddas o fod yn gydweithwyr Duw a'r angylion, mewn addoliad, mewn gwladwriaeth, ac mewn masnach. Mygwyr ac yfwyr mawr yw llawer o honynt. Yn lle bod eu cyrph yn demlau i'r Ysbryd Glan, eu genau, eu cylla, eu gwaed, a'u cnawd fel adfeilion Babilon, sydd nythleoedd pob aflendid. Swynol iddynt yw suddion a sorod y gyfeddach. Mwy hwyliog ydynt yn swn dadwrdd y dafarn, nag yn swn cenadwri y cysegr. Mwy sychedig am win a diod gadarn, nag am ddwfr y bywyd. Y diacon yn y ffair a'r farchnad wrth ford y cythreuliaid, a'r diacon yn y capel wrth ford yr Arglwydd, sydd olygfa ddigonol i frawychu y nefoedd, i grechwenu uffern, a dirgrynu y ddaear. Wele y diacon parchus yn myned o'i gartref yn ei gerbyd i'r dref, ac yn dychwelyd yn yr hwyr yn fwy aflunaidd nag unrhyw fwystfil. Dacw fe yn disgyn, yn siglo ar ei goesau fel llo newydd eni, yn ymlefaru yn dafod-tew, yn trwm-sawru, ei lygaid yn boddi yn ei ben pendronog, drych di-ail tu yma i ororau yr ellyllon. Wele, dy brif ddiaconiaid di, Sion, yn yr ugeinfed ganrif! Lordiaid coronog y set fawr! Y diaconiaid hyn, hefyd, a ddirywiant yn ddirfawr o herwydd eu swydd, fel anifeiliaid mewn hinsawdd anghydnaws. Haerllugrwydd y lloerigion yw llywodraeth wallgof yr eglwysi. Ni fyn. ac ni faidd, pregethwyr na phobl eu croesi. Cadwant y goron ar eu pen, tra y geiniog yn eu poced. Profid priod gynt, pa un a berthynai i Loegr neu Iwerddon, trwy osod seirph a llyffaint ynddo. Os byddent byw yn y pridd, pridd Lloegr; os marw, pridd Iwerddon. Y mae seirph a hiliogaeth gwiberod, a phob math o bryf gwenwynig, yn byw yn y ddiaconiaeth. Gellir llefaru wrthi, megys y llefarodd y meirw yn uffern wrth Lusifer, "Tanat y taenir pryf; pryfed a'th doant" (Esaiah xiv, 11). Llawer o swyddogion y set fawr, fel marchnadwyr Sodom, a wnaethant eu golud trwy dwyll a hoced. Tywyson y byd hwn a'u gwnaeth yn oludog, a golud a'u gwnaeth yn ddiaconiaid. Dyma y diaconiaid sydd yn garedig i'r diafol a'i deyrnas, ond creulon i'r Gair a'i gywir genadon, fel y *Bay of Biscay* i'r morwr, o ba gyfeiriad bynag y byddo y gwynt.

3. MAMMON YN Y BOBL. "O fy mhobl, y rhai a'th dywysant, sydd yn peri i ti gyfeiliorni" (Esaiah iii, 12). Pregethwyr, diaconiaid, ac aelodau bydol droant dy yr Arglwydd yn deml Mammon, heb nemawr yn dilyn gwirionedd i deyrnas nef na natur Duw, na nemawr yn treiddio i dynged ddiwaelod dyn. Fel y mae tyrau marwolaeth yn Bombay, yn gwahodd y fwltwriaid a'r barcutanod i ymbesgi ar gyrph y meirw osodir ynddynt ar y barau heiyrn, ac fel y mae crawciadau yr adar

ysglyfaethus yn aflafar lanw yr awyr o gylch, tra yn ehedeg i dynu y cnawd oddi ar yr esgyrn, i wledda arno ar gangau y palmwydd tal gerllaw, felly yr eglwysi dan reolaeth Mammon; tyrau yr ail farwolaeth ydynt, a'r hil ddynol yno yn gelaneddau. "Canys pa le bynag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod" (Math. xxiv, 28). Hefyd, yr eglwys wedi colli ysbryd yr Arglwydd, sydd fel gwraig wedi colli ei diweirdeb; cyll yn gyflym bob gras arall. Dysg ei thafod a'i gwyneb i ragrithio; ei geiriau teg a gelant gelwydd ei chalon. Felly crefydd Mammon; nid yw ond gorchudd a gweniaith puttain; a'i defosiwn sydd fel gweddiau carnladron Italy ar y Forwyn Fair, tra yn trochi eu dwylaw mewn llofruddiaeth a lladrad. "Pa wedd yr aeth y ddinas ffyddlawn yn buttain! cyflawn fu o farn; lletyodd cyfiawnder ynddi, ond yr awr hon, lleiddiaid . . . Dy dywysogion sydd gyndyn, ac yn gyfranogion a lladron; pob un yn caru rhoddion, ac yn dilyn gwobrau" (Esaiah i, 21, 23).

4. MAMMON YN Y GENADAETH. Anfonodd yr Arglwydd ei Apostolion allan heb ysgrepan, nac arian, na chod. Halogid y Genhadaeth Sanctaidd yn y cychwyn, pe ei cefnogid gan "fwrdd cyfarwyddwyr a gallu trwy gyllid." Buasai darpariaeth mor fydol yn addefiad fod Mammon yn fwy galluog na Duw. Rhwydd y gallasai Creawdwr y moroedd beri i fyrddiynau o bysgod wneud casgliadau cenadol o'r darnau arian sydd yn y dyfnder, fel y pysgodyn yn Capernaum, yn dwyn darn i dalu y dreth. Gallasai yru y leviathan trwy y cefnfor crychwyn i gasglu gemau y cynfyd a'r canrifoedd, a chyfranu mwy at y genhadaeth na chyfoeth Carnegie. Gallasai wneud pob morfil yn *millionaire*, a'u harwain i daflu eu holl drysorau ar dir sych i law cenhadon hedd. Gallasai droi y dwfr yn win, gwlawio manna, parhau yr olew yn y sten, a'r blawd yn y celwrn, a lluosogi y torthau a'r pysgod i or-ddigonedd. Pwyso ar bwerau y Person Anfeidrol, ac ar nerthoedd y byd a ddaw, wnai yr Apostolion yn ddibris o'r byd hwn.

"A rhyngddynt eu deuddeg, ni feddai hen ddiafol,
Un llanerch o dywyllwch, heb lamp yn ei chanol;
Un eilun ar lan, heb y Groes yn ei wyneb,
Un oracl, heb Oracl Calfaria yn ei hateb.

Heb fwrdd cyfarwyddwyr, na gallu trwy gyllid,
Lletya lle caent, ac yn mlaen pan wrthodid;
Pob gwregys heb god, a phob ysgwydd heb screpan,
Heb le i gludo tamaid o fwyd, chwaethach arian.

Heb aros am heddwch cenhedloedd a'u gilydd,
'Doedd heddwch a rhyfel ond un peth i'w crefydd.
Os egyr eu Llyfr, os egyr ei ysbryd,
Dim pwys mewn bod daear yn cau ac agoryd.

Ond am saint ein hoes, gyda'u miloedd cenhadon ,
Hawdd gellid eu hebgor i'r nefoedd yn union,
Am ddim, ond rhyw ddeuddeg o'r cyn-Apostolion."
Llangollen. PARCH. JOHN JONES.

Yn awr, y mae allweddau teyrnas nefoedd yn crogi wrth wregys Mammon yn yr eglwysi. Yr allweddau hyn sydd yn cloi ac agor y pwlpudau, a'r cenhadaethau. Yr allweddau hyn sydd yn cloi ac agor genau y cenhadon, trwy y gororau Cristionogol a phaganaidd. Cawrfilod yw y cymdeithasau cenhadol a Beiblaidd, yn agor eu safn yn anferth i ddarlyncu yr oll a allant, a'u swyddogion moethus, fel merch y gele, fel y bedd, ac fel y pydew diwaelod yn gwaeddi, "Moes, moes, moes." Lledaeniad Mammon yw lledaeniad efengyl, er planu banerau a llwyddo masnach y teyrnasoedd ysbeilgar, ac er dystryw i feddianau, moesau, a bywydau, yn y byd paganaidd. Ni ddylai cenhadon hedd adwaen brenin, ond y Dyn Anfeidrol, na chenedl a phobl, ond deiliaid teyrnas nefoedd.

5. MAMMON YN Y LLYWODRAETHAU. Y gwir lywodraethwr, fel Moses, a dderbyn y gyfraith trwy drefniad angylion, ac fel Daniel ar lenydd Ulai, caiff oleu Gabriel a Michael am symudiadau yr amseroedd. Llefau a golygfeydd y nefoedd, a'i cynorthwya i goncro uchelgais a phleidiaeth. Ymddirieda yn yr Arglwydd a'i ddeddfau, gan adduno "Yn nghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf; dy gyfiawnder di yn unig a gofiaf fi" (Salm lxi, 16). Deddfwyr yn dewis y Mammon anghyfiawn o flaen Duw, a droant y Llywodraeth yn llofrudd, a lleidr, a lluniwr celwyddau. "Gwae y rhai sydd yn gwneuthur deddfau anwir, a'r ysgrifenyddion sydd yn ysgrifenu blinder. I ymchwelyd y tlodion oddi wrth farn, ac i ddwyn barn anghenogion fy mhobl; fel y byddo gweddwon yn ysbail iddynt, ac yr anrheithiont yr amddifad" (Esaiah x, 12). Ffydd y diafol sydd eto yn y llywodraethau, yn gorlethu y gweithwyr a thrymion drethoedd, er gwneud swyddwyr segur yn or-oludog, a chadw y fyddin a'r llynges fel chwareule cyfoethogion; a chefnogi y gorthrwm tirol, yn nghyd a melldithion opium, alcohol, a myglys. Llywodraeth Prydain sydd heddyw yn dal fyny *bazaars* Beelzebub yn yr India, y Bang marwol, yr Hasheesh, y Chandu, a'r Hookas. Llywodraeth Prydain sydd yn dinystrio y Chineaid trwy fasnach yr opium. Y llywodraeth hon sydd yn mathru anibyn-

iaeth y Transvaal a'r Orange Free State, yn llosgi yr holl gartrefi yno, yn newynu y gwragedd a'r plant wrth y miloedd er mwyn y *millionaire* mileinig. "Drachefn y cymerth diafol ef i fynydd tra uchel, ac a ddangosodd iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant; ac a ddywedodd wrtho, Hyn oll a roddaf i ti, os syrthi i lawr a'm haddoli i" (Math. iv, 8, 9). Addoli Mammon yw yr amod i gael teyrnasoedd y byd, eu golud a'u gogoniant.

Y ddeddf ryngwladwriaethol,
A'r deg gorchymyn dwyfol,
A lwyr ddiddymwyd;
Cynadledd Hedd teyrnasoedd,
Ac unol lais y bobloedd,
A rheol aur y nefoedd
A ddiystyrwyd.

Awn rhagom i anrheithio,
Angenrhaid yw eu concro,
Yw cri y Saeson;
Ewch, taniwch eu cartrefi,
Heb rybudd, heb dosturi,
Trowch hwynt allan i'r veldt i rynnu, —
Clyw'r *proclamation.*

O Brydain! gwel eu dagrau,
Ar y veldt;
O! gwrando eu gruddfanau,
Ar y veldt;
Yr hen famgu a'r plentyn,
Y fam a'r dyner forwyn,
Heb gysgod nac amddiffyn,
Ar y veldt;
Ai marw wnant o newyn
Ar y veldt?

Mae'r cread yn och'neidio,
Clyw ei gwyn;
A'r saint yn cyd-ofidio,
Clyw eu cwyn;
Y meirch a'r mulod mudion,
A gludwyd dros yr eigion,
Pwy dd'wed am eu gwasgfeuon,
Glyw eu cwyn,—
Hyd for a veldt mor greulon,
Glyw eu cwyn.

Gorletha y trymion drethoedd,
Maes o law,
Pwys tri chan' miliwn punoedd,
Maes o law;
Beth waeth fod torf yn griddfan,
Mae Kynoch's yn gwneud arian,
A llawer cwmni dyddan,
Maes o law,
Wna garn o'r gerth gyflafan,
Maes o law.

N. R.

6. MAMMON YN Y WASG. Dylai pob awdwr, a phob golygydd fod yn weledydd gweledigaethau Duw, a phob llyfr a newyddiadur yn ddatguddiad dwyfol. Dylai pob erthygl, pob hanes, pob gohebiaeth, pob hysbysiad, pob genedigaeth, pob priodas, a phob marwolaeth, gael eu hysgrifenu a'u darllen yn Eglwys anweledig Philadelphia, yr Eglwys sydd yn caru dyn, "Ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion . . . heb ragfarn, heb wneuthur dim o gydbartiaeth" (I Tim. v, 21). Dylai y papyrau dyddiol gludo bywyd a pherarogl paradwys a phren y bywyd trwy bedwar ban y byd. Ond peiriant Mammon yw yr argraph-wasg yn ein hoes, a'r golygwyr, fel offeiriaid Jeroboam, yn cusanu y lloi; y llyfrau a'r cylchgronau, a'r newyddiaduron, yn cael eu gollwng allan fel plaau yr Aipht, ac fel myrddiwnau o wiberod, a seirph tanllyd hedegog. Perchenogion y wasg a'u gweision, a wnant filiwnau o bunoedd trwy fradu Duw a dyn, a gwyrdroi pob gwirionedd. Wele hwy, trwy fudr-elwa, yn paentio y parddu yn wyn, a pharddu y gwyn yn ddu. Tafod y wasg yn awr yn nglyn a rhyfel y Transvaal, tan ydyw, byd o anghyfiawnder, yn gosod troell naturiaeth yn fflam, ac wedi ei wneuthur yn fflam gan uffern; a llwgr-wobrau Cecil Rhodes a'i gynghrair beunydd yn porthi y fflam a brwmstan.

7. MAMMON DAN REOLAETH EGLWYS PHILADELPHIA. Angylion ac Eglwys Philadelphia a ddefnyddiant y Mammon er budd dynoliaeth. "Ac yr wyf yn dywedyd i chwi, Gwnewch i chwi gyfeillion o'r Mammon anghyfiawn; fel pan fo eisiau arnoch, y'ch derbynionf i'r tragwyddol bebyll. Y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; a'r neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer" (Luc xvi, 9, 10). Aelodau Eglwys Philadelphia a gyfrifant eu hunain o galon yn oruchwylwyr ar amryw roddion Duw, megys eu bywyd a'u holl bwerau, eu bwyd, eu dillad, eu manteision tymhorol ac ysbrydol, eu buddugoliaethau ar bechod a byddinoedd uffern, a'u gallu i

dderbyn a mwynhau bywyd tragwyddol. Y fath ystyriaethau a'n ceidw yn foddlawn a molianus yn mhob cyflwr, yn gofus o'u cyfrifoldeb, gan fod yn ffyddlon yn y lleiaf, fel mewn llawer. Defnyddiant y Mammon anghyfiawn, nid yn Dduw ac nid yn ddiafol, ond yn gyfrwng i wneud cyfeillion yn y tragwyddol bebyll. Felly, defnyddiant ef mewn cariad at y Dyn Anfeidrol, at ddynion y nefoedd, ac at bob cyfiawnder. Y ffordd deg y defnyddiant y Mammon a wna y Dyn Anfeidrol, angylion, a dynion didwyll a da yn gyfeillion iddynt. Arfer y byd heb ei gamarfer, sef ei arfer yn ngoleu y byd a ddaw, a ddug angylion gwasanaethgar y nefoedd yn agos atom. Teimlant ddyddordeb yn mhob peth perthynol i ni, megys y gwelir yn hanes eu hymweliadau ag Abraham, Isaac, a Jacob, Moses, a'r prophwydi oll. Datguddiodd yr Arglwydd fanylrwydd ei ofal yn yr Efengylau. "Ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg" (Math. vi, 33). Bob tro y meddyliwn yn gyfiawn am y Mammon anghyfiawn, ac y deliwn yn deg, daw yr Angel Anfeidrol ac angylion y nefoedd yn nes atom. Unant eu hunain a ni, gan ein bod yn ymddwyn trwy y Mammon megys yr ymddygasant hwythau, ac megys yr ymddygent eto pe buasent yn y byd. A phan fyddwn feirw, derbyniant ni i'w trigfanau, i'r tragwyddol bebyll, fel rhai addas i gael mwy o feddianau ac ymddiriedaeth bwysicach. Ond y sawl wnant Dduw o'r Mammon, gan ymserchu ynddo yn lle yr Arglwydd a'r nefoedd, gan ymwario i'w gasglu yn deg neu anheg, ac ymfalchio o'i feddu, y cyfryw a atdynant y cythreuliaid atynt; a phan fyddont farw, suddant atynt i'r dystryw tragwyddol: oblegyd buont yn uffernolion yn y byd yn ei garu a'i gamarfer. "Y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch" (I Tim. i, 9. 10).

Yr enwadau ymneillduol ac anibynol heddyw, a ganlynant y Babaeth a'r Eglwys Wladol mewn pomp fydol ac ariangarwch, a'r pregethwyr a gynghreiriant i gasglu cronfeydd mawrion er gwaddoli yr offeiriadaeth gapelaidd. Ymddygant yn gyfrwys a gor-grefyddol, fel y gau-Gristiau oll, gan hudo y bobl i agor eu pyrsau, er fod y gwaddoliadau yn gwadu adnoddau y byd ysbrydol. Offeiriad Mammon a ddarparant fel pe byddai y Duw byw wedi marw, Rhagluniaeth fawr a manwl y nef wedi trengu, ac Eglwys yr Arglwydd wedi ei gadael fel plentyn amddifad. Frodyr a chwiorydd, mentrwn ollwng ein hunain yn galonog i ganol Eglwys Philadelphia, ac i fynwes y Dyn Anfeidrol, meddianydd nefoedd a daear,

fel yr etifeddom bob peth ynddo, ac y byddom trwyddo yn feistri ar Mammon. Rhaid i grefydd Mammon ymollwng, gan fyned heibio gyda thwrf; ei helfenau gan wir wres a doddant. Nac ofnwn pan symuda y ddaear, a phan dreigler y mynyddoedd i ganol y mor. "Y mae afon, a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw, cysegr preswylfeydd y Goruchaf. Duw sydd yn ei chanol; nid ysgog hi" (Salm xlvi, 4, 5). Pe diflanai elfenau gweledig natur, yr elfenau anweledig a esgorent arnynt drachefn. Pe diflanai yr awyr, esgorid ar awyr newydd gan yr *ether* a'r *aura*. Yr achos erys er i'r effaith ddarfod, ac o'r achos daw effeithiau newyddion, fel dwfr o'r ffynon, ac fel gwres a goleu o'r haul. Duw, ac nid Mammon yw achos ac unig benaeth bendigedig Eglwys Philadelphia, a rhaid i'r bydoedd a phob gronyn ynddynt, ei gwasanaethu. Yr Arglwydd, yn ei gariad a'i wirionedd, yw achos gwreiddiol a byth-barhaol y bydysawd. Y mae yr agerdd yn gryfach na'r dwfr, y trydan yn gryfach na'r agerdd; ond cariad a gwirionedd sydd gryfach na'r cwbl. Felly, bod yn fwy mewn cariad a gwirionedd nag eraill yw, bod yn fwy galluog nag eraill. Cariad a gwirionedd yw bywyd ac ysbryd Eglwys Philadelphia, yn ei dolenu a'r Duwdod ac a'r nefolion. Cuddir grym a gogoniant yr Eglwys hon eto, gan ddygasedd, ofergoelion, a rhagfarnau. Ni wel addolwyr Mammon y dirgelwch anrhaethadwy sydd o'i mewn ac o'i hamgylch. Rhy agos eto yw cwmwl y gogoniant i'w iawn-brisio, hyd yn oed gan y goreuon. O'r pellder y gwelir lluniau a lliwiau y nefoedd yn ei harddu a'i oreuro, ac eangderau goleu a thanbaid y byd ysbrydol yn ei gwmpasu, a Mab y Dyn yn eistedd arno. "Ac mi a edrychais, ac wele gwmwl gwyn, ac ar y cwmwl, un yn eistedd tebyg i Fab y Dyn" (Dat. xiv, 14).

XIII.—AGORIAD I DDIRGELION Y DDRAIG.

Dyogel yw Eglwys Philadelphia yn awr y brofedigaeth. "O achos cadw o honot air fy amynedd i, minau a'th gadwaf di oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 10). Daw y brofedigaeth oddi wrth y dreigiau a'r cythreuliaid. "A rhyfeddod mawr a welwyd yn y nef: gwraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren. A hi yn feichiog, a lefodd, gan fod mewn gwewyr, a gofid i esgor. A gwelwyd rhyfeddod arall yn y nef: ac wele ddraig goch fawr, a saith ben iddi, a deg corn; ac ar ei phenau, saith goron. A'i chynffon hi a dynodd draian ser y nef, ac a'i bwriodd hwynt i'r ddaear. A'r ddraig a safodd ger bron y wraig, yr hon ydoedd barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi pan esgorai hi arno" (Dat. xii, 1-4). Wrth ryfeddod mawr yn y nef, y meddylir datguddiad oddi wrth yr Arglwydd am yr Eglwys Newydd yn y nef a'r ddaear, ac am yr anhawsder i dderbyn ei goleuni, a'r gwrthwynebiad iddo. Y wraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r lleuad dan ei thraed yw yr Eglwys Newydd yn y nefoedd, yr hon yw y nefoedd newydd, a'r Eglwys Newydd ar y ddaear. Ac ar ei phen, ddeuddeg seren, a ddengys ei doethineb a'i deall mewn pethau dwyfol o'r Gair. Y ddraig goch sydd arwyddlun o'r grefydd Brotestanaidd yn gwneud Duw yn dri pherson, ac Iesu Grist yn ddau: yn gwahanu ffydd a chariad, gan wneud ffydd ac nid cariad yn amod achubiaeth. Y saith ben a ddengys wallgofiaeth trwy gyfeiliorni ac halogi y Gair; y deg corn a ddengys allu mawr; y saith goron, y Gair oll wedi ei gyfeiliorni a'i halogi; a'r gynffon yn tynu traian ser y nef a'u bwrw i'r ddaear, yn dangos fod pob gwybodaeth ysbrydol yn

cael ei dystrywio o'r Eglwys pan gyfeiliornir ac yr halogir y Gair. Y coch a arwydda gyfeiliornadau yn tarddu o chwantau anuwiol. "Gwn trwy brofiad yn myd yr ysbrydoedd," medd Swedenborg, "fod y ddraig yn arwyddo y rhai sydd mewn ffydd yn unig, ac yn gwrthod gweithredoedd fel yn cynyrchu iachawdwriaeth. Gwelais filoedd lawer o honynt, tra yr ymddangosent o'r pellder fel draig a chynffon fawr, yn llawn pigau fel drain, yn arwyddo cyfeiliornadau. Unwaith hefyd, ymddangosodd draig oedd fwy, yn codi ei phen a dyrchafu ei chynffon tua'r nefoedd, i dynu y ser i lawr. Fel hyn amlygwyd i mi o flaen fy llygaid pwy olygir wrth y ddraig"—"Yr hen sarph, yr hon yw diafol a satan" (Dat. xii, 2). Y sarph a arwydda rai yn synied yn gnawdol ac nid yn ysbrydol: y diafol, rhai yn byw yn ddrwg: a satan, rhai mewn cyfeiliornadau. Oblegyd, pawb nad ydynt yn dynesu at yr Arglwydd yn uniongyrchol, synied yn gnawdol maent am bethau dwyfol, ac nis gallant synied yn ysbrydol, am mai yr Arglwydd yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol yw y goleuni. Gelwir hwynt, gan hyny, yn hen sarph, y rhai nad ydynt yn dynesu at yr Arglwydd yn uniongyrchol, nac yn cilio oddi wrth ddrwg am ei fod yn bechod yn erbyn yr Arglwydd, y rhai hyn a arosant yn eu pechod, ac am hyn eu gelwir yn ddiafol; ac fel y maent yn cyfeiliorni o ran eu credo, gelwir hwynt yn satan. Creulonder a gwallgofrwydd yw nodau amlwg y ddraig: ei saith ben yn arwyddlun o'r ymenydd wedi ymddyrysu ac ymranu yn y benbleth waethaf. Poen yw penddaru ar y fath fwystfil; ond rhaid ei adwaen er dyogelwch rhagddo. Y mae yr ymenydd yn ei sylweddau syml ac anelwig, yn ddefnydd a delw yr holl gorph. Gofynol cael ymenydd cyfan a'i globynau aneirif yn cydweithio, fel ser y ffurfafen, cyn y ceir dyn cyfan; a dyn cyfan o gorph ac enaid yw coron y cread. Y cread oll a'r Creawdwr a gartrefant, ac a gadwant gyngherdd dragwyddol ynddo. Ond dyn yn gwyrdroi ei alluoedd, a'u gadael i orwedd yn ddiog, y cread yw efe yn aflunaidd a gwag, a thywyllwch yn gordroi ei drueni. Dau hanfod dyn cyfan yw, addoli yr Arglwydd fel yr Anfeidrol Ddyn yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol, a chadw ei orchymynion. Darlun o'r dyn hwn yw y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren. Ychydig ydyw y dynion hyn eto, a phell oddi wrth eu gilydd, ac o brif leoedd y byd. Cuddiedig yn y diffaethwch ydynt, yn cael eu cynal yn wyrthiol hyd oni symudir y ddraig, ac hyd oni chreuir nefoedd newydd i gydweithio a'r Eglwys Newydd ar y ddaear. Mawr yw awdurdod y bwysfil hyd yma, a'i allu i dwyllo rhai anwybodus a drwg. Sylwn:—

I. Y DDRAIG YN Y BOBL. II. Y DDRAIG YN Y PREGETHWYR. III. Y DDRAIG YN Y SECTAU. IV. Y DDRAIG YN UFFERN. V. Y FFORDD I ORCHFYGU Y DDRAIG. V. LLWYDDIANT EGLWYS PHILADELPHIA WEDI CONCRO Y DDRAIG.

1. Y DDRAIG YN Y BOBL. Arwyddlun o'r ddraig yn y bobl yw y bwystfil yn codi o'r mor, fel y dengys y geiriau canlynol: "Ac mi a sefais ar dywod y mor, ac a welais fwystfil yn codi o'r mor, a chanddo saith ben, a deg corn; ac ar ei gyrn ddeg coron, ac ar ei ben, enw cabledd. A'r bwystfil a welais i oedd debyg i lewpard, a'i draed fel traed arth, a'i safn fel safn llew; a'r ddraig a roddodd iddo ef ei gallu, a'i gorseddfainc, ac awdurdod mawr" (Dat. xiii, 1, 2). Y saith ben arwyddant wallgofrwydd ysbrydol; deg corn, gallu; deg coron, medr i gyfeiliorni y Gair; ac ar ei benau enw cabledd, gwadu Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, a chymeryd y ddysgeidiaeth o honynt eu hunain, ac nid o'r Gair. Tebyg i lewpard, a ddengys heresi ddinystriol; traed arth, cyfeiliornadau yn cael eu coleddu o lythyren y Gair; a genau llew, rhesymu yn gryf oddi ar anwiredd, fel pe yn wirionedd. Tra y ddraig yn rheoli y bobl, y torfeydd a ymdroant mewn hoced. Fel y dywed Froude, "O'r ty mawr yn y ddinas hyd y siopwr bach yn y pentref gwledig, y mae bywyd masnachol Prydain wedi ei drwytho a thwyll mor ddwfn; anhawdd i fasnachwr gonest ddal ei dir. Nid oes nwyf ddilwgr. Twyll yw y mesur, twyll yw y pwysau, twyll yn mhob peth, a thwyll yn mhob man. Y mae yr offeiriaid a'r pregethwyr hefyd wedi gweled yr holl dwyll hwn ar gynydd, ond gyda difaterwch perffaith. Canoedd lawer o bregethau a glywais yn Mrydain ar genhadaeth ddwyfol y pwlpud, ar esgobion, ar gyfiawnhad, ar y wyddor o weithredoedd da, ar ysbrydoliaeth y Beibl, ac ar effaith y sacramentau; ond yn ystod y deng mlynedd ar hugain hyn, ni chlywais un ar onestrwydd cyffredin." Nid rhyfedd, oblegyd myned yn bregethwr, yw ymrestru yn mhlith blaenoriaid y ddraig. Rhaid i bregethwr parchus fod yn deyrngar i'r brenin Abadon, yn fedrus i ystumio, yn gywrain i haner cyfranu Gair y gwirionedd, yn grefftwr celfydd mewn celwydd defosiynol, a'i ddwylaw yn ddyfal wyngalchu y beddau. Pruddhau bywyd, porthi yr ail-farwolaeth, a phellhau eneidiau dall o'r goleuni, yw prif waith pregethwyr, gan drwytho eu hunain a'r bobl mewn twyll ac anghyfiawnder. Yn Scandinavia, deuai dynes hynod, o'r enw WHITE FELL, i'r ffermdai yn y gauaf; dynes dal, brydweddol, fel Diana; ond ar amserau, fflachiai goleu dychrynllyd yn ei llygaid, a'r rhai a a ddenid ganddi i'w chusanu ar yr aelwyd, a dynid ganddi

i'r meusydd i'w difa; oblegyd bwystfil yn medru gweddnewid oedd hi. Ar y maes, ymnewidiai o lun duwies i wir fleiddes, gan larpio yr hwn a gusanodd ei grudd gelwyddog yn y ty. Portread yw WHITE FELL o'r ddraig goch, y bwystfil tebyg i lewpard, yn hudo y tyrfaoedd i'w chofleidio ar aelwydydd eu chwantau, lle y gwena arnynt; ond ar feusydd y gwirionedd, yn ngoleu y nefoedd, gwelir eneidiau yn cael eu hysglyfiio ganddi.

2. Y DDRAIG YN Y PREGETHWYR. Arwyddlun y ddraig yn y pregethwyr, yw y bwystfil arall yn codi o'r ddaear a ddarlunir yn Dat. xiii, 11-18. "Ac yr oedd gan y bwystfil hwn ddau gorn tebyg i oen, a llefaru yr oedd fel draig," yn arwyddo fod yr hyn a ddysgant o'r Gair fel pe yn wirionedd yr Arglwydd, ond gwirionedd wedi ei droi yn anwiredd yw. "A holl allu y bwystfil cyntaf y mae efe yn ei wneuthur ger ei fron ef, ac yn peri i'r ddaear ac i'r rhai sydd yn trigo ynddi, addoli y bwystfil cyntaf," yn arwyddo fod y pregethwyr yn cadarnhau y coelion arwyddoceir wrth y ddraig, ac a dderbynir gan y bobl, o'r hyn y deillia dylanwad, awdurdod, golud, a pharch y weinidogaeth. "Ac y mae efe yn gwneuthur rhyfeddodau mawrion, hyd onid yw yn peri i dan ddisgyn o'r nef i'r ddaear yn ngolwg dynion," yn arwyddo eu bod yn haeru yn ddefosiwnol, ac fel mewn zel, fod yr hyn a ddysgant yn wirionedd. "Ac y mae efe yn twyllo y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, trwy y rhyfeddodau, y rhai a roddwyd iddo ef eu gwneuthur ger bron y bwystfil," yn arwyddo eu bod yn arwain y bobl ar gyfeiliorn, fel y dywed y prophwyd, "O, fy mhobl, y rhai a'th dywysant sydd yn peri i ti gyfeiliorni" (Esaiah ix, 16). Rhifedi y bwystfil yw "chwe' chant a thriugain a chwech," yn arwyddo fod y bobl a'r pregethwyr yn gwyrdroi y Gair oll er dinystr. Y Gair yn eu plith a gyll ei holl rinweddau, fel y perl diacletes yn colli ei harddwch yn ngenau corph marw. Troant y Beibl yn bla marwol, fel yr Upas yn troi y gwlith a'r gwlaw, y goleu a'r gwres, yn wenwyn; fel y wiber yn llyfu mel a llaeth i faethu y colyn fforchog; ac fel y blaidd yn llarpio yr oen, gan gryfhau ei grafanc am ysglyfaeth. Y bwystfil o'r mor a'r bwystfil o'r ddaear, sef pobl a phregethwyr, a gytunant wrth lygru y Gair, i foli eu gilydd yn y llygredigaeth lwyr. Y pregethwyr hefyd a garant y bobl a'u molant, fel y morgwn yn caru y silod y gwleddant arnynt. Ond troant yr addoldai yn gyffelyb i Sellıari a Spintrae Rhufain, dan reolaeth Nero, bwystfil, a mab i'r bwystfil Aenorbarbus o'r anghenfiles Agrippina. Ni bu Nero yn greulonach i gyrph y merthyron, nag yw pregethwyr i eneidiau y bobl. "Dyma amynedd a ffydd y saint." Aelodau Eglwys Philadelphia a

ymddangosant ar amserau fel yn cael eu concro gan y ddraig a'r bwystfilod. "A rhoddwyd iddo wneuthur rhyfel a'r saint, a'u gorchfygu hwynt; a rhoddwyd iddo awdurdod ar bob llwyth, ac iaith, a chenedl. A holl drigolion y ddaear a'i haddolant ef, y rhai nid yw eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen, yr hwn a laddwyd er dechreuad y byd. Od oes gan neb glust, gwrandawed." Pan orphenodd y ddau dyst eu tystiolaeth, daeth y bwystfil o'r pydew diwaelod i ryfela a hwynt, eu gorchfygu, a'u lladd. Ond ysbryd bywyd oddi wrth Dduw a aeth i mewn i'r ddau dyst. Ni orchfygwyd hwynt ond mewn ymddangosiad. Pwy orchfyga y rhai sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, ac yn aros yn nghysgod yr Hollalluog, a'u bywyd yn troi ar begynau dyfnach na'r bydoedd? Pwy all ddieneidio y rhai a gydanadlant a'r Creawdwr, ac a dderbyniant drefn eu bywyd oddi wrtho Ef, gan losgi i'r soced wrth ei gweithio allan yn nghanol anhrefn byd? Aelodau Eglwys Philadelphia a groeshoeliant ac a gladdant eu hunain, ac a adgyfodant i Hunan Creawdwr y nef a'r ddaear, gan frwydro dros bethau mawrion anchwiliadwy digonol i ddihuno llid a chynddaredd eithaf y dreigiau, trwy holl deyrnas uffern.

3. Y DDRAIG YN Y SECTAU. Y sectau sydd siglenydd a llynau i heigio y llyffaint ddeuant allan o safn y ddraig, ei bwystfil, a'i gau-brophwyd. "Ac mi a welais dri ysbryd aflan tebyg i lyffaint yn dyfod allan o safn y ddraig, ac allan o safn y bwystfil, ac allan o enau y gau-brophwyd; canys ysbrydion cythreuliaid yn gwneuthur gwyrthiau ydynt" (Dat. xvi, 13, 14). Darlunia y geiriau sectau y ddraig yn un crynswth o bregethwyr, offeiriaid, a phobl yn yr holl eglwysi rhydd a gwladol. Safn y ddraig yw ei dysgeidiaeth anwir; y gau brophwyd yw y pwlpud; y bwystfil yw y bobl; tri ysbryd aflan, tebyg i lyffaint, yw yr anwireddau a draethant, yn gyflawn o bob twyll ac aflendid: y tri yn dangos yr oll. Nid yw holl leferydd sectau y ddraig, ond crawciadau llyffaint: swn disynwyr ac aflafar aflendid. Y llyffaint yma a arwyddant yr un peth a llyffaint yr Aipht (Exodus viii, 1-10). Afon yr Aipht yn heigio llyffaint, a ddengys y gwirionedd naturiol wedi ei wyro a'i droi yn anwireddau. Y llyffaint yn holl derfynau yr Aipht a ddengys yr holl fywyd allanol yn llawn anwiredd. Y llyffaint yn y ty, ac yn yr ystafell wely, a ddengys anwireddau aflan o fewn y meddwl, ac yn ei fewnolion eithaf. Y llyffaint yn nhy y gweision, ac yn y ffyrnau, ac ar y bwyd, yn dangos anwireddau yn y meddwl naturiol ac allanol, yn yr holl deimladau a'r pleserau a borthant y meddwl. Gorchest rasol yw gallu credu a thystio fod y sectau mor ansanctaidd; gwyrthiau cythreuliaid yw eu gwaith goreu

Eu sancteiddrwydd sydd yn ol gweithrediad satan, a'u duwioldeb sydd ddewiniaeth ddamniol. Blaenoriaid parchus y sectau ydynt bersonau penrydd, heb brofi nerthoedd y byd a ddaw. Dadwrdd y sectau sydd debyg i chwyrniad udfilod, a'u cwerylon fel gornest angau rhwng teigrod egra a'r crocodiliaid. Temlau y sectau sydd fel bedd-golofnau duwioldeb yn y tir, ac fel hen adfeilion ysbrydol, yn gyrchfa drychiolaethau, a'r wlad y maent ynddi yn ddarn o fynwent fawr yr ail-farwolaeth. Sefydliadau, cenadaethau, cynadleddau, cyrddau a chymanfaoedd y sectau, sydd debyg i gawraidd goed Laos, yn China: angau deyrnasau dan eu cangau duon. Nid oes dim o fewn cylch eu gororau caddug yn cyffwrdd a chalon dyn. Credoau, egwyddorion, ac arferion y sectau sydd debyg i ddeddfau Prydain, yn ol darluniad Cromwell: "Yn dryblith anuwiol a throfaus, heb fod yn agored i ddiwygiad." Aeth y ddaear yn ddiffaethwch a thrigfa dreigiau. Trwy hunan-aberth, yn ngoleu yr ail-ddyfodiad yn unig, y gellir ei throi yn baradwys Duw a phreswylfa angylion. Fel y torodd Belus ei ben ei hun, gan foddi a'i waed, gawrfilod Omoroka, ac a archodd i un o'r duwiau dori ymaith ei ben ei hun, gan ffrydio y ddaear a'i waed, a phobi o honi ddynion, ac anifeiliaid, ac adar a oddefent yr awyr newydd: felly y rhaid i grefyddwyr eto dori eu penau eu hunain ymaith, sef saith ben y ddraig, saith ben y bwystfil, a phen y gau-brophwyd, a rhaid i waed hunan-aberth foddi ysglyfiaid *menageries* mawrion ac anialdiroedd yr enwadau, a ffurfio dynion newydd allant anadlu awyrgylchau creadigaeth newydd.

4. Y DDRAIG YN UFFERN. "A bu rhyfel yn y nef: Michael a'i angylion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd a'i hangylion hithau. Ac ni orfuant, a'u lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef" (Dat. xii, 7, 8). Rhyfel ysbrydol yw hwn, a'r gwrthdarawiadau yn ofnadwy. Y cewri gynt yn eu rhyfeloedd, a godent ynysoedd o'r gwraidd gan eu hyrddio at y duwiau. Cymer un rhwng ei freichiau, wlad Lemnos, ac arni weithfa Vulcan, i'w chwyrndaflu a'i chwefran trwy y ffurfafen. Un arall a rwyga fynydd Ida i'r gwaelodion, ac afon Euripeus yn ffrydio dros ei ochrau. Ond y mae y ddraig a'i chynffon yn tynu traian ser y nef o'u gorsafion oesol, ac yn bwrw afon o'i genau i ddwyn ymaith y wraig. Y mae bwystfilod a gau-brophwydi y ddraig yn fwy rhyfelgar na Mars, yn fwy taranllyd na Jupiter, yn fwy tymhestlog na Neptune, ac yn fwy erchyll na chythreuliaid Gadara. Ond fel y gwnaeth Pluto lamu o'i orsedd, a ffoi o'i balas yn nghanolbwynt y ddaear, rhag ofn y cynhyrfiadau, felly y brawychir ac y diorseddir y dreigiau, gan dreiddiol

dwrf yr Ail-ddyfodiad. "Yn fy nghyfyngder y gelwais ar yr Arglwydd, ac y gwaeddais ar fy Nuw: Efe a glybu fy llef o'i deml, a'm gwaedd ger ei fron a ddaeth i'w glustiau Ef. Yna y siglodd ac y crynodd y ddaear; a seiliau y mynyddoedd a gynhyrfwyd, ac a ymsiglodd, am iddo Ef ddigio" (Salm xviii, 6, 7). Ni fedr y dreigiau ddal agoriad y saith sel, udganiad y saith udgorn, llefau y saith daran, arllwysiad y saith phiol, sef y saith bla diweddaf. "A bwriwyd allan y ddraig fawr, yr hen sarph, yr hon a elwir diafol a satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd: efe a fwriwyd allan i'r ddaear, a'i angylion a fwriwyd allan gydag ef" (Dat. xii, 9). Wele y ddraig yn cwympo o'i nefoedd ffugiol yn y byd ysbrydol, i'r ddaear, o'r ddaear i'r mor, ac o'r mor i uffern. "A daliwyd y bwystfil, a chydag ef y gau-brophwyd, yr hwn a wnaeth wyrthiau ger ei fron ef, trwy yr hwn y twyllodd efe y rhai a dderbyniasant nod y bwystfil, a'r rhai a addolasent ei ddelw ef; yn fyw y bwriwyd hwynt ill dau i'r llyn tan, yn llosgi a brwmstan" (Dat. xix, 20). "Ymddengys eu huffern," medd Swedenborg, "fel llyn tanllyd, yn fflamiau gwyrddion o liw brwmstan, ond nid yw y rhai sydd ynddynt yn gweled hyn; canys cauedig ydynt yn eu carchardai, lle yr ymrysonant yn ffyrnig a'u gilydd, ac ymddengys cyllyll weithiau yn eu dwylaw, a bygythiant frathu yn hytrach nag ildio. Y mae y llyn tanllyd yn tarddu o'u twyll a'u drygau." Ufudd-dod anwyl a pherffaith i'r Dyn Anfeidrol yn unig a'n ceidw rhag llyn echrysfflam, a thwll ddiadlam y ddryglam ddreigle. Y mae Ynysoedd yr India Orllewinol yn ddarostyngedig i ddaeargrynfaau, tanlifiadau, a chorwyntoedd, a chant eu hamgylchu gan y Creawdwr a chreigiau certh, yn rhybuddion mai peryglus morio gerllaw iddynt. Ond mwy peryglus morio gerllaw llyn y dreigiau sydd yn llosgi yn dragywyddol gan dan a brwmstan.

5. Y FFORDD I ORCHFYGU Y DDRAIG. "A'r holl ddaear a ryfeddodd ar ol y bwystfil" (Dat. xiii, 3, 4). Y mae gallu a dylanwad mawr gan y ddraig ar rai tywyll a drwg, ond dim ar rai goleu a da. Di-allu hollol yw drwg a thwyll ynddynt eu hunain, yr hyn yw y ddraig; gwirionedd a daioni yn unig sydd alluog. Nid oes gan ysbrydion drwg a chythreuliaid yr un grym yn erbyn gwirionedd. Gall un angel atal, rhwymo, neu wasgar miliwnau o gythreuliaid ag un amrantiad. Gwir y coelia y dreigiau eu bod yn alluog uwchlaw pawb, ond nid yw eu gallu eithaf ond gallu gwyfyn yn erbyn gwyfyn, gallu chwanen yn erbyn chwanen, a gallu gwelltyn yn erbyn gwelltyn. Nid oes ganddynt allu yn erbyn Duw, yn erbyn y gwir, nac yn erbyn angel. Gwir y gall y dreigiau, trwy wyrdroi y Gair a gweniaith, dwyllo dynion syml a di-

niwed am dymor, a'u tynu o'u plaid; tra awyddus ydynt am hyny, er lledu y drwg, ac o herwydd eu pleser i niweidio. Oddi wrth y dreigiau y daw temtasiynau y rhai a ail-enir, sef poenau mewnol trwy gynhyrfu y drygau sydd ynddynt. Y mae angylion drwg a da yn gwylio ar bob dyn. Y rhai drwg a weithiant ar y tueddiadau drwg, a'r rhai da ar y tueddiadau da. Mewn temtasiwnau, y mae rhyfel rhwng y dyn allanol, neu anianol, a'r da sydd yn cyfansoddi a brwydro yn y dyn mewnol, neu ysbrydol. Os yw y drwg yn cynyddu, yna y dyn anianol a'r angylion drwg a goncrant; ond os yw y da yn cynyddu, yna y dyn ysbrydol a'r angylion da a goncrant. Trwy wirioneddau o Air yr Arglwydd yn unig y gellir concro, am fod yr Arglwydd a'r nefoedd yn y gwirioneddau hyny, ac nis gall uffern a'i holl alluoedd sefyll o'u blaen, mwy na'r nos o flaen yr haul. Nis gall neb, ychwaith, wybod dim yn brofiadol am y rhyfel hwn, neu demtasiwn, heb wybodaeth o'r gwirionedd, heb fywyd ysbrydol, ac heb addfedu mewn oed. Pan syrthia dyn mewn temtasiwn, ei gyflwr sydd waeth na chyn hyny, am fod uffern trwy anwiredd a drygioni, yn cael goruchafiaeth. Ond os deil dyn demtasiwn heb syrthio, caiff y nefoedd, trwy gariad a gwirionedd, oruchafiaeth; cadarnheir y dyn hefyd yn y gwirionedd a'r cariad dwyfol, unir yr ewyllys a'r deall, alltudir y drygau a'r ysbrydion drwg, agorir y dyn mewnol, caiff yr enaid ei oleuo a'i alluogi i amgyffred pethau ysbrydol, ac i wahaniaethu rhwng drwg a da, a rhwng gwirionedd a thwyll. Trwy orchfygu temtasiwnau beunydd, yr ymddyrchafa yr enaid beunydd i wyddfod a delw y Duwdod, ac i adnabyddiaeth a sicrwydd, mai yr Arglwydd ei Hun yn unig sydd yn ymladd a buddugoliaethu dros ddyn. Dywed traddodiad am St. George, a anwyd yn Capadocia, iddo goncro y ddraig gerllaw dinas Libya. Y ddraig hon a wenwynai y bobl a'i hanadl, ac a ddyhuddid beunydd a dwy ddafad. Pan ddarfu y defaid, offrymid ebyrth dynol. Trwy goelbren, rhoddid plant i'r ddraig, nes o'r diwedd, dewiswyd merch y brenin. Ei thad a'i cofleidiodd, a'i cusanodd, ac a'i harweiniodd i'r gors lle y trigai y ddraig. St. George, wrth fyned heibio, a welodd y foneddiges yno, ac a ofynodd iddi beth a wnai hi yno. Hi a ddywedodd, "Dos ymaith, ddyn ieuanc glan. rhag darfod am danat tithau hefyd." Dywedodd yntau, "Adrodd i mi beth sydd genyt—paham yr wyli, ac nac amheu ddim." Dywedodd wrtho y modd y traddodid hi i'r ddraig. "Ferch lanwedd," ebe ef, "yn enw Iesu Grist, mi a'th gynorthwyaf." Ymddangosodd y ddraig, ac a ruthrodd arnynt. Yr oedd St. George ar ei farch; tynodd allan ei gleddyf, addurnodd ef ag arwydd y groes; tarawodd y ddraig a'i waewffon, niweidiodd

hi yn dost, a thaflodd hi i lawr, gan ddywedyd wrth y llances, "Dyro dy wregys, a rhwym am wddf y ddraig, ac nac ofna." Mwyn oedd y ddraig yn awr, a hi a'i harweiniodd i'r ddinas, a'r bobl a ffoisant mewn dychryn. Yna dywedodd St. George wrthynt, "Credwch yn Nuw, yr Arglwydd Iesu Grist; bedyddier chwi, ac edifarhewch, a mi a laddaf y ddraig." Yna bedyddiwyd y brenin a'i holl bobl, a St. George a laddodd y ddraig, ac a dorodd ymaith ei phen, ac a archodd ei thaflu i'r meusydd. Cymerasant bedwar cert ychain ac a'i llusgasant o'r ddinas. Cynygiodd y brenin arian i St. George, ond gwrthododd hwynt, ac archodd eu rhoddi i'r tlawd a'r rheidus. Y traddodiad a'n hadgofia o'r rhyfel mawr a welwyd yn y nef, y ddraig yn ymosod ar y wraig (Dat. xii). Trwy yr Arglwydd, y taflwyd y ddraig i lawr o'r nef i'r ddaear, o'r ddaear i'r mor, ac o'r mor i uffern, fel y mae dinas Duw yn awr yn dragwyddol ddyogel rhag y dreigiau a'r udfilod oll. "Yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bob peth; ac mi a fyddaf iddo ef yn Dduw, ac yntau a fydd i minau yn fab. Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r swyngyfareddwyr, a'r eilunaddolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi a than a brwmstan: yr hwn yw yr ail farwolaeth" (Dat. xxi, 7, 8).

6. LLWYDDIANT EGLWYS PHILADELPHIA WEDI CONCRO Y DDRAIG. Cuddiedig yw cryfder a gogoniant Eglwys Philadelphia eto, er fod ei dylanwad yn gyffredinol, trwy ei bod yn uno yr Arglwydd a'r hil ddynol, trwy ei bod yn byw yn ngwres a goleu y Gair Holl-bresenol, ac yn gyfrwng newydd i'r Arglwydd a'r angylion fod yn bresenol gyda phawb. Yn Eglwys Philadelphia, gwel y Dyn Anfeidrol sylweddiad ei gynghor, cyflawniad ei arfaeth, a chyfrwng dylifadau dwyfol diderfyn. Eglwys Philadelphia hefyd, trwy yr Arglwydd a'r Gair, a gysyllta y nefoedd a'r ddaear. Eglura gymdeithas y dirgelwch i drigolion byd, ac hysbysa fawr amryw ddoethineb Duw i'r tywysogaethau a'r awdurdodau yn y nefolion leoedd. Trwy y Gair, deil gymundeb a'r aneirif gymdeithasau angylaidd; a'r aneirif gymdeithasau angylaidd, drwyddi hi, a welant ac a wyliant holl bobloedd a chenedloedd y byd. Trwy yr Eglwys hon, hefyd, helpir ysbrydion Hades, a darostyngir yr uffernoedd. Pregetha hi i'r ysbrydion yn ngharchar, gweddia dros y meirw, a deil i fyny safon dynoliaeth newydd yn y bydysawd. Ond o herwydd llid a llwydd y ddraig, nid yw Eglwys Philadelphia eto ond "Gwraig yn yr anialwch, lle y mae ganddi le wedi ei barotoi gan Dduw, fel y porthent hi yno, fil a deucant a thriugain o ddyddiau" (Dat. xii, 6). Arwydda hyn mai ychydig yw nifer Eglwys Philadelphia ar

y dechreu, a'u bod, o ran y corph, yn wasgaredig a phell oddi wrth eu gilydd, yn yr anialwch ysbrydol, yn nghanol drygau ac anwireddau y ddraig. Ond lluosogir ei haelodau, a symudir y ddraig a'i bwystfilod. Yna y daw allan o'r anialwch, a'i goleu a'i gwres i lanw a lloni yr holl fyd. "Pwy yw hon a welir fel y wawr, yn deg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, yn ofnadwy fel llu banerog?" (Can. vi, 10). Ein rhwymau a'n braint, cyn ei dyfod o'r anialwch, yw ymwario mewn rhyfel a'r ddraig, trwy ddynoethu y fath grefydd, nad yw ond *forgery* fawr y fall, y fadfelen farwol ei hanadl; ei phregethwyr a'i hoffeiriaid moethus yn plymio o'r pwlpud i bydewau Mammon, fel llygod ffrengig yn neidio o geulanau y llyn i laid y gwaelod. Ymwrolwn yn y Gair, yn un a'r Arglwydd ac a'r angylion, i udganu cwymp a gwae yr "hen sarph, yr hon yw diafol a satan." Addasedig yw rhai o honom trwy feddylfryd anfarwol, trwy oleuni o'r nefoedd, trwy ymdrechfa edifeiriwch, trwy addunedau i'r Arglwydd, trwy alarnadau Hadadrimmon, trwy gyd-anadlu a'r Gwaredwr, a thrwy galonau yn curo dan orthrymder mawr digymhar yr Ail-ddyfodiad. Profiadau dwfn a dwys blynyddoedd mewn erlidiadau, trwy lid y ddraig, a ddysgodd fwy i ni am reddfau, hydiau, ac arferion y bwystfilod, nag a wnai holl ysgolion a cholegau y byd am oesoedd fyrdd. Gwybodaeth anwyl o'r Gair yn Eglwys Philadelphia, oddi ar brofiad maith yn y brwydrau, yw ein hawdurdod i ddatgan tynged ddatguddiedig y ddraig. Treuliodd Tywysog Rudolph lawer o'i fywyd yn hela ar lanau y Danube, a myfyrio ar y creaduriaid a welai yno. Ysgrifenodd lyfrau ar yr eirth yn Transylvania, ar y chamois yn mynyddoedd Styria, ac ar y ceirw yn Awstria Isaf. Ond gwelsom ni, a gorfu arnom ddarlunio, bwystfilod gwaeth ar lanau Teifi, a bryniau Gwalia. Dirgelwch yr anwiredd yn awr a ddatguddir trwy y byd, ac a ddyfethir a dysgleirdeb dyfodiad yr Arglwydd. Yn ei fawredd, fel Gitche Manito yr Indiaid, Efe a edrych mewn trugaredd ar y bobloedd. Trwy Eglwys Philadelphia, Efe a dawela eu digter a'u dadleuon; Efe a ddofa eu cyndynrwydd a'u cynddaredd; Efe a'u dena trwy ei Air, ato ei hun, ac at y tair nefoedd. Cant y greadigaeth a'r gwyrthiau oll yn y Dyn Anfeidrol, a'i Ddynoliaeth Ddwyfol ogoneddedig. Cant ynddo gareg yr athronydd i droi y copr yn aur; y cornucopia yn cynwys pob bwyd; y panacea yn gwella pob dolur; ac arfogaeth Vulcan i goncro yn mhob brwydr. Cant eu rhyddhau yn llwyr oddi wrth ymerodraeth angau, a'u hagor yn llwyr i ymadferthoedd bywyd. Cant eu denu, a'u tynu, a'u codi i'r canolbwynt, a'u gorlanw a gwynfyd ac a gorfoledd anfarwol; a thrwyddynt y treiddia ffrydlifoedd daioni a dedwyddwch dwyfol, amgylch

ogylch, trwy y bydoedd i dramwy tragwyddoldeb. Perthynas ryfedd ac ofnadwy sydd rhwng dyn a'r bydysawd gweledig, er nad yw o ran ei gorph ond fel atom at y gwrthrychau anferth o'i gylch; eto, cenfydd, teimla, a derbynia y nerthoedd anfeidrol weithiant trwy y greadigaeth. Wrth fod ei lygaid yn gweled goleuni, teimla, a derbynia ddirgryniadau dirifedi yr *ether* anfesurol, ddeil yr heuliau a'r bydoedd aneirif yn ei fynwes. Y pwysau a'i ceidw ar y ddaear yw nerthoedd yr atdyniad sydd yn trefnu a rheoli yr holl greadigaeth. Felly hefyd y mae efe o ran ei enaid yn nghanol nerthoedd y byd a ddaw. Fel y mae ei lygaid yn derbyn a darganfod dirgryniadau yr *ether* dan ddylanwad heuliau y bydysawd, y mae ei feddwl yn derbyn a darganfod pwerau anfeidrol y bydysawd ysbrydol. Nid profiad unigol a phersonol yw ei gariad, ond teimlad yw o eigionau bywyd dwyfol sydd yn uwch na'r nefoedd a dyfnach nag uffern. Ei nwydau drwg, nid ydynt ond teimlad a datganiad o'r rhyferthwyon ymwriant yn oes oesoedd yn awyrgylch teyrnas y tywyllwch. Ond bod yn Eglwys Philadelphia yw bod yn dragwyddol gloedig rhag holl ddylanwadau y cydfyd colledig, a bod yn dragwyddol agored i holl ddylanwadau y nef ar y ddaear newydd. Dyma lwyddiant Eglwys Philadelphia wedi concro y ddraig—gallu i ddywedyd gyda'r pen-rhyfelwr, "Tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi. Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, ac megys y gorchymynodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur" (Ioan xiv, 30, 31).

XIV.—AGORIAD I DDIRGELWCH Y BUTTAIN FAWR.

Darlunir tair eglwys fawr yn y Datguddiad. *Yn gyntaf*,—Y wraig wedi ei gwisgo a'r haul, y lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen goron o ddeuddeg seren. Eglwys Philadelphia yw hon, Eglwys yn anwylu y Ddynoliaeth Ddwyfol yn ngoleu y Gair, ac yn anwylu lles yr hil ddynol oll. Felly, Eglwys o ddynion tanbaid, tryloew, a dysglaer, yn gwisgo a gwasgar goleuni a gwres; yn creu y wawr, y dydd, y gwanwyn, a'r

haf tragwyddol. Am hon y dywedir, "A phob melldith ni bydd mwyach: ond gorseddfainc Duw a'r Oen a fydd ynddi hi; a'i weision Ef a'i gwasanaethant Ef. A hwy a gant weled ei wyneb Ef; a'i enw Ef a fydd yn eu talcenau hwynt. Ac ni bydd nos yno; ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll na goleuni haul, oblegyd y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt; a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd" (Dat. xxii, 3-5). *Yn ail*,—Y ddraig goch fawr. Fel y dangoswyd yn y benod flaenorol, eglwys yw hon o greuloniaid, yn gwyrdroi a thrawsffurfio ei hun yn sarph, yn satan, a diafol. Eglwys yr eigion a'r pydew diwaelod ydyw, a'i mwg yn duo a melldithio y wybren; ond eglwys yn awr, trwy drugaredd, fel y lleuad ar ei gwendid yn y gorwel gorllewinol, yn lleihau, ac i leihau i ddiddymdra, wrth fythol fachlud yn yr hirnos fawr. *Yn drydydd*,—Y buttain fawr. Eglwys yw hon a'i phabau a'i hoffeiriaid yn ddewiniaid ysbrydol, yn dallu a thwyllo y tyrfaoedd, a'u hudo hefyd i'r ddirwasgfa ddinystriol, rhwng breichiau brwmstan y buttain fawr, fel plant y tadau eilunaddolgar, rhwng breichiau Moloch yn fflamiau Tophet. Sylwn:—

I. CARIAD LLYWODRAETHOL Y BUTTAIN FAWR. II. DICHELLION Y BUTTAIN FAWR. III. LLWYDDIANT Y BUTTAIN FAWR. IV. Y BUTTAIN FAWR YN DYSTRYWIO YR EGLWYS. V. BARNEDIGAETH Y BUTTAIN FAWR. VI. GORFOLEDD Y NEFOEDD O HERWYDD CWYMP Y BUTTAIN FAWR. VII. DYOGELWCH EGLWYS PHILADELPHIA RHAG Y BUTTAIN FAWR.

1. CARIAD LLYWODRAETHOL Y BUTTAIN FAWR. Cariad diderfyn at awdurdod a golud, yw cariad llywodraethol y buttain fawr. Y mae awdurdod gan y Pab i rwymo actau gwaethaf y dynion gwaethaf, ar gydwybod y dynion goreu, gan wneud daioni a doethineb i ddibynu ar air pechadur rhyfygus, ac nid ar Air y Dyn Anfeidrol. Y cariad i lywodraethu pob peth yn yr Eglwys a welir yn yr awdurdod a honir ar eneidiau a'u haddoliad. Y cariad i lywodraethu y nefoedd a welir oddi wrth y gallu a hawliant i ryddhau a rhwymo, i gau ac agor. Y cariad i lywodraethu yr Arglwydd welir oddi wrth ficeriaeth y pabau, yn priodoli iddynt eu hunain bob peth a berthyn iddo Ef. A'r cariad i lywodraethu pob peth yn y Gair a welir yn eu gwaith yn cadw iddynt eu hunain yr hawl i'w ddehongli. Gelwir ef yn gariad i lywodraethu oddi ar hunan-gariad, oblegyd fod hefyd gariad at lywodraethau oddi ar gariad at les—dau gariad gwbl groes i'w gilydd Dieflig yw cariad at lywodraethu oddi ar hunan-gariad, oblegyd hunan yw y cwbl ynddo, a'r byd er mwyn hunan. Ond dwyfol yw cariad at lywodraethu oddi ar gariad at les,

oblegyd yr Arglwydd yw y cwbl ynddo, o'r Hwn ni ddaw ond lles; a lles yn ei olwg Ef yw gwneud daioni i'r Eglwys er mwyn iachawdwriaeth eneidiau. Felly, y cariad hwn a ffieiddia y cariad at lywodraeth oddi ar hunan-gariad. Y ficeriaeth, fel offeiriadaeth y Mormoniaid, sydd ddyfais y diafol, a ffugiaeth i dwyllo. Y pabau, yn fwy pybyr na Plutoniaid y pagan, a bentyrant olud oddi ar bleser bydol. Golud a gwendid y Vatican, a amlygwyd yn hynod, yn yr ymddyddan rhwng y Pab Innocent a Thomas Aquinas. Pan oedd Aquinas yn Rhufain, yn edrych yn synedig ar grynswth y trysorau, dywedodd y Pab wrtho, "Gweli, Thomas, nas gellwn ddywedyd fel Pedr gynt, 'Arian ac aur nid oes genym.'" "Na," meddai Thomas, "ac nis gelli fel efe, archu i'r cloff godi a rhodio." Pomp a budr elw yw y Babaeth; panorama bydol llywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, a thegan erfawr uffern ar y blaned ynfyd, fel Twr Eiffel yn Paris, yn brawf o benddaredd y bobloedd. Cydnawsedd cynyddol sydd rhwng cariad llywodraethol y Babaeth a chariad yr Eglwys Wladol, megys y dengys ei huchelgais, ei defodau, a'i gwaith. Y sectau ymneillduol hefyd a sangant yn ol sodlau y bwystfil.

2. DICHELLION Y BUTTAIN FAWR. Y mae y Babaeth, trwy ffug-sancteiddrwydd, yn ysblenydd o'r tu allan, ond yn llawn ystrywiau a ffieidd-dra o'r tu fewn. Rhyfeddodd Ioan a rhyfeddod mawr, pan welodd y wraig yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad, wedi ei gwychu ag aur, a main gwerthfawr, a pherlau; a chanddi gwpan aur yn ei llaw, ond y cwpan yn llawn o aflendid ei phutteindra. "Ac ar ei thalcen yr oedd enw wedi ei ysgrifenu, Dirgelwch, Babilon Fawr, MAM PUTTEINIAID a ffieidd-dra y ddaear" (Dat. xvii, 5). Yr oedd hi hefyd yn feddw gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu. Eto, y bobloedd a dwyllir mai hon yw pur a breiniol fam duwioldeb. Trwythir hwynt yn y twyll hwn gan offeiriaid, hudolion, a dewiniaid Rhufain. Y bobl a gymerant eu rhwymo a'u gorthrymu gan draddodiadau a dyfeisiau twyll. Cuddir y dichellion dan rithiau cariad a defosiwnau, fel gwiberod dan ddail y balsam, neu fel *skulopae* y Groegiaid, a'i lliwiau teg yn llithio y teithiwr at ei cholyn. Gwelir eu dichellion ffiaidd wrth ystyried y pethau canlynol:—Cydnabyddant ac addolant yr Arglwydd ar wahan a'i allu i achub; gwahanant ei Dduwdod a'i Ddyndod, a thraws-feddianant y gallu dwyfol a berthyn i'w Ddynoliaeth; oblegyd honant yn rhyfygus y gallu i faddeu pechodau, yr awdurdod i anfon rhai i'r nefoedd ac uffern, yr hawl i fendithio a melldithio eneidiau, y fraint o werthu iachawdwriaeth: fel hyn honant bwerau iddynt eu hunain, na pherthynant ond i'r Duwdod; felly y

gwnant dduwiau o honynt eu hunain, o'r Pab i lawr i'r swyddog isaf. Hwy yw Arglwydd ac arglwyddi, Duw a duwiau nef a daear. Nid yn unig cyfeiliornant a llygrant y Gair, ond cadwant ef rhag y bobl, rhag iddynt ddod i oleuni lleiaf y gwirionedd; diddymant y Gair hefyd, gan briodoli dwyfoldeb ac anffaeledigrwydd i osodiadau y Vatican; felly cauant allan bawb o'r ffordd i'r nefoedd. Pa ddyfnaf y ddichell, a pha dduaf y tywyllwch, goreu oll ganddynt, fel y gallont yn hawddach ddwyn yn mlaen eu defodau anwir ac eilun-addolgar, a thra-arglwyddiaethu ar eneidiau dynion, gan osod addoliad yn y pethau allanol heb y mewnol, tra nad oes addoliad i'r Arglwydd heb wirionedd a chariad mewnol. Lluosogant y seintiau pabaidd; gorchymynant eu haddoli a gweddio arnynt; ymffrostiant yn amlder eu gwyrthiau; cysegrant fynachlogydd, mynwentydd, beddau, ac esgyrn pydredig y meirw, gan droi eneidiau oddi wrth addoliad y Duw byw, at addoliad y meirw, ac at addoliad cythreuliaid. Arferant hefyd bob dyfais ddewinol i dwyllo, a pharhau teyrnasiad y tywyllwch. Cadwant ysbiwyr a chynghreiriau Jesuitaidd yn mhob cyfeiriad; gorfodant gyfaddefiadau y galon a'r meddwl, dan fygythion tan uffern a phoenau y purdan. Gwnant hyn oll a mwy, er mwyn bod yn fawr trwy ysbeilio pobloedd lawer, a'u cadw yn gaethion, heb hidio gwelltyn am ddamnedigaeth na bywyd tragwyddol. Er mai y Babaeth yw prif fam y gampwaith uffernol hon, y mae dirgelwch yr un dichellion yn gweithio, pa le bynag y ceisir rheoli dynion trwy grefydd, gan wyrdroi y Gair Dwyfol i'r pwrpas.

3. LLWYDDIANT Y BUTTAIN FAWR. Y mae yr anifeiliaid dan lywodraeth y corph yn fwy na'r ymenydd, felly, nis gallant beidio ceisio yr hyn y crefa y gwaed am dano. Ond y mae dyn wedi ei greu i'w reoli gan yr ymenydd, gyda gallu i ostegu llef y gwaed, a'i gadw draw o'r pen, rhag aflonyddu ar lysoedd angylaidd a dwyfol y rheswm a'r ewyllys. Ond natur y bwystfil sydd gan y buttain fawr; gwaed y bwystfil sydd yn ei phen a'i phwls; calon bwystfil sydd yn ei chorph; greddfau a thrachwantau bwystfil yw ei chariad; ac ysglyfion bwystfil yw ei holl lwyddiant. Y goleu newydd a leiha ei gallu i hela ac ysglyfio. Pwy all anghofio ei gallu creulon trwy orsedd y chwil-lys: trwy fygythion y purdan: trwy amlder y mynachlogydd: trwy bentyrau lladrad: trwy wyrdroi a gwahardd y Gair: trwy ffug-sancteiddrwydd: trwy wasanaeth yr offeren: trwy addoli y meirw: a thrwy ysblander allanol yn dallu a thwyllo y diniwed? Y mae swyngyfaredd mewn aur ac awdurdod, mewn honiadau a ffug-sancteiddrwydd, i wenwyno yr eneidiau goreu. Addurnir y Vatican a'r pwlpud

pabaidd a gemau lladrad a llofruddiaeth, fel y gwneid gynt a gwaedgwn Sultan Mahmoud. Y cardinaliaid, fel Lusiffer, a geisiant ddringo i'r nefoedd trwy falchder a thrais, a chodi eu gorseddfa oddi ar ser Duw, er eu bod felly yn dirywio i ystad yr *acraniate*—creadur heb ben nac ymenydd. Tyfu wnaeth y Babaeth oddi ar falldod a melldithion, fel blodau yn y trofegau, yn gorchuddio boncyffion prenau yn pydru, ac yn gloddesta arnynt.

4. Y BUTTAIN FAWR YN DYSTRYWIO YR EGLWYS. "Babilon fawr hono, a aeth yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwraeth pob aderyn aflan ac atgas" (Dat. xviii, 2). Ysgeler yw ei daliadau am y bedydd, am y cymun, am yr offeren, am edifeiriwch, am gyfiawnhad, am y purdan, am y saith sacrament, am weddio ar y meirw, am allu dwyfol pabau ac offeiriaid, ac am atal y bobl i ddarllen a deall y Gair. Yr offeiriaid, trwy ddyfeisiau a dichellion, a droisant eneidiau oddi wrth addoliad yr Arglwydd, a thrwy esboniadau sarphaidd, difasant ymysgaroedd y Beibl, gan wneud geiriau y bywyd yn faglau angau dros y byd. Udgorn y gwirioneod a gynddeirioga yr offeiriaid, fel teigrod yn swn y tabwrdd. Yn eu cynddaredd yn erbyn y gwir, y maent wedi defnyddio y fflam a'r ffagod i amddiffyn eu crefydd. Och! gadawer i grefydd syrthio i'r pydew diwaelod, rhwymer hi, a chauer hi yno, yn hytrach na gwneud amod ag angau, a chynghrair ag uffern, i'w chynal ar y blaned. Oddi wrth fam putteiniaid y ddaear y deilliodd twyll a drygau yr Eglwys Brotestanaidd. Plaau Babilon fawr a ymledant fel *pebrine* ar y pryf sidan, fel y chwaren ar y lloi, ac fel y geri marwol ar ddynion. Preswylfa pob melldith yw, fel Bengal,—tiriogaeth drychiolaethau, cartrefle pob haint, a mangre marwolaeth; trigfa y twymynau tragwyddol ac anadferadwy, fel Fernando Po, ac fel uffern.

5. BARNEDIGAETH Y BUTTAIN FAWR. Y mae dau fath o babyddion: un math yn cydnabod y Babaeth, oblegyd eu geni a'u magu ynddi, ond yn agoshau at Dduw, ac yn cyfrif y Gair yn gysegredig. Y math arall, y rhai sydd yn anwylu y Babaeth, a'i mawrhau o galon. Y math cyntaf a ffurfiant gymdeithasau sanctaidd yn myd yr ysbrydoedd, ac a esgynant i'r nefoedd. "Wrth gael eu haddysgu yn y byd arall," medd Swedenborg, "derbyniant y gwirionedd, a gwrthodant addoliad y Pab, a gweddio ar y meirw; a chydnabyddant mai yr Arglwydd yw Duw y nefoedd a'r ddaear. Felly dyrchefir hwynt i'r nefoedd, a deuant yn angylion. Ffurfir llawer o gymdeithasau nefolaidd o honynt yn y byd a ddaw, y rhai mwyaf anrhydeddus yn eu blaenori. Caniatawyd hefyd i mi gael gweled rhai fuont ymerawdwyr, brenhinoedd, duciaid,

a thywysogion cyfiawn, yn blaenori yno, y rhai yn wir a gyfrifent y Pab yn ben yr eglwys, ond nid yn ficer yr Arglwydd; y rhai hefyd a gydnabyddent rai o arch-lythyrau y Pab, ond er hyny, a gyfrifent y Gair yn gysegredig. Ond y rhai a anwylant ac a fawrhant y Babaeth, a dynghedir i angau. Eu credoau a chwalwyd yn y farn ddiweddaf, yn myd yr ysbrydoedd." Hyn yw y sail a'r sicrwydd y chwelir hwynt hefyd yn y byd hwn, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr hono" (Dat. xviii, 2). "Yn un dydd y daw ei phlaau hi, sef marwolaeth, a galar, a newyn; a hi a lwyr losgir a than; oblegyd cryf yw yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd yn ei barnu hi. Ac wylo am dani, a galaru drosti, a wna brenhinoedd y ddaear, y rhai a butteiniasant ac a fuont fyw yn foethus gyda hi, pan welont fwg ei llosgiad hi; gan sefyll o hirbell, gan ofn ei gofid hi, a dywedyd, Gwae, gwae, y ddinas fawr hono, Babilon, y ddinas gadarn! oblegyd mewn un awr y daeth dy farn di" (Dat. xviii, 8-10). Gwelir y perygl o barchu y Babaeth, neu barchu unrhyw gymdeithas, neu berson, yn awyddu llywodraethu er mwyn clod ac elw. "Ac mi a glywais lef arall o'r nef yn dywedyd, Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, fel na byddoch gydgyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phlaau" (Dat. xviii, 4). Dynion a chyfundraethau drwg ydynt debyg i'r pren Igdrasil, y gwraidd yn uffern, er i'r cangau godi i'r nefoedd. Credai y Rosicrusiaid fod ysbrydion yn yr elfenau; a'r Scandinaviaid, fod Iotuns, neu dduwiau erchyll, yn y corwyntoedd; a chredwn ninau o'r Gair, fod ysbrydion aflan yn y Babaeth, yn treiddio trwy y teyrnasoedd, ac yn gweithio yn yr holl grefyddau, yn elynol i'r Shecinah yn y dyn; fel nad yw defosiwn a moesau y byd Cristionogol ond fel gemau ar y sarph Indiaidd.

6. GORFOLEDD Y NEFOEDD O HERWYDD CWYMP Y BUTTAIN FAWR. "Ac ar ol y pethau hyn, mi a glywais megys llef uchel gan dyrfa fawr yn y nef, yn dywedyd, Aleluia! Iachawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, i'r Arglwydd ein Duw ni; oblegyd cyfiawn a chywir yw ei farnau Ef; oblegyd Efe a farnodd y buttain fawr, yr hon a lygrodd y ddaear a'i phutteindra, ac a ddialodd waed ei weision ar ei llaw hi; ac eilwaith y dywedasant Aleluia" (Dat. xix, 1-3). Fel hyn y gwna angylion y nefoedd isaf ogoneddu Duw, o herwydd symud y grefydd a'r cymdeithasau pabaidd o fyd yr ysbrydoedd, trwy yr hyn yr adferir yr angylion i oleuni a gwynfyd. Y pabyddion a rwystrent y Presenoldeb Dwyfol i ddylifo iddynt, fel cymylau duon yn codi o'r ddaear yn cuddio yr haul. Dywedasant, "Aleluia!" a thrachefn y dywedasant "Aleluia!" oblegyd condemnio y grefydd hon i dragwyddoldeb. a'u gwared hwythau am byth rhag cael eu poeni gan

y pabyddion, ac am fod atdaliad wedi dyfod am y niwed a wnawd i eneidiau dynion, ac i addoliad yr Arglwydd. "A syrthiodd y pedwar henuriad ar hugain, a'r pedwar anifail i lawr, ac a addolasant Dduw, yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc, gan ddywedyd, Amen, Aleluia!" (Dat. xix, 4). Angylion y nefoedd uchaf sydd yma yn cadarnhau llawenydd y nefoedd isaf, a'r tair nefoedd a gydgordiant i glodfori, o herwydd cwymp Babilon. "A llef a ddaeth allan o'r orseddfainc, yn dywedyd, Molienwch ein Duw ni, ei holl weision Ef, a'r rhai ydych yn ei ofni Ef, bychain a mawrion hefyd. Ac mi a glywais megys llef tyrfa fawr, ac megys llef dyfroedd lawer, ac megys llef taranau cryfion, yn dywedyd, Aleluia! oblegyd teyrnasoedd yr Arglwydd Dduw Hollalluog. Llawenychwn a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo Ef; oblegyd daeth priodas yr Oen, a'i wraig Ef a'i parotodd ei hun. A chaniatawyd iddi gael ei gwisgo a llian main glan a dysglaer; canys y llian main ydyw cyfiawnder y saint. Ac Efe a ddywedodd wrthyf, ysgrifena, Bendigedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen. Ac Efe a ddywedodd wrthyf, Gwir eiriau Duw yw y rhai hyn" (Dat. xix, 5-9). Yr uniawn a orfoledda yn neddf yr atdaliad. "Y cyfiawn a lawenycha pan welo ddial: efe a ylch ei draed yn ngwaed yr anuwiol. Fel y dywedo dyn, diau fod ffrwyth i'r cyfiawn: diau fod Duw a farna ar y ddaear" (Salm lviii, 10, 11). Molianodd Moses a Miriam am foddi gormesdeyrn yr Aipht, Pharaoh a'i lu, yn y mor coch. "Canaf i'r Arglwydd, canys gwnaeth yn rhagorol iawn; taflodd y march a'i farchog i'r mor" (Ex. xv, 1). Canodd Deborah a Barak am ddialeddau yr Arglwydd ar Jabin a Sisera, gan weddio wrth ddiweddu, "Felly y darfyddo am dy holl elynion, O Arglwydd; a byddant i'r rhai a'i hoffant ef fel yr haul yn myned rhagddo yn ei rym" (Barnwyr v, 31). Y Salmydd a eilw am glodforedd i'r Arglwydd am daro brenhinoedd gorthrymus, "Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw; o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd . . . Yr hwn a darawodd frenhinoedd mawrion; o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd. Ac a laddodd frenhinoedd ardderchog; o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd. Sehon, brenhin yr Amoriaid: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd; ac Og, brenhin Basan: o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd" Salm cxxxvi, 1, 17-20). Yn fuan wedi dinystr Jerusalem, dau rabbi rodient yr adfeilion, un yn wylo a'r llall yn gwenu. Y blaenaf mewn syndod a ofynodd i'w gyfaill, "Pa fodd y gelli wenu tra yn gweled y ddinas sanctaidd yn sarn?" "Yn hytrach, paham yr wyli di?" medd y llall. "Yr wyf yn wylo," meddai, "o herwydd gweled o'm hamgylch farnau ofnadwy

yr Hollalluog; ein dinas deg nid yw mwy; ein teml gysegredig a ddinystriwyd, a'n brodyr, pa le y maent hwy?" "Dyna paham," medd y llall, "yr wyf finau yn gwenu. Gwelaf, fel tithau, mor sicr yw barnau Duw; ond gallaf ddysgu mor sicr raid fod ei addewidion. Dywedodd y dinystrid Jerusalem, ac yr adeiledir hi drachefn. Oni chredaf ei Air?" Aleluia, Amen; Aleluia!

7. DYOGELWCH EGLWYS PHILADELPHIA RHAG Y BUTTAIN FAWR. Frodyr a chwiorydd, cydunwn yn Eglwys Philadelphia, yn Aleluia yr angylion. Bloeddiwn o ddyfnder a dirgelwch y galon newydd, "Aleluia, Amen; Aleluia!" er yn nghanol cynghreiriau y ddraig ac ysbrydion Babel. Clywn y saith daran yn darogan eu tynged anadferadwy. Safodd y Tabernacl y treialon trymaf oddi wrthynt—Tabernacl unig y Dyn Anfeidrol yn ei Ddyfodiad ar lan Teifi. Ar y cyntaf, nid ydoedd ond fel un ysmotyn gwyrdd yn cael ei amgylchu gan ffrydiau tan y llosgfynyddoedd; neu fel un seren yn nghanol y fagddu fawr gymylog; neu fel un oenig egwan yn nghanol holl fwystfilod coedwig yr Inferno; neu fel baban bach newydd eni, yn ddiymgeledd ar y maes, a llawer o Pharoaid a Herodiaid daear ac uffern dan lwon i'w ladd. Ond am fab gwryw y wraig y dywedir, "A'i phlentyn hi a gymerwyd i fyny at Dduw, ac at ei orseddfainc Ef" (Dat. xii, 5). Camrau ein gelynion dreigaidd a Babilonig, sydd debyg i'r truan hwnw ar ei asyn, droediai lethrau yr Alpau ar y goriwaered, ar fin y dibyn du. Y niwl a'r nos yn cau am dano; yntau yn cau ei lygaid, gan ymlefaru am ei gartref mewn breuddwydion. Pan ddaeth y boreu, ni welid ond y llwybrau erch lle y bu. Aeth ef a'i asyn o'r golwg dros y llithrigfa i sugndyniad y dyfnderau. Rhai yn dringo dranoeth a glywent oernadau ysglyfiaid yn gwledda obry ar ei gelanedd. "Mewn pryd y llithr eu troed hwynt; canys agos yw dydd eu trychineb, a phrysuro mae yr hyn a barotowyd iddynt" (Dat. xxxii, 35). "Bydded eu ffordd yn dywyllwch ac yn llithrigfa; ac angel yr Arglwydd yn eu hymlid. Canys heb achos y cuddiasant eu rhwyd i mi mewn pydew, yr hwn heb achos a gloddiasant i'm henaid" (Salm xxxv, 6, 7). Ond y Dyn Anfeidrol a adeilada gysegr Eglwys Philadelphia, "Fel llys uchel, fel y ddaear, yr hon a seiliodd Efe yn dragywydd" (Salm lxxviii, 69). Ei thabernacl yn y nefoedd sydd fwy gorwych a mawreddog na'r deml ddarlunia Lake Harris yn mhrif ddinas y blaned Jupiter,—teml a deng myrdd o heolydd aur yn arwain iddi, a phalasdai pob heol yn nghanol llwyni o fywiol goed, a miliwnau o anfarwolion perffaith yn ymsymud fel brenhinoedd a brenhinesau ar hyd yr heolydd aur, tua'r deml i addoli. Bydded

bywyd a phrydferthion Eglwys Philadelphia, a'i thabernacl yn nhragwyddoldeb, yn hollol ddenu ein bryd. "Ac agorwyd teml Dduw yn y nef; a gwelwyd arch ei gyfamod Ef yn ei deml" (Dat. xi, 19). Pwyswn byth bythoedd, ar y perffeithrwydd a'r perlewygon sydd fry. Aleluia, Amen; Aleluia!

NODIAD.—Trist yw gorfod gweled a theimlo mai ysbryd y buttain fawr, sef cariad at awdurdod er mwyn elw, yw yr ysbryd ymerhodrol sydd yn goresgyn a thrawsfeddianu gwledydd. "Bu genym ninau hefyd ein gweledigaeth am Brydain fel pren Banyan mawr: wedi ymledu yn ddistaw gyda disgyniad y gwlith a'r gwlaw: ei ganghenau a blygent i lawr ac a ymwreiddient yn y ddaear: holl adar y nefoedd a gaent noddfa ynddo, a holl fwystfilod y maes a gaent orwedd a gorphwys yn ei gysgod. A ellwn ni ei newid am y pren Upas, a'i ddail yn diferu gwenwyn ac yn gwasgar angau i'r rhai a orweddasant mewn heddwch o dan ei gysgod." —*Olive Schreiner.*

YR ANCHAR: PREN MARWOLAETH.

Yn yr anialwch unig, sych, newynog,
Ymsaif yr Anchar, wyliwr anhrugarog,—
Arwyddiun anwn yn yr anial ofnog.

Pa nwydau natur yn y poethgylch drig,
O ddeiliog bren, a'th luniodd di mewn dig,
Yn llawn o wenwyn draidd o wraidd i frig?

Y gwenwyn yn y gwres ar ganol dydd,
Chwysa drwy risgl—perlau angau prudd,
Yn min yr hwyr i'w gweled yno sydd.

Ni heda un aderyn llon gerllaw,
Ceirw a theigrod ruthrant ffwrdd mewn braw;
Awelon angau trwy ei gangau ddaw.

Dihidla'r cwmwl uwch y pren di-ail,
Pob dafn ireiddlawn wyla uwch ei ddail,
Ddisgyna'n suddion marwol gylch ei sail.

Er hyn, at bren marwolaeth, truan caeth
Wrth arch ei Feistr, yn grynedig ddaeth,
A dwyn y gwenwyn yn ei ddwylaw wnaeth.

Ei ingol chwys ymdreiglai'n ddafnau mawr,
Tra torai gaingc yn llawn o'r gum i lawr,
A'i blodau gwelw'n dwyn angeuol wawr.

Tua'r llys brenhinol try—anffodus ddyn,
A'i ysbail erch, a bloesg lefarai'n flin,—
" Gwel, gwnaed dy arch "—a syrth mewn marwol hun.

Ar air eu llyw, y caethion dychrynedig,
Drochant eu saethau yn y sudd gwenwynig,
I ladd y bobl wirion orthrymedig.
—Moore (Cyf. N. R.)

XV.—AGORIAD I FYD Y FARN.

Pwysig yw i bob dyn ddyfalu yn aml a difrifol yn ngoleu y Gair agored, ar y byd tragwyddol. Nis gall dyn fod yn ddifater o'r byd hwnw, heb fforffetu ei hawl i reswm a duwioldeb. Os yw dyn yn meddwl o gwbl, anhawdd synied am dano yn ddifeddwl am anfarwoldeb. Ond fel anifeiliaid yn edrych i lawr heb godi eu penau, felly y ceidw dynion eu golwg yn gyson ar y byd hwn, heb dremio tu draw i amser i'r eilfyd anferth. Ystyriwn hawliau y byd ysbrydol o'n hystyriaeth :—

1. Y byd ysbrydol yw tarddiad y byd hwn. " Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy Air Duw, yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir " (Heb. xi, 3). Y greadigaeth er tragwyddoldeb a ddylifa o'r Creawdwr, a'r Gair a ddeillia o hono Ef trwy y nefoedd i ddyn ar y ddaear mewn llythyrenau. Drwg a thwyll a ddeilliant o'r uffernoedd. Yr achosion a fodolant yn y byd arall: effeithiau, arddangosiadau, ac arwyddluniau o honynt yw holl wrthrychau a ffeithiau y byd hwn. Naturiol yw i fodau rhesymol olrhain y gwrthrychau a'r ffeithiau i'w tarddiad. Yn wahanol i'r anifail, y mae gan ddyn feddwl mewnol a gallu i'w ddyrchafu i'r farn ac i'r nefoedd.

2. Y byd ysbrydol yw cartref pawb a ymadawsant a'r byd. Y dysgyblion a welsant yr Arglwydd yn esgyn i'r nefoedd. Gwelsant Ef yn chwifio ei ddeheulaw yn arwydd ffarwel, a chwmwl goleu yn ei dderbyn o'r golwg. Edrychent yn graff ar ei ol tua'r nef, ac edrych i'r nef a wnaent byth

mwy, nes eu myned yno. Felly, ninau a godwn ein golwg at yr Iesu, ac at ein hanwyliaid sydd wedi blaenu: dilynwn hwynt tu draw i angau, gan ymholi, Beth ddaeth o honynt tu hwnt i byrth marwolaeth? Pa le y maent? Beth yw eu llun? Beth yw eu gwaith? Pwy yw eu cymdeithion? A gawn eu gweled eto? A oes cymdeithas rhyngom yn awr? Y rhai fu gyda ni, yn debyg i ni, yn ymddyddan a ni, yn gwenu yn ein gwyneb, yn ein caru, yn ein magu, y rhai a gyd-fagwyd a ni, y rhai a fagwyd genym ni, a phawb eraill trwy yr oesau, beth ddaeth o honynt oll wedi ymadael? Pan ymedy un o'r teulu i wlad bell, teimlir dyddordeb newydd yn y wlad hono, a'r oll sydd ynddi, ei broydd, ei bryniau, ei brodorion, a'u holl hanes. Pa faint mwy yn y byd ysbrydol, tra y teuluoedd oll yn ymfudo yno?

SAMUEL.

Ei enaid sy'n ymadael—sylla'n ddwys ei bryd
Ar ryw olygfa bell, hwnt marwol fyd a bedd;
A ni—gyd-deithiem gam a cham ei lwybrau gynt,
Ni chawn ei hynt—pa ffordd drafaela
Cyn cyrhaedda yn ddyogel.
Eto, ein calon mewn gwyllt loes ddychmyga,
Pa beth yw y ddyeithriol bell olygfa
Wel, yr enaid sy'n ymadael.

ANNIE.

Ein galar o'i golwg gilia, a'n byw wedd,
Fel breuddwyd. Yn dawel yn mreichiau Duw mae'n
gorwedd;
Dwfn yn y glyn du—ei ffon Ef
A'i wialen a'i cysurant hi;
Nyni sy'n teimlo chwerwder angau, ond yn esmwyth
hed,
Yr enaid sy'n ymadael.

N. R.

3. Yn y byd ysbrydol y byddwn ninau yn fuan, ar neges dragwyddol bwysig, heb ddychwelyd mwy. "Cyn wired a bod yr Arglwydd yn fyw, a'th enaid dithau yn fyw, nid oes ond cam rhyngof fi ac angau" (I Sam. xx, 3). "Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da a'i drwg" (II Cor. v, 10). "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn" (Heb. ix, 27). "Am hyny, byddwch chwithau barod; canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y Dyn" (Math. xxiv, 44).

"Ac wele, yr wyf yn dyfod ar frys; a'm gwobr sydd gyda mi, i roddi i bob un fel y byddo ei waith ef" (Dat. xxii, 12).

4. Y mae y byd ysbrydol wedi ei ddatguddio gan yr Arglwydd i drigolion y byd hwn. Trwy y Gair ac ysgrifeniadau Swedenborg, rhydd yr Arglwydd wybodaeth helaeth am y byd a ddaw. Dywed y pwlpud yn aml, ac ysgrifenir llawer, nad oes genym nemawr wybodaeth am fyd arall. Deillion draethant y fath ynfydrwydd, a deillion a'u gwrandawent. Rhodder i ni dystiolaeth tystion geirwir ac addas am wledydd nas gwelsom; darlunier eu hafonydd a'u ffynonau, eu meusydd a'u mynyddoedd, eu coedydd a'u creaduriaid, eu trigolion a'u trigfanau; yna, ynfyd dweud nas gwyddom ddim am y gwledydd hyny. Tystiolaeth ymwelwyr o fyd arall am y byd hwnw a'i breswylwyr yw y Gair. Lluoedd ar luoedd yw y tystion hyn. Daeth myrddiwn o honynt i roddi eu tystiolaeth ar Sinai, a dangos eu hunain fel brodorion y byd ysbrydol. Ymwelasant a'r patriarchiaid, ac a'r prophwydi. O'r diwedd, daeth brenin y byd arall i'r byd hwn, i fyw a marw. Esboniodd y byd hwnw, a dangosodd ei ogoniant yn ei Berson ei Hun. Ymddangosodd wedi ei adgyfodiad i'r gwragedd, i'r dysgyblion, i'r pump cant brodyr, ac i Saul o Tarsis ar y ffordd. Tystiodd y deuai yr ail waith, a'r holl angylion sanctaidd gydag Ef. Datguddiodd ei hun o'r newydd i Ioan yn Patmos; datguddiodd iddo hefyd y pedwar anifail, y pedwar henuriad ar hugain, yr angylion, a'u rhifedi yn filoedd o filoedd, a myrddiwnau o fyrddiwnau, y llwythau wedi eu selio, y dyrfa fawr nas gall neb ei rhifo, y gwyryfon ar fynydd Sion, yr eneidiau dan yr allor, y lluoedd yn y nef ar feirch gwynion, y dreigiau a bwystfilod y llyn o dan a brwmstan. Y mae bywyd ac anfarwoldeb wedi eu dwyn i oleuni trwy yr efengyl, yn arbenig yr efengyl yn ngoleuni mewnol yr Ail-ddyfodiad, goleuni mawr fel haner dydd ar y farn, y nef, ac uffern. Sylwn yn awr ar y farn yn ei pherthynas a dyn:—

I. DYN CYN Y FARN. II. DYN YN Y FARN. III. DYN WEDI Y FARN.

Y fath bwys ofnadwy ac arswydol sydd mewn dyn, prif greadur y Creawdwr, a dyben pob creadigaeth. Dyn cyn y farn yn byw yn y byd, yn hongian rhwng deufyd, yn chwareu ei ran dros Dduw neu ddiafol; yna gadael y byd dros byth, a myned i'r eilfyd i'w farnu yn ol ei fywyd yn y byd hwn. Dyn yn y farn yn cael ei chwilio a'i ddatguddio gan yr Hollwybodol. Dyn ar ol y farn yn myned i'r nef neu i uffern, yn ol ei anian i dyfu yn angel, neu ddirywio yn ddiafol, heb allu marw mwy!

1. Dyn cyn y Farn.

1. Dyn cyn y Farn sydd yn byw mewn corph materol. Y mae tri math o fywyd gan ddyn—bywyd anfarwol, bywyd ysbrydol, a bywyd naturiol. Bywyd naturiol y gelwir bywyd y corph—bywyd anifeilaidd yw; felly, bywyd i ddiflanu heb adgyfodiad.

2. Dyn cyn y Farn a ddarpara erbyn y Farn. Cymeriad dyn ar ol marw sydd yr un a'i fywyd yn y byd. "Ac mi a welais y meirw, fychain a mawrion, yn sefyll ger bron Duw; a'r llyfrau a agorwyd; a llyfr arall a agorwyd, yr hwn yw llyfr y bywyd; a barnwyd y meirw wrth y pethau oedd wedi eu hysgrifenu yn y llyfrau yn ol eu gweithredoedd" (Dat. xx, 12). Wrth y gweithredoedd y bernir dyn wrthynt, y golygir, nid y gweithredoedd fel yr ymddangosant yn allanol, ond fel yr ymddangosant yn fewnol; yn ol ansawdd y bwriad, y cariad, a'r meddwl fyddo ynddynt. Y mae yr holl ddyn yn ei waith. Ei waith yw ei brif gariad yn ymgnawdoli. Ei gariad llywodraethol ei hun yw pob dyn; ac erys i dragwyddoldeb o'r un ansawdd a'i gariad llywodraethol yn y byd. Os bydd ei gariad llywodraethol yn y byd yn nefol ac ysbrydol, erys felly byth, a dug ef i'r nefoedd; os bydd ei gariad llywodraethol yn hunanol a bydol, erys felly byth, a dug ef i uffern. Cariad erys, a phob gwybodaeth a ffydd yn tarddu o gariad; nid cariad fel teimlad, ond cariad mewn act, sef y bywyd cyn y farn, oroesa am dragwyddoldeb.

3. Dyn wrth fyned i'r Farn a ymedy a'r corph materol. Pan y mae corph naturiol yn marw a chael ei gladdu, y mae yr enaid, sef y dyn o'i fewn, yn fyw ac yn adgyfodi i'r farn. "Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef" (Preg. xii, 7)." Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn" (Heb. ix, 27).

2. Dyn yn y Farn. Holwn:—

1. Pa bryd yr ymddengys dyn yn y Farn? Nid ar derfyn amser, ond ar derfyn bywyd. Fel y dyfynwyd, "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn" (Heb. ix, 27). Gwrthun yw y pethau gyhoeddir fel efengyl, fod y duwiol ar unwaith ar ol marw yn myned i'r nef, ac wedi oesau ar oesau, yn dychwelyd i'r corph materol i'w farnu, a yw yn addas i'r nef neu beidio; a bod yr anuwiol ar unwaith ar ol marw, yn myned i uffern, ac wedi oesau ar oesau, yn dychwelyd i'r corph materol i'w farnu, a yw yn haeddu uffern neu beidio; ac nas gellir barnu dyn heb y corph materol, am fod yr enaid a'r corph wedi cydfyw, cydweithio, a chydbechu. Ond yr enaid yw y dyn, ac nid y corph; a'r enaid yn unig sydd yn fyw. Cyfrwng yr enaid mewn byd materol yn unig yw y corph

materol. Myned o'r corph yw myned i'r farn. Hyn mewn un ystyr yw adgyfodiad dyn,—adgyfodiad o'r corph a byd y corph, i'r farn a byd y farn; yna, o'r farn i'r nef, neu i uffern. Felly y mae y farn, nid draw, draw ar derfyn amser, ond yn ein hymyl ar derfyn bywyd, a myrddiwnau yn myned i'r farn bob dydd. "Wele, y mae y barnwr yn sefyll wrth y drws" (Iago v, 9).

2. Pa le y mae y Farn? Nid ar y ddaear—o'r ddaear i'r farn; nid yn y nef—o'r farn i'r nef; nid yn uffern—o'r farn i uffern. Yn myd yr ysbrydoedd y mae y farn, sef y byd canolog, rhwng nefoedd ac uffern,—y byd yr a pawb iddo yn union ar ol marw. "Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da ai drwg" (II Cor. v, 10). Byd yr ysbrydoedd, sef y farn, yw *Sheol* yr Hen Destament, a *Hades* y Testament Newydd. Y gwirionedd am fyd canolog sydd gyson a'r athrawiaeth fwyaf henafol a goleuedig. Yr oedd yn gyfarwydd fel datguddiad i'r Iuddewon. Darluniad Josephus o *Sheol* yw, "Y lle y cydgyferfydd eneidiau y cyfiawnion a'r anghyfiawnion." Credai Cristionogion o'r dechreuad mewn byd canolog. Yr oedd yn erthygl ffydd gyffredinol hyd y Diwygiad Protestanaidd. Credid fod y byd anweledig o ysbrydion, yn rhanedig i dri dosbarth mawr—y nefoedd, cartref y gwynfydedigion; uffern, y lle o boenau; a'r byd canolog, derbynfa y meirw, lle y cedwir eneidiau i'w haddfedu i'w cyflwr tragwyddol. Gwrthodwyd yr athrawiaeth gan y Protestaniaid, er gwrthsefyll yr ofergoel babaidd am y purdan. Eglur yw nad yn y nef, nac yn uffern, ond yn y byd canolog, y cwrddodd Saul a'i feibion a Samuel, yr hwn a ymddangosodd wedi marw i Saul yn Endor, ac a ddywedodd wrtho, "Yfory y byddi di a'th feibion gyda mi" (I Sam. xxviii, 19). Yn y farn y cydgwrddent. Nid oedd Saul, anufudd i Sanct Israel, yn addas i'r nef; ac nid oedd Jonathan anwyl, na Samuel y gweledydd, yn addas i uffern.

Pa ddwys frawddegau yw rhai hyn
A glywn yn adlais trwy y glyn?
"Yfory byddi gyda mi,
Tydi a'th feibion gyda thi."

Nid mewn uffernol ddamniol fyd,
Os Saul a *Samuel* fydd yn nghyd;
Nid mangre erch anobaith yw,
Os *Jonathan* fydd yno yn byw.

(Cyf. o C. Wesley.) N. R.

Yn y byd canolog y cyfarfu brenhin Babilon a'r meirw, pan ddywedir, "Uffern odditanodd a gynhyrfodd o'th achos, i gyfarfod a thi wrth dy ddyfodiad; hi a gyfododd y meirw i ti, sef holl dywysogion y ddaear; cyfododd holl frenhinoedd y cenedloed o'u gorseddfaoedd. Y rhai hyny oll a lefarant, ac a ddywedant wrthyt, A wanhawyd tithau fel ninau? A aethost ti yn gyffelyb i ni?" (Esaiah xiv, 9, 10). I'r byd canolog yr aeth y lleidr oddi ar y groes, "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys" (Luc xxiii, 43). Paradwys byd y farn a olygir. Ni esgynodd yr Iesu i'r baradwys nefol cyn pen deugain niwrnod wedi hyn. Yn y byd canolog yr oedd yr ysbrydion y pregethodd yr Iesu iddynt ar ol ei farwolaeth, a chyn ei esgyniad. "Wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhau yn yr ysbryd, trwy yr hwn yr aeth Efe hefyd, ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar" (I Petr iii, 18, 19). Yn y cyflwr canolog hwn, heb gyrhaedd y gwynfyd nefol yn gyflawn, yr oedd yr eneidiau welwyd gan Ioan dan yr allor yn gweddio, "A hwy a lefasant a llef uchel, gan ddywedyd, Pa hyd, Arglwydd, sanctaidd a chywir, nad ydwyt yn barnu, ac yn dial ein gwaed ni ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear?" (Dat. vi, 9, 10).

3. Pa lun sydd ar ddyn yn y Farn? Pan y mae dyn yn marw, cymer gydag ef bob peth berthyn iddo fel dyn, ond ei gorph materol. Ymddengys yn y farn mewn corph ysbrydol, yn meddu pob synwyr fel cynt. Bydd yn gweled, yn clywed, yn arogli, yn archwaethu, ac yn teimlo fel cynt. Bydd ei wybodaeth, ei feddyliau, a'i deimladau ganddo fel cynt. Bydd ar ffurf dyn fel cynt, ac yn ddyn sylweddol, mewn byd sylweddol. Ffurf dyn sydd i'r ysbryd, oblegyd mai ar lun a delw Duw, y Dyn Anfeidrol, y crewyd yr ysbryd. Delw dyn sydd i bob angel; dynion wedi eu perffeithio yw yr angylion; dynion ydynt wedi eu geni a'u magu ar y ddaear hon, ac ar y myrddiwnau daearfydoedd eraill. Nid oes ffurf uwch na dyn. Y ffurf ddynol yw mesur dyn, mesur angel, mesur Duw. Holl angylion y nefoedd, a'r holl ysbrydion yn y farn, ydynt wedi adgyfodi o fedd y corph materol. Angau yn y byd hwn yw adgyfodiad yn y byd arall. Wedi gwahanu yr enaid oddi wrth y corph materol, nid ail-unir hwynt, am fod yr enaid wrth dramwy o un byd i'r llall, yn cadw ei hunaniaeth, a'r ffurf ddynol mewn corph ysbrydol. Helaethaf ar hyn wrth son am yr adgyfodiad.

4. Pa beth yw amcan y Farn? Yr amcan yw ysgaru dynion drwg a da oddi wrth eu gilydd, ac ysgaru drwg a da oddi wrth eu gilydd yn mhob dyn. Y mae pawb yn y nefoedd yn dda, nid a dim aflan yno; y mae pawb yn uffern yn ddrwg, nid a dim da yno. Y mae nef ac uffern yn

eithafion i'w gilydd, yn fydoedd a chyflyrau gwrthgyferbyniol. Unrhyw ddaioni yn uffern, neu unrhyw ddrwg yn y nefoedd, a achosai ddyryswch a phoen yn yr holl gylchoedd. Y mae tua deugain miliwn (nifer trigolion Prydain) yn marw, a myned i'r farn bob blwyddyn. Cymysgedd truenus o ddrwg a da yw cyflyrau y rhan amlaf o honynt. Nid yw yr act o farw yn newid dim ar eu calon, eu credo, a'u cymeriad. Ni symudir dyn yn sydyn o fod yn bechadur i fod yn Gristion; nac o fod yn Gristion i fod yn angel. Y Cristion yn y nef heb ei gwbl sancteiddio, a greai anghydfod yn ngororau y nefolion. Buasai ei lygredd lleiaf yn gwmwl digofus yn y nwyfre bur. Yr anuwiol hefyd a fuasai allan o le yn uffern, tra yn meddu yr olion lleiaf o ddaioni a gwirionedd. Erys yr anuwiolion oll yn myd y farn nes colli gweddillion olaf dynoldeb; gan na ddichon dim suddo i bwll uffern, ond sydd satanaidd a dieflig.

5. Beth yw y moddion i ysgaru y drwg a'r da oddi wrth eu gilydd yn y Farn? Fel hyn y dywed yr Arglwydd: "Y Gair a leferais i, hwnw a'i barn ef yn y dydd diweddaf" (Ioan xii, 48). "Canys bywiol yw Gair Duw, a nerthol, a llymach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mer; ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon, ac nid oes greadur ana.nlwg yn ei olwg Ef: eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid Ef" (Heb. iv, 12, 13). Pe llefarai pregethwyr y Gair gyda gonestrwydd, gwres, a grym y prophwydi a'r apostolion, ysgarid yn nerthol rhwng y drwg a'r da, yn yr holl eglwysi; ac ni byddai prawf tanllyd y farn mor boeth. Ond dadleuir y Gair yn y farn gan hyawdledd treiddiol y tafodau tan. Datguddir calonau cyfrifolion. Llwyr symudir pob atalfa allanol. Dylanwad ffasiwn, cyfoeth, safle, swyddi, a deddfau gwladol a ddiddymir. Saif y dyn yn ei noethni ysbrydol. Yr hyn ddywedwyd yn y glust, a bregethir ar benau tai tragwyddol fyd. Diosgir y duwiol yn y farn o'i holl dybiau gau; dysgir ef gan ysbrydion pur yn ngwirioneddau y nefoedd, a derbynia hwynt yn hawdd a hyfryd. Cenfydd yn raddol y ffordd o'r farn i'r nef, ffordd daioni a doethineb, wedi ei phalmantu a meini gwerthfawr, a'i hamgylchu a phlanhigion a blodau yn gwenu yn ngoleu haul y ddinas nefol. "Ac efe a fydd fel y bore-oleuni, pan gyfodo haul fore-gwaith heb gymylau; fel eginyn a dyf o'r ddaear, gan lewyrchiad yn ol gwlaw . . . A'r anwir fyddant oll fel drain wedi eu bwrw heibio; canys mewn llaw nis cymerir hwynt. Ond y gwr a gyffyrddo a hwynt a ddiffynir a haiarn, ac a phaladr gwaewffon; ac a than y llosgir hwynt yn eu lle" (II Sam. xxiii, 4, 6, 7). Ni saif yr anuwiol yn ngwyneb yr haiarn, sef gwirioneod llythyrenol a'r sylwedd ysbrydol ynddo;

cilia rhag grym a goleuni y Gair, ac hefyd rhag yr ysbrydion pur, fel yr ystlum a'r ddyllhuan rhag goleu y dydd. Dewisa lwybrau ac ysglyfion y nos, oblegyd megys cysgod marwolaeth yw boreu y farn iddo ef. Nis gall oddef tywyniadau yr orseddfainc wen. Ymwibia i ymguddio yn ffauau ffiaidd uffern, mor awyddus ag yr ymguddia bwystfilod yn eu llochesau anial rhag y dydd; ac mor awchus a'r gigfran yn ehedeg i ddyfnder du y goedwig gauadfrig at gelain anifail brwnt.

6. Pa hyd yr erys dyn yn y Farn? Erys cyhyd ag y bydd y da a'r drwg, y gwir a'r gau, yn llwyr ysgaru. Tramwya torfeydd o'r ddaear i'r nefoedd heb fyned i'r farn, megys plant bach, gwyryfon a gwyr ieuainc heb ymhalogi, a duwiolion wedi eu llwyr ddiddyfnu oddi wrth y byd, y cnawd, a'r diafol. "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y neb sydd yn gwrando fy ngair i, ac yn credu i'r hwn a'm hanfonodd i, a gaiff fywyd tragwyddol, ac ni ddaw i farn: eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd" Ioan v, 24). Aeth Lazarus ar unwaith o'r ddaear i'r nef: "A bu y cardotyn farw, a'i ddwyn gan yr angylion i fynwes Abraham" (Luc xvi, 22); ac aeth Dives ar unwaith o'r ddaear i uffern: "A'r goludog hefyd a fu farw, ac a gladdwyd; ac yn uffern efe a gododd ei olwg" (Luc xvi, 22, 23). Yr oedd y cardotyn cyn marw wedi concro y byd, y cnawd, a'r diafol; a'r goludog cyn marw wedi ei goncro gan y byd, y cnawd, a'r diafol. Cedwir rhai yn hir yn y farn, gan mor gyndyn y cymerant eu haddasu i wae neu wynfyd.

7. Pa olygfeydd sydd yn y Farn? Dengys yr Arglwydd trwy Swedenborg fod dyn yn myned trwy dair golygfa, neu dri chyflwr, yn y farn, cyn myned oddi yno. Yr olygfa gyntaf sydd debyg i'r olygfa olaf yn y byd, yn olygfa allanol, am fod dyn eto yn meddu y cofion, y meddyliau, a'r teimladau allanol. Yr ail olygfa, neu ystad, a dardd o fewnolion yr enaid, tra yr allanolion wedi eu troi heibio. Yn yr ystad hon, daw dyn i'r golwg fel y mae, ac fel y bu yn y byd, pan wrtho ei hun, yn meddwl yn rhydd ac heb atalfa. Gwelir yn awr yn ddigel beth oedd y dyn cyn marw; canys dywed, o hono ei hun, bob peth a wnaeth ac a ddywedodd yn ddirgel heb un rhwystr. Adwaenir ef wrth ei leferydd, a'i olwg, a'i waith gan angylion ac ysbrydion. Y trydydd yw golygfa, neu ystad, y parotoi, trwy ddysgu y rhai a gymerant eu dysgu i fod yn angylion. Nid erys y rhai a ant i uffern yn y cyflwr hwn, am na chymerant hwy eu dysgu gan angylion. Daw yr ail olygfa, neu gyflwr, yn drydydd iddynt hwy. Ynfydant a gwallgofant, gan ymwylltio a ffoi oddiwrth addysg y goleuni, fel bwystfilod rheibus yn cilio rhag yr haul. Ymwibiant yn reddfol i gilfachau y tywyllwch, ac i lwybrau erchyll, yn troi trwy greigiau cilwgus ar y goriwaered, tom

a llaid dan draed, drewdod o gylch, mwg uffern yn hongian yn dorchau trymion uwchben, a chysgodion oerddu yr ail-farwolaeth yn gordoi yr olygfa. Rhai tebyg i'w gilydd dynant at eu gilydd yn y farn ac yn uffern, fel yn mhob man arall.

8. Beth olygir wrth y Farn Ddiweddaf? Nid y farn yr aiff dyn iddi wrth farw yw y farn ddiweddaf, ond y farn yn myd yr ysbrydoedd yn rhwyddhau y ffordd i Ail-ddyfodiad yr Arglwydd. Bu barn ddiweddaf dair gwaith, bellach, yn y byd ysbrydol, mewn perthynas i'r byd hwn. Y gyntaf ddarlunir gan y diluw. Yr ail, gan yr hyn a ddywed yr Arglwydd yn y geiriau canlynol: "Yn awr y mae barn y byd hwn" (Ioan xii, 31). "Y pethau hyn a ddywedais wrthych, fel y caffech dangnefedd ynof. Yn y byd gorthrymder a gewch: eithr cymerwch gysur, myfi a orchfygais y byd" (Ioan xvi, 33); ac mewn lluoedd o fanau eraill. A'r drydedd farn ddiweddaf a ddarlunir yn Math., pen. xxiv, a'r Datguddiad oll. Cymer barn ddiweddaf le pan dderfydd yr eglwys, a derfydd yr eglwys pan na fyddo ynddi wirionedd; ac ni bydd ynddi wirionedd pan na fyddo ynddi gariad a chyfiawnder. Yna y derfydd y cydbwysedd rhwng nef ac uffern, ac y cyll dyn ei ryddid a'i reswm; ac wedi colli ei ryddid a'i reswm, nis gellir ei gadw, ond efe a ruthra i uffern, fel y moch a'r cythreuliaid ynddynt, dros y dibyn i'r mor. Cymerodd barn ddiweddaf le ar ddiwedd yr eglwys henaf, yr hon oedd cyn y diluw. Pobl yr eglwys hon ddarlunir yn nechreuad Genesis, trwy gread-igaeth newydd y nefoedd a'r ddaear, a thrwy baradwys; pobl dderbynient addysg ddwyfol a nefolaidd trwy lewyrchiad mewnol. Llifai y dylifiad dwyfol trwy eu hewyllys i'w deall. Llygriad llwyr yr ewyllys trwy bechu yn erbyn Duw osododd atalfa ar y drefn nefolaidd hon. Darlunir diwedd yr eglwys trwy fwyta y pren gwaharddedig, a'r pethau ganlynodd; a'i barn ddiweddaf gan y diluw; yr oll trwy gyfatebion, yn ol arddull y Gair; eglwys newydd olygir wrth y nef a'r ddaear newydd; doethineb nefol, wrth baradwys Eden; gwybodaeth gnawdol yn dinystrio diniweidrwydd a doethineb, wrth bren gwybodaeth, a'r sarph; a'r farn ddiweddaf ar yr eglwys syrth-iedig, wrth y diluw. Cododd eglwys arall wedi y diluw, goruchwyliaeth Noah a'r oruchwyliaeth Iuddewig. Daeth y farn ddiweddaf ar hon, yn amser yr Ymgnawdoliad. Daeth yr Arglwydd i'r byd i'r amcan hwnw, er sicrhau trefn yn y nefoedd, ac yn holl wledydd y ddaear, trwy y nefoedd, a dwyfoli ei Ddynoliaeth ar yr un pryd; pe na wneid hyn, ni buasai gadwedig un cnawd. Y drydedd eglwys ar y ddaear yw yr Eglwys Gristionogol gyntaf. Daeth y farn ddiweddaf ar hon yn awr trwy fod eu gwirioneddau sylfaenol wedi eu llwyr

lygru; heb y farn ddiweddaf hon hefyd, ni buasai gadwedig un cnawd, ac ni ellid sefydlu Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol ar y ddaear trwy agor ystyr ysbrydol y Gair i ddynion, yr hyn sydd fwy na'r gwyrthiau oll, gan ei fod heb frawychu yr enaid, yn argyhoeddi rheswm, yn cyfnewid yr ewyllys, ac yn ffurfio prawf anwrthwynebol o ddwyfoldeb y Gair. Wrth ddiwedd y byd, gan hyny, y golygir yn y Gair, nid dinystr y bydysawd materol, ond diwedd yr eglwys, a dechreu un newydd. Gwirioneddau Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol a brofant undeb y byd ysbrydol a'r byd naturiol, fel nas gall y naill fodoli a pharhau, heb y llall: perthynant i'w gilydd fel gweithredydd a goddefydd; o ganlyniad, ni ddinystrir y naill na'r llall, ond cydfodolant i dragwyddoldeb. Amcan Duw yn y cread yw ffurfio nef angylaidd o'r hil ddynol. Nis gellir gorlenwi y byd ysbrydol, mwy nag enaid dyn. Gosgorddion aneirif y bydysawd materol a boblogir gan yr hil ddynol, yn fagwrfeydd i'r nef angylaidd. I'r pwrpas hwn y crewyd mater, fel nas difodir. Cyhoeddi goleuni mawr y farn ddiweddaf yw y symudiad mwyaf yn nghwrs yr oesau: dyfodiad Mab y Dyn ydyw, yr Arglwydd ei Hun yn y Gair yn clirio pob rhwystrau, a donio yr hil ddynol a'r moddion goreu i gyrhaedd calon newydd i'r graddau uchaf, a'r gwynfyd didranc yn y nef.

9. Pa nifer all fod bydoedd barn? Ymddengys y perthyn i bob daear ei Hades, neu ei brawdle, ei hun. Fel y nodwyd, y mae y bydoedd yn breswylfeydd i ddynion. Ni choeliwn fod arwynebedd y daearfydoedd yn ddiffrwyth a dibobl. Am y ddaear y dywed y Gair, "Ni chreodd hi yn ofer; i'w phreswylio y lluniodd hi" (Esaiah xlv, 18). Bodau ar lun a delw y Creawdwr yn preswylio y bydoedd yw pwrpas creadigaeth. Yr enaid a orlenwir a syndod ac addoliad, wrth syllu ar y ser, anrhaethol nifer, pob seren yn ganolbwynt cyfundraeth o blanedau, a phob planed wedi ei bwriadu yn drigfa dynion, er ateb amcan creadigaeth. Gwir yw y Gair am bob daear: "Ni chreodd hi yn ofer; i'w phreswylio y lluniodd hi." Ac eto, ni wnai can' miliwn o ddaearfydoedd o'r maintioli mwyaf, a phob un o honynt yn llawn dynion, ond teulu bach i'n TAD ANFEIDROL. "Fod daearfydoedd lluosog," medd Swedenborg, "a dynion yn byw arnynt, y rhai ar ol marw, fyddant yn ysbrydion ac angylion, a adwaenir yn dda yn y byd arall; canys caniateir i bob un yno, ddymuna oddi ar gariad at wirionedd a lles, i gymdeithasu ag ysbrydion daearfydoedd eraill, ac felly gael sicrwydd o fodolaeth amledd bydoedd, a'u dysgu mai nid hiliogaeth un ddaear yn unig yw yr hil ddynol, ond hiliogaeth daearfydoedd dirifedi." Dyddordeb a dadblygiad goruchel yw dyfalu ar y datguddiad

mawreddog a rhesymol hwn, gan ystyried hefyd y perthyn i bob daear ei Hades, ei huffern, a'i nefoedd ei hun, gan fod athrylith arbenig i breswylwyr pob byd, yn ol eu safle a'u cyfatebiaeth yn y Dyn Mawreddog, ac yn ol amrywion eu hundeb a'r Dyn Anfeidrol.

10. Pa gymorth ellwn roddi i ysbrydion byd y Farn? Y mae cyfathrach greuedig rhwng ysbrydoedd yr holl fydoedd. Y mae pawb yn perthyn i'r un Creawdwr, pawb yn perthyn i'w gilydd, a phawb yn effeithio ar eu gilydd. Nid oes derfyn i drigfanau a dylanwad dyn. Y mae pob dyn yn ngradd uchaf ei gread, fel creadur digymysg, yn bodoli yn y Duwdod; pob dyn fel creadur newydd yn bodoli yn y nefoedd; pob dyn fel creadur cymysg yn bodoli yn myd y farn; pob dyn fel creadur llygredig yn bodoli yn uffern; a phob dyn fel creadur materol yn bodoli yn y bydysawd naturiol. Bodola dyn fel creadur materol yn yr holl fydysawd materol, a bodola yr holl fydysawd materol ynddo. Cyfranoga o wres, goleu, tynwyrth, trydan, ac elfenau eraill yr holl blanedau, yr holl leuadau, a'r holl heuliau aneirif trwy holl anherfynoldeb lleoliaeth, gan gyfranu iddynt gylchoedd o sylweddau dderbynia o honynt. Felly hefyd y mae dyn fel creadur llygredig, yn cyfranogi o'r holl uffernoedd, ac yn cyfranu cylchoedd o sylweddau uffernol iddynt. Fel creadur cymysg, y mae dyn yn cyfranogi o gymysgedd Hades, ac yn cyfranu cylchoedd o sylweddau cymysg i Hades; ac fel creadur newydd a nefol, cyfranoga o'r holl gymdeithasau nefol, a chyfrana sylweddau ysbrydol a nefol iddynt; ac fel creadur digymysg, yn ngraddfa uchaf ei fodolaeth, cyfranoga o'r Creawdwr, a chyfrana ei hun iddo. Yn y goleu hwn, gwelir gwerth cyffredinol cymeriad a gweddiau y saint. Dylem fyw yn gywir a da er mwyn y Crewr a'r cydfyd oll; a pha beth bynag y gweddiwn am dano, dylem ei ofyn er lles yr holl ddynoliaeth, trwy y nef, trwy y farn, trwy uffern, a thrwy y daearfydoedd. Dylai dymuniadau yr enaid godi ar adenydd cariad a gwirionedd at y Galon Anfeidrol, uwchlaw cwerylon y cread oll, a gwenu fel yr haul ar holl drigfanau yr hil ddynol, gan wasgar y gwres a'r goleu i gilfachau a chuddfanau dyfnaf y tywyllwch. Dylem, gyda'r apostolion, fedyddio y byw dros y meirw; a chyda'r Iesu, bregethu i'r ysbrydion yn ngharchar. Dylem, gyda Dante, ddwyn doluriau pobl y Purdan a Malebolge; a dylem, gyda Swedenborg, ddisgyn yn drugarog mewn colofn o angylion i eigion anwn. Dylai dolefiadau taerion Manfredi, a chwynion ingol Giacopo, rwygo ein calon, a'n cyffroi i'w cyflwyno i fynwes anfeidrol gariad, yn sicr fod gorsedd trugaredd fel yr Hwn a eistedd arni, yn gorlenwi y

cydfyd. Ystyriaethau fel hyn a gyffroant gwestiwnau yn y galon deimladwy:—

Ai gwir yw, O fwyn Waredwr,
Fod eneidiau garem ni,
I fod byth mewn ingol boenau,
I fod byth yn uffern ddu?
Na wna'n cariad ni eu cymhorth,
Ie'th Gariad di ni orfydd mwy?
A oes dim all gynorthwyo,
A all dreiddio atynt hwy?
Pethau lawer sydd i'w traethu,
Ond nis gellwch 'nawr eu dwyn.

N. R.

3. DYN WEDI Y FARN. Aiff y dynion drwg o'r farn i uffern, a'r dynion da o'r farn i'r nef. "A'r rhai hyn a ant i gosbedigaeth dragwyddol; ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol" (Math. xxv, 46). Perlewygol yw dyfalu ar fywyd y rhai cyfiawn ar ol y farn: pawb o honynt yn ddynion perffaith, yn byw i'w gilydd ac i bawb oddi ar fwriad a phleser; a'r Dyn Anfeidrol yn lledu ei freichiau i'w cofleidio, gan eu gwisgo a gogoniant mewn defnyddioldeb tragwyddol. "Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau; a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi" (Ioan xiv, 2). "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd" (Ioan xiv, 19). "Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr ysbryd, fel y gorphwysont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt" (Dat. xiv, 3).

Y bywyd cyn y farn sydd or-bwysig fel gwreiddyn gwae neu wynfyd tragwyddol. Ar ol i ddyn fyned i ffordd yr holl ddaear, erys yn oes oesoedd yr un a'i gariad llywodraethol. Ni newidir hwnw ond tra yn y bywyd naturiol. Wedi angau, ni bydd lle i edifeirwch: darfu y tymhor hau pan ddarfu yr einioes. Byd y farn, a'r bydoedd wedi barn, a ddibynant ar y bywyd yn y byd hwn. Bywyd y duwiol yn y byd hwn sydd dda, yn myd y farn bydd yn well; ond yn y byd nefol bydd yn berffaith. Bywyd y dyn anuwiol yn y byd hwn sydd ddrwg, yn myd y farn bydd yn waeth; ond yn y byd uffernol ni bydd ond drwg. Bydded i agoriadau y farn ein harswydo a'n haddasu erbyn y profiadau tanllyd a'n harosant, a'n dyogelu rhag synagogau satan a gweinidogion diafol, na chiliant rhag tanau uffern mwy na'r gwyfyn rhag y fflam. Gair y Barnwr a'n didolodd trwy y "Cloi." Yr un Gair a'n ceidw ar wahan, tra y tremiwn trwyddo ar driniaethau treiddiol

a thrylwyr y farn, a thu draw ar y trueni di-obaith, ac ar y trigfanau tragwyddol. Saif Eglwys Philadelphia fel twr heb syflyd, er cryfed y corwyntoedd, y taranau, a'r daeargrynfaau. Cydsafwn ninau a'r gwir dabernacl o'r nef, gyda sefydlogrwydd a sirioldeb saint y Goruchaf, gan sathru ar holl gryfder y gelyn. Byddwn bybyr hefyd, ac ymwrolwn dros ein pobl a thros ddinasoedd ein Duw. Na fyddwn hwyr-drwm, ond bywiog gyda'r Arglwydd a'i angylion nerthol, yn mudiadau mawrion yr Ail-ddyfodiad. Yr Hollalluog a'n galwodd allan i'w gyfarfod, ac i uno a'i luoedd i dori trwy rengoedd a rheolau yr holl eglwysi gau, a'r cynghreiriau uffernol a nerthol weithredant ynddynt. "Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn ni roddodd ni yn ysglyfaeth i'w danedd hwynt. Ein henaid a ddiangodd fel aderyn o fagl yr adarwyr; y fagl a dorwyd, a ninau a ddiangasom. Ein porth ni sydd yn enw yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear" (Salm cxxiv, 6-8).

XVI.—AGORIAD I'R UFFERNOEDD.

Fel hyn y dywed y Dyn Anfeidrol, o ganol y saith ganhwyllbren aur, wrth ei anwylyd, "Nac ofna; Myfi yw y cyntaf a'r diweddaf. A'r hwn wyf fyw, ac a fum farw; ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd, Amen; ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth" (Dat. i, 17, 18). Yn ei oleuni Ef y tremiwn i'r dyfnderoedd, i fyd truenus atdaliad yr an-edifeiriol; byd y budreddi fel dyffryn Hinon; byd y tan aniffoddadwy fel Gehena; byd y brwmstan, y poenau, a'r pydew diwaelod; byd y tywyllwch eithaf, a byd heb obaith am dragwyddoldeb. Fod y fath fyd erchyll yn bod, a brofir gan reswm a chydwybod; gan waith y cof ac ofnau yr enaid; gan lywodraeth foesol a datguddiadau y Gair; ac yn arbenig ac ofnadwy, gan agoriadau yr Ail-ddyfodiad.

Bu llawer o ddyfalu cywrain ac ofergoelus am drigle dragwyddol y colledigion. Rhai o'r hynafiaid a honent ei bod yn dalaeth o dan gerllaw canolbwynt y ddaear. Swindon

a dybiai fod uffern yn yr haul, gan bardduo brenhin y dydd trwy ei ddarlunio fel corph cynddeiriog o dan cythreulig, yn cael ei orchuddio gan fwg, fflamiau, llosg-fynyddoedd, a rhaiadrau eirias, ac ynddo ffauau dyfnion, trigfa y tywyllwch eithaf. Whiston a goeliai mai uffernoedd yw y cometau, yn cludo y colledigion i gyffiniau yr haul, i'w poethi a than, yna eu hebrwng tu draw i'r blaned Sadwrn, i'w rhynu yn yr oerfel. Syniadau cnawdol yw y rhai hyn, tebyg i'r tybiau mai y ser yw paradwys bythol y prynedigion.

Cyfriniaeth baganaidd sydd gywirach, yn dweud am uffern fod ei phyrth yn agored ddydd a nos, a'r ddisgynfa iddi yn esmwyth a rhwydd; tonau duon Cocytus yn amgylchu y terfynau; rhodfeydd a drysau Tartarus yn cael eu heidio gan hocedau, ofnau, ellyllon, cynhenau, drychiolaethau, anghenfilod, Gorgoniaid, a Hydrasiaid; Geryon driphlyg o gorph; Chimera yn cyfogi fflamiau; Briarieus gyda chant o ddwylaw; llynclyn Acheron dan lywodraeth Charon, a'i lygaid fel ffwrneisiau. Darlunir trigolion teyrnas y dragwyddol nos, rhai a'u gwynebau a'u cyrph yn un clwyf; eu trwynau a'u clustiau wedi eu tori ymaith. Obry, yn y gwaelodion athrist, clywir galarnadau ellyllon, griddfanau cythreuliaid, swn alaethus ffrewyllau ac ymladdfeydd, a rhugliad llyfetheiriau yn cael eu llusgo. Hiliogaeth Titan, fu yn cystadlu a'r duwiau, sydd yno, yn olosg gan y mellt, ac yn rholio yn eigionau ingoedd. Salmoneus y cyflafanwr fflamllyd, wedi ei daro i'r dyfnderau; Tityus drachwantus, a'i ystlys yn agored, a'r fwltwr wancus yn bythol fwyta ei afu. Tywysogion Thessalya yn gorwedd ar welyau aur, a'r graig faluriol yn crogi uwch eu penau, yn bygwth cwympo bob amrant, a'r *Furies*, gyda'u seirph yn hyssian, yn cipio y bwyd o'u genau, cyn iddynt ei brofi. Bradwyr a werthasant eu hanrhydedd, ac a dorasant eu cyfamod am lwgr-wobrau, sydd yn suddo yn ddiaros yn y dyfnder ofnadwy. Rhai yn treiglo meini mawrion, a rhai wedi eu rhwymo wrth olwynion trymion a gwifrau tanllyd. Y mae troseddau a chosbau uffern mor fawr, fel y dywed un o'r henafiaid, nas gallasai adrodd eu haner, pe meddai gant o eneuau, cant o dafodau, gyddfau o bres, ac ysgyfaint o haiarn.

Yn ngweledigaeth Scipio, dywedir fod eneidiau y rhai a ymroddasant i bleserau corphorol, caethion chwantau, ar ol marw, yn gwibio o amgylch y ddaear, ac yn cael eu taflu a'u tossio dros oesoedd dirifedi.

Darlunia Dante goedwig dywyll yr *Inferno*, bryn anhawsdra, y panther, y llew, a'r fleiddes, wedi eu gollwng yn rhydd o uffern, ac yn fwy newynog ar ol bwyd na chyn hyny. Dengys y ddinas ddolefus a'r geiriau trymion yn ysgrifenedig uwch ei phyrth marwol. Desgrifia Acheron, naw cylch uffern, a'r

deg Bolgia; y cawrfilod, y corwyntoedd, y daeargrynfaau, y cur-wlaw tragwyddol, afonydd uffern, y rhaiadrau gwaed, y dyfnderau a'u trigolion truenus, y diffaethwch tywodlyd, y byd o ddrain, a thair adran fawr yr *Inferno* yn cael eu gwahaau gan eangderau yn y llynclyn, lle cosbir godineb, cenfigen, a chreulondeb.

Olrheinir satan a'i luoedd hefyd yn ddifrifol gan Milton; dengys eu dwfn ofidiau a'u hanobaith, yn gymysg ag ambell deimlad da, yn y drigle dywyll. Edrychwn gyda syndod a dychryn, dygasedd a thosturi, ar ein cydgreaduriaid, yn herfeiddiol, er yn gorwedd yn orchfygedig ar y llyn o dan, wedi eu taro tharanfolltau Duwdod. Palas pandemonium, trawsnewidiadau ofnadwy y damniaid, a'r peirianau rhyfel wedi eu dyfeisio yn uffern, a berant fraw, hyd yn oed i Michael yr archangel, a'i angylion.

Gweledigaeth uffern gan y Bardd Cwsg sydd fraslun arswydol o'r byd uffernol, tebyg i weledigaethau Quevedo. Ymddangosodd drychiolaeth ogoneddus i'r bardd yn ei gwsg, ar wedd gwr ieuanc, tal, a glandeg; ei wisg yn saith gwynach na'r eira, ei wyneb yn tywyllu yr haul, a'i felyngrych aur gydunau yn ymranu yn ddwy bleth loewdeg oddi arnodd ar lun coron. Angel teyrnasoedd y gogledd, a gwarcheidwad Prydain ydoedd efe. Arweiniodd y bardd y tu isaf i gastell Belial, ac a ddangosodd iddo oferedd a gwallgo yr holl fyd, a'r ddinas ddihenydd. Cipiodd ef hefyd i entrych nefoedd, trwy fro y mellt a'r taranau, a holl arfau gwynias yr wybr—fyrddiwn o filldiroedd tu hwnt i'r haul, gan ddynesu at derfynau yr anferth dragwyddoldeb. Croesasant y cyfwng, ac ymollyngasant i'r wlad dragwyddol, rhwng dau lys angau, i'r gwagle hyll; ac oddi yno i dir anghof a minion dystryw, lle y gwelodd y dreigiau mellt ysgethrin yn rhwygo y mwg dudew, fwrid i fyny o'r fflamiau ymluchient dros ymylau y geulan felldigedig. Y bardd a'r angel a ymollyngasant o ben y geulan anaele, fel dwy seren yn syrthio o uchder nef; i lawr a hwy fil miliwn o filldiroedd, dros lawer o greigiau brwmstan, a llawer anfad raiadr gwrthun, a chlogwyn eirias, a phob peth a gwg crogedig ar i waered fyth. Tarawai y fath fygfeydd y bardd, fel y trengasai, oni bai ei achub trwy y dwfr bywiol. Trafaelasant trwy leoedd serth a llithrig, yn swn taranau a chorwyntoedd croch, rhaiadrau geirwon, crochleisiau echrys, bonllefau, gwaeddi ac ochain cryf, a thyngu, a rhegu, a chablu, a thwrf trwp-hwl-rwp-rap-dy-dwmp-dy-damp canoedd o ddynion mewn gormod brys i ddrwg-fargen, yn cwympo ar eu penau, a llu o ellyllon yn eu gyru. Gwelodd afon y fall, fel y weilgi ddu, ddirfawr o faint, lle y golchid y damniaid yn lan oddi wrth bob gweddillion daioni, a phob rhith gobaith a

chysur. Gwelodd fyrdd o domenydd anferth yn gwyrddlosgi; ac wrth eu hudfa, deallodd mai dynion oeddynt oll yn fryniau ar eu gilydd, a'r fflamiau cethin yn clecian trwyddynt. Gwelodd ddynion a phenau bleiddiaid; a phedair pendefigcs uffern a ddarlunia; cynghrair y saith diafol hefyd, a senedd y fallgrych eirias.

Coeliaf fod gwirioneddau ofnadwy am uffern yn rhedeg trwy y gwahanol ddesgrifiadau uchod. Deilliant o'r un goleuni canolog, fel amrywiol liwiau y pelydrau yn yr haul oddi wrth amryw wynebau y grisial y disgynant arnynt. Ond datguddiadau yr Arglwydd trwy Swedenborg sydd awdurdodedig, a dilwgr, ac yn unol a deddf cyfatebiaeth, ac felly yn rhagori ar y lleill, fel haul canolddydd ar y seren ddydd. Yn ngoleuni newydd yr Ail-ddyfodiad, nodwn:—

I. FOD YR UFFERNOEDD YN CAEL EU RHEOLI GAN YR ARGLWYDD. II. FOD DWY DEYRNAS UFFERNOL YN BODOLI. III. SAFLE AC YMDDANGOSIAD YR UFFERNOEDD. IV. TAN YR UFFERNOEDD. V. DRYGIONI YSGELER YR UFFERNOLION. VI. PARHAD YR UFFERNOEDD. VII. Y CYDBWYSEDD RHWNG Y NEFOEDD A'R UFFERNOEDD.

1. FOD YR UFFERNOEDD YN CAEL EU RHEOLI GAN YR ARGLWYDD. Y mae nef ac uffern yn wrthgyferbyniol, ac yn gweithredu yn erbyn eu gilydd; felly, rhaid i'r hwn reola y naill reoli y llall. Pe amgen, difodid y nefoedd gan ddygasedd yr uffernolion. Rhyfeddol yw y modd y rheolir yr uffernoedd gan yr Arglwydd. Dylifiad gwallgofrwydd a chynddaredd yr uffernoedd, a droir yn ol gan ddylifiad cyffredinol yr holl nefoedd; hefyd gan ddylifiad neillduol o'r tair nefoedd; drachefn gan ddylifiad mwy neillduol o bob cymdeithas yn y nefoedd; ac weithiau trwy anfon angylion arbenig i uffern, i blith y cythreuliaid gwrthryfelgar i'w darostwng, fel y gwna teyrnas anfon milwyr i ddarostwng gwrthryfel yn y trefedigaethau pell. Ofn cosb yn unig sydd yn cyfyngu cynddaredd a chyfrwysdra trigolion uffern. Llechant yn eu celloedd, o herwydd fod y cawr dychryn yn cloi y dorau. Braw a'u brawycha o amgylch. Brenhin y dychryniadau yw Duw i ddeiliaid y dystryw du-boeth; a gwasanaethant trwy fflangellau, ac nid trwy gariad. Carcharorion ydynt dan orfod i bigo y carth, i droi y cranc, a malu yn melinau mawrion uffern. Eu chwantau ffyrnig a ffiaidd a droant farn yn fustl, a ffrwyth cyfiawnder yn wermod; troant hefyd dosturiaethau Tad y trugareddau yn doster trymach na'r tywod.

2. FOD DWY DEYRNAS UFFERNOL YN BODOLI. Y mae yr holl nefoedd yn rhanedig i ddwy deyrnas—y deyrnas nefol a'r deyrnas ysbrydol. Y deyrnas nefol a gynwys y rhai sydd

mewn cariad at yr Arglwydd yn benaf, ac o herwydd hyny, mewn doethineb; a'r deyrnas ysbrydol a gynwys y rhai sydd mewn cariad at eu cymydog yn benaf, ac o herwydd hyny, mewn dealldwriaeth. Oblegyd fod y nefoedd yn rhanedig i ddwy deyrnas, y mae uffern hefyd yn rhanedig i ddwy deyrnas wrthgyferbyniol iddynt,—y deyrnas ddieflig yn wrthgyferbyniol i'r deyrnas nefol, a'r deyrnas satanaidd yn wrthgyferbyniol i'r deyrnas ysbrydol. Y deyrnas ddieflig a gynwys bawb garant reoli oddi ar hunangariad, ac o herwydd hyny, yn ynfyd; a'r deyrnas satanaidd a gynwys bawb garant reoli oddi ar hunan-ddoethineb, o herwydd hyny, yn wallgof. Wrth ynfydrwydd a gwallgofrwydd, y golygir ynfydrwydd a gwallgofrwydd i bethau nefol ac ysbrydol. Eto, gan fod tair nefoedd, y mae hefyd dair uffern: yr uffern isaf, yr uffern ganol, a'r uffern uchaf. Gan fod y tair nefoedd yn cael eu rhanu i gymdeithasau dirif, rhenir yr uffernoedd hefyd i gymdeithasau dirif, yn ol graddau a rhywogaethau twyll a drygioni. Ac fel y mae pob angel yn ffurf y nefoedd, ac yn nefoedd fach, trwy fod holl elfenau y nefoedd ynddo, felly y mae pob un o'r damniaid yn ffurf uffern, ac yn uffern fach, gan fod holl elfenau uffern ynddo.

3. SAFLE AC YMDDANGOSIAD YR UFFERNOEDD. Y mae safleoedd ac ymddangosiadau y nefoedd, byd yr ysbrydoedd, ac uffern, yn deilliaw o darddiad ysbrydol, ac yn cyfateb i feddyliau a serchiadau eu preswylwyr. Y mae safle uffern o dan fyd yr ysbrydoedd. Yr holl byrth a arweiniant i'r uffernoedd a agorant o fyd yr ysbrydoedd, heb un porth yn agor o'r nefoedd yno. Y mae uffernoedd o dan fryniau a chreigiau, gwastadeddau, a dyffrynoedd byd yr ysbrydoedd. Yr agoriadau a arweiniant i'r uffernoedd a ymddangosant fel tyllau ac agenau mewn creigiau—rhai yn llydain, rhai yn gulion, a'r rhan amlaf yn glogyrnog, llwyd, a thywyll; rhai fel ffauau ac ogofaau; rhai fel holltau dyfnion, a thro-byllau; rhai fel siglenau a llynoedd llonydd. Yr uffernoedd eu hunain a ymddangosant yn eithafol o hyll ac erchyll. Rhai o honynt fel cuddfanau ysglyfiaid yn y goedwig; rhai fel daeargelloedd a chromgelloedd dirgel, fel mewn mwngloddiau; rhai fel tai a dinasoedd wedi eu troi yn adfeilion gan dan; rhai fel trefydd ffiaidd yn cael eu trigianu gan ysbrydion uffernol, yn cigyddio a darnio eu gilydd; rhai uffernoedd yn grynhoad o butteindai brwnt. Y mae yno hefyd ddiffaethleoedd diffrwyth a thywodlyd, a choedwigoedd caddugawl, a chythreuliaid ynddynt fel gwylltfilod yn gwibhela. Fel y mae tyllau ar y ddaear yn guddleoedd i greaduriaid nad allant oddef gogoniant yr haul, felly yr uffernoedd, tyllau tragwyddoldeb ydynt, i'r eneidiau gelynol i'r goleuni, i ymguddio. Y rhai a garent

osod maglau yn y dirgel, a ant i ystafelloedd tywyll, gan hustyng yn y conglau yn nghlustiau eu gilydd; y rhai fu yn astudio y gwyddorau, heb un amcan ond clod fel dynion dysgedig, a garant leoedd tywodlyd, gan eu dewis o flaen meusydd heirdd a gerddi. Y rhai a feddant wybodaeth o athrawiaethau heb eu byw, a ewyllysiant drigianu mewn tir creigiog, ac yn mhlith carneddau cerig. Y rhai a briodolant bob peth iddynt eu hunain, i'w callineb a'u medr, ac a godasant trwy gyfrwysdra i glod a golud, a ddedfrydant eu hunain i ddewiniaeth. Y rhai fu yn defnyddio gwirioneddau dwyfol er hunan-barch a budr-elw, a garant drigo lle byddo trwnc a thom dynion. Y rhai fu yn gybyddion a drigant mewn selerau, ac a garant ddrygsawr moch. Y rhai fu yn treulio eu bywyd mewn pleserau yn unig, a garant y geudy a'r domen. Y rhai fu yn ymroddi i odineb, a gyfaneddant butteindai ffiaidd, awyrgylch tai diwair wnai iddynt lewygu. Y rhai fu yn trachwantu am ddial, a garant gelaneddau a gwaed. Caiff pob un yn uffern ei gwmpasu a chylchoedd ei feddyliau a'u deimladau drwg, yn ffurfiau erchyll, megys cymylau duon, cudd-gelloedd tywyll, tanau eirias, seirph, llyffaint, teigrod, fwltriaid, a phob creadur aflan arall yn dylifo o'r bywyd uffernol. Y mae pob peth o'r tu allan yn uffern yn bortread perffaith a dychrynllyd o'r pethau yn eneidiau y damnedigion.

4. TAN UFFERN. Nid tan materol, ond tan ysbrydol, yw tan uffern. Tan cariad llygredig ydyw, sef trachwant i wneud drwg yn tarddu oddi ar hunan-gariad, a chariad at y byd; pleser gwyllt a gwallgof i ddystrywio, fel teirw Basan yn bygynad a chornio, fel cwn cynddeiriog yn cnoi a thraflyncu, ac fel bwystfilod rheibus yn ysglyfio. Y mae gwres ysbrydol yn deilliaw o haul y nef angylaidd, sef yr Arglwydd, fel y mae gwres naturiol yn deilliaw o haul y nef weledig; gwres ysbrydol yw y naill, a gwres naturiol yw y llall. Cariad yw gwres a than ysbrydol, fel y profir trwy fod y meddwl a'r corph yn cynhesu trwy gariad. Gwres haul natur sydd dderbynfa i'r gwres ysbrydol, fel y dengys effaith gwres yn y gwanwyn a'r haf, a'r greaduriaid o bob rhyw; canys eu serchiadau a adnewyddant yr adegau hyny. Dylifa y byd ysbrydol i'r byd naturiol, ac felly, gwres ysbrydol i wres naturiol. Gwres ysbrydol dyn yw ei gariad. Tan nefol a arwydda gariad at yr Arglwydd, a chariad at gymydog; a than uffernol a arwydda hunan-gariad, a chariad at y byd. Daw tan uffern, neu gariad uffernol, o'r un ffynonell a than y nefoedd, neu gariad nefol. Deillia y ddau o haul y nefoedd, sef yr Arglwydd, yr hwn sydd dan ysol, ond troir y dylifiad dwyfol yn uffernol gan yr uffernolion; aiff pob dylifiad o'r byd ysbrydol i ansawdd y derbyniad roddir iddo, fel y newidir

gwres a goleu yr haul, gan y pethau a'u derbyniant: blodau ac arogl per yn y planhigion, pydredd a drygsawr yn y gelain. Rhingcian danedd yn uffern, yw ymrysonau a gwrth-ddadleuon dibaid cyfeiliornwyr colledig ar dan yn eu hawydd greulon i ddrygu a phoenydio. Y llusernau yn ogofaau Kor, oedd cyrph meirw ar dan. Er goleuo un wledd yno, cydiodd anfad-ddyn mewn braich yn fflamio, oedd newydd gwympo oddi wrth gorph marw yn cyneu. A'r fraich hono, taniodd wallt corph marw arall, fel y saethodd y fflamiau talsyth i'r awyr. Taniodd yr ail, y trydydd, y pedwerydd, nes o'r diwedd fod y rhai yno yn cael eu cwmpasu gan gylch o gyrph yn ffaglu yn ffyrnig, y fflamiau yn tori allan trwy y genau, y ffroenau, a'r clustiau, yn dafodau gwahanedig o dan. Ond yn ogofaau uffern, bydd yr eneidiau oll ar dan trachwant dragwyddol. Pan y mae yr uffernoedd yn cael eu hagor, ymddangosant fel adeiladau mewn coelcerth, y to yn dadmer, y trawstiau yn clecian, y dorau durol yn toddi, a'r dodrefn yn troi yn dan a lludw, "Canys pob un o honynt sydd ragrithiwr a drygionus, a phob genau yn traethu ynfydrwydd, o herwydd anwiredd a lysg fel tan; a bydd y bobl yn ymborth tan" (Esaiah ix, 17, 18, 19). "Pyg llosgedig: nis diffoddir nos na dydd; ei mwg a ddring byth" (Esaiah xxiv, 9, 10). "Canys darparwyd Tophet er doe . . . Ei chyneuad sydd dan a choed lawer; anadl yr Arglwydd, megys afon o frwmstan, sydd yn ei henyn hi" (Esaiah xxx, 33). "Ac efe a agorodd y pydew heb waelod, a chododd mwg o'r pydew, fel mwg ffwrn fawr; a thywyllodd yr haul a'r awyr gan fwg y pydew" (Dat. ix, 2). "Mab y Dyn a ddenfyn ei angylion, a hwy a gynullant o'i deyrnas Ef yr holl dramgwyddiadau, a'r rhai a wnant anwiredd, ac a'u bwriant hwy i'r ffwrn dan" (Math. xiii, 41, 42, 50). "Yna y dywed Efe wrth y rhai a fyddant ar y llaw aswy, Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tan tragwyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol, ac i'w angylion" (Math. xxv, 41). Cafodd y gwr goludog ei hun yn uffern, yn nghanol y tan, fel y dywedodd, "Fe a'm poenir yn y fflam hon" (Luc xvi, 24). "Y rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi a than a brwmstan: yr hwn yw yr ail farwolaeth" (Dat. xxi, 8).

5. DRYGIONI YSGELER YR UFFERNOLION. Pan ryddheir ysbryd dyn angylaidd o'r corph, daw i fwynhad o ddoethineb a daioni anrhaethol uwch na phan yn byw yn y byd. Tra yn y byd, yr oedd ei ysbryd yn rhwym wrth ei gorph, ac wrth y byd materol. Ei feddyliau ysbrydol a lifent i'w syniadau naturiol, y rhai sydd gwrs a thywyll, goblygedig mewn

cysgodion tewion, yn codi o ofalon a hudoliaethau y byd. Ond wedi ymadael i'r byd ysbrydol, ei gyflwr sydd yn dirfawr ragori. Ac fel y mae doethineb a daioni yn ffynu yn yr angylion, y mae drwg a dichell yn ffynu yn y cythreuliaid. Pan oedd yr anuwiolion yn y byd hwn, atelid eu drygioni gan y gyfraith, gan elw, a chan hunan-barch; ond yn uffern, eu hysbrydion a ddynoethir, a daw drygedd anrhaethadwy i'r golwg, tu hwnt dychymyg. Miliwnau o elfenau ysgeler a dorant allan o'u natur fewnol, mor erchyll, fel nas gellir eu darlunio. Y *genii* yn uffern a ehedant o amgylch fel drychiolaethau, gan ollwng allan dwyll a dichell dirgelaidd, a gwasgar gwenwyn fel gwiberod. Helant hefyd trwy yr arogl i ddystrywio, fel bytheuaid yn cael helfa yn y goedwig. Y mae yr ysbrydion uffernol yn fedrus mewn twyllhoniadau, hudoliaeth, a chelwydd, ac yn camarfer pob bendith. Y maent yn camarfer cyfatebion; yn camarfer amlygiadau o ddwyfol drefn; yn camarfer dylifiant a chymundeb meddyliau a serchiadau. Y dyn drwg, ar ol gadael y corph, a ddaw i wybodaeth o'r holl ystrywiau uffernol hyn o hono ei hun, am eu bod yn gynhenid yn ei ddrwg. Y trigolion yn yr uffernoedd trwy yr ystrywiau hyn a ddirboenant eu gilydd. Caniateir hyn gan yr Arglwydd, er cadw drygau yr uffernolion o fewn terfynau. Ofn cosb ac arteithiau yn unig all atal drygau uffern rhag rhuthro allan i ddifrodi y bydysawd, megys y difrodid teyrnas ar y ddaear, pe heb ddeddf na chosbedigaeth ynddi.

6. PARHAD YR UFFERNOEDD. Y mae yr uffernoedd, fel y cymdeithasau nefol, yn aneirif, a chymdeithas uffernol yn wrthgyferbyniol i bob cymdeithas nefol. Nid yw y damnedigion yn cael eu difodi, ac nid ydynt ddiles yn y bydysawd. Rhinwedd cryf a gwrol a gyrhaeddir trwy wrthsefyll a choncro temtasiwnau oddi wrth yr uffernolion. Ein llygredd etifeddol a gynhyrfir ganddynt, yn eu hawyddfryd wallgof i'n hufferneiddio fel hwy eu hunain. Duw y cariad a edy iddynt eu bywyd, eu bwyd, a'u pleserau. Troi careg mewn cae a ddug i'r olwg greaduriaid atgas, a phob un o honynt yn gwingo, a gwylltu yn gyflym i ymguddio am eu bywyd. Brysiant, rhag gosod o honom ein traed arnynt i'w difodi. Y seirph gan hyssian, y teigrod gan udo, a'r eirth gan chwyrnu, a ffoant mewn dychryn rhag cael eu dinystrio. Udfilod yr uffernoedd hefyd a ddymunant fyw i loddesta ar aflendid. Carant eu bwyd fel cwn yn caru eu chwydfa; a charant eu lleoedd duon, fel yr ystlum yn caru ei dwll, ac fel y bwystfil yn caru ei ffau. Ni esyd Tad y trugareddau ei droed arnynt. Ei drugaredd sydd ar yr holl uffernoedd, yn esmwythau, a lliniaru eu poenau. Efe a deimla drostynt, a alara o'u plegid,

ac a wyla yn ddiddiwedd yn yr olwg ar ddinasoedd dystryw tragwyddoldeb. Ei galon a dor yn dragywydd o herwydd y plant afradlon na fynant, ac na allant mwy, ddychwelyd adref. Rhydd iddynt y pleser mwyaf allant fwynhau, sef rhyddid i bellhau yn barhaus oddi wrtho Ef. Cant fod byth bythoedd yn uffern, am mai yn uffern y mae eu holl hyfrydwch. Rhwymant eu hunain yno, draed a dwylaw yn dragwyddol, gan fod eu holl fryd yn dragwyddol ar ddrwg. Nid yr Arglwydd sydd yn eu cosbi, ond hwy sydd yn taflu eu hunain o'u gwirfodd i'r tywyllwch eithaf. Pan aiff dyn i'r byd arall, caiff bob croesaw gan yr angylion goreu. Siaradant ag ef am yr Arglwydd, a'r nefoedd, a'r bywyd angylaidd. Ond os arferodd ddiystyru y pethau hyn yn y byd, efe a gilia oddi wrth yr angylion. Pan wel yr angylion ei fwriad, gadawant ef; cyfeillacha ag eraill, a chilia oddi wrthynt, nes y daw at ysbrydion tebyg iddo ei hun. Ymuna a'r rhai hyn, yna, try oddi wrth yr Arglwydd a'r nefoedd, gan droi ei wyneb tua'r uffern yr oedd yn un a hi pan yn y byd. Tafla ei hun yno o'i wirfodd, ac ymrwyga oddi wrth bawb a phob peth sydd gywir a da. Llusgir pob anuwiol gan ei ddrwg ei hun i uffern. "Yr anuwiol a ddelir a rhaffau ei anwiredd ei hun." "A'r rhai hyn a ant i gosbedigaeth dragwyddol" (Math. xxv, 46).

7. Y CYDBWYSEDD RHWNG Y NEFOEDD A'R UFFERNOEDD. Cydbwysedd yw y mantoliad rhwng dau fath o nerthoedd—un yn gweithio, a'r llall yn gwrthweithio. Y Creawdwr a geidw gydbwysedd rhwng y cwbl trwy y cread. Ceir cydbwysedd yn holl wrthrychau y deyrnas anifeilaidd, y deyrnas lysieuog, a'r deyrnas fwnawl. Bodola cydbwysedd hefyd rhwng gwres ac oerfel, rhwng goleuni a thywyllwch, a rhwng sychder a gwlybaniaeth. Cydbwysedd ysbrydol yw, daioni yn gweithio o un tu, a drygioni yn gwrthweithio o'r tu arall. Y mae cydbwysedd parhaus rhwng nefoedd ac uffern. Y mae ymdrech i wneud drwg o hyd yn anweddu ac esgyn o uffern; ac ymdrech i wneud da o hyd yn anweddu a disgyn o'r nefoedd. Cydbwysedd ysbrydol gyda dynion ac ysbrydion yw, eu rhyddid. Yn y cydbwysedd hwn y mae trigolion byd y farn. Yr angylion a gant eu cydbwysedd yn y mesur o ddaioni y buont byw ynddo yn y byd; a'r cythreuliaid a gant eu cydbwysedd yn y mesur o ddrygioni y buont byw ynddo yn y byd. Rhagorfraint yr Arglwydd yn unig yw gwybod ffordd y mae y glorian yn troi rhwng nefoedd ac uffern; ac Efe yn unig fedr ei mantoli. Y mae dyn yn mwynhau ei ryddid trwy y cydbwysedd rhwng nefoedd ac uffern. Y mae ganddo y gallu arswydol o droi yr Anfeidrol Ddyn a'r nefoedd o'i blaid, neu droi yr uffernoedd o'i blaid. Felly, defnyddiwn ein rhyddid

i godi i gydbwysedd y llu angylaidd. Gadawn yr Arglwydd, y Gair, a'r angylion, ein cloi rhag colledigaeth, rhag tanau Tophet, a rhag carcharau y tragwyddol ddychrynfeydd. Heb i ni gilio rhag pob drwg fel pechod yn erbyn Duw, nis gall yr Arglwydd, y Gair, a'r angylion ein dyogelu rhag yr uffernoedd. Y mae ysbrydion o uffern gyda ni bob amser, ac nis gall yr Arglwydd ein hachub oddi wrthynt, oddi eithr i ni ei gydnabod Ef yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol, a chadw ei orchymynion. Pan y mae bydoedd gwae a gwynfyd yn gweithio ynom, arnom, a thrwom, daliwn gymundeb cyson a'r Dyn Anfeidrol, ymwthiwn i awyddfryd a syniadaeth yr angylion, gan fythol ddyfalu ar ryfeddodau anfarwoldeb, fel y gallom yn rhwydd fwrw ymaith bryderon byd, ac enllibau y cynghreiriau cythreulig a'n cylchynant, ac sydd goronedig, ac yn cael eu cydbwysedd yn y capelau, yn y llanoedd, yn y seneddau, yn y wasg, ac ar orseddau y byd. "Drylliwn eu rhwymau hwy, a thaflwn eu rheffynau oddi wrthym. Yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd: yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt" (Salm ii, 3, 4). "Na ddywedwch cydfwriad, wrth y rhai oll y dywedo y bobl hyn cydfwriad; nac ofnwch chwaith eu hofn hwynt, ac nac arswydwch. Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwch: a bydded Efe yn ofn i chwi; a bydded Efe yn arswyd i chwi" (Esaiah viii, 12, 13). O! bydded ein bwriad a'n bryd cyfuwch ar Goruchaf, ac felly yn anorchfygadwy. Na fydded i ni trwy ofn dynion, na budrelw, na diogi, na difaterwch, gelu nwyfau anmhrisiadwy ac anmhoblogaidd Eglwys Philadelphia. Rhaid i'r nwyfau goreu o'r diwedd gael y ffordd yn glir i bob marchnad. Llwyr dderfydd marsiandiaeth Babilon fawr, a marchnadwyr y ddaear a wylant ac a alarant yn dragwyddol drosti. Am hyny, dygwn ein tystiolaeth ddidor i drysorau dinas dragwyddol gwlad y dydd. Haleluia! Amen.

XVIII.—AGORIAD I'R NEFOEDD.

"Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegu gwaith ei ddwylaw Ef" (Salm xix, 1). "Y mae Efe yn rhifo rhifedi y ser: geilw hwynt oll wrth eu henwau" (Salm cxlvii, 4). "Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch, pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi: Efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder ei rym Ef, a'i gadarn allu, ni phalla un" (Esaiah xl, 26). Fel y mae y nefoedd serenog yn datguddio mawredd y Creawdwr, seryddiaeth a ddatguddia y nefoedd, yn nghyd a pherthynas ein planed a'r bodau wybrenol. Maintioli, ffurf, lliw, pellder, a symudiadau y bydoedd a dynant sylw, efrydiaeth, ac edmygedd dyn. Yr ydym yn syn-syllu yn llesmeiriol i'r pellder glas ar fydoedd fyrdd yn mudo yn fawreddog, gan ddwys ddyfalu ar wybrenau pellach nag a welwn, yn goleuo a gorymdeithio yn filiwnau ar filiwnau o gatrodau dysglaer. Pa faint mwy y dylai ardderchawgrwydd, eangderau, a symudiadau y nefoedd angylaidd, dynu ein sylw, gan beri i ni ryfeddu at y golygfeydd datguddiedig yn y Gair, wedi ei agor gan yr Arglwydd trwy Emanuel Swedenborg. Gwelw yw ysblander penaf y nef serenog at ffurfafenau y nef angylaidd. Wrth edrych fyny trwy chwyddwydrau a *photography* yr Ail-ddyfodiad, llethir ni gan yr olwg ar gysawdau y gogoniant, synir ni gan arucheledd yr olygfa, a llyncir ni gan anfeidroldeb. Deffroir hefyd ein teimladau tyneraf, am mai y nefoedd yw cartref ein Tad, ein hangylion gwarcheidiol, ein hanwyliaid a flaenasant, a'r nefoedd yw ein cartref presenol a thragwyddol ninau. "Ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd" (Phil. iii, 20). Y mae meddwl am y nefoedd yn codi ein calon, yn clirio ein golwg, yn cyneu ein gobaith, yn cynal ein gwroldeb, yn ein llanw a thangnefedd, ac yn ein bendithio a phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu. Fel Tycho Brahe yn myned i'w balas gorwych a goleu, ac ynddo yn gwisgo dillad brenhinol, er syllu ar y ser; felly ninau, yn y ddinas o aur pur fel gwydr gloew, a ymdrwsiwn yn harddwisgoedd anfarwoldeb wrth droi ein golwg i'r uchelderau, ac olrhain rhyfeddodau y nefoedd, a nefoedd y nefoedd. Sylwn:—

I. Arglwydd y Nefoedd. II. Rhaniadau y Nefoedd. III. Deddf Cyfatebiaeth yn y Nefoedd. IV. Angylion y Nefoedd. V. Undeb y Nefoedd a Dyn. VI. Priodasau a Swyddogaethau y Nefoedd. VII. Amrywiaeth ac Eangder y Nefoedd. VIII. Y Nefoedd yw Cartref Presenol a Thragwyddol Aelodau Eglwys Philadelphia.

1. Arglwydd y Nefoedd. Plato a brawf, mai hapusrwydd penaf dyn ydyw myfyrio ar fodau deallol, yn neillduol y prif Fod deallol, sef y Goruchaf Dduw. Gall dyn ddal cymundeb ag ysbrydion ac angylion, a gweled gweledigaethau Duw. "Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw" (Math. v, 8). Pobl yr eglwys henaf, sef Adda yn ngardd Eden, a ymddyddanent a'r Arglwydd, ac a'r angylion, wyneb yn wyneb, ac a hyfforddid trwy freuddwydion a gweledigaethau o'r fath fwyaf dymunol. Emanuel Swedenborg, fel pobl yr eglwys henaf, ac fel y prophwydi a'r apostolion, a gyrhaeddodd y ddawn oruchel hon. Efe a welodd Iesu Grist, Arglwydd y nefoedd yn ei Berson, yn cael ei gydnabod a'i addoli gan yr angylion, fel yr unig Berson Dwyfol. Efe a ymddengys iddynt yn Ddyn Anfeidrol. Felly yr ymddangosodd Efe i Adda, i Noah, i Abraham, i Moses, a'r prophwydi, ac i'r apostolion. Efe a ymddengys hefyd yn y nefoedd fel yr haul. Y goleu yno yw gwirionedd, a'r gwres yw cariad. Cylch y dylanwad dwyfol yn deilliaw oddi·wrth yr Arglwydd, ac yn myned i mewn i'r angylion trwy ddylifiad, sydd yn cyfansoddi nefoedd. Cariad a gwirionedd yw cylch y dylanwad dwyfol. Y mae yr angylion yn angylion am eu bod yn derbyn cylch y dylanwad dwyfol, ac i'r graddau y derbyniant. Yr angylion a welant fod yr oll o fywyd yn dyfod oddi wrth yr Arglwydd; ac y maent yn anfoddlon, ac yn cilio, os gwna neb briodoli daioni iddynt hwy, fel awdwyr o hono. Ni dderbynir i'r nefoedd ysbrydion yn honi teilyngdod a chyfiawnder iddynt eu hunain. Yr angylion a ymogelant rhagddynt, gan eu cyfrif yn ynfydion, am edrych yn barhaus arnynt eu hunain, ac nid ar y Bod Dwyfol; ac yn lladron, am ysbeilio yr Arglwdd o'i eiddo. Y mae pawb yn y nefoedd yn un a'u gilydd, ac yn un a'r galon ddwyfol. Y bywyd dwyfol yn ei burdeb, a breswylia ynddynt, a dreiddia trwyddynt, ac a flagura, a flodeua, ac a ffrwytha o'u hamgylch. Gwelant yr Arglwydd ynddynt eu hunain, yn haul y nefoedd, yn y wybrenau, yn y golygfeydd o'u cwmpas, yn eu tai, yn eu dillad, yn eu bwyd, ac yn eu gwasanaeth i'w gilydd. Ein hanwyliaid sydd yno, "yn y nef yn byw gyda Iesu Grist a Duw"; y rhai fuont gyda ni ar ein haelwydydd, yn siarad a ni, yn cydfyw, ac yn cydfwyta. Dystawodd eu lleisiau, a

gwywodd eu gwedd. Rhoisom eu cyrph, gyda dagrau, yn y bedd, o'n cartref; ond aethant trwy byrth marwolaeth yn fuddugol a molianus, ac yn awr, amneidiant arnom o'r trigfanau dedwydd i'w dilyn. Ac oni wnant ein croesawu pan goncrwn a phan groeswn ninau? Y mae yn y nefoedd ddau fath o gariad, sef cariad at yr Arglwydd, a chariad at gymydog. Wrth garu yr Arglwydd y golygir, caru y daioni ddeillia oddi wrtho; a charu daioni yw ewyllysio a gwneud daioni o gariad. Wrth garu cymydog y golygir, nid caru ei gymdeithas fel person, ond caru y gwirionedd o'r Gair; a charu y gwirionedd yw ewyllysio a gwneud y gwirionedd. Y ddau gariad hyn a lanwant y nefoedd. Yr angylion a gant bob rhwyddineb i'w harfer. Y mae yr holl dramgwyddiadau tu allan i'r deyrnas nefol ac ysbrydol. Holl alluoedd a graddau eu meddyliau hefyd, ydynt mewn cydgordiad. Nid yw eu gogoniant yn creu cenfigen. Y mae pawb yno yn un a'u gilydd, yn un a'r holl nefoedd, yn un a phob gwrthrych o'u hamgylch, am eu bod yn un a'r Arglwydd, a'r Arglwydd yn un a'r cwbl. Eu synhwyrau hefyd sydd dyner a threiddlym, tu hwnt ein dirnadaeth. Ymberffeithiant hefyd bob mynudyn, gan ddyfod yn fwy byw i ddefnyddioldeb a dedwyddwch. Cant oll eu llyncu fyny gan brysurdeb esmwyth a gorfoleddus, wrth gyflawnu Gair yr Arglwydd, gan edrych yn wylaidd ac addolgar arno. Eu hoes dragwyddol sydd olyniaeth dragwyddol dedwyddwch, yn dilyn dedwyddwch yn ngwasanaeth Arglwydd y nefoedd.

2. RHANIADAU Y NEFOEDD. Y nefoedd a renir yn gyffredinol i ddwy deyrnas; yn neillduol i dair nefoedd, ac yn fwy neillduol i gymdeithasau dirif. Yr angylion a dderbyniant gylch y dylanwad dwyfol yn fwy mewnol, a ffurfiant y deyrnas nefolaidd; a'r angylion a dderbyniant gylch y dylanwad dwyfol yn llai mewnol, a ffurfiant y deyrnas ysbrydol. Y deyrnas nefolaidd a elwir yn deyrnas offeiriadol yr Arglwydd, ac yn y Gair, Ei Drigfa, neu Ei Breswylfod; a'r deyrnas ysbrydol a elwir yn deyrnas frenhinol, ac yn y Gair, yn Orseddfainc Duw. Angylion y deyrnas nefolaidd a dderbynient pan yn y byd, ac a barhant i dderbyn, y gwirioneddau dwyfol yn uniongyrchol i'w bywyd. Yr angylion ysbrydol a'u trysorant yn gyntaf yn y cof, ac yn y meddwl. Y cyntaf a ganfyddant eu sylwedd, ac a'u gwelant ynddynt eu hunain; a'r olaf a ymresymant am danynt, a ydynt wir neu beidio. Y mae tair nefoedd, y fwyaf mewnol, neu y drydedd nef; y ganol, neu yr ail nef; a'r allanol, neu y nef gyntaf. Perthynant i'w gilydd fel y rhan uchaf o'r dyn, sef y pen; a'r rhan ganol, sef y corph; a'r rhan isaf, sef y traed. Neu fel y llofft uchaf, y ganol, a'r llawr isaf; ac fel y cysegr

sancteiddiolaf, y cysegr, a chyntedd y deml. Yr un drefn hefyd sydd i gylch y dylanwad dwyfol. Y mae yn yr Arglwydd, ac yn deilliaw o'r Arglwydd, y dwyfol nefolaidd, y dwyfol ysbrydol, a'r dwyfol naturiol. Y dwyfol nefolaidd a ddeallir wrth ben Mab y Dyn yn nghanol y saith ganhwyllbren aur; y dwyfol ysbrydol, wrth y llygaid, ac wrth ei fronau wedi ymwregysu a gwregys aur; a'r dwyfol naturiol, wrth ei draed yn debyg i bres coeth, megis yn llosgi mewn ffwrn. Oblegid fod y tri hyn yn yr Arglwydd, y maent hefyd yn y nef angylaidd, yn yr eglwys ar y ddaear, ac hefyd yn y dyn, yr hwn a grewyd yn drefn ddwyfol, yn deyrnas Dduw, yn nefoedd ac yn eglwys ynddo ei hun. Y mae y nefoedd yn cynwys cymdeithasau aneirif, rhai yn fwy, a rhai yn llai, yn ol gwahaniaeth eu cariad a'u credo; y rhai sydd wedi eu gwreiddio yn yr un cariad, yn ffurfio un gymdeithas. Y cymdeithasau mwyaf a gynwysant fyrddiwnau o angylion; y rhai llai, filoedd; a'r rhai lleiaf, ganoedd. Y mae hefyd rai angylion yn byw yn deuluoedd wrthynt eu hunain. "Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau." Yr angylion o'r un ansawdd a ddeuant i gymdeithas eu gilydd, fel o honynt eu hunain, gan deimlo fel pe baent yn mhlith eu perthynasau anwylaf, yn eu cartref eu hunain. Myned gartref yw myned i'r nefoedd. "Ond yr ydym yn hyf, ac yn gweled yn dda, yn hytrach fod oddi cartref o'r corph, a chartrefu gyda'r Arglwydd" (II Cor. v, 8). Y mae pob cymdeithas yn y nefoedd, yn nefoedd ar raddfa fach, a phob angel yn nefoedd ar y raddfa leiaf. Ond yr holl nefoedd fel cyfangorph a ymddengys mewn ffurf fel un dyn, ac a elwir gan yr angylion, y Dyn Mawreddog, prif bwnc myfyrdod yr angylion, gan y dybyna cymaint arno fel canolbwynt, pethau heb y wybodaeth hon nas gallant dreiddio i'w drychfeddyliau. Yr holl nefoedd a reolir gan yr Arglwydd, fel y mae yr enaid yn rheoli y corph. Y Ddynoliaeth Ddwyfol yw enaid y Dyn Mawreddog; ac o'r Ddynoliaeth Ddwyfol hefyd y mae pob cymdeithas yn y nefoedd mewn ffurf fel un dyn, a phob angel mewn ffurf ddynol berffaith. Fel y mae yr holl nefoedd yn ddyn yn y ffurf fwyaf, felly y mae pob angel yn ddyn yn y ffurf leiaf. Y mae delw yr holl nefoedd yn mhob rhan, a delw pob rhan yn yr holl nefoedd; pawb yno yn gwasanaethu pob un, a phob un yn gwasanaethu pawb. Cymundeb anwyl a bendigedig yw y nefoedd. Tristwch mawr a gofid dibaid i'm calon yw fod y fath gyflyrau gwynfydedig yn guddiedig rhag y bobl a'r pregethwyr, a hyny o'u gwirfodd.

3. DEDDF CYFATEBIAETH YN Y NEFOEDD. Gyda'r henafiaid, gwyddor cyfatebiaeth oedd y penaf o'r gwyddorau. Trwy hon y derbynient ddealldwriaeth a doethineb, ac y cymdeithasant a'r nefoedd; oblegid gwyddor yr angylion

ydyw. Y mae yr holl fydysawd naturiol yn bodoli, a pharhau i fodoli, o'r bydysawd ysbrydol, fel effaith o achos. Y mae dyn yn fydysawd ysbrydol a naturiol ynddo ei hun. Ei ranau mewnol yn perthyn i'w ewyllys a'i ddeall, a gyfansoddant ei fydysawd ysbrydol; a'i ranau allanol yn perthyn i'w gorph, a gyfansoddant ei fydysawd naturiol. Y mae y DYN MAWREDDOG yn cyfateb i'r dyn unigol, a'r cymdeithasau mewn unrhyw aelod o'r DYN MAWREDDOG, yn cyfateb i'r unrhyw aelod mewn dyn; y rhai yn y breichiau yn cyfateb i'r breichiau yn y dyn; y rhai yn y traed yn cyfateb i'r traed yn y dyn; a'r rhai yn y ddwyfron yn cyfateb i'r ddwyfron yn y dyn; ac felly yn yr oll. Trwy y gyfatebiaeth hon y mae dyn yn bodoli, a pharhau i fodoli; canys y mae dyn yn derbyn ei fodolaeth yn hollol o'r nefoedd. Y mae cyfatebiaeth rhwng pob nefoedd a'u gilydd. Y mae yr ail, neu y nef ganol, yn cyfateb i'r drydedd, neu y nef fwyaf mewnol; ac y mae y nef gyntaf, neu fwyaf allanol, yn cyfateb i'r ail, neu y ganol. Y mae holl ranau corph dyn, sef yr aelodau, yr ermigau, a'r coluddion, yn cyfateb i'r nef gyntaf, neu y fwyaf allanol. Pob cyfatebiaeth sydd rhwng unrhyw beth a'r nefoedd, y mae hefyd yn gyfatebiaeth rhyngddo a Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd; oblegid fod y nefoedd o hono Ef, ac Efe yw y nefoedd. "Pe na ddylifai y Ddynoliaeth Ddwyfol i bob peth yn y nefoedd, ac yn ol cyfatebion, i bob peth yn y byd, nis gallai angel na dyn fodoli. Felly, ymddengys yn mhellach paham y daeth yr Arglwydd yn Ddyn, ac y gwisgodd ei Dduwdod a Dynoliaeth o'r cyntaf i'r diweddaf; canys y Ddynoliaeth Ddwyfol, o'r hon y cynelid y nefoedd cyn dyfodiad yr Arglwydd, nid oedd ddigonol mwy i gynal pob peth, am fod dyn, yr hwn yw sylfaen y nefoedd, wedi syrthio a dystrywio sylfaen trefn. Ond yr Arglwydd a'i hadferodd yn ei Berson ei hun, trwy yr ymgnawdoliad." Y mae pob peth yn y bydysawd gweledig yn gyfatebion: yr haul, y lloer, y ser, y cymylau, y tarth, y gwlaw, y mellt, a'r taranau; y dwyrain, y gorllewin, y deheu, a'r gogledd; y boreu, canol dydd, prydnawn, a'r hwyr; goleuni a thywyllwch, gwres ac oerni; gwanwyn, haf, hydref, a gauaf; y deyrnas anifeilaidd, y deyrnas lysieuaidd, a'r deyrnas fwnawl; bwyd o bob math, gwisgoedd, tai, a holl gynyrch llafur dyn. Dameg yw natur, alegori yw llythyren y Gair. Llenyddiaeth y pagan, y *legends* a'r *mythologies*, gynwysant ddatguddiadau. Y cydfyd gweledig o fodau a phethau ydynt sacrament ddirgeledig, ac arwyddluniau o ffeithiau a lanwant dragwyddoldeb. Y cyfun-

draethau dynol oll hefyd gynwysant ryw belydrau yn cyfateb i haul y nef angylaidd. Yr olygfa hon barodd i'r bardd ddweud:—

Ein cyfundraethau bychain ni,
Arosant enyd—brau eu hynt;
Rhyw ddarnau o'th oleuni ynt,
A mwy na hwy, O Dduw, wyt ti.
N. R.

4. ANGYLION Y NEFOEDD. Dynion yw yr angylion, yn meddu holl synhwyrau a galluoedd dynion yn y byd hwn, ond yn llawer perffeithiach. Fel dynion yr ymddangosent i'r patriarchiaid, i'r prophwydi, i'r apostolion, ac i eraill. Y mae gan yr angylion eu cyrph ysbrydol a nefolaidd, eu gwisgoedd, eu trigfanau, eu dinasoedd, eu gwledydd, eu llywodraethau, eu haddoliadau dwyfol, eu hiaith, eu hysgrifeniadau, eu llyfr-gelloedd, eu galwedigaethau, a phob peth da sydd yn y byd hwn, a phethau aneirif eraill. Y mae gwisgoedd yr angylion, fel pob peth arall perthynol iddynt, yn cyfateb i'w cariad a'u doethineb. Yr angylion mwyaf eu cariad a'u doethineb a wisgant ddillad yn tanbeidio fel tan enynol. "Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion, a'i weinidogion yn dan fflamllyd" (Salm civ, 4). Rhai a wisgant ddillad yn dysgleirio fel y goleuni. Mewn gwisgoedd gwynion yr ymddangosodd y ddau angel yn y bedd i Mair. Y rhai llai deallus a wisgant ddillad o amryw liwiau. Y mae yr angylion yn byw mewn palasoedd addas i'w sefyllfa, ac o'u cylch, erddi a pherllanoedd, a pharadwysau, yn llawn coed a blodau o bob math; y coed wedi eu planu mewn trefn brydferth, yn ffurfio aneddau gwyrddion, ac iddynt byrth addurnedig, a rhodfeydd heirddion o'u hamgylch. Yr angylion penaf a gasglant flodau, ac a'u gwnant yn dyrch plethedig i harddu a boddio plant bach. Y mae nerth angylion uwchlaw dirnadaeth. Gwrthwynebiadau i drefn Duw yn y byd ysbrydol, a ddymchwelir gan yr angylion trwy ewyllysio, neu trwy edrychiad yn unig. "Gwelais fynyddoedd," medd Swedenborg, "a boblogid gan y drygionus, fel hyn yn cael eu bwrw i lawr a'u dymchwelyd; ac weithiau yn cael eu hysgwyd o un cwr i'r llall, fel mewn daeargrynfaau. Gwelais greigiau yn hollti lawr i'r gwaelod, a'r drygionus arnynt yn cael eu llyncu. Gwelais hefyd rai canoedd o filoedd o ysbrydion drwg yn cael eu gwasgaru a'u taflu i uffern; nid yw rhif ddim yn erbyn yr angylion, na dyfeisiau, na chyfrwysdra, na chynghreiriau: gwelant trwy y cwbl, a gwasgarant hwynt mewn moment." Yr angylion gyfansoddant freichiau cyfangorph y nefoedd, sef y Dyn Mawreddog, sydd yn meddu y nerth mwyaf, am fod y Dyn

Anfeidrol yn gollwng ei rym, a grym cyffredinol yr holl nefoedd iddynt, fel y gwna grym yr holl ddyn ddylifo i'w freichiau a'u ddwylaw. Ymddengys weithiau yn y nefoedd, fraich noeth estynedig, o'r fath nerth aruthrol, fel y gall friwio pob peth a gyffyrdda a hwynt yn falurion, hyd yn oed creigiau callestr. "Symudodd unwaith tuag ataf," medd Swedenborg, "a chanfyddais ei bod yn alluog i friwio fy esgyrn yn bylor." Yr oedd gan y Bardd Cwsg ddychymyg am dani, ac am y dwrn mawr uwchben Lusiffer, yn dal bollt ofnadwy; a phan y mae gelyn Duw a dyn yn rhoddi hedlam gynddeiriog i'r ddaear, nes fod ffurfafen o dan uffernol yn bygwth difa dynoliaeth, dacw y dwrn uwch ei ben, yn gwyntio y follt, nes fod Lusiffer yn crynu yn nghanol ei gynddaredd. Bysedd llaw dyn o'r byd angylaidd, yn ysgrifenu ar galchiad pared llys brenhin Babilon, wrth ei gweled, "Newidiodd lliw y brenhin, a'i feddyliau a'i cyffroisant ef, fel y datododd rhwymau ei lwynau ef, ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall" (Dan. v, 6). Gallu yr angylion yn y byd naturiol sydd anwrthwynebol hefyd, pan ganiata yr Arglwydd. Dangosir yn y Gair iddynt weithiau ddystrywio byddinoedd cyfain. "Bendithiwch yr Arglwydd, ei angylion Ef, cedyrn o nerth yn gwneuthur ei Air Ef, gan wrandaw ar leferydd ei Air Ef" (Salm ciii, 20). Y cedyrn o nerth ydynt wedi eu gwreiddio mewn diniweidrwydd, daioni, doethineb, tangnefedd, a dedwyddwch.

5. UNDEB Y NEFOEDD A DYN. Undeb cariad, a chredo, a chyfiawnder, yw undeb y nefoedd a dyn; undeb ewyllys, a deall, a bywyd. Eglur yw hyn wrth ystyried fod y nefoedd o'r hil ddynol, oblegyd fod meddyliau y nefolion a meddyliau daearolion yn debyg. Y mae ganddynt fel eu gilydd y gallu i ddeall, canfod, ac ewyllysio, ac fel eu gilydd, cawsant eu creu i dderbyn y nefoedd. Meddwl dyn sydd mor addas a meddwl angel i dderbyn doethineb, er na ddaw mor ddoeth tra yn y corph daearol; ond wedi ei ryddhau yn angau oddi wrth rwymau anianol, ymeifl mewn pethau sylweddol, ysbrydol, a nefol: pethau anamgyffredadwy ac anrhaethadwy i'r dyn naturiol, ac felly, daw yn ddoeth fel angel. Ond y mae undeb rnwng y nefoedd a dyn yn y byd yn cael ei sicrhau gan dri chyfrwng:—

1. Undeb trwy ddylifiad uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd. Y mae yr Arglwydd ei hun yn myned i fewn i ddyn trwy ddylifiad, yn ol trefn y nefoedd, i elfenau mwyaf mewnol ei fodolaeth, yn ei dueddu i dderbyn y nefoedd, a rheoli ei alluoedd mwyaf allanol, o'i alluoedd mwyaf mewnol, a'i alluoedd mwyaf mewnol ar yr un pryd, o'i alluoedd mwyaf allanol, gan gadw y cwbl a berthyn iddo i'r manylion lleiaf, mewn cysylltiad a'u gilydd. Daw y dylifiad hwn o'r Ddynol-

iaeth Ddwyfol i ewyllys dyn, a thrwy yr ewyllys, i'r deall; llifa i'r daioni sydd yn y dyn, a thrwy y daioni i'w wirionedd. Ond nid yw byth yn deilliaw yn y gwrthwyneb; llawer llai y llifa i wirionedd heb gariad. Y mae y dylifiad dwyfol hwn yn barhaus, ac yn cael ei dderbyn a'i ddefnyddio gan ddynion da; ond ei wrthod, neu ei fogi, neu wyrdroi, a'i lygru, gan ddynion drwg. Y dynion da, trwy dderbyn y dylifiad, a dderbyniant y sylweddau bar i ddynion ac ysbrydion drwg gilio oddi wrthynt, fel us o flaen y gwynt; derbyniant hefyd y sylweddau cryfion a'u gwnant yn anibynol, yn safadwy, ac anhyblyg i orthrymwyr. Codant eu gwyneb yn ddifrychau a di-ofn; gollyngant eu gofidiau dros gof; eu hoedran sydd ddysgleiriach na haner dydd, a byddant byth yn llewyrchu fel y boreu ddydd. "Fel y byddont oll yn un: megys yr wyt ti, y Tad, ynof fi, a minau ynot ti: fel y byddont hwythau un ynom ni" (Ioan xvii, 21). "Gwyddom ddyfod Mab Duw, ac Efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir; ac yr ydym yn y cywir hwnw, sef yn ei Fab ef, Iesu Grist" (1 Ioan, v, 20). Bod yn Iesu Grist yw bod yn y nefoedd, ac yn un a'r nefoedd.

2. Undeb trwy y Gair. Pan fyddo dyn difrifol yn darllen y Gair, a'i ddeall yn ol ystyr y llythyren, y mae yr angylion yn ei ddeall yn ol yr ystyr ysbrydol. Y ddau fath hyn o feddyliau a ffurfiant un, am eu bod yn cyfateb i'w gilydd. Darllen y Gair yn astud sydd foddion dwyfol i uno y nefoedd a dyn. Creir undeb hefyd trwy y Gair rhwng y nefoedd a phobl y gwledydd lle nad adwaenir y Gair. Y mae Eglwys yr Arglwydd gyda phawb sydd yn cydnabod Duw, a byw yn gyfiawn yn ol eu cred. Y mae yr eglwys gyffredinol ar y ddaear, yn ngolwg yr Arglwydd fel un dyn; ond y rhan o'r eglwys lle darllenir y Gair yn ddeallus ac addolgar, sydd fel y galon a'r ysgyfaint mewn dyn—y coluddion, a'r cwbl oll o'r corph, yn tynu eu bywyd trwy hanedigaeth o'r ysgyfaint a'r galon. Oni bai y Gair, caem ein hysgaru oddi wrth y nefoedd, a'n hamddifadu o'n rheswm. Goleuni y nefoedd a lewyrcha i ni trwy y Gair; trwyddo y creir ein rheswm, a thrwyddo hefyd yr esgynwn ac y treiddiwn i syniadau a gorfoledd yr angylion. Cawn trwy y Gair ein cydio wrth holl luoedd gwynfydedig y cydfyd, gan gyfranogi o'u bywyd hwy, a'i gyfranu yn ol iddynt trwy yr un cyfrwng. Cawn ein sirioli trwy wenau ser aneirif, o'r wybrenau nefol ac ysbrydol, a thrwy beraidd gydlais cyngherddau bydoedd dirifedi yn tramwy atom trwy awyrgylchau pur y Gair.

3. Undeb trwy Ysbrydion Da. Y mae ysbrydion drwg ac ysbrydion da o fyd yr ysbrydoedd gyda phob dyn; trwy yr ysbrydion da, unir ef a'r nefoedd, a thrwy yr ysbrydion drwg,

unir ef ag uffern. Yr ysbrydion hyn a ant i fewn i gof dyn, ac oddi yno i'w feddyliau; yr ysbrydion drwg i'r cofion a'r meddyliau drwg, a'r ysbrydion da i'r cofion a'r meddyliau da. Y mae yr ysbrydion da mewn cymundeb a'r nefoedd, a'r rhai drwg mewn cymundeb ag uffern. Y mae yr ysbrydion cysylltiedig a'r dyn, o'r un ansawdd a'r dyn ei hun. Yr ysbrydion a newidiant yn ol y cyfnewidiadau yn ei serchiadau ef. Yn ei fabandod, ysbrydion nodedig am eu diniweidrwydd sydd ganddo, mewn cymundeb a nefoedd diniweidrwydd, sef y nef fwyaf mewnol. Yn ei blentyndod, ysbrydion awyddus am wybodaeth, a holi gofyniadau, sydd ganddo, mewn cymundeb a'r nefoedd allanol, sef y nef isaf. Yn ei ieuenctyd, a'i ddyndod, ysbrydion enwog am garu gwirionedd a daioni sydd ganddo, mewn cymundeb a'r ail nef, sef y nef ganol. Ond mewn henaint, yr ysbrydion nodedig am eu doethineb a'u diniweidrwydd sydd ganddo, mewn cymundeb a'r nef fwyaf mewnol, sef y drydedd nef. Y cysylltiad hwn a wneir gan yr Arglwydd, pan gymer dyn ei ail-eni. Gwahanol ydyw gyda dynion anianol a drygionus. Cysylltir hwynt a'r ysbrydion drwg mewn cymundeb ag uffern.

6. PRIODASAU A SWYDDOGAETHAU YN Y NEFOEDD. Yr hil ddynol o'r daearfydoedd, ac o'r ddau ryw, yw angylion y nefoedd. Ordeiniwyd o'r cread fod y wraig i'r gwr, a'r gwr i'r wraig. "Oni ddarllenasoch, i'r hwn a'u gwnaeth o'r dechreu, eu gwneuthur hwy yn wryw a benyw? Oblegid hyn y gad dyn dad a mam, ac y glyn wrth ei wraig: a'r ddau fyddant yn un cnawd" (Math. xix, 4, 5). Cynhenid yn y ddau ryw yw y cariad at hyn. Felly, y mae priodasau yn y nefoedd, megys ar y ddaear, ond mai ysbrydol a nefol ydynt, ac nid cnawdol ac anianol. Gwr a gwraig yn y nefoedd a ffurfiant un meddwl: y gwr yn gweithredu fel y deall, a'r wraig fel yr ewyllys. Yn y nefoedd, dau gydmar a elwir, nid yn ddau, ond yn un angel. Cylch y dylanwad dwyfol a ddylifa yn benaf i'r cariad priodasol, am fod y cariad hwnw yn disgyn o'r briodas sydd rhwng cariad a gwirionedd yn yr Arglwydd. Y Duwdod yw y Priodfab, a'i ddelw sydd ar holl briodasau y nefoedd, yn cynyrchu, nid hiliogaeth, ond daioni a doethineb, drychfeddyliau dwyfol, defnyddioldeb, a dedwyddwch. Pleserau bywyd priodasol yn y nef ydynt byth ar gynydd. Perffeithio priodas yw gwynfyd penaf tragwyddoldeb. Sylwn eto ar y pwnc hwn mewn penod neillduol, ar agoriad i briodas. Swyddogaethau a gwaith y nefoedd hefyd sydd tu hwnt cyfrif, yn cael eu trefnu yn ol eu llesiant. Y mae yn y nefoedd, fel ar y ddaear, lawer math o alwedigaethau a gorchwylion, yn perthyn i bob cymdeithas, a phob cymdeithas hefyd a gyflawna swydd neillduol. Perthyn i'r nefolion eu gwaith teuluaidd,

eglwysig, a gwladol. Perffeithrwydd trefn yw gwaith y nefoedd, yn cael ei warchod yn berffaith yn mhob lle gan weinidogaeth angylion. Gosodir anrhydedd ar bob swydd yn ol ei gwerth, ac yn ol anrhydedd ei defnyddioldeb. Ond ni ryfyga yr un angel gymeryd yr anrhydedd iddo ei hun, fel y gwna swyddogion beilchion byd; ond efe a'i priodola i'r Arglwydd, ac i ddefnyddioldeb ei swydd.

7. AMRYWIAETH AC EANGDER Y NEFOEDD. Amrywiaeth diderfyn a nodwedda holl waith yr Arglwydd. Ond yn y nefoedd yr ymddengys yr amrywiaeth yn ei lawnder, a'i ogoniant. Y rhai tebycaf i'w gilydd a dynant at eu gilydd, fel creaduriaid o'r un greddfau; y pedwar anifail gyda'u gilydd; y pedwar henuriad ar hugain gyda'u gilydd; angylion lawer, a'u rhifedi yn filoedd o filoedd a myrddiwnau o fyrddiwnau, gyda'u gilydd; y dyrfa fawr o'r cystudd mawr, nas gall neb eu rhifo, gyda'u gilydd; yr eneidiau a dorwyd eu penau am Air Duw, dan yr allor gyda'u gilydd; y pedair mil, a'r saith ugain mil ar fynydd Sion, gyda'u gilydd; y dorf wedi cael y maes ar y bwystfil, yn canu eu telynau ar y mor o wydr gyda'u gilydd; y lluoedd sydd yn y nef ar feirch gwynion, yn canlyn Arglwydd yr arglwyddi a Brenhin y brenhinoedd, gyda'u gilydd. Ymddengys amrywiaeth ac eangder y nefoedd ar gyffelybrwydd cyfangorph y nefoedd serenog. Gwelir y ser yn gynulliadau, ac yn gysawdau; Orion yn gynulliad; Pleiades yn gynulliad; y saith seren yn gynulliad; Caergwydion yn gynulliadau dirifedi. Felly yn y nefoedd angylaidd: rhai yn gynulliadau dysglaer fel Orion; rhai fel y saith seren siriol; a rhai fel Caergwydion, yn gwneud y gwynfyd yn ddibendraw. Rhai fel Mars, yn danbaid; rhai fel planedau mwy pwl; rhai fel *asteroids*, braidd yn y golwg; a rhai fel y *nebulæ*, yn ymguddio yn y pellderau anelwig. Weithiau, teimlwn ofn ac arswyd wrth feddwl myned i'r nef; ond pan ddyfalwn ar ei hamrywiaethau, a'i heangder, hyderwn mai hawddach cael rhai tebyg i ni yno nag yma. Ni bydd y maes i ddewis ewmni mor gyfyng. Cawn help i synied am amrywiaeth ac eangder y nefoedd wrth ystyried y pethau canlynol:—

1. *Fod yr holl gyfiawnion a ymadawsant a'r byd yn y nefoedd.* Yn y nefoedd y mae yr holl gyfiawnion a ymadawsant a'r byd, nid yn unig y byd Cristionogol, ond y byd paganaidd hefyd. Megis y dywed yr Ysbryd Glan trwy Petr, "Yr wyf yn deall mewn gwirionedd, nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb: ond yn mhob cenedl, y neb sydd yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder, sydd gymeradwy ganddo Ef" (Act. x, 34, 35). Mor fawr yw y rhif trwy yr oesoedd! Mor lluosog yw deiliaid un oes! Gwelir hyn wrth daflu trem dros wyneb daear: yr ynysoedd, y cyfandir-

oedd, y teyrnasoedd, y prif ddinasoedd, y dinasoedd, y trefydd, y pentrefydd, a'r tai. Miloedd lawer a ymadawant a'r byd hwn bob dydd, ugeiniau o filoedd bob wythnos, canoedd o filoedd bob mis, miliwnau lawer bob blwyddyn. Felly y bu trwy yr oesoedd; felly y bydd dros byth. Magwrfa i'r byd tragwyddol yw y byd hwn. Bydd y nefoedd byth ar gynnydd mewn rhif, amrywion, eangder, a gogoniant. Y nefoedd am byth bythoedd a helaetha le ei phabell, ac a estyna gortynau ei phreswylfeydd. Hi a dor allan ar y llaw ddeheu ac ar y llaw aswy. "Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau" (Ioan xiv, 2).

2. Fod holl blant bach y byd wrth farw, yn myned i'r nefoedd. Lluoedd sydd yn marw yn eu babandod, un meddir, o bob pedwar neu bump. Y nifer a ddengys fod y byd hwn yn hynod ddrwg, ac mai amcan mawr y Creawdwr yw llwyddo ac eangu y nefoedd. Athrist fod y byd hwn mor afiach a marwol, rhy farwol i fagu y plant goreu. Y planhigion goreu a grinant mewn tir drwg ac oer. Blodau yr afalau a gwympant mewn awyr laith, lwydrewog. Pan ddaw hin ysbrydol y byd yn fwyn a hafaidd, "Ni bydd o hyny allan blentyn o oed, na henafgwr, yr hwn ni chyflawnodd ei ddyddiau: canys y bachgen fydd marw yn fab can'-mlwydd . . . Megys dyddiau pren y bydd dyddiau fy mhobl, a'm hetholedigion a hir fwynhant waith eu dwylaw. Ni lafuriant yn ofer, ac ni chenhedlant i drallod: canys had rhai bendigedig yr Arglwydd ydynt, a'u heppil gyda hwynt" (Esaiah lxv, 20, 22, 23). Ond yn awr trawsblenir y plant yn lluoedd i feusydd a hinion hyfryd y nefoedd, gan liosogi trigolion y wlad well.

3. Fod y daearfydoedd dirifedi yn anfon eu dynion da i'r nefoedd. Dyben bodolaeth byd yw bod yn breswylfa dyn, bod ar lun a delw Duw yn dolenu y Creawdwr a'r greadigaeth wrth eu gilydd. "Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, Creawdwr y nefoedd, Y Duw ei hun a luniodd y ddaear, ac a'i gwnaeth; Efe a'i sicrhaodd hi; ni chreodd hi yn ofer; i'w phreswylio y lluniodd hi" (Esaiah xlv, 18). Nod penaf bodolaeth y daearfydoedd oll, yw bod yn breswylfeydd dynion yn caru y Creawdwr, ac yn caru eu gilydd. Ni feddylir am godi tai, pentrefydd, trefydd, a dinasoedd, ond i'w trigianu. Tai y Duwdod yw y bydoedd; pentref yw y trwpser; palasdai yw y Pleiades; trefydd goleu yw Arcturus ac Orion; ystrydoedd anherfynol myrddiwnau o ddinasoedd yw glesni gloew y Llwybr Llaethog. "Y cynhauaf yn wir sydd fawr." Cornentydd ac afonydd a darddant yn y bryniau a'r mynyddoedd; cerddant a'r gan i'r eigion, a chwrddant yn gymanfaoedd yn y cefnfor mawr. Ac onid oes afonydd grisialaidd o fodau

sanctaidd yn llifo o bob byd i for gwynfyd y nefoedd? Cornant fach, fas, gul, aflan ddigon, a mawr ei stwr mewn cydmariaeth o'r ddaear hon; ond o fydoedd eraill, afonydd mawrion, hirion, dyfnion a llydain, yn llifo yn llyfn a llonydd trwy ddoldiroedd bywyd i ddyfnderau tawel "tangnefedd Duw yr hwn sydd uwchlaw pob deall." "Yr Arglwydd ardderchog a fydd yno i ni yn fangre afonydd a ffrydiau llydain; y rhwyf-long nid a trwyddo, a llong odidog nid a drosto" (Esaiah xxxiii, 21).

8. Y NEFOEDD YW CARTREF PRESENOL A THRAGWYDDOL AELODAU EGLWYS PHILADELPHIA. Dyn digartref sydd druenus. Nid cartref i'r corph yn unig sydd angen ar ddyn, ond cartref enaid hefyd, yn orphwysfa, yn ymgeledd, ac yn lloches rhag y gelynion, rhag y byd a'i derfysgoedd, ei ddrychiolaethau, ei feddau, ei fynwentydd, a'i uffernoedd. Y mae y nefoedd newydd yn gartref bendigedig i Eglwys Philadelphia, hyd yn oed tra ar y ddaear. Gall ei holl aelodau ddywedyd, "Ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd" (Phil. iii, 20). Y maent oll yn cyd-eistedd yn y nefolion leoedd. Soniasom fod y nefoedd a ninau yn cael ein huno a'n gilydd trwy ddylifiad dwyfol uniongyrchol, trwy y Gair, a thrwy ysbrydion da. Trwy yr undeb hwn, cartrefa y nefoedd ynom ni, a ninau yn y nefoedd. Defnyddia yr Arglwydd yn y Gair ddwy ffordd i ddangos fod y nefoedd yn gartref i'r duwiolion pan yn y byd. Un ffordd yw, trwy ddarlunio y nefoedd yn disgyn at dduwiolion, a chyfaneddu gyda hwynt; a'r ffordd arall, darlunio y duwiolion yn cael eu codi i'r nefoedd, ac yn byw yno o ran eu hysbryd, er yn y byd o ran y corph. Disgynodd y nefoedd at Abraham a Lot; lletyodd angylion yn eu tai. Disgynodd y nefoedd ar hyd yr ysgol fawr at Jacob, a galwodd y fan yn dy i Dduw, a phorth i'r nefoedd. Dro arall, angylion Duw a gyfarfu ag ef, a Jacob a ddywedodd pan welodd hwynt, "Dyma wersyll Duw." Disgynodd y nefoedd ar Sinai, ac ar Sion: "Dyma y mynydd y chwenychodd Duw ei breswylio; ie, preswylia yr Arglwydd ynddo byth. Cerbydau Duw ydynt ugain mil, sef miloedd o angylion: yr Arlgwydd sydd yn eu plith, megys yn Sinai yn y cysegr" (Salm lxviii, 16, 17). Portread o'r nefoedd, ac wedi disgyn o'r nefoedd, oedd y Tabernacl. Yr Arglwydd a'r nefoedd trwy arwyddion a breswylient ynddo, a thrwyddo yn y byd. Yr oedd gan y Jehovah yn y gwersyll ei dy, ei dan, ei fwyd, ei ddodrefn, ei lestri, ei blant, ei weision a'i forwynion, ei deyrnas nefol, a phob peth perthynol iddi. Daeth y nefoedd i lawr gyda'r ymgnawdoliad. Angel yr Arglwydd a ymddangosodd, a gogoniant yr Arglwydd a ddysgleiriodd o amgylch y bugeiliaid. "Ac yn ddisymwth yr oedd gyda'r

angel luaws o lu nefol, yn molianu Duw, ac yn dywedyd, Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da" (Luc ii, 13, 14). Y mae y nefoedd o hyd yn byw yn y wir Eglwys, a'r wir Eglwys yn byw yn y nefoedd. Hyn a wna addoli yn waith sylweddol, ofnadwy, a llawn o swyn. Yr Ysbryd Glan rydd siars i gofio presenoldeb y nefolion wrth addoli: "Gorchymyn yr ydwyf ger bron Duw, a'r Arglwydd Iesu Grist, a'r etholedig angylion, gadw o honot y pethau hyn heb ragfarn, heb wneuthur dim o gyd-bartiaeth" (I Tim. v, 21). Gwylier yn yr Eglwys rhag croesi barn, chwaeth, ac arferion yr angylion. Dymunir ar y gwragedd a'r merched i fod yn weddaidd a gwylaidd yn yr addoliad er mwyn yr angylion: "Am hyny y dylai y wraig fod ganddi awdurdod ar ei phen, o herwydd yr angylion" (I Cor. xi, 10). Y mae dwy gynulleidfa yn mhob addoliad,—y gynulleidfa weledig, a'r gynulleidfa anweledig. Gocheler rhag dolurio y nefolion yn yr Eglwys, a chroesawu yr uffernolion. Pan na fydd cariad, cyfiawnder, a glendid i dderbyn y Jerusalem Newydd, daw Gehenna yn ei lle.

Gwynfyd aelodau Eglwys Philadelphia ydyw gwybod fod eu cartref yn awr yn y nef. Gweddiodd Moses am weled gogoniant yr Arglwydd: "Dangos i mi, atolwg, dy ogoniant. Ac Efe a ddywedodd, gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb, a chyhoeddaf enw yr Arglwydd o'th flaen di" (Exodus xxxiii, 18, 19). Gan fod holl ddaioni y Jehovah wedi myned heibio o flaen ei wyneb, aeth arddangosfa o'r holl nefoedd heibio. O ganol yr olygfa cafodd orchymyn i fod yn barod erbyn y boreu i esgyn i fynydd Sinai wrtho ei hun, i gwrdd a'r Arglwydd a'r nefoedd, a derbyn deddfau y nefoedd trwy drefniad angylion. Datguddia yr Arglwydd ei hun yn nghanol mawrhydi y nefoedd i ddyn. Bildad y Suhiad a ddywed yn yr olwg ar Dduw: "Arglwyddiaeth ac ofn sydd gydag Ef; a oes gyfrif o'i luoedd Ef?" (Job xxv, 3). Gwelodd Miceah "yr Arglwydd yn eistedd ar ei orseddfa, a holl lu y nefoedd yn sefyll yn ei ymyl, ar ei law ddeheu ac ar ei law aswy" (I Bren. xxii, 19). Gwelodd Esaiah "yr Arglwydd yn eistedd ar eisteddfa uchel a dyrchafedig, a'i odre yn llenwi y deml. Y seraphiaid oedd yn sefyll oddi ar hyny" (Esaiah vi, 2). Gwelodd Ezeciel Ef yn nghanol y pedwar peth byw (Ezeciel i). Eithriadau oedd y gweledigaethau hyn; ond rhagddywedwyd y deuai yr olygfa o ogoniant yr Arglwydd a'r nefoedd yn gyffredinol. Cyflawnir y prophwydoliaethau hyn trwy ddau ddyfodiad yr Arglwydd, yn neillduol trwy ei ail ddyfodiad. "Ond os byw fi, yr holl dir a lenwir o ogoniant yr Arglwydd" (Numeri xiv, 21). A Mab y Dyn pan ddel yn ei ogoniant, daw "a'r holl angylion sanctaidd gydag Ef" (Math. xxiv, 31).

Y nefoedd ar y ddaear yw Eglwys Philadelphia, y nefoedd newydd hefyd yn gwneud daear newydd. "Wele, y mae pabell Duw gyda dynion, ac Efe a drig gyda hwynt, a hwy a fyddant bobl iddo Ef, a Duw ei hun a fydd gyda hwynt, ac a fydd yn Dduw iddynt" (Dat. xxi, 3). Pa le bynag y mae Duw yn cartrefu, yno y mae y nefoedd yn cartrefu. Ein cysur cryf anfarwol yw, fod ein cartref yn awr yn y nef. Aleluia, ac Aleluia drachefn. Y byd a'n trista, oer yw, ac unig ydym ynddo. Crefwn am gwmni cynes a chalonog. Cawn hyny yn y nef; llygaid ein Tad arnom, ac angylion yn ein gwylio, a mwy gyda ni nag a all fod yn ein herbyn. Bendigedig! hyn yw ein cadernid a'n gorfoledd, gallu i ymguddio yn y nefolion leoedd; gallu i ddiflanu o olwg ein gelynion; gallu i ollwng ein gafael yn y byd, fel y dyn hwnw yn yr Efengyl yn ffoi, gan adael ei wisg yn llaw y rhai a'i daliodd; gallu i godi i uchelderau y greadigaeth a chydio am dragwyddoldeb yn y Creawdwr. Mewn adfyd, gweddio yn y nefoedd; mewn hawddfyd, canu Salmau yn y nefoedd; darllen y Gair, ei ddarllen yn y nefoedd, a miliwnau o lygaid yn edrych ar yr un adnod a ninau; gweddio yn y dirgel, cydgynull gyda'r holl saint; llefaru, yn swn amenau y tair nefoedd; brwydro ag uffern, o ganol gwersyll Arglwydd y lluoedd; bwyta y Swper Sanctaidd, a holl deulu Ty ein Tad wrth y bwrdd. Dyna paham yr ydym mor wrol, mor amyneddgar, ac mor ddi-ildio yn mrwydrau Armagedon.

Truenus yw ystad estroniaid, heb gartref yn y nef a'r ddaear newydd. Daw y nos, y storom, a drychin gauaf du tragwyddol. Yr anifeiliaid, yr adar, a dynion a dynant adref yn yr hwyr. "Dyn a a allan i'w waith ac i'w orchwyl hyd yr hwyr (Salm civ, 23).

XVIII.—AGORIAD I NEF Y PLANT.

Dylifa cariad o'r Dyn Anfeidrol yn gylchoedd dirifedi, gan dreiddio y bydysawd a bywyd o bob math. Tri cylch neillduol o'i gariad yw, cariad at fywyd, cariad at gydmar bywyd, a chariad at blant. Dyben cyntaf cariad at gydmar bywyd, sef cariad priodasol, yw cynyrchu rhywogaeth; a'r dyben olaf, yw y rhywogaeth a gynyrchir. Y mae y ddau gariad hyn yn unedig; ond y mae cariad at blant yn disgyn lawr i'r hiliogaeth, yn hytrach nag esgyn at hynafiaid. Deillia yn hollol o'r Arglwydd, yr hwn yn lluosogiad yr hil ddynol, a wylia gadwraeth y cread, gan mai amcan y cwbl yw llwyddo y nefoedd angylaidd, yr hon sydd o'r hil ddynol. Dylifa dau gylch cyffredinol o'r Duwdod er cynal y bydysawd: un yw y cylch i gynyrchu, a'r llall y cylch i ddyogelu yr hyn a gynyrchir. Y ddau hyn a unant a chylch y cariad priodasol, ac a chylch y cariad at blant. Y ddau gylch hyn a lifant i bob peth sydd yn y nefoedd, ac i bob peth sydd yn y bydoedd. Llifant i angylion, ysbrydion, dynion, anifeiliaid, ehediaid, ymlusgiaid, hadau, gemau, a cherig. Y cylch o gariad at blant a effeithia yn benaf ar y mamau. Menywod a enir i gariad tyner at blant, fel y gwelir oddi wrth anwyldeb merched bychain at fabandod, ac at eu dolod, yn eu gwisgo, eu cusanu, a'u gwasgu i'w mynwes. Y cylch o ddiniweidrwydd a lifa i blant, a thrwyddynt i rieni, ac a effeithia arnynt. Llawn swyn yw plant bach; hardd a hudol yw eu diniweidrwydd, yn dysgleirio o'u gwynebau, o'u geiriau, a'u hystumiau; eu cusan a goncra y galon. Y maent yn foddlon ar ychydig deganau. Dibryder ydynt am fwyd a dillad, a digwyddiadau y dyfodol. Anwylant eu rhieni, a'u gilydd; a chymerant eu harwain gan y rhai sydd yn gofalu am danynt. Y mae cariad rhieni ysbrydol at blant yn fwy mewnol a thyner na chariad rhieni anianol. Rhieni ysbrydol, wrth fwynhau melusion diniweidrwydd gyda'u plant, a'u carant oddi ar ofn Duw, a defnyddioldeb bywyd tragwyddol. Cariad at hyn yn benaf a'u cymhellant i ddarparu dros eu plant; ac os y plant ni thyfant mewn daioni gan garu y gwir yn erbyn y byd, rhieni ysbrydol a ddyeithriant eu meddyliau oddi wrthynt. Gyda rhieni anianol a bydol, cariad at blant sydd wedi ei gydgordeddu a hunan-gariad. Gwnant eu cusanu, eu cofleidio, a gwenieitho

iddynt, gan eu cyfrif fel eu calon a'u henaid eu hunain; ond ni wnant eu caru oddi ar ofn Duw, a defnyddioldeb bywyd tragwyddol. Ni chadwant olwg, ychwaith, ar eu serchiadau mewnol, ond ar eu serchiadau allanol yn unig; a dall ydynt i'w drygau. Eu llwyddiant bydol yw pob peth yn eu golwg, er i hyny beryglu eu nefoedd. Rhieni, pan ddeuant i fyd arall, a gofiant eu plant fuont feirw o'u blaen. Cwrddant a'u gilydd, ac adwaenant eu gilydd. Rhieni ysbrydol a ddywedant wrthynt, nad ydynt hwy i gael eu cofio fel rhieni mwy, gan mai yr Arglwydd yw unig Riant pawb yn y nefoedd. "Canys un Tad sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd" (Math. xxiii, 9). Cynddaredd yr uffernolion sydd yn achosi marwolaeth plant bach, gan amddifadu rhieni mor greulon, a'u taro i'r ddaear gan alar a hiraeth. Ond y mae yr Arglwydd yn ei drugaredd yn arolygu y felldith, a'i throi yn fendith. Ein calonau, trwy rwyg yr ysgariad, a ddarostyngir, a feddalheir, a felusir, ac a agorir i gysuron a chryfder y Gair, ac i gariad a chymdeithas y llu angylaidd. Ein plant anwyl hefyd yn y nef sydd fel dwylaw i ni ymaflyd yn y byd mawr tragwyddol. Trwy y cylymau tyner, tynion hyn, tynir ni adref. Felly mae dwy ochr i farwolaeth plant bach y sylwn arnynt:—

I. YR OCHR DYWYLL. II. YR OCHR OLEU.

1. YR OCHR DYWYLL.

1. Marwolaeth plant bach sydd groes i drefn Duw. Nid oes a dreisia ddeddfau y nefoedd, ac a ddeifia degwch natur, fel marwolaeth plentyn bach; ac nid oes a wna fwy o boen a dryswch i rieni. Ysgafn yw colli eraill at yr ergyd llethol hwn. Un bach anwyl ei dad a'i fam, heb bechod ac heb help mwy, yn gorph marw ar yr astell oer. Rai dyddiau yn ol, blagurai mewn bywyd, yn nwyfus a difyr, ei wyneb yn siriol a'i lais yn llon. Ond yn awr, wele y bywyd wedi ymadael, y llygaid wedi cau, y llais wedi tewi am byth, a'r corph bach yn llonydd yn yr ystafell drist a distaw.

Tri phlentyn anwyl a'u tad a'u mam,
Ar yr aelwyd heno sy',
Ac i'w calon dyner mor wag yw lle
Yr un a'n gadawodd ni.

Pe gofynech i mi nis gallwn ddweud
Pa un yw y goreu o'r tri,
Ond anwylaf un o'r teulu oedd
Yr un a'n gadawodd ni.

Pwy ddwed pa un harddaf o'r llygaid llon,
Yw y brown, y llwyd, neu'r du?
Ond nid yw eu trem fel rhai tywyll las
Yr un a'n gadawodd ni.

Dadseiniai y ty gan eu lleisiau llon,
Nes trydanu ein calon ni;
Ond tynerach acen, pereiddiach sain,
Oedd gan un a'n gadawodd ni.

Mae'r rhai eraill yn tyfu yn dal a theg,
Yn rhai mwynaidd, caruaidd, cu;
Ond mwy bywiog a llon a siriol oedd
Yr un a'n gadawodd ni.

Yn ngofal a chartref tad a mam,
Mewn diogelwch clyd mae tri;
Ond yn nghartref Crist yn fwy diogel mae
Yr un a'n gadawodd ni.

N R.

Ni bydd y profiadau drylliog ac wylofus hyn pan adferir trefn y nefoedd i'r ddaear. "Ni chlywir ynddi mwyach lais wylofain, na llef gwaedd. Ni bydd o hyny allan blentyn o oed, na henafgwr yr hwn ni chyflawnodd fesur ei ddyddiau; canys y bachgen a fydd marw yn fab can'-mlwydd" (Esaiah lxv, 19, 20). Y mae marwolaeth plant bach mor groes i drefn Duw ag yw tlodi, gloddest, rhyfel, a haint. "Fel nad yw angau trwy afiechyd," medd Swedenborg, "yn dyfod trwy un ffynonell ond pechod, ac y mae pechod yn cynwys pob peth croes i'r drefn ddwyfol; pechod, gan hyny, sydd yn cau llestri lleiaf ac anweledig y corph dynol, o'r rhai y cyfansoddir llestri mwy; oblegyd y llestri lleiaf a barheir i fewnolion y dyn. Oddi yma y daw yr atalfa gyntaf a mwyaf mewnol, ac oddi yma y daw llygriad mwyaf mewnol y gwaed. Y llygriad wrth gynyddu a achosa afiechyd, ac yn y diwedd angau. Ond pe buasai dyn yn byw bywyd da, buasai ei fewnolion yn agored i'r nefoedd, a thrwy y nefoedd i'r Arglwydd. Y llestri lleiaf, felly, fuasent yn agored, a dyn heb afiechyd, ond yn lleihau i henaint teg, nes dyfod yn hollol fel plentyn, ond yn un doeth. Wedi cyrhaedd y cyflwr na wnai y corph weini yn hwy i'r dyn mewnol, neu yr ysbryd, efe a ymadawai heb afiechyd allan o'r corph materol, i gorph fel sydd gan yr angylion." Oni bai fod yr Arglwydd o'i anfeidrol drugaredd yn gosod atalfeydd, ac yn cadw dyn tra yn y byd hwn mewn ystad gorphorol i allu

derbyn y Gair, buasai pob llygredd yn ysbryd pob dyn yn tori allan, fel yn y byd ysbrydol, yn gornwydydd llinorog, yn llyffaint a llai, yn wahanglwyf, yn wallgofrwydd, a phob math o blaau, a phoenau, yn cyfateb i bechodau yr ysbryd. Felly y bu yn yr Aipht ac yn Israel pan yn gwyrdroi, neu yn gwrthod byw yn ol trefn y nefoedd.

2. *Marwolaeth plant bach á achosir gan uffern.* Yn y byd ysbrydol y bodola pob achosion. Yr hyn a elwir achosion naturiol ydynt effeithiau a cnyfryngau y gweithreda achosion ysbrydol trwyddynt. Achosion o uffern a weithredant trwy waed llygredig, awyr anmhur, aflendid o bob math, bwyd gwael, a phob rhywogaeth o drosedd ar ddeddfau natur. Nis gall sylwedd ysbrydol ddylifo i natur, ond trwy ffurf naturiol gyfatebol. Fel y gweithreda yr enaid trwy ffurfiau yr ymenydd, ac fel y gweithreda cariad a doethineb Duw yn y greadigaeth trwy ffurfiau naturiol goleuni a gwres, felly y mae cystuddiau ac angau o uffern yn cael cyfryngau cyfatebol mewn gwaed drwg, bwyd gwael, neu unryw beth anafus arall. Y mae yr ymenydd, goleuni a gwres, malaria, a gwenwyn yn ddinerth ar wahan ar nerthoedd ysbrydol sydd yn eu ffurfio, ac yn dylifo trwyddynt. Pob afiechyd a dardd o uffern, a'r holl uffernoedd a darddant o hunan-gariad, a chariad at y byd. Lle bynag y rheola y ddau gariad hyn, yno y rheola afreolaeth, afiechyd ac angau o'r uffernoedd. Y ddau gariad hyn a gant eu rhawd ar y blaned. Meddianant ac ysbrydiant y pwlpud, yr eglwys, yr orsedd, y senedd, y wasg, a'r fasnach. Herod yr oes yw yr areithfa; Herodias yw yr eglwys; Pharaoh yw y brenhin; y Juggernaut a'r Ganges yw y senedd; Jezebel ac Athaliah yw y wasg; a Moloch yw masnach,—yn neillduol masnach y gwirod, y myglys, a'r opium. Cylchoedd afiechyd ac angau a ddylifant o'r pethau hyn, yn cyffwrdd a phob dyn ar wyneb daear. Miliwnau leddir ganddynt yn barhaus yn anamserol; a gwnant gyflafanau beunydd o'r plant bach. Trais a chreulonder yw fod y rhai diniwed yn gorfod goddef a marw mor gynar; ond gorfoledd yw gwybod mai nid yr Arglwydd yw awdwr y gelanedd. "Nid yw ewyllys eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, gyfrgolli yr un o'r rhai bychain hyn" (Math. xviii, 14). Pa le y saif Prydain yn ngwyneb cyflafanau plant bach y Boers! Y mae fy enaid yn myned allan mewn ingoedd i'r lleoedd marwol a elwir *Concentration Camps* yn Neheudir Affrica, lle mae mamau a phlant y Boers yn ugeiniau o filoedd wedi eu heidio gan Brydain, er mwyn eu heintio a'u newynu i angau, tra yn lladd y gwyr a'r tadau, a'r bechgyn ar y maes yn marw dros eu hanibyniaeth. Dacw y mamau yn gwylio eu hanwyliaid bach mewn poen a newyn, yn trengu

yn y tywyllwch. Y wlad lle eu ganed yn ddu a noethlwm, wedi eu llosgi gan y gelyn. Y tai yn lludw lle bu y rhai bach yn cael eu magu, a lle yr arferent chwareu yn ddifyr a diniwed. Clywaf lef galar ac wylofain, fel llef Rahel yn wylo am ei phlant, ac ni fynai ei chysuro am nad oeddynt,—llef esgyna i'r nefoedd, gan gyffwrdd a chalon pob angel, ac a chalon y Dyn Anfeidrol,—llef dreiddia trwy yr oesau, gan ddihuno adsain cydymdeimlad mewn miliwnau sydd eto heb eu geni. Prydain, gyda chalon bwystfil a lofruddia dros ddwy fil bob mis o'r plant bach hyn, er dirfawr foddhad y pwlpud, y senedd, a'r wasg. Gwelwn yn nechreu yr ugeinfed ganrif, gawrfilod creulonach na Pharaoh a Herod! Ond gwylia y nefoedd dros ryw blentyn tlws yn y cawell llafrwyn, a thros ryw Faban yn y Preseb, i brysuro dinystr y lleiddiaid a'r lladron. "Edrychwch na ddirmygwch yr un o'r rhai bychain hyn; canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, fod eu hangylion hwy yn y nefoedd bob amser yn gweled wyneb fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd" (Math. xviii, 10). "A phwy bynag a rwystro un o'r rhai bychain hyn a gredant ynof fi, da fyddai iddo pe crogid maen melin am ei wddf, a'i foddi yn eigion y mor" (Math. xviii, 6). Darlunia y bardd Ellmynaidd:—

"THE MEETING OF THE INNOCENTS."

O, blant! paham y deuwch heddyw yn llu?
Gwaed liwia'ch gwisg, ac yn eich llygaid mae
Alaethus lewyrch rhyw ddyeithriol wae.
Ni wanwyd dros y Baban Crist—ond chwi?
Atebent, "Dros ein gwlad aberthwyd ni!"
Ferthyron cu, a wna ein nefol swyn
Hud-ddenu i'ch gwefusau bychain wenau mwyn
Wywasant yno dan law'r gelyn hy'?
Lloegr! y gri i'th erbyn dry yn groch,—
Llefau'r babanod a griddfanau'r fam,
Gyrhaedda'r nef yn waedd am ddial cam.
Ymchwyddo wnaethost ti mewn balchder broch,
Mewn peth drygionus, ymwrolaist 'nawr,—
Wyt waeth na Herod yn ei waethaf awr!
(Cyf.) N. R.

2. YR OCHR OLEU. Y rhai sydd yn marw yn blant a ddiangant ar beryglon a chreulonderau y byd hwn, ac a gyrhaeddant wynfyd y bywyd tragwyddol, heb frwydrau ofnadwy a dirdynol dynion mewn oed, yn ddyogel rhag hudoliaeth a gormes ysbrydion drwg. Fel y garddwr yn planu y blodau goreu mewn man i'w cysgodi rhag gwynt y

gogledd, a rhew y nos: felly y dyogelir ein hanwyliaid bychain a hunasant, trwy eu trawsblanu yn hinsawdd y nefoedd. Cedwir pawb a ymadawsant a'r byd hwn yn blant, plant y paganiaid fel plant Cristionogion. "A'r Iesu a ddywedodd, "Gadewch i blant bychain, ac na waherddwch iddynt ddyfod ataf fi: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd" (Math. xix, 14). Torfeydd o blant bob blwyddyn a chwyddant rengoedd y byd angylaidd, gan fwyhau yn rhyfedd burdeb, sirioldeb, a harddwch y nefoedd. Nodwn:—

1. Fod ein plant yn y nefoedd mewn ffurf ddynol. Plant ydynt eto, ond fod eu bywyd yn tra rhagori ar blant yn y byd hwn, am na wisgant gorph materol, ond corph fel sydd gan angylion. Y mae y corph angylaidd mewn ffurf ddynol, wedi ei gyfansoddi o sylweddau ysbrydol, ac yn preswylio mewn byd ysbrydol. Y mae gan ein plant yn y byd arall bob peth a berthyn i'r corph ysbrydol, megis wyneb, a dwyfron, a lwynau, a dwylaw, a thraed. Meddant hefyd lygaid, a chlustiau, a genau, a thafod. Meddant yn mhellach y peirianau mewnol a berthyn i ddyn, sef calon, ac ysgyfaint, ac ymenydd, a'r rhanau dibynol arnynt. Pan fyddwn ni yn wylo wrth gofio y corph bach prydferth ac anwyl a guddiwyd yn y bedd, ac yn griddfan wrth weled y dillad bach a'r teganau ar ol, y mae y plentyn bach yn y nefoedd mewn corph heinyf i fyw byth, gyda dillad a theganau newydd, heb ddim ar goll: yr un llygaid cariadlon, yr un gwallt, yr un wen, yr un llais, yr un ysgogiad a chynt, ond yr oll yn fwy angylaidd a dwyfol, mewn dedwyddwch tu hwnt darluniad yn mhlith angylion a phlant y nefol drigfanau.

2. Fod gan ein plant yn y nefoedd gartref dedwydd. "Na thralloder eich calon, . . . Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau" (Ioan xiv, 1, 2). Perffaith yw y gelfyddyd bensaerniol yn y nef; oddi yno y disgyna i'r ddaear. Portread y Tabernacl, y gafell sanctaidd, y cysegr, a'r cyntedd, a'u holl fanylion, a roddwyd o'r nefoedd i Moses yn y mynydd. Portread y Deml, y porth, y tai, y seleri, y cellau, a'r ystafelloedd o fewn, a thy y drugareddfa, a roddwyd i Dafydd trwy yr ysbryd. Y ddinas, y ty, ac ystafelloedd yr offeiriaid: eu mesurau, eu rhanau, a'u haddurniadau, a ddatguddiwyd yn fanwl i Ezeciel. A'r Jerusalem nefol, ei muriau, ei phyrth, ei pherlau, ei heol, ei hafon, ei phrenau, a'i goleuni, a ddarlunir gan yr Arglwydd trwy Ioan. Gan fod y rhai sydd yn y nef yn byw fel dynion, y mae ganddynt breswylfeydd o bob gradd, yn gywir fel preswylfeydd ar y ddaear, ond eu bod yn ysbrydol a mwy prydferth. Cynwysant ystafelloedd, parlyrau, ac ystafell-welyau lawer. Y mae iddynt gynteddau, ac amgylchir

hwynt gan erddi, a blodau, a meusydd. Y mae yno drefydd a dinasoedd, gyda heolydd a ffyrdd, a llawer ysgwar. Y mae yno balasoedd rhy ysblenydd i'w desgrifio; adeiladau mawrion ein dinasoedd a'u penaethiaid, neu adeiladau mwy mawreddog Athen, a Rhufain; palas aur Nero, y Coliseum, baddonau Titus, yr archwareufa, y bwaau buddugoliaeth, temlau a dyfr-ffosydd Spolleto, Metz, a Segovva, neu orsedd Solomon, yn ol ysgrifen Persia, wedi ei gwneud o aur pur a pherlau, gyda saith gris; o bob tu, perllanoedd yn llawn coed, adar prydferth eu plyf ar y cangau, yn gollwng allan fyrdd o seiniau per. Nid yw yr oll ond cysgodion adeiladau y nefoedd, yn dysgleirio o'r Duwdod, a'r ystafelloedd wedi eu trefnu, a'u haddurno tu hwnt darluniad; gerddi paradwysaidd yn eu hymyl, a dail y coed wedi eu ffurfio fel o arian, a'r ffrwyth fel o aur; y blodau wedi eu trefnu mewn gwelyau i arddangos yr enfys. Y fath yw pensaernıaeth y nefoedd. Gwelir y gelfyddyd ei hun yn nghartref yr angylion. Y plant bach a dderbynir i'r cartrefi hyn. Yno cant eu caru, a'u noddi gyda'r gofal mwyaf. Nid oes y fath gartrefi ar y ddaear, mor fawreddog, mor gelfydd, mor hardd, mor anwyl, mor lan. Yno, ein hanwyliaid a dyfant fel helyg ar lan afon, ac fel blodau mewn tir da yn anadl yr haf, yn dragwyddol ddyogel rhag ellyllon, angau, ac afiechyd. Yno y mae yr awyrgylch yn gwreichioni gan ser a blodau, a babanod a phlant arwyddluniol yn chwareu ynddi. Profodd Swedenborg y dylifiad o gylch cartrefi plant bach y nefoedd, fel pe profai un berarogl gorchfygol llwyn o *magnolias*. Nis gallai gynwys ei hun, gan ei fod wedi ei feddianu a'r fath fwyniant, fel yr oedd pob pleser perthynol i'r bywyd hwn, fel dim mewn cydmariaeth iddo. Pe gallem agor ein llygaid ysbrydol i'r ty a'r ystafell lle y mae ein plant, yr adeiladau ysblenydd, eu dodrefn, a'u haddurniadau, a wnaent balasau ymerodrol ymddangos fel teganau dilun, ac fel tyllau dinod. Nis gallem ddal yr olwg ar rai fuont yn ddiweddar ar eu gliniau. Tôn eu lleisiau, a'u tiriondeb a'n toddent i ollwng dagrau yn hidl. Ein hysbryd a lewygai, fel yr arluniwr hwnw, yn yr olwg ar bictwrau dwyreiniol wedi eu gorphen mor gelfydd, neu fel Brenhines Seba, pan welodd hi ddoethineb Solomon, a'r ty a adeiladodd efe.

3. Fod gan ein plant yn y nefoedd dad a mam. Yr hynafiaid a addolent y Duwdod yn Un Person mewn dwy ddelw, delw dyn a'i henw *Adra*, wedi ei gosod yn uchel, a delw menyw a'i henw *Adergidis*, yn eistedd odditano. Oddi wrth ddelw y dyn y tramwyai pelydrau haul ar lun coron, yn cwrdd ar ben y wraig; ac o ddelw y wraig, belydrau ar lun coron, yn ymgrynhoi ar ben y gwr. Y ddwy ddelw ddangosent

y ddwy hanfod yn y Duwdod, hanfod tad a hanfod mam "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant Ef" (Salm ciii, 13). "Fel un yr hwn y diddanu ei fam ef, felly y diddanaf fi chwi; ac yn Jerusalem y'ch diddenir" (Esaiah lxvi, 13). Y tad a'r fam oreu ar y ddaear, nid ydynt ond eiliw gwan o'r sylweddau mwyaf swynol yn yr Arglwydd Iesu. "Dangos i ni y Tad, a digon yw i ni" (Ioan xiv, 8) medd Philip; ond rhai dan orthrymder mawr yr Ail-ddyfodiad, a ymbiliant, "Dangos i ni y Tad a'r Fam, a digon yw i ni." Y fath ymgeledd anwyl yw mam. Mam ddoeth a duwiol, mor dyner yw ei llaw, mor llon yw ei llygad, mor fwyn yw ei gwyneb, mor hyfryd yw ei llais, mor drugarog yw ei chynghor, mor gynes yw ei chariad, mor dyner yw ei cherydd, ac mor fawr yw ei gofal. Yr enaid a wel y Tad a'r Fam yn yr Arglwydd Iesu Grist, a ddigonir a gwynfyd ac a gallu anadnabyddus i eraill. Y weledigaeth oruchaf ac anwylaf hon ysguba ymaith bob unigedd, gwae, ac ofnau. Daw yr hagraf a'r truenusaf yn dragwyddol hardd a dedwydd, os gallant godi eu golwg a'u calon at y Tad a'r Fam Anfeidrol ac Anfarwol yn Iesu Grist, a gollwng eu hunain i'w fynwes, ac i fynwes famol y nefoedd. "Y Jerusalem uchod, yr hon yw ein mam ni oll" (Gal. iv, 26). Ein plant bach yn y nefoedd a aethant, nid yn unig at y Tad, ond hefyd i gol y Fam, i fwynhau cariad, melusder, mwyneidd-dra, tosturi, a gofal, heb unryw lymder, trawsder, na digter i'w cythruddo.

Anwylyd fechan fywiog, dlos,
Deg ymgorpholiad swyn,
Redai i gôl ei mham un nos,
A thaer ddeisyfiad mwyn.

Atebai'n benderfynol, "Na,
Ni haeddai gusan cu;
Un na fu heddyw yn ferch fach dda,
Mae'n rhaid ei dysgu hi."

Yn drist i'w gwely bach äi'r fun,
A dagrau ar ei grudd,
Gan ddistaw sisial wrthi ei hun,—
"Caf gusan pan ddaw'r dydd."

Gwasgarai'r wawr ei gwanaidd wrid,
Deffroai yr awel iach;
Pan äi y fam i ymyl cryd
Ei hunig eneth fach.

Ond rhy ddiweddar! hedeg wnai
Angyles bur cyn hyn,
I gludo yr un fach yn glau,
I'w nhefol gartref gwyn.

Fam anedwyddaf dan y lloer,
Mor ofer, ofer 'nawr,
Cusanu ei grudd a'i gwefus oer,
Wrth oleu llwyd y wawr.

O adgof! llethu ei hysbryd wna
Cof am ei geneth fwyn,
Yn gofyn am gael *kiss* nos da,
Mor daer, mor llawn o swyn.

A hithau'n gwrthod! O, nacad!
Byth rwyga ei chalon drist;
Ni lysir mwyn ddymuniad mad,
Yn nghol a chartref Crist.

Na feiddiwn roi'n hanwyliaid cun,
I freichiau cwsg, ddieithriol hun,
Heb roddi siriol gusan iach—
Maddeuant am bob trosedd bach.

N. R.

4. Fod gan ein plant yn y nefoedd lawnder o fwyd a dillad. Gofyna corph ysbrydol y plentyn bach yn y byd arall, gymaint gofal a'i gorph naturiol yn y byd hwn. Rhaid iddo wrth fwyd a dillad, cwsg, glanweithdra, a chwareuon. Gwelodd Swedenborg blant bach y nefoedd wedi eu gwisgo yn y modd tlysaf, a phlethdyrch o flodau gylch eu bronau, yn ymddysgleirio yn y lliwiau harddaf. Gwelodd blant bach gyda'u hathrawon yn nghwmni'r gwyryfon mewn gerddi paradwysaidd wedi eu gosod allan yn y modd prydferthaf; nid yn gymaint gan y coed a dyfent yno, a chan amgoed-resi o lawryf, a chan rodfeydd a llwybrau yn arwain i'r dirgelion mewnol. Ar eu dynesiad, y blodau o amgylch a belydrent mewn dysgleirdeb siriol. Y darluniadau hudol o wledd y rhosynau yn ngholeg y merched bach yn Chelsea, a manau eraill, nid yw ond gweledigaethau Swedenborg yn disgyn i'r ddaear. Pob merch fach a wisgent rosynau, ac a ymgasglent dan y coed, gan ganu, a phleidleisio dros Frenhines y Rhosynau, dan goron o *Forget-me-Nots*. Yna y merched bach a syrthient yn orymdaith, a'r Frenhines yn blaenori, a cherddent trwy y maes, yn terfynu lle safai gorsedd, a rhosynau tu

cefn iddi. Gorphenid y wledd trwy ganu a dawnsio ar y glaswellt. Gwisgoedd a blodau a effeithiant fel swyngyfaredd ar blant bach. Gorlawn o bleser a llawenydd ydynt wrth gael y trowser cyntaf, y gwn cyntaf, a phob pilyn bach newydd. Y mae gwisgoedd y nefoedd yn cyfateb i'r serchiadau a'r meddwl. Plant y nefoedd hefyd a ymborthant ar y ffrwythau mwyaf moethus, ac ar y neithdar mwyaf peraidd. Y nefoedd yw trysordy dihysbydd y trugareddau, cartref y bwydydd a'r diodydd gyfrenir trwy y bydoedd, a maes anherfynol y manna a'r gwyrthiau.

5. Fod gan ein plant yn y nefoedd frodyr a chwiorydd i gyd-chwareu. Y fyddin ddedwydd a fwynhant y campau a'r chwareuon mwyaf difyr, er adfywio eu cyrph a'u hysbrydoedd, yn effeithio fel awelon mwynaidd haf i enyn fflam eu bywyd. Blas nwyfus ein hanwyliaid bach ar y ddaear at deganau a chwareuon ddaw o'r nefoedd, cartrefle tragwyddol pob pleser a digrifwch. "Digonolrwydd llawenydd sydd ger dy fron; ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd" (Salm xvi, 11). Arwydd swynol o'r oes newydd yw, nad oes ddyfeisiau yn talu yn well na theganau breintiedig i blant. Doli nodedig a siaradus Edison, y phonograph o'i mewn gyda llais dynol,—hi a deithia dros y byd i loni calonau miliwnau o ferched bach. Teganau plant ydynt ddolenau aur rhwng nef a daear. Difyr yw diniweidrwydd yn chwareu o'r Duwdod trwy y greadigaeth; yr elfenau yn chwareu yn eu cylchoedd; y pysgod yn ddifyr yn y dwfr; yr wyn yn prancio ar y bronydd; yr ebolion yn llamu ar y maes; y cler yn hymian trwy eu horiau llon; y gwenyn yn gwenu ar y blodau; yr adar yn pyncio yn y coedydd; a'r plant yn llawen a'r nefoedd o'u hamgylch yn mhobman.

6. Fod ein plant yn y nefoedd yn cael eu haddysgu. Yr angen am eu dysgu a welir wrth ystyried nad yw angau ond symudiad o un byd i'r llall; nad yw natur y plentyn yn newid gan y symudiad; nad yw gwybodaeth yn gynhenid; fod yr enaid yn alluog i gynyddu yn dragwyddol; y byddai yn golled i'r ddynoliaeth i blant aros yn blant byth yn y nefoedd; ac mai cynydd tragwyddol yw gwynfyd tragwyddol. Dysgir plant yn y nefoedd i garu yr Arglwydd, yr angylion, a'u cyd-blant, a bod yn ufudd yn eu cylchoedd. Dysgir hwynt yn benaf trwy ddarluniau yn taro eu tymher. Harddwch darluniau y nefoedd sydd uwchlaw desgrifiad, a chant eu dangos gyda pharch a gwyleidd-dra, ac ofn sanctaidd, rhag i unryw ran o'r arddangosiadau ymylu ar unryw beth na chynwys sylwedd ysbrydol a nefol. Caiff plant bach bob chwareu teg i ddysgu yn y nefoedd. Cant eu hanwylu gan eu hathrawon, ac y

maent wedi eu rhyddhau oddi wrth eu cyrph brau, a'u gwahanu oddi wrth lygredd etifeddol, esiamplau drwg, ac yn bell am byth oddi wrth holl bwerau a phoenau uffern.

7. Fod ein plant yn y nefoedd yn priodi. Y mae y plant bach yn ddau ryw yn y byd arall fel yn y byd hwn. "Yn wryw ac yn fenyw y creodd Efe hwynt" (Gen. i, 27). Y cariad priodasol yw sylfaen pob cariad arall. Dyben creadigaeth yw, a phob pleserau yn gynwysedig ynddo. Cyfundraeth o briodasau yw y bydysawd. Ffurf cariad yw y fenyw, a ffurf doethineb yw y dyn. Crewyd y naill ar gyfer y llall. Yn y briodas nefol, gwryw a benyw a wneir yn un, a thragwyddol unedig mewn serch a syniadau. Ein plant yn y nefoedd a ant i'r undeb anwyl a gwynfydedig hwn. Gwelodd Swedenborg seremoniau priodas y rhai a esgynant i'r nefoedd cyn eu llygru gan y ddaear. Mor ddedwydd ac mor hardd oedd eu pleserau, swynol a sanctaidd uwchlaw syniad y cnawd. Wrth fod y Gweledydd yn myfyrio ar briodasau y nefoedd, ac ar y cariad priodasol yn ei darddiad a'i burdeb, er budd aelodau yr Eglwys Newydd, yr oedd angylion ac angylesau priod o nef diniweidrwydd gydag ef, ac yn gweini arno,—angylion ac angylesau fuont feirw yn blant, ac na wyddent ddim am anlladrwydd a godineb, ac na allent goelio fod rhai yn gwybod am yr Arglwydd yn euog o'r fath aflendid. Felly, pan oedd yr Arglwydd yn arwain y Gweledydd i fyfyrio ar anlladrwydd a godineb, a datguddio eu drygedd er addysg a rhybudd i drigolion daear, angylion ac angylesau nefoedd diniweidrwydd a lenwid a thristwch, a chilient oddi wrtho. "Gallaf sicrhau," medd Swedenborg, "fod y rhai sydd yn marw yn blant yn tyfu yn y nefoedd, a phan fyddo y bechgyn yn dyfod i faintioli rhai deunaw oed yn y byd, a'r merched i faintioli rhai pymtheg oed, arosant yn y maintioli hwnw, a'r Arglwydd a ddarpara iddynt briodi; ac yn mhellach, eu bod cyn priodi, ac wedi priodi, yn hollol anwybodus o odineb, ac nad ydynt yn agored i wybod fod y fath aflendid mewn bod."

8. Fod ein plant yn y nefoedd yn ddefnyddiol i ni ar y ddaear. Sail sanctaidd sydd i'r gred fod y plant bach foddwyd gan Pharaoh yn yr Aipht, yn mhlith yr angylion fuont gyda Moses yn gwared y genedl o'i gorthrymderau; fod y plant bach laddwyd gan Herod yn gwylio y Baban Iesu pan ffodd Mair a Joseph ag Ef i'r Aipht; a bod y miloedd plant bach newynwyd gan Brydain yn ngwersylloedd angau yn Neheudir Affrica i sefyll eto dros ryddid ac anibyniaeth y Boer a'r byd. Heblaw hyn, ein plant bach yn y nefoedd a ddenant ein calon ar eu hol, ac a'n tynant atynt gan esmwythau treialon tanllyd y daith. "A fu erioed blentyn fel Eva fach?" medd

Harriet Beecher Stowe. "Do; ond y mae eu henwau o hyd ar geryg beddau, a'u gwenau melus, a'u llygaid nefol, a'u geiriau a'u ffyrdd hynod, yn mhlith trysorau wedi eu claddu mewn calonau hiraethlon. Mor ami y clywir mewn teuluoedd, nad yw daioni a doniau y rhai sydd yn fyw ddim at swynion neillduol *un nad yw*. Ymddengys fod gan y nef fyddin neillduol o angylion, a'u swydd wrth ymdaith yma am enyd fach, i ddenu calonau cyndyn i'w caru, yna i fyned a'r calonau hyny gyda hwynt wrth ehedeg adref. Pan weloch oleuni dwfn ysbrydol yn y llygad, pan y mae yr enaid bach yn amlygu ei hun mewn swn melusach, a geiriau doethach na phlant yn gyffredin, peidiwch gobeithio cadw y plentyn hwnw—mae sel y nefoedd arno, ac y mae goleuni anfarwoldeb yn edrych allan o'i lygaid."

O! ein hanwyl blant, mor felus yw gwybod eich hanes yn yr hyfryd wlad! Aethoch ymaith trwy ingoedd dychrynllyd a rwygent ein calon ddydd a nos. Gwyliasom chwi mewn griddfanau gyda dagrau lawer, a gruddiau gwelw. Torodd ein calon wrth orfod gollwng ein gafael ynoch; gweled y gwyneb oer, yr amdo wen, yr arch, a'r angladd. O! na chawsem ddyoddef yn eich lle! O! na buasem farw drosoch! Claddwyd bydoedd a'u pleserau yn eich beddau bach. Ond diolch, diolch! trwy y Gair agored yn Eglwys Philadelphia, gellwn eich canlyn i dir y gwynfyd, a gwybod i chwi fyned ymaith, fel y wenol, cyn y gauaf, i hinsawdd mwy hafaidd, i ororau mwy hardd. Nis gellwn eich anghofio, na pheidio eich caru fwyfwy. Eich gwynebau mwyn, eich lleisiau llon, eich geiriau difyr, eich claf wely, a'ch ymadawiad i dangnefedd, a arosant byth yn ein cof a'n calon. Ond cawn eich gweled eto yn fuan; cawn agor ein llygaid gyda chwi yn yr uchelder clir; cawn edrych yn eich gwyneb, ymaflyd yn eich llaw, eich cofleidio a'ch cusanu megis cynt; clywed eich llais, gweled eich dillad nefol, eich ty, y trigfanau lawer, a'n Tad, yr Hwn sydd yn y nefoedd. Gwyddom hefyd eich bod chwi yn ein gweled ni yn awr, yn ein gwylio a'n gwarchod ar ein gyrfa wylofus a llawen adref atoch, ac yn barod i'n croesawu yn fwy anwyl nag erioed. "Wele fi a'r plant a roddes yr Arglwydd i mi, yn arwyddion ac yn rhyfeddodau yn Israel; oddi wrth Arglwydd y lluoedd yr Hwn sydd yn trigo yn mynydd Seion" (Esaiah viii, 18).

XIX.—AGORIAD I'R ADGYFODIAD

Y mae agoriadau y Dyn Anfeidrol yn Eglwys Philadelphia i'r Gair, i'r nefoedd, i'r farn, ac i uffern, yn agoriadau hefyd i'r adgyfodiad. Yr hwn sydd ag allweddau uffern a marwolaeth ganddo a ddywed, "Myfi yw yr Adgyfodiad a'r Bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw. A phwy bynag sydd yn fyw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd" (Ioan xi, 25, 26). Goruchel a gwerthfawr yw yr athrawiaeth nefol am adgyfodiad y meirw yn mhob meddwl difrifol. Bod yn ddifater o honi sydd arwydd galarus o ddifaterwch, i'r Arglwydd, i'r byd ysbrydol, i'r enaid, ac i bob daioni. Holl dduwiolion yr oesoedd fu, a dynent eu cryfder a'u cysur o'r adgyfodiad, sef o'r gwirionedd fod dyn yn byw yn ddyn wedi gadael y corph materol. Plant yr adgyfodiad oedd yr angylion fu yn cyfarwyddo a gwroli Abraham, Isaac, a Jacob. Athrawiaeth yr adgyfodiad gyhoeddwyd i Moses wrth y berth, wrth ddarlunio Duw yn Dduw y tadau, ac felly yn Dduw y rhai byw, ac efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig. Wrth weled Elias yn adgyfodi, y daeth dau parth o'i ysbryd ar Eliseus. Gweled y lluoedd wedi adgyfodi ac yn sefyll yn ymyl yr Arglwydd ar ei orsedd, roddodd nerth i Miceah ddweud y gwir wrth Ahab anuwiol, ac wrth y pedwar cant prophwyd oedd ag ysbryd celwydd yn eu genau. Gweledigaethau o fyd a bodau yr adgyfodiad oedd yn ysbrydoli y prophwydi oll. Tystion o'r adgyfodiad oedd yr Apostolion a'r pum' cant brodyr, a dyma y nerth o'r uchelder oedd yn eu gwisgo. Golwg ar yr Adgyfodiad a'r Bywyd oedd y dysgleirdeb uwch haul canolddydd welodd Saul o Tarsis ar y ffordd, nes llwyr gyfnewid ei galon, ei gredo, a'i waith. Ni waeth faint fyddo golud, gwareiddiad, dysg, a doniau dynion, truenus ydynt os nad ydynt yn deall ac yn dystion o'r adgyfodiad. Yr Arglwydd wedi adgyfodi oedd swm a sylwedd gweinidogaeth yr Eglwys foreuol. "Gwynfydedig a sanctaidd yw yr hwn sydd a rhan iddo yn yr adgyfodiad cyntaf: y rhai nid oes i'r ail farwolaeth awdurdod arnynt, eithr hwy a fyddant offeiriaid i Dduw ac i Grist" (Dat. xx, 6). Yr adgyfodiad cyntaf olyga yr unig adgyfodiad: cyntaf a ddengys ei ragoriaeth anghydmarol. Sylwn yn folianus ar yr Agoriad i'r Adgyfodiad:—

I. YR AGORIAD I ADGYFODIAD YR ARGLWYDD. II. YR AGORIAD I ADGYFODIAD DYN.

1. YR AGORIAD I ADGYFODIAD YR ARGLWYDD. Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, yn cynwys ei gorph dwyfol a gogoneddedig, yw prif bwnc y nefoedd, a phrif athrawiaeth y Gair. Haul yr enaid ydyw, a delw o'i adenedigaeth a'i ogoneddiad. Dysg Swedenborg natur adgyfodiad yr Arglwydd. "Trwy ei groeshoeliad a'i angau, gwrthododd yr Arglwydd bob peth dynol oddiwrth ei fam, ac ymwisgodd a'r Ddynoliaeth oddi wrth y Tad." "Oddi wrth gorph yr Arglwydd, yr hwn a roddwyd yn y bedd, dattodwyd, gwrthodwyd, a chwalwyd trwy farwolaeth bob peth dynol a gafodd o'i fam." "Trodd yr Arglwydd heibio, neu chwalodd oddi wrtho ei hun, bob peth materol pan yn y bedd, ac a adgyfododd mewn cyflwr o ogoneddiad. Pryd bynag yr ymddangosodd yr Arglwydd i'w ddisgyblion wedi ei adgyfodiad o'r bedd, ymddangosodd iddynt yn y byd ysbrydol. Agorwyd llygaid ysbrydol yr Apostolion i'w weled, megis yn sefyllfa y prophwydi gynt, i'r rhai yr ymddangosai yr angylion yn eu ffurf ddynol eu hunain. Adgyfododd yr Arglwydd yn y mwynhad o'r egwyddor ddynol yn ei heithafed, yr hon sydd yn gweled, yn clywed, yn arogli, yn archwaethu, ac yn teimlo yn y byd naturiol; nid felly y mae gyda dyn pan adgyfoda. Pan y mae dyn yn marw, ymedy yn llwyr a synhwyrau allanol y corph, sef y gallu corphorol sydd yn gweled pethau daearol, yn clywed, yn arogli, yn archwaethu, ac yn teimlo. Y gallu corphorol hwn yn y dyn a drenga; nid felly gyda'r Arglwydd. Efe a adgyfododd yn ei gyflawn allu corphorol." "Edrychwch fy nwylaw a'm traed, mai myfi fy hun ydyw; teimlwch fi a gwelwch; canys nid oes gan ysbryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod genyf fi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, Efe a ddangosodd iddynt ei ddwylaw a'i draed" (Luc xxiv, 39, 40). Efe a adgyfododd o'r Duwdod gyda'i holl gorph yn ddwyfol yn y byd ysbrydol a naturiol. Y rhai a wnant gorph yr Arglwydd fel corph dyn arall, ni feddyliant am ei genhedliad o'r Tad, sef o'r Duwdod ei Hun; nid ystyriant chwaith fod corph pob un yn ddelw o'r enaid. Dwyfolwyd holl ymenydd a chorph yr Arglwydd. Ymenydd yw cyfansoddiad naturiol y dyn, a holl ranau eraill y corph yn tarddu o hono. Yr holl ymenydd yw organ y synwyr mewnol; yn y rhanau mwyaf mewnol y mae y ffurfiau dirgeledig a elwir *cortical substances*, o honynt a thrwyddynt y deillia gweithrediadau yr enaid. Dilynir y sylweddau hyn gan sylweddau eraill mewn trefn. Yn gyntaf, y gorchuddion purach, wedi hyny y rhai tewach, yna y gwisgoedd cyffredin a elwir *meninges*, yn terfynu mewn gorchuddion mwy cyffredin, ac yn olaf, y

benglog. Y mae pethau deallol ysbrydion ac angylion yn dyfod i fewn trwy ddylifiad i ochr aswy y pen, neu yr ymenydd, tra pethau yr ewyllys yn dyfod i fewn trwy yr ochr ddeheu. Daw pethau yr ewyllys i fewn trwy ffordd fewnol, eto i'r un ermigau yn yr ymenydd. Fel hyn yr effeithiwyd yr ymgnawdoliad gan yr Ysbryd Glan, trwy ymenydd y Forwyn yn gyntaf. Trwy ddyn yn unig y disgyna y nefoedd i'r byd, ac yr esgyna y byd i'r nefoedd; a thrwy y Dyn Anfeidrol wedi ymgnawdoli a gogoneddu ei Ddynoliaeth i'w hallanolion eithaf, y disgyna yr holl nefoedd i'r holl fydoedd, ac yr esgyna yr holl fydoedd i'r holl nefoedd; "Eithr efe a ddyrchafodd, beth yw, ond ddarfod iddo hefyd ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear. Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth" (Eph. iv, 9, 10). Parthau isaf y ddaear yw egwyddorion isaf y ddynoliaeth a gymerodd y Dyn Anfeidrol yn yr ymgnawdoliad, yr hon hefyd yn ei hegwyddorion isaf a ogoneddodd Efe. Yn y corph naturiol o'r fam, yr oedd y llestri llygredig etifeddol, trwy y rhai y temtiwyd Ef gan ddiafol a satan. Yr oedd llygredd etifeddol yr oesoedd yn y llestri hyny, oblegid nad Mab Mair yn unig oedd Efe, ond Mab hefyd i holl hiliogaeth Adda (Math. i; Luc iii). Y Duwdod yn ei fwriad i ymgnawdoli, a ymweithiai yn enaid ac ymenydd pob dyn, gan gymeryd dynoliaeth druenus pawb, a thrwy frwydro a themtasiwnau, a'u concro, gyrodd allan y llestri llygredig a'u cynwysiad aflan o'i Ddynoliaeth, ac a ddadblygodd ynddo ei hun, ac o hono ei hun, Gorph Dwyfol a gogoneddedig, yr hwn a welwyd yn y Gweddnewidiad, ac wedi yr Adgyfodiad; oblegid yn y corph hwn yr adgyfododd, ac yr esgynodd yn gyflawn Anfeidrol Ddyn. "Oblegid ynddo Ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol" (Col. ii, 9). Yn y corph hwn yr ymddangosodd i Saul o Tarsis ar y ffordd, i Ioan yn Patmos, ac i Swedenborg fel dehonglwr y Gair a'r Ail-ddyfodiad; yn y corph hwn, mewn gogoniant newydd, y gwelir ac yr adwaenir Ef gan ddeiliaid y nef a'r ddaear newydd; yn y corph hwn y concra Efe bob pechod, ac angau, ac uffern ynddynt, gan eu hadgyfodi yn gyflawn mewn anllygredigaeth, mewn gogoniant, mewn nerth, ac mewn ysbrydolrwydd.

2. YR AGORIAD I ADGYFODIAD DYN.

1. Adgyfodiad dyn o farwolaeth ysbrydol. Adgyfodiad ydyw hwn o feddau drygioni ac anwiredd, i fywyd daioni a gwirionedd dwyfol: adgyfodiad i ddelw y Ddynoliaeth Ddwyfol. Dyma ddyben bywyd, "Fel yr adnabyddwyf Ef, a grym ei adgyfodiad Ef, a chymdeithas ei ddyoddefiadau Ef,

gan fod wedi fy nghydffurfio a'i farwolaeth Ef: os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw. Nid fel pe bawn wedi ei gyrhaeddyd eisoes, neu fod eisoes wedi fy mherffeithio; eithr dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflyd yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu (Phil. iii, 10-12). Y mae adgyfodiad yn canlyn cymdeithas dyoddefiadau Crist: tyfiant o'r gymdeithas hon ydyw. "Os ydym yn cyd-ddyoddef gydag Ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd" (Rhuf. viii, 17). Y mae gogoniant yr adgyfodiad yn guddiedig yn y Cristion gwanaf, fel prydferthwch y blodeuyn yn blygion dirgel yn yr hedyn. Dadblyga dan ddylanwad grym adgyfodiad yr Arglwydd, fel yr hedyn yn yr haf. Crist wedi adgyfodi yw achos ac ernes ein hadgyfodiad ni. Y mae dydd yr adgyfodiad wedi gwawrio, bloedd yr arch-angel ac udgorn Duw yn datsain yn yr enaid sydd yn caru yr Arglwydd, yn casau pomp, pleserau, a barn bydolion, ac yn hiraethu am y bywyd dwyfol a nefolaidd. Gorchest galed yw yr adgyfodiad, am fod yr enaid dan ddylanwad pedwar byd—y byd naturiol, byd y farn, y byd uffernol, a'r byd angylaidd. Trwy ymorchestu yn y Dyn Anfeidrol y llwyddwn ar waethaf nerthoedd angau. Mantais newydd i adgyfodi yw pob rhwystr a phob temtasiwn, am fod pob buddugoliaeth yn byw byth ynom yn mhlith pwerau anfarwoldeb. Trwy adgyfodi, galluogir ni i gyn-orthwyo yn adgyfodiad ein brodyr yn yr holl fydoedd, "Canys gan fod marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd y mae adgyfodiad y meirw" (I Cor. xv, 21). Fel y lleda o'r dyn daearol gylchoedd marwolaeth i wenwyno a lladd, felly y lleda o'r dyn ysbrydol gylchoedd bywyd yn treiddio trwy y greadigaeth.

Adgyfodiad! i fywyd gwell
Gyflawna ein gobeithion hoff—
Ein dymuniadau pur.
Mae'r ddwyfol anian yn ymweithio ynom,
Mae'r nef ei hun yn dweud am Anfarwoldeb—
Yn sisial Tragwyddoldeb ynom ni;
Gan hyny, pa fath ddynion ddylem fod
Mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb,
Yn disgwyl ac yn brysio adgyfodiad gwawr
Dyfodiad Crist, Emanuel, Duw gyda ni:
Efe yw'r Bywyd—y Goleuni yw
Oleua nwyfre y nefolaidd fro;
A'i euraidd bur belydrau adlewyrchant
I'r dyfnder du; a rhai yn mro
A chysgod angau ymddadebrant.

N. R.

2. Adgyfodiad dyn o'r corph marwol. Dysga y Gair a'r Agoriadau, fod dyn wrth farw yn cymeryd gydag ef bob peth berthyn iddo fel dyn. Aiff i'r byd ysbrydol mewn corph fel pan yn y byd materol, ond ei fod yn gorph ysbrydol, heb ronynau mater. Y dyn yn awr yn ysbryd a fwynha bob synwyr mewnol ac allanol, fel yn y byd. Y mae efe yn gweled, yn clywed, yn arogli, yn archwaethu, ac yn teimlo. Y mae efe yn hiraethu, yn meddwl, yn adfeddwl, yn caru, ac yn ewyllysio. Y mae efe yn berson yn mhlith personau sydd yn gweithredu, yn darllen, yn astudio, yn ysgrifenu, a siarad. Am yr adgyfodiad hwn, nodwn:—

(i) Ei fod yn Ysgrythyrol. "Canys nis gallant farw mwy, oblegid cydstad ydynt a'r angylion; a phlant Duw ydynt, gan eu bod yn blant yr adgyfodiad. Ac y cyfyd y meirw, Moses hefyd a hysbysodd wrth y berth, pan yw efe yn galw yr Arglwydd yn Dduw Abraham, ac yn Dduw Isaac, ac yn Dduw Jacob. Ac nid yw efe Dduw y rhai meirw, ond y byw; canys pawb sydd fyw iddo Ef" (Luc xx, 36, 38). Yr oedd Abraham, Isaac, a Jacob wedi adgyfodi oddi wrth y meirw pan ymddangosodd Duw i Moses wrth y berth. Dywedodd yr Iesu wrth Martha, "Adgyfodir dy frawd drachefn." Atebodd hithau, "Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf." Yr Iesu a gywira ei chredo trwy ddweud, "Myfi yw yr Adgyfodiad a'r Bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw. A phwy bynag sydd yn fyw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd" (Ioan xi, 23, 24). Bywyd ysbrydol yn unig sydd deilwng o'r enw bywyd, a didranc yw y bywyd hwnw; "Ni bydd marw yn dragywydd." "Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragwyddol; ac Myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf" (Ioan vi, 54). Y dyn yn ei gorph ysbrydol adgyfodir, ac nid y corph cnawdol; dydd diweddaf bywyd yw dydd yr adgyfodiad, ac nid diwedd amser. "Canys ni a wyddom os ein daearol dy o'r babell hon a ddatodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef ty, nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd" (II Cor. v, 1). "O hyn allan, rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad Ef" (IITim. iv, 8). "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr ysbryd, fel y gorphwysont oddi wrth eu llafur, a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt" (Dat. xiv, 13). Dygwyd Lazarus yn ei gorph ysbrydol gan yr angylion i fynwes Abraham; a disgynodd Dives yn ei gorph ysbrydol i uffern, gan waeddu yno am ddafn o ddwfr oer ar ben bys i

oeri ei dafod. Ymddangosodd Moses ac Elias yn eu cyrph ysbrydol, ac mewn ffurf ddynol, yn y gweddnewidiad. Dangoswyd y llwythau yn y nefoedd i Ioan, wedi eu selio a sel y Duw byw yn eu talcenau. Gwelodd y dyrfa fawr nas gall neb eu rhifo, oll yn eu cyrph ysbrydol. Y mae *penau* a *gwynebau* ganddynt: "Syrthiasant ger bron yr orseddfainc ar eu hwynebau." Y mae *tafodau* ganddynt: "A hwy a lefarasant a llef uchel, Iachawdwriaeth i'n Duw ni, yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac i'r Oen." Y mae *dwylaw* ganddynt: "A phalmwydd yn eu dwylaw." Y mae *traed* ganddynt: "Yn sefyll ger bron yr orseddfainc." Y mae *gwisgoedd* ganddynt: "Wedi eu gwisgo mewn gynau gwynion" (Dat. vii, 9-17). Y mae yr un pethau hefyd yn amlwg yn y gwyryfon sydd ar fynydd Sion: "A chanddynt enw ei Dad Ef yn ysgrifenedig yn eu *talcenau*" (Dat. xiv, 1-5). Cyrph ysbrydol sydd ganddynt yn y byd ysbrydol; nis gall corph materol fodoli yno, ac nid oes ei angen—rheswm digonol dros ei adael ar ol.

Gwyrdroir y Gair i gam-brofi adgyfodiad y corph materol, megis, "Canys mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear. Ac er ar ol fy nghroen i bryfed ddifetha y corph hwn, eto caf weled Duw yn fy nghnawd. Yr hwn a gaf fi, i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall; er i'm harenau ddarfod ynof" (Job xix, 25-27). Ni lefara Job yma am yr adgyfodiad, ond am ei adfyd, a'i hyder y cyfryngai Duw i'w wared cyn angau, ac nid ar ddiwedd y byd. Cyflawnwyd ei ddymuniadau: "Felly yr Arglwydd a fendithiodd ddiwedd Job yn fwy na'i ddechreuad" (Job xlii, 12). Eto, "Dy feirw a fyddant byw, fel fy nghorph i yr adgyfodant" (Esaiah xxvi, 9). Rhagfynegiad arwyddluniol yw y geiriau, fel gweledigaeth yr esgyrn sychion, am adferiad Israel o'r caethiwed, ac mewn ystyr uwch am adferiad, adnewyddiad, ac adgyfodiad yr hil ddynol i ddelw y Ddynoliaeth Ddwyfol, yn yr hon y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol. Eto, "A llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant, rhai i fywyd tragwyddol, a rhai i warth a dirmyg tragwyddol" (Dan. xii, 2). Geiriau arwyddluniol eto yn cyfeirio at ddychweliad yr Iuddewon o Babilon, ac yn ysbrydol, at adferiad yr enaid a'i adgyfodiad o fedd ei hunanoldeb i'r bywyd dwyfol, ac nid at ddeffroad ac adgyfodiad cyrph meirw o'r beddau. Eto, "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, y mae yr awr yn dyfod, ac yn awr y mae, pan glywo y meirw lef Mab Duw; a'r rhai a glywant a fyddant byw . . . Na ryfeddwch am hyn, canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb ar sydd yn y beddau glywed ei leferydd Ef; a hwy a ddeuant

allan, y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd, ond y rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn" (Ioan v, 28, 29). Wrth y "meirw," a "phawb ar sydd yn y beddau," ni olygir y cyrph meirw yn y beddau. Ni chlyw cyrph meirw lef Mab Duw. "Yn awr" y cymerai hyn le: "Ac yn awr y mae." Bywhau y rhai oeddynt feirw mewn camweddau a phechodau, set adgyfodiad ysbrydol, olygir yma; bywhau y drwg a'r da· "Adgyfodiad bywyd ac adgyfodiad barn." Y mae sylweddau y Gair wrth fywhau y rhai da yn angerddoli gelyniaeth y rhai drwg at ddaioni. Eto, "A llawer o gyrph y saint a hunasent, a gyfodasant, ac a ddaethant allan o'r beddau ar ol ei gyfodiad Ef, ac a aethant i mewn i'r ddinas sanctaidd, ac a ymddangosasant i lawer" (Math. xxvii, 52, 53). Cyfododd y saint yma yn eu cyrph ysbrydol, yn y byd ysbrydol, anweledig i bawb yn y byd naturiol, ond y gweledyddion. Gwelwyd hwynt, nid a'r llygaid naturiol, ond mewn gweledigaeth ysbrydol. Yr holl drafodaeth, fel gweledigaethau eraill y Gair, a berthyn i'r byd ysbrydol. Eto, I Cor. pen. xv drwyddi, sydd am yr adgyfodiad yn un ag adenedigaeth, ac ni pherthyn ond i adgyfodiad y dyn ailanedig; adgyfodiad y dyn ysbrydol o'r dyn anianol sydd yma, ac yn y diwedd adgyfodiad y dyn ysbrydol o'r marwol gorph. Yr un sylwedd sydd yn y benod a'r geiriau, "Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus Ef, yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon Efe, ie, ddarostwng pob peth iddo ei hun" (Phil. iii, 21). Eto, "Oblegid yr Arglwydd ei hun a ddisgyn o'r nef gyda bloedd, a llef yr archangel, ac ag udgorn Duw; a'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf" (I Thes. iv, 16). Darluniad arwyddluniol yw y geiriau o'r Ail-ddyfodiad, ac ni pherthyn i adgyfodiad y corph; ac hyd yn oed yr Apostolion a gamgymerent adeg yr Ail-ddyfodiad; y Cristionogion cyntaf a dybient y cymerai le yn eu hamser hwynt. Yn olaf, "A rhoddodd y mor i fyny y meirw oedd ynddo; a marwolaeth ac uffern a roddasant i fyny y meirw oedd ynddynt hwythau, a hwy a farnwyd yn ol eu gweithredoedd" (Dat. xx, 13). Ni sonir yma am gyrph meirw. Arwyddluniol yw y darluniad. Nid oes cyrph meirw materol yn uffern. Y mor a'r meirw ynddo a arwydda gyflwr y rhai sydd yn byw yn allanol yn unig. Marwolaeth ac uffern yn rhoddi i fyny eu meirw, a arwydda gyflwr y rhai sydd yn fewnol ddrwg, ac wedi ymollwng a suddo i chwantau uffernol.

(ii) Ei fod yn Naturiol. Y dail wedi cwympo oddi ar y coed, nid adgyfodant yn ddail ar y cangau a adawsant. Y plisgyn wy wedi ymddiosg oddi ar y cyw, nid adgyfoda yn wisg am y ceiliog neu yr iar. Y gorchuddion fuont am y corph

yn y groth, nid adgyfodant i orchuddio y plentyn wedi ei eni i'r byd. Ar ol yr enedigaeth, ymwrthodir dros byth a'r gorchuddion a elwir *corion* ac *amnion*. Felly, pan enir dyn i dragwyddoldeb, teflir y corph materol heibio dros byth—fel dail yr hydref wedi gadael y pren, fel plisgyn wy wedi i'r cyw ddyfod allan, ac fel y *corion* a'r *amnion* wedi i'r baban gael ei eni. Pob gwaith dwyfol a ymweithia trwy gyfryngau a graddfeydd olynol o'i gychwyniad i'w gyflawniad. Y drefn ryfeddaf welir yn y corph dynol, dirgel-leoedd goruchaf natur, lle y chwery yn ei holl gywreinion, ac y rhed trwy holl gwrs ei dirgeledigaethau. Elfenau yr ymenydd gynyrchir gyntaf, organ benaf yr enaid i ddisgyn i'r corph; yna elfenau y galon. O'r ddau hyn y deillia holl gyfundraeth y gewynau, y rhedwelyau, a'r gwythienau, yn gyfryngau i greu y coluddion, y gwthi, yr esgyrn, a'r croen. Yr holl ryfeddodau hyn o eiddo y Creawdwr, a gymerant le o fewn corph byw y fam—pob gronyn yn cael ei buro trwy gyfryngau fferyllol mewn corph dynol byw. Dyma drefn ryfeddol Duw yn ffurfio cyrph naturiol. Yn gyfatebol y ffurfia Efe y corph ysbrydol yn ymysgaroedd y Ddynoliaeth Ddwyfol a'r Jerusalem hono uchod, yr hon yw ein mam ni oll; "Canys ti a'm tynaist o'r groth; gwnaethost i mi obeithio ar fronau fy mam. Arnat ti y'm bwriwyd o'r bru; o groth fy mam fy Nuw ydwyt" (Salm xxii, 9, 10). Wrth y groth y golygir mewnolion eithaf cariad priodasol y Duwdod yn y nefoedd, o'r lle y genir y dyn newydd a chorph yr adgyfodiad, wedi ei lunio yn nirgelwch Dwyfoldeb. Codi y corph materol, gan hyny, o'r bedd, a'i uno a'r enaid, a ymddengys yn wrthun yn ngoleuni trefn a graddoliaeth gwaith y Duwdod yn nghylchoedd natur ac ysbryd.

(iii) Ei fod yn Rhesymol. Direswm yw y dyb am adgyfodiad corph materol. Nis gellir gwneud cnawd yn ysbryd, na chorph anianol yn gorph ysbrydol. Gradd gwahaniadol ysgara rhwng naturiol ac ysbrydol, fel nas gall mater byth fyned yn ysbryd. Fel yn yr agerddbeiriant, y tan, yr agerdd, a'r peirianwaith berthynant i dri o raddau gwahaniadol. Nid yw y tan yn troi yn agerdd, na'r agerdd yn troi yn haiarn; nid yw yr haiarn chwaith yn troi yn agerdd, na'r agerdd yn dan. Felly, nid yw ysbryd yn troi yn fater, na mater yn ysbryd. Ein corph hefyd yn y bywyd hwn sydd amryw, o hyd yn dadfeilio ac adnewyddu. Pob gronyn gwbl gyfnewidia bob saith mlynedd neu yn amlach, fel y mae dynion mewn oed wedi cael amryw gyrph. Pa un o honynt sydd i adgyfodi? Y corph hefyd wedi ei gladdu a faluria yn llwch, ac a chwelir ar wasgar dros dir a mor. Esgyna trwy y tynwyrth a'r trydan i'r planedau, ymleda yn gylchoedd cudd trwy y nef serenog, ac ymgorphola

yn nghyrph dynion, anifeiliaid, planhigion, a mwnau daear-fydoedd y bydysawd. Sylweddau cenhedlaethau ac oesau lawer a gylchredant yn nghyrph y genhedlaeth hon, a chyda'r cyrph hyn a dreiglant eto trwy gyrph y canrifoedd dyfodol. Pa fodd y caiff pob un ei gorph ei hun o'r gyfathrach anferth hon? Gwir ddywed Seneca: "Fel yr ydym yn esgeuluso blew ein barfau ar ol eu tori, felly, wedi i'r ysbryd dwyfol fyned allan o'r corph, pa beth ddaw o'r babell gyntefig? Pa un ai ei llosgi gan y tan, ei darnio gan fwystfilod, neu ei chladdu yn y ddaear, nid yw o fwy pwys iddo ef, na thynged gwisg y groth i'r baban newydd eni."

(iv) Ei fod yn gyson a sylwedd organaidd yr Enaid. Ysbryd yw dyn, yn meddu corph ysbrydol cyfansoddedig o sylweddau ysbrydol. Y mae y corph ysbrydol yn meddu pob organ, a phob ffurf a fedd y corph materol. Nid drychiolaeth yw yr enaid, neu awyr, neu nwy, neu darth, neu rywbeth byw dilun; ond bod dynol organaidd yw, yn meddu ymenydd, calon, ysgyfaint, gewynau, coluddion, pen, dwyfron, aelodau, dwylaw, traed, y synhwyrau i weled, clywed, arogli, archwaethu, a theimlo. Dyn ar y ddaear sydd fod ysbrydol, wedi ei wisgo dros amser a gorchudd o gnawd. Y corph cnawdol sydd i'r dyn ei hun, yr hyn yw y masgl i'r gneuen, yr eisin i'r gronyn, yr us i'r gwenith, y plisgyn i'r cyw. Y dyn ei hun sydd gymaint ar wahan i'w gorph, ag yw y corph i'r dillad, y telynor i'w delyn, neu y crefftwr i'w offer. Miliwnau yr oesau fu, pa le y maent? Nid yn y bedd yn cysgu hyd ganiad yr udgorn yn disgwyl adgyfodiad. Y maent oll wedi adgyfodi wrth farw, ac y maent o hyd yn ddynion byw arbenig, anfarwol, yn bythol ddadblygu i ddyfnderau ac uchelion eu tynged mewn gwae neu wynfyd.

(v) Ei fod yn gyson a bodolaeth y Byd Ysbrydol. Adgyfoda dyn yn fod sylweddol i fyd sylweddol. Yn y byd ysbrydol, fel yn y byd naturiol, y mae heuliau, lleuadau, a ser; awyr-gylchau, dyfroedd, a daearfydoedd; mwnau, llysiau, coedydd, a bwydydd o bob math; gwisgoedd, tai, pentrefydd, trefydd, dinasoedd, ac adeiladau cyhoeddus. Y mae y bydoedd ysbrydol a naturiol yn debyg yn mhob peth, ond fod pethau y byd ysbrydol yn ysbrydol, a phethau y byd naturiol yn naturiol. Y rhan amlaf o ddynion, er hyny, ni charant wybod am y byd ysbrydol, ac ni fynant osod eu troed yno, os gallant unryw fodd gael y safle fwyaf serfyll yn y byd hwn, nad yw ond gwagedd. Ond pawb sydd yn caru yr Arglwydd, y Gair, a'r nefoedd, a ddibrisiant y byd hwn mewn cydmariaeth i'r byd arall. Beth yw yr us at y gwenith? Beth yw amser at dragwyddoldeb? Beth yw miliwnau o ganrifoedd at an-

farwoldeb? Llifa ystyriaethau fel hyn o'r Arglwydd a'r nefoedd i eneidiau dynion cywir a da, oblegyd fod eu heneidiau yn agored i'r Duwdod a'r nefoedd; ond eneidiau bydolion sydd gauedig oddi uchod, ac yn agored oddi isod, fel na allent synied mwy nag anifeiliaid am y byd ysbrydol, na phrisio dim am ei fodolaeth na'i fodau, ond pan yn ngafaelion angau yn gweled y byd hwn yn myned am byth o'u gafael.

(vi) Ei fod yn gyson ag agosrwydd y Farn. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn" (Heb. ix, 27). "Gosodir ni oll ger bron gorseddfainc Crist" (Rhuf. xiv, 10). "Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da ai drwg" (II Cor. v, 10). Ymddengys dyn ger bron brawdle Crist yn union wedi marw, yn ei gorph ysbrydol, ac nid yn ei gorph materol ar ddiwedd amser. Cymer y farn le, nid yn y byd materol, nac yn y nefoedd, nac yn uffern, ond yn myd yr ysbrydoedd, sef y byd canolog rhwng nef ac uffern. Datguddir y byd canolog yn y Gair a'r Agoriadau. Y nef sydd uwchlaw iddo, ac uffern odditano. Y farn ddiweddaf ar ddiwedd y byd yw diwedd yr Eglwys wedi llwyr lygru, ac nid diwedd y bydysawd naturiol. Pan fyddo yr Eglwys am oesau yn anuwiol, erys ei phobl a'i phregethwyr yn hir yn myd yr ysbrydoedd; ond ar ddiwedd yr Eglwys, sef diwedd y byd, disgyna y Barnwr a'r nefolion i fyd yr ysbrydoedd. Bernir pawb yno y pryd hwnw yn dry-lwyr a disymwth. Didolir y tyrfaoedd i ddwy dyrfa: esgyna y naill i'r nefoedd, a disgyna y llall i uffern. Yna dechreuir oes neu Eglwys Newydd gan yr Arglwydd yn y nef ac ar y ddaear. Ond yn anibynol ar y farn ddiweddaf, adgyfoda dyn yn angau i'w farn bersonol. Y farn hon sydd farn dragwyddol. Am y pery y byd byth bythoedd, pery dynion i adgyfodi i'r farn. Ond agos yw at bob oes, ac at bob dyn sydd yn y byd. "Wele, y mae y Barnwr yn sefyll wrth y drws" (Iago v, 9).

(vii) Ei fod yn rymus i godi Dyn o'i Drueni. Y mae hadau a gwreichion gwir fawredd yn guddiedig mewn llawer o eneidiau; dan ddylanwad y goleu hwn ar yr adgyfodiad, blodeuant fel rhosynau, a llewyrchant fel yr haul. Dynion hefyd wedi suddo islaw sylw, a godant trwy yr athrawiaeth hon i'r uchelderau. Cyrhaeddir goleuni, bywyd, a nerth trwy burdeb ac hunanymwadiad. Purdeb ac hunanymwadiad a gyrhaeddir trwy fyfyrdod ar y bydysawd ysbrydol; a'r gwir oleuni ar yr adgyfodiad rwyga y llen rhyngom a'r bydysawd ysbrydol. Yr enaid o flaen y weledigaeth eglur a hyfryd dderbynia fywyd o'r GALON ANFEIDROL gura yn mynwes y nefoedd. Yna yr esgyn at angylion ac ysbrydion dysglaer y

bydoedd, gan gydanadlu a hwynt yn eu nwyfre danllyd, a chyfranogi o'u trydanau tragwyddol, dan lwon Duw a than arweiniad yr hyfrydlais ar hyd unionsyth ffordd dyledswydd, wedi bythol gefnu ar hudoliaeth byd, sectau, satan, a gweinidogaeth angau.

(viii) Ei fod yn gysur mewn galar, ac yn yr olwg ar Farw. Y goel mewn adgyfodiad o'r bedd ar ddiwedd y byd, sydd mor ddisylwedd a phell, fel nas gall gysuro dan ddirwasgfa galar. Coel greulon yw yn rhoddi colyn i angau yn ganrifoedd aneirif o hyd. Beth ddaeth o oesau y gorphenol? Ai hiraethu yn ddiddiwedd am eu cyrph? Y mae croesi y Styx, Brawdle Pluto, a meusydd Elysia, yn fwy dewisol na'r dynghedfen dywyll a dychrynllyd hon.

Cyfod, ac esgyn i awyrgylch uwch,
Prydferthion cyfrin gwirioneddau drud;
Dwg allan o'u dirgelwch bethau cudd,
Oleua nef y nef, siriola'r byd.

N. R.

Trymder dyfnaf y bedd siriolir, pan y gwyddom y cawn godi trwy farw yn gyflawn ac ar ein gwell. O! athrawiaeth ogoneddus a dyddanol, yn trawsnewid brenhin y dychryniadau i archangel trugaredd, gan ei wisgo a mantell wynach na'r goleuni. Y mae yr act o farw, fel y sicrha yr Arglwydd trwy Swedenborg, yn dangnefeddus. Gwylwyr angylaidd ein mabandod a'n dyogelant rhag niwed. Bysedd tyner angylion a roliant y llen oddi am ein llygaid, a chawn eu hagor ar ein gwen yn eu byd gwynfydedig hwy.

Frodyr a chwiorydd anwyl yn Eglwys Philadelphia, y mae adgyfodiad y meirw yn y goleu a goleddwn yn wirionedd bywiol, a theilwng o'i gyffesu yn y dydd tywyllaf arno. Caled yn wir yw y gorchwyl yn ein hoes anwar a chreulawn ni; ond yr Adgyfodiad a'r Bywyd a gynorthwya ein dwylaw gweinion a chrynedig i ysgrifenu y gwirionedd i hanes ein gwlad mewn llythyrenau eglur-goleu o fywiol dan aniffoddadwy. Yr Arglwydd yn ei ddyfodiad a rydd rymusder ac awdurdod i'r hyn sydd newydd, ac a deifl ddysgleirder ar bwnc a dywyllwyd gan gnawd, a byd, a diafol. Pregethwyr sydd leiaf eu gallu i weled y goleuni a danbeidia yn ein plith, a deall y nefol yni a nerthol weithia ynom. Ond pa fodd y medr peirianau Mammon amgyffred ysbrydion byw yn mentro rhoddi eu hunain yn offerynau yr Hollalluog? Yr ydym wedi ymorchestu ar eu gwaethaf, gan anturio i'r unigedd am hir flynyddau, i gael ein neillduo gan y nefoedd i dynu ein cysur a'n calondid o'i mynwes

hi yn unig. Bendigedig! gwyddom mai gwynfydedig a sanctaidd yw cymdeithas unigedd, gyda'r Anfeidrol Ddyn, a'r aneirif ddynion ar ei lun a'i ddelw a gyfodasant oddi wrth y meirw.

LILI Y PASG.

Ar foreu Pasg, i'w ffordd â'i geneth fwyn,
Teg glychau Lili yn ei llaw wnai ddwyn,—
Ei hun fel hwy yn Lili lawn o swyn.

Cyfarfu rai yn dwyn i gladdfa'r plwy',
Un bach neillduwyd oddi wrthynt hwy
A'i hoff gyfoedion, gan angeuol glwy'.

Yn fuan, at ei arch ymwasgai'r fun,
Ei blodau roddai ar ei fynwes gun,*
Gan ddweud, "Cei hwy yn gwmni yn dy hun.

Er nad oes genyf Lili lwys ei gwawr,
Yn offrwm Pasg i'm hanwyl Arglwydd 'nawr,
Gwyr fod fy nghalon yn ei garu yn fawr."

I dy addoli try ei thirion wedd,
Lle gwenai blodau blydd ar allor hedd,—
Mae'r Bywyd yn fuddugol ar y bedd.

Clyw sain yr organ yn dyrchafu fry,
Fel pe i'r nef i geisio ei Harglwydd cu,
Ac uno a mawl y gwaredigol lu.

Rhyw lais gwefreiddiol ddisgyn ar ei chlyw,
Ei nodau per oedd lawn o deimlad byw,
Fel can rhyw seraph ger bron gorsedd Duw.

Yr eneth fach yn wylaidd blygai' lawr,
I'w henaid pur tywynai nefol wawr,—
Ymagor iddi wnai y nef yn awr.

Ac wele'r Iesu'n gwenu arni sydd,
A'r plentyn bach, gan angau roed yn rhydd,
Yn llaw angyles fad yn ngwlad y dydd.

*Mewn gwledydd ar y Cyfandir, dygir plant bychain i'w claddu heb gauad ar eu harch, ond gorchuddir hwy a blodau, oni fyddant yn rhy dlawd i'w cael.

Ac o lawenydd pur a leinw ei bryd,
Wrth wel'd ei Lili yn ei law o hyd,
Yn flodau byw, ac mewn anfarwol fyd.

A thros ei wefus fach, daeth neges gu,—
"Yr eneth anwyl roddodd rhai'n i mi,
I'w dwyn yn brawf o'i chariad atat Ti."

Gwynfyd rhai glywant lais eu Harglwydd pur,
Yn llais pob dynol angen, gwae, a chur:
Yn eu calonau hwy cyfododd Crist yn wir.

(Cyf.) N. R.

XX.—AGORIAD I'R DYN MAWREDDOG.

Yr Eglwys yn y nef a'r ddaear sydd un corph, a'r Arglwydd ynddi yn un ysbryd. "Un corph sydd, ac un ysbryd" (Eph. iv, 4). Am arian y deyrnged y gofynodd yr Iesu. "Eiddo pwy yw y ddelw hon a'r argraph?" (Math. xxii, 20). Delw ac argraph yr un ysbryd sydd ar yr un corph. Corph dyn yw y gwrthrych gweledig ardderchocaf; a chorph y Dyn Mawreddog, sef y Wir Eglwys, yw y gwrthrych anweledig ardderchocaf, oddigerth corph dwyfol y Dyn Anfeidrol. Y Dyn Anfeidrol yn ei gorph dwyfol yw Duw y nefoedd. Efe bob eiliad sydd yn creu y nefoedd, a'i ddelw Ef sydd arni oll. Y Dyn Mawreddog a ddeillia o'r Ddynoliaeth Ddwyfol, ac a gwbl ddibyna arni. Dirgelwch i'w egluro gan yr Arglwydd yn ei Ail-ddyfodiad yw, fod yr holl nefoedd gyda'u gilydd yn debyg i un dyn. Gwybod hyn, a'r dirgelion perthynol i hyn, yw gwybodaeth oruchaf yr angylion. Gan y gwyr yr angylion fod y nefoedd, a chymdeithasau y nefoedd yn debyg i un dyn, galwant y nefoedd, medd Swedenborg, y Dyn Mawreddog, ac hefyd y Dyn Dwyfol; oblegyd mai Dwyfoldeb Dynoliaeth yr Arglwydd sydd yn gwneud y nefoedd. Buddiol yw pob gwybodaeth—gwybodaeth am

elfenau mater, am y llysiau a'r coedydd, am anifeiliaid ac adar. Ond gwybodaeth am ddyn yw y goruchaf—dyn ar y ddaear, dyn yn y farn, dyn yn uffern, dyn yn y nefoedd; pob dyn drwg gyda'u gilydd yn ffurfio un anghenfil, a phob dyn da gyda'u gilydd yn ffurfio un Dyn Mawreddog, a'r Dyn Anfeidrol ynddo yn ysbryd anfarwol. Sylwn:—

I. FOD Y NEFOEDD YN UN DYN MAWREDDOG. II. FOD POB CYMDEITHAS NEFOL FEL UN DYN. III. FOD POB DYN YSBRYDOL A NEFOL YN NEFOEDD FACH O'R NEFOEDD FAWR, NEU O'R DYN MAWREDDOG. IV. FOD GWYBODAETH AM Y DYN MAWREDDOG YN WERTHFAWR A HYFRYD GAN EGLWYS PHILADELPHIA.

1. FOD Y NEFOEDD YN UN DYN MAWREDDOG. Yr holl afonydd a redant i'r mor, gan wneud un cefnfor; yr holl ronynau a dynant at eu gilydd, gan wneud un ddaear; yr holl blanedau a gydchwareuant dan ddylanwad yr un deddfau, gan wneud un gyfundraeth; yr holl gyfundraethau o fydoedd a gydweithiant mewn un undeb, gan wneud un bydysawd; felly yr holl ddynion duwiol, trwy dragwyddoldeb a'r daearfydoedd, a unant a'u gilydd yn un Dyn Mawreddog; "Canys megis y mae genym aelodau lawer mewn un corph, ac nad oes gan yr holl aelodau yr un swydd. Felly ninau; a ni yn llawer ydym un corph yn Nghrist" (Rhuf. xii, 4, 5). "Y bara a fwytawn, onid cymun corph Crist yw? . . . Yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed yn anheilwng sydd euog o gorph a gwaed yr Arglwydd" (I Cor. xi, 10, 16). Cymundeb rhwng dyn a chyfangorph y nefoedd yw cyfranogi yn iawn o'r Swper Sanctaidd. Y sacrament hon a gynwys bob peth berthynai i addoliad yr Eglwys Iuddewig; y term bara a ddynodai yr holl ebyrth a'r holl offrymau dan y gyfraith; y Swper Sanctaidd hefyd sydd gyflawniad o bob addoliad arddangosiadol. Y mae yr Arglwydd a'r nefoedd, y Brynedigaeth a'r Iachawdwriaeth, oll yn bresenol yn y Swper Sanctaidd. "Hwn yw fy nghorph" a egyr i'r nefoedd. "Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof fi, a minau ynddo yntau" (Ioan vi, 56). Yn y cymun yr ydym yn yr Arglwydd, ac yn y nefoedd, yn tystio ger bron yr angylion ein bod yn y corph dirgeledig, ac y byddwn ynddo am dragwyddoldeb. Dangosir yn Col. pen. i, fod yr Eglwys trwy y nef a'r ddaear yn gorph Crist. "Yr hon yw ei gyflawnder Ef . . . Ac Efe yw pen corph yr Eglwys." Yr oedd Paul yn byw a dyoddef dros yr holl Eglwys fel un dyn, "Er mwyn ei gorph Ef, yr hwn yw yr Eglwys." Dengys fod yr holl dywysogaethau nefol

yn cyfansoddi un corph. "Efe yw pen pob tywysogaeth" (Col. ii, 10, 19). Sonir am yr Eglwys fel un wraig wedi ei gwisgo a'r haul, ac fel priodasferch gwraig yr Oen.

Y ffurf ddynol sydd i'r Eglwys trwy y nef a'r ddaear. Y mae dyn yn ddyn am ei fod yn deall gwirionedd ac yn ewyllysio yn dda. Y corph a greuir yn offeryn y deall a'r ewyllys; oblegyd hyn, nid oes fywyd yn y corph o hono ei hun. Y bywyd sydd o'r enaid, neu yn nytrach o'r Dyn Mawreddog, a'r Dyn Anfeidrol yn dylifo i'r enaid. Traethu meddwl yr enaid wna y tafod; cyflawnu cynlluniau yr enaid wna yr aelodau. Yr enaid a breswylia yn yr holl gorph fel y gwaed yn y gwythienau, neu fel yr ymenydd yn y gewynau. Felly y preswylia yr Arglwydd yn holl gorph yr Eglwys, ac yn mhob rhan o honi. Yr holl gorph hefyd a reolir ganddo, fel y corph dynol gan yr enaid. Ynddo ef y mae ymenydd, ermigau, a synhwyrau anfeidrol.

Y mae cyfatebiaeth rhwng pob peth yn y nefoedd a phob peth yn y dyn. Trefnir y cymdeithasau yn y nefoedd yn yr un drefn a'r aelodau, yr organau, a'r coluddion mewn dyn: rhai yn y pen, rhai yn y galon, rhai yn yr ysgyfaint, rhai yn y breichiau, rhai yn y coesau, a rhai yn mhob rhan neillduol yn ngwahanol ranau y Dyn Mawreddog. Cymdeithas yn unrhyw aelod o'r nefoedd, sydd yn cyfateb i'r un aelod mewn dyn. Y cymdeithasau yno yn y pen, sydd yn cyfateb i'r pen mewn dyn; rhai yn y galon, i'r galon mewn dyn; rhai yn yr ysgyfaint, i'r ysgyfaint mewn dyn; ac felly am y lleill. Y mae yr holl nefoedd hefyd yn cydweithio fel yr holl ranau yn y corph dynol. Er fod dyn yn cynwys synhwyrau o fewn synhwyrau, aelodau o fewn aelodau, a rhanau aneirif o fewn rhanau aneirif, er hyny, gweithreda fel un. Felly y nefoedd dan arweiniad yr Arglwydd. Y rheswm fod y fath amrywion yn un mewn dyn yw, am fod pob peth yn cyfranu i lesiant yr oll, a'r oll i lesiant pob peth. Felly holl gymdeithasau a phersonau y nefoedd,—pob un yn cyfranu i lesiant pawb, a phawb i lesiant pob un. Nis gall y rhai sydd yn caru eu hunain yn fwy nag eraill, anadlu yn awyr y nefoedd, mwy na physgod ar dir sych. Dewisach ganddynt drigianu yn uffern, yn eu hawyr eu hunain. Wrth ddyfalu ar fywyd yn y nefoedd, ar yr ail farwolaeth yn uffern, ac ar fywyd ac angau ynom ein hunain, hawdd i ni wybod deiliaid i ba un o'r ddau fyd ydym —y byd nefol neu y byd uffernol; a hawdd i ni weled er galar fod y byd Cristionogol heddyw yn addasach i uffern nag i'r nefoedd. Unoliaeth uffernol ac nid nefol yw yr undebau crefyddol, gwladol, a masnachol—udfilod o'r dyfnder, ac nid y briodasferch o'r nef.

Gan fod y nefoedd yn y cyfangorph yn gyffelyb i un dyn, a chan fod tair nefoedd yn un a'u gilydd, y mae y nefoedd uchaf yn cyfansoddi y pen, lle y mae yr ymenydd, yr ermigau, a'r synhwyrau; y nefoedd ganol yn cyfansoddi y ddwyfron, a'r corph hyd y lwynau a'r penliniau; a'r nefoedd isaf a mwyaf allanol a gyfansodda y coesau a'r traed hyd y gwadnau, a'r breichiau hefyd hyd flaen y bysedd.

2. FOD POB CYMDEITHAS NEFOL FEL UN DYN. "O herwydd trwy un ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph . . . eithr chwychwi ydych gorph Crist, ac aelodau o ran" (I Cor. xii, 13, 27). Dywedir hyn am Eglwys Corinth. Gwir yw am bob cymdeithas o'r Eglwys trwy y nef a'r ddaear. Am fod yr holl nefoedd yn y ffurf ddynol, felly hefyd y mae pob rhan o'r nefoedd. Gan mai y ffurf ddynol sydd i bob rhan o'r nefoedd, deillia o ffurf yr holl nefoedd, yr hon a ddeillia o ffurf y Ddynoliaeth Ddwyfol. Felly y mae pob cymdeithas nefol yn nefoedd ynddi ei hun, a delw o'r holl nefoedd. Lle byddo ond dau neu dri, yr Arglwydd a drig yn y canol, a'r nefolion oll yn eu gwylio a'u gwarchod, fel Eliseus a'i was yn mynydd Dothan. "Amlach yw y rhai sydd gyda ni, na'r rhai sydd gyda hwynt . . . Ac wele y mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd o amgylch Eliseus" (II Bren. vi, 16, 17). Ond pa amlaf a mwyaf unol y byddo unrhyw gymdeithas, perffeithiaf oll yno yw y ffurf ddynol. Amhau mewn rhif hefyd wna pob cymdeithas nefol bob dydd, felly cynydda pob cymdeithas yn barhaus mewn perffeithrwydd. Ni bydd diwedd gan hyny, ar godi dynion i'r nefoedd, nac ar y bydoedd materol sydd fagwrfa iddynt. Nid oes dim yn lloni angylion yn fwy na derbyn aelodau newyddion i'r cymdeithasau nefol. Derbynir rhai yn gyson yn mhob cymdeithas; rhai i'r galon, rhai i'r ysgyfaint, rhai i'r ymenydd, rhai i'r fynwes, rhai i'r esgyrn, rhai i'r llygaid, rhai i'r clustiau, rhai i'r breichiau, rhai i'r traed, a rhai i bob rhan arall o'r gymdeithas fel y mae yn cyfateb i'r corph, neu i ddyn.

3. FOD POB DYN YSBRYDOL A NEFOL YN NEFOEDD FACH O'R NEFOEDD FAWR, NEU O'R DYN MAWREDDOG. Y mae yr Arglwydd a'r nefoedd yn y dyn ysbrydol a nefol, yn ei reoli trwy y Gair; am hyny, y mae Efe yn gyflawn ddyn, ac yn nefoedd fach ynddo ei hun. Y mae y mor yn mhob dafn, y glôb yn mhob gronyn, a'r haul yn mhob pelydr; felly yr Arglwydd, y Gair, a'r nefoedd yn mhob gwir ddyn. Hyny hefyd yw bod yn ddyn; am hyny, dyn perffaith yw angel, ac yn ffurf dyn. Cymundeb yw y nefoedd lle y derbyn pob un oddiwrth bawb, gan adlewyrchu delw pawb, yn neillduol delw y

Dyn Mawreddog, a delw y Dyn Anfeidrol. Mesur Dyn, sef mesur angel, yw mesur y nefoedd, a mesur pob un sydd yno (Dat. xxi, 17). Bod yn ddyn yw bod yn nefoedd.

4. FOD GWYBODAETH AM Y DYN MAWREDDOG YN WERTHFAWR A HYFRYD GAN EGLWYS PHILADELPHIA. Fod y nefoedd oll yn debyg i un dyn sydd ddirgelwch anadnabyddus eto, yn y byd, ond y mae yn adnabyddus yn y nefoedd; gwybod hyn, a'r pethau pendant a mwyaf neillduol a berthyn iddo, yw prif bwnc deallol yr angylion. Ar y wybodaeth hon y dibyna llawer o bethau eraill, nas gallant hebddi gael unrhyw syniad am danynt. Gellir gweled budd dirfawr y wybodaeth hon wrth ystyried y pethau canlynol:—

1. Dengys ffurf y nefoedd yn gyffredinol a neillduol, ac felly gwna y byd nefol yn swynol i'r enaid. Ofnadwy ac arswydol yw gweledigaethau Duw a theimlad o agosrwydd y byd ysbrydol i ddyn yn y cnawd. Pan ymddangosodd yr Arglwydd ar Sinai i Moses, efe a ddywedodd gan mor ofnadwy oedd y golwg, "Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu" (Heb. xii, 21). Dieithr a dychrynllyd oedd gweledigaethau y nefoedd a'r seraphiaid i Esaiah, pan waeddodd, "Gwae fi! canys darfu am danaf" (Esaiah vi, 5). Ond clywodd swn llais dynol, ac estynwyd llaw ddynol ato, cyffyrddodd marworyn o dan dynoliaeth nefol a'i wefus, yna ymwrolodd i gydweithio yn gysurus a dynion y nefoedd ar y ddaear. "Clywais hefyd lef yr Arglwydd yn dywedyd, Pwy a anfonaf? a phwy a â drosom ni? Yna y dywedais, Wele fi, anfon fi" (Esaiah vi, 1-8). Ofnadwy oedd agoriad y nefoedd i Ezeciel ar lan Chebar. Wele gorwynt yn dyfod o'r gogledd, a chwmwl mawr, a thân yn ymgymeryd, a dysgleirdeb o amgylch iddo, a phethau byw yn nghanol y tan, a'u hadenydd ar led, wedi eu cysylltu a'u gilydd. Dull y pethau byw oedd fel marwor tan yn llosgi, ac fel gweledigaeth ffaglau. Dysglaer oedd y tan, a mellt yn dyfod allan o hono. Yn ymyl y pethau byw yr oedd olwynion; eu cantau hefyd oedd cyfuwch, ac yr oeddynt yn ofnadwy, ac yn llawn llygaid; y ffurfafen fel lliw grisial ofnadwy uwchlaw iddynt, a swn yr adenydd fel swn dyfroedd lawer, fel swn yr Hollalluog. Wele hefyd orseddfainc uwchlaw y ffurfafen fel maen saphir. Pa fodd y deil Ezeciel y fath olygfa? Edryched dan yr adenydd. "A llaw dyn oedd dan yr adenydd." Clustfeinied yn nghanol y swn, clyw lais dynol yn galw arno, "Fab Dyn." Dynol yw dyfnderau, uchelderau, a phellderau tragwyddoldeb (gwel Ezeciel i). Felly Daniel ar lan yr Hidecel, pan syrthiodd ar y ddaear yn fud, wele llaw dyn o dragwyddoldeb a gyffyrddodd ag ef; tebyg i ddyn hefyd a gyffyrddodd a'i wefusau. "Ni safodd nerth ynof, ac nid

arosodd ffun ynof," meddai. "Yna cyffyrddodd eilwaith a mi fel dull dyn, ac a'm cryfhaodd" (gwel Daniel x). Tebyg yw profiad Ioan yn y Datguddiad. Dynol yw y nefoedd, ac felly deniadol i feddylfryd pob dyn ar ddelw Duw. Ond am uffern, nid oes dyn yno, na delw dyn, er fod yr Arglwydd yn ei drugaredd yn caniatau i anghenfilod uffern ymrithio i'w gilydd i ryw raddau fel dynion. Pan agorwyd y pydew diwaelod, ni welwyd yno ddyn, ond locustiaid, a danedd fel llewod, a chynffonau tebyg i ysgorpionau; a bwystfilod corniog, y ddraig, yr hen sarph, yr hon yw diafol a satan, osodant eu delwau rheibus ar bawb sydd yn yr uffernoedd.

> "Heddyw yn ddyn, yfory yn fallgi,
> Yn niwaelod bwll trueni,
> O'r un hyllrith ac athrylith a'r cythreuliaid."

Y Gair a eilw yr anuwiolion yn gwn, yn llewpardiaid, yn llewod, a bleiddiau yr hwyr. Esaiah a eilw Pharaoh yn sarph hirbraff, a blaenoriaid Israel yn deirw Basan. Trowyd brenhin Babilon i lun bwystfil, yn batrwn o'r brenhinoedd anuwiol ac eraill yn uffern. Yn yr olwg ar ffurfiau ysbrydol y Phariseaid y galwodd yr Arglwydd hwynt yn seirph a hiliogaeth gwiberod.

2. Dengys undeb yr Arglwydd a'r nefoedd, undeb y nefoedd a'u gilydd, ac undeb y nefoedd a dyn. Y nefoedd oll a phob rhan o honi sydd debyg i ddyn, am ei bod yn bodoli o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, a'i Ddynoliaeth ef yw yr ysbryd reola yr holl nefoedd, fel y rheola ysbryd dyn ei gorph. Meddylia pawb trwy y nefoedd am dano fel dyn, am fod y dylifiad dwyfol yn treiddio trwyddynt. Pa ddoethaf a mwyaf perffaith y byddo yr angylion, amlycaf y canfyddant fod Duw yn ffurf Dyn, fod y nefoedd o hono Ef yn y ffurf ddynol, a bod ei Ddynoliaeth Ef yn rheoli dynoliaeth y nefoedd, fel y gwna y dyn mewnol reoli y dyn allanol. Nid oes gan yr angylion syniad am Dduwdod anweledig, ond am Dduw fel Dyn, hwythau yn ddynion o hono, a phob dyn arall yn ddyn trwy weled ac anwylu yr Arglwydd fel Dyn, a'r dynion hyn oll trwy y nef a'r ddaear yn un a'u gilydd trwy Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd. Gwelant fel hyn eu bod yn yr Arglwydd ac yn un ag Ef. Gwelir hefyd fod yr undeb hwn yn cael ei ffurfio trwy ddylifiad o'r Arglwydd i'r nefoedd, a thrwy y nefoedd i ddynion ar y ddaear; a bod cyfatebiaeth rhwng pob peth yn y nefoedd, a phob peth perthynol i ddyn. Ond dibris yw y pethau hyn gan rai sydd yn cilio o'r nef trwy garu y byd, y cnawd, a'r diafol; y pethau hyn liniarant y synhwyrau allanol, ac a foddiant dymher foethus y dyn

anianol, heb ofalu dim am bethau ysbrydol a foddiant feddylfryd anfarwol yr enaid. Y fath ddynion a wrthodant y wybodaeth bendant am y nefoedd, ei dynoliaeth, ei dylifiadau, a'i chyfatebion, gan ymesgusodi eu bod yn rhy uchel i'w hamgyffred, ac y cawn ddigon o amser i wybod wedi myned oddi yma, ac mai y peth pwysig yn awr yw byw yn dda; heb ystyried fod byw yn dda heb oleuni y nefoedd mor anmhosibl ag yw i'r ddaear droi, a dirwyn haf a'i ffrwyth, heb haul, ei wres, a'i oleu.

3. Dengys ogoniant pob peth teilwng o ddyn yn y byd hwn. Fel y gwna ffynonau, afonydd, a llynoedd gloewon adlewyrchu dysgleirdeb haul a lloer a ser y nefoedd, felly yr adlewyrcha bywyd dynol pur yn y byd hwn, fywyd dynol y byd arall. Fel y gwna y ffurfafen ogoneddu ac addurno y ffynonau, yr afonydd, a'r llynoedd a lluniau ac a lliwiau eu goleuadau, felly datguddiad o'r ddynoliaeth sydd yn y nefoedd a ogonedda yr hyn sydd dynol ar y ddaear. Yr un hefyd yw gwir ddynoliaeth yn y nef ac yn y byd. Pob peth teilwng o ddyn yn y byd, nid yw anheilwng o ddyn yn y nef; a phob peth anheilwng o ddyn yn y nef sydd anheilwng o ddyn yn y byd. Cyflwr a gwaith llaweroedd sydd warth i ddynoliaeth, yn arbenig prophwydi gau, llywodraethwyr anghyfiawn, masnachwyr anheg, a chrefftwyr twyllodrus; tafarnwyr, bragwyr, tybacwyr, a phob deliwr arall mewn nwyfau i ddinystrio. "Ni oddef eu gwaith iddynt droi at Dduw" (Hosea v, 4). Nid oes angel chwaith all oddef segur-swyddwyr. Gweithiwr anfeidrol yw y Dyn Anfeidrol; ac at weithwyr y daeth yn ei Ddyfodiad cyntaf: at fugeiliaid, seiri, pysgotwyr. Ei ddysgyblion wrth barotoi y Pasg oeddynt i ddilyn dyn yn cludo ystenaid o ddwfr. Gweithiwr pebyll oedd Paul, Apostol mawr y Cenhedloedd; bugeiliaid defaid oedd Moses a Dafydd pan eu galwyd; arddwr oedd Eliseus; amaethwr oedd Gedeon. Rhai a gyfrifant eu hunain yn rhy dda a bonedd i weithio; ond boneddwyr paradwys ydynt weithwyr oll, "Angylion cedyrn o nerth yn gwneuthur ei Air Ef" (Salm ciii, 20).

4. Dengys mai bod yn ddyn yw dyben mawr a thragwyddol bywyd. Y nefoedd yw cynllun bywyd. "Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd" (Math. vi, 10). Cafodd Moses bortread o'r nefoedd trwy y Tabernacl, a siars i wneud pob peth yn ol y portread, yn arddangosiad o drefn bywyd dyn ar y ddaear hefyd. Nid amcan bywyd yw bod yn oludog yn y byd, yn enwog, nac yn esmwyth arnom, ond bod yn ddynion byw a gweithgar trwy holl raddfeydd bodolaeth, yn un a'r bydysawd, oddi ar ufudd-dod i'r Dyn Anfeidrol. "Swm y cwbl a glybuwyd yw, ofna Dduw, a chadw ei orchymynion;

canys hyn yw holl ddyled dyn" (Preg. xii, 13); neu hyn yw dyn, sef "Dyn perffaith at fesur oedran cyflawnder Crist." Dyn cyflawn yn unrhyw fyd sydd orlawn o *feddyliau goruchel*, a *gwaith gostyngedig*. Gorlawn yw efe o feddyliau am Dduw a thragwyddoldeb. Edrycha i fyny yn llawn llygaid, esgyna i'r uchelder, eheda ar adenydd yr ysbryd, ac eto rhodia yn iselder gostyngeiddrwydd. Dau beth mawr mewn bywyd duwiol, fel yn y byd naturiol yw—*Pellder* ac *agosrwydd*. *Pellder*—tu draw i'r gorwel, dros y mor, uwchlaw y cymylau, fry i fro y ffurfafen; myfyrdodau y dyn perffaith hefyd a'i cluda tu draw i orwelion amser, tu hwnt i forlif byd, uwchlaw cymylau a ffurfafenau natur, i uchelion ac eangderau y byd a ddaw; ac eto, byw yw i'r gwaith yn ei ymyl bob dydd. Golwg fawreddus a defnyddiol sydd ar fywyd fel hyn—dyn ar ei aden a dyn ar ei draed. Am y cerubiaid y dywedir, "Ac yr oedd dwylaw dyn odditan eu hadenydd" (Ezeciel i, 8). Mor rhyfedd yw adenydd adar; adenydd y wenol chwim; adenydd y wylan wen uwch tonau'r lli'; adenydd yr uchedydd yn chwareu fry ar gân yn y wawr blygeiniol; adenyddd hyfryd y paun wedi eu paentio fel yr enfys; adenydd cryfion yr eryr, yn codi o'r Alpau i ymgolli yn y pellder clir digwmwl. Ond beth am adenydd cerub, adenydd angel neu ddyn perffaith yn ehedeg yn nghanol y nef, a'r Efengyl dragwyddol ganddo? "Y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd a adnewyddant eu nerth; ehedant fel eryrod; rhedant, ac ni flinant; rhodiant ac ni ddiffygiant" (Esaiah xl, 31). Y mae pob gwir ddyn fel yr eryr ac fel yr angel, ar ei aden ac ar ei draed.

Fry, fry, mae'n byw fy Arglwydd Dduw,
A dysglaer lu angylaidd fry,
Ag uchel lef a'u molant Ef.

Mae'n edrych arnaf fi a thi,
A'r nos fel dydd i'w lygaid sydd;
Pob peth a wnawn, mae'n gofio yn llawn.

Heb garu'r gwir—ei gyfraith bur,
Nis gallaf fyw fry gyda Duw,
Na dysgu can y dyrfa lân.

Fy nghorph i'r pridd ddychwel rhyw ddydd,
Ond gad i mi ehedeg fry,
I wel'd dy wedd mewn perffaith hedd.

N. R.

5. Dengys yr angen am barhad diddiwedd y daearfydoedd. Y mae bodolaeth, cynydd, a pharhad y nefoedd fel un Dyn Mawreddog, yn dangos yr angen am barhad yr hil ddynol ar y daearfydoedd. Y rhai a gredant am ddyfodiad yr Arglwydd a'r farn ddiwedaf, fod pob peth y pryd hwnw i ddarfod yn y nefoedd uchod, ac ar y ddaear isod, credant hefyd fod yr hil ddynol o hyny allan i ddarfod. Tywyllwch ac anghyfanedd-dra sydd yn canlyn y fath ofergoel. Ond y pery y bydoedd, ac y pery yr hil ddynol arnynt, a brofir gan y pethau canlynol: (a) *Yr hil ddynol yw sail y nefoedd.* Dibyna y nefoedd ar y ddaear, a dibyna yr angylion ar ddynion. Y mae yr holl greadigaeth yn un a'i gilydd, fel un gadwyn unol o'r dechreu i'r diwedd; nis gall y byd ysbrydol fodoli heb y byd naturiol, na'r byd naturiol heb y byd ysbrydol; nis gall y nefoedd angylaidd fodoli heb yr hil ddynol, na'r hil ddynol heb y nefoedd angylaidd; cynorthwyant eu gilydd a gwnant un. Y mae angylion ac ysbrydion yn serchiadau dyn. Y mae pob meddyliau a theimladau da mewn dyn yn ymeangu i'r nefoedd, ac yn uno yr enaid a'r angylion, er cysur a chymorth i'r nefoedd. Buasai y nefoedd heb ddynion da ar y ddaear, fel ty heb sylfaen. (b) *Yr hil ddynol sydd fagwrfa i'r nefoedd.* O'r hil ddynol y mae y nefoedd o'r dechreuad, ac o'r hil ddynol y cynydda yn dragywydd. Gall yr hil ddynol ddarfod o un ddaear, yr hyn a gymer le pan ysgara y trigolion eu hunain oddi wrth yr Arglwydd a'r nefoedd. Ond pe darfyddent ar un ddaear, parhaent ar ddaearfydoedd eraill. Buasai yr hil ddynol wedi darfod oddi ar y ddaear hon, oni buasai i'r Arglwydd ddyfod i'r byd, a dwyfoli ei Ddynoliaeth ar y ddaear; ac hefyd roddi y Gair yn gyfrwng undeb rhwng dyn a'r nefoedd. Tybia llawer fod yr angylion wedi eu creu yn y nefoedd, a'u bod o rywogaeth wahanol i ddyn, ac mai angel goleuni wedi syrthio yw satan, neu y diafol. Y fath gyfeiliornad a amgylcha yr enaid a'r fagddu. Nid oes un yn y nefoedd a grewyd yn angel yno, nac un satan neu ddiafol yn uffern, a grewyd yn angel goleuni, ac a syrthiodd o'r nefoedd. Ond o'r hil ddynol y mae pawb sydd yn y nefoedd ac yn uffern. Fod y nef angylaidd o'r hil ddynol sydd amlwg wrth ystyried fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw; delw Duw yw delw angel hefyd. Y mae meddyliau dynion ac angylion yn debyg i'w gilydd. Myfyriant yr un Gair, credant yr un athrawiaethau, ac ufuddhant i'r un gorchymynion. Dynion wedi eu perffeithio yw yr angylion: "Canys nis gallant farw mwy, oblegyd cydstad ydynt a'r angylion; a phlant Duw ydynt gan eu bod yn blant yr adgyfodiad" (Luc xx, 36). (c) *Bydd y nefoedd ar gynydd tragwyddol.* Y mae eang-

derau y nefoedd y fath fel nas gellir eu llanw i dragwyddoldeb. Ychydig yw yr angylion eto i'r hyn fyddant. Trwy gynydd mewn rhif, a chynydd meddyliau angylaidd, bydd y nefoedd o hyd yn cynyddu mewn perffeithrwydd a phrydferthwch. Y dragwyddoldeb; a'r nefoedd angylaidd yw dyben yr holl greadigaeth, am mai dyben bodolaeth yr hil ddynol yw. Ystyriwn yn y goleu hwn mor bwysig yw bywyd cyfiawn, er mwyn yr hil ddynol ar y ddaear, yn y daearfydoedd, ac yn y byd angylaidd, ac mor angenrheidiol yw parhad anorphenol y bydysawd.

6. Dengys allu a phwysigrwydd anfeidrol y Gair. Y mae ystyr driphlyg i'r Gair addasedig i'r tair nefoedd. Yr ystyr gyntaf yw yr ystyr ysbrydol a moesol, hon sydd i'r nefoedd gyntaf neu isaf; yr ail ystyr yw yr ystyr nefol ac ysbrydol, hon sydd i'r ail nefoedd neu y ganol; a'r drydedd ystyr yw yr ystyr ddwyfol a nefol, hon sydd i'r drydedd nef, neu y nef fwyaf mewnol. Canys y mae y Gair oddi wrth yr Arglwydd, a'r Arglwydd ynddo yn disgyn trwy y tair nefoedd i'r ddaear, ac yn addasedig i bob nefoedd, i bob angel, ac i bob dyn. Darllenir y Gair bob dydd gan yr angylion, a phregethir o hono fel ar y ddaear; oblegyd y gwirionedd dwyfol ei hun yw y Gair, y ddoethineb ddwyfol, yn deilliaw o'r Arglwydd fel haul y nefoedd, ac yn ymddangos yno yn oleuni. Gan fod y Gair yn ei ddisgyniad o'r Arglwydd yn addasedig i'r tair nefoedd, a'r tair nefoedd yn unedig a'u gilydd trwyddo, trwyddo hefyd y mae y nefoedd yn unedig a'r hil ddynol ar y ddaear, i'r hon y mae ystyr lythyrenol y Gair, sef yr ystyr naturiol, yr hon yw sail a chynwysydd yr ystyron triphlyg eraill.

7. Dengys mor hyfryd yw ymadael o'r corph i'r byd ysbrydol. Trwm mewn amryw foddau yw meddwl am ymadael byth a'r byd; colli y cread gweledig oll a'i swynion; colli y corph a'i bleserau; myned trwy loesion yr ymddatodiad; gwynebu dirgelwch mawr y dyfodol wrthym ein hunain; gadael ein hanwyliaid ar ol; teimlad o lygredd ac euogrwydd. Ond cilia pob tristwch oddi wrth y cywir galon, trwy wybod y cant trwy farw fyned i ganol dynion fel hwy eu hunain i feddu teimlad y Sunamees yn oes oesoedd; "Yn nghanol fy mhobl yr ydwyf fi yn trigo" (II Bren. iv, 13). Prif fwyniant bywyd yn y byd hwn yw, byw gyda dynion diniwed a da. "Wele, mor ddaionus, ac mor hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd" (Salm cxxxiii, 1). Prif boen bywyd yw byw yn mysg dynion drwg. "Gwae fi, fy mod yn preswylio yn Mesech, yn cyfaneddu yn mhebyll Cedar. Hir y trigodd fy enaid gyda'r hwn oedd yn casau tangnefedd" (Salm cxx, 5, 6).

Dyma yr olwg druenusaf ar uffern: bod yn ddyn melldigedig gyda dynion melldigedig y bydoedd. Ond myned yn ddyn bendigedig i blith dynion bendigedig, yw myned i'r nefoedd. Enbyd fuasai y byd mwyaf nefol, pe yn bosibl, heb ddynion. Rhodio paradwys heb weled dyn; chwilio yr holl drigfanau heb gael dyn; clywed dwndwr didrai tragwyddoldeb heb lais tad na mam, na gwr na gwraig, na mab na merch, na phlentyn bach! Yr unigedd ofnadwy fuasai waeth nag uffern. Megis Alexander Selkirk ("Robinson Crusoe") ar Ynys Juan Fernandez, yn teimlo ei galon yn toddi wrth weled y cwmni dynol olaf yn myned o'r golwg yn y llong. Ond, Haleluia! am oleuni y Dyn Anfeidrol trwy y Dyn Mawreddog yn Eglwys Philadelphia, yn dangos mai myned i'r nefoedd yw myned i fod yn ddyn perffaith, yn un a holl ddynion perffaith y bydysawd, yn myned ar eu gwell am dragwyddoldeb. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau."

Yn niwedd oes, yn awr marwolaeth,
Pan yma'n dihoeni mewn ingol alaeth,
Yr Arglwydd Ei Hun fydd fy unig obaith.

Pan anghofia'r ewyllys ei phenaf nod,
Pan gymyla y meddwl clir ei glod,
Pan dderfydd fy ymdaith is y rhod.

Pan mae'r galon yn llesg a'r llygaid yn cau
Ar bob peth byd a bywyd brau,
Pan mae priod a chyfaill yn pellhau.

Pan ddaw'r deigryn olaf dros fy ngrudd,
Pan ddistawa'r olaf ochenaid brudd,
Angel yr Arglwydd yn gymhorth fydd.

Pan eheda ymaith y fywiol ffun,
Pan hawlia y bedd ei eiddo ei hun,
O! am frenhinol goron gun,—
Bythol fywyd mwy.

N. R.

XXI.—AGORIAD I ENW NEWYDD YR ARGLWYDD FEL Y JEHOVAH.

Nid yw enw unrhyw berson yn golygu ei enw yn unig, ond hefyd ei nodweddion. Dywed Swedenborg fod hyn yn amlwg yn y byd ysbrydol, gan nad oes neb yno yn cadw yr enw oedd arno yn y byd hwn, megis ei enw bedydd oddi wrth ei rieni; ond fod pawb yn cael eu henwi yno yn ol eu cymeriad: yr angylion a gant eu henwi yn ol eu bywyd ysbrydol a nefolaidd, a'r rhai hyn hefyd feddylir yn ngeiriau yr Arglwydd pan ddywed: "Ond yr hwn sydd yn myned i mewn trwy y drws, bugail y defaid ydyw. I hwn y mae y drysawr yn agoryd, ac y mae y defaid yn gwrando ar ei lais ef; ac y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw, ac yn eu harwain hwy allan" (Ioan x, 2, 3). "Y mae genyf ychydig enwau, ie, yn Sardis, y rhai ni halogasant eu dillad . . . Yr hwn sydd yn gorchfygu, . . . mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, Jerusalem Newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i: ac mi a ysgrifenaf arno ef fy enw newydd i" (Dat. iii, 4, 12). Nid enw dau berson yn y nefoedd ydyw Gabriel a Michael, ond wrth yr enwau hyn y golygir pawb yn y nefoedd sydd yn mwynhau y ddoethineb nefol am yr Arglwydd, ac yn ei addoli Ef. Y mae enw yr Arglwydd yn mhob ystyr i'w barchu. "Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer, canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw Ef yn ofer" (Exodus xx, 7). Wrth enw yr Arglwydd y golygir, nid yn unig ei enw, a'r enwau sydd arno, ond hefyd pob peth ddysgir am dano yn y Gair, ac yn neillduol, Dwyfoldeb ei Ddynoliaeth, ac mai y Jehovah yw ei Ddynoliaeth Ddwyfol Ef, megis y dysg y rhanau canlynol: "O Dad, gogonedda dy enw. Yna y daeth llef o'r nef, Mi a'i gogoneddais, ac a'i gogoneddaf drachefn" (Ioan xii, 28). "A pha beth bynag a ofynoch yn fy enw i, hyny a wnaf: fel y gogonedder y Tad yn y Mab. Os gofynwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf" (Ioan xiv, 13, 14). Y Jehovah yn y Ddynoliaeth Ddwyfol olygir hefyd wrth "Ein Tad yr Hwn wyt yn y nefoedd, Sancteiddier dy Enw," yn Ngweddi yr Arglwydd; ac wrth "Fy Enw Newydd i" yn y llythyr at

Eglwys Philadelphia. Trown i edrych gyda pharchedig ofn ar y Jehovah yn y Ddynoliaeth Dwyfol mewn saith agwedd ddatguddiedig yn y Gair:—

I. JEHOVAH. II. JEHOVAH-JEHOVAH. III. JEHOVAH-JIREH. IV. JEHOVAH-NISSI. V. JEHOVAH-TSIDKENU. VI. JEHOVAH-SHALLOM. VII. JEHOVAH-SHAMMAH.

1. JEHOVAH. Enw neillduol yn y Gair perthynol i'r Duwdod yw Jehovah, yn arwyddo y Bod sydd yn bodoli o hono ei hun, ac yn rhoddi bodolaeth i eraill. Teimlai yr Iuddewon y fath barch i'r enw hwn fel na wnaent ei lefaru, felly, collwyd y ffordd i'w seinio. Credant fod pob un all seinio yr enw Jehovah yn iawn, yn sicr o gael eu gwrando gan Dduw. Yr unig Dduw a elwir yn Jehovah o'i hanfod, am mai Efe yn unig sydd, oedd ac a fydd: y Cyntaf a'r Diweddaf, y Dechreu a'r Diwedd, yr Alpha a'r Omega. "Ydwyf yr hyn Ydwyf" (Exodus iii, 14). Efe yw tarddiad pob peth, ac Efe yw yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a ddywed am dano ei Hun yn ei Ddynoliaeth ogoneddedig, "Mi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Hollalluog" (Dat. i, 8, 11). Gwir ac Anfeidrol Ddyn yw y Jehovah, sylwedd ei hun, ffurf ei hun, y Ffurf Ddynol; yr angylion sydd yn ei ffurf Ef, a dynion hefyd pan yn ymhyfrydu cael eu harwain ganddo. Yna y gwelant y Jehovah yn yr Iesu yn ei oleu ei hun, sef yn ngoleu y Gair, lle ei datguddir. Nis gall y Jehovah greu neu gynyrchu Jehovah, neu Dduw arall. Am hyny, y gred mewn Tri Pherson Dwyfol a ddinystria y syniad am undod y Duwdod; dinystria hefyd ysbrydolrwydd rheswm. Y fath goel a wna ddyn yn fwystfil, a'r Eglwys yn Deyrnas y tywyllwch. Y plant a ddysgir fel hyn a amddifedir o'u bwyd a'u bywyd; ond y rhai a addolant y Jehovah yn y Ddynoliaeth Ddwyfol, fel Un Person, Creawdwr, Prynwr, ac Iachawdwr, a gant fwyd a bywyd tragwyddol. Dylai dyn, gan hyny, sychedu am y wir wybodaeth am y Jehovah, a'r gwybodaethau a'i cynorthwya i esgyn i'r goleuni, megis y rhai canlynol: Fod byd ysbrydol, preswylfa angylion ac ysbrydion drwg a da; fod haul yno a'i sylwedd yn gariad dwyfol pur, y Jehovah yn ei ganol, goleuni a gwres yn deilliaw o hono, yn ffurfio ewyllys a deall angylion a dynion; fod gwahaniaeth gwahaniadol rhwng ysbrydol a naturiol; fod tri gradd o ddoethineb a chariad yn y Jehovah, yn y nefoedd angylaidd, ac yn mhob dyn, a bod y rhai hyn oll o'r Jehovah ei hun. Y mae y gwybodaethau hyn yn awr wedi eu datguddio, a gellir eu

cydmaru i risiau ysgol Jacob, "Yn sefyll ar y ddaear a'i phen yn cyrhaeddyd i'r nefoedd" (Gen. xxviii, 12). Galarus yw fod dynion yn aros yn awyrgylchau a ffurfiau natur, yn anwybodus o'r Jehovah, ac yn addoli delwau a duwiau lawer.

2. Jehovah-Jehovah. "A'r Arglwydd a aeth heibio o flaen Moses, ac a lefodd, Jehovah, Jehovah, y Duw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd, yr Hwn sydd yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd a chamwedd a phechod, a heb gyfrif yr anwir yn gyfiawn" (Exodus xxxiv, 6, 7). "Jehovah, Jehovah, y Duw trugarog," a arwydda y Duwdod hanfodol, y Ddynoliaeth Ddwyfol, a'r Dylifiad Dwyfol, sef y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, y Trindod yn yr Arglwydd fel ffynonell pob daioni, ac yma yn neillduol pob trugaredd. Trugaredd yw arfer tosturi, tynerwch, ac ewyllys da tuag at drueiniaid na haeddant drugaredd, ac yn neillduol tuag at rai yn haeddu gwg a chosb. Trugaredd y Jehovah a gyfyd o berffeithrwydd ei natur. "Nid oes neb da ond un, sef Duw." "Duw Cariad yw." Dullweddiad o'i gariad a'i ddaioni yw ei drugaredd. Nis gall beidio trugarhau. Ei drugaredd a wena yn hael ar bawb drwg a da, fel haul y nef. "Trugaredd yr Arglwydd sydd ar ei holl weithredoedd." "Trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb." Y Jehovah ei hun yw ei drugaredd. Preswylia mewn trugaredd a thrwy drugaredd yn yr holl greadigaeth. Ei le a berthyn i bob peth yr edrychwn arno. Ei babell sydd gan yr haul, a phabell fychan mewn cydmariaeth i'r eangderau. Ond anherfynol yw maes trugaredd Duw, a'i ffordd fawr sydd o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Un genhedlaeth a â ymaith, a chenhedlaeth arall a ddaw, ond byw o oes i oes yw trugaredd. Ni welir ei hangladd byth. Pe trengai trugaredd, ymledai trancedigaeth trwy y bydysawd. Hirymarhous a hwyrfrydig i ddig yw y Jehovah, o herwydd ei drugaredd. Ei drugaredd a ddaw i'r golwg mewn cosbau a barnau fel heulwen yn goreuro y cwmwl du, ac fel yr enfys ar ddydd gwlawog. Mewn trugaredd yr oeda yn hir cyn tywallt y farn a fygythia; rhoddi rhybudd ar ol rhybudd cyn y daw. Cododd Noah i rybuddio y cynddiluwiaid am chwech ugain mlynedd cyn dyfod y diluw; anfonodd Joseph i'r Aipht i ragfynegi y newyn; cododd brophwyd ar ol prophwyd i ragddywedyd am y caethgludiad i Assyria a Babilon. Pan ddaw y gosb hefyd, bydd yn ysgafnach na'r haeddiant. "Nid yn ol ein pechodau y gwnaeth Efe i ni; ac nid yn ol ein hanwireddau y talodd Efe i ni. Canys cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear, y rhagorodd ei drugaredd Ef ar y rhai a'i hofnant Ef"

(Salm ciii, 10, 11). Nid oedd y lindys, na'r ceiliog rhedyn, na phryf y rhwd yn difa y cyfan. Graddol y ciliai gwynfydau y genedl, fel dilead y cwmwl, ac fel diflaniad y gwlith. Pan ymadawodd y gogoniant o'r deml, aeth yn gyntaf oddi ar y cerubiaid, wedi hyny hyd riniog y ty, wedi hyny hyd ganol y ddinas, wedi hyny Efe a ymddyrchafodd oddi ar ganol y ddinas, ac a safodd ar y mynydd sydd o'r tu dwyrain i'r ddinas (Ezeciel ix, 3; x, 4, 18; xi, 22, 23). Amlygir trugaredd y Jehovah hefyd mewn dynion. Er cymaint y drygau, y cam, a'r creulonderau, ceir engreifftiau ardderchog o drugaredd y Jehovah yn gweithredu mewn dynion tuag at drueiniaid. Ond yn yr ymgnawdoliad a'r Ddynoliaeth Ddwyfol y datguddir trugaredd y Jehovah yn benaf. Nis gall y meddwl gael syniad am Dduw anfeidrol ac anweledig. Pwy, wrth chwilio all gael gafael ar Dduw fel ysbryd diffurf? Y meddwl a grwydra ac a ymwibia yn ofer am dano; ond Duw fel Dyn a ddaw yn agos atom, ac yn hawdd i feddwl am dano. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb: Duw a ymddangosodd yn y cnawd" (I Tim. iii, 16). Nis gall dyn nac angel oddef presenoldeb y Jehovah fel y mae ynddo ei hun. "Ein Duw ni sydd dan ysol." Yn ei drugaredd, Efe a ddofa ac a gymedrola ei Bresenoldeb trwy len ei Ddynoliaeth, ac awyrgylchau cyfaddas. Ymagora o'n blaen fawredd trugaredd yn Iesu Grist. "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd." Bod yn gyfoethog yw gorlenwad, meddu mwy na digon. Gorlifiad y golud o'r natur ddwyfol yw Creadigaeth, Prynedigaeth, ac Iachawdwriaeth. Beth yw fod Duw yn gyfoethog? Gwahanol iawn yw golud brenhin a golud deiliad cyffredin, am fod golud un yn ateb i'w renc a'i sefyllfa. Gorfoleddwn yn ngoludoedd trugaredd y Jehovah yn y Ddynoliaeth Ddwyfol. Trugaredd yw ein hangen, a thrugaredd yw ein cysur, a thrugaredd sydd yn melusu bywyd. A ydym mewn pryder am ein bywyd yn y gorphenol? Gwrandawn ar lais yr ysbryd fel can angel yn dywedyd: "Duw, yr Hwn sydd gyfoethog o drugaredd." A ydym mewn trallod am achos Duw yn y byd? "Clodforwch yr Arglwydd, canys da yw, o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd. Clodforwch Dduw y duwiau, o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd. Clodforwch Arglwydd yr arglwyddi, o herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd. Yr Hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau, canys ei drugaredd sydd yn dragywydd" (Salm cxxxvi, 1-26). A ydym mewn gofid am y rhai ydym yn garu? Yr ydym wedi gweddio llawer drostynt, heb arwyddion o fendith, ond y mae yr Arglwydd yn gyfoethog o drugaredd. A ydym mewn ofnau am y meirw? Ymadawsant yn anmherffaith, heb

nodau addfedrwydd, eu diffygion a'u camweddau sydd yn ein cof; ond cofiwn hefyd fod Duw yn gyfoethog o drugaredd. A ydym yn arswydo y dyfodol? Y mae cyfyngderau o'n blaen, ingoedd cystudd, angau, barn, a thragwyddoldeb. Yr ystyriaeth a grea ddaeargryn yn ein henaid, ond "Ymddiriedaf yn nhrugaredd Duw byth ac yn dragywydd." Y mae y byd hwn a'r byd a ddaw wedi eu cyflunio, eu dodrefnu, eu llawrleni, a'u perffeithio a thrugaredd. Goleuadau trugaredd yw yr haul, y lloer, a'r ser. Yn awyr trugaredd yr anadlwn, ffynonau trugaredd a yfwn, ac ar fyrddau trugaredd y bwytawn. Breichiau trugaredd a'n derbyniodd o'r bru; ei llaw fu yn siglo ein cryd, ac sydd beunydd yn ein harwain ar ein pederindod; ei bysedd tirion hi a gaua ein llygaid yn nhawelwch angau; ac yn ei chol y cludir ni i'r trigfanau dedwydd. Trugaredd oedd hyder y patriarchiaid, awen y prophwydi, telyn y salmydd, ymffrost yr apostolion, a gogoniant Tywysog Tangnefedd. Trugaredd yw ple yr edifeiriol, Hosanna! y sant, a Haleluia! yr angel. "Jehovah, Jehovah, y Duw trugarog a graslawn."

3. JEHOVAH-JIREH. Dyma yr enw roddodd Abraham i'r mynydd lle yr ymddangosodd angel yr Arglwydd i'w atal i aberthu Isaac, ac a ddarparodd hwrdd yn ei le. "Ac Abraham a alwodd enw y lle hwnw, Jehovah-Jireh" (Gen. xxii, 14). "Duw a edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm." Darparwyd yn brydlon ac addas er dadblygu, profi, a dangos ffydd. Y rhai sydd yn byw yn nghariad a gwirionedd y Dyn Anfeidrol, gallant alw yr enw mawr Jehovah-Jireh ar bob man ac ar bob peth perthynol iddynt. Gallant alw Jehovah-Jireh ar yr addoldy lle y maent yn addoli, ar y ty lle y maent yn byw, ar eu bwyd ac ar eu dillad, ar eu gwaith ac ar eu cyflog, ar eu temtasiynau ac ar eu treialon, ar eu gwely angau, ac ar eu hadgyfodiad i anfarwoldeb. Holl helyntion bywyd i'w manylion eithaf sydd werthfawr iddynt hwy. Nis gall fod awel groes nac anlwc yn eu hanes. Y Dyn Anfeidrol, yn mhob tywydd ddarpara yn hael ar gyfer eu bywyd tragwyddol a thymhorol. Hynod hefyd yw y darpariadau ar gyfer cyfyngderau neillduol. Dangoswyd yr hwrdd i Abraham pan oedd ar ymaflyd yn y gyllell i ladd ei fab. Datguddiwyd ffynon ddwfr i Agar pan ydoedd wedi cilio oddi wrth ei phlentyn am na allasai edrych arno yn marw (Gen. xxi, 16-19). Pan oedd cynllun llofruddiog Haman yn addfed yn erbyn yr Iuddewon, y noson hono cwsg y brenhin a giliodd (Esther vi, 1). Pan y mae y pedwar corn yn barod i gornio Judah, y mae y pedwar saer yn barod i'w tarfu (Zechariah i, 18-21). "Yn mynydd yr

Arglwydd y gwelir." "Hauwyd goleuni i'r cyfiawn, a llawenydd i'r rhai uniawn o galon" (Salm lcvii, 11). "Na thrallodder eich calon, yn Nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau; a phe amgen, mi a ddywedaswn i chwi. Yr wyf yn myned i barotoi lle i chwi. Ac os myfi a af, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun; fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd" (Ioan xiv, 1-3). "Ni welodd llygad, ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant Ef. Eithr Duw a'i heglurodd i ni trwy ei ysbryd" (I Cor. ii, 9). "Yn mynydd yr Arglwydd y gwelir."

Murmura rhai pan mae yr awyr yn glir,
Yn ddysglaer a phur uwch ben,
Os ymddengys un brycheuyn du
Yn eangder glas eu nen;
Ac mae rhai yn llawn diolchgarwch byw,
Os daw un tywyniad cu,
Un pelydr o hael drugaredd Duw,
I oleuo eu hwybren ddu.

Yn eu gwych balasau, gofyna rhai
Mewn balch anfoddog dôn,
Paham mae bywyd mor wag, mor frau,
Heb ddim dymunol i'w fwynhau,
Ond tristwch, a gwae, a phoen?
Ac yn llawn edmygedd llon mae rhai,
Mewn tlotaf dai i'w cael,
Yn canmol y cariad didrai, dilyth,
Y cariad nad yw yn blino byth,
Sy'n darparu iddynt mor hael.

N.R.

4. JEHOVAH-NISSI, neu Jehovah yw fy Maner,—enw a roddodd Moses ar yr allor a gododd yn yr anialwch, er cof am fuddugoliaeth Josua a'r Israeliaid ar yr Amaleciaid. "A Moses a adeiladodd allor, ac a alwodd ei henw hi JEHOVAH-NISSI; canys efe a ddywedodd, o herwydd tyngu o'r Arglwydd, y bydd i'r Arglwydd ryfela yn erbyn Amalec o genhedlaeth i genhedlaeth" (Exodus xvii, 15, 16). Y mae Amalec yn arwyddo cyfeiliornadau yn tarddu o ddrygau mewnol, yn ymosod ar wirioneddau yn tarddu oddi ar ddaioni mewnol. Y rhai sydd yn y drygau hyn a elwir *genii*, y rhywogaeth waethaf o gythreuliaid. Nid yw y *genii* anfad byth yn ymosod yn amlwg ac agored, ond pan welont fod dyn

yn ymollwng, y maent ar unwaith yn barod wrth law, ac yn gwthio dyn i syrthio. Hyn sydd yn cael ei arddangos gan Amalec yn ymosod ar Israel, a'r Jehovah yn y Ddynoliaeth Ddwyfol yn eu concro trwy y gwirionedd, sydd yn cael ei arddangos gan Josua a'r Israeliaid. Jehovah-Nissi, y Jehovah yw fy Maner yn y brwydrau a'r uffernoedd.

5. JEHOVAH-TSIDKENU, sef Jehovah ein Cyfiawnder. "Yn y dyddiau hyny, ac yn yr amser hwnw, y paraf i Flaguryn Cyfiawnder flaguro i Dafydd: ac Efe a wna farn a chyfiawnder yn y tir. Yn y dyddiau hyny, Judah a waredir, a Jerusalem a breswylia yn ddyogel; a hwn yw yr enw y gelwir Ef, yr Arglwydd ein Cyfiawnder" (Jer. xxxiii, 15, 16). Darluniad sydd yma o Eglwys Newydd yn cael ei sefydlu gan yr Arglwydd yn ei ddyfodiad, yn ei garu Ef fel y cyfiawn, ac yn cadw ei Air, sef deddf cyfiawnder. Y Jehovah yn y Ddynoliaeth Ddwyfol yw cartrefle, patrwn, a pherffeithrwydd pob cyfiawnder.

6. JEHOVAH-SHALLOM, sef y Jehovah a roddo Heddwch. Pan oedd Gedeon mewn gofid am fod Israel yn cael eu gorthrymu gan y Midianiaid, ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo, "A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Tangnefedd i ti; nac ofna; ni byddi farw. Yna Gedeon a adeiladodd yno allor i'r Arglwydd, ac a'i galwodd Jehovah-Shallom." Pan fyddom yn adnabod y "Jehovah" yn y Ddynoliaeth Ddwyfol, yn derbyn ei drugaredd fel y "Jehovah, Jehovah y Duw trugarog a graslawn," yn ymddiried yn ei ragluniaethau fel y "Jehovah-Jireh," yn ymladd dan ei faner, fel y "Jehovah-Nissi," ac yn byw yn ol ei orchymynion cyfiawn fel "Jehovah-Tsidkenu," yna Efe a fydd yn "Jehovah-Shallom" i ni, ein Tangnefedd a Rhoddwr Heddwch. Efe a gyfyd ein bryd a'n myfyrdod uwchlaw y byd, a'r corph, ac a geidw ein hysbryd gyda'r angylion, mewn diniweidrwydd yn foddlawn ar y Dyn Anfeidrol yn dragwyddol dangnefeddus ynddo. Tangnefedd dwyfol a drig ynddo Ef, yn deilliaw o undeb y Jehovah a'r Ddynoliaeth Ddwyfol. O hono Ef y daw tangnefedd i angylion a dynion da, trwy feddu o honynt yr holl rinweddau o hono Ef yn un a'u gilydd ac yn un ag Ef. "Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd: fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi; nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi" (Ioan xiv, 27). "Y pethau hyn a ddywedais wrthych fel y caffech dangnefedd ynof" (Ioan xvi, 33). Gan mai yn yr Arglwydd y mae tangnefedd, ac o hono Ef yn y nef a'r ddaear, a bod pleser a llawenydd yn deilliaw o hono, y cyfarchiad yn yr hen amser oedd: Tangnefedd i chwi. "Ac i ba dy bynag yr eloch i mewn, yn gyntaf dywedwch,

"Tangnefedd i'r ty hwn. Ac os bydd yno fab tangnefedd, eich tangnefedd a orphwys arno" (Luc x, 5, 6). A'r Arglwydd pan ymddangosodd i'r Apostolion, a ddywedodd: "Tangnefedd i chwi" (Ioan xx, 19, 21, 26). "Gan fod tangnefedd yn arwyddo undeb y Duwdod Hanfodol a'r Ddynoliaeth Ddwyfol yn yr Arglwydd, a chysylltiad yr Arglwydd a'r nefoedd a'r Eglwys, ac a holl drigolion y nefoedd, ac a phawb sydd yn derbyn yr Eglwys, am hyny, mewn cof am y pethau hyn, y sefydlwyd y Saboth, y cafodd ei enwi yn ddydd gorphwysfa, neu dangnefedd, a'i wneud yr arwyddlun mwyaf sanctaidd o'r Eglwys; ar gyfrif hyn y galwodd yr Arglwydd ei hun yn Arglwydd ar y Saboth (Math. xii, 8; Marc ii, 27, 28; Luc vi, 5). JEHOVAH-SHALLOM, yr Arglwydd a roddo heddwch.

7. JEHOVAH-SHAMMAH, neu yr Arglwydd sydd yno. Wedi i Ezeciel ddarlunio y ddinas a thy yr Arglwydd, diwedda trwy ddywedyd: "Ac enw y ddinas o'r dydd hwnw allan fydd, Yr Arglwydd sydd yno" (Ezeciel xlviii, 35). Yn y Datguddiad hefyd y dywedir: "Wele, y mae pabell Duw gyda dynion" (xxi, 3). Pabell Duw, sef y Tabernacl yn yr anialwch, oedd yr adeilad rhyfeddaf ar y blaned: Preswylfa y Jehovah ydoedd, a chanolbwynt addoliad. Y Tabernacl ydoedd haul, a lleuad, a ser y gwersyll. Yr oedd lle pob llwyth yn cael ei drefnu yn ei berthynas a'r Tabernacl. Pan ei symudid gan yr offeiriaid a'r Leviaid, y bobl a ganlynent. Pan safai, y bobl a safent. Yr oedd yn adeilad drudfawr, ogoneddus, ac yn ddangoseg o roddion gwirfoddol y bobl. Cyfranent heb orfodaeth, heb hocran, heb hudo, ac heb un o ffyrdd troellog a thwyllodrus crefydd yr oes hon i gyrhaedd y llogell. Portread o'r pethau nefol oedd y Tabernacl, ac arwydd rhyfeddol o bresenoldeb Duw. Yr oedd yn arwyddlun hefyd o Ddynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd, o'r Gair, o'r nefoedd, o'r bydysawd, o'r Eglwys, ac o ddyn. Y mae Tabernacl yr Arglwydd yn yr holl ystyron hyn gydag Eglwys Philadelphia. "Yr Arglwydd sydd yno." *Y mae Eglwys Philadelphia gyda'r Arglwydd yn Mhabell y Ddynoliaeth Ddwyfol.* Y Tabernacl yn ei dair rhan sydd arwyddlun triphlyg o'r Arglwydd fel Tad, Mab, ac Ysbryd Glan; neu fel Cariad, Doethineb, a Defnyddioldeb. Y mae tri gradd anfeidrol ac anghreuedig yn yr Arglwydd, oblegid mai cariad, ei hun, doethineb ei hun, a defnyddioldeb ei hun, yw yr Arglwydd; am mai defnyddioldeb yn cael ei gynyrchu trwy ddoethineb yw dyben cariad. Y Cysegr Sancteiddiolaf yw yr Arglwydd o ran ei gariad; y Cysegr o ran ei ddoethineb; a'r Cyntedd a'i amgylchoedd o ran ei ddefnyddioldeb allanol.

Y mae tri gradd meidrol a chreuedig hefyd mewn dyn, yn ei addasu i dderbyn a mwynhau y Presenoldeb a'r Amddiffyn Dwyfol yn holl raddau ei fywyd. Y mae yr holl raddfeydd yn agored gyda dynion y nef a'r ddaear newydd, ac felly y mae eu cymdeithas yn wir gyda'r Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan yn Mhabell y Ddynoliaeth Ddwyfol. Profiad holl aelodau Eglwys Philadelphia yw: "Efe a roes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr Hwn sydd gywir; ac yr ydym yn y cywir hwnw, sef yn ei Fab ef Iesu Grist. Hwn yw y gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol" (I Ioan v, 20). *Y mae Eglwys Philadelphia gyda'r Arglwydd yn Mhabell y Gair.* Y mae y Tabernacl yn arddangos y Gair yn ei dri gradd, sef y nefol, yr ysbrydol, a'r naturiol, ac y mae yr Arglwydd yn bresenol trwy holl raddau neu ystyron y Gair gyda dynion y nef a'r ddaear newydd. Y mae yr Arglwydd yn bresenol gyda hwynt trwy y Gair, am mai Efe yw y Gair, ac am eu bod yn deall y Gair, ei garu, a'i fyw. Trwy ei garu y maent yn nghysegr sancteiddiolaf y Gair; trwy ei ddeall y maent yn y cysegr; a thrwy ei fyw y maent yn y cyntedd a'r amgylchoedd, yn gwneud daioni. *Y mae Eglwys Philadelphia gyda'r Arglwydd yn Mhabell y Nefoedd.* Arddangosir y nefoedd gan y Tabernacl, yr hwn oedd bortread o'r tair nefoedd: y cysegr sancteiddiolaf yn bortread o'r drydedd nef; y cysegr o'r ail nef; a'r cyntedd o'r nef gyntaf. Y mae yr Arglwydd yn bresenol trwy y tair nefoedd gyda dynion y nef a'r ddaear newydd. Y maent trwy y Gair a thrwy ddylifiadau mewn undeb a'r Arglwydd ac mewn cymdeithas a'r angylion. *Y mae Eglwys Philadelphia gyda'r Arglwydd yn Mhabell eu cymdeithas eu hunain.* Y mae y Tabernacl yn arddangos yr Eglwys ar y ddaear, ac hefyd yn arddangos pob cymdeithas o honi. Yn mhob cymdeithas y mae rhai yn y cysegr sancteiddiolaf, eraill yn y cysegr, ac eraill yn y cyntedd, ond oll yn un a'u gilydd, a'r Arglwydd, ac a'r nefoedd. Y mae pob un yn tynu ei faeth a'i gysur o'r Arglwydd, y Gair, a'r nefoedd, yn ol ei hanfod a'i raddfa ei hun, megis y dengys tair teyrnas natur. *Yn y deyrnas fwnawl*, y mae mwnau yn mynwes y ddaear wedi eu trwytho ag aur, arian, a haiarn: pob un o'r rhai hyn—yr aur, yr arian, a'r haiarn, a dŷn allan ei elfen ei hun o'r tarthion a'r sŭddion cuddiedig yn y ddaear. *Yn y deyrnas lysieuol*, gwelir y pren, gyda'i foncyff, canghenau, dail, a ffrwyth, yn sefyll ar ei wreiddyn, allan o'r tir trwy y gwreiddyn. Efe a ddethol ac a dŷn allan nodd mwy cwrs i'r boncyff, i'r canghenau a'r dail, nodd purach i'r bywyn a'r ffrwyth, ond y nodd puraf i'r hadau o fewn y ffrwyth. *Yn y deyrnas*

anifeilaidd, canfyddir mai o'r bwyd wedi ceulo, y gwna y llestri ddethol a galw allan eu gwaed, yr edafedd gewynol, eu sudd, a'r sylweddau sydd yn darddiadau yr edafedd, eu hysbryd anifeilaidd. Felly y mae pob un yn nghymdeithas Eglwys Philadelphia, yn dethol ac yn tynu allan ei gynaliaeth a'i gysur o'r Arglwydd, y Gair, a'r nefoedd, yn bresenol gyda hwynt bob amser, *a chyda phob un o honynt ar ei ben ei hun, am fod pob un o honynt yn dabernacl i Dduw.* "Oni wyddoch chwi mai teml Duw ydych, a bod ysbryd Duw yn trigo ynoch?" (1Cor. iii, 16). Pob un yn Eglwys Philadelphia, y cysegr sancteiddiolaf yw ei galon, y cysegr yw ei ddeall, a'r cyntedd yw ei fywyd allanol; ac y mae yr Arglwydd ynddo ef, a chydag ef o'r mwyaf mewnol i'r mwyaf allanol. Y mae efe wedi ei adferyd i Drefn Bywyd, ac fel yr Arglwydd, y mae efe yn byw a gweithredu yn ol y Drefn, gan eiriol yn ddifrif am adgyfodiad a gogoniant, nid trwy allu bydol, ond trwy nerth Duw; a nerth Duw yn y Ddynoliaeth Ddwyfol nis gall weithredu yn groes i Drefn, am fod Trefn a holl ddeddfau Trefn o hono Ef. Nis gall neb weithredu yn ol Trefn ond o hono Ef. Ei Hollalluawgrwydd Ef sydd yn diwygio ac aileni dyn, a'i wneud yn drigfa iddo ei Hun, gan ei berffeithio a'i harddu bob eiliad o'r dechreuad, ac am dragwyddoldeb, a hyny yn ol deddfau aneirif ac anesgrifiadwy Trefn. Y dyn newydd, neu aelod o Eglwys Philadelphia, gymer ei arwain bob eiliad gan y Dyn Anfeidrol, am fod gwaith anfeidrol yn cymeryd lle ynddo bob eiliad fel pabell Duw; yn ol y portread anfeidrol, symudir pethau anfeidrol o hono, a gosodir pethau anfeidrol ynddo, a hyny yn barhaus ac am byth, ac mewn cysylltiadau anfeidrol ryfedd. *Y mae Eglwys Philadelphia gyda'r Arglwydd, yn olaf, yn mhabell y bydysawd materol.* "Canys ei anweledig bethau Ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod" (Rhuf. i, 20). Y cysegr sancteiddiolaf yw y wybrenau, a'r Shecina yn llewyrchu trwy yr haul, a'r lloer, a'r ser; y cysegr yw y ddaear a'i holl gyflawnder; a'r cyntedd yw y mor mawr llydan, a'r Presenoldeb Dwyfol yn llanw yr oll; a thrwy yr oll, yn llanw synhwyrau a syniadau Eglwys Philadelphia a lluniaeth ac a llawenydd calon. "I ba le yr af oddi wrth dy ysbryd? ac i ba le y ffôaf o'th wydd?" (Salm cxxxix, 7).

D'wed wrth bob dyn fod pob dyn byw,
Yn symud dan nenlen Cariad Duw—
Lletach na'r glas eangder gwiw;
Ac nad yw ing a gofid byd,
Cystudd a galar, ond rhith i gyd,
Ac angau ei hun ni phery o hyd. N. R.

Mewn adolygiad o enw newydd yr Arglwydd fel y Jehovah, yn bodoli o hono ei hun, ac yn rhoddi bodolaeth i eraill, y Drindod, a phob trugaredd ynddo, yn darparu yn brydlon a pherffaith, yn faner i'w fyddinoedd, yn gyfiawnder, yn dangnefedd, ac yn drigianydd tragwyddol gyda'u anwyliaid; mewn adolygiad o'r pethau hyn, nodaf, mor alarus i Eglwys Philadelphia, yr Eglwys sydd yn caru dyn, yw, fod dynion mor ddall a dideimlad i'r Enw Mawr, ac felly mor anghyfiawn a chreulon iddynt eu hunain, ac i'w gilydd. Elfenau mwyaf mewnol y nefoedd ac eglwys y nefoedd ar y ddaear, yw diniweidrwydd a thangnefedd yn deilliaw iddynt yn union-gyrchol o'r Arglwydd; i'r elfenau hyn y deillia trugaredd, a chariad at gyfiawnder, a gelyniaeth at anghyfiawnder. Heddyw, cyduna y teyrnasoedd Cristionogol i fathru diniweidrwydd a thangnefedd y Jehovah, gan wrthod trugaredd, a chariad at gyfiawnder, gan ymhyfrydu yn ynfyd mewn anghyfiawnder, a chreulonderau, fel y prawf eu gwaith yn goddef Prydain i lofruddio y Dutch yn Ne Affrica, er mwyn difodi eu hanibyniaeth a lladrata eu gwlad. Llosgir y tai, newynir y gwragedd a'r plant, lledir anwireddau aneirif, a llwgrwobrwyir anfadion y byd i'r perwyl, er dirfawr foddhad arch-esgobion, esgobion, offeiriaid, pregethwyr a blaenoriaid pob enwad; a'r cenadon yn y byd paganaidd yn un "phalanx" dros yr uffernwaith mwyaf dan haul. Y teyrnasoedd Cristionogol hefyd, a Phrydain yn benaf, sydd yn dal i fyny freichiau y Twrc yn gwneud cyflafanau o'r Armeniaid, ac unant fel carnladron i anfon eu llengoedd i ladd ac ysbeilio yn China. Y mae y bobloedd a'r cenhedloedd oll yn griddfan ac yn gwaedu o herwydd creulonderau y byd Cristionogol. Angylion gwarcheidiol y blaned a giliant rhag crefydd y cledd a'r gelanedd, a phob rhywogaeth o gythreuliaid a gant eu gollwng yn rhydd o'r cadwynau i reibio y byd, tra yr Enw Mawr a'r Gair dan draed, yn benaf gan y rhai a'i cymerant yn eu genau. Y deyrnas hon, teyrnas fel brenhiniaethau Canaan sydd yn ymyl llanw mesur ei hanwiredd, ac fel Rhufain baganaidd, yn cyflymu i'w chwymp. Fel y dywedodd Cobden, "Er cyffroi y bobl o blaid heddwch, rhaid dweud yr holl wirionedd wrthynt am y rhan y maent wedi chwareu yn rhyfeloedd y gorphenol. Nis gellir cyffroi cydwybod y bobl, cyhyd ag y goddefir iddynt ymfoddhau yn y twyll cysurus, eu bod yn genedl heddychlon. Yr ydym wedi bod y genedl mwyaf ymladdgar ac ysbeilgar a fu mewn bod oddi ar ddydd y Llywodraeth Rufeinig. Oddi ar y Chwyldroad yn 1688, yr ydym wedi gwario £1,500,000,000 o arian ar ryfeloedd, heb un o honynt ar ein traethau ein hunain mewn amddiffyniad i'n haelwydydd a'n cartrefi ein hunain." Ond y mae llawer can' miliwn wedi eu gwario i'r un perwyl oddi ar amser Cobden.

"THE COMING DAY."

BRITANNIA YN Y FRAWDLE.

CYHUDDIAD Y COFIADUR.

Britannia! Saf!
Diosg dy darian; dyro i fyny'th gledd,—
Mae Mab y Dyn yn dod i farn.
Pe sachlian genyt, gweddai
I ti guddio'th wisgoedd cochion;
Holl bridd y panwr ni wasanaethai
I gannu'th ddwylaw gwaedlyd di.
Gad iddynt. Beth yw dy amddiffyn?
"Llyfrau Gleision!" "Anrhydedd Lloegr!"
Us i'r tan aniffoddadwy.
Beth eto? "Cwynion Uitlander!"
"Bwystfil yw'r Boer!" "Mae'r wlad yn un!"
"Gwirfoddolwyr o bell!" Felly.
Cymer y Llyfr y tyngaist iddo,
Os meiddi, darllen eiriau'r "Mynydd"—
P'un o'r gwynfydau elli di hawlio?
Wyt "bur o galon, mwyn, trugarog?"
Oes gwynfyd i gyflegrau?
Bendith i'r bidog? A yw
Tan-belenau yn gysegredig?
Dangos warant Crist dros Ryfel—
Dros ddyn-laddiad! Gosod dy gatrodau
Yn y Bregeth, rywle. Ffei! Gwel—
"Cytuna a'th frawd ar frys";
Oes yna le i'th gadfridogion?
"Nid brawd yw'r Boer?" Beth, ynte, "bwystfil"?
Y cyfiawn fydd drugarog, ie, i hwnw.
Esbonia "Na dd'wed Raca";
Oni ddywedaist hyn? Llenwaist dy enau
A melldithion! Rhuaist falais!
Addunaist ddial ag anadliad dig!
Oni ysgrifenwyd, "Hyd ddengwaith
A thriugain seithwaith"—
Ai cyflafanau yw maddeuant?
Yn ngwydd y nef cyneuaist danau uffern;
Lluniaist fwledi'r fall; a chludaist
"Lyddites" mawr yn mhell i ladd,

Tra yn galw, "Arglwydd! Arglwydd!"
Ai tybed y gwna Ef dy adwaen di?
"Gelyn," ddywedi? Pa arch
Gysylltir yn y Llyfr a hwnw?
Ni fedri ei adrodd! O ragrtniwr!
Pa fodd y sefi di o flaen y Fainc?
Bydd barod—y gair "Ewch!" y ddedfryd fydd,
Ac am dywyllwch eithaf meddwl di.
(Efel.) N. R.

XXII.—AGORIAD I AWR Y BROFEDIGAETH.

Pwysig a buddiol yw hanes dyn, a dyfalu ar ei dynged dragwyddol yn dadblygu mewn gwae neu wynfyd. Nid oes awr bwysicach yn ei hanes nac awr ei brofedigaeth, sef ei berthynas a themtasiwnau ysbrydol, y ffiniau sydd yn ysgaru rhwng Duw a diafol, rhwng nef ac uffern. Yma y ceir gweled y gwir ddyn, yn croesi y llinell gyhydedd rhwng yr hen fywyd a'r newydd. Cael golwg ar feddwl dyn yn ei demtasiwnau, rydd agoriad i ddirgelion ei fywyd yn y dyfodol, yn codi yn angel nefol neu yn suddo yn ysbryd aflan. Y mae awr yn hanes pob dyn duwiol, pan y gorfydd arno benderfynu a bwrw y draul, pa un ai y ffordd lydan gymer gyda'r dorf i ddystryw, neu y llwybr cul gyda'r ychydig i'r bywyd: tebyg i'r adeg hono yn hanes Cesar ar lan yr afon Rubicon: os croesa yr afon a'i fyddin yn ei ganlyn, cyfrifir ef yn elyn i'r deyrnas, os na wna, caiff ei ddiswyddo. Marchoga yn ol a blaen mewn pryder ar lan yr afon. Ond croesi wnaeth, gan ymladd ei ffordd i'r orsedd. Felly y duwiol yn ei demtasiwnau, a groesa y Rubicon, gan ymladd gyda'r gwir yn erbyn y byd, a gweithio ei ffordd i deyrn-gadair y bywyd. Wrth Eglwys Philadelphia y dywed yr Arglwydd: "O achos cadw o honot Air fy amynedd i, minau a'th gadwaf di oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 10). Gair yr amynedd yw dal gyda'r Gair mewn

temtasiwnau ysbrydol, trwy ymladd yn erbyn drygau a chyfeiliornadau, a'u concro. Wrth y rhai sydd yn gorchfygu y dywedir: "Minau a'th gadwaf oddi wrth awr y brofedigaeth." Y rhai gant eu temtio yn y byd, ac a goncrant, ni chant eu temtio ar ol marw. Brwydr ysbrydol, sef temtasiwn, yw cadw Gair amynedd yr Arglwydd, oblegid mewn temtasiwn y mae yr Arglwydd yn ymladd dros ddyn, ac yn ymladd trwy wirioneddau ei Air. Sylwn:—

I. Y RHAI GANT EU TEMTIO. II. Y RHAI SYDD YN TEMTIO. III. ADEG Y TEMTASIWNAU. IV. BUDDIOLDEB TEMTASIWNAU. V. GORCHFYGU TEMTASIWNAU. VI. TEMTASIWNAU YR ARGLWYDD. VII. MYFYRDOD AR Y TEMTIAD YN YR ANIALWCH.

1. Y RHAI GANT EU TEMTIO. Yr unig rai gant eu temtio yw y rhai sydd yn cael eu diwygio a'u hail-eni. Nis gellir temtio y rhai sydd heb gydnabod na charu gwirionedd a daioni, oblegid nas gall fod gwrthryfel ynddynt rhwng y cnawd a'r ysbryd; am nad oes ganddynt ysbryd i ryfela yn erbyn y cnawd, y cnawd sydd ben. Y rhai sydd yn meddu cydwybod sydd yn cael eu temtio, sef y rhai sydd yn caru Duw a dyn yn ol y Gair. Ychydig yw y cyfryw, felly ychydig wyddant beth yw temtasiwn ysbrydol. Y mae dynion heb gydwybod yn profi pryderon bydol, a gofidiau yn gwanhau y corph a'r meddwl; ond nid temtasiwnau ysbrydol yw y fath bethau. Y mae temtasiwnau ysbrydol yn boenus i'r meddwl, ac weithiau yn boenus i'r corph. Cyflwr tywyll ac aflan yw; y meddwl yn cael ei flino yn fawr gan amheuon, a chan feddyliau ffiaidd, gan adgofion erchyll, a chan ofnau enbyd. Ymddengys dyn iddo ei hun mewn temtasiwnau yn golledig, ac wedi ei adael gan Dduw a dynion, a thybia mai ofered yw gweddio, am nad yw dyn yn ymwybodol o waith yr Arglwydd a'r angylion yn y dyn oddi fewn, ond o waith yr ysbrydion drwg yn y dyn oddi allan. Hollol analluog yw dyn mewn temtasiwnau i wybod ei gyflwr. Arweinia temtasiwn i brudd-der ac anobaith, ac aiff dyn i flino ar fywyd, a melldithio ei ddydd fel y gwnaeth Job, a Jeremiah. Ond nid yw yr Arglwydd na'r angylion yn cyfrif i ddyn ei deimladau a'i eiriau ofnadwy mewn temtasiwn. Wedi anobaith, y dechreua dyn ysgogi o'r newydd rhwng goleuni a thywyllwch, rhwng drwg a da; yna daw siriol deb a chysur. Ond caiff y dyn ailanedig ei demtio drachefn a thrachefn, ei rwygo â rhwygiad ar rwygiad, am fod llawer o ddrygau ac anwireddau ynddo i'w datguddio a'u symud. Os na chaiff y rhai sydd wedi derbyn ychydig o fywyd ysbrydol eu temtio yn y byd hwn, cant eu temtio yn y byd a ddaw mewn llawer ffordd.

2. Y RHAI SYDD YN TEMTIO. Oddi wrth yr ysbrydion drwg y daw temtasiwnau. Satan trwy y sarph, sef y synwyrau allanol, dwyllodd Efa. Bu y cythreuliaid yn denu Israel a'r cenhedloedd i'w haddoli. Temtiwyd yr Arglwydd gan ddiafol yn yr anialwch. Yr hen sarph, yr hon yw diafol a satan, sydd yn ymosod ar y wraig, ac ar ei had hi. "Yma y mae amynedd y saint." Am hyny, "Ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu Ef. Gwisgwch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol. Oblegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd" (Eph. vi, 11, 12). Diafol a satan a ymosodant ar y daioni nefol, a'r gwirionedd ysbrydol sydd mewn dyn, mewn amryw foddau: weithiau trwy greu amheuon ac arllwys gwaradwydd ar y gwirionedd; pryd arall trwy adgyfodi ac adgofio ei ddrygau a'i anwireddau, a thrwy ymgais i gau mewnolion y meddwl, ac atal cymundeb rhwng yr enaid a'r nefoedd, fel nas gall dyn feddwl o'r gwirionedd, nac ewyllysio o gariad Duw. Yr ysbrydion drwg wnant hyn, a'r effaith yw, poenau a phryderon mewnol, ac yn neillduol, ingoedd yn y gydwybod, am y tybia y dyn eu bod yn deilliaw, nid o ysbrydion drwg, ond o'i galon ei hun. Nid ystyria efe fod ysbrydion yn bresenol gydag ef, ysbrydion drwg yn ei ddrygau yn arteithio ei fywyd ysbrydol, ac ysbrydion da yn ei ddaioni, yn dyddanu ei fywyd ysbrydol; a phreswyliant yn ei serchiadau. Alaethus yw y temtasiwnau hyn pan yn treiddio yr ymenydd a'r gewynau, y gwythienau a'r gwaed yn boenau corphorol; a gwaeth byth pan barhao y poenau yn hir, ac heb waredigaeth er taer weddio am drugaredd; yna y daw anobaith, sef y diwedd. Gellir cael rhyw syniad am fawredd, echryslonrwydd, a pheryglon y temtasiwnau wrth ystyried rhif y temtwyr, eu gallu, eu harfau, eu dyfeisiau, eu ffalsder, eu hawyddfryd i ddrygu a dystrywio y da, eu dyfalwch, eu herfeiddiad, eu hir-brofiad, a'u llwyddiant mewn difrodi. Y mae dyn yn eu plith fel pe yn mhlith gwylltfilod, a lleiddiaid, a lladron dirifedi o'r fath ffyrnicaf, mwyaf galluog, arfog, a medrus i'r pwrpas.

Ai gwir yw, O fwyn Waredwr,
Fod y da yn dioddef oll?
Mai y cryfaf grwydra bellaf
Mewn anobaith trist ar goll?
Mai nod uchel radd mewn natur
Ydyw gallu i ddioddef poen?
Ac mai ingoedd calon canwr
Wna berseiniau yn y dôn?
(Efel.) N. R.

3. ADEG Y TEMTASIWNAU. Wedi i ddyn gael gafael yn y gwirionedd a'r cariad, y daw temtasiwnau, oblegid ymosodir ar y gwirionedd a'r cariad, a'r gwirionedd a'r cariad yw yr arfau i ymosod ar y temtwyr. Deiliaid y deyrnas ysbrydol a gant eu temtio o ran y gwirionedd, a thrwy y gwirionedd y concrant; a deiliaid y deyrnas nefol a gant eu temtio o ran daioni, a thrwy ddaioni y concrant. Rhaid i bob un sydd yn cael ei ail-eni fyned trwy demtasiwnau, fel Israel trwy y Mor Coch, trwy yr anialwch, a thrwy yr Iorddonen; nis gall dyn gael ei ail-eni hebddynt. Daw y temtasiynau, pan gyfyd y drwg i reoli y da, a'r dyn anianol i reoli y dyn ysbrydol. "Canys y mae y cnawd yn chwenychu yn erbyn yr ysbryd, a'r ysbryd yn erbyn y cnawd; a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd. Hefyd, amlwg yw gweithredoedd y cnawd: y rhai yw torr-priodas, godineb, aflendid, anlladrwydd, delw-addoliaeth, swyngyfaredd, casineb, cynhenau, gwýnfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiau, cenfigenau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn; am y rhai yr wyf fi yn rhagddywedyd wrthych, megis ag y rhag-ddywedais, na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw. Eithr ffrwyth yr ysbryd yw, cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest. Yn erbyn y cyfryw nid oes deddf. A'r rhai sydd yn eiddo Crist a groeshoeliasant y cnawd, a'i wyniau a'i chwantau" (Gal. v, 17-24). Ar ol gwenau dwyfol daw temtasiwnau tanllyd. Wedi i Moses fod yn y mynydd gyda Jehofah, yn derbyn y gyfraith trwy drefniad angylion, a'r gorchymynion wedi eu hysgrifenu a bys Duw, y cafodd ei demtio i dori y llechau. Wedi i'r Iesu gael ei fedyddio, i'r nefoedd agor, ac i'r Ysbryd ddisgyn arno fel colomen, yr arweiniwyd Ef i'r anialwch i gael ei demtio gan ddiafol. Wedi i Petr wneud yr adduned ddifrifol y byddai farw dros yr Arglwydd, yr aeth i regu, a thyngu, a gwadu dair gwaith. Ar ol tawelwch y daw yr ystorm, ac yn y gwres y daw y seirph o'u tyllau. "Am hyny, yr hwn sydd yn tybied ei fod yn sefyll, edryched na syrthio" (I Cor. x, 12).

4. BUDDIOLDEB TEMTASIWNAU. Trwy demtasiwnau y daw dyn i adnabod ei hun, ac y gwna y dyn ysbrydol enill llywodraeth ar y dyn anianol, trwy fod daioni yn concro drygioni, a gwirionedd yn concro cyfeiliornad; am fod daioni a gwirionedd yn trigianu yn y dyn ysbrydol, ac yn fywyd iddo, a drygioni ac anwiredd yn trigianu yn y dyn anianol. Buddugoliaeth yr Arglwydd ar y diafol yw pwrpas y frwydr. Pan goncra yr Arglwydd, daw y dyn allanol yn was ufudd i'r mewnol, ac mewn ufudd-dod i'r mewnol, gwrthoda ddrygau

ac anwireddau y byd, a derbynia y daioni a'r gwirionedd sydd yn y dyn mewnol o'r Arglwydd a'r nefoedd; unir y mewnol a'r allanol, ac agorir yr holl ddyn i'r nefoedd, a derbynir ef i gymdeithas yr angylion; eangir, hefyd, a choethir holl gyfansoddiad ysbrydol y dyn. Cyll ei hunan gariad, a'i gariad at y byd, ei flysiau, a'i chwantau aflan. Bydd ar gynydd mewn gwybodaeth, a deall, a doethineb. Dysg hefyd nad yw ef ei hun ddim ond drwg, mai yr Arglwydd yw pob daioni a gwirionedd sydd ynddo, a'u bod ynddo o drugaredd anfeidrol yr Arglwydd; felly y dysg fod yn wylaidd a gostyngedig. Fel hyn yr amddifadir yr ysbrydion drwg o'u gallu i godi i'w erbyn, ac y gorfodir yr uffernoedd i fyned ar encil dragwyddol, am na feiddiant ymosod na nesau at un a'u concrodd. Yna y daw gorfoledd a chan oddi ar undeb cariad a gwirionedd yn yr enaid buddugol, ac oddi ar undeb a'r Arglwydd ac a'r nefoedd. Daioni fydd benaf mwy, am fod dyn yn awr yn nhrefn y nefoedd. Ofnadwy yw syrthio mewn temtasiwnau, oblegid syrthio i ddamnedigaeth yw, am fod drygioni yn gorchfygu daioni, ac am fod anwiredd yn gorchfygu gwirionedd. Am hyny, tŷn dyn ato ei hun deyrnasoedd yr ysbrydion drwg, y rhai a ddygant holl bläau yr Aipht, yr holl farnau fuont yn blino Israel yn eu gwrthgiliadau, a'r holl waeau y sonir am danynt yn y Datguddiad. Cilia oddi wrtho holl drigolion y deyrnas ysbrydol a'r deyrnas nefol.

5. GORCHFYGU TEMTASIWNAU. Y rhai sydd yn gorchfygu temtasiwnau, y maent yn brwydro trwy wirioneddau y Gair; ofer gwrthwynebu yn un ffordd arall, oblegid yn ngwirioneddau y Gair y mae yr Arglwydd yn bresenol gyda dyn, ac yn brwydro drosto. O'r Arglwydd yn unig y gall dyn goncro temtasiwn, oblegid trwy wrthwynebu drwg a thwyll, gwrthwyneba yr holl uffernoedd; a phwy all goncro yr holl uffernoedd ond yr Arglwydd? Teimla dyn mewn temtasiwn fod yr Arglwydd yn mhell oddi wrtho, er mai y pryd hwnw y mae agosaf ato, yn ei wylio, a'i amddiffyn bob eiliad. Rhaid i ddyn mewn temtasiwn beidio gweithredu o'i deimlad twyllodrus, a llwfrhau, gan blethu ei ddwylaw yn ddiog, ond gwrthsefyll fel o hono ei hun, eto yn y gred mae o'r Arglwydd y mae yr holl nerth. Fel hyny y derbynia efe hunan yr Arglwydd a'r nefoedd iddo ei hun, ac yr ymwrthoda a'i hunan ei hun, fel ag hanfod uffern, ac y rhydd y clod yn llwyr i'r Arglwydd am fuddugoliaeth. Digon i'r dyn yw cael y maes ar y bwystfil, ar ei ddelw, ar ei nod, ac ar ei rifedi, a chael telyn Duw, can Moses a chan yr Oen, i'r Arglwydd Dduw Hollalluog y perthyn yr anrhydedd. "Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th enw dy hun dod ogoniant, er mwyn dy

drugaredd, ac er mwyn dy wirionedd" (Salm cxv, 1). Y mae y gorchfygwr yn ddiogel rhag rhuthr a rhaib yr uffernolion, gan ei fod yn ymguddio ac yn aros yn y Duwdod. "Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Hollalluog." Nis gall helwyr uffern ei ddal, na dychrynfeydd uffern ei darfu, na saethau uffern ei glwyfo, na heintiau uffern ei flino. "Canys efe a'th wareda di o fagl yr heliwr, ac oddi wrth haint echryslawn. A'i asgell y cysgoda efe trosot, a than ei adenydd y byddi diogel: ei wirionedd fydd darian ac astalch i ti. Nid ofni rhag dychryn nos, na rhag y saeth a ehedo y dydd; na rhag yr haint a rodio yn y tywyllwch; na rhag y dinystr a ddinystrio ganol dydd." Efe a saif yn ddifai a dianaf, pan fyddo y lliaws trwy eu chwantau ynfyd a niweidiol yn cael eu hysglyfio gan yr uffernolion. "Wrth dy ystlys y cwymp mil, a deng mil ar dy ddeheulaw; ond ni ddaw yn agos atat ti. Yn unig ti a ganfyddi a'th lygaid, ac a weli dal y rhai anuwiol." Y nefoedd a'i cynorthwya hefyd yn erbyn bwystfilod uffern. "Canys efe a orchymyn i'w angylion am danat, dy gadw yn dy holl ffyrdd. Ar eu dwylaw y'th ddygant rhag taro dy droed wrth gareg. Ar y llew a'r asp y cerddi; y cenaw llew a'r ddraig a fethri." (Gwel Salm xci). Y rhai sydd wedi brwydro eu ffordd yn gyflawn i gariad a gwirionedd y Dyn Anfeidrol, cant lonydd am byth gan fwystfilod ac ymlusgiaid gwenwynig uffern. "A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r mŷn; y llo hefyd, a chenaw y llew, a'r anifail bras, a fyddant yn nghyd, a bachgen bychan a'u harwain. A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp; ac ar ffau y wiber yr estyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law. Ni ddrygant ac ni ddifethant yn holl fynydd fy sancteiddrwydd" (Esaiah xi, 6-9). "O achos cadw o honot Air fy amynedd i, minau a'th gadwaf oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 10). Oddi allan i ddinas aur y gorchfygwyr "Y mae y cwn, a'r swyngyfareddwyr, a'r putteinwyr, a'r llofruddion, a'r eilunaddolwyr, a phob un ar sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd" (Dat. xxii, 15). Y gorchfygwyr nid yn unig a gant lonydd gan yr uffernoedd, ond cant ryddid anfarwol i fwynhau y nefol fywyd a'i feddianau. "I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwyta o bren y bywyd, yr hwn sydd yn nghanol paradwys Duw" (Dat. ii, 7). "Yr hwn sydd yn gorchfygu, ni chaiff ddim niwed gan yr ail farwolaeth" (ii, 11). "I'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhoddaf iddo fwyta o'r manna cuddiedig, ac a roddaf iddo gareg wén, ac ar y gareg enw newydd wedi ei ysgrifenu, yr hwn nid edwyn neb, ond yr hwn sydd yn ei

dderbyn" (ii, 17). "A'r hwn sydd yn gorchfygu, ac yn cadw fy ngweithredoedd hyd y diwedd, mi a roddaf iddo awdurdod ar y cenhedloedd; ac efe a'u bugeilia hwy a gwialen haiarn; fel llestri pridd y dryllir hwynt; fel y derbyniais inau gan fy Nhad. Ac mi a roddaf iddo y seren fore" (ii, 26-28). "Yr hwn sydd yn gorchfygu, hwnw a wisgir mewn dillad gwynion; ac ni ddileaf ei enw ef allan o lyfr y bywyd, ond mi a gyffesaf ei enw ef ger bron fy Nhad, a cher bron ei angylion ef" (iii, 5). "Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid â efe mwyach; ac mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, Jerusalem Newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i; ac mi a ysgrifenaf arno ef fy enw newydd i"(iii, 12). "Yr hwn sydd yn gorchfygu, rhoddaf iddo ef eistedd gyda mi ar fy orseddfainc, megis y gorchfygais inau, ac yr eisteddais gyda'm Tad ar ei orseddfainc ef" (iii, 21). "Yr hwn sydd yn gorchfygu a etifedda bob peth" (xxi, 7).

6. TEMTASIWNAU YR ARGLWYDD. Dioddefodd yr Arglwydd y temtasiwnau mwyaf dychrynllyd ac ofnadwy, fel y dengys ystyr fewnol y Gair. Gwrthwynebodd a choncrodd yr Arglwydd hwynt oddi ar awyddfryd a chariad i achub yr holl hil ddynol. O'i allu ei hun y gwrthwynebodd ac y concrodd, a gwnaeth ei Ddynoliaeth trwy hyny yn Ddwyfol, gan uno y dwyfol a'r dynol yn un Dyn Anfeidrol yn ei Berson. Ei Ddynoliaeth ogoneddus yw patrwn a chyfrwng adnewyddiad, adenedigaeth, a gogoneddiad y rhai a gredant ynddo. Trwy demtasiwnau hefyd y sefydlodd drefn yn y nef, y darostyngodd yr uffernoedd oll, y cyflawnodd y Gair, ac y sefydlodd Eglwys newydd ar y ddaear. Nid y dwyfol yn yr Arglwydd demtid, am nas gall yr uffernoedd ymosod ar y Duwdod, ond ar y dynol o'r fam; a thrwy demtasiwnau a buddugoliaethau yr alltudiodd bob peth etifeddol o'r fam, a'r holl ddynoliaeth o honi hi, fel nad oedd mwyach yn Fab i Mair, ond yn Fab i'r Duwdod oedd ynddo ef ei hun. Ei demtasiwnau ar amserau a'u gyrent i anobaith, pryd y teimlai fod y dwyfol yn ei adael. Ei demtasiwn a'i fuddugoliaeth olaf oedd Gethsemane a'r Groes.

Ei enaid sy'n trochioni,
A'i nwyd arllwyswyd yn lli!
Uwch traeth ei alaeth teimled dynolion;
Ie, heddyw teimled y galed galon;
Deued, hir-wyled bellach y creulon;
A'u holl allu griddfaned ellyllon;
Wylant afonydd gloewon—wrth ei floedd;
Ie, wylo yn filoedd ddylai nefolion.

Llangollen. J. Jones.

GOLGOTHA.

Ddyeithriol nos ymdaena ganol dydd,
Mewn dwys ddystawrwydd dwfn a phrudd.
Pa beth sy'n bod? Ai diwedd amser ddaeth?
Ai angladd anian yw? Ai ynte yr haul
Sy'n taflu gorchudd drosto ei hun
Am nas gall edrych ar y Dwyfol Ddyn
Yn dioddef? Na; ni ddeillia nos o haul y nef,—
Gwres a goleuni yw ei hanfod ef.
Cyflawnder amser ddaeth—y chweched awr,
Cyfododd Haul Cyfiawnder i'w ethafnod 'nawr
Ar Galfari:—"Hon yw eich awr chwi,
A gallu y tywyllwch." Fflachia'r gair
Fel mellten trwy derfynau'r Fagddu Fawr!
Rhua fel taran!—dwfn ogofäau rydd adswn—
"Hon yw eich awr chwi, a gallu y tywyllwch."
Pob cythraul mewn amrantiad glyw y caniatad,—
Bloeddiant, "I'r gad! ymrestrwch yn eich rhengoedd
Benaethiaid! Parotowch eich llengoedd!
Cyfodwn! ymosodwn! goresgynwn!
A'r ymerodraeth fawr fydd eiddo i ni;
A thaflwn ein cysgodion dros y dalaeth fach,
Lle beiddir amheu ein hawdurdod,
Yn arwydd darostyngiad llwyr yr hil."
Ofnadwy ruthr! Clyw y gwyn, O Galfari—
"Eloi, Eloi, Lama, Sabachthani!"
Fy Nuw, fy Nuw! mae'r fagddu rhyngof fi a'th wyneb di.
Ond daeth y nawfed awr, "Gorphenwyd!"
Wele wawr, O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth fawr?
Y Fagddu ffodd, a'r Haul a rodiai ragddo yn ei rym,
Trwy ei arferol rawd, heb golli moment ac heb aros dim.

N. R.

7. MYFYRDOD AR Y TEMTIAD YN YR ANIALWCH. Wrth ddwys fyfyrio ar Gristionogaeth uffernol a gogoniant teyrnasoedd y byd, ac wrth ddyfalu arnynt yn nglyn a themtiad yr Arglwydd yn yr anialwch, adgofiais amryw dybiau a chroessyniadau ddarllenais ac a glywais am yr Arglwydd, yr anialwch, y gwylltfilod, y diafol, y deugain diwrnod, y newyn, y cerrig, y bara, y ddinas sanctaidd, pinacl y deml, y mynydd tra uchel, a theyrnasoedd y byd a'u gogoniant. Mewn pryder a dyryswch, cauais fy llygaid, a syrthiais ar fy ngliniau, gan weddio ar yr Arglwydd ddatguddio i mi natur, ansawdd, dyben, a defnyddioldeb y Temtiad, ac ystyr ei arddangosion. Ac wele! agorodd llygaid fy ysbryd, a chefais fy hun mewn

anialwch gwag, erchyll, mwy ofnadwy na'r anialwch y teithiodd yr Israeliaid trwyddo. O'm hamgylch yr oedd adfeilion, pyllau a phydewau erchyll, drain a mieri, ysgorpionau, seirph, gwiberod, bwystfilod rheibus, adar ysglyfaethus, ellyllon a drychiolaethau. Meddyliais am Ezeciel yn nghanol ysgorpionau a drain, ac am eiriau Jeremiah: "Oblegid hyn, llew o'r coed a'u tery hwynt, blaidd o'r anialwch a'u dystrywia hwynt, llewpard a wylia ar eu dinasoedd hwy: pawb ar a ddel allan o honynt a rwygir: canys eu camweddau a amlhasant, eu gwrthdrofeydd a chwanegasant" (Jer. v, 6). Meddyliais hefyd am eiriau Esaiah am adfeilion Babilon: "Anifeiliaid gwylltion yr anialwch a orweddant yno: a'u tai hwynt a lenwir o ormesiaid, a chywion yr estrys a drigant yno, a'r ellyllon a lamant yno; a'r cathod a gyd-atebant yn ei gweddwdai, a'r dreigiau yn y palasoedd hyfryd" (Esaiah xiii, 21, 22). Cofiais hefyd am y bwystfilod yn Daniel, ac yn y Datguddiad, ac am y diffaethwch lle gwelodd Ioan "Wraig yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad, yn llawn enwau cabledd, a saith ben iddo, a deg corn" (Dat. xvii, 3). Daeth i'm meddwl hefyd y panther, y llew, a'r arth welwyd gan Dante yn nghoedwig dywyll a dolefus yr Inferno, ac Apolyon, fel ei gwelwyd gan y Pererin yn nyffryn gostyngeiddrwydd, a chysgod angau ar derfyn y dyffryn. Tybiwn weled ysbryd aflan yn nesau ataf, megis yr ymddangosodd satan i Job, gan ei ddychrynu; dynesai ataf, fel pe am sefyll ar fy neheulaw, fel y gwnaethai a Josua yr archoffeiriad. Ymgynhyrfwn i'w ddwrdio a'i ymlid, fel y gwnai Luther pan welodd y diafol. Teimlwn yn ofnus, yn unig, ac ar drengu o newyn am gymdeithas a chydymdeimlad dynion da a diniwed. Ar hyn, wele ysbryd yn ymrithio fel angel goleuni ger fy mron, ac a geisiodd genyf gyduno a phregethwyr yr oes i gydnabod mai gwirioneddau yw cyfeiliornadau y pwlpud a'r byd crefyddol, y cawn felly ddigon o gymdeithas a chydymdeimlad. "Arch i'r cerrig hyn fod yn fara," meddai. Atebais yn ngeiriau yr Arglwydd, "Nid trwy fara yn unig y bydd byw dyn, ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw" (Math. iv, 4). Yna dygodd fi i'r ddinas sanctaidd, ac a'm cododd i ben pinacl y deml, gan geisio cyffroi ynof ymchwydd gwybodaeth ac ymgais falch i fyfyrio a chyhoeddi athrawiaethau y Gair er mwyn enw ac elw, gan wyrdroi cenadwri Duw a gofal angylion. Daeth geiriau yr Arglwydd i'm cof, "Na themtia yr Arglwydd dy Dduw" (Math. iv, 7). Yna gweithiodd yn ddyfnach ar fy ysbryd, ac a gymerth afael gryfach ynof, ac a'm cludodd, mi a dybiwn, yn ei freichiau, fel pe bawn blyfyn, ac a aeth a mi i ben mynydd mawr tra uchel, nad yw y Wyddfa, yr Alpau, yr Himalaya, yr Andes, a

Chimborazo, ond bychain mewn cydmariaeth. Dangosodd yr ysbryd, ymrithiai yn angel goleuni, i mi holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant, sef gogoniant y grefydd ragrithiol, gorseddau trais, seneddau satan, awdurdod Mammon, a grym y cledd. Nid gwir ogoniant ddangosodd i mi, ond gau ogoniant pomp, a balchder, a lladrad. Ni ddangosodd i mi ogoniant creadigaeth a llywodraeth Duw; ni ddangosodd i mi ogoniant yr haul, y lloer, a'r ser, y tir a'r mor, y gwlith a'r gwlaw, y glaswellt a'r coedydd; ni ddangosodd i mi ogoniant dedwyddwch yr aneirif greaduriaid diniwed a chwareuant yn y dwfr, a borant ar y meusydd, a ehedant yn yr awyr, ac a ganant yn y cangau; ni ddangosodd i mi ogoniant y fam a'r baban, y meibion a'r gwyryfon, y carwr a'r priod diwair, y gweithiwr diwyd, y crefftwr celfydd, y masnachwr gonest, y morwr gwrol, y meddyliwr a'r addolwr sanctaidd; ond gogoniant teyrnasoedd y ddaear a ymrithiai i'm golwg, trwy nerth gweithrediad satan yn fy enaid. Gogoniant y llywodraethwyr a fegir yn nghanol rhialtwch a chreulonderau, yn nghanol arferion cwrs, gormesol a llofruddiog, o'r cryd. Gogoniant ffyrnigion a ffugwyr yr hil ddynol. Gogoniant pobl y bytheuaid, y *bull-dogs*, y pylor a'r plwm, y rhedegfeydd a'r rhyfeloedd. Fel llywodraethwyr, noddant y masnachau ofnadwy mewn myglys, opium, gwirodydd, a *monopolies* er mwyn budr-elw. Cefnogant y *royalties*, y prydlesoedd, y trethoedd, y degymau, biliau y trysorlys, a phob ysglyfiol ddyfais i ysbeilio y bobloedd. Holl deyrnasoedd y ddaear heddyw a gydunant i groeshoelio Tywysog y Bywyd a'i anwyliaid, nes bod holl genhadon heddwch yn wylo yn chwerw. Wele Rwsia yn mathru rhyddid y Ffiniaid, y Stundists, y Doukobors, a'r diwygwyr oll, er *Rescript* yr Ymerawdwr a chynadledd ragrithiol yr Hague. Dacw Germani mewn arfau hyd ei danedd, yn lliosogi y fyddin, yn dyblu y llynges, ac yn lledu y gyfundraeth ysbiol fwyaf ofnadwy. Y mae Ffrainc yn wageddus, yn anffyddol, yn anghyfiawn, fel y dengys Dreyfus, ac yn lladd a lladrata lle y gallant, fel y prawf ei hanes yn Madagascar. Y mae America wedi gwadu a chablu ei hanibyniaeth, ac yn llofruddio anibyniaeth y Philippinos. Y mae Twrci yn llawn celanedd a gwaed dan nawdd y teyrnasoedd eraill, er mwyn budr-elw y *Turkish Bonds*; ac y mae Prydain a'r cancr yn ei chalon, gwenwyn dreigiau yn ei gwaed, mania marwol yn ei hymenydd, y pla yn ei hymysgaroedd, y gwahanglwyf ysol yn ei holl gorph, a'r farn ar ei holl synwyrau. Hi yw y cyntaf i droseddu cyfamod yr Hague, wrth anfon ei lluoedd i ddifetha ychydig amaethwyr yn Ne Affrica, yn ymladd dros eu cartref, dros eu hanibyniaeth, a thros heddwch cyfiawn.

Prydain sydd hynod hefyd yn ymgyfoethogi trwy ysbeilio a newynu miliwnau India, a thrwy fod yn flaenaf yn yr ymgais i ollwng gwaed miliwnau China er mwyn trawsfeddianu yr hen ymerodraeth nefol. Gweision ffyddlon gogoniant Prydain yw y cyfundebau crefyddol a'r cenhadaethau yn un "phalanx." Yn mhlith y meddyliau hyn, daeth Gair yr Arglwydd; "Ymaith, satan; canys ysgrifenwyd, yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac Ef yn unig a wasanaethi" (Math. iv, 10). Yn awr, teimlwn ddynesiad a dylifiadau y nefoedd yn cryfhau, a gwelwn holl ogoniant teyrnasoedd y byd yn diflanu. Wele, eu haul yn tywyllu, eu lloer yn troi yn waed, eu ser yn syrthio, y mellt a'r taranau, a'r daeargrynfäau yn eu dychrynu. Y teyrnasoedd yn ymysgwyd, yn ymsymud fel meddwyn, yn ymrwygo, yn ymddryllio, ac yn suddo fel Babilon, i eigion y mor; tonau anghof tragwyddol yn tori yn beroriaeth dros eu bythol fedd, ac angylion y tair nefoedd mewn llef uchel yn dywedyd, "Aleluia, ac Aleluia!" drachefn a thrachefn, "Oblegid cywir a chyfiawn yw ei farnau ef; teyrnasoedd yr Arglwydd Dduw Hollalluog" (Dat. xix, 2, 3, 4). Wele fyd newydd yn ymddangos heb frenhinoedd na brenhinesau, na phabau, nac esgobion ac offeiriaid a phregethwyr yn rholio yn eu golud trwy dwyll a thraws-awdurdod, na llywodraethwyr gormesol, na chadfridogion, na milwyr, na llongau rhyfel, na lladrata, na lladd, na llunio anwireddau. "A phob melldith ni bydd mwyach; ond gorseddfainc Duw a'r Oen a fydd ynddi hi" (Dat. xxii, 3).

XXIII.—AGORIAD I'R GORTHRYMDER MAWR DIGYMAR A'R WAREDIGAETH.

Dyddorol yw dyfalu ar achosion ac amrywion gorthrymderau. Un achos o orthrymder yw, y dymuniad yn fwy na'r gallu, y bychan am fod yn fawr, y tlawd yn oludog, yr afiach yn iach, yr anysgedig yn ddysgedig, ond yn methu. Daw gorthrymder hefyd o gamsynied, camsynied am danom ein hunain, am eraill, ac am Dduw. Daw gorthrymder eto trwy fod un adfyd yn anafu pob hawddfyd, megis poen ar y bys bach yn beichio yr holl gorph, a gwahanglwyf Naaman yn anafu ei holl anrhydedd. Gorthrymder arall dan haul ydyw, fod drwg yn dilyn pob da. Nid oes ddiwygiad heb ddadfeiliad, ac erlidiau; nid yw y goron heb y groes. Gorthrymder mawr hefyd yw ansicrwydd y dyfodol. Beth fydd yfory? Yn mhen can' mlynedd? Beth sydd tu draw i byrth marwolaeth? Gorthrymder eto yw breuder, a byrder bywyd a'i bleserau. Nid oes ond cam rhyngom ag angau; tarth yw yr einioes, gwagedd, O! wagedd; gwagedd yw y cwbl. Cyfyd gorthrymder o euogrwydd a gwarth, yn ol tynerwch y meddwl. Ond yn wahanol i'r gorthrymderau enwyd, y mae gorthrymderau digymar i saint yr ail ddyfodiad; "Canys y pryd hwnw y bydd gorthrymder mawr, y fath ni bu o ddechreu y byd hyd yr awr hon, ac ni bydd chwaith. Ac oni bai fyrhau y dyddiau hyny, ni fuasai gadwedig un cnawd oll" (Math. xxiv, 21, 22). Parod yw pob dyn yn mhob gorthrymder i dybied o'i deimlad, fod ei orthrymder yn ddigymar. Teimla dyn yn ddieithr mewn gorthrymder, ac ymddengys yn ddieithr yn ngwedd ei wyneb, yn swn ei lais, a'i ysgogiadau. Eiddigeddus yw dyn o'i adfydau, ac anfoddlon i'w cydmaru ag eiddo eraill. "Gwelwch, ac edrychwch a oes y fath ofid a'm gofid i" (Galarnad i, 12). Er y gwyddom fod yr hil ddynol yn dihoeni mewn poenau, a chwys gwaedlyd ei hingoedd yn diferu yn barhaus; ond coeliwn fod ein baich ni yn drymach na baich neb arall, a'n griddfanau yn fwy dolefus. Ond Duw a gyduniodd ein calonau, a thebyg yw gorthrymderau cyffredin pawb. Yr haul, y lloer, a'r ser a godant ac a fachludant uwchben ein meusydd, a godent ac a fachludent yn amser yr hen dadau a'r derwyddon; a'r un afonydd a lifant trwy y tir

yn mhob oes. Felly yr un gorthrymderau sydd yn cylchdroi ac yn llifo yn mhob cenhedlaeth. Ond y mae gorthrymder mawr digymar a gwaredigaeth fawr ddigymar yn perthyn i dduwiolion yr Ail-ddyfodiad. Sylwn:—

I. GORTHRYMDER DIGYMAR DUWIOLION YR AIL DDYFODIAD. II. GWAREDIGAETH DDIGYMAR DUWIOLION YR AIL-DDYFODIAD.

1. GORTHRYMDER DIGYMAR DUWIOLION YR AIL DDYFODIAD.

1. Gorthrymder mawr wrth gymeryd eu diwygio a'u hail-eni wrth safon Dynoliaeth Newydd. Wrth y gorchfygwr yn Eglwys Philadelphia y dywed yr Arglwydd; "Mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, Jerusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i; ac mi a ysgrifenaf arno ef fy enw newydd i" (Dat. iii, 12). Ysgrifenu enw Duw ar ddyn yw, fod y gwirionedd yn dyfod i'w ddeall, i'w galon, a'i fywyd; ysgrifenu enw dinas fy Nuw i, y Jerusalem newydd, arno yw, fod athrawiaeth y nef a'r ddaear newydd yn dyfod i'w ddeall, i'w galon, a'i fywyd; a'r Arglwydd yn ysgrifenu ei enw newydd ei hun ar ddyn yw, fod y dyn yn adwaen, yn caru, ac yn addoli yr Arglwydd fel yr Unig Berson Dwyfol, a'r Anfeidrol Ddyn, yn ngoleuni gwirionedd ac athrawiaeth y nef a'r ddaear newydd. Prif ddatguddiad yr Ail-ddyfodiad yw Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd yn safon a phatrwn adenedigaeth a gogoneddiad dyn. Gan mor fawr y gwaith o ddyfod yn ddynion newydd yn ol y fath safon, mawr yw y gorthrymder. Aeth yr Arglwydd trwy y gorthrymder mawr ei hun. Gorthrymderau yr Arglwydd arddangosir gan gaethiwed Israel yn yr Aipht, eu hadfydau yn yr anialwch, a'u brwydrau yn Nghanaan; a darlunir ei orthrymderau trwy y Salmau a'r prophwydi. Mynych y sonia yr Arglwydd pan yn y byd, am ei orthrymderau; alaethus yn aml oedd ei eiriau: "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio ag ef, ac mor gyfyng yw arnaf hyd oni orphener" (Luc xii, 50). "O hyny allan y dechreuodd yr Iesu ddangos i'w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fyned i Jerusalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid, a'r archoffeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a chyfodi y trydydd dydd" (Math. xvi, 21). "Trist iawn yw fy enaid hyd angau" (Math. xxvi, 38). Pa faint oedd tristwch ei enaid? Nis gellir ateb. Pe bloeddid y gofyniad trwy bob

byd, ni cheid ond yr adlais yn ol. Pe gyrid y gofyniad trwy holl ororau tragwyddoldeb, ni arosai y sain yn unman, ond dychwelai fel colomen Noah.

> Ni wyr na nef na daear, pa faint yr ing a'r boen,
> Ddioddefwyd yn ein natur, gan Iesu yr addfwyn Oen;
> 'Does faint sydd mor ddifesur, o ddyfnder, lled a hyd,
> Ond maint y cariad hwnw fu dan y poenau i gyd.

Dioddefodd wrth groesi holl wyrni a llygredd etifeddol ei natur, wrth groesi daliadau, defodau, ac arferion drygionus yr eglwys a'r wladwriaeth, ac wrth groesi yr holl ysbrydion drwg a weithient trwyddynt. Neuadd y cryfarfog oedd yr eglwys, ogof lladron oedd y deml, a rhagrithwyr, ffyliaid, a deillion oedd blaenoriaid y bobl. Tynodd arno ei hun y gorthrymder mawr digymar oddi wrth ei oes a'i huffernoedd, wrth berffeithio ei hun. Cododd y byd i'w erbyn, am ei fod yn byw yn uwch na'r byd. Ni chai agor ei enau o'i Ddynoliaeth newydd heb gael ei archolli trwy wrthdarawiad dynion a diafol. Pan yn siarad am addoliad ysbrydol, y crefyddwyr ffurfiol a sychedent am ei waed. Wrth son am y deyrnas nad yw o'r byd hwn, y rhai oedd a'u rhan yn y bywyd yma a gynllunient i'w ladd. Pan yn llefaru am y Tad Holl-bresenol yn gwisgo y lili, yn bwydo yr adar, yn cyfrif gwallt ei blant, wele y doethion daearol yn cynllunio am ei fywyd. Wrth berffeithio ei hun, a llefaru o'i berffeithrwydd, aeth yn nod i gynddaredd anghydmarol. Y casineb cuddiedig i'r Gair a gysgai yn nghalon yr eglwys a'r oes, a ddeffrodd fel tan gwyllt, ac a folltiai fel mellt yn erbyn Dynoliaeth newydd yr Arglwydd. Cyffelyb i raddau yw gorthrymder mawr duwiolion yr Ail-ddyfodiad—croesi yr hen ddyn, ei wyniau a'i chwantau yn ol goleuni y Ddynoliaeth Ddwyfol arno; croesi yr ysbrydion drwg a'u cref yn ein cnawd, a'u gafaelion yn un gynghrair ynom; a chroesi crefydd yr eglwysi, gan eu gweled yn y goleu newydd, yn ddraig, yn sarph, yn ddiafol, a satan, yn buttain fawr, ac yn fwystfil ysgarlad yn llawn o enwau cabledd; eu croesi, eu casau, a'u concro. Dyma orthrymder mawr na fu ei fath o ddechreu y byd.

2. Gorthrymder mawr wrth ddiwygio eraill yn ol safon Dynoliaeth Newydd. Wrth fod yr Arglwydd yn puro ei Ddynoliaeth, awyddai hefyd i buro dynoliaeth pawb yn ol safon ei Ddynoliaeth ei hun. Nis gall dyn duwiol fod yn ddifater a diofid am gyflwr ysbrydol ei gyd-ddynion. Teimlai yr Arglwydd Iesu bob pechod ac adfyd yn yr hil ddynol fel picellau yn ei fynwes, fel hoelion dur yn ei draed a'i ddwylaw,

fel poeredd yn ei wyneb, ac fel coron ddrain ar ei ben. Ocheneidiai, ac wylai yn aml dan orthrymder mawr anghrediniaeth ac anghariad dynion at y Gair. Dolefai yn ddolurus yn nghanol adfeilion ac anghyfanedd-dra ysbrydol y byd. Pan glywodd Nehemiah fod mur Jerusalem wedi ei ddryllio, a'i phyrth wedi eu llosgi a than, galarodd, ymprydiodd, ac aeth yn drist ei wyneb ger bron Artaxerxes. Aeth i Jerusalem, ac allan liw nos trwy borth y glyn, ar gyfer ffynon y Ddraig. Golygfa brudd a'i hamgylcha; yr adfeilion wedi eu rhuddo gan y tan a'i hadgofiant o gynddaredd y gelyn. Rhaid fod ei ddychymyg yn fyw yn nghanol dystawrwydd nos, ac anghyfanedd-dra y ddinas. Delweddau y tadau, ac ysbrydion oesau a ymrithiant ger ei fron. Clyw y meirw yn siarad. Anwyl iddo oedd Jerusalem, dinas y Brenhin Mawr, cartrefle y Deml, yr Arch a'r Drugareddfa, a mangre beddrod y dewrion gynt. Och! y drych sydd arni heno. Aeth tegwch bro yn hagrwch daear, a llawenydd y bobl yn alar-gan. Pwy draetha orthrymder ysbryd Nehemiah yn awr, yn ymweled a'r adfeilion i'w hadgyweirio? Ond beth yw adfeilion Jerusalem at adfeilion y byd dynol oll? Daeth yr Arglwydd yma ei Hun i ganol yr anghyfanedd-dra. Cerddodd drwyddo yn nhrymder nos holl allu y tywyllwch. O anferth olygfa i lygaid a chwaeth yr Arglwydd! Dacw ddynoliaeth yn ddrylliau, delw Duw yn falurion dan draed, y deml ysbrydol—campwaith y Creawdwr—yn adfeilion, y drain a'r danadl yn tyfu ar yr allorau, ellyllon yn llechu yn ei chonglau a'i magwyrydd, y cathod yn llamu yn y gweddwdai, y dreigiau yn y palasoedd hyfryd, a'r adar ysglyfaethus yn hofran yn ei hawyr. Yn yr Eglwys Iuddewig, yr oedd gwirionedd ar yr heol, anwiredd yn y cysegr, rhagrith yn gysegredig, rhagrithwyr yn barchus, a'r deml yn fedd-golofn duwioldeb y tadau. Yr oedd ysbrydion aflan yn meddianu rhai, cythraul yn y lleill, a lleng mewn eraill. Yr uffernolion fel gwenyn a lanwent y wlad; clywid hwynt yn llefain yn y mynyddoedd, yn wbain yn y beddau, ac yn rhwchial yn y genfaint foch. Meddiant y cythreuliaid oedd y genedl a'i chrefydd; dan eu dylanwad yr oedd llawer yn lloerig, yn malu ewyn, ac yn taflu eu hunain i'r tan a'r dwfr; a'r llu yn ffugio duwioldeb heb ei meddu. Daeth yr Arglwydd yma i ddiwygio pob peth, gwaith ddug arno orthrymder mawr a gwrthwynebiadau o'r fath greulonaf. Tebyg yw profiad duwiolion yr Ailddyfodiad yn neilldnol; oblegid yn ngoleu Dynoliaeth newydd ac agoriad y Gair, gwelant yn ddyfnach i drueni dyn nag y gwelwyd erioed o'r blaen. Hefyd, y maent yn fwy byw i dynged eu cyd-ddynion fel bodau anfarwol. Teimlant hefyd

berthynas agosach ac eangach a'r hil ddynol, a chyfrifoldeb mwy. Yn mhellach, collant yn fwy llwyr eu balchder, eu hunanoldeb, a'u bydolrwydd nag y gwnai duwiolion eraill. Beth bynag sydd yn clwyfo dyn, a'i clwyfa hwythau. Yn fwy angerddol na Paul y gofynant: "Pwy sydd wan nad wyf finau wan, pwy a dramgwyddir nad wyf finau yn llosgi?" (II Cor. xi, 29). Hefyd, eu cariad a'u gwirionedd o'r nefoedd, a phresenoldeb y Dyn Anfeidrol yn eu henaid, a gyffroant ffyrnigaeth waethaf yr uffernoedd, fel y cawn ddangos yn awr.

3. Gorthrymder mawr trwy ddeffro cynddaredd rhai na fynant ddiwygio yn ol safon y Ddynoliaeth Newydd. Yr achos o ddagrau yr Arglwydd uwchben Jerusalem oedd ei fethiant i'w diwygio, a'i ymdrechion yn cyffroi eu cynddaredd i'w ladd. Yna ymdrecha i ymdawelu er y methiant. Clywer Ef yn griddfan yn yr ardd: "Fy Nhad, os yw bosibl, aed y cwpan hwn heibio oddi wrthyf; eto, nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt Ti" (Math. xxvi, 39). Y mae dan orthrymder trymach na'r byd. Syrthia ar ei wyneb gan ocheneidio. Gweddia yn ddyfalach, ddyfalach, tra holl allu ellyllon yn ymarfogi i'w erbyn am ei ymgais sanctaidd i lesau eneidiau, a'u gwared rhag barn uffern. Ceir canmol y ffordd arweinia i'r nefoedd, a'i galw yn ffordd hyfrydwch, ond dyweder mai ffordd sanctaidd ydyw, ac nad â yr halogedig ar hyd-ddi, tramgwydd yw i'r anianol a'r aflan. Ceir darlunio gwynfyd a choronau y nefoedd, ond dyweder y rhaid tynu y llaw ddeheu, a'r llygad deheu, a'r troed deheu, a dwyn y groes beunydd, codir gelyniaeth ac erlidiau. Amgylchir bord yr Arglwydd yn dawel, ond cael rhyddid i fwyta o ford y cyth-reuliaid. Tebyg yw y torfeydd i'r genfaint foch, a'u trwynau lawr, yn troi i bob bwlch a chroesffordd, oddi ar y brif-ffordd, ac yn rhuthro yn ngrym y lleng dros y dibyn. Nid oes y fath anhawsder a diwygio dynion. Hawddach sychu corsydd, troi cwrs afonydd, hollti creigiau, gwrteithio yr anialwch, swyno seirph, a dofi llewod, eirth, a theigrod egra. "Ac er gwneuthur o hono ef gymaint o arwyddion yn eu gwydd hwynt, ni chred-asant ynddo. Fel y cyflawnid ymadrodd Esaias y prophwyd, yr hwn a ddywedodd efe, Arglwydd, pwy a gredodd i'n hymadrodd ni, ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?" (Esaias xii, 37, 38). Esaias a'r prophwydi eraill, ar ol oes o lafur, a adawsant yr eglwys yn anuwiol ac anwar. Parhau i rith addoli wnai yr offeiriaid; geirio yn ffals wnai y gau-brophwydi; yfed wnai meddwon Ephraim; gorthrymu wnai y cyfoethogion; dilyn gwobrau wnai y gwreng; balchio a rhygyngu wrth gerdded gyda llygaid gwamal wnai merched

Sion. Teimlad pob gwir brophwyd oedd fel y cwyna Jeremiah wrth weled dinystr ar ddinystr: "Fy mol! fy mol! gofidus wyf o barwydenau fy nghalon; mae fy nghalon yn terfysgu ynof" (Jer. iv, 19). Ond duwiolion yr Ail-ddyfodiad a deimlant y gorthrymder hwn yn fwy na holl dduwiolion oesau cyntefig y byd. Safon eu diwygiad yw Dynoliaeth nefoedd a daear newydd. Wrth ymdrechu a methu diwygio dynion, deffroant uffernoedd newydd nad oeddynt yn bodoli o'r blaen; felly, mewn profiad o orthrymder newydd y galarant, gan ddywedyd: "Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid, am na chadwasant dy gyfraith di" (Salm cxix, 136). "O na bae fy mhen yn ddyfroedd, a'm llygaid yn ffynon o ddagrau, fel yr wylwn ddydd a nos am laddedigion merch fy mhobl" (Jer. ix, 1). Y gorthrymder hwn olygir wrth y ddau dyst yn prophwydo fil a dau cant a thriugain o ddyddiau, wedi ymwisgo a sachlian; ac wedi prophwydo yn cael eu lladd gan y bwystfil o'r pwll diwaelod, a'u cyrph yn gorwedd ar heolydd y ddinas fawr, a elwir yn ysbrydol Sodom a'r Aipht; lle hefyd y croeshoeliwyd ein Harglwydd ni (Dat. xi, 3-10). Y gorthrymder hwn olygir hefyd gan y wraig mewn gwewyr a gofid i esgor ar ei mab gwryw, sef yr athrawiaeth newydd, a'r ddraig yn sefyll ger bron y wraig, yr hon ydoedd barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi, nes peri i'r wraig ffoi i'r diffaethwch. Yma y mae amynedd y saint; yma y mae y rhai sydd yn cadw gorchymynion Duw, a ffydd Iesu" (Dat. xii, 5-7; xiii, 10).

4. Gorthrymder mawr wrth fod rhai ddechreusant ddiwygio yn ol safon y Ddynoliaeth Newydd yn dirywio a throi yn ol. Cafodd yr Arglwydd orthrymder mwy oddi wrth gyfeillion yn troi yn elynion, nag oddi wrth elynion o'r dechreuad: "Canys nid gelyn a'm difenwodd: yna y dioddefaswn; nid fy nghasddyn a ymfawrygodd i'm herbyn: yna mi a ymguddiaswn rhagddo ef; eithr tydi ddyn, fy nghydradd, fy fforddwr, a'm cydnabod, y rhai oedd felus genym gydgyfrinachu, ac a rodiasom i dy Dduw yn nghyd" (Salm lv, 12-14). Un wlychai y tamaid gydag ef yn y ddysgl, a'i bradychodd a chusan. "A'r gwadu ai yn bellach na'r bicell i'w galon." Gorthrymder mawr i'r rhai yn canlyn y golofn yn yr anialwch oedd gweled rhai gychwynasant o'r Aipht, yn awyddu a bygwth myned yn ol; a chlywed y deg ysbiwr yn rhoddi anair i wlad yr addewid. Ond nid oedd mor fawr a gorthrymder duwiolion yr Ail-ddyfodiad, yn gweled rhai fu unwaith yn canlyn y Goleu Newydd, yn cilio, a brodyr yn bradu eu gilydd: "Yna y'ch traddodant chwi, i'ch gorthrymu, ac a'ch lladdant; a chwi a gaseir gan yr holl genhedloedd er mwyn fy enw i. Ac yna y rhwystrir llawer, ac y bradychant

eu gilydd. A gau-brophwydi lawer a godant, ac a dwyllant lawer. Ac o herwydd yr amlha anwiredd, fe a oera cariad llawer. . . Canys y pryd hwnw y bydd gorthrymder mawr, y fath ni bu o ddechreu y byd hyd yr awr hon, ac ni bydd chwaith" (Math. xxiv, 9-12, 21).

5. Gorthrymder mawr wrth fod y gwaith yn ol safon Dynoliaeth Newydd yn troi yn fethiant gweledig. Wedi i dystion yr Ail-ddyfodiad brophwydo a gorphen eu tystiolaeth, y bwystfil o'r pwll diwaelod, sef yr eglwys uffernol, a ryfela a hwynt, a'u gorchfyga hwynt, ac a'u lladd hwynt (Dat. xi, 7). Gorthrymder mawr digymar yw dal hyd angau gyda'r Gair yn y goleu newydd, yn erbyn holl anwiredd ac anghyfiawnder eglwysi, llywodraethau, a masnachau y byd, wedi eu ffyrnigo yn unol i'w huffernoedd isaf i ryfela, gorchfygu a lladd. Nis gellir dal y treialon tanllyd heb ysbryd y prophwydi, a'r Prophwyd Mawr. "Cymerwch, fy mrodyr, y prophwydi, y rhai a lefarasant yn enw yr Arglwydd, yn siampl o ddioddef blinder, ac o hirymaros" (Iago v, 10). Wrth gymeryd y prophwydi yn siampl o ddioddef blinder a hirymaros gyda'r Gair, gwelwn mai rhai eneiniog y nefoedd oeddynt, ond sorod ac ysgubion y byd. Rhai anwylaf y Duwdod yw y rhai ffieiddiaf gan ddynion anuwiol. Ymhyfrydai Arglwydd y lluoedd yn ei brophwydi sanctaidd. Ymwelai a hwynt yn ei fawredd a'i osgorddion o'i amgylch. Amlygai iddynt sylweddau y Gair a'r byd ysbrydol. Rhodient gyda'r Creawdwr tu fewn i leni lle ac amser. Llwybrau tragwyddol oedd iddynt. Gyrent yn ngherbydau yr Hollalluog. Wrth dramwy daear gyda Duw, troedient trwy beryglon aruthrol gyda dewrder di-ofn. Fel y pedwar peth byw yn ngweledigaeth yr olwynion mawrion ac ofnadwy; "Aent hefyd bob un yn uniawn rhag ei wyneb; i'r lle y byddai yr ysbryd ar fyned, yno yr aent; ni throent pan gerddent" (Ezeciel i, 12). Deallai y prophwydi yn mlaen llaw yr ymarfogai yr eglwys i'w herbyn, ac yr ymgasglai cynen tafodau o'u cylch. Terfysgwyr ynfyd a rhyfygus y cyfrifid hwynt gan y gau-brophwydi; gelynion eu gwlad, yn haeddu eu lladd, er eu bod yn dystion eneiniedig y nef. Ond gwahanol y trinid y rhai cynaraf i'r rhai diweddaraf. Cafodd y rhai cynaraf fyw a marw mewn graddau o barch gweledig, yn gymysg a diystyrwch. Yr oedd Moses mewn blinderau aml o herwydd ymrysonau ac anufudd-dod pobl wrthnysig, ond cafodd gadw ei swydd hyd y diwedd. Cafodd Samuel lawer o glod ac anghlod, ac yn y diwedd ei ddiswyddo. Ond anrhydeddid ef wedi iddo farw. Cododd hiraeth yn ei angladd; adgofiwyd ei rinweddau gydag och! a gollyngwyd dagrau ar ei fedd. "A bu farw Samuel; a holl

Israel a ymgynullasant, ac a alarasant am dano ef, ac a'i claddasant ef yn ei dy yn Ramah" (I Sam. xxv, 1). Cafodd Dafydd ei ddiraddio a'i ddyrchafu, ei erlid a'i amddiffyn, a chafodd farw ar ei orsedd fel brenhin, a phrophwyd, a pherganiedydd. Ond yn ddiweddaraf, y prophwydi a gaent eu hesgymuno o'r eglwys a'u lladd. Fel y dynesent at gyflawnder yr amser a dyfodiad y Prophwyd Mawr, deuent yn debycach iddo Ef yn y driniaeth a dderbyniai gan ddynion. Goddefir Moses yn ddeddfwr hyd y diwedd, ond teflir Jeremiah i'r pydew. Caiff Samuel farw a'i gladdu mewn galar, ond dirdynir Esaias, gan ei lifio a llif o bren. Caiff Elias fyned adref mewn cerbyd tanllyd, ond Zechariah a labyddir rhwng y deml a'r allor. Goddefwyd Eliseus hyd ddadfeiliad henaint, ond torir pen Ioan Fedyddiwr yn ddyn ieuanc. Ond treialon prophwydi yr Ail-ddyfodiad sydd fwy tanllyd nag erioed, am fod y gwaith yn fwy o fethiant gweledig, gan ei fod yn waith mwy nefolaidd ac ysbrydol, ac felly yn fwy mewnol a chuddiedig, heb yr arwyddion a'r rhyfeddodau allanol oedd yn cydfyned a phrophwydi yr Hen Destament, ac apostolion y Testament Newydd. Y Dyn Anfeidrol yn unig a wyr pa ymdrech creulon sydd yn fynych rhwng duwiolion yr Ail-ddyfodiad ag anobaith, am fod y nefoedd mor aml yn colli y dydd ar y ddaear, ac uffern yn cael buddugoliaeth a bloddest.

2. GWAREDIGAETH DDIGYMAR DUWIOLION YR AIL-DDYFODIAD.

1. Cynorthwyon anghydmarol. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau" (Dat. vii, 8). "Ac efe a ddenfyn ei angylion a mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion ef yn nghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd hyd eu heithafoedd hwynt" (Math. xxiv, 31). Os yw y gorthrymder yn ddigymar, y mae y cymhorth yn ddigymar; os yw y tonau a'r tymhestloedd yn ddigymar, y mae y capten, y llong, y llyw, yr angor, y rhaff, a'r hafan ddymunol yn ddigymar; os yw picellau tanllyd y fall yn ddigymar, y mae tarian ffydd y nef a'r ddaear newydd yn ddigymar; os yw casineb yr holl genhedloedd a'r holl gythreuliaid yn ddigymar, y mae cariad yr holl angylion sanctaidd yn ddigymar. Hefyd, y nerthoedd dwyfol ac angylaidd a fyrhant y dyddiau er mwyn yr etholedigion. Pan fyddo llwythau yn ymosod ar amddiffynfa fechan yn India, ni wyddant am bwerau gwyrthiol gwifrau telegraph yr amddiffynfa. Y gwifrau ar waith a dynant gymhorth o'r amddiffynfeydd eraill yn India, yn Mhrydain ac Ewrop. Y llwythau ni wyddant am allu y gwifrau i drydanu y newydd, a galw am help am filoedd o filldiroedd dan y mor, a dros y

tir, a bod agerdd-gerbydau hirion, ac agerdd-longau ar waith yn cludo milwyr newydd, plwm, a phylor; a bod seneddau yn dadleu yr achos, a'r deiliaid wrth y miliwnau yn darllen am y drafodaeth. Y mae telegraph dwyfol a diderfyn gan dduwiolion yr Ail-ddyfodiad, nas gwyr y gelynion anwar ddim am dano. Y telegraph yw y Ddynoliaeth Ddwyfol a'r Gair yn gwefreiddio trwy y tair nefoedd. Gweddi yr etholedigion a'u gesyd ar negesau trydanol trwy dragwyddoldeb. Ynddo Ef rho'nt waedd i'r nefoedd pan yn mhob cyfyngder caeth. Y thronau a'r tywysogaethau yn y nefolion leoedd a ystyriant bob ple. Cwrs y cread newydd a gyflymir, y dyddiau drwg a fyrhant, ac a ddiffoddant. "Oni bai fyrhau y dyddiau hyny, ni fuasai gadwedig un cnawd oll; eithr er mwyn yr etholedigion fe fyrheir y dyddiau" (Math. xxiv, 22).

2. *Dyogelwch anghydmarol.* "Eithr y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig" (Math. xxiv, 13). Mab y Dyn a'r holl angylion sanctaidd a ddidolant y duwiolion oddi wrth yr anuwiolion, ac a'u dyogelant. "Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant Ef: ac a'u gwared hwynt" "Salm xxxiv, 7). "Cerbydau Duw ydynt ugain mil, sef miloedd o angylion; yr Arglwydd sydd yn eu plith, megis yn Sinai yn y cysegr" (Salm lviii, 17). Pan yn syllu trwy y Gair i faes y gerth ymladdfa dragwyddol, gorfoleddwn yn yr olwg ar ddyogelwch duwiolion yr Ail-ddyfodiad: yr Arglwydd a'i luoedd angylaidd a'u hamgylchynant. Y maent hwy o hyd fel Jacob yn Mahanaim, a gwersyll y Jehovah yn warchodlu iddynt; fel Moses ar Sinai, yn mhlith myrddiwn o saint; fel Eliseus yn Dothan, a'r mynydd yn llawn meirch a cherbydau tanllyd, mwy gyda hwynt nac yn eu herbyn; fel y Salmydd yn Sion, yn moli o nef y nefoedd; fel Zacharias rhwng y coed myrt, a'r gwyr meirch angylaidd yn ymrodio heibio iddo trwy y ddaear; fel y bugeiliaid yn Bethlehem, gyda lluaws mawr o lu nefol yn chwareu tanau eu telynau ar doriad y dydd; fel yr Iesu yn yr anialwch, yn yr ardd, ac yn ei esgyniad, a'r angylion yn gweini iddo; ac fel Ioan yn Patmos, a'r byd angylaidd yn llanw yr unigedd—yr angel anfeidrol yn nghanol y saith ganhwyllbren aur, wedi hyny ag un droed ar y mor a'r llall ar y tir, drachefn yn yr haul—angylion a'r cymylau yn wisgoedd am danynt, angylion a bwäau yr enfys yn dyrch am eu penau, angylion yr Euphrates, a'r Arglwydd yn dyfod a'r holl angylion sanctaidd gydag Ef. Pe lleddid duwiolion yr Ail-ddyfodiad, dyogel ydynt—cant eu dwyn gan yr angylion i fynwes Abraham. Trefnodd yr Arglwydd ddwylaw tyner i'n derbyn i'r byd yma, bronau a mynwes gynes mam i'n magu. Cyn ein geni, yr oedd ein dillad bach yn barod,

y ddaear yn addas i ni, a haul a lloer a ser i wenu yn siriol arnom. Trefnodd yr Arglwydd hefyd ddwylaw tyner angylion i'n derbyn i'r trigfanau nefol. Nid myned i farw y mae merthyron Eglwys Philadelphia, ond i fyw at eu ceraint anwylaf tu draw i'r llen; nid disgyn i'r bedd, ond esgyn i'r bywyd; nid eu claddu, ond eu cludo yn ngherbyd Israel a'i farchogion. Gwyddant nas gellir claddu enaid cadwedig. Nid oes digon o rawiau, ceibiau, a phicis mewn bodolaeth i gloddio ei fedd, na digon o drwch yn y belen ddaearol i wneud beddrod iddo, na digon o bridd yn y bydoedd i'w guddio, na digon o seiri i weithio ei arch, na digon o goed yn nghoedwigoedd y cread at y gorchwyl. Duwiolion yr Ail-ddyfodiad a ymaflant yn addewid y Dyn Anfeidrol, "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd" (Ioan xiv, 19).

Mae man i'w gael tu fewn i'r corwynt certh,
Lle gallai plentyn bychan huno ei hun,
Heb awel aflonyddai aur fodrwyau'i wallt.

N. R.

3. Diwedd anghydmarol. "Y neb a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig" (Math. xxiv, 13). "O achos cadw o honot Air fy amynedd i, minau a'th gadwaf oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 7). Wedi eu temtio yn y byd, ni chant eu temtio wedi angau. Gorchfygasant y drygau a'r anwireddau oll tra yn y corph; wedi ei adael, ni fydd gan uffern, neu yr ail farwolaeth, ddim gafael ynddynt. Cant esgyn i'r nefoedd newydd, canolbwynt a choron pob nefoedd arall, o'r hon hefyd y tardda adnewyddiad ac unoliaeth newydd y bydysawd. Haleluia! daw y diwedd gorfoleddus cyn hir. Pererinion ydym yn y byd, ac alltudion o dir ein gwlad, ond dacw derfyn yr yrfa anial yn y golwg, a'r tir dymunol gerllaw, Ty ein Tad, a chartref ein cydfrodyr angylaidd. Carcharorion ydym yn y byd o fewn muriau mawrion yr erlidwyr, yn cyfyngu ein golygfaon a'n galluoedd; ond buan y gwawria y boreu y torir ein cadwynau, ac yr agora y dorau durol; "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau." Gweithio ar waethaf gelynion, ac heb gydymdeimlad yr ydym yn y byd, y gwaith a'r geiriau goreu yn creu cilwg aeldrom ar wynebau ddylent wenu fel y dydd; ond daw y diwedd: "Da was, da a ffyddlon, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Pob trigfa yn y nef rydd adlais i'r gwahoddiad. Dioddef a dysgwyl ydym yn y byd, a chaffed amynedd ei pherffaith waith, y mae gwaredigaeth, gwobr, a

gorphwysfa dragwyddol gerllaw. Rhagolygon Eglwys Philadelphia yn y byd anfarwol ymagorant i ni fel paradwys ddiderfyn, ac fel y wybren las ddifesur. "Gwyn ei fyd ddysgwylio, ac a ddel hyd y mil tri chant a phymtheg ar hugain o ddyddiau. Dos dithau hyd y diwedd; canys gorphwysi, a sefi yn dy ran yn niwedd y dyddiau" (Daniel xii, 12, 13).

"Ni ddaw i'r galon ddymuniad gwir,
Nas llenwir yno a bendith bur;
Gorphwysfa! O gorphwysfa!
Gogoniant byth, Amen."

N.R.

XXIV.—AGORIAD I GADERNID DYN Y NEF A'R DDAEAR NEWYDD.

Un Creawdwr sydd, ac felly un Duw. Priodoliaethau Creawdwr ydynt ddigyffelyb, ac nis gall creadur eu derbyn, megis Anfeidroldeb, Tragwyddoldeb, Hollalluawgrwydd, Holl-bresenoldeb, a Holl-wybodaeth. Perthynas Creawdwr a chreadur sydd anchwiliadwy. Yr olwg gyntaf gawn ar Dduw yn y Gair yw Creawdwr. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear" (Gen. i, 1). A'r olwg olaf gawn arno yn y Gair yw Creawdwr: "Ac mi a welais nef newydd a daear newydd: canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio . . . A dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orseddfainc, Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd" (Dat. xxi, 1, 5). Datguddio y Duwdod fel Creawdwr y creadur newydd wna y Gair o'r adnod gyntaf hyd yr adnod olaf: "Os oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd; yr hen bethau a aethant heibio, wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd" (II Cor. v, 17). Creu dyn yn ysbrydol yw ei ddiwygio, ei ail-eni, ei sancteiddio, ei wneud yn gyfiawn a gogoneddus; a dynion wedi eu creu o'r newydd folianant Dduw fel eu

Creawdwr, megis y gwna y pedwar henuriad ar hugain, gan ddywedyd, "Teilwng wyt, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu: canys ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crewyd hwynt" (Dat. iv, 11). Y mae cadernid yn perthyn i'r creadur newydd, yn neillduol dyn newydd y nef a'r ddaear newydd; nis gellir ei drechu. "Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid â efe mwyach" (Dat. iii, 12). Beth ydyw dirgelwch cadernid dyn y nef a'r ddaear newydd? Ystyriwn y pethau canlynol:—

I. CADERNID CREADUR NEWYDD YDYW. II. CADERNID YN UN A'R CREAWDWR A'R GREADIGAETH NEWYDD YDYW. III. CADERNID YN SICRHAU RHAGORION NEWYDD YDYW.

1. CADERNID CREADUR NEWYDD YDYW.

1. Creadur newydd i gyd ydyw. Am y dyn newydd y dywed yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, "Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd" (Dat. xxi, 5). Sylwedd uchaf a phuraf y cread materol yw yr ymenydd, o'r hwn y deillia ac y dadblyga y corph; a sylwedd uchaf a phuraf y cread ysbrydol a nefol yw yr ymenydd, o'r hwn y deillia ac y dadblyga y dyn newydd. Creuir *ymenydd ysbrydol a nefol newydd* i'r dyn newydd, *cerebrum* a *cerebellum* newydd, a *medulla oblongata* newydd. Trwy yr ymenydd newydd daw bywyd newydd. "A'r dyn a aeth yn enaid byw" (Gen. ii, 7). "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd" (Ioan xiv, 19). *Creuir calon newydd.* Rhaid i fywyd gael gwrthrychau i drigo ynddo a gweithredu trwyddo. "A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi" (Ezeciel xxxvi, 26). Cyfyd o'r galon newydd deimladau newydd, yn neillduol at y Creawdwr a'r greadigaeth nefolaidd, a theimladau newydd at bawb a phob peth. Y galon newydd a dderbynia ac a gylchdroa waed ysbrydol newydd. Creuir *ysgyfaint newydd*, sef gallu newydd i feddwl ac anadlu yn awyrgylch y byd ysbrydol, a gollwng dylifiadau newydd i'r gwaed ysbrydol. Creuir *gewynau a gwythienau newydd.* Trwyddynt, gollyngir y meddyliau a'r sylweddau ysbrydol i drafaelu a thrydanu trwy holl gyfansoddiad y creadur newydd. Creuir *esgyrn newydd*, sef egwyddorion dwyfol yn rhoddi gallu i'r creadur newydd sefyll a bod yn gydnerth, a gwahanol i'r ymlusgydd atgas. Y creaduriaid newydd yn y weledigaeth a safasant ar eu traed yn llu mawr iawn (Ezeciel xxxvii, 10). Creuir *croen newydd*,

sef y bywyd allanol oll yn ddiogelwch i'r bywyd mewnol. Creuir *synhwyrau newydd*, megis llygaid, clustiau, arogliad, archwaethiad, a theimlad. Creuir *dwylaw a thraed newydd*, ac hefyd creuir *byd newydd*, megis haul, a lloer, a ser, ac awyr, a dwfr, a daear, a phlanhigion, a chreaduriaid, a chymydogion, a chymdeithasau, a llywodraethau, a phob peth i'r manylion eithaf. "Gan hyny, os oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd; yr hen bethau a aethant heibio, wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd" (II Cor. v, 17).

2. Creadur goreu y Creawdwr ydyw. Nid oes ond un peth mawr yn y byd creuedig. Nid yw pob peth arall ond pethau amser a lle; nid ydynt yn llanw cynllun y Creawdwr; nid ydynt ond rhanau ei ffyrdd, a darpariadau er mwyn yr hyn sydd fwy. Pa beth yw y peth mawr hwn? Mawr yw y goleuni, cyntaf-anedig y Gair Hollalluog, bywyd y greadigaeth, ac ymwelydd cyflym, diddiogi a siriol y bydoedd; ond nid goleuni ydyw. Mawr yw moroedd yr *aura* a'r *ether* y nofia heuliau a chysawdau dirifedi ynddynt, fel llongau yn y weilgi; ond nid moroedd yr *aura* a'r *ether* ydyw. Mawr yw mater, defnydd trwchus y cylchrodau planedol; ond nid mater ydyw. Mawr yw bywyd, yn fyrddiwnau o ffrydlifoedd o'r Duwdod, yn llanw y moroedd, y ddaear a'r awyr o greaduriaid byw; ond nid bywyd ydyw. Pa beth yw y peth mawr hwn sydd fwy na'r goleuni, yn fwy na mater, ac yn fwy na bywyd anian? Dyn ydyw, bod deallgar, cyfrifol, ac anfarwol. Efe yw cynyrch goreu cariad a doethineb y Creawdwr. "Ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed" (Salm cxxxix, 14). Ofnadwy a rhyfedd yw y corph, ond mwy ofnadwy a rhyfedd yw yr enaid. Pa beth yw yr us at y gwenith? Pa beth yw y daearol dy o'r babell hon, at breswylydd y ty nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd? Nodwn:—*(1) Yr enaid yn unig all gydnabod a gogoneddu Duw.* Ardderchog yw gwaith yr Arglwydd Ior yn y nef a'r ddaear. Efe a gerfiodd ei enw ar golofnau y greadigaeth, ar dudalenau anian, ac ar holl froydd y ffurfafenau. Ond heb enaid, direswm ac anymwybodol yw yr holl greadigaeth. Heb enaid, nid oes dim na neb i sylwi a gwerthfawrogi datguddiadau Duw. Nid oes galon ddeallus gan y cysawdau. Nid yw mater yn archwilio mater; nid yw planed yn myfyrio ar blaned; nid yw comet yn edmygu comet; ac nid yw seren yn syllu ar siriol deb seren arall. Nid yw y lleuad yn rhyfeddu at danbeidrwydd yr haul, na'r haul at degwch y lloer. Nid yw y mor yn synu at geinion natur ar y tir, na'r tir yn synu at "y mor mawr llydan." Ac nid yw yr ymlusgiaid, yr anifeiliaid a'r adar oll yn gwybod am Dduw, ac yn addoli. Heb enaid, diffrwyth a diamcan yw pob peth. Ond galwer enaid i fod, ac wele

ogoniant Duw yn cael ei ganfod, y datguddiadau dwyfol yn cael eu deall, y lleferydd dwyfol yn cael eu gwrando, a'r Arglwydd ardderchog yn cael ei addoli yn ddeallus yn nhemlanian. *(2) Yr enaid yn unig all fwynhau cymdeithas Duw.* Duw pob diddanwch a ymddedwydda yn anfeidrol ynddo ei Hun, ac anfeidrol yw ei awydd i gyfranu ei ddedwyddwch. O'i gariad tragwyddol y deillia y greadigaeth. Efe a fendithia y creaduriaid direswm a dedwyddwch dirfawr. Y trychfilyn a chwery yn ei ddifyr awr; y morgrug a ymddifrifant yn eu twmpath diwyd; y cler a'r gwybed a ganant eu crythau yn yr awyr rydd; y gloyn byw a'r gwenyn a sugnant eu mel o gwpanau glan y blodau, a'r haul yn gwenu arnynt; adar y nefoedd a leisiant oddi rhwng y cangau; yr asynod gwylltion a dorant eu syched yn ffrydiau yr afonydd; a'r leviathan a ysgwyd ei gynffon yn foddus, nes fod y dyfnder yn grychwyn. Ond tra yr holl greaduriaid direswm wedi eu donio a dedwyddwch, nis gallant fwynhau pleserau dyrchafedig a sanctaidd. Nis gallant garu na deall gwirionedd; ni feddant reswm nac egwyddorion moesol; ac nid ymhyfrydant mewn drychfeddyliau nac mewn cymdeithas a'u Lluniwr. Nis gall y pysgod nofio yn afon y bywyd; nis gall yr adar ganu anthemau angylion; ac nis gall yr eryr esgyn i awyrgylch gweddi. Ond gwnaed yr enaid ar lun a delw Duw ei Hun, ac felly gall gyfranogi o ddedwyddwch y Goruchaf; gall fwyta bara angylion, yfed diod y duwiau sanctaidd, gwledda yn swper neithior yr Oen, a throi allan gyda'r Priodfab a'r Briodasferch mewn *style* a bâr i heuliau ddiffodd, ac i ser y nefoedd syrthio. *(3) Yr enaid yn unig sydd ddeiliad cymhellion moesol.* Y gronynau a dynant at eu gilydd, a'r bydoedd a droant trwy rym deddfau, a'r anifeiliaid direswm a reolir gan reddf. Ni wyddant am gydwybod, na ffydd, na gobaith, na chariad. Goddefol ydynt i ddylanwadau cryfach na hwy eu hunain. Enaid yn unig sydd yn meddu cydwybod, yn teimlo rhwymedigaeth, yn plygu i awdurdod gwirionedd, ac yn meddu gallu i groesi deddfau y cread. Pan y mae planed yn rhuthro o'i chylchdro, y corwynt yn dryllio y llongau, y llosgfynyddau yn arllwys ei *lava*, y llew yn lladd, a'r wiber yn brathu, nis gall neb eu hargyhoeddi o bechod. Ond gall yr enaid bechu; gall wrthdroi ei natur, ac anffurfio ei hun; gall ddiffodd yr ysbryd; gall wneud ei hun yn ddiafol neu yn angel. *(4) Yr enaid yn unig sydd yn cysylltu y cread a'r Crewr.*

"Pa beth yw dyn? Creadur hardd, a wnaed ar ddelw Duw;
Osodwyd gynt yn Eden ardd, yn frenhin pob peth byw.

Pa beth yw dyn? Rhyw bryfyn gwael, ymdreigla yn llwch y llawr,
A feiddia wawdio y Duwdod hael, a herio ei orsedd fawr.
Pa beth yw dyn? Canolbwynt mawr y ddaear lawr a'r nef,
Elfenau y bydoedd maith yn awr gydunant ynddo ef.
Gall sylwi ar y pryfyn tlawd, a chwery yn y pridd,
A dywedyd wrtho, 'Ti yw' mrawd, cyd-drigwn eto yn brudd.'
Gall hefyd droi ei olwg draw i'r nefoedd freiniol fry,
A chydag angel ysgwyd llaw, a dweud, 'Fy mrawd wyt ti.'
Gall edrych ar y beddrod cudd, wrth wywo yn wael ei wedd,
Ac adrodd ar ei lan yn brudd, 'Fy mam, fy mam yw'r bedd.'
Ac hefyd gall wych dremiaw fry, ar lys y nefol wlad,
A thystio gydag agwedd gu, 'Draw, gwelaf dy fy Nhad.'"

3. Creadur i gael ei wella yn dragwyddol ydyw. Y creadur newyad sydd wedi ei rag-gynllunio er cyn seiliad y byd. Bydd creaduriaid newydd yn cael eu creu o hyd ar hyd a lled y bydoedd dirifedi, a phob creadur newydd yn cael ei adnewyddu yn barhaus am dragwyddoldeb. Aeth blynyddau i adeiladu Teml Solomon, ond y creadur newydd, fel teml fywiol y Duwdod, a fydd ar waith i'w eangu a'i harddu am byth. Peth mawr yw y bydd y creadur newydd byw byth; ond peth mwy yw y bydd yn gwella byth. Gwna y Creawdwr bethau mawr o bethau bach: y cynhauaf o'r had, y dderwen o'r fesen, yr adar o'r wyau, a brenhin y goedwig o'r anelwig ddefnydd. Ond terfynol yw cynydd y pethau hyn, a darfodedig yw eu hoes; ond bydd y Creawdwr yn gweithio yn barhaus yn y creadur newydd, ac yn sicrhau na dderfydd ei oes na'i gynydd. Cymerwn fesen yn ein llaw, mor fach ac ysgafn yw; ond gadawer i'r Creawdwr weithio arni am ddau neu dri chan' mlynedd, wele hi wedi ymddyrchafu ac ymledu mewn mawredd i'r awyr, yn sefyll ar wreiddiau cedyrn a changhenog. Wele hi yn ysgwyd mewn grym ac awdurdod, yn brwydro a'r ystormydd, ac yn ymwisgo yn ei gwyrdd-ddail bob haf, ac yn bwrw miloedd o fes bob Hydref i barhau ei rhyw. Os y gwna y Creawdwr y fath orchestion ar fesen yn mhen dau neu dri chan' mlynedd, pa faint mwy a'r enaid a chorph ysbrydol y creadur newydd? Pa beth a fydd yn mhen myrdd o oesau? Wedi planu y creadur newydd yn Mharadwys Duw, dan wybrenau tragwyddoldeb, yn hinsawdd y trofegau tirion, beth fydd ei gynydd a'i gynyrch yn y goruchelion? "Hwn fydd mawr."

4. Creadur i wella eraill ydyw. Y creadur newydd a gydweithia a'r Creawdwr i gael nef a daear newydd, oblegid

efe a ymgolla yn amcanion, ewyllys a gwaith y Creawdwr. Awyddfryd dynion heb eu creu o'r newydd yw esmwythder, enw, ac elw. Troir o'r neilldu bob egwyddor, synwyr a datguddiad.

Angylion o'u gorseddau fry,
A llygaid syn a'n gwyliant ni,
Ymdeithwyr yma yn y byd,
Yn ceisio gwneud ein nyth mor glyd;
Tra yn y fythol Deml fawr,
Heb hamdden braidd roi maen i lawr.

N. R.

Ond y Deml fawr dragwyddol yw pob peth y creadur newydd. Pan gyfyd y creadur newydd i reoli yr eglwys, ni ddaw dim aflan i fewn iddi. Pan gyfyd ef i reoli gorseddau a seneddau y byd, dywed wrth holl sefydliadau trais, "Hyd yma, a dim yn mhellach"; wrth y fasnach feddwol, "Dim dafn yn hwy"; wrth deyrnas y tobaco a'r opium, "Dan draed a'r *cigarettes*, y *pouches*, a'r pibau"; wrth y rhai sydd dda ganddynt ryfel, "Gwasgerwch hyd eithaf y ddaear." Creadur mewn heddwch a'r Dyn Anfeidrol, mewn heddwch a'r llu angylaidd, mewn heddwch a deddf y Gair, mewn heddwch ag ef ei hun, ac mewn heddwch a phawb diniwed, yw y creadur newydd. Am hyny, y mae mewn rhyfel digymod a chreulon-iaid. Felly, ni bydd y khaki fel heddyw, na'r arfau rhyfel, na lluniau'r llofruddion ar bapyr, *canvas*, neu fotymau yn oddefadwy pan ddaw y creadur newydd i fri; oblegid yn ei amser ef, "Ni chlywir mwy son am drais yn dy wlad, na distryw na dinystr yn dy derfynau (Esaiah lx, 18). Pan gyrhaedda llywodraeth y creadur newydd o for i for, ac o'r afon hyd derfynau eithaf y ddaear, ni cheir crefftwr waria ei hun i wneud llongau rhyfel, ac ni oddefir *man of war* i halogi ac anurddo gwyneb yr eigion gwyrdd. Suddir y llynges i'r dyfnder yn arwydd mai o'r dyfnder y daethant. Y tonau a'r awelon a chwareuant alawon hedd a bywyd uwchben eu beddau.

Heddyw trwy bob gwlad a theyrnas,
Anthem engyl adsain wna,
Ar y ddaear boed tangnefedd,
Ac i ddyn ewyllys da.
Trwy orielau'r oesau yn disgyn,
Alaw ber nefolion clyw,
Yn cyhoeddi hedd y nefoedd,
I holl lwythau dynolryw;
Ni bydd gelyn, ni bydd gormes,
Yn y bur Baradwys wiw.

N. R.

2. CADERNID YN UN A'R CREAWDWR A'R GREADIGAETH NEWYDD YDYW. Am hyny, perthyn iddo y nodweddion canlynol:—

1. Mentra feddwl a barnu drosto ei hun. "A thi a gedwaist fy Ngair ac ni wedaist fy enw" (Dat. iii, 8). Cyn y gall dyn gadw y Gair, rhaid iddo ei ddeall, a chyn y gall ei ddeall, rhaid iddo fentro meddwl drosto ei hun. Nid yw aelodau Eglwys Philadelphia dan awdurdod neb ond awdurdod y Gair a'r Arglwydd. Nis gallant oddef traddodiadau dynion yn gwneud gorchymynion Duw yn ddirym, nac arglwyddiaeth trais, pa mor boblogaidd a chysegredig bynag y byddo. Tremiant trwy ffugiau at y ffaith. Diosgant wisgoedd rhagrithwyr parchus, darllenant a dadlenant eu calonau duon. Cyfrifant a chyhoeddant Phariseaid yr oes yn ffyliaid a deillion, yn seirph ac epil gwiberod, ac na ddiangant rhag barn uffern. Dynion Philadelphia a wyddant y gwirionedd, a'r gwirionedd a'u rhyddha hwynt. Arwyr rhyddid ac anibyniaeth ydynt; oblegid heb ryddid ac anibyniaeth, nis gall dynion fentro meddwl a barnu drostynt eu hunain, ac felly nis gallant gael eu hail-eni a myned i'r nefoedd. Llywodraeth rhyddid a chydgariad yw yr unig lywodraeth fodola yn Eglwys Philadelphia. Pob aelod ynddi gytuna a'r Boer—"Dymunwn golli ein gwaed dros ein hanibyniaeth." Edmygant ferthyron rhyddid ac anibyniaeth. Y rhai cyntaf yn ein gwlad a gawsant eu hela gan yr esgobion, a'u carcharu gan y llywodraeth. Yn y carchar, ymgasglasant o amgylch y Gair; cawsant allan ei ystyr am natur y wir Eglwys a'i hanibyniaeth. Yno etholasant weinidog a diacon, sef Richard Fytz a Thomas Rowland. Wedi iddynt hwy farw, etholasant eraill yn eu lle Gyda pharch y coffawn am John Greenwood a Henry Burrows, a gymerasant eu carcharu, a'u merthyru am eu hanibyniaeth; ac yn neillduol John Penry, yr hwn pan geisid ganddo werthu ei anibyniaeth, a ddywedodd, "Pe byddai fy ngwaed yn gefnfor, a phob dafn o hono yn fywyd i mi, rhoddaswn bob dafn er dal i fyny y gyffes hon. Pell oddi wrthyf fyddo cadw einioes naturiol, neu ystyriaeth o gyflwr tlawd fy ngweddw a'r pedwar plentyn amddifad digyfaill, neu unryw beth arall, i'm gorfodi i wadu gwirionedd Duw i ddystrywio fy enaid fy hun."

2. Gwyr, hoffa, a gwna, ei waith. Y sanctaidd a'r cywir a ddywed wrtho, "Mi a adwaen dy weithredoedd, . . ti a gedwaist fy Ngair, ac ni wedaist fy enw." O'r Gair dealla ei swydd a'i waith yn nghorph yr Arglwydd Iesu. Wedi deall ei waith, dyfala arno yn mhob cyfeiriad, o'i darddiad i'w ffrydiau eithaf, gan olrhain ei ddwyfoldeb a'i anfarwoldeb.

Croeshoelia bob gelyniaeth a rhwystr i ffyddlondeb. Dysg ei hun trwy fyfyrdod ac ymarferiad i hoffi ei waith uwchlaw pob peth, a phrawf hyny trwy bob dyfalbarhad. Gwyr nad yw dyn yn credu dim yn mhellach na'i ymdrech i gyflawni ei gred, a bod pob peth yn nghreadigaeth Duw yn bodoli mewn gwaith, o waith, ac er mwyn gwaith. Hananiah, tywysog y palas yn Jerusalem, yw efe, "Gwr ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer" (Neh. vii, 2). "Profed pob un ei waith ei hun, ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall" (Gal. vi, 4).

3. Ceidw gydwybod bur i'r sanctaidd a'r cywir. Dynion gweinion, sigledig, tu faes i Eglwys Philadelphia, a seriant eu cydwybodau fel â haiarn poeth. Ond aelodau Eglwys Philadelphia a wasanaethant y Duw byw mewn pob cydwybod dda. Eu gorfoledd yw, tystiolaeth eu cydwybod. Daliant ddirgelwch ffydd fawr yr Ail-ddyfodiad mewn cydwybod bur. Difai ydynt ger bron gorseddfainc Duw. Safant yn siriol yn yr olwg ar yr orseddfainc wen, a'u holl gynheddfau yn cydgordio mewn cadernid, pan y mae y nef a'r ddaear ffugiol yn ffoi i'r gollfa bythol.

4. Ceidw galon gynes fel heulwen haf. Eneidiau cedyrn Philadelphia sydd orlawn o dan dwyfol, yn dylifo o haul y byd angylaidd, ac amgylchir hwynt ag awyrgylchau cynes. Zel Duw dreiddia trwy eu calon, eu hewyllys, eu deall, eu rheswm, eu gwybodaeth, eu geiriau a'u gwaith. Fel Elias, dygant fawr zel dros Arglwydd y lluoedd. Fel y Salmydd, gallant ddywedyd, "Zel dy dŷ di a'm hysodd i" (Salm lxix, 9). Fel y seraphiaid, y maent yn llosgi gan dan nefolaidd; ac fel saint y Pentecost, y maent wedi eu bedyddio a'r bedydd tan: "Ac ymddangosodd iddynt dafodau gwahanedig megis o dan, ac efe a eisteddodd ar bob un o honynt" (Act. ii, 3). Gwisgant gariad a zel fel cochl. Y gwirioneddau sydd oerion i eraill, droant yn gyneuad mawr ac yn fflamiau angerddol ar aelwydydd eneidiau Philadelphia. Gweision Duw Hollalluog ydynt, sydd dan fflamllyd. Eu gwybodaeth o'r gwirionedd dwyfol a'u cariad ato, sydd un, ac am hyny y maent yn gadarn a diysgog.

5. Gwrol groesa y lluaws drygionus. Dywed un o'r beirdd fod llo, er ys dau can' mlynedd yn ol, wedi crwydro i'r anialwch, ac wrth ddychwelyd adref, wedi gwneud llwybr gwyrgam trwy y drain a'r drysni. Aeth ci unig ar hyd yr un llwybr dranoeth; wedi hyny aeth hwrdd drosto, a'r ddeadell ar ei ol; yna troediai dynion yr un camrau, gan fynych gablu y troadau troellog, ond er hyny, dilyn llwybr y llo a wnaent. Fel hyn, aeth y llwybr cethin, conglog, yn ffordd fawr, y meirch a'r mulod yn chwysu wrth lusgo arni y wageni a'r cerbydau.

Adeiladwyd tai a phentrefi ar ei hymylon, a thref fawr o'r diwedd; ac aeth llwybr igimogam y llo yn brif heol y ddinas, miloedd o bobl a thrafnidiaeth mor a thir yn symud arni bob dydd. Llwybr y llo yw llwybr y lluaws—llwybr wedi myned yn ffordd. Lloi y bobl yw yr arweinwyr yn denu y tyrfaoedd i ddilyn traddodiadau, cyfeiliornadau, ac arferion gwyrgam. Ond aelodau Eglwys Philadelphia a groesant lwybr y llo. Gwrandawant ar lais Duw ac nid ar lais y cyhoedd. Rhaid iddynt ufuddhau i Dduw ac nid i ddynion. Cadwant Air ei amynedd Ef, ac ymddygant yn fentrus, gwreiddiol, a hyny, nes peri i'w gwroniaeth dreialon tanllyd, trwy fod y lliaws ar lwybr y llo yn gollwng arnynt wawd, cabledd, a chelwydd, gan geisio eu difuddio o'u pleserau, eu parch, a'u bywyd. Ond y mae gan ddynion Philadelphia bethau mwy yn eu bryd na glafoerion a gwenwyn eu gelynion gwan a gwamal. Gwegi yn eu golwg yw clod ac anghlod beilchion a bydolion poblogaidd byd. Fel y llanciau yn Babilon, ac fel yr Iesu ar y Groes, goddefant gyda'r Gair pan gefna pawb.

6. Ceidw ei ysbryd a'i gorph mewn trefn. Y mae dyn wedi ei greu i fod yn y byd ysbrydol gyda'r angylion, ac yn y byd naturiol gyda dynion ar yr un pryd. Y mae gan bob dyn ran allanol a rhan fewnol, ond mawr yw y gwahaniaeth yn hyn rhwng dynion drwg a dynion da. Y rhan fewnol gyda dynion da sydd yn y nef, ac yn derbyn goleu oddi yno; a'r rhan allanol sydd yn y byd hwn, ac yn derbyn goleu oddiyno. Y goleu olaf a oleuir gan y goleu sydd o'r nef, fel y mae y mewnol a'r allanol yn cydweithredu. Ond gyda dynion drwg y mae y rhan fewnol yn uffern, a'r rhan allanol yn y byd hwn, fel na welant ddim yn ngoleu y nef. "Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o ysbryd Duw, canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt. Ond yr hwn sydd ysbrydol sydd yn barnu pob peth" (I Cor. ii, 13, 14). Y dyn mewnol yw y dyn ysbrydol, am ei fod yn byw yn ngoleuni y nef; a'r dyn allanol yw y dyn anianol, am ei fod yn byw yn ngoleuni y byd hwn yn unig. Y dyn ysbrydol sydd ysbrydol o fewn ac o faes, am fod goleuni y nefoedd yn llifo o'i fewnolion i'w holl allanolion; a'r dyn anianol sydd anianol o fewn ac o faes, am mai goleuni y byd hwn yn unig a thywyllwch uffern lifa i'w fewnolion a'i allanolion ef. Y mae y dyn ysbrydol yn meddwl yn ngoleuni y ddau fyd, ond fod ei feddwl ysbrydol yn disgyn i'w feddwl anianol, gan ei ysbrydoli a'i reoli; ond y dyn anianol nid yw yn meddwl ond yn y byd hwn yn unig, gan ei fod wedi suddo i'r hyn sydd gnawdol a materol. Meddwl yn ysbrydol yw meddwl am y Dyn Anfeidrol, am y byd angylaidd ac ysbrydol,

am hanfodion mewnol pob peth; meddwl a barnu yr hyn sydd wir wrth oleu y Gair, a'r hyn sydd dda trwy gariad at ddaioni; meddwl am bethau tu fewn i'w ffurfiau a'u gorchuddion allanol, gan graffu ar eu tueddion cynhenid. Ond meddwl yn faterol yw meddwl am bethau fel yr ymddangosant tu faes yn unig; nid yw y fath feddwl ond aflunaidd a gwag, a difywyd. Angel o'r nef yn nghymdeithas angylion yw y dyn ysbrydol; ac ysbryd o uffern yn nghymdeithas yr uffernolion, yw y dyn anianol. Dynion ysbrydol a ymadnewyddant yn barhaus yn ysbryd eu meddwl, ac fel pencampwyr, dygant eu corph yn gaeth i'r enaid, a'r enaid i'r Arglwydd. Y corph a'i fyd a reolir gan yr enaid a'i fyd. Tad tragwyddoldeb a deyrnasa ynddynt hwy, a thrwyddynt ar amser a'i helyntion. Felly, llawn ydynt o'r sylweddau dwyfol ac angylaidd, a dyogel rhag balchder, budr-elw, pomp y byd, ei bleserau gau, a'i dristwch sydd yn gweithio angau. Ysbryd yr hwn a gyfododd Grist o feirw, a fywiocca gyrph marwol aelodau Eglwys Philadelphia.

7. Ymbortha ar sylwedd ysbrydol a nefol y Gair. Y sylweddau dwyfol a ddeilliant o'r Arglwydd, a ddisgynant trwy dri gradd y nefoedd i ddyn; ac wedi disgyn, cynwysant y gradd nefol ac ysbrydol yn y gradd naturiol. Y fath yw natur ac ansawdd y Gair. Yn ei ystyr fwyaf allanol, naturiol yw; yn ei ystyr fewnol, ysbrydol yw; yn ei ystyr fwyaf mewnol, nefol yw; ac yn mhob ystyr y mae yn ddwyfol; ac felly y mae nerth Duw yn mhob rhan o'r Gair. Y dyn newydd, neu aelodau Eglwys Philadelphia, fel Ezeciel, ac fel Ioan, a fwytant y Llyfr, gan gyfranogi o'i ddwyfol a'i angylaidd gryfder. "Ac mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, Jerusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddi wrth fy Nuw i; ac mi a ysgrifenaf arno ef fy enw newydd i" (Dat. iii, 12). Nid oes gan aelodau Eglwys Philadelphia unryw gadernid o honynt eu hunain: eu holl gadernid sydd o'r Arglwydd trwy y Gair a'r nefoedd. Profiad pob un o honynt yw, "Yn nghadernid yr Arglwydd Dduw y cerddaf; dy gyfiawnder di yn unig a gofiaf fi" (Salm lxxi, 16). Cerdded yn nghadernid yr Arglwydd yw cerdded yn ffordd y bywyd, wedi bythol gefnu ar y diafol, a'r drancedigaeth, a damnedigaeth, a gwynebu ar yr Arglwydd, ar anfarwoldeb, ac ar anwyliaid angylaidd y nefoedd.

3. CADERNID YN SICRHAU RHAGORION NEWYDD YDYW.

Y rhagorion canlynol a berthyn i'r dyn newydd:—

1. Ei fryd sydd ddiysgog ar nod pen·f creadigaeth. Penaf nod yr holl greadigaeth yw adenedigaeth a gogoneddiad dyn, yn ol delw Dynoliaeth Ddwyfol yr Arglwydd. Ni wyr

Cristionogion nemawr eto am adenedigaeth, ac nis gallant nes symud eu gau-goelion am Dduw, ac am faddeuant pechodau a chyfiawnhad, sef y gall yr Arglwydd ddileu pechodau mewn moment, ac ail-eni a chyfiawnhau yr anuwiol ar unwaith. Ni wyddant beth yw pechod. Pe amgen, deallent nas gellir byth bythoedd ddileu pechod, ond yn unig ei gadw lawr, neu ei droi o'r neilldu trwy fod yr Arglwydd yn cadw dyn mewn daioni; ac nis gellir cadw dyn chwaith mewn daioni, heb gadw pechod lawr, a'i droi o'r neilldu yn barhaus; a gwneir hyn trwy foddion aneirif ac anrhaethadwy. Dywed Swedenborg fod y rhai a aethant i'r byd arall yn y gred fod dyn yn cael ei gyfiawnhau mewn mynudyn, a'i lwyr lanhau o'i holl bechodau, yn synu wrth sylwi fod adenedigaeth dyn yn myned yn mlaen o hyd trwy foddion aneirif ac anrhaethadwy. Dysgir ni fod adenedigaeth yn dechreu yn y groth, yn myned yn mlaen yn ei holl ryfeddodau trwy holl oes dyn, yn nghwsg ac yn effro, ac i fyned yn mlaen am dragwyddoldeb, trwy ddirgelion dyfnion dirifedi, nas gall yr angylion doethaf ddirnad y filiwnfed ran o honynt. Maddeua yr Arglwydd bechodau pawb a hiraethant o galon am hyny; ond nid ydynt o herwydd hyny yn rhydd oddi wrth y giwed uffernol sydd yn un a hwynt o herwydd eu pechodau, am fod pechod wedi eu huno a'u rhwymo yn yr un bywyd a'r uffernolion. Bod yn rhydd oddi wrth yr uffernolion yw bod yn rhydd o bechod, ac nis gellir rhyddhau dyn oddi wrth bechod, ond trwy filiwnau ar filiwnau o foddion a moddau anhysbys i bawb ond i'r Arglwydd ei Hun: a hyny trwy weithrediadau olynol a pharhaus. Y mae dyn mor ddrwg nas gellir ei gwbl ryddhau am oesau rif y gwlith oddi wrth gymaint ag un pechod, heb son am ei aneirif bechodau. Ond gall yr Arglwydd o'i anfeidrol drugaredd, ei gadw mewn daioni, a'i dynu yn raddol oddi wrth y drwg, ychydig yma ac ychydig acw, yn fwy, fwy am byth. Gorphwys y dirgelion am y moddau hyn yn nghysegr sancteiddiolaf y Gair. Tra dyn yn ei ddarllen yn ddifrifol, tŷn y Dyn Anfeidrol a'r holl angylion ato, a rhydd iddynt foddhad wrth osod ei hun yn agored i'w cymhorth a'u gwasanaeth i'w godi yn nes, nes o hyd i ddelw y Ddynoliaeth Ddwyfol. Aelodau Eglwys Philadelphia a gyrchant yn ddisigl at y nod goruchel hwn.

2. Ni threulia ac nid ymdreulia yn ofer. Y mae cedyrn sefydlog Philadelphia yn sylweddau ysbrydol o ran eu teimladau, eu meddyliau, eu geiriau, a'u gwaith. Yn llawen iawn y treuliant ac yr ymdreuliant dros Dduw a dyn; ond ni redant yn ofer, ac ni chymerant boen yn ofer. Ni weithredant ond oddi ar fwriadau sefydlog y Duwdod, tra dynion

gwan a gwamal yn gwario eu teimladau, eu meddyliau, eu geiriau, a'u gwaith yn ofer, a gwaeth nag ofer; treuliant ac ymdreuliant yn ddienaid dros y ffugiau crefyddol, dros y byd, ei barch a'i bomp. "Pa lesad i ddyn, os enill efe yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun? neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?" (Math. xvi, 26). Treulio ac ymdreulio dros eneidiau y mae dynion Eglwys Philadelphia, nid gyda meddwl dau-ddyblyg, nid gydag addunedau heb eu talu, nid ag enaid rhanedig. Dynion cyfain ydynt, a chwbl gysegredig i wneud ewyllys Emanuel, heb brisio y byd. "A'r byd sydd yn myned heibio, a'i chwant hefyd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys Duw, sydd yn aros yn dragywydd" (I Ioan ii, 17).

3. Caiff lonydd gan ddrygau, a chan ddynion ac ysbrydion drwg. "O achos cadw o honot Air fy amynedd i, minau a'th gadwaf di oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 10). Y Gweiniaid sigledig ydynt debyg i blant gweinion, yn agored i'r holl ddoluriau, ac anhawdd eu gwella; ond cedyrn Philadelphia sydd fel plant cryfion ac iach, heb un dolur yn cydio ynddynt, ac heb fod yn agored i un pla. O herwydd eu sylwedd a'u sefydlowgrwydd ysbrydol, dyogelir hwynt rhag yr uffernoedd. Cilia y cynghreiriau drygionus yn ddigalon oddi wrthynt.

4. Bydd byw byth yn ffafr a pharch yr Arglwydd a'r angylion. Edmygir cadernid diysgog, megis y graig safadwy, y mynydd uchel, y dderwen gref, y ddaear yr hon a saif byth, yr haul a'r lloer a'r ser, fel tystion ffyddlon yn y nef. Geilw y Creawdwr ein sylw at ei greaduriaid cryfion. Wele y behemoth, a'i gryfder yn ei lwynau, a'i nerth yn mogel ei fol. Cyfyd ei gynffon fel cedrwydden. Pibellau pres yw ei esgyrn; ei esgyrn sydd fel ffyn heiyrn. A ddeil neb ef? A dylla neb ei drwyn ef a bachau? Dacw y leviathan. Pwy a'i rhwyma a rhaff? Cleddyf yr hwn a'i tarawo ni ddeil. Gofyna y Crewr, Pwy a roddodd gryfder i farch? Pwy rwyma yr unicorn? Pwy bar i'r llew droi yn ol? Ond aelodau Eglwys Philadelphia ydynt gadarnach na'r creigiau a'r mynyddoedd, y derw a'r ddaear, y bydoedd, a phob creadur direswm arnynt. "Canys y mae yn ddiogel genyf na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddianau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd" (Rhuf. viii, 38, 39).

5. Bydd yn ddefnyddiol a dedwydd yn y nefoedd newydd am dragwyddoldeb. "Yr hwn sydd yn gorchfygu, mi a'i gwnaf ef yn golofn yn nheml fy Nuw i, ac allan nid â

efe mwyach" (Dat. iii, 12). Bydd yn ddarn o'r nefoedd newydd ac yn gynaliad iddi am dragwyddoldeb. "Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd, ac y gallont fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas" (Dat. xxii, 14).

Wrth fynegu yr arwyddion a'r rhyfeddodau a wna y Dyn Anfeidrol yn y dyn newydd, yr arwyddion mawrion a'r rhyfeddodau cedyrn hefyd a wna trwyddo, arswyd a dychryn yw dyfalu ar yr hen ddyn yn ei wyniau a'i chwantau yn gwyrdroi pob cyfiawnder. Dyna paham y ceir y pwlpudau o'r bron yn fflamllyd dros y rhyfel mwyaf creulon ac anghyfiawn, ac eglwysi pob enwad yn cyffroi y bobl ieuainc i fyned i lofruddio a lladrata yn Neheudir Affrica. Y pwlpudau a'r eglwysi hefyd yw colofnau y fasnach feddwol, fel y gwelir oddi wrth restr hirfaith enwau y pregethwyr yn dal cyfranau dros ddwy filiwn o bunau yn y fasnach felldigedig hon. Arwydd er daioni yw fod y bobl yn cefnu ar y fath grefydd, fel nad oes ond dau ar bymtheg o bob cant o drigolion Prydain yn aelodau. Crefydd, llywodraeth, a masnach y byd Cristionogol heddyw sydd halogedig fel Gehena neu fangre Tophet; tebyg hefyd ydynt i'r pren ofnadwy a welodd brenhin Babel yn ei freuddwyd. Ordinhad y sanct a'r gwyliedyddion yw eu tori i lawr, a'u gyru o blith dynion, fel y gwybydder mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu, ac y caffer lle i deyrnas y dynion newydd a dorant ymaith bechodau trwy gyfiawnder, ac anwireddau trwy drugarhau wrth drueiniaid. Yna y bydd estyniad na dderfydd ar heddwch y byd.

XXV.—AGORIAD I'R CARIAD PRIODASOL.

Duw Cariad yw, a dylifa o hono dri math o gariad, sef *cariad at fywyd*, *cariad at gydmar bywyd*, *a chariad at blant*. Sylwn ar y *cariad at gydmar bywyd*, sef y cariad priodasol, yn ol agoriadau Eglwys Philadelphia. "Mi a adwaen dy weithredoedd: wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau" (Dat. iii, 8). "A myfi, Ioan, a welais y ddinas sanctaidd, Jerusalem Newydd, yn

dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nef, wedi ei pharotoi fel priodasferch wedi ei thrwsio i'w gwr" (Dat. xxi, 2). Gwelodd Ioan yr Eglwys yn disgyn o'r nef, yn gyntaf fel dinas, ac wedi hyny fel priodasferch: fel dinas yn arddangosiadol, ac fel priodasferch yn ysbrydol—gweledigaeth ddyblyg, un uwchlaw y llall, yn gywir fel y gwel angylion. Pan fyddont hwy yn clywed neu yn darllen yn y Gair am ddinas, mewn syniad isel meddyliant am ddinas, ond mewn syniad uwch meddyliant am yr Eglwys o ran athrawiaeth; ac os dymunant a gweddio ar yr Arglwydd, gwelant yr Eglwys fel priodasferch hardd a gogoneddus o wisg. Yr Eglwys a gaiff ei pharotoi a'i thrwsio trwy wirioneddau y Gair, a thrwy y Gair hefyd y caiff ei phriodi a'r Arglwydd, am mai y Gair yw unig gyfrwng y cyfamod priodasol. Pwnc prydferth yw diweirdeb, yn gofyn doniau dwyfol i'w drin i'w wreiddiau a'i gangau, a'i ddangos yn sylfaen pob perffeithrwydd a gwynfyd; tra anlladrwydd a godineb yn hyrwyddo pob dirywiad a thrueni. Ni sonir am y pwnc ond anaml ac arwynebol, er fod y Gair yn orlawn o hono, ac yn ei ystyr fewnol, yn cynwys y briodas ddwyfol yn mhob rhan. Dynion anniwair a ffugiant fod son am ddiweirdeb ac anlladrwydd yn clwyfo eu gwyleidd-dra; ond dynion diwair a gwylaidd a deimlant yn amgen. Os yw gwyr a gwragedd, meibion a merched, i gael eu dysgu gan yr Arglwydd, rhaid iddynt dderbyn dysg trwy eu holl natur, ac am eu holl natur, yn ddiniwed a diwair, fel plant bach. Y pwlpud gau ni fyn ac ni faidd feio pechodau parchus, na moli rhinweddau anmharchus. Ond pob prophwyd i'r Arglwydd, fel Ioan Fedyddiwr, a ddywed wrth Herod Frenin am Herodias: "Nid cyfreithlon i ti ei chael hi." Rhoddodd Hugh Latimer Feibl i'r godinebwr Harri VIII., wedi nodi iddo y geiriau, "Anrhydeddus yw priodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig; eithr putteinwyr a godinebwyr a farna Duw" (Heb. xiii, 4). Ffynonell purdeb priodasol a phob purdeb arall yw, mai Un Duw, sef Un Person Dwyfol sydd, mai yr Arglwydd Iesu Grist yw Efe, ac mai cadw ei orchymynion yw unig amod a rheol bywyd. Godineb yw aml dduwiau, neu aml bersonau dwyfol. O herwydd hyn y gelwir y grefydd Brotestanaidd yn Jezebel, a'r Babaeth yn Buttain Fawr. Eilun-addoliaeth hefyd o bob rhyw a godineb a ganlynant eu gilydd, megis y gwelir yn hanes yr Aipht, Assyria, Babilon, ac Israel wrth gilio oddi wrth y gwir a'r unig Dduw. Sylwn:—

I. TARDDIAD Y CARIAD PRIODASOL A'I GYFFREDINOLRWYDD. II. Y GWIR GARIAD PRIODASOL RHWNG GWR A GWRAIG. III. SANCTEIDDRWYDD Y CARIAD PRIODASOL. IV. Y CARIAD PRIODASOL A GAIFF EI BERFFEITHIO AM DRAGWYDDOLDEB. V. GWAHANIAETH YSBRYDOL AC ANFARWOL GWRYW A MENYW. VI. PRIODAS YR ENAID A'R ARGLWYDD YW PERFFEITHRWYDD PRIODAS. VII. PRIODASAU UFFERNOL. VIII. CYNGHORION I BOBL IEUAINC AM BRIODAS.

I. TARDDIAD Y CARIAD PRIODASOL A'I GYFFREDINOLRWYDD. Priodas cariad a gwirionedd yn y Duwdod yw tarddiad priodas rhwng gwr a gwraig. Dynoliaeth gyflawn ac anfeidrol yw y Duwdod, yn meddu serchiadau aneirif, a meddyliau aneirif yn briod a hwynt. Nid oes feddwl dwyfol heb ei gydmar mewn teimlad. Y mae y briodas hon yn holl fanylion y Gair, fel ei dangosir yn urddasol yn agoriad yr ystyron mewnol. Y mae yn y Gair ddwy ystyr cuddiedig yn ei ystyr lythyrenol, yr ystyr ysbrydol, a'r ystyr nefol: yr ystyr ysbrydol yn dal perthynas a'r gwirionedd; a'r ystyr nefol yn dal perthynas a'r cariad. Oddi yma y mae y briodas hon yn ystyr llythyren y Gair. Ond nid yw hyn yn amlwg, ond i rai o ystyr ysbrydol a nefol y Gair, a wyddant ystyr y dywediadau a'r geiriau. Rhai dywediadau a geiriau sydd am gariad, rhai am wirionedd, a rhai am y ddau O herwydd y briodas hon, ceir yn aml yn y Gair ddywediadau yn ymddangos fel ail adroddiadau am yr un peth. Ond nid ail adroddiadau ydynt: un a berthyn i gariad, a'r llall i wirionedd; a'r ddau gyda'u gilydd a unant wirionedd a chariad. Hyn yw Dwyfoldeb a Sancteiddrwydd y Gair. Yn mhob gwaith dwyfol, y mae cariad yn un a gwirionedd, a gwirionedd yn un a chariad. Y mae ysbryd y briodas sanctaidd sydd yn y Duwdod, ac yn mhob rhan o'r Gair, yn dylifo trwy y nefoedd, a thrwy y bydoedd oll. Cyfundraeth o briodasau yw y bydysawd. Dywedai y Derwyddon mai priod y ddaear yw yr haul: "Yn dyfod allan fel priodfab o'i ystafell." Y ddaear yn y nos a hiraetha am y boreu, er cael gweled ei phriod hawddgar.

"Mud yw yr awel—dystaw ymdroa,
Mewn awr o hiraeth am wen Aurora;
Ar hyn y ceiliog enwog a gana—bedyddiwyd wybren,
A'r byd ddadebra;
Ior yn y dwyrain a dora ei flwch per
O eurdawdd leufer—a'r dydd a lifa."

Dacw y priodfab yn dyfod yn ei wisg wen, gynes, a'r nos a ffodd fel bwgan, gan gywilydd o'i olwg. Priod hefyd yw y goleu a'r gwres, pegynau y magnet, y dafnau dwfr, gronynau mater, y planhigion, y pysg, yr ymlusgiaid, yr anifeiliaid, yr adar, a'r angylion. "Pob un gyda'i gymhar. Ceisiwch allan o Lyfr yr Arglwydd, a darllenwch; ni phalla un o hyn, ni bydd heb ei gymhar" (Esaiah xxxiv, 15, 16). Y mae priodas hefyd yn y dyn rhwng y deall a'r ewyllys, rhwng y ddau ymenydd, rhwng dwy ran y galon, rhwng dwy dalaeth yr ysgyfaint, rhwng y ddwy aren, rhwng y ddau lygad, rhwng y ddau glust, rhwng y ddwy ffroen, rhwng y ddwy wefus, rhwng y ddwy fraich, rhwng y ddwy law, rhwng y ddwy goes, a rhwng y ddwy droed. Y mae priodas eto mewn iaith, rhwng llefariaid a chydseiniaid, rhwng rhyddiaeth a barddoniaeth, rhwng llefaru a chanu.

2. Y GWIR GARIAD PRIODASOL RHWNG GWR A GWRAIG. Ni ellir synied am arucheledd ac amrywion cariad priodasol diwair heb wybod ei darddiad, ei hanfod, ei burdeb, a'i bwrpas. Coron creadigaeth yw y gwir gariad priodasol rhwng gwr a gwraig. Tri pheth hynodent ddynoliaeth berffaith—*Paradwys, y Sabath*, a *Phriodas ddiwair.* Dechreu gwyrthiau yr Iesu a gymerth le yn Cana, Galilea, i gysegru priodas, gan ddangos ei ogoniant. Diwedd y Datguddiad Dwyfol a ddarlunia y Briodasferch, Gwraig yr Oen. Y gwir gariad priodasol a una wr a gwraig mewn tri man:—*Yn gyntaf yn yr Arglwydd:* "Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd Efe ef: yn wrryw ac yn fenyw y creodd Efe hwynt" (Gen. i, 27). "Onid un a wnaeth Efe? a'r ysbryd yn ngweddill ganddo. A phaham un? I geisio had duwiol. Am hyny, gwyliwch ar eich ysbryd, ac na fydded neb anffyddlawn yn erbyn gwraig ei ieuenctyd" (Mal. ii, 15). "Oblegid hyn y gâd dyn dad a mam, ac y glyn wrth ei wraig; a'r ddau fyddant yn un cnawd" (Math. xix, 5). Bod yn un cnawd yw bod yn un daioni yn yr Arglwydd. "Y dirgelwch hwn sydd fawr" (Eph. v, 32). *Yn ail, yn y nef.* Y gwr a'r wraig yn briod yn yr Arglwydd, ydynt hefyd yn briod yn y nef yn mhlith angylion Duw. "Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, ac at fyrddiwn o angylion" (Heb. xii, 22). Ymddangosodd angylion i Abraham a Sarah, i Manoah a'i wraig, i Zechariah ac Elizabeth, i Joseph a Mair. *Yn drydydd, yn y byd.* Lle y byddo dau ddiwair yn caru eu gilydd yn yr undeb priodasol, yno y mae yr Arglwydd, y Gair, y Nefoedd, ac Eglwys Philadelphia, yn gyflawn yn y byd. Perthyn pob pleserau a phrydferthion i'r cariad hwn, am ei fod y cariad

mwyaf dwyfol, nefolaidd, a defnyddiol. Trwyddo y parheir yr hil ddynol yn drefnus ar y ddaear, ac y poblogir y nef angylaidd; a thrwyddo y cynyrchir yn y nef angylaidd feddyliau a theimladau priod, pur, a heddlon yn hiliogaethau a chenhedlaethau afrifed. Hyn yw dyben eithaf creadigaeth.

3. SANCTEIDDRWYDD Y CARIAD PRIODASOL. Yn y nefoedd y gwelir ac y mwynheir y cariad priodasol yn ei wir burdeb. Yr angylion, gan hyny, a ystyriant briodasau ar y ddaear y pethau mwyaf sanctaidd, am eu bod yn fagwrfa i'r hil ddynol, ac yn poblogi y nef angylaidd; hefyd, am eu bod yn tarddu o briodas ddwyfol cariad a gwirionedd, ac am fod y Duwdod yn dylifo yn benaf i'r cariad hwn. Cyfrifant odineb yn halogedig, am ei fod yn groes i gariad priodasol. Gwelant y nefoedd, sef doethineb a daioni, yn un mewn cariad priodasol, a gwelant uffern, sef drygioni ac anwiredd, yn un mewn godineb. Nis gallant oddef presenoldeb godinebwyr, na'r son am danynt. Cauedig yw y nefoedd rhag y godinebwyr. Gan mai yn y nefoedd y mae cariad priodasol yn ei burdeb, pa berffeithiaf y nefoedd, perffeithiaf yw y cariad hwn; yn y nefoedd fwyaf mewnol, gan hyny, ei gwelir ragoraf, oblegid fod angylion y nefoedd hono yn fwy sanctaidd, yn fwy diniwed, a'r briodas rhwng cariad a gwirionedd yn fwy perffaith ynddynt. Ystad o ddiniweidrwydd pur yw priodas; am hyny, y rhai priod yn y nefoedd uwchaf, a fwynhant bleserau nefol yn ymddangos iddynt fel chwareuon diniweidrwydd yn mhlith plant; pob peth a'u difyrant, am fod y nefoedd a'i gorfoledd yn llifo i fewn i holl fanylion eu bywyd. "Arddangosir y cariad priodasol yn y nefoedd," medd Swedenborg, "trwy y gwrthrychau harddaf. Gwelais ef yn cael ei arddangos trwy wyryf anrhaethol hardd, yn cael ei hamgylchu gan gwmwl gwyn; a dywedwyd wrthyf fod holl harddwch angylion y nefoedd yn tarddu o'r cariad priodasol. Y serchiadau a'r meddyliau a lifant o hono, a arddangosir gan awyrgylchau dysglaer fel y diemwnt, ac yn serianu fel perlau drudfawr; a'r oll yn llawn pleserau yn effeithio ar fewnolion y meddwl. Mewn gair, y nefoedd a arddengys ei hun mewn cariad priodasol, oblegid mai y nefoedd yn yr angylion yw undeb daioni a gwirionedd, a'r undeb hwn sydd yn gwneud cariad priodasol."

4. Y CARIAD PRIODASOL A GAIFF EI BERFFEITHIO AM DRAGWYDDOLDEB. Y briodas nefol rhwng yr Arglwydd a'r nefoedd, a rhwng cariad a gwirionedd wrth ddisgyn i ddyn, a ddengys ei ddelw yn undeb anwyl gwr a gwraig. Ffurf yw y gwr i fyned ar gynydd tragwyddol mewn gwybodaeth, a deall, a doethineb; a ffurf yw y wraig i gael mwynhad tragwyddol wrth fod yn ymgeledd i'w gwr yn ei wybodaeth,

ei ddeall, a'i ddoethineb. Hyn yw y gwahaniaeth mewnol ac anfarwol rhwng gwrryw a benyw. Dengys hyn y byddant yn wrryw a benyw yn y byd ysbrydol wedi gadael y corph. "Yn wrryw ac yn fenyw y creodd Efe hwynt" (Gen. i, 27). Eto, y mae elfen yn y ddau ryw, yn tarddu o'r hunan-gariad, yn ceisio dinystrio y gwahaniaeth hwn, a diffodd y cyd-gariad priodasol. Arddangosir hyn yn hanes y cread gan y "trwmgwsg" a'r "asen" (Gen. ii, 20-23). Dengys yr "asen" ymchwydd gwybodaeth, a chyn symud yr "asen," a "chau cig yn ei lle," caru ei hun o herwydd ei ddeall a'i ddoethineb wna dyn, ac heb feddu gwir gariad priodasol, ac aiff yn ysbrydol wallgof, ac aniwair yn ei berthynas a'i wraig. Ar y llaw arall, cyhyd y byddo yr "asen" wedi ei symud o'r dyn i'r fenyw, ac heb ei gwneud yn wraig, ond y cais ymddangos yn brydferth o'r tu faes oddi ar falchder a phomp, er mwyn hudo, hi a lygra ei chariad priodasol, ac ni bydd ond hoeden anllad, ac nid ymgeledd gymhwys. Mewn trefn, gan hyny, i ddyn i ddyfod yn ddyn a gwr gwirioneddol, rhaid iddo lwyrymwrthod ag ymchwydd gwybodaeth, ac ymgysegru mewn zel gynyddol i fyfyrio Gair yr Arglwydd a'r agoriadau arno, er mwyn meddu deall a doethineb ysbrydol a nefol. Ac mewn trefn i'r fenyw ddyfod yn fenyw a gwraig wirioneddol, rhaid iddi ymgysegru mewn zel gynyddol i feddianu ac ymarfer y deall a'r doethineb sydd yn ei gwr. Felly y gwna hi a'i gwr ymuno a'u gilydd. Efe a dderbyn ei chariad hi i'w ddoethineb ei hun, gan ei wneud yn fyw a nerthol; a hi a dderbyn ei ddoethineb ef i'w chariad ei hun, gan ei gwneud yn ffrwythlon a hardd. Y cariad yn y wraig, a'r doethineb yn y gwr, a ddeilliant o'r Arglwydd; felly. trwy fod y wraig yn uno ei hun a doethineb ei gwr, hi a una ei hun a'r Arglwydd; a thrwy fod y gwr yn uno ei hun a chariad y wraig, efe a una ei hun a'r Arglwydd. Hyn yw hanfod priodas yn y nefol fyd. "Hon a elwir gwraig, oblegid o wr y cymeryd hi" (Gen. ii, 23); hyny yw, caiff gwraig ei ffurfio trwy y pethau gymer o'i gwr, ac yn neillduol o'i fynwes, gan eu planu ynddi ei hun. Cymer hyn le o du y wraig trwy ddylanwadau dirgeledig yn tramwy o honi hi iddo ef, ac yn cym-yd iddi ei hun o hono ef ei serchiadau a'i ddoethineb. Gwna hyn heb yn wybod i'w gwr, yr hyn a ddangosir trwy ddweud i "drwmgwsg syrthio ar Adda." Y wraig oddi ar gallineb cynhenid yn ei chariad a gela weithrediadau mewnol ei serchiadau a'i gallu cyflym i ganfod, cyfranogi, a gwahaniaethu, nas gwyr y gwr ddim am dano. Dymuna dyn da ymuno a'i briod, os yn ymgeledd gymhwys, ac a'i deulu os yn deilwng, wedi gadael y byd. Anfarwol yw y berthynas deuluaidd dduwiol a diwair, yn sicrhau cyd-

drigfanau dedwydd yn nhragwyddoldeb. Darlunir hyn gan y llwythau yn cyd-drigo yn Nghanaan, ac yn cael eu selio yn y nef, er fod ystyron mewnol i'r llythyren. "O lwyth Judah, yr oedd deuddeng mil wedi eu selio. O lwyth Reuben, yr oedd deuddeng mil wedi eu selio," etc. (Dat. vii, 5-8). Priodas yw coron yr adgyfodiad a'r bywyd, megis yr eglurodd yr Arglwydd i'r Saduceaid, er eu bod yn rhy gnawdol i'w ddeall (Math. xxii, 31, 32; Luc xx, 37, 38). Deall yr adgyfodiad yw deall priodas, a deall defnyddioldeb a dedwyddwch bywyd tragwyddol. Cafodd Swedenborg weled y modd y cymer priodasau le yn y nefoedd. Trwy yr holl nefoedd, y mae y rhai sydd o gymeriadau anhebyg ar wahan. Pob cymdeithas nefol a gynwys angylion o dymherau tebyg: tebyg a dŷn at ei debyg, nid trwyddynt eu hunain, ond gan yr Arglwydd. Yn yr un modd, dau gydmar priodasol, o feddyliau addas i'w huno yn un, a dynant at eu gilydd o'u henaid mwyaf mewnol, ar yr olwg gyntaf; am hyny, carant eu gilydd, gwelant eu bod yn ddau gydmar priodasol, a phriodant. Felly, o'r Arglwydd yn unig y mae yr holl briodasau yn y nefoedd. Cadwant hefyd wledd gysegredig a lliosog ar adeg pob priodas; gwahaniaetha y gwleddoedd yn y cymdeithasau. Dangoswyd hefyd i Swedenborg fod pleserau cariad priodasol yn tynu tua'r nefoedd, a phleserau godineb tuag uffern. Tynfa pleserau cariad priodasol tua'r nefoedd, a ddangoswyd trwy wynfydau yn cynyddu, ac amlhau mewn rhif, hyd oni ddaethant yn aneirif ac anrhaethadwy; pa fwyaf mewnol yr aent, mwyaf aneirif ac anrhaethadwy oeddynt, hyd oni chyrhaeddasant wir wynfydau a dedwyddwch y nefoedd fwyaf mewnol, a'r oll mewn rhyddid perffaith; canys pob rhyddid a ddeillia o gariad, a'r rhyddid mwyaf perffaith o gariad priodasol, gan mai cariad nefol ei hun yw hwn. Ond tynfa godineb oedd tuag uffern, ac yn raddol tua'r uffern isaf, lle nad oes dim ond sydd erchyll a dychrynllyd. Dyna dynged godinebwyr yn y byd a ddaw. Wrth odinebwyr y meddylir y rhai sydd yn ymhyfrydu mewn godinebau, heb ddim hyfrydwch mewn priodas. Fel y mae cariad priodasol yn cael ei berffeithio am dragwyddoldeb, y mae cariad at odineb yn myned yn fwy anfad am dragwyddoldeb.

5. GWAHANIAETH YSBRYDOL AC ANFARWOL GWRRYW A MENYW. Gan fod dyn wedi ei greu yn wrryw a benyw, gwrryw fydd y gwrryw byth, a benyw fydd benyw byth; oblegid y gwahaniaeth hanfodol a bythol rhyngddynt yw, mai cariad sydd fwyaf mewnol yn y gwrryw, a doethineb yn ffurf iddo; tra doethineb sydd fwyaf mewnol yn y fenyw, a chariad yn ffurf iddo, sef doethineb y gwrryw, a'r cariad yn cael ei

roddi iddi trwy y doethineb hwnw gan yr Arglwydd. Oblegid hyn, doethineb cariad yw y gwrryw, a chariad at ddoethineb yw y fenyw. Am hyn, tueddant o'r cread i fod yn un a'u gilydd. Nid yw y gwrryw heb y fenyw, na'r fenyw heb y gwrryw. Narcissus ydoedd wr ieuanc hardd a fu farw o gariad at lun ei wyneb ei hun yn y dwfr. Nid oedd ganddo gydmar ond Eilun o hono ei hun. Ymdreuliodd i angau am nad oedd iddo ymgeledd gymhwys. Pe troisai yr Eilun yn Efa, troisai y byd yn baradwys iddo. Ar ol marw, trowyd ef yn flodeuyn er anrhydedd i'r pwerau uffernol, yn arwydd fod bywyd heb y rhyw fenywaidd ac heb briodas yn fethiant, ac yn fuddugoliaeth uffern. Y mae gwirionedd yn y chwedl hon o'r oesau boreu. Er fod gwahaniaeth hanfodol ac anfarwol rhwng y gwr a'r wraig, eto trwy wir briodas, gwneir y ddau yn un. Gwirionedd a daioni wedi eu huno mewn angel neu ddyn, nid dau ydynt, ond un; a'r undeb hwn sydd debyg i'r hyn fodola pan fyddo dyn yn meddwl yr hyn y mae yn ewyllysio, ac ewyllysio yr hyn y mae yn feddwl; yna bydd ei feddwl a'i ewyllys yn gwneud un, sef un meddwl: ei feddwl yn dangos mewn ffurf yr hyn a ewyllysia ei ewyllys; a'i ewyllys yn cyfranu pleser i'w feddwl. Dyma y rheswm nad yw dau briod yn cael eu galw yn ddau yn y nefoedd, ond un angel; a hyn feddylir gan eiriau yr Arglwydd: "Oni ddarllenasoch, i'r hwn a'u gwnaeth o'r dechreu, eu gwneuthur yn wrryw a benyw? Oblegid hyn y gad dyn dad a mam, ac y glyn wrth ei wraig; a'r ddau fyddant yn un cnawd. O herwydd paham, nid ydynt mwy yn ddau, ond yn un cnawd. Y peth, gan hyny, a gysylltodd Duw, na ysgared dyn. Nid yw pawb yn derbyn y Gair hwn, ond y rhai y rhoddwyd iddynt" (Math. xix, 4, 5, 6, 11; Marc x, 6, 7, 8, 9; Gen. ii, 24). Yn y geiriau hyn, desgrifir priodasau nefol yr angylion, ac ar yr un pryd priodas daioni a gwirionedd. Wrth y gorchymyn: "Y peth a gysylltodd Duw, nad ysgared dyn," y golygir na ddylid ysgaru gwirionedd a daioni.

6. PRIODAS YR ENAID A'R ARGLWYDD YW PERFFEITHRWYDD PRIODAS. "Aelodau ydym o'i gorph Ef, o'i gnawd Ef, ac o'i esgyrn Ef. Am hyny y gad dyn ei dad a'i fam, ac y glyn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd. Y dirgelwch hwn sydd fawr; eithr am Grist ac am yr Eglwys yr wyf fi yn dywedyd" (Eph. v, 30-32). Fel y mae bywyd, a harddwch, a lloniant y ddaear yn y gwanwyn a'r haf, yn deilliaw o'r haul, yn dyfod allan fel priodfab o'i ystafell i wenu arni, felly y mae bywyd, harddwch, a lloniant yr enaid yn dyfod o wenau yr Arglwydd fel priodfab. "Dy briod yw yr hwn a'th wnaeth; Arglwydd y llnoedd yw ei enw"

(Esaiah lvi, 5). "A all plant yr ystafell-briodas alaru tra fyddo y priodfab gyda hwynt?" (Math. ix, 15). Daw ef a'r nefoedd i'r enaid sydd yn briod ag ef, fel y dangosir yn y Datguddiad, penodau xxi a xxii. Priodasferch gwraig yr Oen yw Eglwys yr Ail-ddyfodiad. "Llawenychwn, a gorfoleddwn, a rhoddwn ogoniant iddo Ef; oblegid daeth priodas yr Oen, a'i wraig ef a'i parotodd ei hun. Bendigedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen" (Dat. xix, 7, 9). Disgwyl yr Arglwydd yn ei Ail-ddyfodiad yw ei ddisgwyl fel y Priodfab. Bod yn briod a'r Arglwydd yw bod yn un ag Ef trwy y Gair mewn meddwl, mewn teimlad, a bywyd. Y cyfryw yn unig all dderbyn a mwynhau cariad priodasol i'w buro a'i berffeithio am dragwyddoldeb. Gan mai o'r Arglwydd y mae pob daioni unedig a gwirionedd, nis gall neb fod mewn gwir gariad priodasol heb gydnabod yr Arglwydd a'i Dduwdod; oblegid heb y gydnabyddiaeth hon, nis gall yr Arglwydd lifo i fewn ac uno ei Hun a'r gwirioneddau sydd yn y dyn, a'i ddenu i'r briodas ddwyfol. Nis gall y rhai sydd mewn credoau gau, a drygau, fod mewn cariad priodasol. Cauedig yw mewnolion eu meddyliau, ac ni wyddant ond am briodas y dyn allanol. Nis gall cariad priodasol fodoli chwaith rhwng dau o grefyddau gwahanol, oblegid nas gall daioni y naill gytuno a gwirionedd y llall, ac nis gall dwy elfen anghydnaws wneud un meddwl o ddau. Os gallant fyw yn gytun, achosion naturiol sydd i hyny, ac nid ysbrydol. Nis gall gwir gariad priodasol hefyd fodoli rhwng un gwr ag amryw wragedd, dystrywia hyny ei natur ysbrydol, sef undeb mewnol dau enaid, ac undeb daioni a gwirionedd. "Dyn yn priodi mwy nag un wraig," medd Swedenborg, "sydd debyg i'r deall yn ymranu rhwng llawer ewyllys, ac fel dyn yn glynu, nid wrth un Eglwys, ond wrth amryw, nes i'w ffydd wrth ymranu i amryw ffyrdd, ddiflanu. Dywed yr angylion fod priodi mwy o wragedd nag un yn hollol groes i Ddwyfol Drefn; y gwyddant hyn trwy lawer o achosion, a thrwy hyn yn neillduol, eu bod mor fuan ag y meddyliant am briodas gyda mwy nag un, yn colli pob teimlad o wynfyd mewnol a dedwyddwch nefol, a'u bod yn myned fel meddwon, am fod daioni yn cael ei ysgaru ynddynt oddi wrth ei wirionedd ei hun; a chan fod mewnolion eu meddwl yn syrthio i'r fath ystad, dim ond meddwl am amlwreiciaeth, beth bynag fyddo y dyben, canfyddant yn glir fod priodas a mwy nag un wraig yn cau y dyn mewnol, ac yn lle cariad priodasol, yn creu cariad anllad, yr hwn sydd yn tynu o'r nefoedd. Dywedant yn mhellach, mai ychydig sydd yn awr mewn gwir gariad priodasol, ac na wyr y rhai nad ydynt ynddo ddim am bleserau mewnol a

chynhenid y fath gariad, ond yn unig am bleserau llygredig, yr hwn yn fuan wrth gydfyw a dry yn ddiflasder; tra y mae pleser gwir gariad priodasol nid yn unig yn parhau hyd henaint yn y byd, ond daw hefyd yn bleser y nefoedd ar ol angau, ac yno y llenwir ef a mwyniant mewnol, a chaiff ei berffeithio i dragwyddoldeb. Cariad i reoli eu gilydd a lwyr ddifoda gariad priodasol a'i nefol fwyniant, am fod cariad priodasol a'i bleserau yn gynwysedig mewn bod ewyllys y naill yn ewyllys i'r llall, o bob tu. Cariad at reoli a ddystrywia hyn; oblegid awydda yr hwn sydd yn rheoli i'r llall lwyr ymostwng i'w ewyllys ef; felly, nid oes undeb rhyngddynt, na chymundeb cariad a'i bleserau, pan mai undeb a chymundeb cariad yn yr Arglwydd yw y gwynfyd a'r perffeithrwydd sydd mewn priodas."

7. PRIODASAU UFFERNOL. Ymchwydd gwybodaeth mewn gwr, a hunan-gariad mewn gwraig, a wrthodant ddoethineb a chariad yr Arglwydd, ac a ddinystriant ynddynt eu hunain y cariad priodasol. Godineb a phriodas uffernol yw ymchwydd gwybodaeth a hunan-gariad yn gwenwyno holl riniau a harddwch y ddau ryw. Rhywiau a graddau lawer sydd i anlladrwydd a godineb. Y mae cariad y ddau ryw at eu gilydd yn blanedig ynddynt o'u creadigaeth. Dechreua weithredu mewn dyn ieuanc, pan y dechreua feddwl a gweithio o'i ddeall ei hun; ac mewn merch ieuanc, pan y dechreua feddwl am harddwch personol ac addurno ei hun. Nid yw cariad y rhywiau at eu gilydd yn bur nac anmhur. Daw yn bur i'r graddau y tŷn at briodas ddiwair, ac y derbyn fywyd ysbrydol oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist trwy fyfyrio a chadw ei Air. Daw yn anmhur i'r graddau y tŷn at anlladrwydd a godineb, gan wrthod bywyd yr Arglwydd trwy wrthod y Gair. Y rhai sydd yn y briodas ysbrydol, sef priodas daioni a doethineb, sydd ddedwydd yn y briodas naturiol, am eu bod yn briod a'r Arglwydd, ac yn un a'r nefoedd; tra y rhai sydd mewn godineb ysbrydol, yn anedwydd yn eu priodas naturiol, am fod eu tynfa at odineb naturiol, ac nad oes ond ofn neu ddiffyg cyfle yn eu cadw rhag godineb, ac am eu bod yn un a'r holl odinebwyr yn uffern. Bodola weithiau rith cariad priodasol heb y sylwedd; dengys rhai anwyldeb mawr at eu priod er mwyn hunanles, megis er engraifft, fel y gofaler am danynt ac y nodder hwynt mewn cystudd a henaint, neu er mwyn y plant, y rhai a garant, neu rhag ofn cynhen u, anghlod, a niweidiau; neu fel y caffont fyw yn dawel a diog. Gwahaniaetha cariad priodasol hefyd yn aml mewn dau briod. Gall un feddu mwy neu lai o hono, a'r llall ychydig neu ddim; ac felly gall y nefoedd fod yn un ac uffern yn y llall. Fel y

mae pawb yn uffern yn rhwymyn priodasol anwiredd a drygioni, a phawb yn y nef yn rhwymyn priodasol ffydd a chariad, felly y gelwir yr holl uffernoedd yn odineb, a'r holl nefoedd yn briodas (gwel Math. xxii, 1-14; xxv, 1-13; Dat. xix, 7-9).

8. CYNGHORION I BOBL IEUAINC AM BRIODAS.

1. Gofynwch, ceisiwch, a churwch am arweiniad yr Arglwydd. "Gofynwch, a rhoddir i chwi; ceisiwch, a chwi a gewch; curwch, ac fe agorir i chwi" (Math. vii, 7). "Rhodd yr Arglwydd yw gwraig bwyllog" (Diar. xix, 14). "Pwy a fedr gael gwraig rinweddol? Gwerthfawrocach yw hi na'r carbwncl. Calon ei gwr a ymddiried ynddi, fel na bydd arno eisiau anrhaith. Hi a wna iddo les ac nid drwg holl ddyddiau ei bywyd" (gwel Diar. xxxi, 10-31). Astudied pobl ieuainc y darlun dwyfol hwn mewn deisyfiadau ger bron Arglwydd y lluoedd.

2. Myfyriwch y Gair yn ngoleuni priodas yr Oen. Darllenwch y Gair bob dydd yn rheolaidd ac olynol drwyddo, a myfyriwch ei athrawiaethau a'i ystyron mewnol yn ngoleuni priodas yr Oen, fel ei datguddir gan yr Arglwydd yn ei Ailddyfodiad yn ysgrifeniadau Emanuel Swedenborg. Myfyriwch yn wylaidd, a selog dros ddeall a theimlo y sylweddau dwyfol, er mwyn byw yn y briodas nefol. Yn nheyrnas nefoedd yn unig y gellir priodi yn bur. Gall priodasau daearol ddyfod yn ysbrydol, nefol, a thragwyddol, trwy fod y gwr a'r wraig yn cydgredu yn yr Arglwydd fel yr Anfeidrol Ddyn, yn cydsynied a chyd-deimlo yn Ei Air, yn cyd-ddiwygio ac yn cymeryd eu cyd-aileni. Try yr Arglwydd gyda hwy y dwfr yn win, ac Efe a'u donia a'r gwir gariad priodasol.

3. Gwyliwch dros eich diweirdeb. Fechgyn ieuainc, ystyriwch ysgelerder y twyllwr hudol. Pwy ddarlunia, fel y dengys Jones, Talsarn, y galanas o andwyo merch ddiniwed, yna ei gadael wedi coelio yr addewidion teg! O! ei gofid wedi ei darostwng a'i diystyru! Mor gyffrous ei chydwybod! mor wallgof ei meddwl, pan wyr y daw ei gwarth i'r golwg! Dymunai llawer un farw o flaen yr hyn a'i herys. Treulia y misoedd hyn mewn anhunedd, mewn anobaith, ac mewn hiraeth am y bedd. Ei gwedd a wywa yn yr ing a'r gofal. Aml un pan ddel ei hadeg, eheda i'r eilfyd gyda'i heiddil faban. Pwy draetha drymder mawr tad a mam y twyllwr, a thad a mam yr hon a dwyllwyd. Meddylier am y dydd pan oedd rhaid cyfaddef wrth ei mam, nes fod y ddwy yn wylo o rwygiad calon. Dacw y tad yn derbyn y newydd, nes ei

daro fel mellten. Aeth yn fud dros enyd, plyga ei ben, ocheneidia, ac ymddrysa fod ei anwyl ferch dan felldith. Cofia yr adeg y rhedai yn blentyn i'w gwrdd yn hwyr y dydd, pan ddelai adref, y dringai i'w gôl ar yr aelwyd, y chwareuai yntau yn faldodus a chydunai ei gwallt. Ond, O! y drych truenus sydd arni yn awr, ac arno yntau wrth dremio arni. Aeth bywyd yn faich iddo; gwargryma, gwyna ei wallt, gwelwa ei wedd, tŷr ei galon a disgyna yn anamserol i'r beddrod. Y twyllwr hefyd, os oes teimlad ynddo, a adgofia yn ingol am yr un ddiniwed a lofruddiwyd ganddo. Ei gydwybod fel arthes a rua o'i fewn; portreada yr ysgelerder ger ei fron. Yntau a wyla weithiau wrtho ei hun, ond wylo yn ofer wna. Ni ddaw ddoe yn ol. Nis gall adferyd y rhinwedd, yr enw da, a'r dedwyddwch a ddinystriodd. Ah! nis gall ailenyn y wreichionen a ddiffoddodd, a galw yn ol yr enaid wthiwyd ganddo dros y geulan cyn fod y Barnwr yn galw, a chyn diwedd dydd parotoi. Pa mor aml y cyniwair ei hysbryd trwy ei enaid! y clyw ei hochain, y gwel ei hagwedd wylofus, ac yr ymruthra fel drychiolaeth arno i'w gythruddo o'i dinystr. Feibion a merched anwyl, gwyliwch dros eich diweirdeb, a gwybyddwch mai colli diweirdeb yw colli perl yn ngwaelod yr eigion, colli coron yn y llaid. Ferched ieuainc, cedwch y perl a'r goron, er mwyn y priodfeb a'r briodasferch, er mwyn eich rhieni anwyl, ac er eich mwyn eich hunain yn yr Anwylyd. Amen.

XXVI.—AGORIAD I GYFRINION CYMRU GYNT.

Gwae y wlad a reolir gan ddynion gwael i bwrpas cul ac nid cyhoedd, yn camesbonio gwladgarwch; a gwyn ei byd y wlad reolir gan ddynion gwych yn byw i'w cyd-ddynion ac i'r Creawdwr, yn esiamplau o wladgarwch. "Gwae di y wlad sydd a bachgen yn frenhin i ti, a'th dywysogion yn bwyta yn foreu. Gwyn dy fyd di y wlad sydd a'th frenhin yn fab i bendefigion, a'th dywysogion yn bwyta eu bwyd yn eu hamser, er cryfder, ac nid er meddwdod" (Preg. x, 16, 17). "Cas gwr na charo y wlad a'i mago." Pan fyddo cariad at wlad yn gyfan

yn y galon, gweithreda yn benaf ar Greawdwr a Chynaliwr holl wledydd gweledig ac anweledig y bydysawd. Pob gwlad a ddylifant o hono Ef, a ddibynant arno, ac a'i datguddiant: "Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod" (Rhuf. i, 20). Yna caru y gwledydd oll fel ei greadigaeth a'i wlad ef. Yn gyntaf, caru y wlad nefol. Y mae y nefoedd yn wlad; "Gwlad well y maent hwy yn ei chwenych, hyny ydyw, un nefol" (Heb. xi, 16). Gwlad o sylweddau ysbrydol yw y nefoedd. Y mae yno haul, a lloer, a ser, a daear; awyrgylchau, mynyddau, dyffrynoedd, coedydd, afonydd, moroedd, pysg, anifeiliaid, ac ehediaid arwyddluniol; dynion, tai, gwisgoedd, bwydydd, galwedigaethau, ysgolion, temlau, seneddau, thronau, a phob peth sydd yn ngwledydd y ddaear a llawer mwy; ac oddi yno y daw pob defnyddiau da a diwygiadau. Rhaid caru y wlad nefol, cyn caru yn iawn unryw wlad ddaearol, a chyn gweddio "Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd" (Math. vi, 10). Yna caru o'r Crewr a'r wlad nefol y cydfyd gweledig oll fel un wladwriaeth ger bron y Duwdod; oblegid y daearfydoedd dirifedi a'u trigolion o droant fel un byd ac fel un wlad o amgylch gorsedd Ior. Yna caru holl deyrnasoedd y ddaear fel un wlad yn y cread gweledig ac anweledig, gan eiriol, "Teyrnasoedd y ddaear, cenwch i Dduw; canmolwch yr Arglwydd, Selah: yr Hwn a ferchyg ar nef y nefoedd, y rhai oedd erioed" (Salm lxviii, 32, 33). Yna caru ein teyrnas ein hunain mor bell ag y mae teyrnas nefoedd ynddi; ond ei charu pan yn llofruddio, yn lladrata, a llunio celwyddau, megis yn y rhyfel yn Neheudir Affrica, yw caru uffern. Yn olaf, caru Cymru, ein gwlad enedigol, fel cangen ffrwythlawn wrth ffynon, a'i cheingciau yn cerdded ar hyd y mur. Y saethyddion a fuont chwerw wrthi, ond arhodd ei bwa yn gryf. Bendithir hi eto a bendithion y nefoedd oddi uchod, a bendithion y dyfnder yn gorwedd isod. Bendithir "Gwlad y Bryniau" yn y dyfodol hyd derfyn bryniau tragwyddoldeb, ac yn fyrdd mwy nag ei bendithiwyd yn amserau bendigedig y tadau boreuol a'r hen Dderwyddon. Y mae agoriadau Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol yn dwyn i'r golwg dynghedion rhyfedd cenedl y Cymry. Sylwn:—

I. AGORIAD I GYFRINION CYMRU GYNT. II. AGORIAD I OGONIANT CYMRU FYDD.

1. AGORIAD I GYFRINION CYMRU GYNT. *Hanes hardd yr Hil fawr Omeraidd* yn yr amser gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd, sydd deilwng i'w osod gyda'r saith rhyfeddod, fel y rhyfeddaf o honynt. Ymddengys mai hi yw gwreiddyn

cryf canghenau y cenhedloedd goreu fu, ac sydd, yn arwain gwareiddiad y byd. Hanesion amser boreuaf traddodiad a llythreniaeth a'n dysg, mai o'r Cymy y tarddodd y Persiaid yn Asia gynt; y Rhufeiniaid yn Itali; y Normaniaid yn y canol oesau; a'r Prydeiniaid presenol. Canghenau ieuengach o'r hil Gymreig yw ach Geltaidd Ffrainc, yr Hispaen, a'r Iwerddon. "Cydnabyddir y Celtiaid," medd Didorus Siculus, "yn bobl dra henafol; nid ydynt, er hyny, ond plant y Cimbri." Gorwych yw hanes Arthur, ac olion ei lysoedd, ei frwydrau, a'i oresgyniadau, ei farchogion, ei eglwysi, a'i ogoniant ysbrydol, gwladol, a chymdeithasol. Egni a gwladgarwch y Cymry sydd gryf yn y cyfnodau Rhufeinig, Arthuraidd, Normanaidd, a Thudoraidd. Goruchel yw ysbryd a chyfansoddiad cenedl y methodd deugain canrif ei dystrywio; cenedl welodd genhedloedd, teyrnasoedd, ymerodraethau, a llenyddiaethau, yn myned heibio fel peiswyn mynydd, ac fel cymylau haf; cenedl ymladdodd a chenhedloedd mwyaf rhyfelgar Ewrop a'r Gogledd. Gorfoledd yw olrhain a synsyllu yn y Goleuni Newydd ar nodweddion ac ardderchawgrwydd yr Hen Gymry—nefolion Gwalia Wen.

Yn y "Myvyrian Archæology," ceir llawysgrifau yr hen Dderwyddon Cymreig, neu Brydeinig, yn cynwys eu hathrawiaethau, eu deddfau, a'u cyfatebion. Nid oes amheuaeth am ddilysrwydd yr ysgrifau. Derbynir hwynt trwy Gymry a Lloegr, Ewrop ac America, gan rai yn eu deall. Y rheswm fod y llawysgrifau hyn wedi bod yn guddiedig cyhyd a roddir yn y "Manual of British Druidism," gan D. James, Ficer Almondsbury. Cnewllyn y rheswm yw, fod y diwygwyr Protestanaidd wedi deffroi meddwl y byd i chwilio hen hanesion, ac wrth fod y Cymry yn cael eu drwgliwio gan genhedloedd eraill, heb wybod cyfrinion y Cymry, gwnawd ymchwil gan oreuon y Cymry eu hunain. Y canlyniad yw y "Myvyrian Archæology," yn dair cyfrol. Cafwyd yr ysgrifau yn y prif deuluoedd yn y De a'r Gogledd, yn y *British Museum* yn Llundain, ac yn Rhydychain. Daw rhagorion Cymru gynt i'r golwg yn yr ysgrifau hyn, yn cynwys ei chyfrinion yn eu hathrawiaethau. Rhoddaf engreifftiau yn cadarnhau athrawiaethau a datguddiadau Emanuel Swedenborg am yr Eglwys Henafol, sef Eglwys Noah, ac hefyd am Eglwys Philadelphia, neu yr Eglwys Newydd, sydd i oroesi yr eglwysi eraill oll, yn goron y goruchwyliaethau. Noder:—

1. Am y Duwdod. Nodaf rai o'r enwau dwyfol: "Celi," yr Anweledig; "Rhen," yn treiddio yr oll; "Ior," y Tragwyddol; "Peryf," Awdwr bodolaeth; "Yr Hen Ddihenydd," ceir yr un enw yn Daniel yn dangos dwyfol darddiad yr enw

Cymreig. Credai Cymru gynt mai y Creawdwr yn unig sydd yn bodoli o hono ei hun, a phob peth arall o hono Ef. Ni chredent fod dim yn bodoli o ddim, ond fod y cread yn tragwyddol ddylifo o'r Creawdwr, yn bodoli erioed o hono, ac i fodoli byth, er yn ddarostyngedig i chwyldroadau olynol, o ddadansoddiad ac adnewyddiad anorphenedig. Credent fod Trindod yn y Duwdod yn cael ei arddangos gan y tri phelydr, nid trindod o bersonau, ond trindod o hanfodion—bywyd, gwybodaeth, a gallu. "Tri pheth a ddengys beth wnaeth Duw a pheth a wna: Anfeidrol Gariad; Anfeidrol Ddoethineb; ac Anfeidrol Allu." "Tri pheth mawr nas gall Duw beidio wneud: y mwyaf buddiol; y mwyaf ei angen; a'r mwyaf hardd." "Tri pheth fu yn achos creu bodau rhesymol: Dwyfol Gariad yn meddu perffaith wybodaeth; Dwyfol Ddoethineb yn meddu pob moddion; a Dwyfol Allu trwy gyduniad Dwyfol Gariad a Dwyfol Ddoethineb." Y mae datguddiadau y Trioedd Derwyddol am y Duwdod yn cytuno ag athrawiaeth Eglwys Philadelphia, ac yn dangos gwrthuni yr ofergoel am dri Pherson Dwyfol, ac am greadigaeth y byd o ddim.

2. Am Ragluniaeth Ddwyfol. A ganlyn sydd grynhodeb o'r gred Dderwyddol am Ragluniaeth: "Cariad yw Duw yn holl ddeddfau natur; wedi trefnu pob peth i gydweithio i brysuro gwynfyd pob un. Chwyldro fawr y cread a gydweithia i godi pob un. Ni ddaw ond da o Dduw." Coelient fod pob drwg ac adfyd yn dyfod o'r creadur; fod pob dyn yn rhydd-weithredydd; nad oes un drwg yn y greadigaeth nad yw yn fwy o dda na drwg; fod gan edifeirwch perffaith hawl a sicrwydd o faddeuant perffaith; ac mai yr edifeirwch hwnw sydd berffaith, a wna bob iawn o fewn ei allu am bob cam, gan ymostwng yn wirfoddol i'r gosb gyfiawn gyhoeddir arno. Ni chredai yr Hen Dderwyddon mewn tynghedfen, na rhagluniaethad mympwyol, ac ni phriodolent ddig na dial i'r Pen Rheolwr. Eu hathrawiaethau am Ragluniaeth Ddwyfol gytunant a'r athrawiaethau ddysgir gan yr Arglwydd trwy Emanuel Swedenborg, sef "Mai llywodraeth cariad a doethineb dwyfol yw Rhagluniaeth Ddwyfol; mai amcan Rhagluniaeth Ddwyfol yw gwneud nefoedd o'r hil ddynol; fod Rhagluniaeth Ddwyfol yr Arglwydd yn yr oll a wna yn golygu yr hyn sydd anfeidrol a thragwyddol; a bod deddfau i Ragluniaeth Ddwyfol anhysbys i ddyn." Y Trioedd hefyd, fel Swedenborg, a ddysgant y ffordd i sicrhau amddiffyn a bendithion Rhagluniaeth Ddwyfol, megis:—"Tri gweithrediad mawr yr enaid: meddwl, dewis, a gwneud"; "Tri pheth a ganlyn iawn arfer galluoedd yr enaid: gwybodaeth, gallu, a daioni mewnol"; "Tri arweinydd y deall: cyfiawnder,

harddwch, a llesiant"; "Tair hanfod doethineb: ufudd-dod i ddeddfau Duw, gofal dros les yr hil ddynol, a gwroldeb i ddioddef holl adfydau bywyd."

3. Am y Nefoedd. Credent fod dyn da yn dyrchafu i gylch y gwynfyd, ac wrth esgyn trwy rinweddau, yn uno a Duw, ac yn Nuw yn treiddio trwy y bydysawd. Coelient felly nad yw angau, neu ddadansoddiad y corph presenol, ond dechreuad bywyd newydd, a bod yr enaid yn myned trwy drawsnewidiadau dirfawr a dirif ar ei daith adref i'r Duwdod. Wedi cyrhaedd yno, cariad reola, heb berygl syrthio byth. Dyddorol yw dal y ddysg hon am y nefoedd yn ymyl dysgeidiaeth Eglwys Philadelphia, a gweled mor rhagorol yw y cydgordiad. Mor amlwg hefyd y dysg Swedenborg, mai trwy rinwedd cariad, gwirionedd, a gwaith, y gellir dyrchafu i'r nefoedd; fod y rhai a esgynant trwy gariad, gwirionedd, a gwaith, yn myned yn un a'r Arglwydd, ac yn yr Arglwydd yn lledu cylchoedd eu bywyd yn sylweddau sanctaidd trwy y greadigaeth; fod eneidiau dynion da a'u graddfeydd yn agor yn olynol, ac mai y gradd uchaf yw cariad nefolaidd, yn ffurfio cylch uchaf y gwynfyd anfarwol.

4. Am y Byd Canolog. Credent fod dynion ar ol marw yn myned trwy gyflyrau amrywiol, yn ol eu bywyd yn y byd, cyn esgyn i'r nefoedd neu ddisgyn i'r Abred. Y ddysg hon eto sydd yn cydredeg a datguddiad yr Arglwydd trwy Swedenborg, am fyd yr ysbrydoedd, neu fyd y farn, a'r tair ystad yr aiff dynion trwyddynt yno. "Y mae dyn," medd Swedenborg, "yn myned trwy dair ystad ar ol marw, cyn myned i'r nefoedd neu i uffern. Yn ei allanolion y mae efe yn ei ystad gyntaf; yn ei fewnolion yn yr ail; ac mewn parotoad yn y drydedd. Aiff dyn trwy yr ystadau hyn yn myd yr ysbrydoedd. Ond y mae rhai ysbrydion nad ant trwyddynt, canys codir hwynt i'r nefoedd, neu teflir hwynt i uffern yn uniongyrchol ar ol marw. Y rhai a godir yn uniongyrchol i'r nefoedd ydynt wedi eu haileni, ac felly wedi eu parotoi i'r nefoedd yn y byd. Ond y rhai fuont ddrygionus o fewn, ac yn ymddangos yn dda o faes, a defnyddio daioni fel offeryn twyll, teflir hwynt ar unwaith i uffern. Ond bychan yw rhif y ddau fath hyn at y rhai a gedwir yn myd yr ysbrydoedd, ac a barotoir yno yn ol Dwyfol Drefn, i'r nef neu i uffern."

5. Am Uffern. Dysgent y gwna dyn, os dewisa, ddirywio a suddo i gylch yr Abred a'r Anwn: am fod gwobr a chosb yn ddigyfnewid yn ol natur drwg a da, trwy ddeddfau digyfnewid creadigaeth. Dysgent mai balchder, neu hunan-gariad, yw gradd eithaf ymlygriad yr enaid; cynwysa y greddfau i gyf-

lawni pob drwg; y drachwant wallgof yw i feddu mwy nag y mae deddfau Duw yn ganiatau. Dangosent fod balchder ac ysbail yn uno dyn a'r anwn, ac yn ei dynu yno o'r diwedd. Mor unol yw yr athrawiaeth hon ag athrawiaeth Swedenborg am uffern: fod holl drigolion uffern mewn drygau ac yn y cyfeiliornadau ddeilliant o'r drygau, yn tarddu oddi ar hunan-gariad a chariad at y byd; fod hunan-gariad a chariad at y byd mor ddieflig am y cynwysant bob drwg; fod y rhai a'u coleddant yn uno eu hunain a'r uffernoedd, a thrwyddynt yn taflu eu hunain yno o'u bodd, ac nad yw yr Arglwydd yn taflu neb i uffern.

6. Am Dragwyddoldeb. Wrth dragwyddoldeb y golygent, nid parhad diderfyn, ond bywyd diderfyn mewn cynydd a chyflyrau diderfyn yn eu hamrywion pleserus; meddyliau, teimladau, ac actau newyddion mwy aneirif na'r ser, a'r tywod, a'r glaswellt, a'r dail, a dafnau yr afonydd a'r eigion, a phelydrau yr haul, ac eiliadau yr oesoedd oll. Coelient mai boreu braf am byth yw tragwyddoldeb, a'r haul yno yn codi o hyd yn yr haf anfarwol, yn cynyrchu cynydd a gogoniant anrhaethadwy ac aniflanedig. Yr un yw dysgeidiaeth yr Arglwydd yn ei Ail-ddyfodiad am dragwyddoldeb, ac am yr arddangosion a'r ymddangosiadau sydd yno, a chyfnewidiau parhaus ystad y trigolion; yn creu gorfoledd yn yr enaid ystyriol fod y fath ragolygon yn agor o'i flaen, ac yn ei gymhell i grynhoi cwestiwnau mawrion i gael goleu arnynt yn nhragwyddoldeb. Gofyna yn awr i'r doethwr a'r dysgawdwr a'r duwinydd, ond nis gallant ateb. Ond yn nhragwyddoldeb, caiff holi angylion, archangylion, a'r Holl-wybodol.

7. Am Fywyd Teuluaidd. Yr hen Gymry a gyfrifent briodas yn ordeiniad dwyfol a phur, fel y dysg eu trioedd yn neddfau Dyfnwal Moelmud. "Gesyd Duw dri pheth ar ddyn: ymegnio i gyrhaedd gwybodaeth ganmoladwy; gwneud pob da a allo; a chael plant trwy briodas gyfreithlon: trwy y tri hyn y cedwir y byd mewn trefn." "Tri math o eiddo personol nad oes hawl gan arall gyfranogi o honynt: gwraig, plant, ac arfau." "Tri anhebgor pleidleisiwr rhydd: Brython o enedigaeth reolaidd; dyn difai; a meddu plant trwy briodas." Nid oedd bastard i fod ond caethwas, heb fraint nac urddas gwir Frython. Camliwio y Cymry gynt wnaeth y rhai a'u darlunient yn farbariaid anllad. Fel y dangoswyd eisoes, yr un modd a'r hen Gymry y dysg Swedenborg am sancteiddrwydd priodas, am fod y cariad priodasol yn tarddu o briodas yr Arglwydd a'r nefoedd, am ei fod yn dderbynydd pob daioni, ac am ei fod yn gyfrwng parhad rheolaidd yr hil ddynol ar y ddaear, o'r hon y codir angylion i'r nefoedd.

8. Am Fywyd Gwladol. Dewisent lywodraethwyr doeth a da. Nid oes deyrnas heddyw ar y ddaear mor ardderchog a Phrydain yr hen Dderwyddon. Yr Orange Free State a'r Transvaal oeddynt dra thebyg iddi cyn i garn-lladron Lloegr eu hanrheithio; patrynau o brif ddinasoedd oedd Bloemfontein a Pretoria; ac arlywyddion heb eu bath oedd Steyn a Kruger. Eu perffeithrwydd yw yr achos o raib yr uffernolion arnynt. Fel Prydain yr hen Frythoniaid, dygent ddelw llywodraethau gwerinol ac anibynol y tair nefoedd.

PA LE MAE'TH FRAWD?

"Bum geidwad i fy mrawd, ac am i mi
Awyddu cael ei dir, fel gallai brawd—
Neu pa fudd yw brawdoliaeth?—Marw wnaeth
Wrth ei amddiffyn. Gorwedd yno mae—
Gwanais a gwaywffon—sychais y gwaed—
Ei waed ef—oddi ar y gloeyw ddur,
Rhag rhydu ei ddysgleirdeb. Glân yw 'nawr,
Glân fy nwylaw hefyd, a fy enaid;
Fel y gobeithiaf gael y nef, gwnaf lw
I mi ei wneud er lles. Ie, lleddais ef
Er mwyn ei les. Mynai lywyddu ei hun—
Rheoli ei eiddo yn ei ffordd ei hun—
Ei ryddid, meddai ef; ac enill wnaeth
Ei ryddid mawr—ei ryddid yn y bedd.
Rhydd yw ei enaid, tra y pydra ei gorph,
Myfi a'i lleddais er ei fwyn ei hun."

O Ragrithiwr!—
Yr eneidiau roest yn rhydd,
Aethant at Dduw i alw am gyfiawnder;
Disgyn i'r llwch, a deisyf am faddeuant,—
Nod Cain sydd amlwg ar dy arlais di.

Llef gwaed dy frawd sy'n gwaeddu am ddialedd,
Dyro yn ol yr hyn trwy drais a ddygaist;
A chofia'r geiriau dwys ddywedodd Crist—
"Pa les i ddyn, os enill yr holl fyd,
A cholli ei enaid?"
(Bertram Shadwell.) (Cyf.) N. R.

Yr oedd pleidlais trwy enedigaethfraint gan bob Brython teilwng; deg erw o dir hefyd; a llais gan bob gwrryw a menyw addas yn nghynghorau y genedl; llais y

bobl oedd yr awdurdod uchaf yn y deyrnas. Pob dieithrddyn hefyd a gawsai yr un breintiau yn y bedwaredd genhedlaeth, os wedi disgyn trwy briodas anrhydeddus. Y llywodraethwyr doeth a da a amcanent les y cyhoedd, ac nid elw a phomp bersonol. Y fath lywodraeth ni bydd yn y byd cyn dyfodiad y nef a'r ddaear newydd, fel y dangosir yn athrawiaethau Emanuel Swedenborg.

9. Am Addoliad Dwyfol. Yr oedd gan yr hen Gymry eu hamserau neillduol i addoli, a gelwid y bobl trwy swn yr udgorn. Addolent y Duwdod gyda pharch a mawl, a chyfranent addysg yn eu haddoliadau. "Y gwir yn erbyn y byd"; "Yn ngwyneb haul, llygad goleuni." Eu prif wyliau cysegredig gedwid ar y dydd byraf, y dydd hwyaf, a'r ddau ddydd pan fyddo y dydd a'r nos yr un hyd, un yn y gwanwyn a'r llall yn yr hydref. Dygwyd y grefydd a'r addoliad Derwyddol i Brydain gan Hu Gadarn, o fynyddoedd Noah. Yr arwydd Derwyddol o'r Trindod yn yr Unig Berson Dwyfol yw y tri phelydr. O'r tri y lluniwyd Coelbren y Beirdd, neu y Wyddor Gyntefig, sylfaenedig ar ddwyfoldeb ac addoliad, ac fel y wyddor Hebreig, yn arwyddluniol. Dysgent nas gellir didoli gwybodaeth a chrefydd oddi wrth eu gilydd. Mawreddog oedd y grefydd Dderwyddol, yn medu athrofaäu, ac amrywiol eisteddfodau dysg, ac ugeiniau o filoedd o fyfyrwyr yn cael eu haddasu i wasgar gwybodaeth, i gyhoeddi gwirionedd, i ddiwygio moesau ac arferion, i sicrhau concwest cyfiawnder, i sefydlu trefn, i ganmol daioni, i warthruddo drwg, i goroni tangnefedd, ac i danio addoliad. Yr oedd eu temlau yn gylchoedd, lle y cyflawnid seremoniau gorwych y genedl ar y dyddiau a nodwyd, ac hefyd ar y newydd loer, ar y llawn lloer, ac ar ddyddiau y chwarter lloer. Eu temlau oeddynt yn ddarluniad o'r gyfundrefn blanedol, fel y pyramid mawr, yn cynwys egwyddorion astronomyddol: heb do na nenfwd, ond y wybren oleu, yn dangos eu bod yn sefyll yn agored i'r nefoedd, a'u bod yn ysgogi ar begynau dyfnion dwyfol, fel y Trwpser, fel Arcturus a'i feibion, fel y Saith seren ac Orion. Ni oddefai y Derwyddon i un maen yn eu temlau gael ei halogi gan gyffyrddiad dur, neu unryw fetel arall; ac ni ellid defnyddio ond cerrig unigol mawrion, a chelyd trwyddynt, yn adeiladaeth eu temlau. Fel yn y Gair: "Ond os gwnei i mi allor gerrig, na wna hi o gerrig nadd; pan godech dy forthwyl arni, ti a'i halogaist" (Exodus xx, 25). Y meini oeddynt arwyddluniau o wirioneddau naturiol. Yr oedd maen mawr, gwastad, yn y canol, a elwid Allor y Beirdd a Maen Cymod. Dadweinid y cleddyf ar y maen canol. Y beirdd yn ben-noeth a throednoeth, wedi gwisgo yn unlliw, a

ddangosent yr angenrheidrwydd o droi heibio bethau bydol, wrth ymddangos ger bron Duw. Eto, dysgent yn y temlau cysegredig hyn, nad oedd gan y Duwdod ond dwy deml—y bydysawd, ac enaid dyn. Ni ellid cyflawni un gwasanaeth, na gweini un ddefod Dderwyddol, ond rhwng codiad a machludiad haul. "Yn ngwyneb haul, llygad goleuni"—cywilydd i gudd-gelloedd a dichellion duon crefyddwyr ac eisteddfodwyr ffugiol Cymru heddyw.

10. Am Swyddogaethau, neu Drefn Eglwysig. Yr oedd gan Gymru gynt dair swydd, neu dri gradd eglwysig:—*Y Bardd*, yn cyrhaedd ei radd a'i fraint trwy athrylith, ymdrech a dysg. Ei waith oedd cadw ar glawr gyfrinion ysbrydol y genedl, a chadw cofnodion y wlad a'r llwythau, megis y priodasau, y llinachau, yr arfau, yr etifeddiaethau, ac iawnderau gwlad a chenedl y Cymry. *Yr Ofydd.*—Gofynol oedd iddo feddu awen farddol, a gwybodaeth helaeth a chywir, profedig gan ei atebion i gynulliad y beirdd. *Y Derwydd.*—Ei waith oedd dysgu doethineb ac athrawiaethau duwioldeb yn nghynulliad y beirdd, yn y deml, yn y palas, ac yn mhob teulu. Rhoddid pump erw o dir i'r tri gradd yn rhinwedd eu swydd, heblaw eu hawliau fel Brythoniaid rhyddfreiniol. Gwisgai y Bardd yn las, a'r glain o gylch ei wddf, sef *beads* o wydr glas, arwydd tangnefedd. Gwisgai yr Ofydd yn wyrdd, lliw y glaswellt, y llysiau, a'r dail, am ei fod yn myfyrio y cread a'i riniau bywiol, fel meddyg y llwythau. Gwisgai y Derwydd, sef yr offeiriad, yn wyn, a gwregys gwyn, a'r maen grisial neu jasper, mewn aur ar y gwregys, yn arwydd gwybodaeth, gwirionedd a chariad. Yr archoffeiriad Derwyddol a wisgai yn dra ardderchog, a thebyg i Aaron, yr Archoffeiriad Iuddewig. Y Derwydd cenedlaethol, yn ei wisg farnol, neu swyddogol, a wisgai yn wyn buraidd fel yr eira, gwregys gwyn, a'r jasper gloew mewn aur, dwyfroneg barnedigaeth am ei wddf, y glain odditani, coron o ddail derw ar ei arleisiau, a dalen aur uwchlaw hyny; modrwy ar fys canol y llaw chwith, yn gorphwys ar y beithynen ar allor gerrig. Y Beithynen (*Elucidator*), a gynwysai amryw brenau, a elwid "prenau ffydd," neu "goelbrenau," a geiriau barnol arnynt. Derwyddon a arwydda, dynion doeth. Derw, yn ol agoriadau Swedenborg, a arwyddant wirioneddau, a syniadau am wirioneddau; llian gwyn a ddengys wirionedd o darddiad ysbrydol; glas, o liw yr awyr, cariad ysbrydol at ddaioni, yr hyn yw tangnefedd; gwyrdd, y gwyddonol, a'r egwyddorol fywiol yn yr anianol; coron ar y pen a'r dalaeth aur, doethineb oddi ar gariad nefol, sef cariad at yr Arglwydd; y ddwyfroneg a'r maen grisial ynddi, a arwydda y gwirionedd yn dryloew, oddi ar gariad y Duwdod.

11. Am Gyfatebion. Dengys Swedenborg fod yr oll trwy y tair teyrnas, sef y deyrnas fwnawl, y deyrnas lysieuog, a'r deyrnas anifeilaidd, yn gyfatebion ac arwyddluniau. Y mae genym draddodiadau am yr oes euraidd, a'r oes arianaidd, yn arfer cyfatebion ac arwyddluniau; a dysg Swedenborg mai yr Eglwys Henaf olygir wrth y naill, a'r Hen Eglwys wrth y llall; a bod athrawiaethau ac arwyddluniau yr Hen Eglwys wedi tarddu o'r Eglwys Henaf, a bod yr athrawiaethau a'r arwyddluniau hyn wedi eu casglu gan yr Eglwys a elwir Cain ac Enoch. Cytuna hyn a thystiolaeth y Derwyddon am gyfundraeth eu hathrawiaethau a'u cyfatebion hwy. Y Derwyddon a alwent y Diluw yn Llyn Llion, neu Llyn Llifogydd. Galwent yr haul, yr arwyddlun penaf o'r Duwdod, yn Hu Gadarn, yn treiddio ac arolygu pobpeth. Dyfnwal Moelmud, a arwyddai fur mawr, a'i sail yn ddwfn, yn dyogelu yr Eglwys, cyffelyb i fur y Jerusalem Nefol. Tydain, tad yr awen, y tan canolog, a ddygodd i fewn ysbrydoliaeth a threfn, fel y Jehovah yn llefaru wrth Moses o ganol y tan. Plenydd, a arwydda lawn ddysgleirdeb; Alawn, cydgordiad; Gwron, egni. En temlau mawrion oeddynt yn arddangos ac arwyddlunio pethau dwyfol. Gan fod y Derwyddon yn gyfarwydd a gwyddor cyfatebiaeth, gwyddent fod yr enaid yn sylwedd, ac yn bodoli mewn ffurf ddynol. Llefara Taliesyn am ffurf ac aelodau yr enaid, ac am eu cynaliaeth trwy ddylifiad. Taliesin, a arwydda wr o dalcen dysglaer: Tal, talcen; Iesin, dysglaer. I dalcen dyn, medd Swedenborg, y dylifa y Duwdod, ac o'r talcen i'r oll o'r pen, a thrwy y pen i'r holl ddyn. Dangosid fod gorsedd Taliesin, yr Archdderwydd o dalcen dysglaer, yn cael ei hamgylchu gan yr haul, y lloer, a'r ser, a holl olud yr awyrgylch, a'r meusydd, a'r moroedd; arwyddluniau a chyfatebion oll yn cael eu meddianu a'u hegluro gan Eglwys Philadelphia, y Wraig wedi ei gwisgo a'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, ac ar ei phen, goron o ddeuddeg seren. Teilwng o ystyriaeth yn y goleu newydd yw y tri pheth anferth ddaeth i Ynys Prydain. *Yn gyntaf, Toriad Llyn Llion,* fel y trengodd pob dyn ond Dwyfan (yr egwyddor ddwyfol), a Dwyfach (yr hiliogaeth ddwyfol), a chadwyd hwy mewn llong, heb hwylbren, ac o honynt yr ail boblogwyd Ynys Prydain. Dyna ei harwyddlun o'r Diluw. *Yn Ail, Y Tan Tymhestlog,* pan holltodd y ddaear hyd anwn, ac y difawyd y rhan fwyaf o'r hil ddynol. Dyna eu harwyddlun o'r hunan a'r bydol gariad sydd yn dystrywio pob peth dynol. *Yn drydydd, Yr Haf Difaol,* pan losgwyd y coed a'r planhigion a'r porfeydd trwy angerddol wres yr haul, ac y collwyd aneirif lu o ddynion, anifeiliaid, adar, ymlusgiaid, a choedydd. Dyna

eu harwyddlun o deyrnasiad difrodol Baal, duw y byd hwn. Dywedant yn mhellach:—*Tri phrif waith ardderchog Ynys Prydain. Yn gyntaf, Llong Nefydd Naf Neifion*, yn cludo gwrryw a benyw o bob peth byw pan dorodd Llyn Llion. *Yn ail, Ychain Canghenog Hu Gadarn yn tynu yr Afanc o'r dwfr*, fel na thorai y Llyn mwy. *Yn drydydd, Maen Gwyddon Ganhedon*, yn ddarllenadwy arno holl gelfyddydau a gwyddorau y byd. Nefydd Naf Neifion, yw Arglwydd nefol y pwerau creadigol; Maen Gwyddon, yw gwybodaeth; a Ganhedon, ei thraethiad. Prydain, yw ymeangiad prydferthwch, oddi wrth Pryd, hardd; ac ain, ymeangu. Trwy gyfatebiaeth gelwid y ddaear, sef yr Eglwys, y Fuwch Wen laethog, a'r Haul, neu y Duwdod, y Tarw Gwyn o Elgan.

12. Am Gyfanrwydd a Pharhad y Genedl. Hanes yr hen Gymry a'u cyfrinion ddangosent eu hamcan a'u hawydd i fod yn un a chyfan mewn tair ystyr, sef un eglwys, un blaid wladol, ac un mewn gweithgarwch a chyfiawnder masnachol. Yn awr, gellid dysgwyl i ddynion mor ysbrydol a'r hen Gymry, mor aruchel mewn barddoniaeth a chan, ac mor alluog mewn gwyddonau a gwladwriaeth, gellid dysgwyl iddynt fod yn fedrus fel crefftwyr a masnachwyr; ac felly yr oeddynt. Cyrhaeddodd eu masnach lwyddiant mawr mewn alcan, copr, haiarn, plwm, meirch, a llawer o bethau buddiol eraill. Anfonent eu meirch a'u trysorau i ffeiriau a marchnadoedd Tyrus yn y Dwyrain. Cerfluniau, addurniadau drysau a thai a wnaed gan y Cymry, a orlenwent Asia. Galluog oeddynt i wneud arfau a cherbydau rhyfel. Ond amddiffynol ac nid ymosodol oedd eu rhyfeloedd hwy; ac aruthrol oedd angerdd ac undeb eu hysbryd rhyfelgar, pan ymosodid ar eu crefydd a'u cenedlgarwch. Noder un esiampl nodedig yn amser rhuthrgyrch Rhufain, pan ymdeithiai Suetonius, gan ddifrodi ac anrheithio ger culfor Menai. O bob tu i'r culfor ymledai mynwentydd y grefydd Dderwyddol. Gorphwysai gweddillion gwyr goreu Cymru dros bymtheg canrif yma rhwng gwarchgloddiau dyrchafol yr Eryri, a gwyrdd donau y mor: gweddillion beirdd, ofyddion, derwyddon, ac archdderwyddon, fuont oraclau doethineb a datguddiadau dwyfol y dwyrain. Wele yr henafol a'r anwyl fynwentydd hyn yn cael eu sathru dan draed haiarnaidd rhengau Rhufain. Wele hwy yn cigyddio yr addolwyr ar eu hallorau eu hunain, a dyfroedd y Menai yn cael eu goleuo gan ddysgleirdeb cyffagliadau y llwyni Derwyddol cysegredig. Ond dacw y genedl yn cydgyfodi fel un gwr o blaid eu crefydd a'u cenedlgarwch, dan arweiniad Buddug. Och! iddynt wedi hyny ymranu yn eu herbyn eu hunain, a gwerthu eu genedigaeth-

fraint. Coeliwn yn nghariad a goleuni Eglwys Philadelphia, fod y gobaith gwell o flaen ein cenedl. "Tra mor, tra Brython," er ei bod heddyw wedi colli ei Phrydain, ac ni wneir cyfrif o'r "Celtic Fringe," ond pan fyddo angen i gynorthwyo y Sais yn ei "anturiaethau," i ledu "gwareiddiad ac efengyl" (?) Gwrthodwyd yn ddiweddar ei hawl i gael ei harwyddlun cenhedlaethol ar y *Standard*, yr hyn a gyffrodd deimlad un Cymro ieuanc i ganu fel y canlyn, yn iaith y gormeswr:—

"Ai gwasaidd grymu dan y fflangell wnawn,
Gan lyfu'r llwch, a llwyr anghofio'n bri,—
Ai felly dysgai'n dewr Glyndwr nyni?
Ein Llyw Llewelyn, safai dros yr iawn,
Tra ni mewn cyson ymostyngiad llawn,
Yn ffugio parch—lle porthai'n harwyr pur
Eu blys am Ryddid, nes y cochai'r tir
A'u gwaed, a rwydd dywalltent fel y gwlaw,
Neu fel y gwin mewn priodasol wledd.
O Walia hoff! wyt enedigol wlad
Prif feirdd anfarwol dy henafol ddydd,
A all ei harwr-gerddi ddeffro mwy
Rhyw uchel adlais yn nghalonau'th had?
Hawlio, nid ymbil, oedd eu harfer hwy."

(Cyf.) N. R. D. O.

2. AGORIAD I OGONIANT CYMRU FYDD. Gogoniant Cymru Fydd a agorir o'n blaen yn Eglwys Philadelphia, neu yr oruchwyliaeth newydd sydd wedi gwawrio ar y byd. Pedair goruchwyliaeth olynol oddi wrth yr Arglwydd a redasant eu cwrs; a'r pumed, wedi ei rhagfynegi, sydd yn awr yn gwahodd pawb i'w derbyn. Y pedair goruchwyliaeth flaenorol, oeddynt Adda, Noah, Israel, a Christionogaeth y Dyfodiad Cyntaf, yn cael eu harddangos gan yr aur, yr arian, y pres, a'r haiarn, yn mreuddwyd Nebuchodonosor yn Daniel, pen. ii. Y mae dull yr addysg yn mhob goruchwyliaeth yn wahanol, o herwydd y gwahaniaeth yn nghyflwr ysbrydol, a galluoedd meddyliol dyn. Pobl y cynfyd dan oruchwyliaeth Adda, a dderbynient addysg y nefoedd trwy lewyrchiad mewnol; llifai yr *influx*, sef y dylifiad dwyfol trwy eu hewyllys i'w deall. Llygriad llwyr yr ewyllys trwy bechu yn erbyn Duw osododd atalfa ar y drefn nefolaidd hon, a therfyn ar oruchwyliaeth Adda. Llygru y cyfrwng yw llygru y dylifiad, gan beryglu bywyd tragwyddol dyn. Pan anafodd dyn ei hun i dderbyn addysg trwy ffordd fewnol, ceisiodd yr

Arglwydd ei ddysgu trwy ffordd allanol, sef trwy y glust a'r llygad. Nis gall gwirionedd dwyfol gael ei roddi i ddyn yn y byd heb fod mewn perygl o gael ei wyrdroi a'i halogi; ond lleiheir y perygl yn fawr pan roddir y gwirionedd mewn ffurf allanol, megis yn y Gair ysgrifenedig. Ni raid i'r gwirionedd fel hyn gyrhaedd i'r deall trwy gyfrwng llygredig yr ewyllys ddrwg. Trwy y gwirionedd a roddwyd i ni yn allanol, gall y deall esgyn i oleuni y nefoedd, a thrwy orfodi ein hunain i weithredu yn ol ein deall yn y nefoedd, gwna yr ewyllys hefyd godi i'r un uchelder, gan ymagor i wres y nefoedd; ac fel hyn y cawn ein haileni a'n gogoneddu gan yr Arglwydd. Wedi goruchwyliaeth Adda, neu yr oes euraidd, ac wedi i bechod etifeddol ddechreu gweithio, ceisiodd yr Arglwydd ddysgu dyn mewn pethau ysbrydol trwy wirionedd, yn cael ei gyhoeddi yn allanol i'r deall, ac nid yn fewnol trwy yr ewyllys, rhag i ddrwg etifeddol halogi y gwirionedd a thragwyddol ddystrywio dyn. Y ffordd allanol sydd trwy y glust a'r llygad. Yn yr ail oruchwyliaeth, sef Noah, derbyniai dynion addysg oddi wrth yr Arglwydd trwy yr athrawiaethau a ddaethant i lawr yn ddilwgr o'r oes flaenorol, a thrwy arwyddluniau o sylweddau ysbrydol. Aeth goruchwyliaeth Noah, sef yr oes arianaidd, i ben trwy golli golwg ar ddyledswyddau bywyd a rhinweddau addoliad yn cael eu dangos trwy arwyddluniau, a thrwy syrthio i addoli yr arwyddluniau eu hunain, gan greu eilunaddoliaeth aflan a chreulawn. Yr oruchwyliaeth Iuddewig hefyd oedd arwyddluniol. Addoliad ysblenydd yr Iuddewon a gyfoethogid gan ddefodau wedi eu diwygio a'u trefnu gan yr Arglwydd, er arddangos yr oruchwyliaeth Gristionogol. Ond pobl Israel, sef yr oes gopr, a wnaethant orchymyn Duw yn ddirym trwy eu traddodiadau eu hunain (Math. xv, 6). Daeth yr oes hon i ben trwy wrthod, a chroeshoelio, y Gwirionedd Dwyfol ei hun yn Mherson yr Unig Arglwydd. Y bedwaredd, sef goruchwyliaeth Gristionogol y Dyfodiad cyntaf, oedd ymgnawdoliad y Duwdod yn gyflawn yn y byd materol, wedi disgyn trwy y graddfeydd nefol, ysbrydol, a naturiol, a gyfansoddant y tair nefoedd angylaidd. Y bumed oruchwyliaeth, sef Cristionogaeth yr Ailddyfodiad, a gynwysir mewn datguddiad o ddeddf ysbrydoliaeth, yr hon yw y gyfatebiaeth a fodola rhwng y byd naturiol a'r byd ysbrydol, fel yr hyn a fodola rhwng ymadrodd a meddwl, rhwng y corph a'r enaid; o ganlyniad, y mae yr oruchwyliaeth newydd ac olaf hon mewn agor ystyron ysbrydol a nefol y Gair. Y mae tair ystyr wahanol i'w gilydd yn y Gair, fel y mae tri gradd anghreuedig yn y Duwdod, ac fel y mae tri gradd creuedig mewn dyn; a rhwng y tri gradd

a'r tair ystyr yn y Gair, sef y naturiol, yr ysbrydol, a'r nefol, y mae cyfatebiaeth gyflawn. Agoriad ystyr ysbrydol a nefol y Gair sydd fwy na'r gwyrthiau oll, gan ei fod heb frawychu yr enaid, yn argyhoeddi rheswm, yn uno yr Arglwydd a dyn, yn codi dyn i gymdeithas y nefolion, yn ei aileni a'i greu o'r newydd, ac yn ffurfio prawf newydd anwrthwynebol o ddwyfoldeb y Gair.

Yn awr, gogoniant Cymru yn y dyfodol fydd ymwadu a'i gau-goelion crefyddol, ac a phob hunan-gariad, rhoddi heibio ei rhagfarnau, ei sectariaeth, ei ffug-eisteddfodau, ei chnawdol genedlgarwch, a'i gwaseidd-dra slafaidd i'r Sais, ac i Seisnigrwydd, a sefyll ar ei sodlau derwyddol ei hun, yn anibynol a disyfl, gan syllu i'r dwyrain ar Hu Gadarn tragwyddol fydoedd yn codi a thanbeidio yn ei bumed goruchwyliaeth, yn agor y Gair a chodi dyn yn uwch nag yn un oruchwyliaeth arall. Dyma ogoniant Cymru mwy, derbyn yr Arglwydd yn ei ddyfodiad yn ei holl lawnder, i holl neillduolion goruchel Cymro o waed coch cyfan; ei dderbyn i'r hen hwyliau Cymreig, ac i athrylith nefol ei beirdd a'i cherddorion a'i llefarwyr; ei dderbyn i holl ddoniau, ystumiau, tan a defion y Cymro; a'i dderbyn mewn Cymraeg cryf, glan, gloew, iaith heb ei hail i osod allan amgyffredion a theimladau yr enaid. Ymddengys ei hardderchawgrwydd hefyd wrth ystyried ei hynafiaeth, ei henwogrwydd, ei chadwraeth, ei phurdeb, a'i hanibyniaeth, a symledd ei chyfansoddiad cystrawenol; iaith yn meddu cyflawnder diderfyn o eiriau gorwych, heb angen dibynu dim ar un iaith arall, ei geiriau cryfion ac amrywiol yn addas i ddarlunio pob peth, ei geiriau cysylltiol mor aml a chywrain, a'i gwraidd-eiriau yn cynyrchu tardd-eiriau mor rhwydd. Bydd yn ogoniant i Gymru dderbyn a chyhoeddi yr oruchwyliaeth newydd yn yr hen iaith—iaith y Derwyddon a'r tadau dewrion fuont yn rhy wladgarol i wadu eu hiaith, ac yn rhy foneddigaidd i fenthycio geiriau estronol. Yr Eglwys Newydd hon, sef Eglwys Philadelphia, yw coron yr holl Eglwysi a fu ar y ddaear, ac a fydd byth; oblegid ei bod yn addoli Un Duw gweledig yn y ffurf ddynol yn ei gorph naturiol, yn bodoli yn hollol o hono ei hun; oblegid ei bod yn meddu y Gair ysgrifenedig wedi ei agor i'w ddirgelion goludog a gogoneddus; oblegid fod aelodau yr Eglwys Newydd hon a mewnolion eu henaid wedi eu hagor gan yr Arglwydd trwy y Gair agored; oblegid fod yr Eglwys Newydd yn un a'r nefoedd newydd, fel y mae y corph yn un a'r enaid; ac oblegid fod yr Eglwys hon i barhau byth bythoedd yn y byd. Dyma yr unig Eglwys una Gymru, ac a'i cyfyd yn gyfan i gyflwr uwch na Chymru gyfriniol gynt.

Dychmygai beirdd yr oesoedd fu eu bod yn gweled pinaclau dinasoedd Cantre y Gwaelod o dan y mor, rhyngom a'r Iwerddon. Gwelwn ninau yn ngoleu Eglwys Philadelphia, binaclau dinasoedd dwyfol y datguddiadau Derwyddol obry, o dan ffrydlifoedd o anwireddau ac ymraniadau; a'r sectau, fel Seithynyn feddw, yn cadw dorau y dyfnder yn agored.

Ac wele 'nawr, ymrolia'r tonau broch,
Uwch teg drigfanau yr amserau fu;
Goruwch eu bedd, udgana'r corwynt croch,
Gorchuddio eu muriau mae tyfianau'r lli'.
Perchenoga'r tywod y palasau cun,
Ei hawlfraint ildia dyn.

N. R.

Gwelwn hefyd yn yr un goleu, ddinas newydd nefol yn disgyn o'r uchelder pur i lawr i'r byd, ac i wlad y bryniau: "Ac fe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr, Jerusalem Sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw, a gogoniant Duw ganddi" (Dat. xxi, 10, 11). Yn hon, daw Cymru Wen yn un. Pan oedd Beli a Bran, dau frawd brenhinol o'r hen Gymry, yn ymfyddino yn erbyn eu gilydd, mam y ddau benadur rhyfelgar a'u hataliodd. Wedi iddi, dan grynu, gyrhaedd yr orsaf lle yr areithiai Bran ger bron ei fyddin, plethodd y dwylaw a'i magodd am ei wddf, ac a'i cusanodd mewn pangfeydd o gariad. Tynghedodd ef trwy bob apel mamol i'w gwared rhag yr olygfa echrys o weled plant ei chroth yn ymladd: fod hyny yn groes i natur, i'w gwlad, ac i'w Duw. Ymunodd y ddau frawd, ac ymunodd y ddwy fyddin, ac aeth yn jubili. "Y Jerusalem hono uchod yw ein mam ni oll" (Gal. iv, 26). Daw yn nes, nes beunydd trwy Eglwys Philadelphia, at bob gwrthblaid elynol; gesyd ei breichiau tyner am eu gwddf, apelia at bawb o'i chalon, todda galonau celyd a chreulon, gan eu dwyn at eu gilydd fel plant anwyl ar yr un aelwyd: "Ac mi a glywais lef uchel allan o'r nef yn dywedyd, Wele, y mae pabell Duw gyda dynion, ac Efe a drig gyda hwynt, ac a fydd yn Dduw iddynt. Ac fe sych Duw ymaith bob deigr oddi wrth eu llygaid hwynt; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach; oblegid y pethau cyntaf a aeth heibio" (Dat. xxi, 3, 4).*

*Y mae y Cymry heddyw, fel pob cenedl orchfygedig arall, a rhyw dristwch cuddiedig yn eigionau eu hysbryd, amlygedig yn swn aethus a hiraethlon eu gweddi a'u can. Tonau ein diweddar brif gerddor Dr. Parry, sydd orlawn o'r aethau hyn,

XXVII.—AGORIAD I GREADIGAETH A LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL.

Ymgais benaf yr enaid sanctaidd yw ymsefydlu yn y Duwdod fel Person, yn un ag Ef yn y Gair, gan ddyfalu beunydd a byth arno mewn anwyldeb, rhyfeddod, diolchgarwch, a gorfoledd. "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond Tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda Thydi" (Salm lxxiii, 25). "Cyfodwch, bendithiwch yr Arglwydd eich Duw, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb; a bendithier dy enw gogoneddus a dyrchafedig, goruwch pob bendith a moliant. Ti yn unig wyt Arglwydd; ti a wnaethost y nefoedd, nefoedd y nefoedd, a'u holl luoedd hwynt, y ddaear a'r hyn oll sydd arni, y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt; a thi sydd yn eu cynal hwynt oll: a llu y nefoedd sydd yn ymgrymu i ti" (Neh. ix, 5, 6). Dedwyddwch tragwyddol yr enaid yw dyfalu ar y Jehovah, yn bodoli ynddo ac o hono ei hun; yn anfeidrol a thragwyddol; a'i hanfod yn gariad a gwirionedd yn gwybod a gallu pob peth all cariad a gwirionedd anfeidrol; yn holl-bresenol gyda phawb; wedi creu pob peth o'i hanfod ei hun; wedi ymgnawdoli er mwyn rhyddhau yr hil ddynol oddi wrth yr uffernoedd, ac ad-drefnu y nefoedd, a sefydlu Eglwys Newydd trwy ei ogoneddiad; wedi amlygu ei hun yn ei Ddynoliaeth

---

yn dra chydweddol ag anian ac ag adgofion y Cymro heddyw. Ond trwy y frwydr a'r fuddugoliaeth fawr sydd yn dyfod i dori pob iau, ac adferyd rhyddid a breiniau yr holl bobloedd, cyfyd ein cenedl mewn ysbryd newydd i udganu tonau llonfuddugol Dafydd Siencyn Morgan, hen gerddor Llechryd, wedi cyrhaedd ceingciau uwch nag un cerddor arall yn y byd. Dyna farn Tanymarian am dano. Cysegr-ysbeiliad yw fod coeg-gerddorion yn trefnu ei donau, yn rhoddi eu henwau eu hunain wrthynt, a gadael allan enw yr awdwr. Aethai y per-ganiedydd o Llechryd trwy y siroedd, i ddysgu canu mawl i Dduw, yn datgan yn y fagddu fawr, fel y ceiliog uchel-gloch, fod y wawr a'r dydd yn dyfod. Gadawyd iddo, er ei lafur erfawr, i fyw a marw mewn tlodi, ac heb gymaint ganddo a modd i'w gladdu; ac nid oes neb all ddangos heddyw ei feddrod yn mynwent Llangoedmore.

Ddwyfol a'r Drindod ynddo, sef, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan; wedi llefaru ac ysgrifenu y Gair sanctaidd yn cyfateb i syniadau dynion ac angylion, ac yn eu huno a'u gilydd; wedi cysylltu y fath bwerau dwyfol a ffydd, cariad, edifeirwch, ac adenedigaeth; wedi trefnu y fath gyfrinion cysegredig yn y Bedydd a'r Swper Sanctaidd; ac wedi hysbysu ac egluro ei ail-ymddangosiad i greu nefoedd newydd a daear newydd, yn y rhai y cartrefa cyfiawnder a'r cyfiawnion oll. "Ac mi a welais nef newydd, a daear newydd; canys y nef gyntaf a'r ddaear gyntaf a aeth heibio, a'r mor nid oedd mwyach . . . Ac mi a glywais lef uchel allan o'r nef, yn dywedyd, Wele y mae pabell Duw gyda dynion, ac Efe a drig gyda hwynt, a ac a fydd yn Dduw iddynt" (Dat. xxi, 1, 3). Myfyrdodau fel hyn ar y Duwdod a agorant raddfeydd yr enaid, i nefol a dwyfol ddylifiadau a dedwyddwch, ac a'i ceidw rhag dylifiadau a thrueni teyrnas y tywyllwch. Sylwn yn folianus trwy yr agoriadau sydd genym yn Eglwys Philadelphia, ar greadigaeth a llywodraeth y Dyn Anfeidrol:—

I. Y DYN ANFEIDROL YW Y CREAWDWR. II. Y DYN ANFEIDROL YW Y LLYWODRAETHWR. III. LLYWODRAETHA Y DYN ANFEIDROL MEWN CARIAD A GWIRIONEDD. IV. DYBEN LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YW GWNEUD DYNION YN ANGYLION. V. Y MAE LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YN GWEITHREDU WRTH DDEDDFAU. VI. Y MAE LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YN GYFFREDINOL A NEILLDUOL. VII. Y MAE LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YN GODDEF A GORUWCH-REOLI PETHAU DRWG. VIII. Y DATGUDDIAD O'R DYN ANFEIDROL FEL CREAWDWR A LLYWODRAETHWR YW Y GAIR. IX. Y PRIF RESWM DROS FOD YN DEYRNGAR I LYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YW Y DYN ANFEIDROL EI HUN.

1. Y DYN ANFEIDROL YW Y CREAWDWR. Nis gellir iawn synied am greadigaeth y bydysawd, heb oleuo y deall yn gyntaf a'r gwirioneddau canlynol:—Fod dau fyd yn bod, byd ysbrydol i angylion ac ysbrydion, a byd naturiol i ddynion; fod i'r byd ysbrydol ei haul o gariad dwyfol pur, a'r Arglwydd ynddo, yn gollwng o hono gariad a doethineb i galonau a meddyliau angylion a dynion, a bod i'r byd naturiol ei haul o dan difywyd, yn gyfrwng trosglwyddiad sylweddau yr haul ysbrydol; fod y pethau fodolant yn y byd ysbrydol o'r haul ysbrydol, yn sylweddau ysbrydol, a'r pethau fodolant o'r haul naturiol, yn sylweddau materol. Yn y ddau fyd y mae tri o raddfeydd esgynol, yn llywio trefniad y nefoedd angylaidd, a thri gradd y meddwl dynol yn cyfateb iddynt, a phob peth

arall yn y ddau fyd o drefniad tebyg; fod cyfatebiaeth rhwng y pethau sydd yn y byd ysbrydol a'r byd naturiol; fod pob peth yn y ddau fyd wedi eu creu yn ol trefn, ac mewn trefn. Heb y gwirioneddau hyn, nis gall yr enaid ond ymbalfalu mewn tywyllwch wrth geisio synio am greadigaeth. Nid o ddim y crewyd y byd oedd, ond o sylwedd y cariad dwyfol trwy ddoethineb, fel y dengys pob peth; oblegid y mae delw daioni ar holl waith Duw. Yr Hollalluog a greodd bob peth o'r drefn sydd ynddo ei Hun, ac a argraffodd ar bob peth ei drefn neillduol: trefn ar yr elfenau, y planhigion, yr ymlusgiaid, yr anifeiliaid, yr adar, a dyn. Yn y byd ysbrydol hefyd, y mae pob elfenau, planhigion, a choedydd ffrwythlawn, gerddi a meusydd, a chnydau gwenith, a haidd, a ffys, a ffa, a gwelyau blodau; adar o bob lliwiau hardd yn yr awyr, ac ar y coedydd, anifeiliaid dofion a diniwed; palasoedd prydferth, a dodrefn, llestri, ac addurniadau o bob math, a bwyd, a dillad; a'r oll yn cyfateb i serchiadau a bywyd yr angylion sydd yno. Yr Arglwydd sydd yn eu creu yno yn uniongyrchol yn ol serchiadau yr angylion; tra yn y byd naturiol, y maent wedi eu creu yn y dechreuad, ac yn cael eu parhau yn olynol trwy hadau, a chenhedliad. Y rheswm o'r creu yn uniongyrchol yn y byd ysbrydol, a thrwy hadau a chenhedliad yn y byd naturiol yw, am fod yr awyrgylchau, a'r tir yn y byd ysbrydol, yn ysbrydol, ac yn y byd naturiol, yn naturiol. Ac y mae pethau naturiol wedi eu creu i fod yn wisg i bethau ysbrydol, fel y rhisgl yn wisg am y pren, ac fel y croen yn wisg am y corph. Ond nid oes dim o bethau prydferth y nef, nac o bethau prydferth y byd naturiol, i'w canfod yn uffern, gan mai nid Duw, ond diafol a satan sydd yn creu yno. Creant yno anialdiroedd, adar y nos, ystlumod, dyllhuanod, cigfrain, a fwlturiaid; hefyd, bleiddiaid, llewpardiaid, tigrod, eirth, llygod, pob math o seirff, a gwiberod, ac aspiaid, ac ysgorpionau, crocodiliaid, a dreigiau; hefyd, mieri, drain, danadl, ac ysgall, a phob math o lysiau a phlanhigion gwenwynol: corsydd anferth yn llawn llyffaint yn crawcian ynddynt. Cyfatebion hefyd yw y pethau hyn i chwantau a chelwyddau y cythreuliaid. Daeth y pethau ofnadwy hyn i fod yn uffern, ac yn y byd naturiol, trwy ddynion wedi troi yn ddiafliaid a sataniaid. Nis gall Duw greu ond pethau da, diniwed, a hardd; a'i holl waith a ddengys ei anfeidroldeb a'i berffeithderau fel Dyn. Gwyddom nad yw ein byd ni ond congl fechan o'r greadigaeth: dafn i'r cefnfor yw: gronyn at fyd; ac eto, y fath amlygiad o anfeidroldeb yw ein byd ni. Anfeidrol yw y Bod ddeil y mor ar gledr ei law, bwysa y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau, a ollwng y gwynt wrth bwys, a egyr

ddorau aur y wawr, a symud fantell ddu y nos, a arweinia y cymylau, a gyfeiria y cenllysg a llafnau yr eira troëllog, a lunia y dail, a liwia y blodau, a leinw y ffrwyth a maeth, a bortha filod man y llwch, y pysg, yr anifeiliaid, a'r adar; yr Hwn a ffurfia y baban yn y groth, a grea ddyn, a reola drai a llanw y cenhedlaethau, a benderfyna amseroedd a phrydiau y teyrnasoedd a'r goruchwyliaethau, a fantola y blaned ac a'i ceidw yn ei rhawd yn nghanol troadau a chydbwysedd y bydoedd. Ystyrier yn mhellach, nad oes ddau wrthrych yn hollol yr un fath, megis dau laswelltyn, dwy fran, dau wyneb, dau feddwl, dau lais, na dwy weithred. Meddylier yn mhellach fel y gellir lliosogi a pharhau hadau yn ddiddiwedd. Nid oes derfyn i ddadblygiad y gwyddorau a'r celfyddydau, nac i wrteithiad yr enaid. Pwy all gyfrif y ser a'r planedau, a rhifo y bobloedd a'u poblogant? Uuwchlaw pob peth, pwy all agor ei lygaid yn ngoleuni Ail-ddyfodiad yr Arglwydd, ac edrych i fyny i'r nefoedd angylaidd, gweled byd yr ysbrydoedd, a'r uffernoedd odditano, dyfalu ar eu dosbarthiadau, a'u trefniadau, eu hamrywion, eu lliosogiad, eu dadblygiadau, a'u tynghedion tragwyddol? Pwy all feddwl am y rhyfeddodau hyn heb synu at anfeidroldeb Creawdwr a Chynaliwr y cyfanfyd!

Priodol yw ystyried nad creadigaeth y nefoedd a'r ddaear faterol ddarlunir yn Genesis, penodau i. a ii., ond creadigaeth ysbrydol a nefol dyn; y dyddiau yn dangos ystadau olynol ei adenedigaeth. Yr ystad gyntaf sydd o flaen adenedigaeth, yn aflunaidd, gwag, a thywyll, a thrugaredd Duw yn deor arni. Yr ail ystad sydd pan ddel goleuni i wahaniaethu rhwng pethau Duw a phethau dyn, a rhwng y mewnol a'r allanol. Y drydedd ystad yw edifeirwch, pan y gwna yr hwn sydd i'w ail-eni, ddechreu siarad yn dduwiol o'r dyn mewnol, a gwneud gweithredoedd da, ond sydd farw, er hyny, am y tybia eu bod o hono ei hun; y gweithredoedd da hyn a elwir yr egin, llysiau, a phrenau yn dwyn ffrwyth. Yn y bedwaredd ystad, y mae dyn yn teimlo dylanwad cariad a ffydd: dyma y goleuadau mawrion sydd yn ffurfafen ei nefoedd, yn cyneu o'i fewn a goleuo ei fywyd o faes. Yn y bumed ystad, y mae dyn yn llefaru a gweithredu yn rhwydd oddi ar ddylanwad goleuadau y nefoedd, a thrwy hyny, yn cadarnhau ei hun mewn daioni a gwirionedd: dyma y pethau a elwir pysgod y mor, ac ehediaid yr awyr. Yn y chweched ystad, y mae dyn oddi ar ffydd a chariad cynyddol yn llefaru gwirionedd, ac yn gwneud daioni, nes fod cynyrchion ei enaid crediniol a chariadus yn cael eu galw yn anifail byw, yn enaid byw, yn llun a delw Duw: oddi yma y daw cariad at yr Arglwydd yn benaf yn ei enaid. Yna

y cyrhaedda y seithfed ystad, sef y Saboth sanctaidd, pan y gorphwys Duw yn y dyn, a dyn yn y Duwdod. "Felly y gorphenwyd y nefoedd a'r ddaear, a'u holl lu hwynt. Ac ar y seithfed dydd y gorphenodd Duw ei waith, yr hwn a wnaethai Efe, ac a orphwysodd ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith, yr hwn a wnaethai Efe. A Duw a fendigodd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef; oblegid ynddo y gorphwysai oddi wrth ei holl waith, yr hwn a greäsai Duw i'w wneuthur" (Gen. ii, 1-3).

2. Y DYN ANFEIDROL YW Y LYWODRAETHWR. Nis gall neb ond y Creawdwr gynal a rheoli y greadigaeth. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; Efe a wisgodd ardderchawgrwydd. Darparwyd dy orseddfainc erioed" (Salm lxciii, 1, 2). Yr Arglwydd Iesu Grist yn ei Ddynoliaeth Ddwyfol yw y brenhin tragwyddol. "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear" (Math. xxviii, 18). "Yr hwn sydd ganddo agoriad Dafydd, yr hwn sydd yn agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd" (Dat. iii, 7). Dyna unol lais y Gair. Gan fod perthynas rhwng nefoedd ac uffern, a rhwng uffern a'r nefoedd, a'i bod yn berthynas dau fyd gwrthgyferbyniol i'w gilydd, yn gwrthweithio eu gilydd, eu gweithiad a'u gwrthweithiad gynyrcha gydbwysedd, yn yr hwn y cynelir pob peth. Er cadw y cydbwysedd, rhaid i'r hwn reola y nefoedd reoli uffern hefyd. Pe amgen, rhuthriadau gwallgof a chynddeiriog yr uffernolion, a ddinystrient y cydbwysedd, gan aflonyddu holl drefn y cread, a chwalu y bydysawd. Yr Arglwydd, gan hyny, a reola yr uffernoedd, ac nid oes berson dieflig a rheolaeth yr uffernoedd at ei ddewisiad. Tybiwyd fod rhyw un diafol yn teyrnasu drostynt oll: iddo gael ei greu yn angel goleuni, a'i daflu gyda'i giwaid i uffern, am ryfela yn y nefoedd yn erbyn yr Arglwydd. Lledodd y fath ofergoel, am fod rhanau o'r Gair a lefarant am y diafol a satan, Lusiffer, a Beelzebub, wedi eu deall yn llythyrenol. Ond y mae diafol a satan, Lusiffer a Beelzebub, yn arwyddo uffern mewn gwahanol agweddau. Rheola yr Arglwydd yr uffernoedd trwy ddylifiad cyffredinol daioni a gwirionedd o'r nefoedd, yn cyfyngu ac atal yr egnion drygionus darddant o'r uffernoedd; rheolir hwynt hefyd gan ddylifiad neillduol o bob nefoedd, ac o bob cymdeithas nefol,—dylifiad o'r nefoedd uchaf yn erbyn yr uffern isaf, o'r nefoedd ganol yn erbyn yr uffern ganol, ac o'r nefoedd isaf yn erbyn yr uffern uchaf. Hefyd, penodir angylion neillduol i arolygu yr uffernoedd, er atal y gwallgofrwydd a'r terfysgoedd ffynant yn eu plith, a dofi eu cynddaredd. Rheolir holl drigolion uffern gan ofn cosbau; ond pawb yn y nef a reolir gan gariad at yr Arglwydd, ac at eu gilydd.

3. LLYWODRAETHA Y DYN ANFEIDROL MEWN CARIAD A GWIRIONEDD. Megis y creodd Efe y bydysawd a'r oll ynddo o'i gariad trwy ddoethineb, felly hefyd mewn cariad a doethineb y llywodraetha Efe bob peth. Gwelir hyn yn ei holl waith. Yr Arglwydd a feddai ddoethineb o'i gariad yn nechreuad ei ffordd, cyn ei weithredoedd erioed, er tragwyddoldeb, cyn bod y ddaear, pryd nad oedd dyfnder, a chyn parotoi y nefoedd. Rhyfeddodau cariad a doethineb ei lywodraeth, a'n synant byth bythoedd wrth ddyfalu ar eangderau a manylrwydd ei waith,—yn ol, yn mlaen, i lawr, i fyny, i faes, ac i fewn. Gwyrthiau dirifedi, a dim ond gwyrthiau, a welwn yn ei lywodraeth Ef. Efe a breswylia ac a lywodraetha dragwyddoldeb, o ran pethau, ac o ran parhad. Syndod dieithr ac arswydol a leinw yr enaid wrth olrhain tragwyddoldeb. Mor fawr, hynod, a phell yw, tu hwnt i'n cyrhaedd! Mor wahanol i bob peth a welwn ac a glywn! Gorchest yw gollwng y meddwl allan o amser i dragwyddoldeb, trwy fyned yn ol neu yn mlaen. Myned yn ol, o gam i gam, o ganrif i ganrif, trwy genhedlaethau ac oesau amser, fel eu cofnodir mewn hanes. Myned mewn dychymyg, fel mewn agerdd-beiriant angylaidd trwy froydd a chymoedd yr amserau, dros afonydd, ac ar hyd anialdiroedd aneirif, i orsafoedd cyntaf hanes byd. Yna, cychwyn o'r newydd, trwy dwnelau daeareg, yn ymddirwyn tu draw i filiwnau o flynyddoedd. Ond nid ydym eto ond dechreu y daith i dragwyddoldeb, am fod y cread yn dylifo erioed o'r cariad a'r ddoethineb ddwyfol, a chread ar ol cread wedi eu claddu yn eu hadfeilion eu hunain, pan oedd tragwyddoldeb diddechreu tu draw i'r pellaf o honynt. Y parhad oddi yma yn mlaen sydd gyfartal. Y mae dwy ochr i dragwyddoldeb,—yn ol, ac yn mlaen. Rhifer y dafnau, y tywod, y dail, y ser, yr adar, yr anifeiliaid, y dynion, yr angylion,—y mae oesau a phethau tragwyddoldeb yn amlach na hwynt oll. Ond doethineb a daioni digyfeiliorn deyrnasant trwy dragwyddoldeb, yn gwneud yr oll yn drefnus a defnyddiol, ac mewn undeb rheolaidd, trwy undeb y Creawdwr a dyn: undeb y Creawdwr a dyn, hefyd, sydd yn cynal y cwbl. Ei gariad a'i ddoethineb, yn mhellach, sydd yn mhob peth, yn un yn mhob peth, ac yn ymegnio i wneud cariad a doethineb yn un a'u gilydd yn mhob dyn. Trwy anhawsder y daw dyn i'r undeb hwn yn y byd yma, gan ei fod yn y frwydr rhwng drwg a da, ac mewn ystad o ddiwygiad ac adenedigaeth. Ond ar ol marw, daw yn un mewn daioni a doethineb, neu mewn drygioni a ffolineb. Ond rheola yr Arglwydd bob drygioni a ffolineb er cymhorth i'r rhai gymerant eu gwneud yn un mewn daioni a doethineb, trwy achosi cydfantoliad rhwng drwg a da, yn

creu temtasiwnau ac ymdrech i ymburo. "Ni a wyddom fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw" (Rhuf. viii, 28). Canys y mae teyrnas y Dyn Anfeidrol dros nef ac uffern, yn deyrnas defnyddioldeb: rheola fel nad oes dim na neb heb fod o ryw les. "Diau cynddaredd dyn a'th foliana; gweddill cynddaredd a waherddi" (Salm lxxvi, 10).

4. DYBEN LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YW GWNEUD DYNION YN ANGYLION. O'r hil ddynol y deillia holl drigolion nef ac uffern, ac ni chrewyd neb yn angel nac yn ddiafol, ond yn gyntaf yn ddynion ar y ddaear hon, ac ar y daearfydoedd eraill. Crewyd pob dyn i'r pwrpas i'w godi yn angel i breswylio gyda'r Arglwydd mewn gwynfyd a gogoniant tragwyddol. Gan mai hyn yw pwrpas creadigaeth, hyn hefyd yw pwrpas y llywodraeth ddwyfol. Bod yn angel yw bod yn un a'r Arglwydd trwy gariad yn y Gair. Crewyd dyn fel y gall gael ei uno yn fwy agos a'r Arglwydd am byth, trwy godi o'r gradd naturiol i'r gradd ysbrydol, ac o'r gradd ysbrydol i'r gradd nefol, a thrwy gynydd dwyfol yn mhob gradd. Fel y byddo dyn yn cael ei uno yn nes, nes a'r Arglwydd o hyd, daw yn ddoethach o hyd, oblegid ei allu i dderbyn mwy o'r Arglwydd. Daw hefyd yn fwy dedwydd o hyd, am y bydd yr Arglwydd yn ei lanw yn y gradd nefol, a thrwy hyny yn y gradd ysbrydol, a thrwy y ddau yn y gradd naturiol. "Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder; digonir fi pan ddihunwyf a'th ddelw di" (Salm xvii, 15). Gan mai codi dynion yn angylion yw dyben llywodraeth ragluniaethol yr Arglwydd, y mae pob peth a wna yn ei ragluniaeth yn dal perthynas a'r hyn sydd anfeidrol a thragwyddol. A phan y mae dynion yn meddwl am yr Arglwydd, fel y gwna yr angylion, meddyliant am anfeidroldeb a thragwyddoldeb; a bydd eu golwg ar anfeidroldeb a thragwyddoldeb yn mhob peth. Meddyliant ac amcanant yn yr Arglwydd, o'r Arglwydd, ac fel yr Arglwydd. "Yn Nuw y molianaf ei Air; yn yr Arglwydd y molianaf ei Air" (Salm lvi, 10). Yr hyn sydd anfeidrol a thragwyddol o'r Arglwydd yn y dyn, sydd yn rhoddi gallu i'r Arglwydd uno ei Hun a dyn; oblegid nas gall yr Arglwydd uno ei Hun a'r hyn sydd feidrol ac amserol,—meidrol ac amserol yw dyn ar wahan i'r hyn sydd anfeidrol a thragwyddol o'r Duwdod. Anfeidrol a thragwyddol ynddo ei Hun yw y Duwdod ei Hunan; ond anfeidrol a thragwyddol o hono ei Hun yw y dylifiad dwyfol, neu yr Arglwydd mewn eraill, creuedig allan o hono ei Hun, megis mewn dynion ac angylion; a'r dwyfol deilliedig hwn sydd yr un peth a rhagluniaeth, gan ei fod trwy hyn yn sicrhau trefn creadigaeth; ac fel mai y dylifiad dwyfol wna hyn, amlwg mai rhagluniaeth a llywodraeth ddwyfol ydyw. Delw o anfeidroldeb a thragwyddoldeb ydyw

angel a dyn angylaidd. Amcan parhaus rhagluniaeth ddwyfol gan hyny, yw aileni dyn, ei ddiwygio, a'i achub, fel y byddo yn angel, ac felly yn ddelw o'r Dyn Anfeidrol a Thragwyddol. "O herwydd paham nid ydym yn pallu; eithr er llygru ein dyn oddi allan, er hyny, y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd. Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog rhagorol yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni: Tra na byddom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir; canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragwyddol" (II Cor. iv, 16-18). Nis gall y dyn anianol synied hyn, ac nis gall goelio mai bwriad dyfnaf y Duwdod yw cael dynion i'r nefoedd, a ffurfio y nef angylaidd fel un Dyn yn ei wyddfod, yr amrywion yn ddelw o anfeidroldeb, a'r parhad yn ddelw o dragwyddoldeb; felly, fod pob dyn yn nefoedd fach ynddo ei hunan, fel y gall fod yn un a'r nefoedd fawr gyffredinol, ac hefyd yn un a rhyw gymdeithas angylaidd neillduol am dragwyddoldeb. Gwneir hyn gan ragluniaeth a llywodraeth y Dyn Anfeidrol, a phob un gymer ei arwain ganddo Ef. Ond pob dyn na chymer ei arwain a'i reoli gan y Dyn Anfeidrol, a ymuna ag uffern yn gyffredinol, ac a rhyw gymdeithas uffernol neillduol, gan fod yn ddelw o ddiafol a satan.

5. Y MAE LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YN GWEITHREDU WRTH DDEDDFAU. Cydnabyddir llywodraeth Duw yn gyffredinol, ond nid adwaenir ei nhatur, am fod ei deddfau yn guddiedig yn y Duwdod ac yn y byd angylaidd. Ond yn nyfodiad yr Arglwydd, datguddir hwynt, fel na phriodoler i'r Arglwydd yr hyn na pherthyn iddo, nac i ddyn yr hyn na pherthyn iddo yntau; ac y gwybydder nad yw cyfrwysdra, callineb, a deall dynol ddim, ac nad yw damweiniau a digwyddiadau, ond geiriau gwag. Y rheswm fod y fath dywyllwch am lywodraeth ragluniaethol Duw, fel am bob peth dwyfol arall, yw, fod y Gristionogaeth gau wedi cau y deall a'r galon, fel na all, ac na fyn, dynion wybod a deall deddfau llywodraeth y Dyn Anfeidrol. Sylwn ar saith o'r deddfau hyn sydd o'r pwys mwyaf i'w gwybod a'u parchu:—

1. Fod dyn i weithredu oddi ar ryddid yn ol rheswm. Perthyn i ddyn dri math o ryddid,—rhyddid naturiol, rhyddid rhesymol, a rhyddid ysbrydol. Rhyddid ysbrydol sydd yn tarddu oddi ar gariad at yr Arglwydd a bywyd tragwyddol, trwy edrych ar bob drwg fel pechod yn erbyn Duw. Dyn yn gweithredu yn y rhyddid hwn, yn ol rheswm dwyfol ac angylaidd, a deimla fod ei ryddid rhesymol a naturiol yn cael eu puro, a'u gwneud yn weision i'w ryddid ysbrydol; oblegid efe a wel ac a deimla nad yw mwyniant bywyd dros amser, ond cysgod yn cilio at fwyniant bywyd yn nhragwyddoldeb. Gall

pob dyn gyrhaedd y rhyddid hwn, os dewisa. Pa beth bynag a wna dyn o'i ryddid, yn ol yr hyn a ymddengys iddo ef yn rhesymol, a ymddengys iddo fel ei waith ef ei hun, a phriodolir ef iddo fel ei eiddo ei hun, er ei fod o'r Arglwydd a'r nefoedd, os yn gywir a da, ac o ddiafol a satan, os yn dwyllodrus a drwg. Trwy ryddid a rheswm dyn yn unig y gall yr Arglwydd ddiwygio ac aileni dyn. Heb ei aileni, nis gall dyn weled teyrnas Dduw, oblegid ei eni yn naturiol o'i rieni i bob drwg etifeddol. Trwy ryddid a rheswm, y mae yr Arglwydd yn uno ei Hun a dyn, a dyn yn uno ei hun a'r Arglwydd. Trwyddynt, hefyd, y mae dyn yn meddu deall ac ewyllys, sef gallu i fod yn ddyn, a thrwyddynt y mae efe i fyw byth; am hyny, yr Arglwydd gydag eiddigedd dwyfol, a ddyogela ryddid a rheswm dyn, gan ymegnio yn barhaus, o'i anfeidrol gariad, i godi dyn i weithredu o ryddid a rheswm hanfodol yr Arglwydd. Y crefyddau a'r llywodraethau a fathrant ryddid ysbrydol, rhesymol, a naturiol dyn, a estynant eu dwylaw yn erbyn Duw, ac a ymnerthant yn erbyn yr Hollalluog. Ond yr Hollalluog a red yn y gwddf i'r fath dreiswyr, trwy dewdwr torrau eu tarianau, ac a'u chwal hwynt, fel Jupiter a'i daranfolltau yn chwalu y cewri rhyfygus a geisient ddringo i'w orsedd, trwy bentyru mynyddau ar eu gilydd. "Yr Arglwydd a ddadymchwel ffordd y rhai anuwiol" (Salm cxlvi, 9).

2. Nad oes neb i orfodi dyn mewn pethau ysbrydol ond y dyn ei hun. Rhwymau a rhagorfraint dyn yw gorfodi ei hun i feddwl, ac ewyllysio, credu, a charu gwirioneddau ysbrydol, ond croes i ddeddf y llywodraeth ddwyfol, yw fod neb arall yn ei orfodi: nis gellir diwygio ac aileni dyn trwy orfodaeth. Felly, nis gellir diwygio neb trwy arwyddion, a rhyfeddodau, a gwyrthiau, am eu bod yn gorfodi, ac yn gweithredu ar y rhan anianol o'r dyn, ac nid ar y rhan ysbrydol; ond trwy y rhan ysbrydol y daw yr Arglwydd i ddyn, sef trwy y Gair. Gwyrthiau a gauant y ffordd hon, felly, ni chyflawnir gwyrthiau yn awr, ac nid oes angen, pan y mae y Dyn Anfeidrol yn amlygu ei Hun trwy y Gair, o'r hwn y mae dynion da yn meddwl a gweithredu. Nid yw ysbrydegaeth na gweledigaethau yn diwygio dyn, am eu bod yn gorfodi; felly hefyd, nid yw bygythion a chosbau, am eu bod yn gorfodi. Nid oes ofn mewn cariad. Pan orfodir rhai i addoli, fel y gwna y Pabyddion a phroselytwyr pob sect, trwy fygythion a gwobrau bydol, nid yw yr addoliad ond cnawdol, marw, du, a phrudd; cnawdol, am mai o'r corph y mae, ac nid o'r enaid; marw, am nad oes fywyd ysbrydol ynddo; du, am nad oes deall ynddo; a phrudd, am nad oes bleser nefol ynddo. Nis gall dyn gael ei ddiwygio a'i aileni hefyd, pan fyddo mewn ystad o fraw ac ofn, am fod hyny yn cau y meddwl mewnol, ac yn atal

dylifiadau y nefoedd; nis gall braw ac ofn gyrhaedd y meddwl mewnol. Nis gall dyn, chwaith, gael ei ddiwygio a'i aileni mewn adfydau, afiechyd, anrhefn meddwl, ac anwybodaeth, am nas gall yn y fath gyflyrau, weithredu yn rhydd a rhesymol. Dengys hyn nas gall neb gael ei ddiwygio a i aileni yn uffern.

3. Y rhaid i ddyn er cael ei ail-eni, gadw rhag pob drwg fel pechod yn erbyn Duw. Rhaid iddo fel o hono ei hun, symud y drygau o'r dyn allanol, am mai felly yn unig y gall yr Arglwydd symud y drygau o'r dyn mewnol, ac yna o'r dyn allanol hefyd. Deddf y llywodraeth ddwyfol yw hon. Nis gall yr Arglwydd a'r nefoedd ddyfod i fewn i ddyn, heb i ddiafol ac uffern fyned allan o hono. Ond y mae yr Arglwydd yn barhaus yn ymdrechu uno ei Hun a dyn, fel y gall gyfranu ei hun iddo yn fywyd a gwynfyd tragwyddol. A phan gaiff yr Arglwydd ddrws agored i ddyn, efe a weithia ar ei holl gyfansoddiad, pob rhan o hono, o'r mwyaf mewnol i'r mwyaf allanol, am fod pob rhan o'r dyn yn dal cysylltiad a'u gilydd, ac am fod yr Arglwydd yn Holl-bresenol yn y dyn. Gweithia ynddo oll, fel y gwna ar yr holl nefoedd, ac ar yr holl fydysawd. Hefyd, gweithia yn neillduol ar bob rhan ar ei phen ei hun.

4. Fod dyn i'w ddysgu a'i arwain gan yr Arglwydd trwy y Gair. Pa lwyraf y cymer dyn ei ddysgu a'i arwain gan yr Arglwydd trwy athrawiaeth a gweinidogaeth y Gair, a'i uno a'r Arglwydd, mwyaf oll y teimla dyn ei bersonoliaeth, a'i fod yn eiddo iddo ei hun, tra yn canfod hefyd yn amlycach ei fod yn eiddo yr Arglwydd, gan golli pryder, a'r drwg-awydd i ragwybod y dyfodol. Ond nid yw llywodraeth y Dyn Anfeidrol byth yn cydweithio ag ewyllys dyn ei hun, sydd a'i thynfa i uffern, gan mai codi dyn i'r nef yw amcan ei lywodraeth Ef. Am hyny, y gwna yr Arglwydd ostwng y balch, a chodi y gostyngedig. Llywodraeth yr Arglwydd sydd oll yn oll, mor fanwl yn holl deimladau, meddyliau, ac actau dyn, fel nad oes le i ddamwain na digwyddiad. Rhagluniaeth ddwyfol yw yr hyn a elwir Ffortun, y cododd y Rhufeiniaid deml iddi.

5. Nad yw gweithrediadau Llywodraeth y Dyn Anfeidrol i'w canfod a'u teimlo, ond i'w cydnabod. Gwel y dyn ysbrydol amlygiadau o lywodraeth ragluniaethol yr Arglwydd yn holl gylchoedd bywyd, yn naturiol, gwladol, ac ysbrydol. Gwel ogoniant amcanion, achosion, ac effeithiau dwyfol yn y cwbl; yn neillduol yn yr Ymgnawdoliad, y Brynedigaeth, ac Iachawdwriaeth dynion, yn rhoddiad y Gair, a'r goleu arno yn dysgu am yr Arglwydd, am nef ac uffern, a'r Ail-ddyfodiad; gwel brofion ardderchog o lywodraeth ragluniaethol wrth ddyfalu arni mewn pethau mawrion, a phethau bychain; ond oddi ar dirion drugaredd Duw ni chaniateir i ddyn ganfod gweithrediadau aruthrol ac aneirif llywodraeth ragluniaethol,

na'i gweled, ychwaith, yn mlaen llaw; dystrywiai hyny ei ryddid a'i reswm, ac felly, nis gallasai weithredu yn rhydd. Ac am nad yw y dyn anianol yn gallu dyfalu yn ngoleu y nefoedd, ar lywodraeth ragluniaethol yn y gorphenol, a chan ei fod yn barnu pob peth wrth olwg, ac o'r cnawd, nid yw yn credu mewn llywodraeth ddwyfol, a meddylia ynddo ei hunan nas gall fod, tra y gwel y drygionus yn llwyddo yn y byd, a'r diniwed yn aflwyddo, ac yn aml yn cael ei wasgu a'u ladd gan y drygionus.

6. Fod anwiredd a drygioni yn cael eu goddef. Y mae rhoddi rhyddid i ddynion ac ysbrydion o fewn terfynau neillduol i gyflawni drwg, yn ddeddf yn llywodraeth y Dyn Anfeidrol, fel y cawn ddangos eto yn helaethach.

7. Nas gall yr Arglwydd weithredu yn groes i ddeddfau ei Lywodraeth. Gweithredu o'i drugaredd yn ol deddfau ei lywodraeth wna yr Arglwydd, i godi dynion yn angylion, yr hyn yw amcan y bydysawd. Dechreua ar ddyn i'w wneud yn angel yn ei enedigaeth, a phery i weithredu arno hyd angau, ac am dragwyddoldeb; ond nis gall achub neb a'i godi yn angel, ond a ufuddha iddo, yn ol trefn, mewn rhyddid ac oddi ar reswm yn y Gair. Dysgwyl i Dduw achub dyn ar unwaith, a'i wneud yn angel mewn moment, oddi ar drugaredd yn unig, yw dysgwyl i Dduw wneud yr hyn sydd yn groes i ddeddfau ei lywodraeth, gan hyny, yn groes i'w gariad a'i ddoethineb, ac yn groes iddo ei Hun, yr hyn sydd anmhosibl. Yr ofergoel y gall Duw gadw dyn mewn amrantiad, nid yw ond sarph danllyd hedegog, yn twyllo eneidiau, yn diddymu crefydd, ac yn priodoli damnedigaeth i'r Arglwydd.

6. Y MAE LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YN GYFFREDINOL A NEILLDUOL. Efe a reola y pethau mwyaf a'r pethau lleiaf yn y cyfanfyd, ac yn mhob rhan o hono; ac Efe a reola hefyd bob peth yn mhob dyn, ac yn nglyn a phob dyn. Nid ymddengys felly i ddyn heb ddwys ystyriaeth yn ngoleu y nef. Tybir, pe byddai llywodraeth y Dyn Anfeidrol yn mhob peth perthynol i bawb, na wneid drygau, ac na ddemnid neb, ac y concrai pob achos cyfiawn o hyd; y byddai dynion gonest yn fwy ffortunus yn y byd na dynion anonest. Wrth weled yn wahanol, gofynir: "Paham y llwydda ffordd yr anwir, ac y ffyna yr anffyddloniaid oll?" (Jer. xii, 1). Cenfigenir wrth y rhai ynfyd a'r anuwiolion sydd lwyddianus a goludog yn y byd, ac ni chredir fod y llywodraeth ddwyfol yn mhob peth i'r manylion eithaf. Am hyny, priodola dynion weithredoedd neillduol iddynt eu hunain, i'w cyfrwysdra, ac i'w callineb, a llywodraeth gyffredinol i'r Arglwydd. Priodolir pethau eraill i ddigwyddiad, ac i weithrediadau dall naturiaeth. Ond meddylia dyn felly, am na wyr ddirgeledigaethau y nefoedd,

sef fod yr Arglwydd yn gadael pob un i'w ryddid ei hun; oblegid, heb i ddyn fod mewn rhyddid, nis gellir ei ddiwygio, a'i aileni. Nid yw gorthrwm na gorfodaeth o un math yn diwygio nac aileni neb; ac nis gallant, oblegid croesi ewyllys dyn. Rhaid i ddaioni a gwirionedd wreiddio yn ewyllys a deall dyn cyn ei ddiwygio a'i aileni; ond nis gallant wreiddio o'i anfodd. Ac am fod pob dyn, o herwydd hyn, yn cael ei adael i'w ryddid ei hun, caniateir i ddyn feddwl a gwneud drwg. Am hyn y caiff y dyn drwg yn aml ei loni, ei barchu, a'i wobrwyo yn y byd, yn fwy na'r dyn da; ond lloniant, parch, a gwobrau allanol fedd y drwg, i droi yn wylofain, anfri, a cholled uffernol yn y byd a ddaw; tra lloniant, parch, a gwobrau y dyn da, yn fewnol, ac i barhau a chynyddu yn llwyddiant tragwyddol yn y nef. Llawenydd a pharch a gwobrau y byd, tymhorol ydynt, ac nid tragwyddol; deuant i'r drwg fel i'r da. Os na ddeuant i ddynion da, hyny sydd, er cadw eu bryd yn fwy ar y bywyd a'r byd tragwyddol. Peryglus yw tybied fod bendith Duw mewn llwyddiant bydol, oblegid mewn aflwydd eir i amheu a gwadu rhagluniaeth ddwyfol, gan edrych ar y presenol yn unig, heb ystyried fod llywodraeth Duw yn golygu tragwyddoldeb; fel y byddo pob peth mewn trefn, yn y nef, yn uffern, ac yn y bydoedd oll, mewn cydfantoliad parhaus. Nis gellir cynal cydbwysedd ysbrydol a naturiol y bydoedd, ond trwy lywodraeth gyffredinol a neillduol y Dyn Anfeidrol.

7. Y MAE LLYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL YN GODDEF A GORUWCH-REOLI PETHAU DRWG. Wrth fod y Dyn Anfeidrol yn caniatau a goddef pethau drwg, ni feddylir ei fod yn ewyllysio drwg, ond nas gall atal drwg, o herwydd natur ac amcan ei lywodraeth. Caniataodd i Adda ac Efa gael eu twyllo gan y sarph; i Cain ladd Abel ei frawd; i'r cynddiluwiaid i ddystrywio y byd; i'r Israeliaid droi at eilunod; i Dafydd rifo y bobl; i Solomon wrthgilio yn warthus; i'r brenhinoedd a'r offeiriaid halogi y deml; ac i'r Iuddewon groeshoelio y Gair yn y cnawd. Caniataodd yr Arglwydd i'r prophwydi a'r apostolion gael eu lladd; i'r saint gael eu merthyru; ac i ddiwygwyr yr oesau gael eu herlid a'u carcharu. Caniata i grefyddau a chenhadaethau yr anwir ledu a llwyddo, tra crefydd a chenhadaeth Mab y Dyn, sef y Gair, yn gorfod cilio o'r maes; caniata i'r dreigiau, i'r seirph, i satan, i ddiafol, i'r bwystfilod, a'r buttain fawr, dwyllo yr holl fyd, tra y wraig wedi ei gwisgo a'r haul yn gorfod ffoi i'r anialwch; caniata i lywodraethau mawrion gwledydd cred, ynfydu a gwallgofi mewn amryfusedd cadarn, a thwyllo eu hunain, a'u gilydd,

fod ganddynt hawl i lofruddio llywodraethau llai, lladrata eu heiddo, a llunio celwyddau i gyfiawnhau y gelanedd a'r anrhaith; caniateir y pwlpudau a'r eglwysi ddal fyny freichiau y llofruddion a'r lladron. Caniateir y pethau erchyll hyn, oblegid fod dyn yn greadur rhydd: heb ryddid nis gall yr Arglwydd ei arwain; ac heb iddo gael rhyddid i wneud drwg, nis gall dyn weled ei ddrwg, ei gasau, a'i adael. Llywodraeth Duw, gan hyny, a ganiata i'r drygau dori allan; pe amgen, buasent fel y cancr, yn difa mewnolion bywyd yr enaid. Yn uffern y mae pob dyn o'i enedigaeth, ac nis gellir ei ddwyn allan oddi yno, heb iddo weled ei fod yno, ac awyddu am ei wared gan yr Arglwydd. Hyn yw y rheswm paham y caniateir rhyfeloedd a thywallt gwaed. Datguddiant yr uffernoedd sydd o fewn y llywodraethau a'r eglwysi; ac arddangosant i angylion y nefoedd gyflwr ofnadwy yr eglwys yn y byd. Caniateir hwynt, nid i'w pleidio a'u canmòl, ond i'w condemnio a'u gyru yn ol i uffern, er parotoi ffordd i eglwys y nefoedd feddianu y ddaear. Felly am yr holl ryfeloedd y sonir am danynt yn y Gair; ac felly am yr holl ryfeloedd gymerant le yn awr. Y rhyfeloedd y sonir am danynt yn y Gair, yw y rhyfeloedd rhwng meibion Israel ag amryw genhedloedd, megis eu rhyfeloedd a'r Amoriaid, yr Amoniaid, y Moabiaid, y Philistiaid, y Syriaid, yr Aiphtiaid, y Caldeaid, a'r Assyriaid. Yr holl genhedloedd hyn a arwyddent ryw ddrwg neillduol o uffern, ac arddangosai Israel, y nefoedd a'r eglwys. Pan giliai Israel, gan hyny, oddi wrth orchymynion, deddfau, a barnedigaethau yr Arglwydd, a syrthio i'r pechodau arddangosid gan y cenhedloedd eraill, cosbid Israel ganddynt. Pan halogent bethau pur yr eglwys trwy eilun-addoliaeth aflan, cosbid hwynt gan yr Assyriaid, a'r Caldeaid, am fod Assyria a Caldea yn arwyddo halogi pethau sanctaidd. Pan syrthient oddi wrth gariad, gan goleddu cred allanol yn unig, cosbid hwynt gan y Philistiaid, am fod y Philistiaid dienwaededig yn arddangos cred a chrefydd allanol, heb y mewnol. Pethau tebyg arddangosir gan ryfeloedd yn y byd heddyw; am fod pob peth wneir yn y byd naturiol yn cyfateb i bethau ysbrydol yn y byd ysbrydol, ac y mae pob peth ysbrydol yn perthyn i'r eglwys. Fel y dywed Swedenborg, y mae teyrnasoedd ar y ddaear yn awr yn arddangos y Moabiaid, a'r Amoniaid, y Syriaid, a'r Philistiaid, y Caldeaid, a'r Assyriaid, y bu Israel yn rhyfela a hwynt. Nis gellir canfod yn y byd naturiol, beth yw y drygau yn yr eglwys ar y ddaear, sydd yn galw am gosb trwy ryfel, am na welir ond pethau allanol yn unig yn y byd naturiol, a phethau mewnol sydd yn cyfansoddi yr eglwys. Yn y byd ysbrydol, gwelir y mewnolion, ac felly ansawdd yr eglwys, ac achosion rhyfel. Ychydig o oleu ysbrydol sydd

eisiau i weled achosion y rhyfel yn Neheudir Affrica; o dy Prydain, dialedd, trachwant, balchder, celwydd, creulondeb, a rhagrith cyffredinol. O, olygfa anaele! Yr ymerodraeth fwyaf yn llofruddio dyrnaid o ffermwyr, yn newynu eu gwragedd a'u plant, yn gwrthod yr apeliadau taeraf am gyflafareddiad, yn llwyr ddifrodi eu hanibyniaeth, yn planu gorthrwm yn y gweriniaethau goreu dan haul, a dihirod y trychineb mwyaf di-urddas, yn cael eu gwobrwyo a'u moli gan y llywodraeth, gan yr eglwysi, a chan y cenhadaethau, yn bostio eu bod o'r dechreu yn gyfranog yn yr anfadwaith. Prydain anffyddlawn a wnaeth yn anffyddlawn, ie, gwnaeth yr anffyddlawn o'r fath anffyddlonaf. Dychryn, a ffos, a magl, fydd arnat ti, Brydain. Eisteddai Cynadledd Heddwch, ond fel dywed y gwladweinydd dyngarol Lowell:—

Unwaith i bob dyn a theyrnas,
Daw y dydd i ddewis plaid;
Sefyll gyda'r gwir neu'r anwir,
Dros y da neu'r drwg, fydd raid;
Rhyw fawreddog ymgyrch newydd,
At bob un a'i gynyg ddaw;
Try y geifr tua'r aswy,
A'r defaid tua'r ddeheulaw,
Ac â heibio adeg ethol
Dydd a'i swyn, a'i nos a'i braw.

A ddewisaist, O! fy mhobl,
Dros ba blaid y sefi di?
Cyn i'r wae o'i erch sandalau,
Ysgwyd llwch i'n herbyn ni.

Pleidio Iawnder rydd it' urddas,
Os dewisi ei gyfran dlawd,
Cyn ceir drwyddo glod ac elw,
Ac i'r da bydd goreu ffawd;
Dyna'r pryd dewisa gwron,
Tra yr ofnog ymaith droes,—
Amheu wna ei ysbryd egwan,
Nes i'w Arglwydd ddyodde'r Groes,
Ac i'r ffydd wrthodai'r dyrfa,
Ddod yn glodfawr gred yr oes.

Ar ei hymdaith mae'r ddynoliaeth,
Lle saif heddyw'r merthyr hy',
Yno yfory cryma Judas,—
Arian yn ei ddwylaw sy';

Gwel yn mlaen, mae croes yn disgwyl,
A ffagodau'n fflamio'n nghyd,
A'r dorf anwar ddoe fu'n gwatwar,
Ddychwel mewn tawelwch mud—
Gan loffa'r lludw gwasgaredig,
I aur-lestr hanes byd. (Cyf.) N. R.

8. Y DATGUDDIAD O'R DYN ANFEIDROL FEL CREAWDWR A LLYWODAETHWR YW Y GAIR. Y Gair oll sydd am y Dyn Anfeidrol, a'r Dyn Anfeidrol yw y Gair: "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, ac ni a welsom ei ogoniant Ef" (Ioan i, 14). Gair yr Hen Destament a'r Newydd a fynegant am ddyfodiad yr Arglwydd i'r byd, yn nghyflawnder yr amser, fel na chollid pawb mewn marwolaeth dragwyddol; iddo ddarostwng yr uffernoedd a lywodraethent ar y pryd; darostyngodd hwynt trwy frwydrau, sef temtasiwnau ollyngid i fewn i'w ddynoliaeth o'i fam, a thrwy fuddugoliaethau parhaus, ac oddieithr i'r uffernoedd gael eu darostwng felly, nis gellid cadw neb; fod yr Arglwydd wedi dyfod i'r byd i ogoneddu ei Ddynoliaeth, sef ei huno a'r Dwyfol oedd ynddo o'i genhedliad; iddo ddyfod i'r byd i sefydlu eglwys newydd i'w gydnabod Ef yn Dduw, yn Brynwr ac Iachawdwr; ei fod Ef y pryd hwnw hefyd, yn trefnu y nefoedd i fod yn un a'r eglwys ar y ddaear; mai dyoddefaint y Groes oedd y frwydr olaf, neu y demtasiwn olaf, trwy yr hon y concrodd Efe yr uffernoedd yn gyflawn, ac y gogoneddodd ei Ddynoliaeth yn gyflawn; fod yr Arglwydd i ddyfod yr ail waith i wneud barn ddiweddaf, ac i sefydlu ei deyrnas o'r newydd, ac yn dragwyddol yn y byd. Dyna bethau y Gair am y Dyn Anfeidrol yn dangos mai Efe yw CREAWDWR A LLYWODRAETHWR POBPETH YN MHOB YSTYR. Y fath bwys, gan hyny, yw deall y Gair, ei garu, ei gadw, a'i barchu, ac arswydo rhag ei halogi, fel y gwneir yn aruthr gan grefyddwyr,—megis arfer y Gair yn ysgafn a chellweirus; gwybod y Gair, ac anufuddhau iddo; defnyddio y Gair i gyfiawnhau drygioni; siarad yn sanctaidd o'r Gair, a'i wadu yn y galon; gwneud masnach o'r Gair, er mwyn clod ac elw; cydnabod y Gair, a gwadu dwyfoldeb yr Arglwydd; cydnabod gwirioneddau dwyfol y Gair, ac ufuddhau iddynt am dymhor, yna gwrthgilio a gwadu. Y rhai sydd yn halogi y Gair mewn unrhyw ystyr, nis gallant wybod dim am y Dyn Anfeidrol, na'r moddau rhyfedd y mae yn creu a llywodraethu, ac nis gallant dderbyn unrhyw allu oddi wrtho trwy y Gair, yn erbyn uffern, twyll a drwg; tra yr hwn sydd yn parchu y Gair, a'i fyfyrio, yn gallu gweled y Dyn Anfeidrol, a gwybod mai Efe yw y Crewr a Llywodraethwr y bydysawd; a thrwy y Gair hefyd, derbynia

y cyfryw allu i drechu yr holl uffernoedd, gan fod y Gair iddo ef yn agor y nefoedd, yn ei uno a'r Dyn Anfeidrol, ac yn dwyn y rhengoedd angylaidd o'i blaid. Felly, dymchwela holl rengoedd uffern, a'u cynghreiriau dirifedi, mewn amrant, trwy feddwl ac ewyllysio yn y Gair, sef yn y Dyn Anfeidrol. Yn y byd ysbrydol, nid oes dim all wrthsefyll dyn y Gair dihalog: "Gorfoledded y saint mewn gogoniant, a chanant ar eu gwelyau. Bydded ardderchog foliant Duw yn eu genau, a chleddyf dau-finiog yn eu dwylaw. I wneuthur dial ar y cenhedloedd, a chosb ar y bobloedd; I rwymo eu brenhinoedd a chadwynau, a'u pendefigion a gefynau heiyrn; I wneuthur arnynt y farn ysgrifenedig; yr ardderchawgrwydd hwn sydd i'w holl saint Ef. Molwch yr Arglwydd" (Salm cxlix, 5-9).

9. Y PRIF RESWM DROS FOD YN DEYRNGAR I LYWODRAETH Y DYN ANFEIDROL, YW Y DYN ANFEIDROL EI HUN. Wrth roddi y deg gorchymyn, dechreua yr Arglwydd trwy ddweud: "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw" (Exodus xx, 2)—yr unig anogaeth ddigonol i'w cadw. Yn y Gair, dywed yr Arglwydd yn barhaus wrth ei bobl: "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw"; "Myfi yw yr Arglwydd"; "Yr Arglwydd ydwyf fi"; fel yr unig gymhorth anffaeledig i bob ufudd-dod. Yn Leviticus, penodau xviii a xix, mynychir y dywediad yn nglyn a phob rhwymedigaeth: "A llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd, Llefara wrth feibion Israel, a dywed wrthynt, Myfi yw yr Arglwydd eich Duw" (Lev. xviii, 2). Yna dengys mai yr Arglwydd eu Duw yw y rheswm dros beidio bod fel yr Aipht a Chanaan; dros fod yn ddiwair; dros fod yn sanctaidd; dros barchu tad a mam; dros gadw y Sabath; dros adael lloffion ar faes y cynhauaf i'r tlawd; dros onestrwydd a geirwiredd; dros beidio melldigo y byddar, na rhoddi tramgwydd ar ffordd y dall; dros beidio gwneud toriadau yn y cnawd; dros beidio myned ar ol dewiniaid; dros diriondeb i'r dieithr; a thros bob cyfiawnder. Pob deddf a dyledswydd a gant eu selio trwy ddywedyd: "Myfi yw yr Arglwydd eich Duw"; "Myfi yw yr Arglwydd"; "Yr Arglwydd ydwyf fi." Y Dyn Anfeidrol yw yr Arglwydd, a dylai fod yn ysgrifenedig ar dalcen pob dyn meidrol, fel ar dalcen Aaron, mewn llythyrenau aur: "SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD." Yr Arglwydd yw y cwbl, fel yn Llyfrau Moses, yn y Salmau hefyd, megis "Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf" (Salm xxiii, 1); "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond Tydi; ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda Thydi" (Salm lxxiii, 25). Dangos yr Arglwydd fel y rheswm digonol dros bob ufudd-dod wna y prophwydi eto, megis: "Uchel drem dyn a iselir, ac uchder dynion a ostyngir; a'r Arglwydd yn unig a ddyrchefir yn y dydd hwnw" (Esaiah ii, 11). Glynu wrth yr Arglwydd

fel y Dyn Anfeidrol, oedd ymgyrch fawr yr Eglwys Apostolaidd: "Canys pa un bynag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw; am hyny, pa un bynag yr ydym, ai byw ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym" (Rhuf. xvi, 8). "Y plant, ufuddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd. . . Y gweision, ufuddhewch . . megis i Grist. Ymnerthwch yn yr Arglwydd. Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gwyr priod, megis i'r Arglwydd. Y gwyr, cerwch eich gwragedd, megis y carodd Crist yr Eglwys" (Eph. penodau v. a vi). Yr Arglwydd yw y Jehovah, y Bod ei Hun; Jehovah, Jehovah, y Bod mewn cariad a gwirionedd; Jehovah-Jireh, y Bod a ddarpara, ac a'n cynorthwya yn mhob cyfyngder; Jehovah-Nissi, ein baner yn y brwydrau; Jehovah-Tzidkenu, ein cyfiawnder cyflawn; Jehovah-Shallom, ein heddwch anfeidrol; a Jehofah Shammah, y Bod gyda ni. "Ac enw y ddinas o'r dydd hwnw allan, fydd, yr Arglwydd sydd yno" (Ezeciel xlviii, 35). Yn Eglwys Philadelphia, Efe yw Alpha ac Omega, y Dechreu a'r Diwedd, y Cyntaf a'r Diweddaf. Efe sydd yn nghanol y saith ganhwyllbren aur; Efe sydd yn nghanol yr orseddfainc; ac Efe sydd ar yr orseddfainc wen fawr: "A phob melldith ni bydd mwyach; ond gorseddfainc Duw a'r Oen a fydd ynddi hi; a'i weision Ef a'i gwasanaethant Ef" (Dat. xxii, 3). Ymwrolwn yn y Dyn Anfeidrol i bob daioni. Tynwn ein cymhellion, ein rhesymau, a'n cysuron, o hono Ef. Boed i'w gyflawnder Ef ein llanw ni, a symudwn dan ei ddylanwad, fel y planedau dan ddylanwad yr haul, fel y gwaed dan ddylanwad y galon, ac fel y corph dan ddylanwad yr enaid: "Canys yr Arglwydd yw ein barnwr, yr Arglwydd yw ein deddfwr, yr Arglwydd yw ein brenhin: Efe a'n ceidw" (Esaiah xxxiii, 22). Amen.

XXVIII.—AGORIAD I JUBILI FAWR Y BYDOEDD.

Dyfodiad y Dyn Anfeidrol i deyrnasu trwy Eglwys Philadelphia, a effeithia ar y bydysawd oll, ei holl fodau, a'i holl wrthrychau, hyd y gronynau lleiaf: "O eithaf y nefoedd y mae ei fynediad Ef allan, a'i amgylchiad hyd eu heithafoedd hwynt; ac nid ymgudd dim oddi wrth ei wres Ef" (Salm xix, 6). Daw i adferyd rhyddid, anibyniaeth, a gorphwysfa pawb a gadwant ei Air. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau" (Dat. iii, 8). Dwy flwyddyn tra rhyfeddol dan y gyfraith oeddynt: *Yn gyntaf, y Flwyddyn Sabothol* (gwel Lev. xxv, 2-7; 20-22). Blwyddyn o orphwysfa i'r tir, a'r dynion, oedd hon, yn arwyddluniol o orphwysfa eneidiau yn y Duwdod, a'r Duwdod mewn eneidiau; ac yn oruchaf o orphwysfa y Duwdod hanfodol yn y Ddynoliaeth Ddwyfol, ac o'r Ddynoliaeth Ddwyfol yn y Duwdod hanfodol. Ni threfnid seremoniau crefyddol neillduol yn nglyn a'r flwyddyn hon, a chaniateid rhyddid dibryder i bawb, am y darparai yr Arglwydd yn arbenig ar gyfer y bobl. *Yn ail, Blwyddyn y Jubili:* "Cyfrif i ti hefyd saith mlynedd seithwaith," &c. (Lev. xxv, 8-18). Yr oedd y flwyddyn hon i'w chyhoeddi a bloedd udgorn, a rhyddid i'w gyhoeddi yn y wlad i'r holl drigolion, a phob un i ddychwelyd i'w etifeddiaeth ac i'w deulu, a phob gorthrwm i'w symud, dan orchymyn pendant Brenhin a *Landlord* y bydoedd. Y mae elfenau dirywiad mewn dyn ac mewn cymdeithas o ddynion. Ymollyngir i ddaearoldeb, i afradedd, i orthrwm, ac anuwioldeb. Dyn, fel y ddaear, a dyf yn wyllt heb wrtaith parhaus. Ond y mae awyddfryd a medr anfeidrol i wellhau ac adferyd pawb yn y Creawdwr. Prawf o hyn oedd blwyddyn y Jubili; profai hefyd fod dyn yn fwy na meddianau bydol, a bod gan ddyn anghenion uwch na'r anifail—angen Duw i'w adwaen, i'w fwynhau, i'w folianu; ac angen Duw i'w ddysgu pa fodd i ymddwyn tuag at ei gyd-ddyn, yn nodedig ei gyd-ddyn mewn caledi. Heb hyn, bydd gwagder yn ei galon, a'r gagendor rhyngddo a'r bywyd. Y Jehofah yn gweithio yn yr enaid, nes gorphen mewn gorphwysfa, yw Jubili dragwyddol dyn. "Ysbryd yr Arglwydd sydd arnaf fi, o herwydd iddo fy eneinio i; i bregethu i'r tlodion yr anfonodd fi, i iachau y drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, a chaffaeliad golwg

i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb. I bregethu blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd" (Luc iv, 18, 19). Profiad o'r Arglwydd yn pregethu y flwyddyn gymeradwy yn yr enaid, sydd felusach na mel, a phereiddiach na chân yr eos; udgorn y Jubili fawr ydyw, yn cyhoeddi ein rhyddid, a'n gollwng i fynwes Emanuel, y Dyn Anfeidrol. Yma, amgylchir ni gan ardderchawgrwydd tragwyddoldeb. Ein llygaid a olrheiniant adnoddau a phrydferthion bywyd, a'n gorthrymderau a beidiant byth. Y gwres gwreiddiol a gynhesa ein calonau, a'r goleuni gwreiddiol ddysgleiria yn ein deall; a thrwy y gwres a'r goleu y gwna y nefoedd goncro uffern, a'i gyru ar encil dragwyddol: yr enaid wedi dianc fel yr aderyn o fagl yr adarwr, i uno a'r corau yn y coedydd, yn fwy dyogel rhag gormes teyrn y tywyllwch, na'r Aiphtiaid yn eu tyrau uchel, rhag y mosquitos. Yr enaid rhydd a fedd bob hawl, pob braint a defod, i bob dedwydd dynged. Efe a fedd y Creawdwr a'r Ceidwad ynddo ei hunan, tu fewn i bob crefydd a chreadigaeth. Efe a gymer ei ddiddyfnu a'i ddiddymu oddi wrth y meidrol a'r marwol, er cael ei ddiwygio a'i ddiddanu gan yr Anfeidrol, yr Anfarwol, a'r Bendigedig Benaeth. Dyfodiad yr Arglwydd, sef Jubili fawr y bydoedd, a liosoga blant y wraig rydd, yn aneirif ac anorphenol. "A chwi a gewch wybod y gwirionedd, a'r gwirionedd a'ch rhyddha chwi" (Ioan viii, 32). Ein gobaith sicr a gorfoleddus yw Jubili y bydysawd—rhyddhad, adnewyddiad, ac uniad yr hil ddynol trwy yr aneirif fydoedd gweledig ac anweledig, i droi dros byth, yn siriolach na ser y boreu, o amgylch yr orseddfainc wen fawr. Yr olygfa oruchel ac anghydmarol a wyrthiol, ddyfnha ein diwylliad, ac a'n diwalla a diniweidrwydd, a chariad, a thosturi, a didwylledd, ac a chydymdeimlad diderfynau. Lledaena wareiddiad y wlad well trwy ddyffryn Hinom a Gehena ein llygredigaethau; gollynga lais llawenydd a llais cân trwy Hadadrimon ein galarnadau; ac amwisga adfeilion angau a swynion bywyd a phrydferthwch, fel blodau yr *Epidendrums* yn y trofegau, yn tyfu dros y cyffion crin, gan dynu maeth o honynt, a throi y fangre yn ail i Eden. Dyfalwn ar Jubili fawr y bydoedd yn y drefn a ganlyn:—

I. JUBILI Y JEHOFAH YN Y DDYNOLIAETH DDWYFOL. II. JUBILI Y NEFOEDD. III. JUBILI BYD YR YSBRYDOEDD. IV. JUBILI ODDI WRTH YR UFFERNOEDD. V. JUBILI Y DDAEAR. VI. JUBILI Y BYDOEDD UNEDIG. VII. JUBILI Y JEHOFAH A'R BYDOEDD UNEDIG, A WEITHREDANT YN ANWYL AR EU GILYDD.

I. JUBILI Y JEHOFAH YN Y DDYNOLIAETH DDWYFOL. Gwybodaeth am yr Arglwydd sydd fwy ardderchog na phob gwyobdaeth arall, am mai yr Arglwydd ei Hun yw y mwyaf

ardderchog. Rhyfeddwn at ryfeddodau natur, at y gwyrthiau, ac at ragluniaeth gyffredinol a neillduol, am nad ydym yn dirnad perffeithrwydd anfeidrol Duw ei Hun. Pe yr adwaenem yr hyn ydyw Efe, peidiem rhyfeddu at natur, at y gwyrthiau, ac at ragluniaeth, ac addolem Ef fel yr unig Ryfeddol: "O herwydd, ei enw Ef yn unig sydd ddyrchafadwy; ei arddercnawgrwydd Ef sydd uwchlaw daear a nefoedd" (Salm cxlviii, 13). "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond Tydi; ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda Thydi" (Salm lxxiii, 25). Yn yr ymgnawdoliad, datguddia y Duwdod ei hun i ddyn: "Ni welodd neb Dduw erioed; yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd Ef" (Ioan i, 18). Y Jehofah a ddisgynodd, ac a gymerodd ein natur ni yn nyfnder isaf ei dirywiad. Dyn Anfeidrol yw y Jehofah, a phethau anfeidrol ynddo. Medda o dragwyddoldeb ffurf ddynol anfeidrol; corph dwyfol anfeidrol; llygaid, clustiau, ffroenau, genau, a thafod anfeidrol; calon ac ysgyfaint anfeidrol, a'r rhanau anfeidrol sydd yn nglyn a hwynt. Yn y dyn creuedig y mae y pethau hyn yn llawer, ond yn y Dyn Anghreuedig, y maent yn aneirif ac anfeidrol. Mai Dyn yw Duw, a welir oddi wrth y ffaith fod dyn wedi ei greu ar lun a delw Duw. Yr oedd y ddynoliaeth gymerodd y Duw-ddyn yn yr ymgnawdoliad yn syrthiedig, ac yn cael ei meddianu a'i blino gan yr holl uffernoedd: "Ni chymerodd Efe naturiaeth angylion, eithr had Abraham a gymerodd Efe" (Heb. ii, 16). Ni chymerodd Efe y natur ddynol yn y gradd angylaidd, ond yn y gradd anianol, anifeilaidd, a chythreulig: "Yn gymaint a dyoddef o hono, gan gael ei demtio, Efe a ddichon gynorthwyo y rhai a demtir" (Heb. ii, 18). Efe a ddarostyngodd yr holl uffernoedd ynddo ei hun, ac hefyd o'r tu allan iddo ei hun. Efe a fedrodd ddilyn diniweidrwydd dilwgr a diderfyn, gan ddwyfoli y ddynoliaeth, a'i gwneud yn ddydd mawr y cymod tragwyddol, ac yn flwyddyn Jubili y Jehofah. "Yn hwn y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol" (Col. ii, 9). Fel y gwna hollalluawgrwydd Duw ollwng trefn a harddwch i'r bydysawd, ac i bob rhan o hono, felly hefyd y gwnaeth Efe ollwng trefn a harddwch perffaith i'r ddynoliaeth a gymerodd Efe, ac i bob rhan o honi. Yr oedd Efe yn faban, fel pob plentyn arall, ac a aeth trwy y gwahanol raddau yn olynol hyd ddyndod: "A'r Iesu a gynyddodd mewn doethineb a chorpholaeth, a ffafr gyda Duw a dynion" (Luc ii, 52). Ond Efe a gynyddodd yn gyflymach a pherffeithiach nag eraill, am fod y Ddynoliaeth Ddwyfol ynddo, yn ei ryddhau o'r ddynoliaeth lygredig. Y Ddynoliaeth Ddwyfol, yn yr hon yr anfonodd Duw ei Hun i'r byd, yw

Mab Duw. Mynegodd yr Arglwydd yn aml fod y Tad wedi ei anfon Ef, a'i fod wedi ei anfon gan y Tad; wrth hyn y golygir iddo ddisgyn a dyfod i blith dynion, ac effeithiwyd hyn trwy y ddynoliaeth a gymerodd Efe o'r Forwyn Fair, o'r holl genhedlaethau, ac o'r holl hil ddynol trwy yr holl fydysawd gweledig ac anweledig, ac o'r Duwdod ei Hun. Y Ddynoliaeth Ddwyfol wedi ei hysgaru a'i phuro oddi wrth bob peth llygredig a chreuedig, ac felly ei gogoneddu yn gyflawn gyfansawdd o'r Tad, yw Mab Duw. Wrth Fab y Dyn, y golygir yr Arglwydd o ran y Gair; ac wrth Fab Mair, yr egwyddor hono a gymerodd Efe, oedd hollol ddynol a meidrol. Yr enaid sydd o'r Tad, a'r corph o'r Fam. Rhan ysbrydol dyn sydd yn gwbl o'r tad, a'r rhan anianol yn gwbl o'r fam. Y Jehofah ei Hun oedd enaid a dynoliaeth ysbrydol Iesu Grist; ei ddynoliaeth anianol a chreuedig yn unig oedd oddi wrth ei fam, yr hon a osododd Efe ymaith yn llwyr trwy y gogoneddiad mewn temtasiwnau a threialon, ac yn olaf, trwy frwydr a buddugoliaeth fawr y groes. "Gorphenwyd."

Ar y Groes yr ymddyrchafodd,
Fry goruwch adfeilion byd,—
Penaf orchest yr holl oesoedd,—
Anghydmarol goncwest ddrud.
N. R.

Deil y Pabyddion genhedliad dihalog y Forwyn Fair, ac ystyriant hi y sancteiddiaf o'r saint. Dyrchafant hi fel duwies, ac addolant hi fel *Theotocos*, *Deipara*, neu Fam Duw, gan lefaru am dani yn rhagori ar bob creadur, a'i galw yn Fam i'w Chreawdwr—teitl arswydol a rhyfygus—a'i bod hi nid yn unig yn gyfrwng naturiol yr ymgnawdoliad, ond yn achos deallus a chyfrifol o hono; ei chenhedliad dihalog, ei golud o ras, a'i llawnder o haeddiant yn cynorthwyo yr ymgnawdoliad, ac yn enill iddi fel gwobr, a'i chynysgaethu a gallu neillduol i eiriol dros bechaduriaid. Ond cyfeiliornad cableddus yw hwn i gilio o wydd y Ddynoliaeth Ddwyfol. Natur ddynol syrthiedig oedd gan y Forwyn Fair, yn agored i holl hylifau yr uffernoedd. Ymwrthododd Mab Duw yn y brwydrau, a phob peth perthynol i'w fam, ac ymwisgodd a phob peth a berthyn i'r Tad. Hyn oedd y gogoneddiad, y Bywyd Anfeidrol yn ymgnawdoli mewn Dynoliaeth Ddwyfol, ac yn dangos ei hun yn mhob rhan o honi. Pan y mae holl raddfeydd ein henaid yn agored i'r nefoedd, ac i'r Arglwydd, nes ein bod yn deml Duw, daw y gogoniant i'r golwg yn y marwol gorph. Amlyga Duw ei hun ynom trwy syniadau ac actau ysbrydol, trwy wedd y gwyneb, a chylch o ddylanwad. Ond yr oedd dysglaerder y

Ddoethineb Ddwyfol, a gwrid y Cariad Dwyfol, yn ymddangos mewn perffeithrwydd yn syniadau, actau, gwyneb, a chylchoedd dylanwad Iesu Grist; oblegid fod holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo. Yn ei ogoneddiad Ef, adenillwyd Paradwys, gorchfygwyd yr Aipht, meddianwyd Canaan, sylweddolwyd y cysgodau, cyflawnwyd y prophwydoliaethau, daeth yr holl addewidion i ben, concrwyd yr uffernoedd, gwisgwyd y wraig a'r haul, daeth yr holl nefoedd i lawr mewn ffurf dynol, a daeth creadigaeth newydd i fod, a'r oll yn y Ddynoliaeth Ddwyfol—Jubili anfeidrol a thragwyddol y Jehofah.

2. JUBILI Y NEFOEDD. Prynedigaeth gynwysir mewn darostwng yr uffernoedd, dwyn y nefoedd i drefn, a pharotoi y ffordd i eglwys newydd nefolaidd ac ysbrydol. Parhaodd prynedigaeth hyd yn awr, am mai yn awr y mae Ail-ddyfodiad yr Arglwydd, ac yn awr y sefydlir nefoedd newydd a daear newydd. Nis gallasai yr angylion sefyll yn eu cyfander pe na buasai prynedigaeth oddi wrth yr Arglwydd; oblegid fod yr holl nefoedd angylaidd, yn nghyd a'r holl eglwys ar y ddaear, yn ngwydd yr Arglwydd fel un dyn: y mewnol ynddo yn cael ei gyfansoddi gan y nefoedd angylaidd, a'r allanol gan yr eglwys yn y byd. Pan fyddo y dyn allanol yn afrywiog ac ystyfnig i'r dyn mewnol, y dyn mewnol a wanheir, ac a lygrir. Pan waela traed y corph naturiol, dringa y gwaeledd yn raddol i'r lwynau, i'r coluddion, i'r galon, ac i'r pen. Pan gyfyd tarth o'r corsydd ac o'r llynoedd, lleinw y dyffrynoedd, cuddia y tai, cyfyd dros y clogwyni a chopaäu y mynyddoedd, ac esgyna i'r entrych clir, gan orchuddio goleuadau y nefoedd. Felly hefyd y mae pob drwg yn dyrchafu, yn ymdaenu, ac yn heintio. Nid yw y nefoedd mor lan, fel nad yw mewn perygl oddi wrth yr ymlygriad cyffredinol. Oni bai prynedigaeth yr Arglwydd, nis gellid cadw un dyn, ac ni allasai angylion aros yn eu hystad o ddiniweidrwydd. Yr Arglwydd, felly, a brynodd ddynion ac angylion: "Eithr Efe a ddyrchafodd, beth yw ond ddarfod iddo ddisgyn yn gyntaf i barthau isaf y ddaear? Yr hwn a ddisgynodd, yw yr hwn hefyd a esgynodd goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth" (Eph. iv, 9, 10). "Fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai grynhoi yn nghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear ynddo Ef" (Eph. i, 10). Chwalwyd y nefoedd ffugiol trwy brynedigaeth, a rhoddwyd i Gabriel a Michael, delynau ac udgyrn newydd, thronau a choronau newydd. Blwyddyn gymeradwy yr Arglwydd a gyhoeddwyd trwy yr holl nefoedd. Dywed Swedenborg: "Galwodd yr Arglwydd ei ddeuddeg apostol yn nghyd, y rhai a'u canlyn-

asant Ef yn y byd, ac a'u hanfonodd trwy yr holl fyd ysbrydol i bregethu yr efengyl, fod yr Arglwydd Iesu Grist yn teyrnasu, ac y pery ei deyrnas yn oes oesoedd, yn ol prophwydoliaeth Daniel (vii, 13, 14); a'r Datguddiad (xi, 15); ac mai "Gwynfydedig yw y rhai a elwir i swper neithior yr Oen" (Dat. xix, 9). Hyn a ddeallir wrth eiriau yr Arglwydd: "Ac Efe a ddenfyn ei angylion a mawr sain udgorn; a hwy a gasglant ei etholedigion ef yn nghyd o'r pedwar gwynt, o eithafoedd y nefoedd, hyd eu heithafodd hwynt" (Math. xxiv, 31). Jubili trwy y byd angylaidd yw yr Ail-ddyfodiad. Am hyny y molienir yr Arglwydd, yn neillduol gan y pedwar anifail yn nghanol yr orseddfainc, gan y pedwar henuriad ar hugain o gylch yr orseddfainc, a chan angylion y tair nefoedd, a chan bob creadur ar sydd yn y nef, fel y dangosir yn y Datguddiad (penodau iv, v, a xix).

3. JUBILI BYD YR YSBRYDOEDD. Yn amser dyfodiad cyntaf ein Harglwydd, yr uffernoedd a gynyddasant i'r fath uchder, nes llanw byd yr ysbrydoedd, sef y byd canolog, neu fyd y farn rhwng nef ac uffern; ac aflonyddent angylion y nefoedd gan eu poeni mewn mil o ffyrdd. Codent ddinasoedd a thyrau Babel yn myd yr ysbrydoedd, i gyrhaedd hyd y nef. Yr holl ddaear a ddieithrodd oddi wrth yr Arglwydd trwy hunanoldeb a bydolrwydd, trwy eilun-addoliaeth, dewiniaeth, godineb, celwydd a chreulondeb. Aeth Iuddewon a chenhedloedd yn gythreulig, ac ar ol angau, ymdyrent i fyd y farn, gan ddyddiol liosogi a chryfhau y pwerau uffernol. Ond y bodau barus wrth y llengoedd, a yrwyd allan i'r uffernoedd, trwy ymgnawdoliad yr Arglwydd, ac adeiladwyr ffugiol ond ffyrnig Babel, a wasgarwyd. Cyflawnwyd yr orchest hon gan yr Arglwydd yn ystod ei arosiad yn y byd. Tywysog y byd hwn a fwriwyd allan y pryd hwnw o fyd yr ysbrydoedd. Gwnaed gwaith cyffelyb gan yr Arglwydd yn ei Ail-ddyfodiad. Disgynodd gyda'i angylion i fyd yr ysbrydoedd, a gollyngodd allan oleuni y Ddynoliaeth Ddwyfol nes gwasgar i uffern y damnedigion gor-grefyddol a gor-eglwysig oeddynt wedi ymgroni yno, a chreu iddynt eu hunain nefoedd rhagrith, gan aflonyddu a pheryglu cydfantoliad gwae a gwynfyd, fel nas gallai dwyfol drefn gadw y nef angylaidd yn ei hystad o gariad, a doethineb, a dedwyddwch. Pan lwyr ddirywia yr eglwys ar y ddaear, angylion y nefoedd a alarant, ac a weddiant ar yr Arglwydd am osod terfyn arni, a gyru y rhai a ddaw o honi o fyd yr ysbrydoedd, a chael Eglwys Newydd yn sylfaen newydd i'r nefoedd ar y ddaear, rhag i'r hil ddynol ddarfod o'r ddaear. Posibl yw i'r hil dynol ddiflanu o'r byd hwn, trwy lwyr encilio oddi wrth yr Arglwydd, ac o'r nefoedd, a cholli y bywyd

ysbrydol ac angylaidd, heb feddu yn hwy ond bywyd anianol ac uffernol, dibris o bob deddf ac o bob tegwch; pawb yn ymwrio ac yn ymladd yn ol cref y gwaed, wedi ei gyflawn wenwyno gan anwn. Darfuasai am bawb, fel na buasai dyn yn y byd hwn, oni bai i'r Arglwydd ymgnawdoli, a rhoddi y Gair ysgrifenedig yn sail i'r nef angylaidd, a chyfrwng uniad angylion a dynion. Darfuasai hefyd am bob dyn, fel na buasai un dyn ar y ddaear heddyw, onibai i'r Arglwydd ddyfod yr ail waith yn y nefoedd, ac yn y byd canolog, i ddarostwng y dreigiau a'r bwystfilod yno, a dwyn pob peth i drefn, nes ymledu yn Jubili gyffredinol trwy fyd y farn. Bu y Gweledydd, Emanuel Swedenborg, yn dyst ysbrydol o'r arddangosion arswydol a gogoneddus yn y flwyddyn 1757.

4. JUBILI ODDI WRTH YR UFFERNOEDD. Fel y nodwyd, yr Arglwydd yn ystod ei arosiad yn y byd, a frwydrodd a'r uffernoedd, concrodd a darostyngodd hwynt, megis y dywedodd: "Yn awr y mae barn y byd hwn; yn awr y bwrir allan dywysog y byd hwn" (Ioan xii, 31). "Ac Efe a ddywedodd wrthynt, mi a welais Satan megis mellten, yn syrthio o'r nef. Wele, yr wyf fi yn rhoddi i chwi awdurdod i sathru ar seirph ac ysgorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn" (Luc x, 18, 19). Rhagddywedwyd hefyd, y deuai yr Arglwydd drachefn; a Llyfr y Datguddiad drwyddo, ddarlunia ei Ail-ddyfodiad, pan y gwna Efe, trwy agor ystyr fewnol y Gair, ddystrywio y crefyddau Protestanaidd a Phabaidd, sef y ddraig goch fawr, a'r buttain fawr. Efe hefyd a goncra ac a ddarostynga yr uffernoedd, crea nefoedd newydd, ac yna crea Eglwys Newydd ar y ddaear. Bydd hyn yn Jubili oddi wrth orthrwm, rhuthr, a rhaib yr uffernoedd. Tebyg yw cymeriad yr uffernoedd i fyddinoedd o ysbeilwyr yn ymosod ar deyrnas, fel y gwnaeth Prydain ar Ddeheudir Affrica, yn tanio y tai, yn difrodi meddianau y trigolion, yn carcharu a lladd y perchenogion, yn newynu y gwragedd a'r plant, yn mathru rhyddid ac anibyniaeth, a lladrata y wlad, a rhanu yr ysbail gyda gloddest a gorfoledd. Ond tebyg yw Jubili yr Ail-ddyfodiad i frenhin cyfiawn, a'i fyddinoedd yn marchog i'w herbyn, yn lladd rhai a'r cleddyf, yn carcharu eraill, yn cymeryd yr ysglyfaeth ymaith, yn adferyd pob peth, yn sefydlu y deyrnas mewn trefn a thangnefedd, a'i dyogelu rhag y fath drais yn y dyfodol. Tebyg yw yr uffernoedd i fwystfilod rheibus yn rhuthro o'r goedwig, yn ysglyfio y deadellau diniwed, a'r dynion hefyd, fel na feiddiai neb fyned tu allan i'w tai i drin eu tir, na darparu rhag newyn; ond tebyg yw Jubili yr Ail-ddyfodiad, i laddedigaeth a gwasgarfa y bwystfilod rheibus hyn, a dyogeliad y wlad rhag anrheithiau pellach. Daw diniweidrwydd a

duwioldeb i ddynion, fel nas gall y dreigiau a'r diafol eu drygu: "A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp; ac ar ffau y wiber yr estyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law" (Esaiah xi, 8). Y plentyn sugno, a'r hwn a ddiddyfnwyd, yw y rhai diniwed trwy garu yr Arglwydd, y Gair, a'r nefoedd; twll yr asp, a ffau y wiber, yw yr uffernoedd mwyaf ffals a ffyrnig. Pethau tebyg feddylir pan ddywedir: "Ar y llew a'r asp y cerddi; y cenaw llew a'r ddraig a fethri" (Salm xci, 13). "Wele, yr wyf yn rhoddi i chwi awdurdod i sathru ar seirph, ac ysgorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn; ac nid oes dim a wna ddim niwed i chwi" (Luc x, 9). Sathru ar seirph ac ysgorpionau, ac ar holl gryfder y gelyn, yw gallu i ddibrisio holl ddichellion, brad, a dyfeisiau yr holl lengoedd cythreulig, a bod yn dragwyddol ddyogel rhagddynt—Jubili oddi wrth yr uffernoedd.

5. JUBILI Y DDAEAR. Syniad y Saeson am jubili y byd yw, iddynt hwy feddianu a rheoli y blaned: mai hwy yw y bobl gallaf, gryfaf, mwyaf gwâr ac efengylaidd, yn meddu hawl i brynu, concro, darostwng, a rheoli y bobloedd a'r llywodraethau llai, yn ddibris o'u hewyllys a'u hanibyniaeth. Pregethir hyn mewn pwlpudau fel efengyl Duw; cyhoeddir hyn mewn seneddau, fel y synwyr uchaf; amddiffynir hyn gan ddysgawdwyr, fel yr unig foddion i aileni yr hil ddynol; cefnogir hyn gan y wasg fel galwad y nef ar Brydain ac America; a lledu hyn yw pwrpas ac ysbrydiaeth ein cenhadaethau a'n cenhadon. Ond cref am glod a golud yw efengyl y gelanedd hon; Jesuitiaeth o'r fath fwyaf uffernol ydyw, yn agor y pydew diwaelod ac yn gollwng yr holl ellyllon yn rhydd ar y blaned; crynhoad yw o holl allu y tywyllwch fu yn fflangellu, yn llabyddio, yn croeshoelio, yn llosgi, ac yn arteithio trwy bob dyfeisiau, er mwyn coroni y diafol a diorseddu y Duwdod. Awr olaf, greulonaf, a mwyaf gwallgof gwylliaid y cyllill hirion yw hon; oblegid, yn ngwyddfod y Dyn Anfeidrol yn y Gair agored, gwelwn a theimlwn ynom ein hunain ernes y Jubili dragwyddol, sydd wedi dechreu disgyn i'r byd. Gorfoleddwn yn yr Hwn sydd wedi cyneu fflam aniffoddadwy cariad at gyfiawnder yn ein henaid, ac yn rhoddi i ni ein rhyddid diderfyn wrth fod yn gaethion gwirfoddol iddo Ef. Y Dyn Anfeidrol, trwy ei wres a'i oleu ei hun, a grea ynom y nef a'r ddaear newydd. Yn y greadigaeth newydd hon, y datguddia ei Hun i ni. Cawn ein meddianu ganddo a meddyliau mawr a melus. Safwn bob mynud, ac am byth, yn ei wyddfod gydag arswyd, anwyldeb, addoliad, a sefydlogrwydd: "Gosodais yr Arglwydd bob amser ger fy mron; am ei fod ar fy neheulaw, ni'm hysgogir" (Salm xvi, 8). Ein Tad nefol a'n cofleidia, a'n cusana, ac a'n dena ninau i'w gusanu Ef, gan orphwys yn ei fynwes; a

thrwyddo Ef, y cofleidiwn ac y cusanwn holl fodau sanctaidd y bydysawd, fel anwyl gariadus frodyr. Cryfheir ein calon gan brofiad o nerth bywyd anherfynol. Cefnfor tragwyddol o wynfyd a ymagora o'n blaen yn y Crewr ei Hun. Ein golygon a syllant yn sefydlog arno Ef, perffeithrwydd pob pwerau a phrydferthion. Efe yn unig sydd fyw, sydd fawr, a hardd. Y bydoedd ato Ef, nid ydynt ond dafnau o gelwrn. Nef a daear a wneir yn un yn ei bresenoldeb. Fel y gwna ei fywyd, ei fawredd, a'i harddwch, dreiddio ein henaid a'n corph, gwyddom ei fod yn treiddio y diniwed yn mhob man, ac y gwna eu dyogelu rhag yr anuwiol. "Yn ddiau, O, Dduw, ti a leddi yr anuwiol; am hyny, y gwyr gwaedlyd, ciliwch oddi wrthyf" (Salm cxxxix, 19). Ni chaiff y creuloniaid o hyd sathru y cyfiawn, na sefyll ar ffordd diwygiadau Duw. Ysgubell dialedd a symuda y sorod yn mhell o ororau y Jerusalem Sanctaidd. Gorthrymwyr a syrthiant o uchder eu llwyddiant. Y dystryw a dery dyrau dyrchafedig balchder. Ni wna gagendor anwiredd ysgaru yn hwy rhwng mater a meddwl. Purir y ddau fel gwawr y boreu, ac fel anadl Duw. Truenusion daear a godant yn urddasol uwchlaw iselradd llygredigaeth. Haul y cyfiawnder a ollwng ei belydrau i ogofaäu duon ac oerion angau, a thiriogaethau damnedigaeth a flodeuant fel rhosynau haf. Wrth agor bedd Roger Williams, ni chafwyd ynddo ond un hoelen bres: y corph a'r coffin oeddynt wedi diflanu. Ond planasid pren afalau yn ymyl y bedd; y gwreiddiau a gyrhaeddasant benglog Roger Williams, ac a ganlynasant raniadau y corph, gan ei ddifa, a throi y gweddillion marwol yn flodau a ffrwyth. Felly, yn nyfodiad Jubili fawr y byd, Pren y Bywyd a yrr ei wreiddiau i waelodion mynwentydd ysbrydol y blaned, gan droi cromgelloedd yr Ail-farwolaeth yn feusydd ffrwythlawn a pheraroglaidd. Llwch a lludw y meirw ysbrydol a adgyfodant yn fywyd blodeuog, ac yn baradwys Duw. "Yr anialwch a'r anghyfaneddle a lawenychant o'u plegid; y diffaethwch hefyd a orfoledda, ac a flodeua fel rhosyn. Gan flodeua, y blodeua, ac y llawenycha hefyd a llawenydd ac a chan; gogoniant Libanus a roddir iddo, godidowgrwydd Carmel a Saron; hwy a welant ogoniant yr Arglwydd, a godidowgrwydd ein Duw ni" (Esaiah xxxv, 1, 2).

Seren arweiniol y Jubili sydd yn dyfod, fydd cyd-weithrediad yn y Dyn Anfeidrol a'r Gair, yn cymodi y ddynoliaeth fel un corph. Miliwnau lawer o ronynau a rhanau sydd yn y corph dynol, ond cydweithiant oll dan reolaeth yr un ewyllys. Yr ewyllys a felltena ei bwriadau a'i gorchymynion trwy yr holl gyfansoddiad, ac a sicrha ufudd-dod di-oed. Y pleidiau gwladol a chrefyddol, ni chynorthwyant. Esgobion, offeiriaid,

pregethwyr, a swyddogion y wladwriaeth fel dosbarthiadau, ydynt elynion gwaethaf dynoliaeth. Byw yn fras y maent ar gulni, cwerylon, tywyllwch, a thrueni yr hil ddynol. Llechu y maent trwy yr oesoedd yn nghysgod gorthrwm, dan leni caddug yr hirnos fawr orchuddia y byd. Hudoliaeth a siom yw dysgwyl gwaredigaeth oddi wrth yr awdurdodau, neu trwy bleidleisio, pan nad oes ddewisiad ond rhwng pleidiau twyll. Ein ffydd a orphwys yn unig ar nerthoedd cariad a doethineb y Dyn Anfeidrol, yn dyfod trwy y bydysawd, er dwyn i fewn y cyfiawnder tragwyddol, a chydfeddianaeth y cyfamod newydd: pob peth gan bawb yn gyffredin, trwy ysbryd a threfn Pentecost Jubilia fawr yr Ail-ddyfodiad. Dysgwyliwn ddyfodiad Creawdwr, Cynhaliwr, Rheolwr, ac unig *Landlord* y ddaear, i osod terfyn tragwyddol ar yr ardreth, y brydles, a'r degwm, a phob taliadau eraill, a deddfau darddant o'r diafol, gan roddi y tiroedd yn rhydd a rhad, fel y gwlith a'r gwlaw, fel yr haul a'r awel. Y cydfyd angylaidd, a deiliaid y daearfydoedd dirifedi sydd yn cydbarotoi, a chydymwrio i'r goncwest; a'r cariad nad yw byth yn blino yn ysbryd y peth byw yn y symudiadau. Yr ydym eisoes yn dystion o swn hir-llaes yr udgorn, ac o drwst y llifeiriant ragflaena doriad allan y tonau, yn Hosanah, yn Haleluia, ac yn Amenau, na ostegant yn oes oesoedd, yn hanes Jubili anfarwol y byd. "Ac yn y dydd hwnw, yr udgenir ag udgorn mawr; yna y daw y rhai ar ddarfod am danynt yn nhir Assyria, a'r rhai a wasgarwyd yn nhir yr Aipht, ac a addolant yr Arglwydd yn y mynydd sanctaidd yn Jerusalem" (Esaiah xxvii, 13).

6. JUBILI Y BYDOEDD UNEDIG. Profir gan wyddoniaeth fod y bydoedd yn un, fel gwahanol ranau mawr a man yn yr un peiriant, neu yn yr un corph. Y ser yn eu gorsafion a'u symudiadau, a reolir gan yr un deddfau ag a reolant ein daear ni. Y *spectroscope* a dystia mai yr un defnyddiau sydd ynddynt, er fod rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant; ac mai patrwn o'r bydoedd tanbaid a dirifedi yw yr haul. Dengys rheswm y tebygolrwydd fod yr heuliau afrifed, fel ein haul ninau, yn cael eu hamgylchu gan blanedau cyfaddas. Y tynwyrth a'r trydan, a sylweddau mwy anelwig, a glymant y cwbl wrth eu gilydd. Mor fawreddog a rhyfedd yw yr olygfa feddyliol hon! Myfyrio arni leinw yr enaid ag arswyd ac a syndod dibendraw. Ond pa faint mwy, wedi gwybod fod y daearfydoedd dirifedi yn cael eu poblogi? Amcan bodolaeth pob daear, yw bod yn drigfa dyn, er mwyn ei fagu yn angel. Ymgnawdolodd yr Arglwydd ar y ddaear hon er mwyn ysgrifenu y Gair yma, a'i ledu trwy y byd, fel y dangosid i'r byd arall oll, fod yr Arglwydd yn Ddyn. James Johnston, cynrychiolydd nefolaidd yr Oruchwyliaeth Newydd, ddengys fod ei

genhadaeth yn un a'r bydoedd. Ymddirwyna o'i amgylch helyntion teyrnasoedd, a chylch-olygfeydd y daearfydoedd. Trwyddo y cylchreda teimladau oesoedd, a bydoedd dirifedi. Y nefoedd newydd, y nefoedd hen, a'r nefoedd henaf, a gawsant trwyddo, amlygiadau newyddion o'r Ddynoliaeth Ddwyfol. Pa le bynag ar y ddaear y mae dyn yn fyw o'r canolbwynt i'r amgylchedd, gofynol iddo gael maes difesur, oesau diddiwedd, y cread oll, a'r Creawdwr, i chwareu ei ran. Efe a gyfyd ar adenydd cariad a gwirionedd dwyfol uwchlaw dwndwr daear, i anwylu pobloedd y planedau a'r bydoedd oll; efe a eheda hefyd, yn angel yn nghanol y nef; sylla mewn tosturi ar druenusion yr uffernoedd. Pa beth bynag a ofynwn yn ein gweddiau, dylem ei ofyn er lles y teulu dynol oll, heb anghofio y rhai a syrthiasant i ebargofiant, ac i ingoedd yr Ail-farwolaeth. Dros bwy y gellwn weddio, os na weddiwn dros y rhai a suddasant i'r dirboenau, tu draw i'r gagendor mawr, a'r tywyllwch tragwyddol yn dô ar y dyfnderau di-obaith? Cariad, gwirionedd, a gweddiau tragwyddol ac anfeidrol a ddadblygant ein henaid a'n hymenydd, a goethant ein gewynau, a burant ein gwaed, ac a ddigonant eigionau athrist y galon. "Myfi a edrychaf ar dy wyneb mewn cyfiawnder; digonir fi pan ddihunwyf a'th ddelw di" (Salm xvii, 15). Nid oes diwallu na dyddanu ar ddyn nes ei ddihuno, a'i ddwyn i ddelw y Dyn Anfeidrol, ffynhonell Jubili y bydoedd unedig, yn adferyd pawb sydd adferadwy trwy bob byd, gan ddarparu yn hael a dosbarthus ar gyfer pawb, gan wneud da a drwg, nef ac uffern, yn un trwy fod yn wrthgyferbyniol yn mhob man.

7. JUBILI Y JEHOFAH A'R BYDOEDD UNEDIG, A WEITHREDANT YN ANWYL AR EU GILYDD. Gan fod y Jehofah yn Ddyn Anfeidrol, anfeidrol dyner yw ei deimlad, ac anfeidrol fawr yw ei awydd i gael ei gydnabod a'i anwylu gan bob dyn yn mhob byd. Y Jubili gyffredinol a rydd iddo y gorfoledd cyffredinol o gael ei ad-dalu mewn cydnabyddiaeth a chariad cyffredinol. Cableddus a chreulon yw y goel, nad yw ymddygiadau y plant yn effeithio ar deimladau ein Tad, yr Hwn sydd yn y nefoedd; ei fod Ef fel yr haul, yn gwasgar ei ffafrau ar y drwg a'r da, ac fel yr haul, yn ddideimlad a difater o'r defnydd wneir o honynt. Ond nis gall Person byw fod yn ddideimlad a difater fel defnydd marw. Er fod yr Arglwydd yn ddigyfnewid, nid digyfnewid mewn dideimladrwydd ydyw, ond digyfnewid mewn cariad a doethineb. Yr ymgnawdoliad a'r gogoneddiad a gynwysant gyfnewidiadau anfeidrol yn Mherson y Duwdod. Dynesodd atom i'r gradd naturiol a mwyaf allanol, yr hyn nad oedd yn bod o'r blaen. Symudodd y deyrnwialen o Judah, a daeth ar ysgwydd y Siloh. Y

moddion i gadw yr hil ddynol a gymerwyd oddi wrth yr angylion nefol, i bwyso byth mwy ar Ddynoliaeth Ddwyfol naturiol y Jehofah. Y mae dedwyddwch yr Arglwydd Dduw, gyfyd o'i natur a'i berffeithderau hanfodol, yn ddigyfnewid; ond ei ddedwyddwch yn y Ddynoliaeth Ddwyfol trwy yr ymgnawdoliad, sydd newydd; a'i ddedwyddwch hefyd, yn codi o dderbyniad bywyd yn rheolaidd oddi wrtho Ef, gan ddynion sydd o hyd yn cyfnewid, ac fel y mor yn treio a llanw. Un o hanfodion cariad yw cael ei garu gan eraill. Teimla yr Arglwydd ei gariad a'i ddedwyddwch ei Hun, mewn dyn ail-anedig; teimla hefyd gariad a dedwyddwch y dyn ail-anedig ynddo ei Hunan. Pob peth a grewyd er boddlonrwydd ei ewyllys Ef. Caiff yr Arglwydd ei foddloni, a'i lawenhau, yn ei anwyliaid sanctaidd: "Ond i'r saint sydd ar y ddaear, a'r rhai rhagorol, yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch" (Salm xvi, 3). "Canys a gyffyrddo a chwi, sydd yn cyffwrdd a chanwyll ei lygad Ef" (Zech. ii, 8). "Yr hwn sydd a'm gorchymynion i ganddo, ac yn eu cadw hwynt, efe yw yr hwn sydd yn fy ngharu i; a'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minau a'i caraf ef, ac a'm hegluraf fy hun iddo" (Ioan xiv, 21). "Hyn a ddywedais wrthych, fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn" (Ioan xv, 11). "Mi a ymwelaf a chwi drachefn, a'ch calon a lawenycha, a'ch llawenydd ni ddwg neb oddi arnoch" (Ioan xvi, 22). Swedenborg a ddengys ddirgelwch y cydgariad (reciprocity) rhwng dyn a Duw; arno y dybyna canfyddiad a chydnabyddiaeth o bob peth sydd yn bodoli, ac hefyd o bob peth sydd yn cael ei gynal gan Dduw. Gall pob dyn meidrol wneuthur i'r Dyn Anfeidrol yr hyn nis gall yr Anfeidrol wneud drosto ei Hun: gall ddychwelyd iddo ei gariad a'i orfoledd, nes rhoddi i'r Anfeidrol, ddedwyddwch nas gall gael yn amgen; tebyg i ddedwyddwch athraw mewn disgyblion teilwng, neu ddedwyddwch brenhin mewn deiliaid ufudd, neu ddedwyddwch tad a mam mewn plant doeth a da. "Yr Arglwydd sydd hoff ganddo y rhai a'i hofnant Ef: sef y rhai a ddysgwyliant wrth ei drugaredd Ef" (Salm cxlvii, 11).

O ddaear, ddaear, ddaear! clyw udgorn hirllaes y Dyn Anfeidrol, ac udgyrn fyrdd y llu angylaidd; gwrando air yr Arglwydd, a deffro gyda'r bydoedd unedig, i roesawu a brysio dyfodiad y Jubili dragwyddol. Lletywr gydag Edison, y dyfeisiwr, gafodd ei ddihuno yn ei wely ganol nos, gan y geiriau arswydol: "Bydd barod i gyfarfod a'th Dduw." Datgenid y geiriau mewn tonau difrifol a dieithr, yn datsain trwy y ty fel daroganau barn a diwedd byd. Duw, trwy Edison a'i ddyfais, oedd yno, wedi gosod y phonograph yn yr awrlais, i gyhoeddi yr Ail-ddyfodiad, yn nghanol y fagddu flaenora

wawr y nef ar y ddaear. Adlais ydoedd, o phonograph anghreuedig y Priodfab, yn awrlais anfarwoldeb, sef y Gair dwyfol, yn swnio trwy y bydoedd. "Ac ar haner nos y bu gwaedd, Wele, y mae y Priodfab yn dyfod: ewch allan i gyfarfod ag Ef" (Math. xxv, 6). "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys, Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu" (Dat. xxii, 20).

XXIX.—AGORIAD I ADGOFION A RHAGOLYGON.

Rhoddais hanes "Cloi Dirwest o Dy Dduw" yn Llechryd, mewn dau lyfryn, y cyntaf yn 1882, a'r ail yn 1883. Yn y cyntaf, darluniwyd achosion y "Cloi," sef parhau i gyhoeddi Gair y Dyn Anfeidrol yn ei ddyfodiad yn mhlith diaconiaid ac aelodau bydol, cnawdol, a meddw. Y prif derfysgwyr a weithient yn dwyllodrus ar eraill, ac o'r diwedd, cadwasant gyrddau yn yr Hen Gapel, am saith Saboth yn olynol, i'm hysgymuno; ond methasant bob tro, am fod y mwyafrif yn eu herbyn. Wedi tair blynedd o ddyfeisiau a therfysgoedd, cloisant y capel yn fy erbyn, ac yn erbyn y mwyafrif, a lladratasant yr allweddau. Am hyny, yn enw y Sanctaidd a'r Cywir, ysgydwais y llwch oddi wrth fy nhraed, yn ymyl ogof lladron, yn dystiolaeth i'w herbyn. Yr Hwn sydd ganddo agoriad Dafydd a agorodd dŷ Fanny Jenkins i'r rhai a gadwent Air ei amynedd Ef: "Wele, rhoddais ger dy fron, ddrws agored; ac ni ddichon neb ei gau; canys y mae genyt ychydig nerth, a thi a gedwaist fy Ngair, ac ni wedaist fy enw" (Dat. iii, 8). Yn mhen blwyddyn wedi y "Cloi," agorwyd y Tabernacl yn ddiddyled. Yn y cyfamser, y clowyr a'u gweinidogion, a gyffroisant Ffynonbedr, i'm cloi oddi yno, yn ol deddf cydfantoliad: y nef yn gweithio, ac uffern yn gwrthweithio. Bu y "Cloi," yn nghynadledd pregethwyr Sir Aberteifi, dros ddwy flynedd, a safasant o'r diwedd yn unol o blaid y clowyr, er gorfod addef fod cyfiawnder, dirwest, ac Anibyniaeth yn groes iddynt. Wrth gadw Gair amynedd yr Arglwydd, a dal yr hyn oedd genyf, fel na ddygai neb fy

nghoron, ysgydwais y llwch yn dystiolaeth yn erbyn gweinidogion satan y sir: "Y rhai sydd yn dywedyd eu bod yn Iuddewon, ac nid ydynt, ond dywedyd celwydd y maent" (Dat. iii, 9). Mentrais yn unig, fel dyn a gweinidog y Gair gyda'r Emanuel, y Dyn Anfeidrol. Yr oeddwn wedi bod eisoes am bum' mlynedd tu fewn drws agored Eglwys Philadelphia, mewn tangnefedd, tu draw cloion creuloniaid, yn ymddifyru yn nghanol anwylion fyrdd, dan wenau haul y byd angylaidd, a'r golygfeydd yn anrhaethadwy, tu hwnt i bob peth ellwn ddymuno gael, yn mhen oesau wedi croesi i'r anferth dragwyddoldeb. Llwyddodd y clowyr trwy eu gweinidogion, i gloi yr holl gapelau yn fy erbyn, a llwyddodd Angel Anfeidrol Philadelphia, i'm cysuro, trwy agor drysau mawrion beunydd yn y byd ysbrydol, a thrwy roddi gallu i mi fod yn foddlawn ar ychydig yn y byd naturiol, fel nad oedd y cynghreiriau i'm newynu allan o'r weinidogaeth, yn fy aflonyddu, er fod genyf briod a phedwar o blant heb eu magu, yn dybynu arnaf. "Bydded eich ymarweddiad yn ddi-ariangar, gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych; canys Efe a ddywedodd, Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith; Fel y gallom ddywedyd yn hyf, yr Arglwydd sydd gymhorth i mi, ac nid ofnaf beth a wnel dyn i mi" (Heb. xiii, 5, 6).

Yn yr ail lyfryn, darluniwyd dwyfoldeb y Ddirwest a glowyd allan, yn groes i ddirwest fydol, gnawdol, a byrhoedlog. Y mae i bob daioni ei wirionedd ei hun, a rhaid i wir ddirwestwr gredu a gwybod mai Un Person yw Duw, mai yr Arglwydd Iesu Grist yw Efe, a bod ei Ddynoliaeth yn Ddwyfol. Dirwest heb wreiddio a thyfu o'r gred hon, nid yw ond gwenwyn dreigiau, a chreulawn wenwyn aspiaid. Nodwyd rhesymau y Dyn Anfeidrol yn erbyn y ddiod feddwol, ei bod yn difa y teimlad ysbrydol, yn lladd gallu yr enaid i weled a mwynhau Duw, a'i anaddasu i sefyll yn ngwyddfod Duw yn y Gair, yn y gydwybod, yn ei Ail-ddyfodiad, ac yn y farn a fydd. Dirwest oddi ar gred yn y Dyn Anfeidrol yn unig, sydd yn agor y nefoedd, a chodi y dirwestwr i gymdeithas yr angylion; oblegid mai Dyn Anfeidrol yw Duw y nefoedd, ac nid Duw yn dri pherson. Rhoddwyd profion dros symud y gwin meddwol oddi ar fwrdd yr Arglwydd, megis absenoldeb pob peth lefeinllyd, ac eplesedig, ar wyl y Pasg: arferiad y Cristionogion cyntaf; mai gwin anfeddwol yw yr arwydd priodol o'r gwirionedd; nad ffrwyth y winwydden yw y gwin meddwol; fod gwin meddwol ar fwrdd y cymun, yn beryglus i feddwon diwygiedig; fod y gwin meddwol yn waharddedig ar bob amgylchiad; ac y dylid gwneud y Swper Sanctaidd, yn wrthdystiad yn erbyn y fasnach feddwol yn ei holl ffurfiau. Dangoswyd hefyd fod gelynion dirwest yn gyfranog o bob

pechod, ac mai arweinwyr y bobl yw y prif rwystrau i wirionedd a daioni. Darluniwyd y dirwestwr selog, ac eglurwyd perthynas dirwest a mawl, dirwest ac Ail-ddyfodiad yr Arglwydd, yn ol goleuni Swedenborg, ac y rhaid i bob aelod o Eglwys Newydd yr Arglwydd, fod yn ddirwestwr: "Ac nid â i mewn iddi ddim aflan" (Dat. xxi, 27).

Wedi cael agoriad i Eglwys Philadelphia, yr Eglwys sydd yn caru dyn, anghenraid oedd dangos y drws a'r trysorau i eraill; felly, cyhoeddwn am danynt yn ddi-gel trwy y siroedd, a lledwn draethodau wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Y traethodau a barent gyffro mawr mewn amryw fanau, yn benaf yn Nyffryn Tawe, a Dyffryn Teifi. Rhwygasant synagogau satan yn Nyffryn Tawe, a buont bron rhwygo y Tabernacl yn Nyffryn Teifi: "A'r ddraig a safodd ger bron y wraig, yr hon ydoedd barod i esgor, i ddifa ei phlentyn hi, pan esgorai hi arno" (Dat. xii, 4). Fel cyhoeddwr ac ysgrifenydd efengyl dragwyddol Philadelphia, teirw lawer a'm cylchynasant yn mhob man, gwrdd deirw Basan, gan agor eu genau fel llewod rheibus a rhuadwy; cwn a'm cylchynasant; ond gweddiwn yn ddibaid: "Arglwydd, nac ymbellha; fy nghadernid, brysia i'm cynorthwyo" (Salm xxii, 19). Yn 1884, dygais allan gyfieithiad o "Resymau Bush dros gofleidio Athrawiaethau a Datguddiadau Emanuel Swedenborg." Bu y llyfr hwn yn help mawr i gadw y Tabernacl gyda'i gilydd, trwy i arolygwr yr Ysgol Sabothol, a'r athrawon, ei ddarllen a'i gredu, nes creu ymchwiliad i'r gwirionedd mawr, ac ymdrechu o'i blaid; ac arweinydd y gan, o'i athrylith nefol, a ddewisai donau ac anthemau yn llawn o ysbrydiaeth yr Ail-ddyfodiad. Yn 1885, trwy help y "Swedenborg Society," dygais allan argraphiad Cymraeg o'r "Jerusalem Newydd, a'i Hathrawiaeth Nefol." Yna yn fuan y cynorthwyais gyfieithu Darlithiau Dr. Bailey, ar bynciau mawrion yr Ail-ddyfodiad. Cyflwynwyd y gyfrol i'r Tabernacl, am ei bod yr eglwys gyntaf yn Nghymru i arddel "y ddinas fawr, Jerusalem Sanctaidd, yn disgyn allan o'r nef oddi wrth Dduw" (Dat. xxi, 10). Hydref, 1885, ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r "Oes Newydd," misolyn er egluro, amddiffyn, a lledaenu athrawiaethau ac egwyddorion yr Oruchwyliaeth Newydd. Cychwynwyd y cyhoeddiad rhagorol hwnw, trwy i'r Tabernacl roddi £10 (y casgliad cenhadol), yn anrheg i mi. Gwnawd felly, well defnydd, filiwn o weithiau, o'r arian, na'u hanfon i Gymdeithas Genhadol Llundain, er lledu cyfeiliornadau a'r Fflag Brydeinig, trwy genhadon cefnogol i gelanedd, ac ysbail y cledd. Yn 1888, rhoddais grynhodeb o hanes y "Cloi," a brwydrau yr Ail-ddyfodiad, mewn llyfryn o'r enw "The Devil's Keys." Yn 1897, cyfieithiais "Heaven and Hell,"

gan Swedenborg, i'r Gymraeg, yr hwn a argraphwyd ac a gyhoeddwyd gan Hughes, Wrecsham, yn 1899; un o'r llyfrau rhyfeddaf a mwyaf credadwy a ysgrifenwyd erioed, yn agor dorau y byd ysbrydol a thragwyddol. Yn 1890, cyfieithiais, ac argraphwyd yn Wrecsham, "The Doctrine of the New Jerusalem, concerning the Lord," gan yr un awdwr, yn dangos y pwnc pwysicaf yn y goleu cliraf, yn sylfaenedig ar y gwirionedd fod yr holl Ysgrythyr Sanctaidd, am yr Arglwydd, ac mai yr Arglwydd yw y Gair. Yn 1901, cyfieithiais, ac argraphwyd yn Wrecsham eto, "The Doctrine of the New Jerusalem, concerning the Sacred Scriptures," gan yr un awdwr; llyfr yn agor i ddirgelion y Gair, ac i'w bwysigrwydd, a'i werth anrhaethadwy, yn neillduol gan mai trwy y Gair y mae undeb a'r Arglwydd, a chymdeithas a'r angylion, a bod holl ddoethineb yr angylion o hono; fod yr Eglwys hefyd o'r Gair; fod yr Arglwydd wedi dyfod i'r byd er mwyn cyflawni y Gair; mai trwy y Gair y rhoddir goleuni i'r rhai sydd heb y Gair; a phe na byddai y Gair, na fuasai gan neb unryw wybodaeth am Dduw, am nef ac uffern, am y bywyd ar ol angau, a llai byth am yr Arglwydd Iesu Grist, fel y Dyn Anfeidrol. Yn y flwyddyn 1901, hefyd, cyfansoddais, a thraddodais yn y Tabernacl, dros 60 o ddarlithiau ar yr Agoriadau i Eglwys Newydd y Dyn Anfeidrol, Agoriadau Eglwys Philadelphia, yr Eglwys sydd yn caru dyn. Rhan o'r darlithiau hyny yw y llyfr hwn.

Wedi y "Cloi," ceisiais amddiffyn cyfreithiau y Gair, Anibyniaeth, a Dirwest, yn mhapyrau yr enwad; ond y clowyr yn glau a'u cauasant oll yn fy erbyn. Yna, troais at wasg enwadau eraill, ond cynghreiriau y clowyr yn gyflym a'm gorfuasant yno. Yna, ceisiais godi cri trwy "Gad Lef" Byddin yr Iachawdwriaeth, ac wele arfau y clowyr yn concro yno. Yn olaf, cynygiais y "Journal," papyr Toriaidd, a chefais ddrws agored, ac ysgrifenais am flynyddau bob wythnos dan y teitl, "Darkest Wales." Anialwch a diffaethwch y pwlpud, a'r grefydd gapelaidd, ddarlunid yn y llithiau hyny.

Cafodd y clowyr eu cefnogi, a chant eu cefnogi yn barhaus, gan weinidogion y siroedd, y cynadleddau, y cymanfaoedd, y colegau, y golygyddion, yr enwadau, cynrychiolwyr y cymdeithasau Beiblaidd a chenadol, ac hyd yn oed gan gymdeithasau dirwestol. Ond dyn yn adwaen ac anwylu y Dyn Anfeidrol, a feiddia wrthsefyll holl finteioedd y fallgyrch fawr: mawr allu Duw sydd ynddo fel yn y leviathan. Pob tristwch a dry yn llawenydd o'i flaen ef. Cleddyf yr hwn a'i tarawa, ni ddeil. "Nid oes ar y ddaear gyffelyb iddo, yr hwn a wnaethpwyd heb ofn; brenhin ydyw ar holl feibion balchder" (Job xli, 33, 34).

Trymach na'r holl dreialon allanol, oedd y terfysgau yn y Tabernacl. Un gelyn tu fewn sydd fil gwaeth na mil tu faes. Trodd rhai yn ol i ogof lladron. Eraill fuont gynhenus. Llawer fuont yn tuchan a dallu, o herwydd tanbeidrwydd y goleuni. Nid oedd nemawr ar y cyntaf allent amddiffyn yr athrawiaeth nefol, tra y clowyr yn eu gwyniau ar gynydd mewn cabledd. Ond Judas y Tabernacl oedd diacon mewn cynghrair a'r clowyr i rwygo y Tabernacl: diacon hefyd fu yn flaenllaw am flynyddau yn cyfenwi y clowyr yn "synagog satan," a'u gweinidogion yn "weinidogion satan," a chanmol y Tabernacl fel "Ty i Dduw, a phorth i'r nefoedd," a' r gweinidog fel "prophwyd i'r Arglwydd, ac apostol Iesu Grist." Ond wrth brophwydo yn erbyn y bacco, un o eilunod y diacon, taniodd i amddiffyn y demon du, yn yr un anian ag yr amddiffynai y clowyr y ddiod feddwol; ac fel hwythau, wrth amddiffyn ei flys a'i bechod, aeth i gyfiawnhau ei hun a chablu y gwirionedd. Bu yn ddiacon yn y Tabernacl am bedair blynedd ar ddeg, ond treuliodd ei flynyddoedd olaf i wyrdroi y Gair, i lygru y diniwed, i greu ymraniadau, a cheisio perswadio y diaconiaid ac eraill, i fyned gydag ef i Eglwys y Plwyf. Wrth fethu yn ei frad, nid oedd ganddo ond cynyg gwerthu ei hun i'r grefydd wladol, ond trwy i aelodau o'r Eglwys dystio y cilient, os derbynid y diacon, gwrthodwyd ef hyd yn oed lle derbynir ysgubion a sorod y sectau. Yna, yr ymorchestodd o'r newydd yn un a phregethwyr y "Cloi" i rwygo y Tabernacl; ond addfedodd ei anwiredd, ac mewn cwrdd cyhoeddus, ar nos Saboth, dan arweiniad y Dyn Anfeidrol, dywedais mewn llef uchel: "Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, yr wyf yn traddodi J. J., y dyn drygionus ac anhywaith, celwyddwr a chablwr y Tabernacl, i satan." Ceisiodd drachefn yn fwy nag erioed i godi plaid, ond dywedais yn bendant, os goddefid ef, neu neb a'i pleidiai, yn y Tabernacl, yr ysgydwn y llwch oddi wrth fy nhraed yn dystiolaeth i'w herbyn. Bu tawelwch ac unoliaeth. Dychwelodd y diacon i "synagog satan." "Gwell fuasai iddynt fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nag wedi ei hadnabod, troi oddi wrth y gorchymyn sanctaidd, yr hwn a draddodwyd iddynt. Eithr digwyddodd iddynt yn ol y wir ddiareb, Y ci a ymchwelodd at ei chwydiad ei hun, a'r hwch wedi ei golchi, i'w hymdreiglfa yn y dom" (II Petr ii, 21, 22). Cafodd yr anwir hwnw ei ganmol yn fawr, a'i anwylu gan anghristiau yr areithfa. "O, blant bychain, yr awr ddiweddaf ydyw, ac megis y clywsoch y daw anghrist, yr awrhon hefyd y mae anghristiau lawer; wrth yr hyn y gwyddom mai yr awr ddiweddaf ydyw" (Ioan ii, 18).

Aethom trwy dreialon dirfawr gyda'r Deml Ddirwestol, Teml Dyffryn Teifi. Pan ofynwyd am ddrws agored iddi yn

yr hen gapel, galwyd fi gan hen ddiacon, yn "ddyn a'r diafol." Wedi cael drws agored rywfodd, yn ysgoldy capel y Methodistiaid, ni orphwyswyd nes ein gyru allan. Ciliasom i'r *Board School*, ond gweithiodd yr enwadau i gael pawb o'r deml, berthynent iddynt. Gadawyd y deml heb neb ynddi, ond y Tabernacl; yna daethom i'r llofft uwchben y stabal. Yr Hwn fu yn y preseb, roddodd i ni yma ddrws agored na ddichon neb ei gau. Cydunwyd yn mhen ysbaid, i symud i'r Tabernacl, lle y cedwir y cyrddau dirwestol bob nos Lun, y cwrdd gweddi cenhadol bob mis, a'r cyrddau cyhoeddus yn rheolaidd. Dyma Deml Dyffryn Teifi yn ei chartref, dan arweiniad a nawdd y Dyn Anfeidrol, wedi ei rhyddhau ganddo oddi wrth y cymdeithasau a'r temlau gau. Darllenwyd a ganlyn mewn cwrdd dirwestol yn Blaenanerch, Medi 30ain, 1887: "Rhesymau Teml Dyffryn Teifi dros ymneillduo o'r uwch-deml: *1. O herwydd cref yr Uwch Deml am arian, gan arfer moddion a gondemniwn, i'w casglu.* Ni chredwn yn nghadernid achos ysbrydol esyd y fath bwys ar arian. Carwn gyfranu yn rhydd ac uniongyrchol at waith yr Arglwydd, ond ffieiddiach na'r dafarn genym, yw cynlluniau ffals crefydd yr oes, yn chwilio am y geiniog trwy *bazaars*, *art unions*, *fancy fairs*, cystadleuon, a hocran tocynau. *2. O herwydd diffyg duwiolfrydedd a difrifoldeb yn y Temlau.* Ymollyngant yn olynol i gellwair, i farweidd-dra, ac i farwolaeth, er addaw yn ddifrifol yn Enw y Duw byw, i wneud eu goreu dros ddirwest, a phob daioni. Ni lwydda gwaith y nef yn nwylaw llwfriaid gwamal, ac ni chilia yr ysbrydion aflan rhagddynt, mwy na'r cythreuliaid rhag meibion Scefa. *3. O herwydd anallu y Dosbarth Deml i gydymdeimlo ag aelodau yn dyoddef yn drwm a hir gyda'r gwaith.* Gwelsom demlwyr, er budr-elw, yn bleidwyr zelog i gysegr-ysbeiliad gyflawnwyd er amddiffyn meddwdod, a phob twyll, ac er lladd dirwest, temlyddiaeth, a phob daioni. Dygwyd ymddygiad y temlwyr hyn o flaen y Dosbarth Deml fwy nag unwaith, a'r waith olaf yn Capel y Drindod, wedi rhybudd rheolaidd i bob teml ac i Plenydd y Prif Demlydd. Ond yr addunedau, "na oddefid i aelod gael cam," a drowyd yn anudon. "Dyma y rhai y'm clwyfwyd, a hwynt yn nhy fy ngharedigion." Nis gellwn fod yn fwy gelynol i raib eithaf y fasnach feddwol, nag ydym i gymdeithas ddirwestol yn gallu goddef a chefnogi anghyfiawnder noeth, ac na all gyffroi i lidiawgrwydd sanctaidd, yn yr olwg ar gamwri erchyll. Am yr anuwiol yn gwenieitho y dywed Duw: "Nid ffiaidd ganddo ddrygioni" (Salm xxxvi, 4). *4. Credwn yn folianus fod Ysbryd Dwyfol Dirwest yn cartrefu yn Nheml Dyffryn Teifi.* Dan arweiniad ac yn nerth yr ysbryd hwn y cychwynodd y gymdeithas, ac y dal-

iodd mewn grym cynyddol trwy y deng mlynedd a basiodd, a holl allu y tywyllwch yn y lle, yn ddidor hyd heddyw, yn gollwng arni. Cafodd ei geni fel ei Cheidwad, heb le i roddi ei phen i lawr; ei chloi allan o un man, a'i herlid o fan arall. Ond yr angylion a weiniasant arni, a Duw a'i gwyliodd nos a dydd. Myrddiwn o saint a nesânt i'n cynulliadau, ac a wenant arnom, gan ein sirioli i wroldeb, yn neillduol yn ein cwrdd gweddi misol: cwrdd i weddio dros drueiniaid meddwdod, a thros drueiniaid truenusach dirwest gau. *5. Yr orchest o gadw gwir ddirwest yn fyw yn Llechryd.* Cadw dirwest yn ysbryd ei tharddiad yn mhlith meddwon parchus, cysegr-ysbeilwyr anrhydeddus, pwlpudau Beelzebub, dirwestwyr anuwiol, a chelwyddau saint penaf yr enwadau, fel myrdd o seirph adeiniog yn llanw yr awyr: yr erchyllderau hyn a'n gorfoda i ymdaflu yn llwyr ar yr Arglwydd a'r llu angylaidd, gan syllu yn obeithiol ar ddyfodol mawr diderfyn dynoliaeth. Felly yn y gwaith neillduol o bleidio dirwest, cadwn ein golwg yn benaf ar y ddwy egwyddor gyffredinol—cyfiawnder a daioni, yn croesi pob twyll a drwg, ac yn cydio ein dirwest a'r Hwn sydd yn troi y wybrenau. Llai yw ein pryder am lwyddiant gweledig dirwest, na bod holl flaenoriaid a chymdeithasau dirwest yn symud gyda'r olwynion nefol, ac yn ysbryd y peth byw. Ni ellid ysgaru rhwng y cyfryw a chymdeithas ddirwestol Llechryd.

Cynygiad Plenydd, sef yr Uwch Brif Demlyldd, i'n hailuno, a'n dirwasgodd i ddatgan o'n hanfodd, y pethau hyn—pethau hen gyfarwydd yn ein plith. Wedi eu datgan, gwna Duw y Gwirionedd eu cadarnhau a'u canmol mewn cydwybodau.

Profasom ddirwest yr Uwch Deml, y cymdeithasau, a'r cymanfaoedd, mai dirwest Babilon fawr ydyw, yn diodi a gwin llid ei godineb, a'r llef o'r nef yn dywedyd, "Deuwch allan o honi hi, fy mhobl i, fel na byddoch gydgyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phlaäu hi" (Dat. xviii, 4).

Pwy all ddarlunio ein gorthrymder mawr wrth sefyll dros anibyniaeth y Tabernacl, sef llywodraeth cydgariad, a rhyddid y gwirionedd, yr unig lywodraeth a fodola yn y nefoedd, ac yn eglwys y nefoedd ar y ddaear, sef Eglwys Philadelphia. Yn mhen agos i ddeng mlynedd wedi y "Cloi," anfonodd Dr. John Thomas, Liverpool, gais ataf am hanes y Tabernacl, i'w roddi yn ei lyfr gydag "Eglwysi Anibynol Cymru." Gall yr atebiad amlygu ychydig o'n profiad tanllyd:—

"At y Parch. John Thomas, D. D. Anwyl Syr,—Mewn atebiad i'ch cylchlythyr, dyddiedig Tach. 20fed, nodaf, nad gweddaidd rhoddi hanes Eglwys Anibynol Tabernacl Llechryd, gydag "Eglwysi Anibynol Cymru." Cafodd y Tabernacl bellach, brawf tanllyd, hir, a digonol, nad ydynt anibynol, na

Christionogol chwaith, ond mewn enw. Brwydr rhwng nefoedd ac uffern fu yn achos o godiad y Tabernacl. Ni wnai atebion cyflawn i'ch gofyniadau, roddi gwreichionen o oleuni ar y frwydr hon, sydd beunydd yn poethi. Rhaid codi uwchlaw rhifoedd, enwau, ac enwadau daear, cyn gwybod dim am dani. Rhywun o'r tu hwnt i'r llen, yn gwybod cofnodion y byd a ddaw, yn unig fedr roddi hanes y Tabernacl. Byddai coffa am yr eglwys hon fel chwaer eglwys i'r "Eglwysi Anibynol" (?) yn groes i'r gwir. A garech hyny? Cawsom yr enwad Anibynol, a'i flaenoriaid yn enwedig, yn gedyrn gallu y tywyllwch. Trist fod glynu wrth yr Arglwydd yn pery i'r galon gilio rhagddynt, fel gelynion creulon. Credaf gyda galar mawr fod cariad, zel, a chywirdeb Iesu Grist a'r apostolion, mor estronol i'r Anibynwyr, ag oeddynt i'r Iuddewon a'r Sanhedriaid llofruddiog; ac nad yw ymneillduwyr yn y pethau hyn, yn rhagori ar esgobaethwyr a phabyddion, neu baganiaid byd.

"Cael eu dysgu yn ddyfal a ffyddiog, mae aelodau y Tabernacl, i hiraethu am yr Eglwys fawr ansectol a sanctaidd, sydd yn disgyn o'r nef i fythol oresgyn a gorchuddio yr enwadau, a'r enwau oll, trwy enw anwyl ac anfarwol yr Unig a'r Bendigedig Benaeth—yr Arglwydd Iesu Grist.

"Yn barchus,

"Rhag. 11, 1889. W. Rees."

Yn y flwyddyn 1900, bum glaf, ac agos i angau, heb obaith adferiad. Bum am chwech Saboth heb allu pregethu; a chan nad oedd genyf frawd yn y weinidogaeth i'm cynorthwyo i sefyll dros Ddirwest, Anibyniaeth, a'r Athrawiaeth Nefol—y tri hyn yn un—pryderwn yn fawr am y Tabernacl a'r Deml, a gweddiwn yn daer am adferiad, neu am un i fyned a'r gwaith yn mlaen, heb ei halogi trwy ei gymysgu a synagogau satan. Pan gynygiodd rhai o'r Tabernacl gael gwasanaeth gweinidogion y clowyr, dywedais, os felly, na sangwn mwy o fewn i'r Tabernacl, er mor galed cilio oddi wrth waith gostiodd mor ddrud, ac oddi wrth rai fuont mor anwyl. Rhoddwyd y mater o flaen yr eglwys yn fy absenoldeb, a phenderfynwyd yn lled unol i beidio agor y drws i anwiriaid yr areithfa. Gweddiai yr hen frawd Thomas Charles yn aml yn yr eglwys am i Dduw gadw pregethwyr anuwiol o bwlpud y Tabernacl. Gwrandawyd ei weddi yn y cwrdd hwn; oblegid pwy all goelio fod duwioldeb mewn pregethwyr na allant fentro pleidio Dirwest, Cyfiawnder, ac Anibyniaeth y Dyn Anfeidrol, yn erbyn meddwon, cysegr-ysbeilwyr, a gormeswyr yr eglwysi? Ymnerthais yn yr Arglwydd i bregethu mewn gwendid mawr, a phoenau parhaus, a phan oedd nwyfre ac arfau uffernol y *Jingoes*, wedi cau y nefoedd, a chreu galar, a gofid, ac ochain

yn mhlith yr angylion. Gan fod fflam anniffoddadwy cariad at gyfiawnder a rhyddid yn cyneu yn fy enaid, a chan fy mod yn Anibynwr o wraidd a maeth, edmygwn y *Boers*, a gweddiwn drostynt yn marw dros eu hanibyniaeth, eu gwlad, a'u cartrefi; tra y brwydrwn yn yr ysbryd, ac y gweddiwn yn erbyn Prydain yn myned a'i holl nerthoedd, ac yn cyflogi nerthoedd mileiniaid byd i lofruddio ychydig labrwyr a ffermwyr, wnaethant wlad o'r anialwch, er dyogelwch rhag brad a gormes y Sais. Caled oedd canmol cyfiawnder, a chondemnio celanedd greulonaf a mwyaf anghyfiawn y canrifoedd. Cyfeillion fygythient gilio o'r Tabernacl, a thystient fy mod yn dystrywio yr Eglwys, a bod mwy na thri chwarter yr aelodau yn fy erbyn, ac ar ymadael. O herwydd hyn, dywedais wrth yr Eglwys, mai gweinidog Anibynol oeddwn, yn dibynu ar yr Arglwydd ynddo ei Hun, ac ar yr Arglwydd yn ei bobl, ac nad oeddwn yn dybynu ar y byd, y cnawd, na'r diafol; a'm bod fel dyn a gwas y Dyn Anfeidrol, yn condemnio Prydain yn anrheithio Gweriniaethau Affrica, nas gallwn atal; a chan fod teuluoedd yn terfysgu, a thri chwarter yr Eglwys yn bygwth cilio, fy mod i yn ymneillduo, ac yn rhoddi y maes yn agored iddynt i ddewis gweinidog wrth fodd eu calon: nas gallaswn i eu boddio trwy bleidio Prydain, neu trwy dewi am y rhyfel, nac ychwaith trwy oddef i neb gyfryngu rhyngof a'r Arglwydd, trwy fy nysgu beth i ddweud wrtho neu drosto. Wedi hyn, daethom i ddeall ein gilydd yn well, ac i gydweithio mewn cariad a heddwch, gan nad oedd chwerwedd a llid, megis yn y clowyr, y rhai nas gallent faddeu, na bod yn llonydd nes lladd, wedi i'r gwir eu croesi.

Bwriais y draul dair a deugain o flynyddoedd yn ol, y mentrwn fel pregethwr ar yr Arglwydd, heb gyflog, ac heb ddybynu ar ddynion, fel y gellwn draethu yn hyf holl feddwl Duw; a phan gynghreiriodd y clowyr a'u gweinidogion fy newynu o'r pwlpud, gwyddwn eu bod yn cynyg peth anhawdd, gan fy mod yn barod i fyw mewn bwth tlawd, ar damaid gwael a phrin, ac ar wisg o *corduroy*, cyn cilio oddi wrth Athrawiaeth Nefol yr Ail-ddyfodiad, Anibyniaeth, a Dirwest. Dysgais, fel hyn, ddibrisio golud, clod, a phomp y byd a'r pwlpud. Gofalodd Tad y trugareddau yn dirion am danaf, ac am y Tabernacl, trwy roddi i'r bobl galon i weithio a chyfranu i'r Duwdod o'u gwirfodd, yn hael a digonol, heb driciau na hocran hocedus. Yr ysbryd hwn o'r nef sydd fwy ei werth na holl drysorau y ddaear. "Y mae genyf bob peth, ac y mae genyf helaethrwydd" (Phil. iv, 18). Er y caraswn yn ddirfawr gael cymdeithas a chymorth brodyr yn y weinidogaeth, eto, yr wyf

wedi byw yn gryf a gorfoleddus, am chwech mlynedd ar hugain heb yr un o honynt, ac ar eu gwaethaf, trwy ymorchestu esgyn i Eglwys, Areithfa, a Mynwes y Dyn Anfeidrol.

Gwelais laweroedd ar fy nheithiau yn gwenu yn y goleu newydd, ond y pregethwyr yn fuan a'u troisant i wgu. Er hyny, cydiodd y genhadaeth mewn rhai, yma a thraw trwy Gymru, yn arbenig yn Nyffryn Tawe. Hanes Teml yr Eglwys Newydd yn Ynysmeudwy, sydd hynod, ac yn dwyn nodau y "Cloi" yn Llechryd. Daliodd y brodyr ysgymunedig gyda'r goleu ar waethaf unol rym y pwlpudau, ac y maent wedi lledaenu y goleu yn mhell ac agos, trwy eu dyfalwch yn gwasgar llyfrau a thraethodau. Bu galw gan rai am y goleu yn Bargoed, New Tredegar, Merthyr, Dowlais, Penmain, Ystalyfera, Hermon, Pisgah, a llawer o fanau eraill yr ymwelais a hwynt, a chloi dirfawr i'w herbyn. Eiddil ac ofnus oedd y brodyr i wrthsefyll y dreigiau. Cwrddais a rhai gweinidogion yn cydnabod y goleu newydd, a'i gefnogi yn gynil a gochelgar. Rhai wedi gwneud proffes gyhoeddus, a droisant ymaith. Y difyniadau canlynol o lythyr ysgrifenais at un o honynt giliodd i'r Eglwys Wladol, sydd esiampl o lawer a ysgrifenais drwy y blynyddoedd:—

"Anwyl Syr,—Gan nad ellwch lawenhau am eich cyfrif yn deilwng i ddioddef anmharch, o herwydd ei Enw Newydd Ef, na dal yr erlidiau yn hwy heb gilio i gysgod materol yr Eglwys Wladol, dymunaf wneud byr fynegiad o'm perthynas a chwi yn y gwaith. Gwnaethoch o'ch gwirfodd, broffes o'r pethau mwyaf, nes creu hyder ynof eich bod yn frawd yn y frwydr fwyaf. Codasoch hefyd ddysgwyliadau yn y Tabernacl, yn Ynysmeudwy, ac yn anwyliaid y goleuni newydd mewn llawer lle. Yr ydych yn awr yn myned i siomi y dysgwyliadau hyn, i fforffetu y maes gwyrthiol a agorodd yr Arglwydd o'ch blaen yn ei Ail-ddyfodiad, i ddibrisio pob mentr fu yn foddion i'w agor, a gwerthu yr enedigaeth-fraint am saig o fwyd.

"Fel cenadwr yr Athrawiaeth Nefol, Anibyniaeth, a Dirwest, am ugain mlynedd, gorfoleddaf na cheisiais genych sefyll o'm plaid, ond yn hytrach eich cymhell i fyfyrio a byw yn y Gair, yn cael ei agor mor ogoneddus gan yr Arglwydd, trwy Emanuel Swedenborg; a deisyfwn yn daer arnoch beidio bod yn fyrbwyll i broffesu, na chyhoeddi, dim na byddech barod i sefyll hyd angau drosto. Mynegais i chwi i mi fyfyrio cyfrolau Swedenborg yn y Gair, am bum' mlynedd, gan feistroli a byw y pethau cyn eu cyffesu yn un ag enw Swedenborg. Bwriais y draul cyn dechreu. Rhagwelais a rhagddywedais ugeiniau o weithiau wrth Nellie, y clôid yr holl bwlpudau yn fy erbyn, pan gyrhaeddwn gryfder digonol i

gyhoeddi athrawiaethau a datguddiadau Swedenborg yn ddigymysg a digel; ond yr agorid drysau annisgwyliadwy. 'Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau' (Dat. iii, 8). Trwy gariad y gwirionedd y deliais hyd yma, a thra deil addewid y Dyn Anfeidrol, nid wyf agored i droi.

"Cawsoch chwi fanteision i ddal, na chefais i. Clowyd fi allan o'r ddau gapel oedd genyf; ni chlowyd chwi o'ch capelau. Aethom ni i draul a thrafferth fawr i adeiladu; nid aeth ceiniog arnoch chwi. Gweriais amser ac arian lawer i gyfieithu, argraphu, a lledu llyfrau yr Oruchwyliaeth Newydd, am flynyddoedd yn ddirgelaidd, ond yn gyflawn o ffydd; ond nid oedd galw arnoch chwi i wynebu y fath anhawsder oer ac unig. Daliodd y Tabernacl a'r Deml eu tir pan oedd y cablau a'r rhagfarnau yn eu manau gwaethaf, o herwydd anwybodaeth, gan nad oedd nemawr cyn hyny yn Nghymru, yn gwybod hyd yn oed am enw Swedenborg; ond yr ydych chwi yn methu dal pan y mae y cablau yn cilio fel y nos o flaen y wawr, a'r genadwri newydd fel yr haul, yn codi i wasgar y gwrid a'r gwres i bob cyfeiriad.

"Nid wyf yn ysgrifenu er eich atal i droi i Eglwys y Plwyf, ond yn hytrach er hwylio eich cerddediad. Gan na ellwch fyw wrth ffydd, rhodiwch wrth olwg, heb broffesu unrhyw fentr yn erbyn bydol grefydd yr oes. Ond dylasech droi cyn dyfod i faes y frwydr. 'Meibion Ephraim, yn arfog ac yn saethu a bwa, a droisant eu cefnau yn nydd y frwydr' (Salm lxxviii, 9). Gwir fod y rhwystrau yn fawr, gan mai diafol a satan sydd yn eistedd ar orsedd y sect Anibynol; ond nid yw mawredd yr anfanteision, ond y fantais fwyaf i'r Anibynwr Anfeidrol amddiffyn ei hun, a phob Anibynwr arall, er gogoniant anfarwol y Wir Anibyniaeth a dardd o'r nef, a'i haneirif gymdeithasau. Wrth droi yn offeiriad, byddwch yn llofruddio yr Anibyniaeth hon, ac yn tyngu anudon eich bod yn credu anwir gredo Athanasius, a chwithau wedi tystio mewn pwlpudau i'w herbyn, wrth gyhoeddi mai yr Arglwydd Iesu Grist yw yr Unig Berson Dwyfol. Byddwch hefyd yn cydnabod yr olyniaeth apostolaidd, heb ond y galon falch tu cefn i'r celwydd, gan fythol gefnu ar y wir olyniaeth ddeillia i'r enaid diniwed a ffyddiog, abertha bob peth dros yr Arglwydd a'r Gair. Beth am orfoledd cydwybod mwy? 'Ac o thyn neb ymaith ddim oddi wrth eiriau llyfr y brophwydoliaeth hon, Duw a dŷn ymaith ei ran ef allan o lyfr y bywyd, ac allan o'r ddinas sanctaidd, ac oddi wrth y pethau sydd wedi eu hysgrifenu yn y llyfr hwn' (Dat. xxii, 19)."

Mewn adolygiad yn ngoleu Eglwys Philadelphia, nodaf:—

I. FOD Y DYN ANFEIDROL WEDI BOD YN NES ATOM, NAG Y GWYDDEM AR Y PRYD. II. EIN BOD NINAU, YN EIN GWAITH, WEDI BOD YN NES AT Y DYN ANFEIDROL, NAG Y GWYDDEM AR Y PRYD. III. FOD Y CLOI YN FWY GELYNOL I'R DYN ANFEIDROL, NAG Y GWYDDEM AR Y PRYD. IV. FOD EIN RHAGOLYGON YN EGLWYS PHILADELPHIA, YN OGONEDDUS AC ANHERFYNOL. V. FOD EIN BRAINT A'N RHWYMAU YN DDIGYMAR.

1. FOD Y DYN ANFEIDROL WEDI BOD YN NES ATOM, NAG Y GWYDDEM AR Y PRYD. Dywed Swedenborg: "Caniateir i ddyn weled rhagluniaeth ddwyfol o'r tu ol, ac nid o'r tu blaen; hefyd, mewn ystad ysbrydol, ac nid mewn ystad anianol." Dyfalu mewn adgof ysbrydol ar ein hanes gyda Duw, ddatguddia amgylchiadau y gorphenol yn gyfresau rhyfeddol a gogoneddus, yn cynwys gwyrthiau cariad a gwirionedd y Creawdwr. Pan oedd Jacob yn dyfalu ar y weledigaeth yn Bethel, y dywedodd yn grynedig: "Diau fod yr Arglwydd yn y lle hwn, ac nis gwyddwn ni. Ac efe a ofnodd, ac a ddywedodd, Mor ofnadwy yw y lle hwn! Nid oes yma onid ty i Dduw, a dyma borth y nefoedd" (Gen. xxviii, 16, 17). Dro arall, Jacob, mewn enbydrwydd o herwydd Esau ei frawd, a adawyd ei hunan, "Yna yr ymdrechodd gwr ag ef, nes codi y wawr." Ni wyr Jacob pwy yw: "A Jacob a ymofynodd ac a ddywedodd, Mynega, atolwg, dy enw?" "Beth yw y dirgelwch sydd o'm hamgylch, ac yn gwasgu arnaf?" Ond y mae y nos yn cilio, y wawr yn tori, a'r haul yn codi ar Peniel, a'r Ymwelydd hynod yn ymadael, a Jacob yn yr adgof, yn dyfalu arno a'i adnabod. "A Jacob a alwodd y fan, Peniel; oblegid, gwelais Dduw wyneb yn wyneb, a diangodd fy einioes" (Gen. xxxii, 24-30). Pan oedd Gedeon yn dyrnu gwenith wrth y gwinwryf, i'w guddio rhag y Midianiaid, ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo, yn eistedd dan y dderwen, ac a ddywedodd wrtho: "Yr Arglwydd sydd gyda thi, wr cadarn. nerthol." Nis gwyr Gedeon lai na dyn ar ei daith yw, yn cymeryd gorphwysfa dan y pren, nes iddo fyned ymaith o'i olwg, yna gwelodd Gedeon mai angel yr Arglwydd ydoedd, a dywedodd: "Och! O Arglwydd Dduw, o herwydd i mi weled angel yr Arglwydd wyneb yn wyneb" (Barn. vi, 11-24). Nid yw Manoah a'i wraig yn adnabod mai angel yr Arglwydd sydd yn ymweled a hwy, nes ei fod wedi ymddyrchafu yn fflam yr allor: "Yna y gwybu Manoah mai angel yr Arglwydd oedd efe. A Manoah a ddywedodd wrth ei wraig, Gan farw y byddwn farw; canys gwelsom Dduw" (Barn. xiii, 21, 22). Dywed y prophwyd: "Bydd lawen iawn, ti ferch Sion; a

chrechwena, ha! ferch Jerusalem: wele dy frenhin yn dyfod attat: cyfiawn ac achubydd yw efe; y mae efe yn llariaidd, ac yn marchogaeth ar asyn, ac ar ebol llwdn asen" (Zech. ix, 9). Yr Iesu yn marchogaeth i Jerusalem, oedd gyflawniad llythyrenol o'r brophwydoliaeth. Tyrfa fawr a dyrai i'r orymdaith: "Cymerasant gangau o'r palmwydd, ac a aethant allan i gyfarfod ag Ef, ac a lefasant, Hosanna! Bendigedig yw Brenhin Israel, yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd. . . . Y pethau hyn ni wybu ei ddisgyblion ef ar y cyntaf; eithr pan ogoneddwyd yr Iesu, yna y cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano, ac iddynt wneuthur hyn iddo" (Ioan xii, 13-16). Yr oedd mwy yn yr amgylchiad na wyddai y disgyblion; wrth adgofio ac adfeddwl, y gwelant hyn. Nid oedd Phylip wedi gweled y fraint a feddai cyhyd, pan yn gofyn i'r Iesu: "Arglwydd, dangos i ni y Tad, a digon yw i ni. Yr Iesu a ddywedodd wrtho: A ydwyf gyhyd o amser gyda chwi, ac nid adnabuost fi, Phylip? Y neb a'm gwelodd i, a welodd y Tad" (Ioan xiv, 8, 9). Ar amgylchiad arall, efe a ddywedodd wrth Petr: "Y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr awrhon; eithr ti a gei wybod ar ol hyn" (Ioan xiii, 7). Ar y trydydd dydd wedi y Croeshoeliad, dau ddisgybl yn myned i Emaus, ymddiddanent ar y ffordd, am y pethau gymerasant le yn Jerusalem. "A bu fel yr oeddynt yn ymddiddan, ac yn ymofyn a'u gilydd. Yr Iesu ei hun, hefyd, a nesaodd, ac a aeth gyda hwynt; eithr eu llygaid hwynt a ataliwyd, fel nas adwaenent Ef." Yr oeddynt yn cydgerdded a'r Gwr goncrodd angau, ac allweddau uffern a marwolaeth yn hongian wrth ei wregys, heb ei adnabod. Tybient mai ymdeithydd anwybodus ydoedd. Wedi iddo ddiflanu o'u golwg, y dywedasant: "Onid oedd ein calon yn llosgi ynom, tra yr ydoedd efe yn ymddiddan a ni ar y ffordd, ac yn agoryd i ni yr Ysgrythyrau" (Luc xxiv, 13-32). Fel hyn y mae ymweliadau yr Arglwydd yn gudd-iedig. Cwrddwn a phethau poenus a phleserus yn ei waith; ar y pryd, ni ddeallwn eu hystyr, ac ni welwn yr anfeidrol ynddynt: yn hytrach, y maent fel gorchuddion yn ei guddio rhagom. Cyfaddefwn yn gyffredinol fod rhagluniaeth ddwyfol yn y cwbl i'r manylion eithaf; ond cyfaddefiad dall ydyw yn aml. Mewn adfyd ac erlidiau, ymholwn yn dorcalonus yn y tywyllwch: Beth yw amcan y Duwdod yn goddef hyn? Addefwn fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw; ond teimlwn fod pob peth yn cydweithio yn ein herbyn ni. Yn athrist a siomedig y dywedwn: "Yn fy erbyn i y mae hyn oll." Felly y griddfanodd Jacob; ond wedi hyn dywed: "Digon yw; y mae Joseph fy mab, eto yn fyw." Joseph ei hun, hefyd, a ddywed wrth adgofio creulonder ei frodyr: "Chwi a fwriadasoch ddrwg i'm herbyn; ond Duw a'i

bwriadodd i ddaioni, i ddwyn i ben, fel y gwelir heddyw, i gadw yn fyw bobl lawer" (Gen. l, 20). O, ragluniaeth ryfedd! mor dawel, dwfn, dirgelaidd, a dibendraw y gweithia nas gall holl allu uffern fforffetu yr iota leiaf o'i hamcanion. Hyn sydd yn beiddio diafol a holl blant y fall—y Dyn Anfeidrol yn gwneud ei waith yn eu gwyddfod, ac heb yn wybod iddynt, a'u gwneud hwy i gyflawni beth bynag a ragluniodd. Mor gudd ac mor gadarn yn agor y drysau tragwyddol, nes dyrysu synagogau satan, a gwneud y gorphenol o hyd yn waradwydd i'r gelyn, ond yn urddas i'r cyfiawn. O'r pellder y gwelir lluniau a lliwiau cwmwl y gogoniant: yr haul yn gwenu arno a'i oreuro; yr awelon yn chwareu a'i gydunau euraidd, a'r eangderau glaswyn goleu uwch ei ben. Yr Anfeidrol o hyd a arweinia ei anwyliad ar hyd ffordd ddisathr, nad adwaenant hwy. Wrth adgofio yn dyner, difrifol, a diolchgar, y gwelant fod eu cadwraeth yn wyrthiol. Arferai Pedr Fawr, Ymerawdwr Rwssia, yru mewn *disguise*, mewn cerbyd cyffredin. Gofynodd teithiwr tlawd ar ei draed, am ddod i'w gerbyd. Yna, holodd yr Ymerawdwr pwy ydoedd. Crynodd mewn arswyd pan amlygodd yr Ymerawdwr ei hun iddo. Y mae Brenhin y Brenhinoedd, ac Arglwydd yr Arglwyddi, yn tramwy trwy y tir. Ymddengys fel pererin ac ymdeithydd, yn troi i letya dros nos. Yn ei dirion drugaredd, cododd ni i'w gerbydau, sef cerbydau cyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd. Wrth adgofio yn ngoleu Eglwys Philadelphia, y gwelwn agosrwydd a gogoniant y Pen-cerbydwr.

2. EIN BOD NINAU YN EIN GWAITH, WEDI BOD YN NES AT Y DYN ANFEIDROL, NAG Y GWYDDEM AR Y PRYD. Y disgyblion, wrth uno a'r orymdaith i Jerusalem, a wnaent fwy i'r Arglwydd, nag a wyddent ar y pryd. Yn gymysg eu teimladau, ni feddylient am bwysigrwydd ysbrydol y gwaith. Ond y mae y dydd yn myned heibio, y dorf yn ymwasgaru, gostega sain Hosanna y llu, gwywa cangau gwyrdd y palmwydd, peidia trwst y gorfoleddwyr: yr Iesu dramwya trwy dymhestloedd Gethsemane, a storom fawr Calfaria. Disgyna i'r bedd heb orsedd na choron, ond y groes a'r goron ddrain. Cilia pawb yn siomedig oddi wrtho. Nis gallant faddeu iddynt eu hunain am folianu hwn fel brenhin. Ond wele, foreu y trydydd dydd yn gwawrio, buddugoliaethwr angau ac uffern yn ymddangos, yr esgyniad yn dod: "O, byrth, dyrchefwch eich penau, ac ymddyrchefwch, ddrysau tragwyddol; a brenhin y gogoniant a ddaw i mewn" (Salm xxiv, 7). Derbynia y disgyblion yr ysbryd o'r uchelder: "Yna y cofiasant fod y pethau hyn yn ysgrifenedig am dano, ac iddynt wneuthur hyn iddo" (Ioan xii, 16). Gwelsant iddynt, yn ddiarwybod, gyflawni y prophwydoliaethau, gweithio allan gynlluniau

tragwyddoldeb, a dechreu anthem na bydd diwedd byth ar y canu, nac ar gynydd y corau unant yn y gan. Y rhai cyfiawn yn y didoliad mawr a synant at ardderchawgrwydd a mawredd y gwaith a wnaethant, fel y dengys yr Arglwydd yn Math. xxv, 31-40. Y pethau sydd yn ymddangos yn fach a distadl yn awr, yn ngwasanaeth yr Arglwydd, a welir yn fawr ac urddasol wrth eu hadolygu yn ngwydd gogoniant Mab y Dyn yn eistedd ar orseddfainc ei ogoniant, a'r holl angylion sanctaidd gydag ef. Y ddau dyst, wedi eu lladd gan y bwystfil o'r pydew diwaelod, er gorfoledd gau grefyddwyr yr oes, ar ol tridiau a haner, ysbryd bywyd oddi wrth Dduw a aeth i mewn iddynt, a hwy a safasant ar eu traed, gan greu dychryn, daeargryn, a difrod yn ninas dystryw. Y cyflawniadau ysbrydol sydd heddyw yn gudd fel had o dan y gwys; cawn eu gweled eto yn gynhauaf toreithiog, a'u ffrwyth yn ysgwyd fel Libanus. Na atto Duw i ni dybied mai dibwys yw gwaith ein ffydd a'n cariad. O! na huded diafol a satan ni i'w ddibrisio, ac na foed i bomp y byd, na balchder y cnawd, gelu y dirgelwch dwyfol rhagom. Wrth wasanaethu y cywir a'r sanctaidd yn Eglwys Philadelphia, yr ydym yn cyflawni y prophwydoliaethau mewn ystyron newydd, yn datguddio dirgelion newydd o'r bwriadau dwyfol, yn darganfod tiriogaethau newydd, yn agor mwngloddiau newydd, ac yn gyfranog o'r orchest grea fydoedd newydd. Mawr yw ein gwaith. Y mae cyfrifoldeb yn nglyn ag ef; agoriad y llyfrau yn nglyn ag ef; tragwyddoldeb yn nglyn ag ef; y Dyn Anfeidrol yn nglyn ag ef. Fel gwasanaethwyr y Goruchaf, bodau ofnadwy, arswydol, a dysglaer ydym, er i ni ymddangos i edrychwyr daearol yn sorod a gwehilion. Ond nid sorod a gwehilion ydym: yr ydym yn etifeddion y Tad, trwy deitl creadigaeth newydd; brenhinoedd ac offeiriaid trwy eneiniad y nefoedd, a thrwy arddodiad dwylaw yr Hollalluog. Gwyddom mai nid anerygl yw cynyg ein drygu. Yr ydym yn llaw un sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion, a'i weinidogion yn dan fflamllyd. Gwell i'r gelynion ein gadael yn llonydd, rhag eu llosgi. Cyffwrdd a ni yw cyffwrdd a chanwyll ei lygad ef. Gwyddom fod clychau y tair nefoedd yn swnio pan osodom ein bysedd ar linynau yr addewidion, a llengoedd o angylion at ein gwasanaeth. Nid creaduriaid cyffredin ydym, pan yn dibynu ar yr Hwn y mae ganddo agoriad Dafydd. Nid o garcharau a thywyllwch cyffredin ein gwaredwyd; nid drysau cyffredin agorwyd o'n blaen; nid goleuni cyffredin sydd yn llewyrchu ynom; nid amynedd gyffredin gyfranwyd i ni; nid profedigaethau cyffredin ydym wedi ddal; nid coron gyffredin sydd genym i'w chadw; nid gelynion cyffredin ydym wedi orchfygu; nid teml gyffredin ydym yn golofnau ynddi; ac nid

enwau cyffredin sydd yn ysgrifenedig arnom. Os diystyrwn yr uchelfraint, nid i uffern gyffredin y syrthiwn. Ah! y mae mwy yn y cyfleusderau esgeulusir gan rai yn ein plith, nag a wyddir. Pan gollir hwynt, a phan adgofir hwynt, wedi eu colli byth, teimlir fod rhywbeth mwy na'r bydoedd wedi myned o'n gafael. Erfyniwn am egni enaid i fyned i mewn i ddyfnderoedd ein galwedigaeth a'n gwaith yn Eglwys Philadelphia.

3. FOD Y CLOI YN FWY GELYNOL I'R DYN ANFEIDROL, NAG Y GWYDDEM AR Y PRYD. Teimlem cyn y "Cloi," fod yr amseroedd enbyd wedi dyfod, pryd na oddefid athrawiaeth iachus. Y bobl, fel yn amser Esaiah, a ddywedent: "Na phrophwydwch i ni bethau uniawn; traethwch i ni weniaith" (Esaiah xxx, 10). Goddefid pechaduriaid gwarthus, perchid pechaduriaid rhyfygus, fel aelodau a blaenoriaid, a chodai anuwiolion yn gyhoeddus yn Nhy yr Arglwydd, i wawdio y gwirionedd, ac ymgynghreirient i'w gloi allan, er cael mantais i bentyru athrawon, yn ol eu chwantau eu hunain. Difynaf a ganlyn o'r llyfryn cyntaf ar y "Cloi":—"Pan oedd Ezeciel yn trigo yn mhlith ysgorpionau, ac o'i amgylch wrthryfelwyr a drain, daeth ysbryd iddo. Safodd ar ei draed, a chlywodd lais yn dywedyd, 'Nac arswyda'; a gwelodd blyg-lyfr, a thri gair wedi eu hysgrifenu arno: 'Galar, griddfan, a gwae.' Ar y 26ain o Chwefror, 1880—dydd Cloi Dirwest o Dy Dduw yn Llechryd,—daeth ysbryd i minau—ysbryd dewr a diarswyd, yn nghanol golygfeydd dychrynllyd i'r neb fedr edrych arnynt trwy ddrychau tryloew tragwyddoldeb. O ffenestr fy llyfr-gell, gwelwn dri adeilad—tafarn, brag-ty, a'r hen gapel,—a gwn fod tri gair y plyg-lyfr ofnadwy, yn hongian uwch eu penau—'Galar, griddfan, a gwae.' Gweddus fod y tri adeilad hyn, fel tri gair trwm y plyg-lyfr, yn agos i'w gilydd. Yr un sylfaen sydd danynt, yr un nodwedd sydd iddynt, a'r un raib sydd ganddynt. Tair cangen ydynt, oddi ar yr un gwreiddyn —eu rhed-weliau, eu suddion, a'u ffrwythau yr un. Trwydded bragwr i ddystrywio trugareddau Duw; trwydded tafarnwr i feddwi creaduriaid cyfrifol Duw; a thrwydded meddwon i gloi dirwest a duwiolion o dy Dduw,—tair trwydded mor debyg i'w gilydd a thair gwiber, gyda hyn o glod i'r dafarn a'r brag-ty, nad ydynt hwy ond gwreiddyn y sarph, tra cloi dirwest o dy Dduw, yn wiber: 'A'i ffrwyth hi fydd sarph danllyd hedegog.' A mi yn sefyll yn y ffenestr ar ddydd y Cloi, gwelwn ar ddiwedd cwrdd y terfysgwyr, y drws yn cael ei gloi gan un o'r blaid. Daliwn y Beibl rhyngof a'r nefoedd, a gofynwn yn sobr i'r Arglwydd: 'Onid cloi allan dy Air di y maent heddyw? Onid cloi Duw y gwirionedd allan, a chloi tad y celwydd i fewn?' Cyfeiriwn y Beibl, y bum yn myfyrio ynddo ac yn traethu iddynt o hono, am un flynedd ar bymtheg,—cyfeiriwn

ef atynt, gan ddywedyd: 'O, drueiniaid deillion, ymladd yr ydych a hwn; gwrthwynebu Gair yr Arglwydd. Os gwir yw y Gair, tost tu hwnt dychymyg yw eich tynged. Gofid a galar sydd i mi eto am danoch, er hir boeni fy enaid, am fod yn ddiniwed a chyfiawn yn eich mysg. Carasoch felldith, a hi a ddaw atoch, ac nid yn ddiachos. Mwy nag a wyddoch, a glowyd allan genych heddyw. Ni wyddoch faint o weddiau, o ddagrau, a theimladau parod i dreulio ac ymdreulio dros eich eneidiau; faint o'r nefoedd, a pha nifer o angylion a gloisoch allan. Pe gwelech y Cloi yn ngoleu y nef, neu wrid uffern, ni wnaech. Eich ty a adewir i chwi yn anghyfanedd. Yn yr hen adeilad y bydd gwagder, oerder, angau, ac ysbrydion anifeilaidd, anianol, a chythreulig, yn halogi y fan. Aiff fel y Deml yn nwylaw godinebwyr, ac addolwyr eilunod, yn chwibaniaid, yn felldith, a rheg.' Felly y llefarwn yn fy llyfrgell, y Beibl yn fy llaw, cydwybod orfoleddus o fewn, Duw ac engyl nef yn fy ymyl, gobaith gwynfydedig yn faes diderfynau o'm blaen, a'r cysegr-ysbeilwyr o'r tu allan, yn fy ngolwg, yn cloi dirwest, a mwy na dirwest, o dy Dduw, tra y clywn leisiau uchel plant, merched, a gwragedd, yn tori yn felldithion, gan gyhoeddi barnau Duw ar y clowyr, yn gymysg a swn wylofain."

Wrth adgofio y Cloi, yn ngoleu Eglwys Philadelphia, gwelwn yn eglurach nag erioed, fod y clowyr yn un a chrefydd Cymru, Prydain, a'r byd,—crefydd mewn amod ag angau, ac mewn cynghrair ag uffern, i goncro cyfiawnder, gwirionedd, ac Anibyniaeth, yn Llechryd, yn y Transvaal, yn y Philipines, yn China, yn yr India, ac yn mhob man; crefydd gwbl groes i ryddid a rheswm dyn, ac i gariad a gwirioneod Duw.

4. FOD EIN RHAGOLYGON YN EGLWYS PHILADELPHIA, YN OGONEDDUS AC ANHERFYNOL. Wrth edrych yn mlaen, oddi ar adgofion yn y goleu newydd, gwelwn yr Arglwydd yn dyfod trwy y Gair i gyflawni y gwirioneddau mawrion gyhoeddir yma am Eglwys Philadelphia. Efe a ddatguddia ei hun yn nghanol y saith ganhwyllbren aur, yn y wraig wedi ei gwisgo a'r haul, ac ar yr orseddfainc wen fawr. Efe a gloä allan y dafarn, y dreigiau, a'r diafol, o'i dy. Trwy bwerau y byd a ddaw, efe a drecha y byd hwn, fel na bydd lle i addolwyr Mammon yn ei deml sanctaidd. Efe a gyfyd weinidogion efengyl dragwyddol y nef a'r ddaear newydd, i gyflawni gwyrthiau dirifedi, trwy agor y Gair, a thrwy agor eneidiau, a thrwy dreiddio a thrwytho yr hil ddynol, a thragwyddol eangu a dyfnhau yr Ail-ddyfodiad. Efe a gyfyd weddiwyr a gydiant ynddo, ac yn yr holl gymdeithasau nefol, trwy weddio y Gair mewn gwres a goleuni, ac a weddiant y Salmau yn neillduol, i gysylltu eu hunain a'u hachosion wrth yr orsedd ddwyfol, wrth y thronau a'r tywysogaethau nefol ac ysbrydol, er dyogelwch

rhag rhaib yr uffernoedd. Efe a wna bob cymdeithas o Eglwys Philadelphia, yn dy gweddi, a gwrandewir eu deisyfiadau er gorfoledd i'r holl saint, ac er dychryn a dinystr i ogofaäu lladron, i weinidogion satan, ac i lywodraethau trais. Goleuni ar y Dyn Anfeidrol, ar y nef, ar y farn, ar uffern, ar adgyfodiad y meirw, ac ar anfarwoldeb, a ddihuna ac a ddifrifola ddynion, ac wedi agor eu llygaid mewn sobrwydd, gwelant mai bwganod o'r pydew diwaelod, yw pwlpudau yr oes, y cenadaethau, y deddfau gwladol, a'r masnachau. Rhaid iddynt encilio o flaen dydd yr Arglwydd, er rhoddi croesaw i briodasferch gwraig yr Oen. Rhaid i'r ddraig a'r buttain fawr syrthio a suddo i'r eigion, pan grea yr Arglwydd nifer ddigonol o ddynion pur a diwair, yn ddigon mentrus i lwyr encilio o'r gau eglwysi; oblegid, nis gellir uno Eglwys Philadelphia ac eglwysi y bwystfilod. "Gwel, Sion, dinas ein cyfarfod: dy lygaid a welant Jerusalem, y breswylfa lonydd, y babell ni thynir i lawr, ac ni syflir un o'i hoelion byth, ac ni thorir un o'i rhaffau" (Esaiah xxxiii, 20). Am Eglwys Newydd yr Arglwydd y dywedir, yr unig Eglwys sydd i barhau byth, mewn cynydd a gogoniant.

5. FOD EIN BRAINT A'N RHWYMAU YN EGLWYS PHILADELPHIA, YN ANGHYDMAROL. Ni roddir y gwirionedd i'w gelu, nac ychwaith i lewyrchu yn oer yn y deall, fel haul y gauaf, ond i losgi yn y galon a dwyfol danbeidio yn y bywyd. Am hyny, ymgysegrwn i fod yn genhadon ysbrydol a nefol i'r Arglwydd, yn eiriol arno am arweiniad a doethineb i ledu y goleu, a pheidio ei wthio ar rai anghydnaws. "Na roddwch y pethau sydd sanctaidd i'r cwn, ac na theflwch eich gemau o flaen y moch: rhag iddynt eu sathru dan eu traed, a throi a'ch rhwygo chwi" (Math. vii, 6). Nid yw y Gair i'w ddirgymell, am y gwelir y gwirionedd yn ei oleu ei hun, gan bawb a'i carant. Y defaid a adwaenant y porfeydd gwelltog, y dyfroedd tawel, a llais y bugail. Gofynol meddu enaid tyner, all deimlo cyflyrau dynion, adwaen yr ysbrydion, cwbl ddibynu ar yr Arglwydd, ac ufuddhau iddo pan ddywed: "A phan ddeloch i dy, cyferchwch well iddo; ac os bydd y ty yn deilwng, deued eich tangnefedd arno; ac oni bydd yn deilwng, dychweled eich tangnefedd atoch. A phwy bynag ni'ch derbynio chwi, ac ni wrandawo eich geiriau, pan ymadawoch o'r ty hwnw, neu o'r ddinas hono, ysgydwch y llwch oddi wrth eich traed. Yn wir, meddaf i chwi, esmwythach fydd i dir y Sodomiaid yn nydd y farn, nag i'r ddinas hono" (Math. x, 12-15).

XXX.—AGORIAD I'R AGORIADAU.

Ysgrifeniadau Emanuel Swedenborg yw yr agoriadau i drysorau anchwiliadwy yr Arglwydd yn Eglwys Philadelphia. Trwy yr agoriadau hyn, diengais o faglau y gelyn, ac o gyrhaedd creuloniaid a chloion y fall. "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau." I'y enaid yn ei ryddid newydd, a esgyn ac a eheda, fel yr eryr fry, yn mhell uwchlaw cymylau ac ystormydd daear, gan ymddifyru yn y nwyfre glir, a hylif euraidd haul y byd angylaidd, a golygfeydd y nef a'r ddaear newydd, yn ymagor i bob parth yn anherfynol ac anarluniadwy, ac ystad eneidiau mewn gwae a gwynfyd, mewn goleu na ddaeth i galon dyn ddychymyg am dano o'r blaen. Yr ysgrifeniadau hyn, gan hyny, a hawliant sylw mwyaf astud ac anwyl pob dyn. Pa beth yw bywyd, a pha fodd y dylem fyw? Pa le y byddwn, wedi croesi y bont i'r byd ysbrydol? Beth yw cyflwr y miliwnau aneirif a fuont feirw? Beth welant, beth glywant, beth deimlant, a beth yw eu llun a'u lle tu draw i'r llen? Nid oes ofyniadau cydbwys i'w dwys ystyried, ac nis gall dyn fod yn ddifater o honynt, heb fforffetu ei hawl i reswm. Ond drych o dristwch di-ail, yw dibrisdod y tyrfaoedd o'u tynged, yn y dyfodol mawr diderfyn. Fel cenfaint foch mewn cae sofl, ar lan Teifi, a'u trwynau lawr yn dilyn y tywysenau, heb godi eu penau i edrych dros y cloddiau ar y palasoedd a phrydferthion y fro baradwysaidd; felly deiliaid y didranc eilfyd, a gadwant eu golwg ar deganau y byd sydd yn darfod, heb dremio nemawr dros ffiniau amser, er syn-syllu ar drigfanau lawer, a thiroedd pell yr anferth dragwyddoldeb.

Wrth son am ysgrifeniadau Swedenborg yn agor y Gair i Eglwys Philadelphia, oddi ar weledigaethau yr Arglwydd, ac oddi ar bethau a welodd ac a glywodd yn y nef, yn y farn, ac yn uffern, naturiol yw i'r darllenydd ofyn, pwy yw efe a wna y fath honiadau? Rhoddaf grynhodeb byr o'i hanes, oddi ar brawf-ysgrifau gasglwyd gan Dr. Tafel, yn llyfrgelloedd, ac *archives* brenhinol Sweden, ac a gyhoeddwyd yn dair cyfrol fawr.

1. HANIAD EMANUEL SWEDENBORG. Ganwyd ef yn Stockholm, prif ddinas Sweden, Ionawr 29, 1688. Enw ei dad oedd Jesper Swedberg, Esgob Westergothia, enwog am ei ddysg, ei dduwioldeb, a'i lafur; awdwr llyfrau lawer, casglydd

salmau a hymnau, ac odlau ysbrydol, a chyfieithydd y Beibl i iaith Sweden. Argraphai yr oll ar ei draul ei hun, trwy drafferth nas gwyr yr oes hon ddim am dano. Yr oedd efe hefyd yn Esgob i'r Eglwysi Swedaidd yn Llundain, a Pensylvania, ac yn aelod o'r Gymdeithas Seisnig, er lledu yr efengyl. Yr oedd efe hefyd yn bregethwr i'r llys, i'r llynges, a'r fyddin; ac fel Hugh Latimer, traethai y Gair heb dderbyn wyneb, ger bron brenhinoedd. Ymwrolai yn orfoleddus fel un yn gweled gwersyll Arglwydd y lluoedd o'i amgylch. Oddi ar deimlad angylaidd a duwiol barch, rhoddai enwau arwyddocaol ar ei blant. Enwodd ei ail fab yn Emanuel, gan ddymuno y byddai dan nawdd neillduol y Duwdod, ac yn fendith arbenig i'r byd. Addysgwyd ef yn ofalus yn nhy ei dad, nes myned o hono i'r brif ysgol yn Upsala. Ymadawodd oddi yno pan yn un mlwydd ar hugain oed, a theithiodd am flynyddau yn Lloegr, Ffrainc, Holland, a'r Almaen, gan chwilio y prif wyddonwyr yn mhob lle, er cynyddu ei wybodaeth. Hoffai letya gyda chrefftwyr o bob math, er mwyn dysgu eu crefftau. Dysgodd felly rwymo llyfrau, gwneud awrleisiau ac oriaduron, chwydd-wydrau, ac offerynau cywrain eraill. Ymddifyrai hefyd mewn cerddoriaeth, a swn y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y psaltring, y symphon, a phob rhyw gerdd, a hoffai mewn hamddenol oriau, chwareu yr organ. Y ceinciau seinber a agorent ei ermigau, gan ei ddarparu i glywed swn hirllaes udgyrn a haleluia jubilee fawr y bydoedd. Mantais iddo gael croesaw yn y teuluoedd mwyaf urddasol oedd, fod ei deulu a'i dylwyth yn bendefigion, ac amryw o honynt yn llanw swyddau uchel yn y llywodraeth. Priododd un chwaer iddo a Benzelius, Archesgob Upsala. Ei berthynasau hefyd, oedd y ddau archesgob olynol, a'r Esgobion Filenius, a Benzelstierna. Trwy ei deulu, ei ddysg, a'i erfawr lafur llesol i'r llywodraeth, perchid ac anwylid ef yn hynod gan y brenhin a'r frenhines, ac eisteddai weithiau wrth y bwrdd brenhinol. Dysgedigion a mawrion Sweden hefyd, a'i hedmygent, ac a'i hanrhydeddent yn ddidor trwy ei hirfaith oes.

2. SWYDDAU GWLADOL EMANUEL SWEDENBORG. Fel gwr ieuanc dysgedig, fel gwyddonwr, fel athronydd, ac fel darganfyddwr a dyfeisiwr digymar, ac fel gwladgarwr doeth, dygodd allan y "Daedalus"—cyhoeddiad misol, er lledu gwybodaeth o'r gwyddonau a'r celfyddydau—mesuroniaeth, daeareg, meteliaeth, seryddiaeth, ac yn neillduol, gwybodaeth am y peirianau i fesur pellder a maint y bydoedd, a'r offerynau i hyrwyddo gorchwylion y byd hwn. Daeth y "Daedalus" i law y Brenhin Charles XII. Synai at ei allu, a'i duedd ymarferol; anfonodd am yr awdwr, a phenododd ef, trwy lythyr i'r Senedd, a gwarant o dan sel frenhinol, i fod yn *Extra-*

ordinary Assessor of the College of Mines—y cynghor a'r llys i archwilio a threfnu pob peth perthynol i'r gweithiau mwnawl yn Sweden. Cyflawnodd ei swydd yn ddiwyd am ddeg ar hugain o flynyddoedd, gan ddwyn yn mlaen welliantau lawer, a dyfeisio peirianau i hwyluso y gwaith. Yn y cysylltiad hwn, ymwelodd a phrif fwngloddiau, ac a phrif weithfeydd haiarn, copr, ac arian, y teyrnasoedd, ac ysgrifenodd gyfrolau ar y meteloedd, y ffwrneisiau, a'r gwahanol ddulliau yn y llaw-weithfeydd, gan gynyg cynlluniau rhagorach, a chychwyn cyfnod newydd yn holl weithfaoedd y byd. O herwydd ei lafur dirfawr ar feusydd eraill, perthynol i ddirgelion a rhyfedd-odau cyfansoddiad dyn, dymunodd ganiatad y brenhin i ym-neillduo o'i swydd fel *assessor*; ni wrthodwyd ei gais, a threfnwyd iddo yn hael, dderbyn ei dal dan y goron hyd derfyn ei oes.

Bu Swedenborg hefyd, yn gydswyddog a Polhem, cynghorwr masnach dan y llywodraeth, a dyfeisiwr mawr perthynol i'r llaw-weithfeydd, a pheirianau rhyfel. Yr adeg hon, dyfeis-iodd Swedenborg y modd i gludo dwy gad-long, pump o fadau mawrion, a *sloop*, dros y tir am bedair ar ddeg o filldiroedd, er cynorthwyo Charles XII. i ymosod ar gaerfa Fredrickshall, ac felly goncro y Daniaid. Codwyd ef hefyd i'r Senedd, ac eisteddai yn Nhy yr Arglwyddi fel barwn anrhydeddus, hyd ddiwedd ei ddydd. Ni pherthynai i unryw blaid wladol; dadleuai, deisebai, a phleidleisiai dros unryw beth a gredai oedd deg a da. Lles ei wlad a'i llywiai, ac nid llwyddo plaid, fel y dengys ei ysgrifeniadau, y cofnodion am dano, a'r deisebau aml a anfonodd i Senedd Sweden, megis y deisebau mewn perthynas i gyllid y deyrnas, a'r rhwymau i gadw y cyd-bwysedd rhwng y dadforiad a'r allforiad; y deisebau dros godi llaw-weithfeydd haiarn yn Sweden, yn gydradd a llaw-weithfeydd copr, ac arian, a pheidio iselu un mwn gwerthfawr ac enillfawr, ar draul dyrchafu mwnau eraill, llai enillfawr i'r wlad; y deisebau dros gael melinau rholio yn Sweden, i goethi a gweithio y meteloedd yn berffeithiach; y deisebau yn erbyn myned i ryfel a Rwssia, i beryglu ac andwyo y deyrnas; y deisebau dros gwtogi ac atal y fasnach feddwol, os yn rhy gynar i'w dileu: darlunia y diodydd meddwol yn wlybwr dinystriol, a gelyn penaf y wlad; y deisebau yn erbyn ymosod-wyr ar drefn y llywodraeth, ac ar ei swyddogion rheolaidd; yn nghyd a lliaws o ddeisebau eraill yn dangos ei ddyddordeb parhaus yn llwyddiant ei wlad, hyd ei farwolaeth, yn bedwar ugain a phump oed.

3. EMANUEL SWEDENBORG FEL GWYDDONWR AC ATH-RONYDD. Fel hyn y dywed Emerson am dano: "Un yw o gewri llenyddiaeth; nid yw i'w fesur gan golegau cyfain o

ysgolheigion; ei bresenoldeb urddasol a darfai benogiaid y prif ysgolion. Ei alluoedd a weithredent gyda phrydlondeb a chydbwysedd y ser." Dr. Garth Wilkinson a ddywed: "Gyrfa Swedenborg, fel y dengys ei ysgrifeniadau, sydd grynhoad o grefydd ac athroniaeth dynolryw. Ei weithiau sydd lyfrgell ynddynt eu hunain, yn dangos y drefn fanylaf, a'r ymdrech fwyaf anorchfygadwy." "Ei waith ymarferol fuasai yn ddychryn i Cesar; o'i flaen yr ymgrymai Lycurgus." Gwelir hyn wrth fyned yn fras a brysiog dros deitlau a chynwys ei gyfrolau gwyddonol ac athronyddol. Heblaw y "Daedalus" bob mis, argraphodd lyfr o'r enw, "Gwybodaeth am Weithiau Alcan, a'u Defnyddioldeb." Canlynwyd hwn yn glau gan gyfrol, "Rheolau Algebra," yn traethu ar alluoedd llaw-gelfyddyd, deddfau cyfartaledd, dyrys-bynciau mesureg, *stereometry*, dysgyrchiant, priodoleddau yr *hyperbola* a'r *parabola*, pwerau pylor a magnelau. Cyhoeddodd wedi hyny, lyfrau a thraethodau yn dwyn yr enwau, "Safle, a Symudiadau y Ddaear," yn cynwys damcanion dyfnion; "Lefel y Mor, a Llanw Mawr yr Hen Fyd," yn darlunio effeithiau symudiadau y dyfnder, a'r modd y taflwyd y cerrig mawrion i benau y mynyddoedd; "Gwybodaeth am Ddociau, Llif-ddorau, a'r Ffordd i Wneud Halen"; "Egwyddorion Athroniaeth Naturiol," yn egluro fferylliaeth ac anianeg trwy ddeddfau mesureg; "Darganfyddiadau am Haiarn a Than," yn cynwys syniadau newydd am natur elfenol tan, a ffordd newydd i wneud ffwrneisiau ac ystofau; "Ffordd Newydd i Sicrhau yr Hydred wrth y Lleuad"; "Ffordd Newydd i Wneud Dociau a Gwrthgloddiau"; "Ffordd Newydd i Wybod Grym Llestri a Llongau"; "Y Gwyddorau Naturiol"—yn y llyfr hwn, trinir llawer o bynciau trymion a phwysig, megis daeareg, awyreg, anianaeth ddynol, mesuroniaeth, trefn newydd i rifo ar sylfaen 8, ac nid ar sylfaen 10, yr *Octonory* yn lle y *Denary*. Oblegid y gweithiau gorchestol hyn, cynygiwyd i'r awdwr, gadair *Mathematics* yn Mhrifysgol Upsala, ond efe a'i gwrthododd.

Wedi hyn, argraphodd y "Principia"—un o'r llyfrau dyfnaf, yn trin tarddiad y bydoedd, lleoliad y gyfundraeth heulaidd yn mhlith yr heuliau, sefydlogrwydd y gyfundraeth heulaidd, casgliad y ser yn gysawdau yn y *canopy* mawr, pwerau y trydan i ddadblygu y bydoedd. Ymddangosai y llyfr hwn ar y cyntaf fel rhamant, neu freuddwyd athronydd, ond y gwyddonwyr, erbyn heddyw, a brofant mai ffeithiau yw darganfyddiadau y "Principia." Yn nesaf, cyfrol o'r enw, "Athroniaeth yr Anfeidrol, Achos Cyntaf Creadigaeth, a Chyfathrach yr Enaid a'r Corph," yn cynwys yr ymgais fwyaf gwrol i gael gafael yn y Crewr, ac yn y creadur rhesymol ac anfarwol. Cododd y cyfrolau hyn Swedenborg i sylw ac edmygedd goreuon y

gwyddonau, trwy y gwledydd, a phenodwyd ef yn aelod o'r Academy Ymherodrol yn mhrif ddinas Rwssia.

Wedi hyn, teithiodd am saith mlynedd, trwy ganiatad, ac ar draul, y Brenhin a'r llywodraeth, yn Germany, Italy, Ffrainc, a lleoedd eraill yn Ewrop, er mwyn gweled y prif athronwyr, a chwilio y prif lyfrgelloedd, i'w addasu i fyfyrdodau dyfnach eto. Cyhoeddodd hanes ei deithiau, yn gyfrolau dyddorol, ac fel ffrwyth yr oll, wele lyfrau trwchus o'r wasg ganddo, ar "Drefn y Deyrnas Anifeilaidd," a llyfrau eraill ar y "Deyrnas Anifeilaidd," yn cynwys goleuni newydd ar y gwaed, y gwythienau, y galon, yr ysgyfaint, yr ymenydd, ffurfiad y cyw yn y plisgyn, a'r baban yn y groth, etc. Pwrpas Swedenborg oedd chwilio am yr enaid yn y corph. "Ceisiaf fyned yn fwy mewnol o hyd," meddai, "ac agor y drysau arweiniant at yr enaid; a thrwy ganiatad Duw, caf fyfyrio ar yr enaid ei hun." Darganfyddodd bethau, briodolir i eraill yn awr, am ddirgelion a rhyfeddodau y corph dynol. Wedi hyn, aeth i chwilio am yr enaid yn ei balas aur, sef yr ymenydd, ac ar yr "Ymenydd," ysgrifenodd ddwy gyfrol fawr, nad oes nemawr eto fedrant eu darllen. Wedi hyny, wele gyfrol o'i eiddo ar "Yr Enaid," yn mesur holl feusydd meddyleg, ac yn cynwys syniadau gwreiddiol ar bob tudalen, yn neillduol wrth ddarlunio dylifiad yr enaid i'r *animus*, a thrwy yr *animus* i'r corph. Yna, cyhoeddodd lyfr "Ar Addoli a Charu Duw," yn esbonio genedigaeth y byd, genedigaeth paradwys, a phob peth byw, yn nghyd a genedigaeth, ieuenctyd, a chariad y dyn cyntaf, priodas y dyn cyntaf, yr enaid, a delw Duw. Ymgyrch Swedenborg, fel y dywedwyd, oedd dirnad dirgelwch mawr y cread, sef yr enaid ynddo ei hun, ei berthynas a Duw, ac a'r tragwyddol fydoedd. Codai yn raddol i'r goleu, ac i'r canolbwynt—wedi cychwyn yn y man isaf, sef yn y mwnau, dringai trwy raddfeydd y gwyddonau materol, y deyrnas anifeilaidd, y corph dynol, hyd at yr enaid, yr angylion, a'r Duwdod. Pan yn ddeunaw a deugain oed, wedi dringo i ben pinaclau uchaf athroniaeth, agorwyd drws y nefoedd iddo, a gwelodd weledigaethau Duw.

4. EMANUEL SWEDENBORG FEL GWELEDYDD A DUWINYDD. Proffeswr Bush a ysgrifena: "Y mae pob ymchwil oleuedig yn canolbwyntio yn gyflym tua'r pwynt gydia y byd naturiol a'r ysbrydol; ac wedi i reswm yn ei nerth ei hun, gyrhaedd ei eithafnod yn y cyfeiriad hwn, caiff ei hun, er syndod, yn sefyll o flaen drws agored teml gwirionedd, gyda Swedenborg, yn dysgwyl cael ei arwain i'r cysegr nesaf i mewn." Hiram Powers, y cerf-luniwr, a ddywed: "Swedenborg ydyw fy awdwr. Yr holl ysgrifenwyr eraill, mewn cydmariaeth, a symudant yn y tywyllwch, a chanhwyllau yn eu llaw, yn ymbalfalu am eu ffordd, tra y rhodia efe yn ngoleuni

llydan haul." Tystia Swedenborg, i'r Arglwydd agor ei synhwyrau ysbrydol i weled a chlywed bodau a phethau yn y byd ysbrydol, ac iddo fod yn y cyflwr hwn, beunydd, am saith ar hugain o flynyddoedd—tebyg i'r prophwydi, a'r apostolion, a phobl yr oes euraidd, a thebyg i'r bobloedd a greir dan ddylanwad cyflawn yr Ail-ddyfodiad. Prawf digonol ei fod yn weledydd, yw y goleu newydd rydd ar yr Arglwydd, ar y byd ysbrydol, ar gynwys mewnol y Gair, ac ar enaid dyn, goleu yn boddio a digoni anghenion y deall a'r ewyllys.

Yn nglyn ag agoriad ei synhwyrau ysbrydol, aeth trwy brofiadau hynod ac ofnadwy, yn nghyd a breuddwydion a gweledigaethau nos, pan syrthia trwmgwsg ar ddynion. Ysgrifenodd y profiadau a'r breuddwydion hyn yn fanwl mewn llyfr o'r enw, "Llyfr Breuddwydion." Eglura *fod tri math* o freuddwydion rheolaidd a da. *Yn gyntaf*, breuddwydion oddi wrth yr Arglwydd trwy y nefoedd. *Yn ail*, breuddwydion trwy ysbrydion angylaidd; *ac yn drydydd*, breuddwydion oddi wrth yr ysbrydion agos at ddyn, pan yn cysgu. Ond am freuddwydion *gwylltion a gwallgofus*, deilliant o'r ysbrydion drwg, ac o uffern. Arwyddluniau o'r byd ysbrydol yw breuddwydion, yn disgyn i gof dyn, ac i'w dehongli, fel y Gair, trwy ddeddf cyfatebiaeth. Y mae meddwl yr Arglwydd, yr angylion, a'r ysbrydion da, yn y breuddwydion rheolaidd; ac y mae gwallgofrwydd, yr ysbrydion drwg, a'r cythreuliaid, yn y breuddwydion afreolaidd. Ysgrifenodd Swedenborg yn mhellach, "Ddyddlyfr Ysbrydol," yn bump o gyfrolau, yn cynwys ei brofiad am aneirif bethau pwysig yn y byd ysbrydol, yn nghyd ag arddangosion y farn ddiweddaf. Gosododd ei syniadau duwinyddol hefyd mewn llyfr, dan y titl, "Adversaria." Wedi hyn, ysgrifenodd a chyhoeddodd yr "Arcana Coelestia," yn ddeuddeg cyfrol, yn dangos dirgelion ysbrydol a nefolaidd Gair yr Arglwydd, yn nghyd a phethau rhyfedd wedi eu gweled a'u clywed yn myd yr ysbrydoedd, ac yn y nef angylaidd. Y gyfrol nesaf yw, "Nef ac Uffern." Pe cyhoeddid y llyfr hwn fel damcaniaeth ddychymygol, megis "Coll Gwynfa," gan Milton, neu y "Divine Comedy," gan Dante, neu y "Bardd Cwsg," gan Ellis Wynne, darllenid ef yn gyffredinol; ond am ei fod yn adroddiad difrifol llygaddyst o'r nef, byd y farn, ac uffern, llawer a droant ymaith oddi wrtho, tra y mae yn bryd i bawb flino ar ddamcaniaethau a dychymygion am y byd a ddaw, a derbyn ffeithiau dysgleirdeb dyfodiad yr Arglwydd, a thrwyddynt, y bywyd a'r anfarwoldeb sydd yn y goleuni. Ar ol "Nef ac Uffern," daeth allan lyfrau eraill yn fuan, sef "Y Daearfydoedd Dirifedi yn y Cysawdau Serenog: eu Trigolion: eu Hysbrydion: a'u Hangylion, wedi

eu Gweled a'u Clywed"; hefyd, "Y Farn Ddiweddaf, a Dinystr Babilon: Pethau wedi eu Gweled a'u Clywed;" eto, "Y Jerusalem Newydd a'i Hathrawiaeth Nefol"; eto, "Y March Gwyn yn y Datguddiad." Yn mhen ychydig wedi hyn, cyhoeddodd bedwar llyfr arall, sef "Athrawiaeth yr Arglwydd"; "Athrawiaeth yr Ysgrythyrau Sanctaidd"; "Athrawiaeth Ffydd"; ac "Athrawiaeth Bywyd." Yna, cyhoeddodd y "Cariad a'r Ddoethineb Ddwyfol"; "Rhagluniaeth Ddwyfol"; "Y Datguddiad wedi ei Ddatguddio"; ac ysgrifenodd "Y Datguddiad wedi ei Esbonio," yn chwech o gyfrolau. Pan yn bedwar ugain oed, cyhoeddodd gyfrol ar "Cariad Priodasol a'i Bleserau Pur a Diwair"; hefyd "Cariad Godinebus a'i Bleserau Gwallgof"; wedi hyn, "Esboniad Byr ar Athrawiaeth yr Eglwys Newydd"; a "Thraethawd ar Ddylifiad." Yn yr un flwyddyn, llyfr ar "Cyfathrach yr Enaid a'r Corph." Ysgrifenodd lyfrau hefyd ar "Credo Athanasius," a "Chrynodeb esboniadol ar y Salmau a'r Prophwydi," etc. Ond y gwaith olaf a gyhoeddodd, pan yn bedwar ugain a thair mlwydd oed, yw "Y Wir Grefydd Gristionogol"—cyfrol fawr, a chorph o dduwinyddiaeth, o'r fath fwyaf gorchestol.

Ei holl gyfrolau, yn llyfrgell ynddynt eu hunain, ffurfiant un cyfanwaith cyson ac organaidd, a'r meddylddrychau ynddynt yn esgyn yn gyfresau afrifed a chydgordiol, trwy y graddfeydd naturiol, ysbrydol, ac angylaidd. Gofyna feddwl cryf, calon lan, bywyd pur, amser hamddenol, a hir oes, i'w meistroli; oblegid, nid duwinyddiaeth, nac athroniaeth ydynt, ond duwinyddiaeth athronyddol, neu athroniaeth dduwinyddol, yn dangos fel y dywedodd Edward Miall, yn y "Nonconformist"—"Y fath eangder o gydymdeimlad a holl ffurfiau bywyd a gwaith, a'r fath fawredd mewn syniadaeth."

5. YMADAWIAD EMANUEL SWEDENBORG A'R BYD. Hysbyswyd ef yn myd yr ysbrydoedd, fod Wesley yn awyddu ei weled, ac ysgrifenodd hyny at Wesley, gan hysbysu y carai iddo ymweled ag ef. Anfonodd Wesley atebiad, yn amlygu iddo deimlo dymuniad i'w weled, ac y daethai ato ar ddydd neillduol, wedi dychwelyd o'i deithiau. Atebodd Swedenborg, y buasai yn rhy ddiweddar, am y byddai efe wedi ymadael am byth i'r byd ysbrydol, Mawrth 29ain, cyn y dydd nodedig. Cymerodd y Sacrament o Swper yr Arglwydd, ychydig cyn marw, o law y Parch. Ferelius, o'r Eglwys Swedaidd yn Llundain, pan y datganodd Swedenborg, mai gwir oedd yr oll a ysgrifenodd am agoriad ei lygaid i'r byd ysbrydol, ac am y pethau a welodd ac a glywodd yno, ac y gallasai ysgrifenu llawer rhagor, pe caniateid. Sicrhaodd i Ferelius, y caent gwrdd a'u gilydd yn y byd arall, ac ymddiddan yno am y pethau hyn, ac y cai weled fod ei weledigaethau yn berffaith

wir. Dywedodd wrth Mr. Shearsmith, ei letywr, y dydd y byddai farw. Fel Moses, ac fel Simeon, hysbysodd yr Arglwydd iddo ddydd ei farwolaeth, ac edrychai yn mlaen ato gyda gorfoledd—tebyg i weithwyr caled yn dysgwyl am eu gwyliau. Ehedodd i'r byd ysbrydol, Mawrth 29ain, 1772. A'r Sabboth oedd y diwrnod hwnw; ar y Sabboth hefyd, y ganwyd ef. Dyn y seithfed dydd oedd efe, wedi myned fel Adda, neu saint yr oes euraidd, trwy holl raddfeydd yr adenedigaeth, cyn gadael y byd. Claddwyd ei gorph yn mynwent yr Eglwys Swedaidd, yn Llundain. Traethodd y pendefig, M. Sandels, folawd angladdol iddo yn Neuadd y Pendefigion, yn enw Academy Freiniol y Gwyddonau, yn Stockholm.

6. BETH FERNIR AM EMANUEL SWEDENBORG. Rhaid ei fod yn *dwyllwr*, yn *wallgof*, neu yn *athraw awdurdodedig* yr Arglwydd, yn ei ddyfodiad. Pob twyllwr, amcana trwy ei dwyll, sicrhau iddo ei hun enw, elw, awdurdod, neu esmwythfyd; ond aberthodd Swedenborg y pethau hyn, wrth ysgrifenu a chyhoeddi ei athrawiaethau a'i ddatguddiadau—prawf digonol nad *twyllwr* yw. Nid oes yr arwydd leiaf o wallgofrwydd yn ei holl hanes, ond yn hytrach, o synwyr a syniadau uwchraddol. Pan gododd Democritus i gondemnio anwiriaid Abdera, yr euogion a anfonasant at y meddyg Hippocrates, yn deisyf arno wellhau Democritus o'i wallgofrwydd. Ond dywedodd y meddyg wrthynt, mai pobl Abdera oedd yn wallgof, ac nid Democritus. Felly, eto, y gau gristionogion, yn anad neb trwy bedlam fawr y byd, sydd wallgof, ac nid Swedenborg, ac nid yw y doethion yn mhob man, ond ychydig weddill; yr anoethion sydd aneirif. Ond trwy lewyrch dyfodiad yr Arglwydd yn agor y Gair, yn ysgrifeniadau Swedenborg, y doethion a welant fod terfynau yr oesoedd wedi dyfod arnom, a dechreu oes newydd, yn rhoddi goleu newydd ar y Duwdod, a chyffroad newydd i'r hil ddynol, trwy yr holl fydysawd. Derbynwyr datguddiadau Swedenborg a adwaenant arwyddion yr amserau—amserau ffrwydriadau a brwydrau, ac amserau angau ingol ac angladdau pob corpholaeth dymhorol, ac ysbrydol, sydd a'r cancr o'u mewn, yn lle calon; ac amserau disgyniad byd y bywyd i'r blaned. Bysedd llaw Hollalluog sydd yn dyfod allan, ac yn ysgrifenu ar gyfer y canhwyllbren ar galchiad parwydydd y brenhinoedd Babilonaidd: "MENE, MENE, TECEL, UPHARSIN." Gwedd eu gwynebau a newidiant, eu meddyliau a'u cyffroant, eu lwynau a ddattodant, a'u gliniau a gurant y naill wrth y llall. Crochwaeddant ar yr astronomyddion, yr hudolion, a'r brudwyr, ond yn ofer. Y dewiniaid a ddynoethir; drychiolaethau y senedd a'r pwlpud a giliant fel cysgodion oer y nos o flaen yr haul; y sectau ffugiol nid arosant, yn ngwydd Eglwys Philadelphia,

Eglwys y Sanctaidd a'r Cywir, yn ymaflyd yn nghalon a deall dynion, ac yn deffro ynddynt deimladau anrhaethadwy, a meddyliau yn treiddio a thramwy tragwyddoldeb.

Daw weithian awr y brofedigaeth ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear. Trwm fydd y treialon, o herwydd mawredd y cyfnewidiad,—cyfnewid o deyrnas y ddraig goch, i deyrnas y wraig wedi ei gwisgo a'r haul; o deyrnas Babilon fawr, mam putteiniaid a ffieidd-dra y ddaear, i deyrnas priodasferch gwraig yr Oen. Gadael oesau duon rhagrith a dichellion diafol, am oesau gwynfydedig didwylledd a diniweidrwydd. Bywyd y byd Cristionogol dirywiedig, sydd fel y pydew diwaelod, a'r mwg yn codi o hono yn doau trymion o gymylau, ac fel mantell angau yn amwisgo y byd. Malldod yr ail-farwolaeth ymdaena dan orchuddion yr afagddu fawr gyffredinol. Ond Swedenborg ddarlunia fyd Cristionogol newydd, yn meddu bywyd newydd, a goleu newydd ar y Creawdwr, ac ar Undod ei Berson; ar ei Hanfod, sef cariad a gwirionedd; ar ei Hollalluawgrwydd, ei Holl-bresenoldeb, a'i Holl-wybodaeth, fel priodoleddau ei gariad a'i wirionedd; ar y greadigaeth fel dylifiad diddechreu, anghenrheidiol a bythbarhaol, o'r Hanfod Ddwyfol. Goleu newydd yr yr Ymgnawdoliad, y Prynwr, a'r Brynedigaeth; ar yr Ysbryd Glan, a'r Drindod, yn Mherson yr Arglwydd Iesu Grist. Goleu newydd ar y Gair, yn ei ystyron mewnol, ysbrydol, a nefolaidd; ar y ddeddf foesol, neu y deg gorchymyn; ar ffydd, a chariad, a rhyddid yr ewyllys; ar edifeirwch, adenedigaeth, cyfiawnhad, a chyfrifiad; ar fedydd a Swper yr Arglwydd; ar y farn ddiweddaf, Ail-ddyfodiad yr Arglwydd, yr Adgyfodiad, a'r tri byd tu draw i angau, sef y nefoedd, hades, ac uffern. Yn nglyn a'r oll, daw goleu newydd ar wladlywiaeth, a masnach, a holl alwedigaethau, amgylchoedd, a manylion bywyd, dan arweiniad yr Arglwydd ei Hun, fel yr Anfeidrol Ddyn, yn cyhoeddi o'i gariad a'i ddoethineb, pan yn eistedd ar yr orseddfainc: "Wele, yr wyf yn gwneuthur pob peth yn newydd" (Dat. xxi, 5).

Prawf digonol fod Emanuel Swedenborg yn athraw awdurdodedig yr Arglwydd, yw, rhyfeddodau y ganrif ddiweddaf,—eithriadol mewn deffroad meddyliol, a diwygiadau. Ond cynar wanwyn ydyw eto. Daw hinion hyfryd haf, ac addfed ffrwyth yr haul. Nid yw efengyl dragwyddol yr Ail-ddyfodiad, hyd yma, ond fel aderyn bach, heb adael y nyth; daw dydd y lleda ei hedyn fel y condor o ben yr Alpau, ac fel yr angel yn nghanol y nef. Teyrnasa dros y byd. Gosodir barn o thrugaredd ar y ddaear. Rhoddir cleddyfau rhyfel yn y waun; gosodir y cerbyd a'r march i gysgu; cauir temlau Mars a Ianus; gostegir rhuad magnelau, ac oergri lladdedigion;

cyfyngir brwydrau a rhyfeloedd i gythreuliaid; cenfigen, trachwant, a chelwydd, a gloir yn anwn; bydd creulonder a godineb yn estroniaid i'r oesau sanctaidd. Caiff meddwdod ei gladdu, a deng myrdd o gwpanau, potelau, a barilau, eu briwio yn falurion, fel graian a chregin, ar ei ddamniol fedd. Daw ofergoelwyr i gofleidio y Gair; masweddwyr a droant yn gerddorion y Jerusalem nefol. Llyncir enwau y byd gan enw mawr Emanuel. "Y dydd hwnw y bydd ar ffrwynau y meirch, Sancteiddrwydd i'r Arglwydd; a bydd y crochanau yn nhy yr Arglwydd fel meiliau ger bron yr allor. Bydd pob crochan yn Jerusalem ac yn Judah, yn sancteiddrwydd i Arglwydd y lluoedd; a daw pob aberthwr, ac a gymerant o honynt, ac a ferwant ynddynt; ac ni bydd Canaanead mwyach yn nhy Arglwydd y lluoedd, y dydd hwnw" (Zech. xiv, 20, 21). Bydd enw yr Arglwydd yn ddarllenadwy ar bob cerbyd, ar gorn yr aradr, ar garfan y gwehydd, ar gownter y siopwr, ar goron y brenhin, ac ar *charters* teyrnasoedd. Bendigedig fydd y blaned, o begwn i begwn. Ni bydd clafdai mwy, oblegid ni bydd cleifion; ni bydd gwallgofdai, oblegid ni bydd gwallgofiaid; ni bydd carcharau, oblegid ni bydd troseddwyr; ni bydd dagrau, oblegid ni bydd galar; bydd yn ddigon goleu i weled y nefoedd o lyn cysgod angau, ac o lan y bedd. Galarnadau daear a ostegant yn swn carolau gogonedd cenhedloedd gwynfydedig. Gair yr Arglwydd, fel ei dehonglir gan Emanuel Swedenborg, a eheda, ac a amgylcha y byd fel gwregys aur.

7. PWY DDERBYNIA YR ATHRAWIAETHAU A'R DATGUDDIADAU TRWY EMANUEL SWEDENBORG? Ni dderbynir hwynt ond gan ddynion fedrant godi uwchlaw yr holl eglwysi sectol, ac a awyddant ddysgu athrawiaeth anfarwoldeb mewn purdeb a pharch, gan wybod mai ceisio Duw, ydyw ceisio gwirionedd; dynion llawdrwm ar falchder, blys, a chwant; dynion allant weithio, dyoddef, a dysgwyl mewn amynedd tawel yn y Duwdod; dynion yn dysgu iaith y nef gan blant bach, ac adar, a blodau; dynion parod i dderbyn y siomedigaethau mwyaf, mewn perthynasau, a chyfeillion; dynion cyflym i redeg ar alwad gyntaf dyledswydd, ac ystwyth i gydfyned a symudiadau yr Arglwydd, ar raddfa fawr ei Ail-ddyfodiad, gan weddio yn ddyfal, dwfn, a deallus,—"Amen, yn wir, tyred Arglwydd Iesu." Bu y pethau canlynol yn help dirfawr i mi ddeall a derbyn, o galon, gynwysiad llyfrau Emanuel Swedenborg.

1. Darllen y Gair yn rheolaidd ac olynol drwyddo. Cyn gweled ysgrifeniadau Swedenborg, arferwn ddarllen y Gair, o'r dechreu i'r diwedd, dro ar ol tro, gan edrych drwyddo ar y Duwdod, ar dragwyddoldeb, a'i drigolion. Derbyniais drwy y

Gair, argyhoeddiad o brif athrawiaethau y nef a'r ddaear newydd. Addolwn yr Arglwydd Iesu Grist, fel yr Unig Berson Dwyfol; cymerwn y deg gorchymyn fel unig amod a rheol bywyd; deallwn fod y gweledig yn deilliaw o'r anweledig, ac yn dibynu arno; cyfrifwn bob drwg yn bechod yn erbyn Duw; a chredwn fod dyn, cyn gadael y byd, yn nghanol ysbrydion ac angylion drwg a da. Ymhyfrydwn yn ngweledigaethau ac arwyddluniau y Gair, yn neillduol, y Datguddiad. Trwy y Gair, parotowyd fi i dderbyn a gwerthfawrogi yr athrawiaethau a'r datguddiadau nefol, trwy Emanuel Swedenborg.

2. *Pregethu y Gair yn erbyn pechodau crefyddwyr.* Wrth bregethu y Gair yn erbyn pechodau y bobl a'r blaenoriaid—meddwdod yn bendant—ymgynghreiriasant yn fy erbyn, gan gloi y capelau. Cefais nerth di-ildio trwy fyfyrio y Gair a llyfrau Swedenborg, i bregethu y gwirionedd yn erbyn anuwioldeb yr areithfa a'r eglwysi, a chyhoeddi dirwest yr Ailddyfodiad. Ar adeg y Cloi yn Llechryd, dechreuais weddio ar yr Arglwydd yn ddyddiol, yn y dirgel ac yn y teulu, trwy y Salmau, yn undeb y Dyn Anfeidrol, y tair nefoedd, ac Eglwys Philadelphia. Ar ddydd y Cloi, Chwef. 26, 1880, gweddiwn drwy y Salm ddewisodd Kruger i'w bobl, wrth sefyll dros eu gwlad a'u hanibyniaeth, yn erbyn llofruddion, lladron, a llunwyr anwireddau,—y frwydr benaf yn y byd dros anibyniaeth. Trwy ddatguddiadau Swedenborg, gwn fod y Salm hon yn cael ei gweddio yn nwyreindir nef y nefoedd, dros ferthyron anibyniaeth yn y byd; y Dutch duwiol yw y rhai agosaf at orseddfa y Duwdod. Eiddynt hwy, ac nid eiddo y Saeson, yw yr oruchafiaeth yn nhragwyddoldeb. Am hyny, yr ymbiliais beunydd, yn y gerth ymladdfa, yn un a'r Boer, ac yn un a bodau purwyn y byd a ddaw, gan ddywedyd: "O Dduw, na ostega; na thaw, ac na fydd lonydd, O Dduw. Canys, wele, dy elynion sydd yn terfysgu; a'th gaseion yn cyfodi eu penau. Ymgyfrinachasant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl, ac ymgynghorasant yn erbyn dy rai dirgel di. Dywedasant, Deuwch, a difethwn hwynt, fel na byddont yn genedl; ac na chofier enw Israel mwyach. Canys ymgynghorasant yn unfryd; ac ymwnaethant i'th erbyn. Pebyll Edom, a'r Ismaeliaid; y Moabiaid, a'r Hagariaid; Gebal, ac Ammon, ac Amalec; y Philistiaid gyda phreswylwyr Tyrus. Assur hefyd a ymgwplysodd a hwynt; buant fraich i blant Lot. Selah. Gwna di iddynt fel i Midian; megis i Sisera, megis i Jabin, wrth afon Cison: yn Endor y difethwyd hwynt; aethant yn dail i'r ddaear. Gwna eu pendefigion fel Oreb, ac fel Zeeb, a'u holl dywysogion fel Zebah, ac fel Zalmunnah: Y rhai a ddywedasant, cymerwn i ni gyfaneddau Duw i'w meddianu.

Gosod hwynt, O fy Nuw, fel olwyn, fel sofl o flaen y gwynt. Fel y llysg tan goed, ac fel y goddeithia fflam fynyddoedd, felly erlid di hwynt a'th dymhestl, a dychryna hwynt a'th gorwynt. Llanw eu hwynebau a gwarth, fel y ceisiont dy enw, O Arglwydd. Cywilyddier, a thralloder hwynt yn dragywydd; ie, gwaradwydder a difether hwynt. Fel y gwypont mai tydi, yr hwn yn unig wyt JEHOFAH wrth dy enw, wyt Oruchaf ar yr holl ddaear" (Salm lxxxiii). Trwy weddio Salm Kruger, a'r Gair i gyd, yn y gorthrymder mawr, yr enaid a esgyn yn y goleu newydd, i fynwes y Dyn Anfeidrol, yn rhyfela a'r uffernoedd drwy yr oesau, ar faes y bydoedd, y byd hwn, a Phrydain. Holl fyddinoedd uffern, yn un ac yn eu llawn arfau, ydynt wanach na'r gwyfyn yn ei erbyn ef. Caniata iddynt ymgynghreirio ac ymosod ac ymffrostio yn eu rhif a'u harfau, fel y dysgont mai gwaeth nag ofer yw gwrthsefyll y Cyfiawn. Buddugoliaeth barhaus yw holl frwydrau yr Arglwydd. "Fel y gwypont mai tydi, yr hwn yn unig wyt Jehovah wrth dy enw, wyt Oruchaf ar yr holl ddaear." Goruchafiaeth yr Arglwydd a'i Air, yw baich ysgrifeniadau Swedenborg.

3. Chwilio cysur mewn galar. Wrth wylio anwyliaid yn olynol, yn ingoedd angau, wrth weled eu lleoedd yn wag, wrth ddyfalu ar eu cyflwr tu draw i'r llen, ac wrth deimlo byrder a breuder bywyd, ni fedraf folianu digon am y goleuni trwy Swedenborg, yn dangos y nefoedd, yr Adgyfodiad, a'r berthynas nas gall angau ei dattod. "Angau a lyncwyd mewn buddugoliaeth." Pump o blant yn mhlith yr angylion, a wnant lyfrau Swedenborg yn oleu ac anwyl i mi. Yr oeddwn yn cyfieithu "*Heaven and Hell*" i'r Gymraeg, pan oedd yr olaf, sef Samuel, yn ymddadfeilio i ymadael, yn ugain oed. Ymddiddenais ag ef bob dydd, am bob peth yn y penodau perthynol i'r nefoedd. Deallai, a derbyniai yr oll yn llawen, gyda sicrwydd siriol, y cawsai adgyfodi yn ddyn ieuanc cyflawn, yn ei gorph nefolaidd. Pan ddechreuais gyfieithu "*Byd y Farn*," rhy wanaidd oedd efe i ymddiddan yn hwy, ac nid oedd angen: rhai hawddgar, tyner, a dihalog, nid ant i farn, ond ar unwaith i'r nef, yn rhydd oddi wrth y triniaethau tanllyd, arosant rai ymollyngant i halogedigaeth. O! ein hanwyl blant, mor felus yw gwybod eich hanes yn yr hyfryd wlad. Aethoch ymaith trwy boenau ddirdynent ein calon, ddydd a nos. Buom yn eich gwylio mewn griddfanau, gyda dagrau lawer, a gruddiau gwelw. Torodd ein calon wrth orfod gollwng ein gafael ynoch, gweled y gwyneb oer, yr amdo wen, yr arch, a'r angladd. Claddwyd bydoedd o bleserau bywyd yn eich beddau bach. Ond diolch, diolch, trwy y Gair agored, gellwn eich canlyn i dir goleuni, a gwybod i chwi fyned ymaith, fel y wenol, cyn y gauaf, i hinsawdd mwy hafaidd, i ororau mwy hardd. Cawn

eich gweled eto yn glau, ac agor ein llygaid gyda chwi, yn yr uchelder clir; cawn edrych yn eich gwynebau, ymaflyd yn eich dwylaw, eich cofleidio, a'ch cusanu megis cynt, clywed eich llais, gweled eich dillad nefol, eich ty, a'n Tad yn y trigfanau lawer. Gwyddom hefyd eich bod chwi yn ein gweled ni yn awr, yn ein gwylio, a'n gwarchod ar ein gyrfa wylofus a llawen, adref atoch, ac yn barod i'n croesawu yn fwy anwyl nag erioed; ac ni bydd raid ymadael mwy.

4. Dadleniad cyfrinion Cymru gynt. Digonol yw y gwirionedd ei hun yn llyfrau Swedenborg, i brofi ei darddiad i'r enaid a'i gwel. Ond cefais gysur a chadarnhad wrth ddyfalu ar Dderwyddaeth, a gweled ynddi brofion o athrawiaethau yr Ail-ddyfodiad. Dygwyd i'r goleu, flynyddau yn ol, lawysgrifau yr Hen Dderwyddon Prydeinig, yn cynwys athrawiaethau, deddfau, a chyfatebion mor hynod debyg i eiddo yr Hen Eglwys, sef Noah, yn ol dehongliad Swedenborg,—Hen Eglwys yn ymestyn dros diroedd a theyrnasoedd lawer, o amgylch a phell o wlad Canaan. Yr hen lawysgrifau Derwyddol, a gafwyd yn llyfrgelloedd hen deuluoedd Cymreig, yn y De a'r Gogledd, ac hefyd yn y *British Museum*, a lleoedd eraill yn Llundain, a Rhydychain. Casglwyd ac argraphwyd yr ysgrifau hyn gan enwogion Cymru, yn dair cyfrol, dan yr enw "*Myfyrian Archaiology*." Rhydd y golygwyr enwau nifer liosog o brif ddynion y genedl yn cynorthwyo a chefnogi y gwaith, fel nad oes amheuaeth o ddilysrwydd yr ysgrifau, yn anibynol ar dystiolaeth fewnol eu cynwysiad. Y neb a fyfyria y llyfrau hyn, a llyfrau Swedenborg, a wel fod athrawiaethau y Derwyddon, ac athrawiaethau yr Hen Eglwys, sef Noah, yr un, a'u bod hefyd yn cytuno mewn llawer o bethau ag athrawiaethau yr Eglwys Newydd, yn neillduol mewn perthynas i'r Undod a'r Drindod, yn Mherson y Duwdod; doethineb a daioni rhagluniaeth ddwyfol; natur ac ystadau nef ac uffern; y syniad am dragwyddoldeb, nid fel parhad o amser diddiwedd, ond fel amrywiaeth aneirif cyflyrau yr enaid; purdeb priodasol a ffieidd-dra godineb; cyfiawnder a rhyddid gwladol; sancteiddrwydd arswydol addoliad; a threfn driphlyg galluoedd a swyddogaethau crefyddol amlygedig yn y Derwydd, y Bardd, a'r Ofydd, yn nghyd a gwyddor cyfatebiaeth a'i chyfrinion. Dygwyd y grefydd Dderwyddol i Brydain gan Hu Gadarn, neu yr haul anghreuedig, o fynyddoedd Noah, sef o gariad yr Hen Eglwys, oroesodd y diluw. Pwysig yw y goleu hwn i fyfyrwyr ar hanes a gogoniant hen genedl y Cymry; am fod y grefydd Dderwyddol yn tra rhagori ar y grefydd Babaidd a Phrotestanaidd, ac yn arwain i'w gwadu, fel y gwnaeth Myfyr Morganwg, wedi pregethu gyda'r Anibynwyr am bymtheg mlynedd ar hugain. Pe cawsai oleu ysgrifeniadau Sweden-

borg ar y Gair, buasai crefydd y meini, sef y grefydd Dderwyddol, yn gymhorth iddo gredu yn gryfach mewn Cristionogaeth, yn lle ei gwadu, o herwydd ei llygriad llwyr.

5. Y Bwystfil Prydeinig yn llarpio y Boer. Datguddiwr dirgeloedd calonau yw rhyfel. Fel y canlyn y dywed Swedenborg: "Nid o ragluniaeth ddwyfol y bodola rhyfeloedd, am eu bod yn gysylltiedig a llofruddiaethau, lladradau, creulonderau, a drygau erchyll eraill, yn hollol groes i gariad Cristionogol; ond eto, nis gellir peidio caniatau iddynt, am fod bywyd cariad dyn, oddi ar amser y bobl henaf, y rhai a olygir wrth Adda a'i wraig, wedi dyfod o'r fath natur, fel y dymuna arglwyddiaethu ar eraill, ac o'r diwedd, ar bawb, ac a awydda feddianu golud bydol, ac yn y diwedd, holl olud y byd. Nis gellir cadw y ddau gariad hyn mewn terfynau, gan fod rhagluniaeth ddwyfol yn caniatau i bob un weithredu oddi ar ryddid yn ol rheswm; ac heb y fath ganiatad, nis gall dyn gael ei arwain gan yr Arglwydd o'i ddrygau, o ganlyniad, nis gall gael ei ddiwygio a'i acnub; canys pe na chaniateid i ddrygau dori allan, ni welai dyn nwynt, am hyny, ni chydnabyddai hwynt, ac nis gellid ei arwain i ymwrthod a hwynt. Am hyny, nis gellir atal drygau rhag ymddangos trwy unryw reol o eiddo rhagluniaeth ddwyfol; canys felly, arosent yn gauedig o fewn, ac fel y doluriau a elwir cancr, a madredd, lledaenent, gan ddifa pob peth bywiol yn y dyn. Canys y mae dyn trwy enedigaeth, fel uffern fach, a gwrthdarawiad parhaus rhyngddo a'r nefoedd. Nis gall un dyn gael ei dynu allan o uffern gan yr Arglwydd, oddi eithr iddo weled ei fod yno, a dymuno cael ei wared; ac nis gellir gwneud hyn, heb ganiatau drygau i ddod i'r golwg, yn ol deddfau rhagluniaeth ddwyfol. Dyma y rheswm paham y mae rhyfeloedd . . . Pob rhyfeloedd, er eu bod o natur wladol, a arddangosant yn y nefoedd, ystad yr eglwys, ac y maent yn gyfatebion. Felly yr oedd yr holl ryfeloedd ddesgrifir yn y Gair, ac felly hefyd y mae yr holl ryfeloedd yn awr. Y rhyfeloedd a ddesgrifir yn y Gair, yw y rhai ddygid yn mlaen gan blant Israel, ag amryw genhedloedd, megis yr Amoriaid, yr Ammoniaid, y Moabiaid, y Philistiaid, y Syriaid, yr Aiphtiaid, y Caldeaid, yr Assyriaid; a phan oedd plant Israel, y rhai a arddangosent yr Eglwys, yn cilio oddi wrth y gorchymynion a'r deddfau, a syrthio i'r drygau arwyddoceid gan y cenhedloedd hyny, am fod pob cenedl neillduol yr ymladdai Israel a hi, yn arwyddo rhyw ddrwg neillduol, yna cosbid hwynt gan y genedl hono. Er engraifft, pan halogent bethau sanctaidd yr Eglwys, trwy eilun-addoliaeth aflan, cosbid hwynt gan yr Assyriaid a'r Caldeaid, am fod Assyria a Chaldea yn arwyddo halogiad yr hyn sydd sanctaidd. Arddangosir pethau tebyg gan ryfeloedd y dydd heddyw, pa le

bynag y byddont, am fod yr holl bethau a wneir yn y byd naturiol, yn cyfateb i bethau ysbrydol yn y byd ysbrydol, a'r holl bethau ysbrydol a berthynant i'r Eglwys. Nid yw hysbys yn y byd, pa deyrnasoedd yn y cylch Cristionogol, a arddangosant y Moabiaid, a'r Ammoniaid, pa rai y Syriaid, a'r Philistiaid, a pha rai y Caldeaid a'r Assyriaid, a'r lleill y bu meibion Israel yn rhyfela a hwynt; eto, y mae teyrnasoedd yn y cylch Cristionogol yn arddangos y bobl hyny. Beth yw ansawdd yr Eglwys ar y ddaear, a pheth yw y drygau y syrthia iddynt, ac y caiff ei chosbi am danynt trwy ryfeloedd, nis gellir gweled o gwbl yn y byd naturiol, am na welir yn y byd hwnw, ond allanolion, y rhai na chyfansoddant yr Eglwys; ond gwelir hyn yn y byd ysbrydol, lle yr ymddengys mewnolion, y rhai a gyfansoddant yr Eglwys; ac yno pawb a gysylltir a'u gilydd yn ol eu hamrywiol gyflyrau. Y mae gwrthdarawiadau y rhai sydd yn y byd ysbrydol, yn cyfateb i ryfeloedd, y rhai o bob tu a lywodraethir yn gyfatebiaethol gan yr Arglwydd, yn ol ei ddwyfol ragluniaeth."

Y nefoedd a'r ddaear dystiant heddyw yn erbyn Prydain yn ymosod ar y Boer, fel y gellir gweled oddi wrth yr ystyriaethau a ganlyn:—

(1) Ymosodedd Prydain ar bobl yn dadleu yn daer am gyflafareddiad. Dibrisiodd Prydain bob apel am hyn o'r dechreu i'r diwedd, am y gwyddai y cwympai ei hachos yn chwilfriw, yn fwy digywilydd na Dagon o flaen yr Arch, yn unrhyw lys cyfiawn. Ni ddigonid trachwant y Sais nes trawsfeddianu gwlad y Boer, a'r cartrefi wnaeth trwy goncro yr anialwch a'r llewod, wedi i'r Sais hefyd yn flaenorol ei ysbeilio o'r Penrhyn a Natal. Gwinllan Naboth oedd y Gweriniaethau, mwnau aur y *Rand* oedd y winllan; y *Chartered Company* oedd Ahab; Llywodraeth Prydain oedd Jezebel; papyrau, pwlpudau, a chenhadaethau y Jingoes, oedd meibion y fall; ein milwyr oedd y dienyddwyr; a Gair yr Arglwydd yw Elias yn cyhoeddi yr yfir gwaed Ahab a Jezebel gan y cwn (I Bren. xxi, 1-25).

(2) Ymosodedd Prydain ar bobl, gan fathru cyfamodau cysegredig a deddfau rhyngwladwriaethol. *Sovereign States* oedd yr Orange Free State, a'r Transvaal, trwy feddiant gwreiddiol, trwy athrylith y Boer, trwy gytundeb cyfiawn, a thrwy gyfreithiau rhwng y gwledydd, fel nad oedd hawl gan Brydain i ymyraeth a hwynt. Yr ymosodiad a saif yn gofgolofn haerllugrwydd.

(3) Ymosodedd Prydain ar y bobl fwyaf anibynol, er llwyr ddinystrio eu hanibyniaeth. "Yr ydym," meddent, "yn dymuno tywallt ein gwaed dros ein hanibyniaeth." Wrth apelio at Brydain am delerau heddwch, dywedent, "Y mae yn

ddyogel genym fod y Duw gyneuodd fflam aniffoddadwy cariad at ryddid ac anibyniaeth, yn ein henaid, ac yn eneidiau ein hynafiaid, y gwna orphen ei waith ynom ni, ac yn ein holafiaid." Ymosod ar ryddid ac anibyniaeth dynion, yw ymosod ar orseddfainc wen fawr y Dyn Anfeidrol yn yr enaid; ymosodiad hefyd yw ar holl hanfodion llywodraethau y nefoedd. Cydgariad yw yr unig lywodraeth fodola yno, heb draws na thrarglwyddiaeth, ond y mwyaf yn gweini ar y gwanaf. Gwrthdroediaid i'r gwynfydedigion, yw llywodraethwyr gwladol a chrefyddol Prydain.

(4) Ymosododd Prydain ar bobl ragoraf y blaned. Profir hyn gan eu hanes o'r dechreuad, gan dystiolaeth milwyr Prydain, gan eu dewrder di-ildio yn y rhyfel, a'r fath fwyafrif yn eu herbyn, gan eu buddugoliaethau bythgofiadwy, gan eu salmau, eu hymnau, a'u hodlau ysbrydol, gan eu hymostyngiad tawel i'r Duwdod, mewn adfydau, a chan ddatguddiadau rhyfedd yr Ail-ddyfodiad. Hil ferthyrol yr Huguenots ydynt; ac yn ysgrifeniadau Swedenborg, dangosir eu rhagoriaeth yn y nef a'r ddaear newydd. Hwy bia'r *supremacy* yn nhragwyddoldeb. Agosach ydynt at yr orsedd, nag un genedl arall. Preswyliant yn y Dwyrain a'r Deheu, tu draw i'r llen, mewn gwres a goleuni uwchraddol, am eu bod yn fwy agored i'r dylifiadau nefol, nag eraill; am eu bod yn caru arian er mwyn gwaith, ac nid fel y Saeson, yn caru gwaith er mwyn arian; am eu bod mor sefydlog, fel eu gelwir yn *Constances* gan yr angylion; am eu bod yn eithriadau mewn symlrwydd a difrifoldeb, ac yn tra rhagori mewn callineb, doethineb, diweirdeb, a chariad priodasol (gwel "True Christian Religion," n. 800-805; "Last Judgment," n. 48-55). Difrodi y fath ddynion! Lliosoged yr hil fel y tywod, ac fel y ser. Y ser yn eu graddau a ymladdant a'r Saeson. Megis y rhag-ddywedodd Kruger: "Os myn y Saeson ddystrywio y Gweriniaethau, y pris a ddirgryna ddynoliaeth." Rhaid oedd i dragwyddol fydoedd deimlo yr ing, dreiddia yn ol o ddwyreindir gras y nefoedd, yn dragwyddol ddialeddau, trwy deyrnas Prydain Fawr. "Dirgrynu dynoliaeth!"

(5) Ymosododd Prydain ar bobl mor fonedd yn y moddau mwyaf anwraidd ac anwar. Ymosododd dan ddylanwad casineb, trachwant, dialedd, balchder, pomp a bost, gyda phob dichell anghyfiawnder yn y llys, yn y senedd, yn y wasg, yn y pwlpudau, ac yn y cynadleddau, a'r cenhedaethau crefyddol, nes gwneud y trosedd erchyllaf yn barchus a phoblogaidd. Medr Prydain, a phob plaid ynddi, baentio y parddu i liw yr eira purwyn. Wele ymerodraeth fwyaf y byd, yn crynhoi ei holl ymadferthoedd o bob parth, hyd bellderau eithaf y trefedigaethau, i ddifodi ychydig labrwyr a ffermwyr, o rif trigolion

Sir Gaer, gan greulon ryfela, hefyd, yn groes i arfer pob gwlad wareiddiedig, a chroes i reolau Geneva a'r Hague. Daliai Lloegr feddygon ac *ambulances*, er sicrhau angau y clwyfedigion. Dalient ddynion anymladdgar, a gwragedd a phlant, yr oedranus a'r methedig, gan losgi eu tai, a'u newynu. Gwragedd beichiogion a rwygent, treisient hen famau, a mamau ieuainc, a merched, a phlant, gan bery eu marwolaeth. Lladratent eiddo carcharorion rhyfel, a llosgasant bron holl dai y Transvaal a'r Orange Free State. Codent y Kaffirs yn erbyn y Boer. Melldithiodd Prydain y byd, hefyd, ag ysbryd ei galanas; ei gorawydd i oresgyn trwy lofruddiaeth a lladrad, ledodd, ac a lefeiniodd yr holl lywodraethau. Trengodd Victoria dan y farn; a chladdwyd ei gweddillion yn nghanol arddangosfa filwrol, yn ol ei chais, ac yn unol a greddfau y deyrnas,—tarawiadol iawn, gan i'w haul fachludo mewn mor o waed, ac arno wrid fflamiau miloedd o ffermdai Affrica yn goelcerth. Yr ychydig dystient yn erbyn y rhyfel orfodid i dewi yn mhob lle, dan berygl bywyd. Ambell genad hedd yn y pwlpud, yn dadleu dros gyfiawnder a thangnefedd, a fygythid yn dost. Aeth yr holl addoldai yn neuadd y cryfarfog. Arweiniwyd y tyrfaoedd trwy amryfusedd yr anuwiol, yr amryfusedd cadarn, fel y credent y celwydd mai y Boer ddechreuodd y rhyfel yn erbyn Prydain; ond y gwir yw, mai creulon yw ein hanes tuag atynt. Dyoddefasant eu twyllo a'u hysbeilio genym yn Natal a Kimberley. Mor drugarog a maddeugar fuont mewn perthynas i'r Jameson Raid. Pwy ddarlunia eu dirdyniadau o herwydd triciau Cecil Rhodes? Dyfaler ar ddyfeisiau Chamberlain a Milner yn eu marchogaeth, eu cref i herw-hela beiau lle nad oeddynt, eu gallu cynddeiriog i greu y Cordillera o dwmpath y wadd, a'u cyfaredd yn cyfodi y *suzerainty*, ar ol ei gladdu yn gelain farw gan Arglwydd Derby. Gwthiwyd y ddwy Weriniaeth i gyfyngder o'r diwedd—rhaid oedd ymladd neu drengu. Prydain ddechreuodd y rhyfel wrth alw allan y *reserves*, wrth liosogi y milwyr yn Neheudir Affrica, wrth hirio arfogion y trefedigaethau, wrth drefnu lluoedd India i'r greulon gad, ac wrth symud byddinoedd Affrica yn nes i'r terfynau. Dyna paham yr anfonodd Kruger yr *ultimatum*, o gynwys mor deg a dynol, ond a wyrwyd mor gywrain gan ein swyddogion medrus, i osod y bai i gyd ar y Boer. Ond, nid oedd yr *ultimatum* urddasol yn cyhoeddi rhyfel: apel ddifrifol a thoddedig ydoedd, am gyflafareddiad o fewn amser nodedig, ar ol y fath hir a gwatwarus gellwair. Gwrthodwyd, neu anwybyddwyd yr apel, ac ni arosodd y Gweriniaethau i'r "Pirate Empire" gael ei hamser a'i man mwyaf cyfleus i dori eu gyddfau. Yr oedd Prydain fel lladron ffals, wedi gosod yr ysgol ar y ty, a rhai arni yn dringo i

ladd y teulu, a lladrata yr eiddo. Ond cyn fod y lladron wedi dringo i'r ty a dechreu cigyddio, saethodd aelodau y teulu atynt, i'w hatal. Wele y rhyfel wedi dechreu, nid gan y teulu mewn gwirionedd, ond gan y lladron yn dyfod at y ty.

Dyfalais beunydd drwy y rhyfel, ar y bwystfil Prydeinig yn llarpio y Boer; dyfalais yn ngoleu Eglwys Philadelphia, gan ymagor beunydd yn eangach i ddatguddiadau Swedenborg, i hawddgarwch y Dyn Anfeidrol a'i anwyliaid, yn dod i sathru satan dan wadn ei draed.

(6) Cynghrair y Llywodraethau Cristionogol i gysegrysbeilio yr Ymerodraeth Nefolaidd. Cyfenwir y Twrc lofruddiodd ganoedd o filoedd o Armeniaid, yn "*Abdul the Damned*," a'r "*Great Assassin*," ond gwelid fod pwerau unol Ewrop yn ei gefnogi. Yn amser y creulonderau erchyllaf, aeth Ymerawdwr Germani i Constantinople, i siglo llaw y "*Great Assassin*"; ac ysgrifenodd Victoria wedi hyn, lythyr a'i llaw ei hun, i'w longyfarch ar ei orsedd waedlyd. "*Abdul the Damned*" a'r "*Great Assassin*," oedd anwylaf gyfaill y bwystfil Prydeinig yn llarpio y Boer. Ysbryd Abdul, a rhai saith gwaeth, sydd yn y pwerau yn cynghreirio i gysegrysbeilio China, a rhanu yr ymerodraeth nefolaidd rhwng llywodraethau y Mammon uffernol. Cynlluniant yn gyfrwys i osod y Chineaid i ymladd a'u gilydd, er brysio eu goresgyniad, megis y goresgynodd Prydain India, trwy enyn cwerylon y llwythau yn Hindustan, a hudo un o'r llwythau llidiog, i gymeryd help y Sais yn erbyn y llall. Cenhadon y gwahanol enwadau a gynorthwyant y niwed, fel y gwelwyd yn New York yn mis Mai 1900, y cenhadon o'r gwahanol wledydd, yn cydgwrdd mewn ystafell fawr, a banerau eu gwahanol deyrnasoedd ar y muriau, a hwythau yn tynghedu i'w gilydd, i gyhwfanu y cyfryw yn y gwledydd Paganaidd. "Ymgyfrinachasant yn ddichellgar yn erbyn dy bobl, ac ymgynghorasant yn erbyn dy rai dirgel di. Dywedasant, deuwch, a difethwn hwynt, fel na byddont yn bobl; ac na chofier enw Israel mwyach. Canys ymgynghorasant yn unfryd; ac ymwnaethant i'th erbyn" (Salm lxxxiii, 3-5). Arglwydd Salisbury, ac yntau yn Brif Weinidog y Jingoes, a'r gelanedd, a ddywedodd mewn cwrdd cenhadol yn Exeter Hall, fod yr apostolion yn pregethu i'r paganiaid, gan wybod y caent dalu eu penau am ryddid ymadrodd, ond fod y cenhadon yn awr mewn perygl, yn apelio at eu llywodraethau, a'r cyfryw yn llofruddio y paganiaid, a lladrata eu gwlad: fod y cenadwr, nid fel Ioan Fedyddiwr, yn rhagredegydd Efengyl y Tangnefedd, ond yn rhagredegydd y cadfridog a'r cadlongau. Y *Pan African Conference* a ddywed: "Na foed cochl ymgyrch genhadol yn y dyfodol, fel y bu mor aml yn y gorphenol, yn cuddio yr an-

rheithio creulon, a dinystr gwladol cenhedloedd llai gwrteithiedig; a'u prif fai oedd coelio ein geiriau a'n llwon fel Cristionogion." Gwelir y Beibl, y botel, a'r bidog, yn dilyn eu gilydd i bob parth o'r byd, a'r pregethwyr a'r papyrau cyflogedig, yn pardduo y bobloedd ddiniwed, y pwrpasir eu hysbeilio, megis y doraeth am "anwareiddiwch China," "Llygredd llywodraethwyr China," "Barbareiddiwch y Boxers," "Y pwys o bregethu efengyl bur i'r paganiaid." Chwyther ymaith y glaf-oerion ag anadl y gwir, a gwelir y ffeithiau, sef fod Germany, Rwssia, a Lloegr, wedi lladrata porthladdoedd a thiriogaethau China; ac wedi gwthio ar y Chineaid, fasnachau difrodol, gan fygwth, a bwriadu rhwygo, a rhanu yr hen ymerodraeth nefolaidd, rhwng y teyrnasoedd ysbeilgar, nes creu galar, griddfan, a gwae yn mysg y miliwnau llonydd yn y tir, etifeddwyd gan eu tadau, dros lawer cenhedlaeth ac oes. Nid syn fod y Boxers, a'r preswylwyr afrifed, mewn dychrynfeydd, yn ymgynghreirio yn erbyn y "diafliaid estronol." Pe gwelid cydfradwriaeth rhwng Germany, Rwssia, Ffrainc, ac America, i ladrata porthladdoedd a thiriogaethau Prydain, a'n hysbeilio o'n hen gartrefi, Boxer fuasai pob Prydeiniwr, a pharod i golli gwaed er troi y "diafliaid estronol" yn ol. Cenhadon heddwch yw y Chineaid, pe caent lonydd, yn credu mai cydgariad yw sylfaen ddwyfol pob llywodraeth. Ffieiddiant ryfel, a rhyfelwyr, eu concwest, a'u clod. Ymosodiad y teyrnasoedd ar yr ymerodraeth nefolaidd, barodd i mi hiraethu, a gweddio yn daerach yn y goleuni mawr, am ymddangosiad y "March gwyn: a'r hwn sydd yn eistedd arno a elwir Ffyddlawn a Chywir: ac mewn cyfiawnder y mae Efe yn barnu ac yn rhyfela" (Dat. xix, 11).

(7) Rhai o weinidogion yr Eglwys Newydd Weledig yn ymbesgi ar gelanedd diwedd byd. "Pa le bynag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod" (Math. xxiv, 28). Mab y Dyn, a'r holl angylion sanctaidd, a ddysgwyliant i holl weinidogion ac aelodau yr Eglwys Newydd weledig, wrthdystio a chondemnio o'r Gair agored, holl ymgyrchoedd rhyfelgar y byd Cristionogol. Ond, och! ei blaenoriaid a'i haelodau, yn amgen neb, a gefnogant y cyflafanau, fel anturiaethau deheulaw duwiolion, ac mai yr unig berygl ar ol llwyddo yn y lladdfeydd, a'r lladradau, yw, ymffrostio yn hytrach na moli Duw, a difynir y geiriau, er cyfarwyddid: "Eithr pan wnelych di elusen, na wyped dy law aswy, pa beth a wna dy law ddeheu" (Math. vi, 3). Y pwlpudau a'r wasg a adleisiant yn yr Eglwys Newydd, gelwyddau a chableddau newyddiaduron—"*lie factory*" y miliwnariaid. Dywedai A. Spicer, A. S., wrth bleidio brad y Saeson yn y Transvaal, ei fod yn Rhyddfrydwr, Ymneillduwr, ac Anibynwr, ond yn Sais

o flaen pob peth. Saeson o flaen pob peth, yw boneddigion yr Eglwys Newydd; ond nid Sais yw y Dyn Anfeidrol, ac yn Eglwys Philadelphia, nid oes na barbariad na Scythiad, Prydeiniwr na Boer. Synais, a galerais yn fawr, fod Cymry a addefent gariad a gwirionedd y wir Eglwys Newydd, yn poethi wrth bleidio y llofruddion, a'r lladron, a'r llunwyr celwyddau, a hwy eu hunain, trwy gyffelyb foddau, wedi eu hysbeilio o'u gwlad a'u breiniau. Ond gall dyn yn y goleu newydd godi ei ddeall i'r nefoedd ar adegau, tra ei ewyllys yn uffern. Y Cristionogion cyntaf a oddefent eu taflu i'r llewod, yn hytrach na myned yn filwyr i ladd ac ysbeilio. Ond trechaf treisied, yw nod yr eglwysi yn awr,—y newydd fel yr hen; fel y canodd Lloyd Garrison:—

Mae'r Saeson Cristionogol,
A'u *Gatling gun* a'u cledd,
A'u rhengoedd mawr yn gwthio'n mlaen,
Efengyl Brenhin Hedd;
O Affric draw, clyw dwrf y gad,
Ofnadwy helynt blin;
A llawen hela maent ar hyd
Ynysoedd Philipin.

Y cleifion a'r clwyfedig,
A'r lladdedigion gaed,
Yn lluoedd athrist ar bob llaw,
Yn gorwedd yn eu gwaed;
O, llwydda'n harfau, Arglwydd da,
Y goncwest rho i ni,—
Yr un yw gweddi'r ddwyblaid ddig,
Caplaniaid o bob tu.

Y Mahdi mwyn, a'r Sirdar,
Hyd meithder bro Soudan,
Wrth enau'r magnel ddygant zel,
Dros godi'r hil i'r lan (?)
Yr ysbryd hwylia'n ddifeth,
Y saethau'n hofran sy',
A gwlad y Beiblau lawenha,—
I uffern hyrddiwyd llu.

Bendithia'r pwlpud arfau tan,
Moliana waedlyd gad,
Fel, ar ol rhaib Armenia draw,
Cae'r duwiol Dwrc foddhad;

Y wasg grefyddol yn ddi-gel,
Ganmola'r gloew ddur;
Pa wedd, heb gledd, mae cadw trefn,
A rhoi i'r gelyn gur?

Yr hen orchymyn anwyl,
Am godi'r tlawd a'r gwan,
Y ddysg fod ar y ddaear hon,
I'r addfwyn rai, eu rhan;
A ebargofiwyd weithian,
Y cryf sydd yma i fyw,
A grym, nid iawnder, garia'r dydd,
Yw can y Cristion gwiw.

Nid Iesu tlawd a rheidus,
Heb le rhoi'i ben i lawr,
Ymlwybrai trwy Judea'n flin,
Yw'r un addolwn 'nawr;
Ein ceidwad yw ein llynges,
Rhyw Nelson mawr ei barch,
Neu gadfridogion ar y maes,
A byddin wrth eu harch.

Rhyfeddol gyfnewidiad ddaeth,
'Nol llawer canrif faith,—
Rhaid taflu'r Beibl o'r tu cefn,
Tra'r waewffon ar waith;
O, am Fessiah newydd,
I'n grasol arwain ni,—
Rhy hen yw yr efengyl hon,
Ar ysbail i roi bri.

Chwi, filwyr Cristionogol,
Yn mlaen trwy waedlyd for,
Manteision anmhrisiadwy sydd
Tu draw i'r *open door*;
Yr elw ar ein llyfrau,
Orbwysa eu colled hwy:
O, hoeliwch *flag* y *Saxon* fry,
Uwch Croes sydd ddiwerth mwy.

N. R.

Gweled yr Eglwys Newydd mewn enw, yn un a'r "rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi a than a brwmstan; yr hwn yw yr ail farwolaeth" (Dat. xxi, 8),—y pethau hyn

berodd i mi, mewn braw, efrydu yr ysgrifeniadau yn ddwysach, a deisyf dynesiad un o'r saith angel, yr oedd y saith phiol ganddynt, yn llawn o'r saith bla diweddaf, i ymddiddan a mi, a dangos y briodasferch, gwraig yr Oen. "Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu." Amen.

Dyna rai o'r pethau fuont help dirfawr i mi ddeall a derbyn o galon, gynwysiad Llyfrau Emanuel Swedenborg. Cyn terfynu, dywedaf, os na fedr un eu darllen fel llyfrau gweledydd gweledigaethau Duw, darllener hwynt fel gweithiau duwinydd dwfn, neu fel campwaith ar feddyleg, neu fel athroniaeth foesol ddigyffelyb, neu fel gwyddoniadur gwybodaeth gyffredinol, neu fel barddoniaeth mewn rhyddiaith, a'r drychfeddyliau yn cynghaneddu fel cerddoriaeth y wybrenau; neu darllener hwynt fel profiad dyn duwiol, neu fel crynhoad o gywreinion a rhyfeddodau, neu fel rhamantau o'r fath hynotaf. Ni fu llyfrau teilyngach o sylw, yn mhob ystyr; a'r dyn na fedr deimlo dyddordeb ynddynt, drych o dristwch yw edrych arno. Teimladau gonest natur a dderbyniant yn llawen y datguddiadau hyn. Dynion difrifol, sydd a'u bywyd yn athrofa tragwyddoldeb a'u derbyniant yn anwyl. Cofleidier hwynt yn neillduol gan dduwiolion gorthrymedig a blin, er eu gyru yn fwy llwyr at yr Arglwydd; ac hefyd gan rai mwyaf eu pechodau, ac a gawsant fwyaf o faddeuant, neu eu bod yn fwyaf eu cariad, wedi cydio, ac ymwroli yn y gwirionedd, pan mewn anobaith, ac anwylu y gwynfyd, o ganol gwae, am mai y galon yw prif nod y datguddiadau hyn—yn arddangos o'r newydd y galon ddwyfol.

Dywed y Parch. C. E. Pond, gweinidog Anibynol yn Philadelphia, America: "Ddarllenydd anwyl, os oes ynot wir ddymuniad i feddu syniadau rhesymol ac ysgrythyrol am Dduw, am yr Eglwys, ac am ddynion, a phethau yn gyffredinol, rho heibio bob rhagfarn, a darllen a myfyria weithiau Swedenborg. Os wyt yn dymuno meddu a dadblygu cymeriad Cristionogol cyflawn, a'r holl rinweddau yn gyfunol ynddo, rho heibio bob iod a thipyn o'th sectyddiaeth, ac, yn ysbryd plentyn bach, darllen yn ofalus a meddylgar, weithiau Swedenborg. Os mentri edrych i fewn i'th galon dy hun, a gweled pa mor ddrwg, pa mor wan, a pha mor fach ydwyt, darllen Swedenborg. Os ewyllysi wybod pa fath uffern ddychrynllyd yr wyt yn myned iddi, wrth ddilyn tueddiadau hunan, ymostwng, a darllen Swedenborg. Os hoffi gael cipolwg gywir ar y ddoethineb oruchel, ar 'tragwyddol bwys ogoniant,' erys y pur o galon, yna, agor dy galon i'r Arglwydd ar unwaith, a darllen Swedenborg. Os hoffi wybod beth yw marw, a pha fodd y dylit fyw, er marw yn ddedwydd, yna, bydd onest fel myfyriwr o Swedenborg. Os dymuni feddu syniad cywir ac addas am ystyr a

chynwysiad mawr caru Duw a'r holl galon, a'th gymydog fel ti dy hun, yna, gyda gostyngeiddrwydd plentyn, myfyria ysgrifeniadau Swedenborg. Os oes ynot ddymuniad gonest am fod yn well dyn, neu ddynes, nag yr ydwyt yn awr, ni waeth pa mor uchel wyt ger bron Duw a dynion, darllen lyfrau nefolaidd Swedenborg. Os caret gael dy falchder a'th hunanoldeb wedi eu diwreiddio, a'u taflu i'r pedwar gwynt, yna ymostwng, rho heibio bob meddwl am dy alluoedd mawr, a'th ddysg o bob math, a'th barch, a dos yn fyfyriwr gostyngedig o Swedenborg. Os nad oes arnat yn awr ofn edrych i fewn i'th galon dy hun, mewn ymchwil am bechodau dirgel, ac os meddi y gwroldeb i dramwy trwy bob rhan o'th enaid dy hun, a'r lamp oleu yn dy law, i ddal y bai cuddiedig olaf, yna darllen yn ofalus a gweddigar, ysgrifeniadau Swedenborg. Ac os na fedri goelio yn awr fel gwirionedd, yr hyn a ddywedaf am Swedenborg, rho heibio bob pechod gwirfoddol, agor dy galon i'r Arglwydd, a darllen drosot dy hun. Yn olaf, ddarllenydd hoff, os ydwyt yn barod, yn un sydd yn caru yr Arglwydd yn gywir, ac yn ewyllysio gwybod y ffordd oreu i borthi y bywyd mewnol a gwirionedd dwyfol pur, ac ewyllysio gwybod y ffordd oreu i wledda dy enaid mwyaf mewnol a chariad dwyfol pur; ac os oes ynot ddymuniad i adwaen dyfnion bethau Duw; ac os oes ynot ddymuniad i wybod yn llythyrenol a phrofiadol, beth yw bod yn gyfranog o'r Arglwydd; ac os oes ynot ddymuniad i wybod pa fodd i drigo o hyd yn nirgelwch y Goruchaf, ac aros yn nghysgod yr Hollalluog byth mwy,—yna, myfyria yn ddiwyd, ystyr ddwfn ac ysbrydol, Gair yr Arglwydd, fel ei heglurir gan yr Arglwydd ei hun, trwy ysgrifeniadau ei was, Emanuel Swedenborg."

Ar ol myfyrdodau dyddiol, a nefol fwyniant am chwech mlynedd ar hugain yn llyfrau Swedenborg, anghenrhaid yw eu harddel, a gwae fi pe gochelwn y llafur i'w lledu; teimlaf hefyd, na haeddaf ond anwyldeb a pharch pob dyn, os teilwng o anwyldeb a pharch, yw llafur cariad diflino, yn y pethau mwyaf berthynant i anfarwolion—pethau digonol hefyd, os rhaid yw, i gynal yr enaid mewn gorfoledd, er pob gelyniaeth, anfri, a cholled, am eu cyhoeddi; oblegid, gwenau haul y nef yw y goleu, yn nghanol gauaf gerwin pegwn rhewllyd byd ac eglwys. Y Sanctaidd, y Cywir, a chanddo agoriad Dafydd, hefyd a ddywed wrth yr erlidiedig: "Mi a adwaen dy weithredoedd; wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau . . . O achos cadw o honot Air fy amynedd i, minau a'th gadwaf di oddi wrth awr y brofedigaeth, yr hon a ddaw ar yr holl fyd, i brofi y rhai sydd yn trigo ar y ddaear" (Dat. iii, 7-13). Profwyd Anibyniaeth Ceredigion, a'i chyfathrach, yr hon a fynodd y bri o fod yn mlaenaf yn Nghymru, os

nad y byd, i gloi y Dyn Anfeidrol o'i chyfundeb a'i chapelau; a chyda hyny, gloi cyfiawnder, a holl hanfodion yr enwad, allan; yn nghyd a dirwest, a dirgeledigaethau dirifedi yr Ailddyfodiad. Ond pwy genfigena wrth y rhai a ruthrant yn flaenaf i wrthsefyll taranau ei gadernid Ef!!

Y DIWEDD.

YSTALYFERA: E. REES A'I FEIBION, ARGRAPHWYR A CHYHOEDDWYR